Law Commission
Reforming the law
Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Adroddiad Cwmpasu Cyfraith Amaethyddol yng Nghymru

Comisiwn y Gyfraith, Rhif 424

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

Comisiwn y Gyfraith Rhif 424

# Cyfraith Amaethyddol yng Nghymru:

# adroddiad cwmpasu

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: mpsi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: https://lawcom.gov.uk/project/cyfraith-amaethyddol-yng-nghymru/.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@lawcommission.gov.uk.

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Lyfrfa Ei Fawrhydi.

# Comisiwn y Gyfraith

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 at ddiben hyrwyddo diwygio'r gyfraith. Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Fraser, Cadeirydd

Yr Athrawes Alison Young

Yr Athrawes Penney Lewis

Yr Athrawes Solène Rowan

Yr Athrawes Lisa Webley

Prif Weithredwyr Comisiwn y Gyfraith yw Joanna Otterburn a Stephanie Hack.

Mae'r Comisiwn y Gyfraith wedi'i leoli ar Llawr 1af, Tŵr, 52 Queen Anne's Gate, Llundain SW1H 9AG.

Cytunwyd ar delerau'r adroddiad hwn ar 13 Tachwedd 2025. Roedd pob dolen wefan yn gywir ar 4 Chwefror 2026.

Mae testun yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn: https://lawcom.gov.uk/project/cyfraith-amaethyddol-yng-nghymru/.

# Cynnwys

**GEIRFA** 1

**BYRFODDAU** 4

**PENNOD 1: CYFLWYNIAD** 5

Cefndir y prosiect hwn 6

Ystyr cod cyfraith Cymru 9

Problemau gyda'r gyfraith bresennol 12

Ein hadroddiad cwmpasu 13

Cylch gorchwyl 14

Meysydd cyfreithiol nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad 14

Ein dull gweithredu 15

Ymgysylltu â rhanddeiliaid 15

Pwrpas yr adroddiad hwn 16

Strwythur yr adroddiad hwn 18

Y camau nesaf 19

Dolenni gwe a chyfeiriadau 20

Cydnabyddiaethau a diolchiadau 20

Y tîm a fu'n gweithio ar y prosiect hwn 20

**PENNOD 2: Y CYD-DESTUN EHANGACH** 21

Cyflwyniad 21

Hanes datganoli ac amaethyddiaeth yng Nghymru 21

Cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol cyfredol mewn perthynas ag amaethyddiaeth 24

Cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac amaethyddiaeth 24

Cymhwysedd gweithredol mewn perthynas ag amaethyddiaeth 26

Cymhwysedd yr Undeb Ewropeaidd ac amaethyddiaeth 26

Polisi Amaethyddol Cyffredin 26

Deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol i amaethyddiaeth 28

Y DU yn ymadael â'r UE ("Brexit") 28

Cyfraith a gymathwyd 29

Fframweithiau cyffredin 31

Cyfraith ryngwladol 32

Deddfau domestig perthnasol eraill y DU 33
Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 33

Deddfwriaeth gydgysylltiedig sy'n berthnasol yng Nghymru 34
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 34
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 35

Casgliad 36

**PENNOD 3: EIN MEINI PRAWF AR GYFER CYNNWYS YN Y DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL I GYMRU 37**

Cyflwyniad 37

Beth yw cyfraith amaethyddol? 37
Cyfraith amaethyddol: cwmpas ac ystyr 37
Cyfraith amaethyddol: natur ddarniog ar draws deddfwriaeth sy'n deillio o wahanol ffynonellau 39
Gwerslyfr cyfraith amaethyddol - cwmpas, sylwebaeth ac adnoddau eraill 40

Penderfynu ar baramedrau ein hadolygiad 41

Cwmpas cyfraith amaethyddol 41
Meysydd y gyfraith nad ydynt yn rhan o'r corff o gyfraith amaethyddol 41
Ein meysydd ffocws 43
Meysydd y gyfraith y mae ein hadolygiad yn canolbwyntio arnynt 44

Meini prawf ar gyfer cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol 46
Ein maen prawf cyntaf: yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth 47
Ein hail faen prawf: cymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth neu sydd wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth 47
Meini prawf ar gyfer cynnwys: beth mae amaethyddiaeth yn ei olygu? 48
Defnyddio ein meini prawf cynnwys 50

Casgliad: ein dull o sefydlu cwmpas darpar God cyfraith amaethyddol Cymru 51

**PENNOD 4: MATERION CYFFREDINOL SY'N YMWNEUD Â CHODEIDDIO CYFRAITH AMAETHYDDOL 52**

Cyflwyniad 52

Ffermydd trawsffiniol yng Nghymru 52

Hygyrchedd ar-lein 54

Cynulleidfaoedd y darpar God 58

Pwerau galluogi sylfaenol 60
Opsiwn un 62
Opsiwn dau 64
Opsiwn tri 64
Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio 65

Cyfraith a gymathwyd 65

Diffiniadau statudol gwahanol o dermau allweddol: amaethyddiaeth a da byw 70
Hygyrchedd, ehangder a maint y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru 70
Cydgrynhoi a chodeiddio tra bo galwadau am ddiwygio sylweddol 72

**PENNOD 5: Y DEDDFAU AMAETHYDDIAETH 75**

Cyflwyniad 75
Cydgrynhoi a chodeiddio arfaethedig Deddfau Amaethyddol a Deddfau cysylltiedig 76
Y Deddfau Amaethyddiaeth a Deddfau Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 76
Darnau ychwanegol o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth 77
Cyfreithiau sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God 78
Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 78
Deddf Amaethyddiaeth 1970 81
Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 83
Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 84
Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 85
Cyfreithiau sy'n addas dros dro i'w cynnwys yn y darpar God 88
Deddf Amaethyddiaeth 1947 88
Deddf Amaethyddiaeth 1986 92
Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 97
Deddfau Ychwanegol sy'n rhoi swyddogaethau i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth 98
Cyfreithiau sy'n anaddas i'w cynnwys yn y darpar God 100
Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948 100
Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954 102
Materion i'w hystyried neu eu dadansoddi ymhellach 102
Diffiniadau o amaethyddiaeth 102
Adrannau 98 a 99 Deddf Amaethyddiaeth 1947 111
Materion technegol 112
Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979: symleiddio a moderneiddio gofynion gwasanaeth 112
Casgliad 113

**PENNOD 6: DEDDFAU SY'N YMWNEUD Â'R AMGYLCHEDD, ADNODDAU NATURIOL A CHADWRAETH BYWYD GWYLLT A NATUR 115**

Cyflwyniad 115
Cyfreithiau sydd y tu allan i gwmpas y bennod hon 115
Ystyried deddfwriaeth 116
Deddf Adnoddau Dŵr 1991 116
Pennod 2 Rhan 2 Deddf 1991: y drefn tynnu dŵr 121
Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989 122

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 123
Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 126
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 129
Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 133
Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 135
Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a gwarchodfeydd natur 136
Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 ac adran 152 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 138

Materion sy'n haeddu dadansoddiad pellach 138
Cwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru 138
Pwerau galluogi sylfaenol 140

Cynigion i ddiwygio'r gyfraith 141
Adolygiad statudol o Reoliadau CoAP 2021 142

Materion technegol 142
Rhesymoli is-ddeddfwriaeth 142

Casgliad 143

**PENNOD 7: IECHYD A LLES DA BYW 144**

Lles da byw: cwmpas y gyfraith 146
Deddf Lles Anifeiliaid 2006 146
Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 148
Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 150
Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 151
Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 153
Rheoliadau Defnydd Gorfodol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 155
Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 156
Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 157

Deddfwriaeth iechyd anifeiliaid 158
Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 159

Cyfraith iechyd anifeiliaid a gymathwyd 164
Cyfreithiau a gymathwyd sy'n ymwneud â rheoli clefydau anifeiliaid penodol 165
Cyfreithiau a gymathwyd sy’n ymwneud ag adnabod, olrhain a chofrestru da byw 166

Cwmpas y darpar God 168
Opsiwn un: cyfeirio at y gyfraith ar iechyd a lles da byw 169
Opsiwn dau: cynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid a deddfau lles da byw dethol yn y darpar God 170
Opsiwn tri: ehangu cwmpas y darpar God a chynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid 171
Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gennym: opsiwn dau 172

Fframweithiau cyffredin 172

Materion technegol 174

Moderneiddio'r ddyletswydd i adrodd am glefydau anifeiliaid hysbysadwy 174
Diffinio clefydau anifeiliaid hysbysadwy 174
Safoni'r ddyletswydd i hysbysu 176
Rhesymoli'r gyfraith ar adnabod da byw 177

Materion neu feysydd sydd angen eu dadansoddi ymhellach 178
Adolygu pwerau gorfodi 178
Adolygu lefel y dirwyon a roddir am droseddau 179

Cyfreithiau perthnasol eraill 180
Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 180

Casgliad 181

**PENNOD 8: COEDWIGAETH, IECHYD PLANHIGION, AMRYWOGAETHAU PLANHIGION A HADAU 182**

Cyflwyniad 182

Cyfraith Coedwigaeth 185
Deddf Coedwigaeth 1967 ac is-ddeddfwriaeth 185
Rheoliadau Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 190

Cyfraith iechyd planhigion 191
Deddf Iechyd Planhigion 1967 191
Iechyd planhigion: OS 193
Cyfraith iechyd planhigion a gymathwyd: amodau a ffioedd sicrhau iechyd planhigion 194

Cyfraith amrywogaethau planhigion a hadau 196
Cyfraith hawliau bridwyr planhigion 197
Cyfraith cofrestru, ardystio a marchnata 199

Cyfraith gwrychoedd 201
Rheoliadau Gwrychoedd 1997 202

Cwmpas y darpar God 204
Opsiwn un: cyfeirio at gyfraith coedwigaeth, iechyd planhigion a gwrychoedd 205
Opsiwn dau: cynnwys rhai cyfreithiau iechyd planhigion yn y darpar God 206
Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gennym: opsiwn dau 207

Fframweithiau cyffredin, strategaethau a chytundebau 207

Casgliad 209

**PENNOD 9:TENANTIAETHAU AMAETHYDDOL, TAI A RHEOLI TIR 211**

Cyflwyniad 211

Tenantiaethau amaethyddol a daliadau amaethyddol 211
AHA 1986 212
ATA 1995 213

Is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i denantiaethau AHA a thenantiaethau busnesau fferm 213
AHA 1986 ac ATA 1995: meini prawf cynnwys 214

Adrannau 10 ac 11 Deddf Amaethyddiaeth 1947 216
Adrannau 10 ac 11 Deddf Amaethyddiaeth 1947: meini prawf cynnwys 217

Mân-ddaliadau statudol 217
Cyfundrefn mân-ddaliadau statudol: meini prawf cynnwys 218

Ffermio cyfran, ffermio ar gontract a mentrau ar y cyd 219
Ffermio cyfran a threfniadau eraill: meini prawf cynnwys 220

Tai gweithwyr amaethyddol 220
Tai gweithwyr amaethyddol: meini prawf cynnwys 221

Deddfwriaeth gynllunio 221
Deddfwriaeth gynllunio: meini prawf cynnwys 222

Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 222
CROW 2000: meini prawf cynnwys 223

Tir comin 224
Tir comin: meini prawf cynnwys 225

Ffurf a chynnwys y darpar God 228
Cyfeirio 228

Materion y mae angen eu dadansoddi ymhellach 228
Tenantiaethau amaethyddol: galwadau i ddiwygio cyfraith sylwedd 229
Cyfundrefn mân-ddaliadau statudol: galwadau i ddiwygio 230

Materion technegol 232
Mân-ddaliadau statudol: yr eithriad addasrwydd a gwŷr gweddw gwrywaidd 232
Mân-ddaliadau statudol: egwyddorion rheoli ystadau’n dda 233

Casgliad 234

**PENNOD 10: Y GADWYN GYFLENWI 235**

Cyflwyniad 235

Ein dull gweithredu 236

Deddfwriaeth gyffredinol 238
Cyfreithiau contract delio’n deg sy'n ymwneud yn benodol ag amaethyddiaeth 238

Mewnbynnau cynharach: nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i ffermydd da byw 238
Cyfraith plaladdwyr 239
Cyfraith gwrtaith 243
Cyfraith porthiant 246
Cyfraith bridio a ffrwythloni artiffisial 251
Deddfau sootechnegol 253

Deddfau sy'n berthnasol ar ôl y fferm neu drwy gydol y gadwyn gyflenwi 254
Trafnidiaeth 254

Lladd-dai 254
Marchnata 255
Rheolaethau swyddogol 256

Materion cyffredinol 257
Cynulleidfaoedd y darpar God 257
Cymhwyso deddfau drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol 257
Fframweithiau cyffredin 258

Materion y gallai fod angen eu dadansoddi ymhellach 258

Casgliad 259

**PENNOD 11: FFURF, CYNNWYS A DILYNIANNU'R DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL I GYMRU 260**

Cyflwyniad 260

Cynnwys a dilyniannu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru: Deddfau lluosog y Senedd 261
Cam un: darpariaethau deddfwriaethol sylfaenol sy'n addas i'w cynnwys mewn Deddf cydgrynhoi gychwynnol sy'n rhan o'r darpar God 261
Cam dau: cyfraith tenantiaethau amaethyddol 265
Cam tri: iechyd anifeiliaid a lles da byw 267
Cam pedwar: iechyd planhigion, amrywiaethau a hadau 271

Ffactorau perthnasol sy'n hysbysu ffurf, cynnwys a dilyniannu 270

Y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru: y manteision a'r cyfyngiadau 271
Y manteision 271
Cyfyngiadau ein model arfaethedig 276

Casgliadau 277

**PENNOD 12: CRYNODEB O FATERION TECHNEGOL A MATERION I'W DADANSODDI YMHELLACH 279**

Cyflwyniad 279
Ystyr materion technegol 279

Categorïau o faterion technegol i'w hystyried wrth godeiddio cyfraith amaethyddol 280

Meysydd sy'n haeddu ystyriaeth bellach 283
Galwadau i ddiwygio cyfraith sylwedd 283
Materion cyffredinol a sylweddol a allai fod yn deilwng o ystyriaeth neu ddadansoddiad pellach 284

Casgliad 286

**ATODIAD 1: CYLCH GORCHWYL 287**

**ATODIAD 2: RHANDDEILIAID 288**

**ATODIAD 3: DIFFINIADAU O "AMAETHYDDIAETH"** **290**

**ATODIAD 4: DEDDFAU AMAETHYDDIAETH SYDD WEDI'U HEITHRIO O'R DARPAR GOD** **299**

**ATODIAD 5: DEDDFWRIAETH SY'N ADDAS I'W CHYNNWYS YN Y DARPAR GOD** **300**

# Geirfa

**Amaethyddiaeth:** rydym yn mabwysiadu'r diffiniad o amaethyddiaeth a nodir yn adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae adran 51 yn esbonio bod “amaethyddiaeth” yn golygu garddwriaeth, ffermio cnydau âr, ffermio gwartheg godro, cadw a bridio da byw, defnyddio tir fel tir pori, defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth, amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir, tyfu planhigion fel arall i'w gwerthu neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn, a chynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer y gweithgareddau uchod. Ym Mhennod 3 rydym yn egluro pam rydym yn mabwysiadu'r diffiniad hwn.

**Cadwyn gyflenwi:** rhwydwaith o unigolion a sefydliadau sy'n cynhyrchu, prosesu a dosbarthu cynhyrchion i'w gwerthu.

**Cnydau:** planhigyn neu gynnyrch planhigion y gellir ei dyfu a'i gynaeafu er elw.

**Codeiddio:** dosbarthu'r gyfraith ar bwnc penodol, ei dwyn ynghyd mewn cyfres o ddeddfiadau ar wahân sy'n rhan o god cyfreithiol ar y pwnc, cyhoeddi'r ddeddfwriaeth sy'n rhan o'r cod hwnnw gyda'i gilydd a chymryd camau i gadw strwythur y ddeddfwriaeth. Mae'r ystyr a fabwysiadwn ar gyfer yr adroddiad hwn yn gyson â'r ystyr a ddefnyddir yn rhaglen waith ehangach Llywodraeth Cymru ar ddyfodol cyfraith Cymru ac rydym yn egluro hyn ymhellach ym Mhennod 1.

**Confensiwn Sewel:** confensiwn sy'n sefydlu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli heb gytundeb y deddfwrfeydd datganoledig. Rydym yn egluro hyn ymhellach ym Mhennod 2.

**Cwnsler Cyffredinol Cymru:** cynghorwr cyfreithiol Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn ei llysoedd. Mae'n aelod o Lywodraeth Cymru, ac er bod y swydd â statws “gweinidogol”, nid yw'r deiliad yn un o Weinidogion Cymru.

**Cyfeirio:** lle mae tudalen we yn bodoli sy'n cyhoeddi cod cyfraith Cymru ar bwnc penodol, y weithred o ddarparu dolenni at gopïau o ddeddfwriaeth sydd y tu allan i gwmpas y cod, ond a allai fod o ddiddordeb i'w ddarllenwyr.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** y term a ddefnyddir ar gyfer Corff Adnoddau Naturiol Cymru, a sefydlwyd gan erthygl 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, a'i ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.

**Cyfraith a gymathwyd**: cyfraith sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, ond sy'n dal yn rhan o gyfraith ddomestig y DU o ganlyniad i Ddeddf Ymadael Ewrop 2018 a Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

**Cyfraith Cymru:** mae'n cynnwys deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan y Senedd, is-ddeddfwriaeth a ddeddfir o dan bwerau y darperir ar eu cyfer yn Neddfau'r Senedd neu Fesurau'r Cynulliad, unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru, ac unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall i'r graddau y gellid darparu ar ei gyfer mewn

Deddf Senedd Cymru. Rydym yn mabwysiadu'r un ystyr â'r hyn a nodir yn adran 1(3) Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

**Da byw:** anifeiliaid a gedwir i gynhyrchu bwyd, diod, olewau, ffibrau neu ledr, neu i bori tir. Bydd hyn yn cynnwys gwartheg, moch, defaid, dofednod a geifr, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

**Darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru:** datganiad cynhwysfawr o'r deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, a'r gyfraith arweiniol ar amaethyddiaeth. Mae'r ystyr a fabwysiadwn ar gyfer yr adroddiad hwn yn gyson ag ystyr cod cyfraith Cymru fel y cyfeirir ato yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a rhaglen waith Llywodraeth Cymru ar ddyfodol cyfraith Cymru.

**Deddf Llywodraeth Cymru 1998:** sefydlodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff corfforaethol. Cafodd y Cynulliad swyddogaethau gweithredol yr hen Swyddfa Gymreig o dan y Ddeddf honno a swyddogaethau gweithredol dilynol drwy Ddeddfau Seneddol a gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau.

**Deddf Llywodraeth Cymru 2006:** creodd wahaniad ffurfiol rhwng y ddeddfwrfa (y Senedd erbyn hyn) a'r weithrediaeth (Llywodraeth Cymru erbyn hyn). Fe wnaeth hefyd cryfhau pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd erbyn hyn) er mwyn iddo allu pasio deddfwriaeth sylfaenol.

**Deddfwriaeth sylfaenol:** y prif ddeddfau sy'n cael eu pasio gan gyrff deddfwriaethol y DU. Yn yr adroddiad cwmpasu hwn, rydym yn ymwneud â chyfreithiau sy'n cael eu pasio gan Senedd Cymru a Senedd y DU.

**Diffiniad statudol:** diffiniad a geir mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth.

**Ffermwyr:** personau sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n bodloni'r diffiniad o amaethyddiaeth, fel y nodir yn adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Pan fyddwn yn cyfeirio at ffermwyr, mae hyn yn cynnwys garddwyr a gweithwyr eraill yn y sector amaethyddol y deellir bod eu gweithgarwch yn golygu amaethyddiaeth.

**Ffermydd trawsffiniol:** ffermydd, sydd wedi'u lleoli ar y ffin neu'n agos ati, sy'n cynnwys tir yng Nghymru a thir sydd wedi'i leoli yn Lloegr, ni waeth a yw'r tir dan sylw yn pontio'r ffin yn ffisegol. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym Mhennod 4.

**Fframweithiau cyffredin:** mecanwaith i hwyluso dulliau cyffredin rhwng pedair gwlad y DU. Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cytuno ar y fframweithiau hyn ar y cyd.

**Garddwriaeth:** gweithgarwch tyfu planhigion neu dyfu gardd.

**Gweinidogion Cymru:** aelodau Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd penodol o bolisi cyhoeddus a swyddogaeth llywodraeth yng Nghymru.

**Gweinidogion y DU:** aelodau Llywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am feysydd penodol o bolisi cyhoeddus a swyddogaeth llywodraeth yn y DU.

**Hwsmonaeth dda:** rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd tir amaethyddol ffermio'r tir y mae'n ei feddiannu yn unol â safon resymol o reolaeth er mwyn gallu

cynhyrchu'n effeithlon yn y presennol ac yn y dyfodol. Rydym yn ystyried hyn yn fanylach ym Mhennod 9.

**Is-ddeddfwriaeth:** deddfwriaeth ddirprwyedig a wneir gan berson neu gorff sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny mewn deddfwriaeth sylfaenol. Caniateir rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Gweinidogion y DU neu gyrff cyhoeddus.

**Model cadw pwerau:** model sy'n caniatáu i'r Senedd ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol ar faterion nad ydynt wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU. Sefydlodd Deddf Cymru 2017 fodel cadw pwerau ar gyfer datganoli i Gymru. Mae disgrifiad manylach ar gael ym Mhennod 2.

**Pŵer galluogi sylfaenol:** pŵer sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol (boed yn Ddeddf Senedd Cymru neu Senedd y DU) sy'n cael ei roi i Weinidogion (Cymru neu'r DU) neu gorff cyhoeddus.

**Pwerau deddfwriaethol:** pwerau i ddeddfu. Yn yr achos hwn, maen nhw'n nwylo Senedd Cymru a Senedd y DU.

**Pwerau gweithredol:** pwerau sydd gan y llywodraeth (yn yr achos hwn, naill ai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU). Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i gychwyn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

**Rheoli tir yn gynaliadwy:** y fframwaith ar gyfer cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru, wedi'i ategu gan bedwar amcan a nodir yn adran 2 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae'r fframwaith wedi'i ddylunio i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Rheoli ystadau'n dda:** rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i dirfeddiannwr reoli'r tir amaethyddol y mae'n berchen arno i safon sy'n galluogi deiliad y tir sydd â sgiliau rhesymol mewn “hwsmonaeth” i gynnal cynhyrchiant effeithlon. Rydym yn ystyried hyn yn fanylach ym Mhennod 9.

**Senedd:** y corff a etholir yn ddemocrataidd sy'n deddfu dros Gymru (o fewn meysydd pwnc penodol). Fe'i hadwaenir fel Senedd Cymru. Yn yr adroddiad cwmpasu hwn, cyfeiriwn ato wrth ei enw Cymraeg cyffredin, y Senedd.

**Undeb Ewropeaidd:** undeb economaidd a gwleidyddol rhwng 27 o wledydd Ewrop.

# Byrfoddau

**ALT Cymru:** Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

**APHA:** Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

**CAP:** Polisi Amaethyddol Cyffredin

**Deddf 2023:** Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**Defra:** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**EUWA 2018:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**FSA:** Asiantaeth Safonau Bwyd

**FUW:** Undeb Amaethwyr Cymru

**GoWA 1998:** Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**GoWA 2006:** Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**NFU Cymru:** Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru

**NRW:** Cyfoeth Naturiol Cymru

**REULA 2023:** Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

**SSSIs:** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**Tenantiaeth AHA:** tenantiaeth o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986

**UE:** Yr Undeb Ewropeaidd

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Mae amaethyddiaeth yn hanfodol i ddiwylliant, economi ac amgylchedd Cymru. Mae tua 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth.[1] Yn 2022, roedd y sectorau amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth gyda'i gilydd yn cyfrif am 1.8% o gyflogaeth Cymru.[2] Ar ben hynny, cyfrannodd amaethyddiaeth 1.1% at y gwerth ychwanegol gros cenedlaethol i Gymru yn 2023, o'i gymharu â 0.6% at werth ychwanegol gros cenedlaethol y DU.[3]

1.2 Mae amaethyddiaeth hefyd yn gwneud cyfraniad ehangach tuag at dwristiaeth yng Nghymru a sector bwyd a diod y wlad. Mae busnesau ffermio yn cyflenwi'r cynnyrch crai y dibynnir arno gan gadwyn fwyd a chyflenwi Cymru a gynhyrchodd drosiant o £27 biliwn yn 2024.[4] Gan fod y rhan fwyaf o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, mae ffermwyr hefyd yn helpu i gynnal tirwedd gyfoethog y wlad sy'n denu miliynau o ymwelwyr o bob cwr o'r byd bob blwyddyn.[5]

1.3 Ar ben hynny, mae'r sector amaethyddol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynnal “gwead cymdeithasol cymunedau gwledig”.[6] Mae tystiolaeth y sector yn nodi bod cymunedau ffermio yng Nghymru ers tro byd wedi “cefnogi ac atgyfnerthu’r holl agweddau ar wasanaethau gwledig, o sicrhau bod ysgolion, siopau a thafarndai yn aros yn agored, i fod yn gadarnle’r i’r Iaith Gymraeg”.[7] Mae cysylltiad cryf rhwng y Gymraeg ac amaethyddiaeth. Yn 2021, ymddangosodd yr un tair sir - Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion - yn y pum sir uchaf ar gyfer cyfran y boblogaeth a gyflogir

---

1 Llywodraeth Cymru, *Arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth* (Mehefin 2025) https://www.llyw.cymru/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2025-html.

2 Ymchwil y Senedd, “Y Sector Ffermio yng Nghymru, Papur Briffio” (Gorffennaf 2022) https://ymchwil.senedd.cymru/media/o0nbhtpg/22-47-y-sector-ffermio-yng-nghymru.pdf.

3 Llywodraeth Cymru, “Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru yn ôl diwydiant” (2023) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvainwales-by-industry; Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, “Agriculture in the United Kingdom 2023” (Mehefin 2023) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/669e4777ab418ab055592a2c/auk-2023-06jun24iii.pdf.

4 Llywodraeth Cymru, “Gwerthusiad Economaidd o Fwyd a Diod Cymru - 2024” (Gorffennaf 2025) https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/52187_F%26D_Econ%20Ap%202024_C%20FINAL%20WEB.pdf.

5 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (“NFU Cymru”), *Farming – Bringing Wales Together* (Mai 2017) https://www.nfu-cymru.org.uk/media/o2jdr3a/farming-bringing-wales-together.pdf. Yn 2022, cyfrannodd twristiaeth 5.1% o'r gwerth ychwanegol gros cenedlaethol yng Nghymru: Llywodraeth Cymru, “Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024” (Gorffennaf 2024) https://www.llyw.cymru/proffil-economi-ymwelwyr-cymru-2024.

6 Llywodraeth Cymru, “Written Evidence HIL0004 submitted to the House of Commons Welsh Affairs Select Committee” (Medi 2021) https://committees.parliament.uk/writtenevidence/40189/pdf/.

7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, “Written Evidence HIL0003 submitted to the House of Commons Welsh Affairs Select Committee” (Medi 2021) https://committees.parliament.uk/writtenevidence/39591/pdf/.

mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota ac ar gyfer cyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg.[8]

1.4 Mae gan amaethyddiaeth hefyd gysylltiad dwfn a pharhaus â'r amgylchedd, gyda'r sector yn dibynnu ar adnoddau naturiol fel tir, dŵr a phridd. Mae ffermwyr, drwy eu gwaith medrus o drin y tir, yn aml yn cael eu disgrifio fel ceidwaid cefn gwlad Cymru.[9] Fodd bynnag, gall defnydd tir amaethyddol arwain at ganlyniadau cadarnhaol a negyddol i'r amgylchedd. Ar ben hynny, er bod amaethyddiaeth yn agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd, mae'r sector yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr. O ganlyniad, mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol i atal neu leihau niwed i'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

1.5 Yng ngoleuni cyfraniad amlochrog amaethyddiaeth i Gymru, mae'n hanfodol bod y sector yn gallu dibynnu ar fframwaith cyfreithiol clir a chydlynol. Yn unol â hynny, yn yr adroddiad hwn rydym yn archwilio a yw'r corff presennol o gyfreithiau amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru yn addas ar gyfer codeiddio ac, os ydyw, pa ddeddfwriaeth ddylai fod yn rhan glir o'r darpar god cyfraith amaethyddol ar gyfer Cymru ("y darpar God").[10] O ystyried swm y cyfreithiau sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yng Nghymru, rydym hefyd yn ystyried a allai'r darpar God gynnwys nifer o Ddeddfau Senedd Cymru.

1.6 Yn ogystal, rydym yn gwerthuso'r meysydd hynny o'r llyfr statud y mae dadleuon i'w cynnwys yn y darpar God, neu mewn fersiwn ehangach posibl o god o'r fath sy'n cwmpasu'r gyfraith ar bynciau ychwanegol.[11] Lle bo'n berthnasol, rydym hefyd yn ystyried a allai ffurf a chynnwys codau posibl cyfraith Cymru yn y dyfodol ar bynciau eraill o'r gyfraith ddylanwadu ar gynnwys deddfwriaeth o'r fath yn y darpar God.

1.7 Ochr yn ochr â'r materion uchod, rydym yn ystyried a oes problemau technegol gyda deddfwriaeth amaethyddol bresennol a allai olygu bod angen newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith er mwyn llunio darpar God symlach ac wedi'i foderneiddio. Yn olaf, rydym yn ceisio nodi'r materion hynny y gallai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar God.

## CEFNDIR Y PROSIECT HWN

1.8 Ar gais Llywodraeth Cymru, cytunodd Comisiwn y Gyfraith ym mis Ebrill 2024 i gynnal prosiect ar gyfraith amaethyddol yng Nghymru. Mae ein gwaith ar gyfer y prosiect hwn yn dilyn ein hadroddiad cynharach ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng

[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Cyfrifiad 2021* (2021).

[9] Llywodraeth Cymru, "Datganiad Ysgrifenedig: Ffermio yng Nghymru" (Chwefror 2024) https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ffermio-yng-nghymru; a NFU Cymru, *Framing the future for the next generation* (June 2023) https://www.nfu-cymru.org.uk/media/gxdeoifz/nfu-cymru-next-generation-report-final-english.pdf, t 1.

[10] Yn yr adroddiad hwn, rydym naill ai'n cyfeirio at ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn ôl ei deitl (arfaethedig) llawn; neu, er mwyn bod yn gryno, rydym yn cyfeirio ato fel y darpar God.

[11] Er enghraifft, ym Mhenodau 7 ac 8 rydym yn archwilio a ellid dod â chyfreithiau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion at ei gilydd o dan god cyfraith Cymru sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion.

Nghymru (“adroddiad ffurf a hygyrchedd”).[12] Yn yr adroddiad hwnnw, daethom i'r casgliad bod y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru wedi dod yn fwyfwy anodd cael mynediad ati a'i deall; problem, y daethom i'r casgliad, nad yw’n unigryw i Gymru, ond a oedd wedi cael ei gwaethygu gan y broses ddatganoli.[13]

1.9 Nododd ein hadroddiad ffurf a hygyrchedd nifer o ffactorau allweddol sydd wedi cyfrannu at ddiffyg hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.

(1) Mae'r llyfr statud ar gyfer Cymru a Lloegr yn swmpus ac yn parhau i dyfu'n gyflym.

(2) Nid yw'r gyfraith ar bwnc penodol yn tueddu i fod ar gael mewn un lle ond gellir dod o hyd iddi ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

(3) Mae'r gyfraith yn aml yn agored i'w diwygio gan ddeddfwriaeth ddilynol. Gall diwygiadau deddfwriaethol gynnwys diwygiadau nad ydynt yn rhai testunol, sy'n golygu nad yw'r newidiadau perthnasol wedi'u hymgorffori yn nhestun y ddeddfwriaeth ddiwygiedig ei hun ond yn hytrach eu bod wedi'u cynnwys mewn darn ar wahân o ddeddfwriaeth.[14] Mewn achosion o'r fath, mae angen cyfeirio at y ddeddfwriaeth wreiddiol a'r ddeddfwriaeth ddiwygio i ddeall effaith y gyfraith.

(4) Prin yw'r adnoddau sydd ar gael i wneud gwaith i gydgrynhoi'r gyfraith.

(5) Mae setliad datganoli Cymru yn golygu bod y gyfraith sy'n berthnasol i Gymru wedi cael ei gwneud, ac yn parhau i gael ei gwneud, gan Senedd Cymru a Senedd y DU.

(6) Gall y gwahaniaeth cynyddol yn y gyfraith sy'n berthnasol yn Lloegr a'r hyn sy'n berthnasol yng Nghymru ar bynciau datganoledig ei gwneud yn anodd nodi'r union gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.[15]

1.10 Wrth ystyried y materion uchod, gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd polisi codeiddio;[16] dull arloesol o ddeddfu yng Nghymru gyda'r nod o wneud y gyfraith sy’n berthnasol yng Nghymru yn gliriach, yn symlach ac yn haws cael mynediad ati. Fe wnaethom egluro ein gweledigaeth ar gyfer codeiddio yn y termau a nodir isod.

---

12 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366.

13 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraffau 1.19 i 1.26.

14 Weithiau cyfeirir at ddiwygiadau nad ydynt yn rhai testunol a wneir i ddeddfwriaeth fel darpariaethau glosio.

15 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraffau 1.19 i 1.23, 1.26 i 1.27 a pharagraff 2.76.

16 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraff 2.76.

(1) Dylai'r cyrff cyfraith tameidiog presennol sy'n gymwys yng Nghymru, ar gyfer pob pwnc, gael eu hailddatgan o dan un Ddeddf gan y Senedd neu gyfres o Ddeddfau (proses a elwir yn cydgrynhoi).

(2) Ochr yn ochr â'r broses o gydgrynhoi, dylid manteisio ar y cyfle i gyflwyno diwygiadau deddfwriaethol gyda'r nod o wella gweithrediad a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.

(3) Dylai'r Ddeddf gyfunol sy'n deillio o hyn, neu, lle bo'n berthnasol, Deddfau, fod yn god cyfraith ar gyfer pwnc penodol.

(4) Dylai cywirdeb y codau cyfraith sy'n deillio o hynny gael ei ddiogelu gan y cysyniad o "ddisgyblaeth cod" a fyddai'n sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i god cyfraith yn cael eu gwneud i'r cod ei hun ac yn cael eu cynnwys ynddo.[17]

1.11 Yn dilyn hynny, cafodd nifer o'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ffurf a hygyrchedd eu rhoi ar waith drwy Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. O dan adran 2 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol baratoi rhaglen sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer pob tymor Senedd Cymru.[18] Ymhlith materion eraill, rhaid i'r rhaglen honno gynnwys gweithgareddau y bwriedir iddynt:

(1) cyfrannu at broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru; a

(2) chynnal ffurf cyfraith Cymru (wedi iddi gael ei chodeiddio).[19]

1.12 "Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig ar gyfer 2021 i 2026" yw'r rhaglen gyfredol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol o dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("y rhaglen ddiwygiedig ar ddyfodol cyfraith Cymru").[20]

1.13 Mae'r rhaglen honno'n cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godeiddio'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru ac mae'n amlinellu ei gwaith cydgrynhoi a chodeiddio presennol ac arfaethedig. Er enghraifft, mae'r rhaglen yn cyfeirio at waith parhaus i ail-fframio'r fframwaith deddfwriaeth cynllunio presennol yn god syml o gyfraith Cymru: gan weithredu argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru.[21] Ym mis Medi 2025, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil gerbron y Senedd a fydd, os caiff ei ddeddfu, yn sefydlu cod cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio.

1.14 Felly, mae'r adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen waith uchelgeisiol ehangach i ailstrwythuro'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru yn godau cyfraith Cymru ar

---

17 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Berthnasol yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraffau 16.2, 16.8 i 16.9.

18 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), adrannau 2(1) a (2).

19 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), adran 2(3).

20 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-ddiwygiedig-2021-i-2026-html.

21 Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2018) Comisiwn y Gyfraith Rhif 383.

bynciau datganoledig. Mae'n adeiladu ymhellach ar ymdrechion adroddiadau cynharach Comisiwn y Gyfraith sy'n gosod y sylfeini ar gyfer y dull arloesol hwn o ddeddfu yng Nghymru.

## YSTYR COD CYFRAITH CYMRU

1.15 Gellir deall y term "cod cyfraith" mewn sawl ffordd wahanol. Mewn awdurdodaethau cyfraith sifil, mae cod cyfraith yn gasgliad systematig a chynhwysfawr o reolau cyfreithiol a ddeddfir gan ddeddfwrfa i lywodraethu maes penodol o'r gyfraith. Er bod natur cod cyfraith yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol awdurdodaethau cyfraith sifil, bydd model cyfraith sifil ar gyfer cod fel arfer yn darparu ar gyfer egwyddorion cyfreithiol y mae'r llysoedd yn eu cymhwyso i achosion unigol. I'r gwrthwyneb, mae awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn gweithredu ar sail model cyfraith gyffredin. Fel yr eglurwyd yn ein hadroddiad ffurf a hygyrchedd, mae hyn yn golygu bod y gyfraith yn defnyddio:

> cynsail barnwrol a deddfwriaeth i greu cyfraith; mae'r ddeddfwriaeth yn fanwl ac mae dehongli barnwrol ohoni yn canolbwyntio ar bennu'r bwriad deddfwriaethol sy'n sail i'w geiriad..[22]

1.16 Mae'r ymadrodd llaw-fer ar gyfer cod cyfraith - "cod" - hefyd yn cael ei ddefnyddio weithiau i gyfeirio at god ymarfer y gellir ei gyhoeddi o dan bwerau statudol ac a fydd fel arfer yn rhoi arweiniad ar gydymffurfio â'r gyfraith. Un enghraifft yw'r cod ymarfer amaethyddol da, a gyhoeddwyd o dan bwerau y darparwyd ar eu cyfer o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, sy'n rhoi arweiniad ar gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol penodol. Gellir defnyddio'r term "cod" hefyd i gyfeirio at Ddeddf sy'n cynnwys y ddeddfwriaeth sylfaenol ar bwnc penodol. Er enghraifft, gelwir Deddf Dedfrydu 2020 yn God Dedfrydu ac mae'n ddatganiad cynhwysfawr o weithdrefn a chyfraith dedfrydu troseddol.[23]

1.17 Yng nghyd-destun Cymru, mae ystyr penodol i'r term "cod cyfraith". Yn yr adran hon, rydym yn egluro beth mae cod cyfraith Cymru yn ei olygu drwy gyfeirio at Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a rhaglen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar ddyfodol cyfraith Cymru.

1.18 Mae cod cyfraith Cymru yn ddatganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol ar bwnc datganoledig penodol.[24] Mae "cyfraith Cymru" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru ac sy'n cael ei llunio yn y drefn honno gan y Senedd a Gweinidogion Cymru.[25] Er mai dim ond yng Nghymru y mae cyfraith Cymru yn berthnasol, mae'n rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, fel y byddai unrhyw god cyfreithiol ar bwnc datganoledig.

---

22 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraff 2.9.

23 Deddf Dedfrydu 2000, adran 1.

24 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraffau 23 a 24; Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024), paragraff 24.

25 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran A2.

1.19 Ni fwriedir i god cyfraith Cymru fod yn offeryn cyfreithiol ffurfiol ynddo'i hun.[26] Yn hytrach, byddai cod cyfraith Cymru:

> yn gyffredinol yn cael ei chyhoeddi unwaith y bydd rhywfaint neu'r cyfan o'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar bwnc penodol wedi'i chydgrynhoi, neu wedi'i chreu o'r newydd yn dilyn diwygio eang.[27]

1.20 Yn gyffredinol, mae cydgrynhoi yn golygu dod â chyfreithiau tameidiog ar bwnc penodol at ei gilydd mewn un Ddeddf neu gyfres o Ddeddfau cysylltiedig, gan ymgorffori unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth wreiddiol ers iddi gael ei deddfu a moderneiddio'r iaith, yr arddull ddrafftio a'r strwythur.[28] Mae rheolau sefydlog y Senedd yn nodi'r diwygiadau i ddeddfwriaeth y gellir eu cyflwyno drwy Ddeddf cydgrynhoi gan y Senedd.[29] Mewn cymhariaeth, mae Deddf Senedd Cymru sy'n diwygio'n eang yn un sy'n disodli'r gyfraith bresennol â fframwaith cyfreithiol gwahanol sy'n seiliedig ar amcanion polisi newydd.

1.21 Gall cod cyfraith Cymru gynnwys sawl Deddf Senedd Cymru. Mae hyn yn golygu y gall y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rhan o god cyfraith Cymru fod ar ffurf un neu fwy o Ddeddfau cydgrynhoi'r Senedd, un neu fwy o Ddeddfau'r Senedd sy'n diwygio'n eang, neu gymysgedd o Ddeddfau a Deddfau cydgrynhoi sy'n diwygio'n eang.

1.22 Gall darpariaethau Deddf ei gwneud yn gwbl glir y bydd y Ddeddf yn ffurfio rhan o god cyfraith Cymru ar bwnc penodol. Er enghraifft, mae adran 1 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn datgan bod y Ddeddf "yn rhan o god cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru".[30]

1.23 Ochr yn ochr â dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer pwnc, bydd creu cod cyfraith Cymru fel arfer yn golygu proses o resymoli'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer y pwnc hwnnw.[31] Gallai hyn olygu ailddatgan yr is-ddeddfwriaeth ar bwnc penodol mewn set newydd o offerynnau statudol Cymreig. Fel arall, gallai olygu dirymu'r offerynnau statudol dan sylw a deddfu offerynnau statudol newydd yng Nghymru sy'n diwygio'r gyfraith dan sylw yn gyfan gwbl. Er enghraifft, mae pum set o reoliadau a luniwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i gyd yn cynnwys darpariaethau sy'n cadarnhau bod y rheoliadau'n "rhan o god cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru."[32]

---

26 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraff 24.

27 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraff 23.

28 Gweler y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraff 21 a Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraff 2.7.

29 Senedd Cymru, *Rheolau Sefydlog Senedd Cymru* (Ionawr 2026), Rheol Sefydlog 26C.

30 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (dsc 3), adran 1.

31 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraff 23.

32 Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024, OS 2024/932 (Cy 156); Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024, OS 2024/930 (Cy 155); Rheoliadau Henebion Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2024, OS 2024/929 (Cy 154); Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024, OS 2024/927 (Cy 153); a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2024, OS 2024/926 (Cy 152).

1.24 Gyda'i gilydd, mae'r broses o ddatblygu cod cyfraith Cymru yn golygu dod â'r gyfraith ar bwnc datganoledig at ei gilydd mewn casgliad ar wahân o ddeddfiadau y nodir eu bod yn rhan o god cyfraith Cymru ar y pwnc hwnnw. Ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei dwyn ynghyd o dan god cyfraith Cymru, mae'r cwestiwn yn codi ynghylch sut mae'r cyhoedd yn cael gafael ar gynnwys cod ac yn ei ddeall fel rhan o god cyfraith Cymru.

1.25 Mae'r nodiadau esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn egluro y bydd y deddfiadau sy'n rhan o god cyfraith ar bwnc penodol ar gael gyda'i gilydd. Mater i Lywodraeth Cymru yw'r modd y cyhoeddir codau cyfraith Cymru. Fodd bynnag, rydym yn deall y bydd y ddeddfwriaeth sy'n rhan o god cyfraith Cymru yn cael ei chyflwyno gyda'i gilydd ac y bydd ar gael drwy dudalen we.[33]

1.26 Er y bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol, efallai na fydd yn bosibl nac yn ymarferol i god gwmpasu'r holl ddeddfwriaeth ar y pwnc perthnasol. Er enghraifft, fel yr eglurir gan Lywodraeth Cymru, "dim ond i faterion sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y gall y broses godeiddio fod yn berthnasol."[34] Hyd yn oed pan fydd pwnc penodol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, efallai y bydd elfennau o'r gyfraith ar y pwnc hwnnw sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl ac a fyddai felly y tu allan i unrhyw god cyfraith ar y pwnc hwnnw.

1.27 Fodd bynnag, gall yr adnodd cyfeirio helpu mewn amgylchiadau o'r fath. Gallai tudalen we sy'n cyhoeddi cod cyfraith Cymru ar bwnc penodol "gyfeirio" darllenwyr at y cyfreithiau hynny sydd y tu allan i'r cod, ond a allai fod yn berthnasol serch hynny. Pan fyddwn yn defnyddio'r term "cyfeirio" drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud hynny yn unol â'r ystyr a nodir yn y paragraff hwn.[35]

1.28 Unwaith y bydd y gyfraith ar bwnc wedi'i threfnu'n god cyfraith Cymru, bydd y drefn a gyflawnir drwy godeiddio yn cael ei chadw.[36] Mae hyn yn golygu, pan fydd angen diwygio Deddf sy'n rhan o god cyfraith Cymru, y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r Ddeddf ei hun yn hytrach na gwneud Deddf newydd sy'n bodoli ochr yn ochr â hi. Felly, mae'r dull hwn o ddiwygio deddfwriaeth yn helpu i sicrhau bod strwythur cod cyfraith Cymru dan sylw yn cael ei gynnal.[37]

1.29 Gyda'i gilydd, bydd trefnu'r gyfraith ar bwnc datganoledig yn god cyfraith Cymru yn sicrhau ei bod yn haws cael mynediad at y ddeddfwriaeth dan sylw. Mae cyflwyno diwygiadau sydd â'r nod o foderneiddio a symleiddio'r gyfraith hefyd yn golygu y gellir deall a chymhwyso'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cod cyfraith Cymru

---

33 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru, *Adroddiad ar Fil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)* (Tachwedd 2025), paragraff 267.

34 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio* (Hydref 2019), paragraff 103.

35 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae ystyr "cyfeirio" yn yr adroddiad hwn yn wahanol i'r dechneg ddeddfwriaethol o ddefnyddio adrannau trosolwg mewn Deddfau i gyfeirio at gyfreithiau sy'n rhan o fframwaith neu gyd-destun deddfwriaethol ehangach.

36 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024), paragraff 24.

37 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024), paragraff 24.

yn haws. Yn bwysig, bydd deddfwriaeth sy'n dod o fewn cod cyfraith Cymru yn cael ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg,[38] gan gyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg: *Cymraeg 2050*.[39] Rydym yn trafod manteision penodol sefydlu cod cyfraith amaethyddol i Gymru ym Mhennod 11.

## PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH BRESENNOL

1.30 Dros amser, mae'r corff o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru wedi dod yn swmpus, yn gymhleth ac, mewn mannau, yn anodd ei ddeall. Yn yr un modd â'r gyfraith sy'n berthnasol yn Lloegr, nid yw cyfraith amaethyddol yng Nghymru wedi'i nodi mewn un lle. Yn hytrach, mae wedi'i gwasgaru ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyfraith sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd ond sydd bellach yn rhan o'n cyfraith ddomestig. Yn wir, mae ein hadolygiad o gyfraith amaethyddol at ddibenion yr adroddiad hwn wedi cynnwys ystyried tua 150 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol yng Nghymru. Adroddir bod swm tebyg o ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r sector amaethyddol yn Lloegr ac yn ei reoleiddio.[40]

1.31 Yn ein hadroddiad ffurf a hygyrchedd, daethom i'r casgliad bod “natur a phroses datganoli” wedi gwaethygu diffyg hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.[41] Rydym o'r farn bod hyn yr un mor wir mewn perthynas â chyfraith amaethyddol.

1.32 Mae datganoli yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru y grym i gyflawni polisïau a chyfreithiau sydd wedi'u teilwra i broffil ac anghenion unigryw sector amaethyddol Cymru. Mae hyn yn golygu bod y gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr yn parhau i wyro oddi wrth ei gilydd wrth i'r llywodraethau perthnasol ddilyn polisïau amaethyddol unigryw. O ganlyniad, mae'r deddfau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru yn cynnwys deddfwriaeth sy'n cael ei deddfu gan Senedd Cymru ac ar wahân gan Senedd y DU. Ar ben hynny, mae nifer o ddarpariaethau yn Neddfau Senedd y DU sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol, ac sydd wedi cael eu diwygio fel eu bod yn gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer Cymru neu Loegr. Gall Deddfau Senedd y DU hefyd gynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig neu, fel arall, nad ydynt yn gymwys i Gymru o gwbl.

1.33 Ar ben hynny, mae'r gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei deddfu gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion y DU neu, mewn rhai achosion, cyfuniad o'r ddau. Gall is-ddeddfwriaeth hefyd gael ei

---

38 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraff 23.

39 Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* (2017) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf.

40 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, “Understanding and improving farming regulation” (Mawrth 2022) https://defrafarming.blog.gov.uk/2022/03/02/understanding-and-improving-farming-regulation/; Adolygiad Arolygu a Rheoleiddio Ffermydd, *Interim report* (July 2018), atodiad 4; Dan Corry, *Delivering economic growth and nature recovery: An independent review of Defra’s regulatory landscape* (Ebrill 2025), t 36.

41 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraff 1.26.

diwygio'n aml. Gall yr is-ddeddfau hynny sy'n gymwys i Gymru a Lloegr hefyd gynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru mewn ffordd wahanol i Loegr neu ddarpariaethau sy'n gymwys i un wlad yn unig ac nid i'r llall.

1.34 Yn rhannol oherwydd y diwygiad tameidiog hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, mae'n fwyfwy anodd nodi'r union ddarpariaethau cyfreithiol sy'n berthnasol yng Nghymru - hyd yn oed i weithwyr cyfreithiol proffesiynol profiadol. Mae hefyd yn golygu y gall fod yn heriol nodi sut mae cyfrifoldeb gweithredol dros amaethyddiaeth yn cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

1.35 Ar ben hynny, mae deddfwriaeth a ddeddfir gan y Senedd ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mae cyfreithiau sy'n cael eu deddfu gan Senedd y DU ar gael yn Saesneg yn unig; mater o arwyddocâd penodol i'r 43% o weithwyr yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota sy'n siarad Cymraeg.[42]

1.36 Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r gyfraith sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru hefyd yn cwmpasu cyfraith sy'n deillio o'r UE ac sydd bellach yn rhan o'n cyfraith ddomestig fel cyfraith a gymathwyd ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae Pennod 2 yn ystyried sut mae aelodaeth y DU o'r UE, a phenderfyniad y DU i adael yr UE, wedi dylanwadu ar ddatblygu cyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru. Mewn llawer o achosion, bydd y cyfreithiau a gymathwyd sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru wedi cael eu diwygio i sicrhau bod y cyfreithiau hynny'n gallu parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE. O ganlyniad, yn aml mae angen darllen y cyfreithiau hynny a gymathwyd ochr yn ochr ag offerynnau statudol eraill er mwyn deall effaith y gyfraith.

1.37 Yn ogystal, mae'r gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru yn dyddio'n ôl mewn rhai achosion i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, mewn mannau, mae'n defnyddio iaith hen ffasiwn. Mae achosion hefyd lle nad yw deddfwriaeth amaethyddol o bosibl yn adlewyrchu arferion ffermio modern nac amcanion polisi cyfredol yn y cyd-destun amaethyddol. Ar wahân, rydym hefyd o'r farn bod cyfraith amaethyddol yn gorff o gyfraith heb gwmpas y cytunwyd arno'n gyffredin nac yn gyffredinol. Yn wir, mae toreth o ddeddfwriaeth - yn enwedig deddfwriaeth sy'n cyflawni amcanion amgylcheddol - sy'n berthnasol yn ymarferol i'r sector amaethyddol, ond hefyd i sectorau eraill ac mewn cyd-destunau ehangach nad ydynt yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth.

1.38 Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau uchod yn golygu ei bod yn anodd pennu ffiniau cyfraith amaethyddol a nodi a deall ymhellach effaith cyfraith o'r fath fel mae'n berthnasol yng Nghymru.

## EIN HADRODDIAD CWMPASU

1.39 Fel yr esbonnir ar ein gwefan, mae prosiectau a gyflawnir gan Gomisiwn y Gyfraith fel arfer yn symud ymlaen drwy gamau penodol.[43]

---

42 Llywodraeth Cymru, *Amaethyddiaeth yng Nghymru* (2019) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/amaethyddiaeth-yng-nghymru-tystiolaeth.pdf.

43 Comisiwn y Gyfraith, “Amdanom ni” https://lawcom.gov.uk/amdanom-ni/.

1.40 Adroddiad cwmpasu yw hwn, a gyhoeddir ar ddiwedd cam cwmpasu. Yn ystod cam cwmpasu, rydym yn cynnal ymchwil manwl i faes yn y gyfraith i ganfod problemau posibl gyda'r gyfraith ac atebion posibl i'r materion hynny. Er nad yw cam cwmpasu fel arfer yn cynnwys ymgynghori, byddwn yn siarad â rhanddeiliaid i brofi a datblygu ein dealltwriaeth o'r maes cyfreithiol sy'n cael ei adolygu.

1.41 Gan mai adroddiad cwmpasu yw hwn nad yw wedi dilyn ymgynghoriad ffurfiol,[44] nid ydym yn gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer diwygio deddfwriaeth amaethyddol yn sylweddol yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, nid ydym yn argymell diwygiadau deddfwriaethol a fyddai'n golygu newidiadau i'r polisi amaethyddol sy'n sail i'r gyfraith. Yn yr un modd, nid ydym yn argymell diwygiadau i'r gyfraith a fyddai'n golygu newidiadau i hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol arwyddocaol sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol. Yn hytrach, fel y trafodir ymhellach isod, rydym yn archwilio'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn ystyried sut y gellid symleiddio a moderneiddio'r ddeddfwriaeth honno drwy ddatblygu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

1.42 Mewn rhai achosion, bydd cam cwmpasu prosiect yn cael ei ddilyn gan gamau prosiect ychwanegol a allai gynnwys ymgynghori, datblygu polisi a chyhoeddi adroddiad terfynol sy'n gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer diwygio'r gyfraith. Fodd bynnag, ni fydd pob prosiect yn symud ymlaen drwy bob cam. Mewn rhai achosion, lle mae adroddiad cwmpasu wedi cael ei gyhoeddi, efallai y bydd y llywodraeth berthnasol yn penderfynu bwrw ymlaen â'r materion a nodir yn yr adroddiad ei hun heb fod angen i Gomisiwn y Gyfraith wneud rhagor o waith ar y mater. Neu, efallai y bydd y llywodraeth berthnasol yn penderfynu mynd i gyfeiriad gwahanol i'r hyn a amlinellir mewn adroddiad cwmpasu, gan ddileu'r angen am y camau dilynol.

## CYLCH GORCHWYL

1.43 Mae ein cylch gorchwyl ar gyfer y prosiect wedi'i nodi'n llawn yn Atodiad 1. I grynhoi, gofynnwyd i ni adolygu cyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru a nodi'r ddeddfwriaeth y dylid ei dwyn ynghyd o dan y darpar God. Diben codeiddio cyfraith amaethyddol fel hyn fyddai symleiddio, moderneiddio a gwella hygyrchedd y gyfraith yn y maes hwn fel arall.

1.44 Fel rydym yn ei amlinellu uchod, mae cwmpas ein gwaith hefyd yn cynnwys nodi materion technegol a allai olygu bod angen newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith er mwyn moderneiddio a symleiddio deddfwriaeth amaethyddol yn y darpar God.

1.45 Rydym hefyd yn tynnu sylw at y materion hynny a allai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar God.

## MEYSYDD CYFREITHIOL NAD YDYNT WEDI'U CYNNWYS YN EIN HADOLYGIAD

1.46 Fel rydym yn egluro uchod, bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc datganoledig penodol. Fodd bynnag, fel y rhagwelodd Llywodraeth Cymru: “dim ond i faterion sy'n dod o fewn cymhwysedd

44 Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid fel y trafodir ym mharagraffau 1.48 i 1.50.

deddfwriaethol y Senedd y gall y broses godeiddio fod yn berthnasol."[45] Yn unol â hynny, nid yw ein hadroddiad yn archwilio cyfreithiau sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl fel treth.[46] Er enghraifft, nid yw ein hadroddiad yn ystyried y gyfraith ar dreth etifeddiant a rhyddhad cysylltiedig fel rhyddhad eiddo amaethyddol.

## EIN DULL GWEITHREDU

1.47 Er mwyn llywio ein gwaith, rydym wedi cynnal adolygiad manwl a threfnus o'r cyfreithiau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Er mwyn penderfynu ar y cyfreithiau rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God, rydym yn defnyddio meini prawf cyson i asesu addasrwydd (fel rydym yn ei drafod ymhellach ym Mhennod 3). Yn gyffredinol, mae ein meini prawf ar gyfer cynhwysiant yn cynnwys ystyried pwnc y gyfraith sy'n cael ei hadolygu a sut mae'n cael ei gymhwyso'n ymarferol i sector amaethyddol Cymru. Lle bo modd, rydym yn dibynnu ar wybodaeth ystadegol a ffynonellau gwybodaeth awdurdodol eraill, gan gynnwys arbenigedd allanol, wrth wneud yr asesiadau hyn. Rydym hefyd yn archwilio'n feirniadol unrhyw feysydd o'r gyfraith sy'n ymddangos i ni fel rhai arbennig o anhygyrch neu sydd angen eu symleiddio neu eu moderneiddio fel arall.

## YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

1.48 Cynhaliwyd yr adroddiad cwmpasu hwn heb ymgynghoriad ffurfiol. Ein tasg fu cynnal ymchwil ragarweiniol i faes cyfreithiol gyda'r bwriad o bennu cwmpas y darpar God. Fel rydym yn egluro uchod, nid ydym yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith sylwedd. Felly, mae ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn wahanol i'r gwaith a wnaed ar gyfer adroddiad terfynol ar ddiwygio'r gyfraith a fyddai'n cynnwys ymgynghoriad ffurfiol ac argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith yn sylweddol.

1.49 Serch hynny, wrth weithio ar yr adroddiad cwmpasu hwn, rydym wedi siarad ag amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau sydd ag arbenigedd neu ddiddordeb yn y maes hwn i helpu i lywio ein dealltwriaeth o gyfraith amaethyddol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd â gwahanol randdeiliaid gan gynnwys ffermwyr unigol, elusennau, ymarferwyr cyfreithiol, cyrff rheoleiddio, aelodau o'r farnwriaeth, academyddion, cyrff cyhoeddus, undebau a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli'r sector amaethyddol a sectorau cysylltiedig.[47] Rydym hefyd wedi elwa o drafodaethau gydag amrywiaeth o dimau polisi yn Llywodraeth Cymru.

1.50 Ochr yn ochr â chwrdd â rhanddeiliaid unigol, roedd aelodau o dîm y prosiect yn bresennol yn y digwyddiadau canlynol i drafod ein gwaith.

(1) Cwrs agoriadol Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol ar gyfraith amaethyddol yng Nghymru yn 2024.

---

45 Llywodraeth Cymru, *Dogfen Ymgynghori Dyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio* (Hydref 2019), paragraff 103.

46 Er bod treth wedi'i chadw'n ôl i Senedd y DU yn gyffredinol, mae trethi penodol wedi'u datganoli i Gymru; Deddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 15 o Atodlen 7A.

47 Mae rhestr o randdeiliaid i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad cwmpasu hwn. Yn yr atodiad hwnnw, rydym yn rhestru'r rhanddeiliaid hynny sydd wedi cydsynio i gael eu henwi.

(2) Sioe Frenhinol Cymru yn 2024.

(3) Cynhadledd Cyfraith Wledig Cymru yn 2024.

(4) Cynadleddau Cymru'r Gyfraith yn 2024 a 2025.

(5) Cyfarfodydd Pwyllgor Cynghori Cymru drwy gydol 2024 a 2025.

(6) Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn 2025.

## PWRPAS YR ADRODDIAD HWN

1.51 Yn 2011, daeth adroddiad annibynnol cynhwysfawr ar reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru, adroddiad *Hwyluso'r Drefn*, i'r casgliad:

> Yr un gwendid mwyaf ar draws llywodraeth ac asiantaethau wrth geisio sicrhau gwell rheoleiddio yw methu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol. [...] Mae rheoliadau sy'n ymwneud â ffermio yn niferus ac yn aml yn gymhleth, sy'n cyflwyno her gyfathrebu sylweddol.[48]

1.52 Gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yw nod craidd codeiddio. Mae hygyrchedd yn y cyd-destun hwn yn golygu i ba raddau y mae'r gyfraith yn glir, wedi'i threfnu'n rhesymegol, yn gyfredol, yn hawdd ei deall, yn sicr o ran ei heffaith ac ar gael yn rhwydd (yn Gymraeg ac yn Saesneg).[49] Nod cod cyfraith Cymru yw bod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol a gyhoeddir gyda'i gilydd. Gall cydgrynhoi deddfwriaeth hefyd gynnwys gwneud addasiadau technegol i'r gyfraith nad ydynt yn newid ei heffaith gyfreithiol, ond sy'n gwella eglurder a chyflwyniad y gyfraith ac yn ei gwneud yn haws ei deall. Felly, mae sefydlu'r darpar God yn gyfle pwysig i wella'r broses o gyfleu'n glir y gofynion, y safonau a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth amaethyddol. Yn y pen draw, credwn y gellir cyflawni hyn drwy ddod â deddfwriaeth amaethyddol bresennol at ei gilydd mewn cod cyfraith amaethyddol dwyieithog wedi'i foderneiddio a'i symleiddio ar gyfer Cymru.

1.53 I'r perwyl hwnnw, mae'r adroddiad cwmpasu hwn yn archwilio'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru i benderfynu pa gyfreithiau y gellid eu dwyn ynghyd o dan y darpar God. Ar ôl cynnal yr archwiliad hwnnw, yr ydym o'r farn y byddai'n ymarferol dod â'r cyfreithiau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru ynghyd i ffurfio cod cyfraith amaethyddol symlach a modern i Gymru.

1.54 O ganlyniad, mae Pennod 11 yn darparu rhestr o'r ddeddfwriaeth amaethyddol graidd rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys mewn Deddf gychwynnol gan y Senedd sy'n rhan o'r darpar God. Mae'r rhain yn ddarpariaethau sydd wedi'u gwasgaru ar draws o leiaf naw Deddf wahanol, gan gynnwys Deddfau Senedd y DU a Deddfau Senedd Cymru. Rydym hefyd yn nodi darpariaethau ar draws chwe darn o ddeddfwriaeth sylfaenol arall a allai, yn ein barn ni, gael eu cynnwys yn yr un Ddeddf cydgrynhoi

[48] G Williams, *Hwyluso'r Drefn: Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio* (Rhagfyr 2011).

[49] Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), adran 1(2).

gychwynnol gan y Senedd, yn amodol ar faterion ar wahân y mae angen eu hystyried ymhellach.

1.55 O ystyried nifer y cyfreithiau sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru, rydym yn awgrymu y gallai'r darpar God gynnwys mwy nag un Ddeddf Senedd Cymru yn synhwyrol, gyda phob un wedi'i nodi i fod yn rhan o'r darpar God. Mae Pennod 11 yn nodi trefn gwaith posibl a fyddai'n golygu dod â phynciau darnau eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol sydd eisoes yn bodoli o fewn cwmpas y darpar God.

1.56 Mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth, rydym yn nodi o leiaf 69 o wahanol offerynnau statudol rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God. Mewn rhai achosion, rydym yn cynnig y gellid ailddatgan offerynnau sy'n ymwneud â'r un pwnc, neu faterion pwnc tebyg, mewn un offeryn statudol Cymreig i leihau maint a chymhlethdod cyffredinol y fframwaith cyfreithiol presennol.[50]

1.57 Ar ben hynny, rydym yn tynnu sylw at gyfleoedd posibl i dacluso'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu amaethyddiaeth drwy nodi'r darpariaethau cyfreithiol hynny nad ydynt bellach yn ymddangos o ddefnydd, effaith na gwerth ymarferol. Gan nad yw ein gwaith wedi cynnwys cam ymgynghori, rydym yn cydnabod y gellir ystyried bod angen rhagor o waith neu ymgysylltu i gadarnhau a yw darpariaethau o'r fath yn barod i'w diddymu mewn gwirionedd.

1.58 Ar ôl nodi'r ddeddfwriaeth rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God, rydym o'r farn y byddai creu darpar God yn symleiddio, yn moderneiddio ac yn gwella hygyrchedd y gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru. Ym Mhennod 11, rydym yn crynhoi'r manteision rydym yn credu y byddai codeiddio yn eu sicrhau, gan gydnabod cyfyngiadau posibl ein model arfaethedig ar gyfer y darpar God.

1.59 Ar ben hynny, rydym yn amlinellu enghreifftiau o faterion technegol a fyddai'n golygu newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith er mwyn symleiddio deddfwriaeth amaethyddol yn god cyfraith Cymru. Er enghraifft, rydym yn nodi lle gallai geiriad deddfwriaeth elwa o newidiadau i egluro effaith bresennol y gyfraith. Mewn achosion eraill, rydym yn nodi darpariaethau deddfwriaethol a allai elwa o foderneiddio i adlewyrchu sut mae'r gyfraith yn gweithredu'n ymarferol. Cyflwynir crynodeb o'r materion technegol rydym wedi'u nodi ym Mhennod 12.

1.60 Yn olaf, yr ydym yn ymwybodol bod galw yn y sector amaethyddol am adolygiad annibynnol o'r "baich cronnus a'r fiwrocratiaeth sy'n wynebu'r sector amaethyddol".[51] Fel rydym yn ei amlinellu uchod, mae ein hadroddiad yn ymwneud â gwella hygyrchedd y gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru drwy'r broses o gydgrynhoi, ailddatgan a chodeiddio.

1.61 Mae penderfyniadau ynghylch a ddylai gweithgareddau penodol neu ddefnydd tir yn y cyd-destun amaethyddol fod yn destun rheoleiddio fel arfer yn benderfyniadau polisi a allai, yn dibynnu ar y pwnc, gael eu llywio orau gan gyngor gwyddonol cadarn. Bydd cyfreithiau sy'n rheoleiddio amaethyddiaeth fel arfer yn gosod rheolau neu fesurau

50 Gweler Pennod 6 ym mharagraffau 1.138 i 1.139 a Phennod 7 ym mharagraffau 1.161 i 1.164.

51 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, *Welsh farming: Growing forward Senedd Election Manifesto* 2026 (Mehefin 2025); ac Undeb Amaethwyr Cymru, *Tir Teulu Treftadaeth Sefyll yn Gadarn dros Ffermydd Teuluol Maniffesto Senedd 2026* (Medi 2025).

gorfodol i'w dilyn neu safonau i'w cyflawni. Bydd y graddau y mae unrhyw ofynion deddfwriaethol o'r fath yn rhagnodol, yn llym neu'n anhyblyg eu natur hefyd yn cael eu llywio, yn rhannol o leiaf, gan ystyriaethau sy'n seiliedig ar bolisi.[52] Nid yw ein cylch gorchwyl yn cynnwys gwneud cynigion nac argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith a fyddai'n golygu newidiadau i'r polisi sy'n sail i gyfraith amaethyddol. Yn unol â hynny, nid yw ein hadroddiad yn ystyried newidiadau i'r gyfraith a allai ddod o fewn y categorïau uchod.

## STRWYTHUR YR ADRODDIAD HWN

1.62 Mae'r adroddiad cwmpasu hwn wedi'i rannu'n 12 pennod. Mae Pennod 2 yn ystyried y cyd-destun ehangach y mae ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi digwydd ynddo. Rydym yn archwilio'r cyd-destun hanesyddol ynghyd ag effeithiau datganoli yng Nghymru a pholisi'r UE ar ddatblygu'r gyfraith yn y maes hwn. Rydym hefyd yn tynnu sylw at gyfreithiau eraill a allai ddylanwadu ar y broses o godeiddio cyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru.

1.63 Mae Pennod 3 yn nodi ein dull o benderfynu a yw deddfwriaeth yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r meini prawf arweiniol rydym wedi'u mabwysiadu i helpu i benderfynu a yw deddfiad yn addas i'w gynnwys yn y darpar God.

1.64 Mae Pennod 4 yn ystyried materion cyffredinol sy'n rhychwantu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth dan sylw. Mae rhai materion rydym wedi'u nodi yn cynnwys sut mae mynd ati i godeiddio cyfreithiau a allai fynnu neu elwa o ddiwygio sylweddol, ac ar wahân sut gallai'r diffiniadau statudol amrywiol o amaethyddiaeth effeithio ar hygyrchedd y darpar God. Rydym yn codi'r materion hyn oherwydd eu bod yn rhan bwysig o'r dirwedd ac yn aml yn codi cwestiynau anodd wrth ystyried a ddylai cyfraith benodol fod yn rhan o'r darpar God.

1.65 Mae Penodau 5 i 9 yn ymdrin â meysydd penodol o'r gyfraith sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Ar gyfer pob un o'r penodau hyn, rydym yn nodi'r gyfraith berthnasol ac yn ystyried a yw'r cyfreithiau hynny'n addas i fod yn rhan o'r darpar God.

(1) Pennod 5: Deddfau Amaethyddiaeth a Deddfau eraill sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

(2) Pennod 6: cyfreithiau sy'n berthnasol i amaethyddiaeth ac sy'n ymwneud â'r amgylchedd a bywyd gwyllt.

(3) Pennod 7: cyfreithiau sy'n llywodraethu iechyd a lles da byw.

(4) Pennod 8: cyfreithiau coedwigaeth, iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion.

[52] Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, *Dulliau rheoleiddio sy'n seiliedig ar nodau ac sy'n seiliedig ar reolau* (Mai 2018) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/714185/regulation-goals-rules-based-approaches.pdf, tt 28 i 40.

(5) Pennod 9: cyfreithiau sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol, tai a datblygu tir mewn cyd-destun amaethyddol.

1.66 Ym mhob un o'r penodau uchod, rydym yn amlinellu materion technegol a allai ofyn am newidiadau neu addasiadau i'r maes cyfraith amaethyddol dan sylw ac yn darparu enghreifftiau dangosol o faterion o'r fath.

1.67 Ym Mhennod 10, rydym yn ystyried ble i osod ffiniau'r darpar God o ran y cyfreithiau sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi a chynhyrchu amaethyddol.

1.68 Ym Mhennod 11, rydym yn nodi'r cyfreithiau rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God a threfn bosibl ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â sefydlu'r darpar God. Rydym yn edrych ar fanteision a chyfyngiadau ein model arfaethedig ar gyfer y darpar God.

1.69 Mae Pennod 12 yn crynhoi'r materion technegol rydym wedi'u nodi drwy gydol yr adroddiad hwn ac yn rhoi cyd-destun i'r hyn mae'r term "materion technegol" yn ei olygu yng nghyd-destun sefydlu'r darpar God. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o faterion allweddol ychwanegol a allai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach yn y cyd-destun hwn.

1.70 Mae'r papur hwn hefyd yn cynnwys 5 atodiad.

(1) Mae Atodiad 1 yn nodi ein cylch gorchwyl.

(2) Mae Atodiad 2 yn rhestru'r rhanddeiliaid rydym wedi ymgysylltu â nhw.

(3) Mae Atodiad 3 yn rhestru amrywiol ddiffiniadau statudol o'r term "amaethyddiaeth".

(4) Mae Atodiad 4 yn rhestru'r darpariaethau statudol hynny a gynhwysir mewn Deddfau a archwilir ym Mhennod 5 yr ydym o'r farn eu bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

(5) Mae Atodiad 5 yn rhestru'r cyfreithiau ychwanegol rydym wedi'u nodi fel rhai sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## Y CAMAU NESAF

1.71 Mater i Lywodraeth Cymru yn awr yw ystyried canfyddiadau ein hadroddiad cwmpasu. O dan y Protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, bydd Gweinidogion Cymru yn darparu ymateb interim i adroddiad i'r Comisiwn cyn gynted â phosibl, a beth bynnag o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad oni chytunir fel arall gyda'r Comisiwn.[53] Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu ymateb llawn cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymateb interim a beth bynnag o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad, oni chytunir fel arall gyda'r Comisiwn.

---

[53] Protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith (Gorffennaf 2015) https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/54/2015/07/Law_Commission_Welsh_Protocol.pdf.

## DOLENNI GWE A CHYFEIRIADAU

1.72 Mae'r holl ddolenni gwe a chyfeiriadau at ddogfennau wedi cael eu gwirio ac maent yn gywir ar 4 Chwefror 2026.

## CYDNABYDDIAETHAU A DIOLCHIADAU

1.73 Rydym yn ddiolchgar i'r holl unigolion a sefydliadau sydd wedi rhoi o'u hamser i drafod y prosiect hwn gyda ni. Rydym wedi elwa'n sylweddol o'r arbenigedd a'r profiad y maent wedi'u rhannu'n hael â ni.

1.74 Hoffem ddiolch hefyd i Gymdeithas y Gyfraith Amaethyddol am hwyluso ein hymgysylltiad â'u haelodau yng nghynhadledd flynyddol Cyfraith Wledig yng Nghymru yn 2024.

## Y TÎM A FU'N GWEITHIO AR Y PROSIECT HWN

1.75 Hoffai'r Comisiynwyr gofnodi eu diolch i'r aelodau staff canlynol a fu'n gweithio ar yr adroddiad hwn: Henni Ouahes (rheolwr tîm Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru); Laura Jones (cyfreithiwr y tîm); Georgina Withers-Boalch (cynorthwyydd ymchwil) ac Emma-Jane Harris (cynorthwyydd ymchwil).

# Pennod 2: Y cyd-destun ehangach

## CYFLWYNIAD

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y cyd-destun hanesyddol a deddfwriaethol y mae'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru wedi datblygu ynddo. Mae'n archwilio sut mae polisi'r UE a phroses datganoli yng Nghymru wedi dylanwadu a siapio'r mosaig bresennol o gyfreithiau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r pwerau datganoledig deddfwriaethol a gweinyddol presennol sydd ar gael mewn perthynas ag amaethyddiaeth. Mae rhan olaf y bennod hon yn ystyried cyfreithiau eraill a allai ddylanwadu ar y broses o sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru a'i siapio.

## HANES DATGANOLI AC AMAETHYDDIAETH YNG NGHYMRU

2.2 Disgrifiwyd datganoli pwerau i Gymru yn gofiadwy fel "proses, nid digwyddiad".[1] Ers yr ugeinfed ganrif, mae'r pwerau sydd wedi'u datganoli i Gymru wedi ehangu'n raddol ond yn gyson.

2.3 Cafwyd rhywfaint o ddatganoli gweinyddol yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ar draws nifer o feysydd polisi gan gynnwys addysg, iechyd ac amaethyddiaeth.[2] Yn 1912, cafodd Cyngor Amaethyddol Cymru ei greu, ac roedd ei gylch gwaith yn ymwneud ag addysg amaethyddol yn unig.[3] Cafodd rhagor o bwerau gweinyddol eu datganoli wedyn ym 1919 drwy greu adran Gymreig o'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.[4]

2.4 Yn 1951, creodd llywodraeth Winston Churchill Weinyddiaeth Materion Cymreig. Arweiniwyd y Weinyddiaeth gan Weinidog Materion Cymreig a ymgymerodd â rôl lysgenhadol, yn hytrach nag arfer unrhyw bwerau gweithredol mewn perthynas â Chymru.[5]

2.5 Yn dilyn hynny, cafodd Swyddfa Gymreig ei chreu yn 1964. Roedd y Swyddfa dan arweiniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru a oedd yn arfer pwerau gweithredol mewn perthynas â llywodraeth leol, trafnidiaeth ffyrdd, cynllunio, iechyd ac amaethyddiaeth.[6] Yn dilyn argymhellion Comisiwn Kilbrandon yn 1973 i greu cyrff etholedig ar gyfer Cymru a'r Alban, pasiwyd Deddf Cymru 1978.[7] Roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer

---

1 Cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, R Davies, "Devolution: A Process Not an Event" (1999).

2 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 223.

3 Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, adran Cymreig, "Ministry of Agriculture and Fisheries: Welsh Department Correspondence and Papers" (1912 i 1956) https://discovery.nationalarchives.gov.uk/details/r/C10471.

4 T G Watkin, *The Legal History of Wales* (2il argraffiad 2012) t 191.

5 Hansard (HC), 13 Tachwedd 1951, cyf 493, col 49.

6 T G Watkin, *The Legal History of Wales* (2il argraffiad 2012) t 192.

7 Report of the Royal Commission on the Constitution (1973) Cmnd 5460.

Cynulliad Cymru ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal refferendwm ôl-ddeddfwriaethol i gymeradwyo dod â'r Ddeddf i rym. Cynhaliwyd y refferendwm ar 1 Mawrth 1979, gyda mwyafrif yn pleidleisio yn erbyn cynigion ar gyfer Cynulliad Cymreig.[8]

2.6 Yn ystod y 1980au a'r 1990au, cafwyd galwadau cynyddol am ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru. Cynhaliwyd refferendwm ar greu sefydliad datganoledig yng Nghymru ar 18 Medi 1997. Gyda phleidlais fwyafrifol o blaid datganoli, deddfodd Senedd y DU Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a sefydlodd Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"). Ni allai'r Cynulliad wneud deddfwriaeth sylfaenol na chodi refeniw drwy drethi. Fodd bynnag, gallai benderfynu sut y byddai'r refeniw a geir o San Steffan yn cael ei wario yng Nghymru.

2.7 Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 hefyd yn caniatáu trosglwyddo swyddogaethau gweithredol o Weinidogion y DU i'r Cynulliad. Roedd cyfres o orchmynion yn trosglwyddo ystod eang o swyddogaethau i'r Cynulliad, gan gynnwys pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth fel rheoliadau a gorchmynion. Ar ôl trosglwyddo pwerau o'r fath, deddfodd y Cynulliad is-ddeddfwriaeth yn ymwneud ag ystod o feysydd polisi gan gynnwys cyfreithiau sy'n effeithio ar y sector amaethyddol yng Nghymru.[9]

2.8 Yn 2002, sefydlwyd y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Comisiwn Richard"). Yn ei adroddiad yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard y dylid gwahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa a datganoli pwerau deddfu sylfaenol i Gymru.[10] Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GoWA 2006").

2.9 Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa yng Nghymru yn ffurfiol. Sefydlodd y Cynulliad fel y corff deddfwriaethol.[11] Sefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd Lywodraeth Cynulliad Cymru (bryd hynny) fel endid ar wahân a oedd yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Fel y weithrediaeth, daeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am bolisi, gwneud penderfyniadau a llunio is-ddeddfwriaeth.[12]

2.10 Trosglwyddwyd swyddogaethau gweithredol a freiniwyd gynt yn y Cynulliad hefyd i Weinidogion Cymru. Arferodd Gweinidogion Cymru'r pwerau newydd hyn i ddeddfu rhagor o is-ddeddfau sy'n effeithio ar y sector amaethyddol yng Nghymru. Mae

8 O ganlyniad i'r refferendwm, ni ddaeth darpariaethau gweithredol Deddf Cymru 1978 i rym erioed a diddymwyd y Ddeddf gan Orchymyn Deddf Cymru 1978 (Diddymu) 1979, OS 1979/933.

9 Cafodd Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2001, OS 2001/343 (Cy 15) eu deddfu o dan bwerau a roddwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 a'u trosglwyddo wedyn i'r Cynulliad drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672.

10 Argymhellodd Comisiwn Richard hefyd y dylid cynyddu nifer aelodau'r Cynulliad.

11 Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 1, daeth bodolaeth y Cynulliad, a oedd yn bodoli dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i ben, sy'n golygu nad oedd y Cynulliad bellach yn gorff corfforaethol gyda phwerau deddfwriaethol a gweithredol.

12 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 45.

enghreifftiau'n cynnwys Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007[13] a Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc (Cymru) 2008 (rheoleiddio llosgi mathau penodol o lystyfiant ar dir gwledig).[14]

2.11 O dan GoWA 2006, gallai'r Cynulliad lunio deddfwriaeth sylfaenol, ar ffurf Mesurau'r Cynulliad. Gallai Mesurau'r Cynulliad wneud darpariaeth sy'n ymwneud â materion sy'n dod o fewn meysydd polisi penodedig a elwir yn "feysydd datganoledig".[15] Ychwanegwyd materion i'r meysydd datganoledig fesul tipyn. Gwnaethpwyd hyn drwy gyfrwng offerynnau statudol a elwir yn orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol.[16] Gallai Deddfau Senedd y DU ddatganoli pwerau deddfu sylfaenol mewn meysydd polisi ychwanegol i'r Cynulliad hefyd.

2.12 Yn 2009, ychwanegwyd y diwydiant cig coch fel pwnc datganoledig i faes datganoledig "amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig".[17] Yn fuan wedyn, deddfodd y Cynulliad Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 sy'n ceisio datblygu a hyrwyddo'r diwydiant cig coch yng Nghymru.[18]

2.13 Ar 4 Mawrth 2011, cynhaliwyd trydydd refferendwm ynghylch a ddylid ymestyn pwerau deddfu sylfaenol y Cynulliad. Pleidleisiodd 63.5% o bleidleiswyr o blaid rhagor o ddatganoli. Yn dilyn canlyniad y bleidlais, rhoddwyd pwerau i'r Cynulliad basio deddfwriaeth sylfaenol, ar ffurf Deddfau Cynulliad, sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r materion datganoledig a restrir yn Atodlen 7 i GoWA 2006. Roedd hyn yn cael ei alw'n gyffredin fel y model rhoi pwerau ar gyfer datganoli.

2.14 Roedd y materion datganoledig y gallai'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â hwy yn cynnwys:

> Amaethyddiaeth, gan gynnwys iechyd a lles anifeiliaid. Iechyd planhigion. Amrywogaethau planhigion a hadau. Garddwriaeth. Pysgodfeydd. Iechyd pysgod. Coedwigaeth. Datblygu gwledig.[19]

2.15 Rhestrwyd amrywiol faterion fel eithriadau i bwnc datganoledig amaethyddiaeth gan gynnwys, er enghraifft, hela gyda chŵn, ac awdurdodi meddyginiaethau milfeddygol neu gynnyrch meddyginiaethol. Roedd yr eithriadau hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2.16 O dan y model rhoi pwerau, deddfodd y Cynulliad ddarn arall o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y cyd-destun amaethyddol: Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Sefydlodd y Ddeddf honno Banel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru y mae ei gylch

---

13 OS 2007/3070 (Cy 264).

14 OS 2008/1081 (Cy 115).

15 Rhestrwyd y meysydd datganoledig perthnasol, a'r materion sy'n dod o fewn y meysydd hynny, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 5.

16 Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2015) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 223.

17 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2009, OS 2009/1758.

18 Gweler y Nodiadau Esboniadol i Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (mccc 3), paragraff 5.

19 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7.

gwaith yn cynnwys gwneud argymhellion ynghylch yr isafswm cyflog sy'n daladwy i weithwyr amaethyddol yng Nghymru.

2.17 Yn *Attorney General v Counsel General for Wales*, edrychodd y Goruchaf Lys ar bwerau'r Cynulliad i ddeddfu Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.[20] Ar ôl canfod bod gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i basio'r Ddeddf, penderfynodd y Goruchaf Lys y dylai pwnc datganoledig amaethyddiaeth:

> gael ei ddeall mewn ystyr ehangach, sef dynodi diwydiant neu weithgarwch economaidd amaethyddiaeth yn ei holl agweddau, gan gynnwys busnes ac elfennau cyfansoddol eraill y diwydiant hwnnw, fel ag y mae ar gyfer y pwnc ehangach hwnnw y cyfeirir gweithgarwch deddfwriaethol ato.[21]

2.18 Cafodd pwerau deddfwriaethol pellach eu datganoli i Gymru yn 2014 o dan Ddeddf Cymru 2014. Rhoddodd Deddf Cymru 2014 argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Ddatganoli i Gymru (a elwir hefyd yn Gomisiwn Silk) ar waith, gan gynnwys datganoli rhai trethi i'r Cynulliad. Roedd Deddf 2014 hefyd yn ailenwi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r rhaniad pwerau rhwng y weithrediaeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.19 Y Ddeddf fawr nesaf i ehangu datganoli yng Nghymru oedd Deddf Cymru 2017, a oedd yn diwygio GoWA 2006 drwy sefydlu setliad datganoli newydd i Gymru: y model cadw pwerau (a drafodir ymhellach ym mharagraffau 2.21 i 2.26 isod). Sefydlodd Deddf Cymru 2017 sail gyfansoddiadol newydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, gan ei gwneud yn nodwedd barhaol o gyfansoddiad y DU.

2.20 Cafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei gydnabod fel Senedd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Newidiodd y Ddeddf enw'r Cynulliad Cenedlaethol i Senedd Cymru (“y Senedd”) i adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel Senedd.

## CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL A GWEITHREDOL CYFREDOL MEWN PERTHYNAS AG AMAETHYDDIAETH

### Cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac amaethyddiaeth

2.21 Y Senedd yw'r corff deddfu etholedig yng Nghymru. Mae cymhwysedd deddfwriaethol yn cyfeirio at bwerau'r Senedd i basio deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phynciau neu feysydd polisi penodol, fel amaethyddiaeth. Mae GoWA 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, yn rhoi pwerau deddfu i Senedd Cymru. Sefydlodd Deddf Cymru 2017 fodel cadw pwerau ar gyfer datganoli i Gymru, gan ddisodli'r model rhoi pwerau blaenorol.

2.22 Mae'r model cadw pwerau yn caniatáu i'r Senedd ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol, a elwir yn Ddeddfau'r Senedd, ar unrhyw fater nad yw wedi'i gadw'n ôl i Senedd y DU. Nid yw amaethyddiaeth yn fater a gedwir yn ôl ac felly mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hyn yn golygu y gall y Senedd ddeddfu deddfwriaeth

---

[20] *Attorney General for England and Wales v Counsel General for Wales* [2014] UKSC 43, [2014] 1 WLR 2622.

[21] *Attorney General for England and Wales v Counsel General for Wales* [2014] UKSC 43, [2014] 1 WLR 2622 at [49].

sylfaenol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, ac yn wir mae wedi gwneud hynny drwy ddeddfu Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Deddf sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru.[22] Gall Senedd Cymru hefyd ddeddfu cyfreithiau sy'n addasu Deddfau Senedd y DU i'r graddau y mae'r gyfraith yn gymwys i Gymru a lle mae'r addasiadau hynny'n ymwneud â phynciau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.[23]

2.23 Ochr yn ochr â materion a gedwir yn ôl, mae cyfyngiadau eraill ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Er enghraifft, ni all y Senedd ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[24]

2.24 Nid yw setliad datganoli Cymru yn cyfyngu ar bŵer Senedd y DU i ddeddfu ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, ni fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu ar fater datganoledig heb gydsyniad y Senedd. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan GoWA 2006, sy'n cyfeirio at Gonfensiwn Sewel.[25]

2.25 Mabwysiadwyd Confensiwn Sewel fel ffordd o sefydlu perthynas gydweithredol rhwng Senedd y DU a'r llywodraethau datganoledig.[26] Mae'r confensiwn yn sefydlu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli heb gytundeb y deddfwrfeydd datganoledig.

2.26 Ategir Confensiwn Sewel gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2013 ar ddatganoli. Nid yw'r memorandwm yn rhwymo mewn cyfraith. Mae'n ddatganiad o fwriad gwleidyddol o ran yr egwyddorion sy'n sail i'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig: Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. O ran cymhwysedd deddfwriaethol, mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ddatganoli yn amlinellu bod:

> y Deyrnas Unedig yn cadw'r awdurdod i ddeddfu ar unrhyw fater pa un a yw wedi'i ddatganoli ai peidio. Yn y pen draw, Senedd y DU sydd i benderfynu pa ddefnydd i'w wneud o'r pŵer hwnnw. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen yn unol â'r confensiwn na fyddai Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig ac eithrio gyda chytundeb y ddeddfwrfa ddatganoledig.[27]

---

22 Llywodraeth Cymru, "Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy" (Tachwedd 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-cyflwynor-fframwaith-rheoli-tir-gynaliadwy.pdf.

23 Fodd bynnag, ni all Senedd Cymru addasu rhai Deddfau Senedd y DU sy'n cael eu diffinio fel deddfiadau gwarchodedig: Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B.

24 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 108A(2).

25 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 107(6); *R (Miller) v Secretary of State for Exiting the European Union* [2017] UKSC 5.

26 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, "The Sewel Convention and legislative consent" (Awst 2025) https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8883/, 8.

27 Swyddfa'r Cabinet, "Devolution: Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements" (Hydref 2013) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7e2e6ce5274a2e87db0159/MoU_between_the_UK_and_the_Devolved_Administrations.pdf, paragraff 14.

Os yw Senedd y DU yn dymuno deddfu mewn maes datganoledig, yna, yn unol â chonfensiwn Sewel, gofynnir am gydsyniad y Senedd fel arfer.[28]

### Cymhwysedd gweithredol mewn perthynas ag amaethyddiaeth

2.27 Mae nifer o Ddeddfau Senedd y DU sy'n rhoi swyddogaethau statudol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth y gall Gweinidogion Cymru eu harfer. Mewn llawer o achosion, cafodd y swyddogaethau statudol hynny eu rhoi'n wreiddiol i Weinidogion y DU a'u trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru i'r graddau y mae'r swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru.[29]

2.28 Mewn rhai achosion, mae swyddogaethau statudol Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth wedi'u cynnwys mewn Deddfau Senedd y DU sy'n cyfeirio'n benodol at amaethyddiaeth neu ffermio yn y teitl. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, Deddf Amaethyddiaeth 1947 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Fel y nodir gan eu teitlau, mae'r Deddfau hyn yn tueddu i fod â chylch gwaith sy'n ymwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl ag amaethyddiaeth.

2.29 Mae Deddfau eraill Senedd y DU sy'n ymwneud â gwahanol bynciau sydd hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio'r sector amaethyddol yng Nghymru. Er enghraifft, mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 - Deddf sy'n ymwneud yn bennaf â rheoli dŵr fel adnodd naturiol - yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru y dibynnir arnynt i ddeddfu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.[30]

2.30 Mae Deddfau'r Senedd hefyd yn rhoi swyddogaethau statudol i Weinidogion Cymru. Er enghraifft, mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru.[31]

## CYMHWYSEDD YR UNDEB EWROPEAIDD AC AMAETHYDDIAETH

### Polisi Amaethyddol Cyffredin

2.31 Y Polisi Amaethyddol Cyffredin ("CAP") yw polisi strategol yr UE ar amaethyddiaeth sy'n berthnasol i holl aelod-wladwriaethau'r UE. Cafodd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ei greu o dan Gytuniad cyntaf Rhufain yn 1957.[32] Fe'i hariennir o adnoddau cyllideb yr UE a dyma bolisi hynaf yr UE.[33]

---

[28] Senedd Cymru, "Cydsyniad Deddfwriaethol" https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/cydsyniad-deddfwriaethol/. Gweler hefyd Reol Sefydlog 29 sydd wedi'i chynnwys yn "Rheolau Sefydlog Senedd Cymru" (Ionawr 2025).

[29] Mae swyddogaethau o'r fath wedi'u trosglwyddo drwy orchmynion trosglwyddo swyddogaethau a darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11, paragraff 30.

[30] OS 2021/77 (Cy 20).

[31] Diffinnir amaethyddiaeth yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 51 a diffinnir gweithgareddau ategol yn adran 52 y Ddeddf honno.

[32] Gweler Cytuniad Rhufain (fersiwn wedi'i chydgrynhoi 2002), OJ C 325, 24.12.2002, erthyglau 38 i 47.

[33] Eur-Lex, "Summaries of EU Law: Agriculture" https://eur-lex.europa.eu/summary/chapter/03.html.

2.32 Ymunodd y DU â'r CAP pan ddaeth yn aelod o'r Gymuned Economaidd Ewropeaidd (“CEE”) ym 1973. Ar ôl i'r DU adael yr UE, nid yw'r DU bellach yn ddarostyngedig i'r PAC.

2.33 Ers ei sefydlu, mae'r CAP wedi cael cyfres o ddiwygiadau i adlewyrchu diddordebau cymdeithasol ac amcanion polisi sy'n esblygu.

2.34 Nodir amcanion y CAP ar ei ffurf fodern isod.

(1) Cynyddu cynhyrchiant amaethyddol drwy hyrwyddo cynnydd technegol a sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r ffactorau cynhyrchu, yn enwedig llafur.

(2) Sicrhau safon byw deg i ffermwyr.

(3) Sefydlogi marchnadoedd.

(4) Sicrhau bod cyflenwadau ar gael.

(5) Sicrhau prisiau rhesymol i ddefnyddwyr.[34]

### Colofnau 1 a 2 y CAP

2.35 Heddiw, mae amcanion y CAP yn cael eu cyflawni drwy ddau bolisi ariannol cyffredinol, y cyfeirir atynt fel “Colofn 1” a “Colofn 2”.

2.36 Colofn 1 yw system taliadau'r CAP sy'n darparu cymhorthdal incwm uniongyrchol i ffermwyr yn yr UE. Mae Colofn 2 y CAP yn bolisi ariannol sy'n hybu buddsoddiad mewn cymunedau gwledig.

2.37 O dan Golofn 1, mae ffermwyr sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd penodol yn cael incwm uniongyrchol drwy gynllun cymorth ariannol.[35] Yn y DU, gelwir y cynllun hwn yn “Gynllun Taliad Sylfaenol”. O dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, mae ffermwyr yn cael taliadau yn ôl nifer yr hectarau o dir sy'n cael ei ffermio.

2.38 Er mwyn bod yn gymwys i gael taliad o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, rhaid i ffermwyr gydymffurfio â safonau penodol a elwir yn “drawsgydymffurfio”.

2.39 Mae safonau trawsgydymffurfio yn perthyn i ddau gategori: gofynion rheoli statudol ac amodau amaethyddol ac amgylcheddol da. Gofynion deddfwriaethol yw gofynion rheoli statudol sy'n rheoleiddio materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion ac iechyd pobl. Mae amodau amaethyddol ac amgylcheddol da yn set o safonau ar gyfer arferion ffermio sydd, yn gyffredinol, yn ceisio hyrwyddo cynaliadwyedd mewn amaethyddiaeth.[36]

---

34 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (Fersiwn wedi'i chydgrynhoi 2012) OJ C 326/63, 26.10.2012, erth 39.

35 Fel y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad y DU (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

36 Y Comisiwn Ewropeaidd, “Good agricultural and environmental conditions” https://knowledge4policy.ec.europa.eu/glossary-item/good-agricultural-environmental-conditions.

2.40 Gall methu â chydymffurfio â safonau trawsgydymffurfio arwain at ostyngiad yn y taliadau a dderbynnir o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, neu mewn achosion difrifol, at ddileu'r holl daliadau.

2.41 Er bod y DU wedi gadael yr UE, mae ffermwyr yng Nghymru yn parhau i dderbyn cyllid dan Gynllun y Taliad Sylfaenol.[37] O 1 Ionawr 2026 ymlaen, bydd system gyllido newydd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru fel y trafodir ym mharagraffau 2.47 i 2.48 isod: y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fydd yn cynnwys rheolaethau rheoleiddio tebyg i drawsgydymffurfio o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol.

### Deddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol i amaethyddiaeth

2.42 Mae Colofn 1 a Cholofn 2 y CAP yn cael eu rhoi ar waith drwy set o reoliadau'r UE. Yn ogystal, mae'r UE wedi deddfu i osod safonau penodol sy'n berthnasol i gynhyrchu a marchnata cynnyrch amaethyddol a bwyd anifeiliaid. Mae hefyd wedi deddfu cyfreithiau sydd â'r nod o leihau'r risg o lygredd amaethyddol. Ceir hefyd ddeddfau UE sy'n gosod rheolau sy'n ymwneud â chynhyrchu a gwerthu organebau a addaswyd yn enetig.[38]

2.43 Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth amaethyddol a ddisgrifir uchod, deddfodd yr UE fframweithiau deddfwriaethol sy'n rheoleiddio ac yn gosod safonau cyffredin ar draws amrywiaeth o feysydd pwnc gan gynnwys yr amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd. Mae llawer o ddeddfwriaeth yr UE sydd wedi'i deddfu yn y meysydd hyn hefyd yn rhan o'r dirwedd reoleiddio sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol a bydd yn cael ei hystyried ym mhenodau sylweddol yr adroddiad hwn.

2.44 Mewn rhai achosion, mae'r UE wedi deddfu ar gyfer gofynion rhagnodol sy'n gadael cyn lleied â phosibl o randdirymiad i aelod-wladwriaethau o ran sut maent yn gweithredu'r gofynion perthnasol yn ddomestig. Mewn achosion eraill, mae'r UE wedi cyfarwyddo y dylid mynd ar drywydd amcan penodol ond wedi caniatáu cryn ymreolaeth o ran sut mae aelod-wladwriaethau am gyflawni'r amcan a nodwyd. Roedd hyn yn golygu bod gan y DU rywfaint o ryddid o ran sut cafodd rhai o ofynion deddfwriaethol yr UE eu rhoi ar waith. Ar ben hynny, lle'r oedd y gofynion hynny'n ymwneud â phynciau datganoledig, gallai pedair gwlad y DU fabwysiadu eu dull gweithredu penodol eu hunain.

## Y DU YN YMADAEL Â'R UE (“BREXIT”)

2.45 Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliodd y DU refferendwm lle dewisodd 51.9% o bleidleiswyr adael yr UE.[39] Tra roedd y DU yn aelod o'r UE, nid oedd angen i'r DU ddatblygu “polisi amaethyddol domestig cynhwysfawr, oherwydd roedd llawer o benderfyniadau eisoes yn cael eu gwneud o dan y [CAP]”.[40] Fodd bynnag, ers gadael yr UE, nid yw'r DU

---

37 Fodd bynnag, ers i'r DU adael yr UE, nid yw'r taliadau a wneir o dan y BPS yn dod o gyllid yr UE mwyach.

38 Mae organebau a addaswyd yn enetig yn blanhigion, yn anifeiliaid neu'n ficrobau y mae eu genynnau wedi cael eu newid er mwyn cynhyrchu neu wella nodweddion penodol.

39 Senedd Ewrop, “Factsheets of the European Union: The United Kingdom” (2024) https://www.europarl.europa.eu/factsheets/en/sheet/216/the-united-kingdom.

40 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, “Retained EU Law (Revocation and Reform) Act 2023 Research Briefing” (Gorffennaf 2023) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9841/CBP-9841.pdf, t 8.

bellach yn rhwym i gydymffurfio â'r CAP ac mae pob un o bedair gwlad y DU yn gallu pennu eu priod bolisïau amaethyddol domestig.

2.46 Ers i'r DU adael yr UE, mae Llywodraeth y DU, a llywodraethau perthnasol Cymru a'r Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i roi eu priod bolisïau amaethyddol domestig ar waith.[41] Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn darparu'r fframwaith ar gyfer cymorth amaethyddol a llunio polisïau yng Nghymru drwy sefydlu'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Wrth wneud hynny, y bwriad yw:

> bydd cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn gyson â rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan helpu i gyfrannu at y nodau llesiant o dan adran 4 y Ddeddf honno, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.[42]

2.47 Fel yr amlinellir ym mharagraff 2.41, o 1 Ionawr 2026, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd “prif ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi ffermwyr, rheoli tir yn gynaliadwy a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy”.[43] Bydd gan ffermwyr yng Nghymru’r opsiwn o ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu barhau dros dro â Chynllun y Taliad Sylfaenol, y bwriedir ei ddiddymu'n raddol erbyn 2029. Mae'r ddau gynllun yn wirfoddol, sy'n golygu nad oes rhaid i ffermwyr ymuno â'r naill gynllun na'r llall.

2.48 O dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bydd ffermwyr yng Nghymru yn cael eu talu i gymryd camau gweithredu penodol, a elwir yn gamau gweithredu cyffredinol, sy'n ymwneud â materion fel cynnal a chadw gwrychoedd, ansawdd pridd ac iechyd a lles anifeiliaid. Gall ffermwyr hefyd gael taliadau ychwanegol o dan y cynllun drwy gymryd camau dewisol neu drwy weithio gyda ffermwyr eraill i gymryd camau cydweithredol.

## CYFRAITH A GYMATHWYD

2.49 Er bod y DU yn aelod o'r UE, roedd cyfreithiau a ddaeth i rym gan yr UE yn rhan o'n fframwaith cyfreithiol domestig. Gall cyfraith yr UE fod ar sawl ffurf, gan gynnwys rheoliadau, cyfarwyddebau a phenderfyniadau. Roedd rhywfaint o'r ddeddfwriaeth a ddaeth i rym gan yr UE, fel rheoliadau, yn berthnasol yn uniongyrchol i'r DU heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth ddomestig er mwyn iddi ddod i rym. Roedd angen i fathau eraill o ddeddfwriaeth yr UE, fel cyfarwyddebau, gael eu trosi neu eu gweithredu gan ddeddfwriaeth ddomestig. Roedd egwyddor goruchafiaeth yn berthnasol i gyfraith yr UE tra bod y DU yn parhau i fod yn aelod o'r UE. Roedd yr egwyddor hon yn mynnu, i'r graddau yr oedd gwrthdaro, y byddai cyfraith yr UE yn cael ei chymhwyso yn hytrach na chyfraith y DU. Yn ystod aelodaeth y DU o'r UE,

---

41 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4); Deddf Amaethyddiaeth 2020; a Deddf Amaethyddiaeth a Chymunedau Gwledig (Yr Alban) 2024 (dsc 11).

42 Llywodraeth Cymru, “Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy” (Tachwedd 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-cyflwynor-fframwaith-rheoli-tir-gynaliadwy.pdf.

43 Llywodraeth Cymru, “Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun” (Gorffennaf 2025) https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-disgrifiad-or-cynllun-html. Cyhoeddwyd canllawiau cynllun cynhwysfawr ar yr haen Gyffredinol ar 17 Rhagfyr 2025: Llywodraeth Cymru, “Datganiad Ysgrifenedig: Canllaw i Haen Gyffredinol Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) 2026” (Rhagfyr 2026) https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-canllaw-i-haen-gyffredinol-cynllun-ffermio-cynaliadwy-sfs-2026.

derbyniwyd yr egwyddor hon i raddau helaeth yn y DU,[44] hyd yn oed gan fynnu bod Deddfau Senedd y DU yn cael eu datgymhwyso.[45]

2.50 Pan adawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020, fe wnaeth Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018 ("EUWA 2018") ddiddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("ECA 1972"). Er gwaethaf y diddymiad hwnnw, roedd angen ffordd ar y DU i gadw'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE a oedd yn berthnasol yn ddomestig er mwyn atal bylchau sylweddol yn ein llyfr statud domestig a chaniatáu ar gyfer ymadawiad sefydlog o'r UE.[46]

2.51 Yn unol â hynny, roedd EUWA 2018, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020, yn galluogi darpariaethau ECA 1972 i barhau i gael effaith o 31 Ionawr 2020 tan 31 Rhagfyr 2020. Wedi hynny, darparodd EUWA 2018 fframwaith ar gyfer diogelu cyfraith yr UE yn ddomestig ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Cyfraith yr UE a ddargedwir oedd yr enw ar y corff hwn o gyfreithiau. Roedd yn fath o gyfraith ddomestig a oedd â'r bwriad o ddarparu parhad a sicrwydd cyfreithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio.[47]

2.52 Ers 1 Ionawr 2024, mae'r sefyllfa wedi newid unwaith eto. Mae cychwyn Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("REULA 2023") yn golygu bod holl gyfraith yr UE a ddargedwir nad oedd wedi cael ei dirymu erbyn diwedd 2023 wedi dod yn gyfraith a gymathwyd. Mae cyfraith a gymathwyd yn cynnwys deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r DU tra oedd yn aelod-wladwriaeth ac sydd bellach yn rhan o'n fframwaith deddfwriaethol domestig. Mae hefyd yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig sydd wedi gweithredu neu drosi cyfraith sy'n deillio o'r UE.

2.53 O dan REULA 2023, nid yw egwyddor goruchafiaeth yn berthnasol i gyfraith a gymathwyd.[48] Mae hyn yn golygu na fydd rhagdybiaeth mwyach bod cyfraith sy'n deillio o'r UE yn cael blaenoriaeth dros ddeddfwriaeth ddomestig. Mae REULA 2023 hefyd yn sicrhau nad yw cyfraith a gymathwyd bellach yn ddarostyngedig i egwyddorion dehongli statudol yr UE.[49] Yn hytrach, mae cyfraith a gymathwyd bellach yn cael ei dehongli yn unol ag egwyddorion domestig dehongli statudol, ac ymhellach

---

44 *R v Secretary of State for Transport ex parte Factortame Ltd (No 2)* [1991] 1 AC 603; *R (HS2 Action Alliance Ltd) v Secretary of State for Transport and another* [2014] UKSC 3.

45 *Benkharbouche v Secretary of State for Foreign and Commonwealth Affairs* [2017] UKSC 62.

46 Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, *Legislating for the United Kingdom's withdrawal from the European Union* (Mawrth 2017) https://www.gov.uk/government/publications/the-repeal-bill-white-paper/legislating-for-the-united-kingdoms-withdrawal-from-the-european-union, paragraff 1.13.

47 Adran Busnes a Masnach, "Retained EU law and assimilated law dashboard" (2022) https://www.gov.uk/government/publications/retained-eu-law-dashboard.

48 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, adra 3.

49 Yn eithriadol, caiff Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU, wrth ddeddfu rheoliadau i ailddatgan is-ddeddfwriaeth a ddargedwir neu a gymathwyd, ddarparu i'w darpariaethau gael effaith debyg i oruchafiaeth cyfraith yr UE. Mae hyn yn golygu, pan fydd y darpariaethau hyn sydd wedi'u hailddatgan yn mynd yn groes i gyfraith genedlaethol, y byddai'r darpariaethau sydd wedi'u hailddatgan yn cael eu defnyddio yn hytrach na chyfraith genedlaethol. Darperir y pŵer hwn yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, adrannau 11(4) a 12(4).

er mwyn bod yn gydnaws â'r holl gyfraith ddomestig ac yn ddarostyngedig iddi.[50] Felly, mae'r ail-labelu o gyfraith yr UE a ddargedwir i gyfraith a gymathwyd yn adlewyrchu'r newid yn statws a grym deddfwriaeth o'r fath.

2.54 Mae REULA 2023 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio, yn dirymu neu'n disodli cyfraith a gymathwyd. Y dyddiad cau ar gyfer arfer pwerau o'r fath o dan REULA yw 23 Mehefin 2026. Ar ôl i'r terfyn amser hwn fynd heibio, mae'n dal yn bosibl diwygio, dirymu neu ddisodli cyfraith a gymathwyd drwy ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol, neu o bosibl drwy bwerau statudol presennol, ar yr amod bod gwneud hynny'n dod o fewn cwmpas pwerau o'r fath (a elwir hefyd yn "vires" y pwerau).[51]

2.55 Mae'n anodd mesur yn bendant faint o gyfraith a gymathwyd sy'n berthnasol i'r cyd-destun amaethyddol. Fodd bynnag, mae dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith a gymathwyd, a gynhelir gan Lywodraeth y DU, yn rhoi syniad o faint o gyfraith a gymathwyd sy'n bodoli. Er enghraifft, mae cyfanswm o 1,926 o gyfreithiau a gymathwyd y nodir eu bod yn dod o fewn cylch gwaith polisi Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.[52] Er nad yw'r dangosfwrdd yn cynnwys unrhyw gyfraith a gymathwyd a luniwyd gan Weinidogion Cymru, mae'n cynnwys deddfwriaeth y DU sy'n dod o dan feysydd cymhwysedd datganoledig, fel amaethyddiaeth.

### FFRAMWEITHIAU CYFFREDIN

2.56 Ar ôl i'r DU adael yr UE, dychwelodd llawer o bwerau a oedd yn cael eu dal ar lefel yr UE i'r DU. Mae llawer o'r pwerau hyn yn croestorri â meysydd polisi sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig. O ganlyniad, penderfynodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sefydlu mecanwaith i sicrhau rhywfaint o gysondeb rheoleiddiol mewn meysydd o'r fath. Mae fframweithiau cyffredin yn bwriadu hwyluso dulliau cyffredin rhwng pedair gwlad y DU ac mae Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn cytuno arnynt ar y cyd. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ychwanegu cytundeb sy'n rhan o fframwaith cyffredin at y rhestr o eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ("UKIMA 2020") (fel y trafodir ymhellach ym mharagraffau 2.63 i 2.65 isod).[53]

2.57 Gelwir y fframweithiau cyffredin hynny sydd wedi cael eu cymeradwyo dros dro gan weinidogion perthnasol y llywodraeth, ond y mae angen eu cadarnhau ymhellach, yn fframweithiau cyffredin dros dro. Mae nifer o fframweithiau cyffredin dros dro sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

(1) cymorth amaethyddol: fframwaith cyffredin dros dro;

---

50 Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, adran 5(A2).

51 Mae diwygio, dirymu neu ddisodli cyfraith a gymathwyd drwy ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol yn debygol o gynnwys amserlenni hirach na dibynnu ar bwerau dirprwyedig perthnasol i wneud newidiadau o'r fath drwy is-ddeddfwriaeth (fel y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan REULA 2023).

52 Adran Busnes a Masnach, "Retained EU law and assimilated law dashboard" (2022) https://www.gov.uk/government/publications/retained-eu-law-dashboard.

53 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, adran 10(3).

(2) iechyd a lles anifeiliaid: fframwaith cyffredin dros dro;

(3) iechyd planhigion: fframwaith cyffredin dros dro;

(4) amrywogaethau planhigion a hadau: fframwaith cyffredin dros dro; a

(5) gwrtaith: fframwaith cyffredin dros dro.

2.58 Yn ymarferol, efallai y bydd angen i benderfyniad i wyro oddi wrth safbwynt polisi presennol mewn maes sy'n rhan o fframwaith cyffredin symud ymlaen drwy unrhyw broses a sefydlwyd gan y fframwaith perthnasol.[54] Fodd bynnag, mae fframweithiau cyffredin yn amrywio o ran eu hamcanion a'u gweithrediad. Tra bod rhai yn anelu at sicrhau llinell sylfaen reoleiddio gyffredin ar draws y DU, mae fframweithiau cyffredin eraill yn bodoli i gefnogi a hwyluso ymgysylltiad rhwng y pedair gwlad yng nghyd-destun datblygu eu polisïau.

## CYFRAITH RYNGWLADOL

2.59 Mae'r DU yn ddarostyngedig i nifer o rwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol sy'n berthnasol i amaethyddiaeth. Mae ystyriaeth fanwl o'r cyfreithiau rhyngwladol sy'n effeithio ar amaethyddiaeth y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn. Er mwyn rhoi cyd-destun, fodd bynnag, rydym yn rhoi trosolwg isod o gyfreithiau rhyngwladol allweddol sy'n effeithio ar amaethyddiaeth.

2.60 Mae cyfraith ryngwladol yn cynnwys cytundebau rhyngwladol rhwng gwladwriaethau, gan greu rhwymedigaethau cyfreithiol i'r partïon sydd wedi eu llofnodi. Fel aelod o Sefydliad Masnach y Byd, mae'r DU yn ddarostyngedig i Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd (“WTO”) ar Amaethyddiaeth yn rhoi fframwaith i aelodau Sefydliad Masnach y Byd ar gyfer masnach amaethyddol a'u polisïau amaethyddol domestig perthnasol. Ei nod yw hyrwyddo cystadleuaeth decach a lleihau ystumio yn y farchnad amaethyddol.[55] Mae'r cytundeb yn rheoli'r materion allweddol canlynol:

(1) mynediad i'r farchnad gan gynnwys defnyddio cyfyngiadau masnach fel tariffau mewnforio;

(2) cymorth domestig gan gynnwys defnyddio cymorthdaliadau a rhaglenni cymorth eraill sy'n ysgogi cynhyrchiant yn uniongyrchol neu'n ystumio masnach; a

(3) chystadleuaeth allforio gan gynnwys defnyddio cymorthdaliadau allforio.[56]

2.61 Mae cytundebau rhyngwladol eraill sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yn cynnwys cytundebau sy'n ymwneud â chadwraeth bywyd gwyllt a gwarchod yr amgylchedd.

---

54 Ar ben hynny, os bwriedir i ddeddfwriaeth sy'n dod o dan fframwaith cyffredin gael ei chydgrynhoi mewn Deddf Senedd Cymru neu ei disodli gan Ddeddf sy'n diwygio'n gyfan gwbl, yna byddai angen i unrhyw ddarpariaeth o'r fath ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ym Mhennod 11 rydym yn trafod ymhellach sut y gallai'r cyfyngiadau a osodir ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gyfyngu ar ehangder y Cod.

55 Sefydliad Masnach y Byd, “Agriculture” https://www.wto.org/english/tratop_e/agric_e/agric_e.htm.

56 Sefydliad Masnach y Byd, “Agriculture” https://www.wto.org/english/tratop_e/agric_e/agric_e.htm.

Mae enghreifftiau o gytundebau o'r fath yn cynnwys: Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd 1992[57], Cytuniad Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Adnoddau Genetig Planhigion ar gyfer Bwyd ac Amaethyddiaeth[58], a Chytundeb Paris.[59]

2.62 Math arall o gyfraith ryngwladol yw cytundebau masnach rydd. Mae cytundebau masnach yn nodi rheolau ar gyfer masnachu nwyddau a gwasanaethau rhwng dwy wlad neu fwy ac felly gallant osod rheolau sy'n ymwneud â masnachu cynnyrch amaethyddol yn rhyngwladol. Ers gadael yr UE, mae'r DU wedi ymrwymo i gytundebau masnach rydd gyda gwledydd gan gynnwys Seland Newydd ac Awstralia.

## DEDDFAU DOMESTIG PERTHNASOL ERAILL Y DU

### Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

2.63 Yn ogystal â sefydlu fframweithiau cyffredin, mae UKIMA 2020 yn llywodraethu'r berthynas fasnachu rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae dwy egwyddor mynediad i'r farchnad yn ganolog i'r Ddeddf hon: cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu.

(1) Mae cydnabyddiaeth gilyddol yn golygu os yw nwydd yn cydymffurfio â'r rheolau cyfreithiol sy'n ymwneud â'i werthu yn y rhan o'r DU lle cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddi, yna gellir ei werthu'n awtomatig mewn rhannau eraill o'r DU. Yn yr un modd, mae darparwr gwasanaeth sydd wedi'i awdurdodi i ddarparu gwasanaethau mewn un rhan o'r DU wedi'i awdurdodi'n awtomatig i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn rhannau eraill y DU.

(2) Mae peidio â gwahaniaethu yn ymwneud â sut mae nwyddau neu wasanaethau'n cael eu darparu. Nid yw unrhyw reol mewn un rhan o'r DU ynghylch sut mae'n rhaid gwerthu nwydd, neu sut mae'n rhaid darparu gwasanaeth, sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn nwyddau neu wasanaethau o ran arall o'r DU, yn berthnasol.

2.64 Mae egwyddorion mynediad i'r farchnad yn UKIMA 2020 yn caniatáu i nwyddau sy'n cael eu mewnforio, eu gwneud a'u gwerthu mewn un rhan o'r DU gael eu gwerthu mewn unrhyw ran arall o'r DU. Byddai hyn yn wir hyd yn oed os yw'r rheoliadau'n wahanol yn nhair gwlad arall y DU.

2.65 Er nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn gwahardd Senedd Cymru rhag deddfu ar fater o gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig, gall effeithio ar effaith ymarferol y gyfraith pan fydd mewn grym.[60] Er enghraifft, gallai'r Senedd ddeddfu i

---

57 Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd 1992, https://unfccc.int/resource/docs/convkp/conveng.pdf.

58 Cytuniad Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Adnoddau Genetig Planhigion ar gyfer Bwyd ac Amaethyddiaeth 2009, https://www.fao.org/4/i0510e/i0510e.pdf.

59 Cytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig 2016, https://treaties.un.org/pages/ViewDetails.aspx?src=TREATY&mtdsg_no=XXVII-7-d&chapter=27&clang=_en.

60 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig Senedd Cymru, *Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor* (Ionawr 2023) https://senedd.cymru/media/x5qllrnt/cr-ld15627-w.pdf, t 27; Pwyllgor

ddarparu ar gyfer safonau neu ofynion penodol sydd i fod yn gymwys i nwyddau neu gynhyrchion yng Nghymru. Fodd bynnag, effaith UKIMA 2020 yw y gallai nwyddau neu gynhyrchion nad oeddent yn cydymffurfio â'r safonau hynny o dair gwlad arall y DU gael eu dosbarthu yng Nghymru. Ar ben hynny, ar ôl i fewnforion ddod i'r DU, byddent mewn cylchrediad rhydd hyd yn oed os yw'r Senedd wedi deddfu i weithredu safonau uwch na gweddill y DU.

## DEDDFWRIAETH GYDGYSYLLTIEDIG SY'N GYMWYS YNG NGHYMRU

2.66 Fel yr amlinellir ym mharagraff 2.46, mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cyflwyno'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy fel y fframwaith ar gyfer cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru. Wrth wneud hynny, y bwriad yw:

> bydd cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn gyson â rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan helpu i gyfrannu at y nodau llesiant o dan adran 4 y Ddeddf honno, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.[61]

2.67 Mae cysylltu'r tair Deddf hyn - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 - yn ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy er mwyn gwella llesiant Cymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.[62] Yn yr adrannau canlynol rydym yn rhoi trosolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cael ei hystyried yn fanylach ym Mhennod 5.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.68 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) (“Deddf 2015”) yw “gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru”.[63] Mae'n gosod fframwaith lle mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru geisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (“yr egwyddor datblygu cynaliadwy”).[64]

---

Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru, *Adroddiad ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)* (Hydref 2022) https://senedd.cymru/media/dyahfxg0/cr-ld15383-w.pdf, tt 4 i 5.

61 Llywodraeth Cymru, “Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy” (Tachwedd 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-cyflwynor-fframwaith-rheoli-tir-gynaliadwy.pdf.

62 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) yn un arall o Ddeddfau annatod y Senedd sy'n cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu a cheisiadau am ganiatâd cynllunio mewn ffordd sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Bydd Bil Cynllunio (Cymru), sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn cydgrynhoi darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4), os cânt eu deddfu, ynghyd â deddfwriaeth gynllunio arall sy'n berthnasol yng Nghymru.

63 Llywodraeth Cymru, “Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion” (2024) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/1/2/1736242852/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf.

64 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), adran 5.

2.69 Mae adran 4 Deddf 2015 yn nodi saith nod llesiant i Gymru, y bydd awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn eu dilyn er mwyn gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol.[65] Mae'r nodau llesiant hynny'n cynnwys gweithio tuag at Gymru lewyrchus, gydnerth ac iachach. Mae Deddf 2015 hefyd yn darparu ar gyfer dyletswydd llesiant sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy drwy gyhoeddi amcanion a chymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.[66]

2.70 Mae Adran 1 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cadarnhau y dylai pob un o'r amcanion rheoli tir cynaliadwy, fel y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf honno, gael eu cyflawni neu eu darparu mewn ffordd sy'n:

(1) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; a

(2) chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[67]

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.71 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn “ymgorffori egwyddorion a pholisïau yn y gyfraith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy”.[68] Mae'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru,[69] ac awdurdodau cyhoeddus sydd â'r nod o gynnal egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er enghraifft, mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru geisio “cynnal a gwella bioamrywiaeth” lle mae hynny’n rhan o arfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, “hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau”.[70] Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw, ymysg ffactorau eraill, i'r adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddwyd o dan adran 6 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.[71]

2.72 Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u cysylltu'n benodol ymhellach drwy ddyletswydd Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd yn erbyn cyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. O dan adran 4 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion a thargedau i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Wrth baratoi'r targedau a'r dangosyddion hynny, rhaid i Weinidogion

---

65 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), adran 4.

66 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), adran 3.

67 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 1(2).

68 Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, “Materion o Bwys i'r Pumed Cynulliad” (Mai 2016) https://ymchwil.senedd.cymru/media/fymj1gsz/key-issues-welsh-linked.pdf.

69 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff statudol a sefydlwyd gan erth 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, OS 2012/1903 (Cy 230).

70 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3), adran 6.

71 O dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 6, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd yn nodi eu hasesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn cyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

Cymru roi sylw i'r polisi adnoddau naturiol diweddaraf a'r adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015.[72]

## CASGLIAD

2.73 Yn y bennod hon, rydym yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach y mae'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru wedi datblygu ynddo. Y cyfreithiau ehangach hyn yw'r cefndir yr ydym wedi cynnal ein hadolygiad o ddeddfwriaeth amaethyddol yng Nghymru yn ei erbyn at ddibenion yr adroddiad hwn.

72 Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), adran 10.

# Pennod 3: Ein meini prawf ar gyfer cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

## CYFLWYNIAD

3.1 Ein prif dasg yw nodi pa ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ("y darpar God"). Rydym yn defnyddio dull dau gam ar gyfer y dasg hon. Yn gyntaf, rydym yn ystyried pa ddeddfwriaeth sy'n rhan o'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru. Yn ail, rydym yn penderfynu pa elfennau o'r ddeddfwriaeth hon allai, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, fod yn rhan o'r darpar God. Yn y bennod hon, rydym yn egluro'r dull hwn, gan nodi'r hyn rydym yn ei gategoreiddio fel cyfraith amaethyddol at ddibenion yr adroddiad hwn, a'r prawf rydym wedi'i ddatblygu i helpu i benderfynu a ddylid cynnwys cyfraith yn y darpar God.

## BETH YW CYFRAITH AMAETHYDDOL?

3.2 Mae cwmpas posibl cyfraith amaethyddol yn enfawr. Er mwyn gosod strwythur i'n gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn, fe wnaethom ddechrau drwy lunio rhestr o gyfreithiau sy'n berthnasol i sector amaethyddol Cymru. Fodd bynnag, nid oedd hon yn dasg hawdd. Yn gyntaf, nid yw cyfraith amaethyddol yn gorff o gyfraith sydd ag ystyr neu gwmpas a gydnabyddir yn gyffredin. Yn ail, mae'r sylw y mae gwerslyfrau yn ei roi i gyfraith amaethyddol fel y mae'n berthnasol i Gymru yn gyfyngedig (o leiaf mewn perthynas â meysydd penodol). Yn drydydd, mae'r gyfraith sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru yn swmpus, yn dameidiog iawn, ac yn eang ac yn wahanol o ran ei chynnwys. Rydym yn ystyried pob un o'r ffactorau hyn yn eu tro.

### Cyfraith amaethyddol: cwmpas ac ystyr

3.3 Ein man cychwyn ar gyfer yr adroddiad hwn oedd nodi beth yw ystyr y term "cyfraith amaethyddol". Ond fel y dywedodd yr Athro Alabrese yn gryno: "nid yw'n hawdd diffinio 'cyfraith amaethyddol'".[1] Rydym yn cytuno nad oes gan gyfraith amaethyddol ystyr neu gwmpas y cytunwyd arno'n gyffredin, ac yn y bennod hon, rydym yn tynnu sylw at yr anawsterau wrth bennu ystyr cyfraith amaethyddol.

3.4 Nid yw'r gyfraith sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol wedi'i chynnwys mewn ychydig o statudau dethol. Yn hytrach, fel y noda'r Gymdeithas Cyfraith Amaethyddol:

> mae cyfraith amaethyddol yn bwnc enfawr sy'n cwmpasu'r holl bynciau y rhennir y gyfraith iddynt: cyfraith fasnachol, cyfraith cwmnïau, cyfraith contractau, cyfraith amgylcheddol, cyfraith tir, lles anifeiliaid, cyfraith profiant, esgeulustod, iechyd a diogelwch, cynllunio, ysgariad a ... threthi.[2]

---

1 M Alabrese ac eraill, *Agricultural Law Current Issues from a Global Perspective* (argraffiad 1af 2017) t 2.

2 Cymdeithas Cyfraith Amaethyddol, "Starter for Ten 2024: What is Agricultural Law?" (Ebrill 2024).

Yn yr ystyr hwn, gellir cymharu cyfraith amaethyddol â chyfraith amgylcheddol sy'n "cynnwys casgliad amrywiol o gyfreithiau sy'n defnyddio pob rhan o ddiwylliant cyfreithiol y DU a'r UE yn ogystal â diwylliannau cyfreithiol rhyngwladol".[3]

3.5 Mae polisïau amaethyddol hefyd yn newid dros amser. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd nodi egwyddorion cyfreithiol hirsefydlog y gellir eu defnyddio i helpu i bennu cwmpas cyfraith amaethyddol. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd polisi amaethyddol yn y DU yn ymwneud yn bennaf â sicrhau cyflenwad bwyd y genedl a sefydlogi'r sector amaethyddol yn dilyn dau ryfel byd. Ers hynny, mae'r polisi sy'n sail i gyfraith amaethyddol wedi datblygu i adlewyrchu blaenoriaethau cymdeithasol sy'n esblygu, datblygiadau technolegol ac agweddau sy'n newid. Fel yr eglurodd yr Athro Alabrese ac eraill:

> Ni ellir honni bellach mai unig amcan cyfraith amaethyddol yw rheoleiddio cynnyrch a marchnad bwyd a ffibr. Roedd cysyniad "clasurol" cyfraith amaethyddol yn ymwneud yn bennaf â rheoleiddio tir fferm. Ers y 1990au, mae pryderon amgylcheddol a diwydiannu amaethyddiaeth yn gyflym wedi ychwanegu pynciau newydd at faes cyfraith amaethyddol.[4]

3.6 Mae mwy o ymwybyddiaeth o allu'r sector amaethyddol i fod o fudd i'r amgylchedd a niweidio'r amgylchedd wedi arwain at newidiadau mewn polisi amaethyddol ar lefel ddomestig a lefel yr UE. Mewn ymateb, mae corff mawr o gyfreithiau wedi dod i'r amlwg sy'n rheoleiddio'r defnydd o dir amaethyddol i ddiogelu'r amgylchedd a bywyd gwyllt. Yn yr un modd, mae polisi amaethyddol wedi gorfod rhoi mwy a mwy o sylw i ba mor agored yw'r sector amaethyddol i newid yn yr hinsawdd, gan gydnabod bod y sector yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr.[5]

3.7 Mae ffactorau amrywiol hefyd wedi arwain at fwy o ffocws ar les da byw. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygiadau yng ngwyddoniaeth lles anifeiliaid, adroddiadau annibynnol sy'n edrych ar drin da byw,[6] a mwy o bwyslais ar les yn rhaglenni hyfforddi myfyrwyr milfeddygol a ffermwyr.[7] Mae arolygon a gynhaliwyd yn y DU dros y tri degawd diwethaf yn dangos bod "defnyddwyr yn poeni mwy a mwy am les anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd."[8] At hynny, mae globaleiddio cynyddol ein heconomi yn gallu cyflymu lledaeniad clefydau heintus mewn anifeiliaid.[9] O ganlyniad, mae llawer iawn o ddeddfwriaeth yn bodoli sy'n ymwneud ag iechyd a lles da byw.

3 E Fisher, B Lange ac E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il argraffiad 2019) t 4.

4 M Alabrese and others, *Agricultural Law Current Issues from a Global Perspective* (argraffiad 1af 2017).

5 Parliamentary Office of Science and Technology, "Climate Change and Agriculture" (Mai 2019).

6 Er enghraifft, adroddiad y Pwyllgor Trimble yn 1965 ac adroddiad y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm yn 2009.

7 Farm Animal Welfare Council, *Farm Animal Welfare in Great Britain: Past, Present and Future* (Hydref 2009) t 7.

8 Y Cyngor Moeseg Bwyd, *Farm Animal Welfare: Past, Present and Future* (Medi 2014) tt 4 a 22. Gweler hefyd adroddiadau arolwg a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser ym mis Ionawr 2024 fel yr adroddwyd gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth: https://ahdb.org.uk/news/consumer-insight-animal-welfare-seen-as-important-by-84-of-shoppers.

9 Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd, *The state of the world's animal health* (Mai 2025) t 51.

3.8 Yng nghyd-destun Cymru, mae'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, fel y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, yn darparu'r "fframwaith ar gyfer ... cefnogaeth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru".[10] Mae'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, a drafodir ymhellach ym Mhennod 5, yn ceisio hyrwyddo buddiannau sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, cadwraeth natur a chynnal y Gymraeg (ymysg materion eraill).

3.9 Gall yr ystod amrywiol o nodau ac amcanion polisi sy'n sail i gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru ychwanegu at yr her o nodi ei chwmpas a'i hystyr. Yn benodol, mae'r cyd-destun polisi hwn wedi arwain at ddarpariaethau sy'n gorgyffwrdd mewn cyfraith amaethyddol, cyfraith amgylcheddol a'r gyfraith sy'n ymwneud â lles anifeiliaid. Fel yr amlygwyd gan yr Athro Alabrese, mae cyfraith amaethyddol yn croestorri â "changhennau o'r gyfraith sydd â chysylltiad agos, fel cyfraith bwyd a chyfraith amgylcheddol".[11]

3.10 Mae nifer sylweddol o gyfreithiau sy'n gosod cyfyngiadau ar y ffordd y defnyddir tir amaethyddol er mwyn gwarchod yr amgylchedd. Nid yw'r gorgyffwrdd sylweddol rhwng meysydd cyfraith amgylcheddol a chyfraith amaethyddol yn syndod wrth ystyried dibyniaeth gynhenid amaethyddiaeth ar adnoddau naturiol. Serch hynny, cydnabyddir yn gyffredin bod cyfraith amgylcheddol yn faes ymarfer ar wahân, os nad yn gorff cyfreithiol ynddo'i hun. O ganlyniad, mae'n anodd dosbarthu cyfreithiau yn ôl pwnc pan fydd y cyfreithiau hynny'n cyflawni llu o nodau polisi, ac yn berthnasol i gyd-destunau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y sector amaethyddol.

3.11 Gall cyfraith amaethyddol hefyd olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gall ffermwyr unigol edrych ar gyfraith amaethyddol o safbwynt y gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r gweithgarwch ffermio penodol y maent yn ymgymryd ag ef. Gall cynghorwyr proffesiynol ganolbwyntio'n naturiol ar y cyfreithiau y maent yn cynghori arnynt amlaf.

3.12 Ar ddechrau ein gwaith, dywedodd Dr Nerys Llewelyn Jones y gellir dadlau bod modd ystyried cyfraith amaethyddol fel maes ymarfer. Yn hyn o beth gellir llunio cymariaethau rhwng cyfraith amaethyddol a chyrff cyfraith eraill. Er enghraifft, mae'r Athrawes Elizabeth Fisher ac eraill yn disgrifio cyfraith amgylcheddol fel "'pwnc cymhwysol' gan ei fod yn cynnwys cymhwyso cysyniadau cyfreithiol sylfaenol (er bod eu deilliant a'u dylanwadu'n wahanol) i broblemau amgylcheddol".[12]

3.13 Yn yr un modd, mae cyfraith amaethyddol yn cael ei deall orau fel cyfres o reolau a chysyniadau cyfreithiol sy'n berthnasol i'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol ac yn ei reoleiddio.

### Cyfraith amaethyddol: natur ddarniog ar draws deddfwriaeth sy'n deillio o wahanol ffynonellau

3.14 Mae'r dasg o lunio rhestr o'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yng Nghymru hefyd wedi creu heriau oherwydd natur ddarniog cyfraith amaethyddol. Fel y nodwyd uchod, nid yw deddfwriaeth amaethyddol wedi'i

[10] Llywodraeth Cymru, "Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy" (Tachwedd 2023) 3.

[11] M Alabrese ac eraill, *Agricultural Law Current Issues from a Global Perspective* (argraffiad 1af 2017) t 8.

[12] E Fisher, B Lange ac E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il argraffiad 2019) t 4.

chynnwys mewn ychydig o statudau dethol. Yn hytrach, mae'r gyfraith sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol wedi'i rhannu ar draws ystod o offerynnau cyfreithiol sy'n deillio o wahanol ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth a ddeddfir gan Senedd y DU, deddfwriaeth a ddeddfir gan Senedd Cymru (“y Senedd”), cyfraith a gymathwyd a ddeddfir gan sefydliadau'r UE, ac is-ddeddfwriaeth a lunnir gan Weinidogion Cymru neu, mewn rhai achosion, Gweinidogion y DU.[13]

3.15 Er bod corff cynyddol o gyfraith amaethyddol wedi'i deddfu gan y Senedd, mae llawer o'r ddeddfwriaeth amaethyddol sy'n berthnasol i Gymru yn dal i gael ei chynnwys yn Neddfau Senedd y DU. Ar ben hynny, gall Deddfau Senedd y DU gynnwys darpariaethau sydd â gwahanol gymwysiadau tiriogaethol. Mae hyn yn golygu y gall Deddf Senedd y DU, er enghraifft, gynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i'r DU gyfan, i Gymru a Lloegr, i Loegr yn unig neu i Gymru yn unig (ymysg amrywiadau posibl eraill).

3.16 Ar ben hynny, mae deddfwriaeth sylfaenol - boed wedi'i deddfu gan Senedd Cymru neu Senedd y DU - yn aml yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth. Mewn rhai achosion, bydd yr is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru wedi cael ei llunio gan Weinidogion y DU a bydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr.[14] Mewn achosion eraill, bydd Gweinidogion Cymru wedi llunio is-ddeddfwriaeth sy’n gymwys i Gymru yn unig.

3.17 Yn bellach, tra bu’r DU yn aelod o'r UE, roedd gan sefydliadau'r UE gymhwysedd i basio deddfau mewn perthynas ag amaethyddiaeth a meysydd cysylltiedig eraill. Er nad yw'r DU bellach yn aelod o'r UE, mae llawer o'r gyfraith sy'n deillio o'r UE ac sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol wedi cael ei hymgorffori yn ein llyfr statud domestig fel cyfraith a gymathwyd. Gyda'i gilydd, mae'r gwahanol ffynonellau deddfwriaethol hyn yn golygu y gall fod yn anodd nodi'r union offerynnau a darpariaethau deddfwriaethol sy'n berthnasol yng Nghymru.

### Gwerslyfr cyfraith amaethyddol - cwmpas, sylwebaeth ac adnoddau eraill

3.18 Rydym wedi elwa o gyfeirio at nifer o destunau blaenllaw sefydledig a gwaith academaidd ar feysydd cyfraith amaethyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys *Scammell, Densham & Williams Law of Agricultural Holdings*, *Brexit and Agriculture* gan Dobbs a Petetin ac *Agricultural Law* gan Yr Athro Christopher Rodgers.[15] Roedd yn arbennig o ddefnyddiol bod y testunau a'r gweithiau dan sylw wedi cymryd gofal i nodi lle mae'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a'r gyfraith yn Lloegr yn wahanol.

3.19 Fodd bynnag, ni wnaethom nodi unrhyw destun sy'n canolbwyntio ar gyfraith amaethyddol yn unig fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Ar ben hynny, gwelsom hefyd fod diffyg gwaith academaidd a thestunau gan ymarferwyr mewn rhai meysydd o'r gyfraith sy'n effeithio'n sylweddol ar amaethyddiaeth. Er enghraifft, nid oeddem yn

---

13 Mewn rhai achosion, gall is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru gael ei llunio ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

14 Bydd rhai offerynnau statudol sy'n rhychwantu ac yn gymwys i Gymru a Lloegr hefyd wedi cael eu deddfu gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd.

15 P Williams, *Scammell, Densham and Williams Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023); L Petetin a M Dobbs, *Brexit and Agriculture* (argraffiad 1af 2022); C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016).

gallu nodi unrhyw destunau cynhwysfawr diweddar ar faes deddfwriaeth iechyd anifeiliaid: maes cymhleth ac anhylaw o'r gyfraith ynddo'i hun.[16]

3.20 Mae'r diffyg sylw ehangach hwn mewn gwerslyfrau yn cyd-fynd â rhai canfyddiadau bod cyfraith amaethyddol yn y DU yn cael ei “hastudio'n bennaf fel maes cyfraith tir”.[17] Caiff pwynt tebyg ei ddatblygu gan yr Athro Christopher Rodgers:

> Tan yn gymharol ddiweddar, mae cyfreithwyr ac amaethwyr wedi bod yn ymwneud yn bennaf â chymhlethdodau cyfraith tenantiaeth fferm a'r berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid.[18]

## PENDERFYNU AR BARAMEDRAU EIN HADOLYGIAD

3.21 Fel y dangosir uchod, ar hyn o bryd nid oes un fframwaith deddfwriaethol cydlynol y gellir ei nodi'n hawdd fel un sy'n ffurfio'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru. O ganlyniad, bu'n anodd penderfynu'n fanwl gywir pa mor eang i daflu ein rhwyd wrth nodi'r cyfreithiau hynny sy'n deilwng o gael eu hadolygu at ddibenion yr adroddiad hwn.

3.22 Er mwyn pennu paramedrau ein tasg, rydym wedi dibynnu ar nod craidd codeiddio: gwneud y gyfraith ar bwnc penodol yn haws dod o hyd iddi, cael mynediad ati a'i deall. Yn hynny o beth, rydym yn ymwybodol bod perygl y bydd y darpar God, sy'n ceisio cwmpasu'r holl gyfreithiau y gallai fod angen i ffermwyr gydymffurfio â nhw, neu gyfeirio atynt, yn mynd yn anhylaw ac yn anhygyrch. Byddai hyn yn groes i amcanion arfaethedig codeiddio.[19] Byddai dull o'r fath hefyd yn debygol o arwain at ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru sy'n wahanol o ran cynnwys, sy’n gwmpasu'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol yn ymarferol i amaethyddiaeth, ond sy'n ymwneud yn agosach â phynciau eraill. Ar ben hynny, rydym o'r farn na fyddai'n ddymunol i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gwmpasu deddfwriaeth a allai fod yn fwy addas o fewn codau cyfraith Cymru eraill o bosibl yn y dyfodol ar gyfer gwahanol bynciau.

## CWMPAS CYFRAITH AMAETHYDDOL

3.23 Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.2, gallai cwmpas cyfraith amaethyddol fod yn enfawr. Yn yr adran ganlynol, rydym yn egluro sut rydym wedi nodi'r meysydd cyfraith hynny sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol ac sy'n deilwng o adolygiad at ddibenion pennu ffurf a chynnwys y darpar God.

### Meysydd y gyfraith nad ydynt yn rhan o'r corff o gyfraith amaethyddol

3.24 Er mwyn gosod paramedrau synhwyrol ar gwmpas ein hadolygiad, rydym yn eithrio o'n hystyriaeth y cyfreithiau cyffredinol hynny sy'n berthnasol i ffermwyr yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu ein bod yn eithrio'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol, ond nad ydynt yn gwneud darpariaeth benodol neu neilltuol ar gyfer amaethyddiaeth. Er enghraifft,

---

16 Fodd bynnag, ceir testunau sy'n canolbwyntio ar gyfraith lles anifeiliaid sydd, o ystyried y berthynas agos rhwng y ddau bwnc, yn ymdrin ag agweddau ar gyfraith iechyd anifeiliaid.

17 M Alabrese ac eraill, *Agricultural Law Current Issues from a Global Perspective* (argraffiad 1af 2017) t 5.

18 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 1.01.

19 Gweler Pennod 1 am drafodaeth bellach.

bydd ffermwyr yn rhwym wrth gyfraith contractau gyffredinol wrth ymrwymo i gontractau i brynu nwyddau fel rhan o'u busnes ffermio.[20] Nid yw darpariaethau cyfraith contractau, fel y maent yn berthnasol i ffermwyr, yn rhan o'r corff o gyfraith amaethyddol. Maent yn rhan o gorff cyfraith contractau.

3.25 Ar ben hynny, rydym yn eithrio'r gyfraith sy'n ymwneud â dyframaeth o gwmpas ein hadolygiad. Diffinnir dyframaethu mewn deddfwriaeth i olygu bridio, magu, tyfu neu amaethu unrhyw bysgod neu anifeiliaid dyfrol eraill, gwymon neu blanhigion dyfrol eraill ac unrhyw organeb ddyfrol arall.[21] Mae safbwyntiau gwahanol ynghylch a yw dyframaeth yn rhan o'r sector amaethyddol, neu a yw'n sector ar wahân.[22] Ni waeth a ellir ystyried dyframaeth, yn gysyniadol, fel rhan o amaethyddiaeth, mae'n amlwg bod y deddfau sy'n berthnasol i ddyframaeth yn rhan o gorff o gyfraith sy'n wahanol i gyfraith amaethyddol. Ceir fframwaith cyfreithiol cymhleth sy'n llywodraethu rheolaeth forol ac arfordirol a physgodfeydd, gan gynnwys Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a Deddf Pysgodfeydd 2020.

3.26 Rydym hefyd yn eithrio'r gyfraith sy'n ymwneud â cheffylau. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â cheffylau yn bennaf yn rheoleiddio cadw ceffylau at ddibenion heblaw amaethyddiaeth, megis mewn stablau hurio, marchogaeth neu ar gyfer rasio ceffylau proffesiynol.[23] Bydd deddfwriaeth amaethyddol, mewn theori, yn berthnasol i geffylau i'r graddau eu bod yn cael eu cadw fel da byw, sy'n arfer prin yn ddomestig.[24] Gall rhai cyfreithiau amaethyddol hefyd fod yn berthnasol i geffylau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau amaethyddol, megis ceffylau a ddefnyddir ar gyfer pori, neu i aredig tir amaethyddol.[25] Ceir corff cymharol sylweddol o gyfraith achosion sy'n archwilio'r cwestiwn ynghylch pryd yr ystyrir bod cadw ceffylau yn rhywbeth amaethyddol.[26] Mae archwiliad manwl o gyfraith achosion o'r fath y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nodwn yn *Belmont Farm Ltd v y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol*, nad oedd cadw a bridio ceffylau ar gyfer neidio o sioeau yn cael ei ystyried yn "amaethyddol" at ddibenion deddfwriaeth cynllunio.[27] Mewn achos diweddarach,

---

20 Nodwn y bydd cyfraith contractau gyffredinol hefyd yn berthnasol pan fydd ffermwyr yn ymrwymo i gontractau ar gyfer gwerthu cynnyrch amaethyddol, ond mae rhai cyfreithiau penodol amaethyddol a allai fod yn berthnasol i gontractau penodol. Er enghraifft, Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Llaeth) 2024, OS 2024/537 a Rheoliadau Rhwymedigaethau Delio'n Deg (Moch) 2025, OS 2025/610.

21 Deddf Pysgodfeydd 2020, adran 52.

22 Gweler, er enghraifft, ddadl yn Senedd y DU ynghylch a ddylai dyframaeth gael ei ystyried yn rhan o amaethyddiaeth: *Hansard* (HC), 19 Hydref 1976, cyf 917, colofnau 1131 i 1170. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi polisïau a strategaethau ar wahân ar gyfer amaethyddiaeth ac ar gyfer pysgodfeydd a dyframaeth.

23 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Guidance keeping horses commercially* (Chwefror 2023) https://www.gov.uk/guidance/keeping-horses-commercially.

24 P Williams, *Scammell, Densham and Williams Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023), paragraff 17.25.

25 Fodd bynnag, mae defnyddio ceffylau i aredig tir amaethyddol yn dod yn arfer mwy a mwy prin gan fod aredig modern fel arfer yn golygu defnyddio peiriannau.

26 I gael trosolwg o'r gyfraith achosion berthnasol, gweler *P Williams, Scammell, Densham and Williams, Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023) paragraff 17.24.

27 *Belmont Farm Ltd v Minister of Housing and Local Government* (1962) 13 P&CR 417.

penderfynodd yr Uchel Lys fod rhedeg fferm gre ar gyfer bridio ceffylau y tu allan i ystyr arferol "amaethyddiaeth".[28]

3.27 Felly, er ein bod yn archwilio'r cyfreithiau amaethyddol hynny a all fod yn berthnasol yn ymarferol i geffylau, nid ydym o'r farn bod y cyfreithiau hynny sy'n ymwneud yn fwy cyffredinol â cheffylau yn dod o fewn cwmpas cyfraith amaethyddol. O ganlyniad, nid ydym yn archwilio cyfreithiau fel y rhai sy'n ymwneud â thrwyddedu sefydliadau marchogaeth,[29] rheoli ceffylau,[30] na chyfreithiau sy'n ymwneud ag adnabod ceffylau.[31]

3.28 Yn olaf, rydym wedi eithrio'r gyfraith ar wenyn o gwmpas ein hadroddiad am ddau reswm. Yn gyntaf, efallai na fydd gwenyn bob amser yn cael eu hystyried fel "da byw" yng nghyd-destun diffiniadau statudol o amaethyddiaeth. Yn ail, mae corff penodol o gyfraith yn bodoli sy'n llywodraethu gwenyn.[32] Er enghraifft, mae Deddf Gwenyn 1980 yn grymuso Gweinidogion Cymru i lunio Gorchmynion newydd er mwyn atal plâu neu glefydau sy'n effeithio ar wenyn rhag cael eu cyflwyno i Brydain Fawr neu eu lledaenu oddi mewn iddi.[33]

## Ein meysydd ffocws

3.29 Trown yn awr at y meysydd hynny o'r gyfraith sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar amaethyddiaeth yng Nghymru. I'r perwyl hwn, rydym wedi ceisio adolygu'r cyfreithiau hynny sy'n llywio neu'n pennu'r ffordd y mae tir amaethyddol yn cael ei reoli neu ei ddefnyddio neu'r ffordd y mae gweithgareddau amaethyddol (fel ffermio gwartheg godro, magu da byw neu ffermio cnydau) yn cael eu cynnal. Dyma'r meysydd cyfreithiol y dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn rhan greiddiol o'r corff o gyfraith amaethyddol, ac sydd hefyd yn ymddangos mewn testunau blaenllaw ac adnoddau allweddol ar gyfraith amaethyddol (gweler, yn y drefn honno, baragraff 3.18 uchod, a pharagraff 3.31 isod).

3.30 Er nad oedd yr adroddiad cwmpasu hwn yn cynnwys ymgynghoriad, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ar draws y sector amaethyddol, gan gynnwys mynychu seminarau a digwyddiadau allweddol ar gyfraith amaethyddol. Siaradodd aelodau o dîm y prosiect hefyd â nifer o randdeiliaid gan gynnwys ffermwyr, undebau sy'n cynrychioli'r sector amaethyddol, awdurdodau gorfodi, cyrff rheoleiddio, gweithwyr

---

28 *Dutta v Hayes* [2012] EWHC 1727 (Ch); [2012] All ER (D) 52.

29 Er enghraifft, Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964.

30 Fel Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 (dccc 3).

31 Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019, OS 2019/57 (Cy 20). Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y byddai'n rhaid i ffermwr sy'n cadw ceffylau gydymffurfio â'r gofynion adnabod perthnasol a osodir o dan y Rheoliadau hyn.

32 Er bod Uned Wenyn Genedlaethol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn adrodd bod y rhan fwyaf o wenyn mêl yn y DU yn cael eu cadw mewn cychod gwenyn fel da byw, mae hefyd tua 270 o rywogaethau o wenyn gwyllt. Uned Gwenyn Genedlaethol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, "Honey bees in the UK" (Hydref 2024): https://www.nationalbeeunit.com/assets/PDFs/3_Resources_for_beekeepers/Fact_Sheets/Fact_15_Honey_bees.pdf.

33 Mae Gorchymyn Clefydau Gwenyn a Rheoli Plâu (Cymru) 2006, OS 2006/1710 (Cy 172) yn grymuso mesurau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru i reoli heintiau a fyddai fel arall yn niweidio gwenyn yn ddifrifol.

cyfreithiol proffesiynol ac academyddion. Cynigiodd pob un ohonynt eu hamser a'u harbenigedd yn hael i helpu i nodi'r cyfreithiau a ddylai fod yn rhan o'n hadolygiad.

3.31 Wrth geisio pennu cwmpas cyfraith amaethyddol, gwnaethom hefyd ystyried yr adnoddau hynny a restrir isod sy'n cyflwyno trosolwg o gyfraith amaethyddol fel corff o gyfraith.

(1) Yr adran ar wefan Cyfraith Cymru Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin yn benodol â phynciau amaethyddiaeth a garddwriaeth. Mae Cyfraith Cymru yn wefan gan Lywodraeth Cymru sy'n "rhoi gwybodaeth ac esboniad am gyfraith Cymru a chyfansoddiad Cymru".[34] Mae hefyd yn rhoi sylwebaeth fanwl ar bynciau penodol o'r gyfraith.

(2) Rhestr Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Iwerddon o ddeddfwriaeth yn ôl dosbarth ar gyfer pynciau amaethyddiaeth a bwyd. Mae'r rhestr yn "rhestr chwiliadwy o Ddeddfau mewn grym ac offerynnau statudol a drefnwyd o dan 36 o Benawdau Pwnc".[35]

(3) DefraLex: porth chwilio ar-lein sy'n cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â phynciau neu feysydd polisi sy'n dod o fewn cylch gwaith Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig.[36] Fodd bynnag, nid yw DefraLex yn gwesteio deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig.

(4) Trosolwg yr UE o gyfraith amaethyddol yr UE,[37] sef tudalen we ar amaethyddiaeth sy'n cynnig trosolwg o gyfraith amaethyddol sy'n deillio o'r UE.

(5) Halsbury's Laws for England: Agricultural Land and Allotments (Volume 1) and Agricultural Production and Marketing (Volume 1A 2023).[38]

(6) Tudalen we Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol ar ddeddfwriaeth allweddol.[39]

## Meysydd y gyfraith y mae ein hadolygiad yn canolbwyntio arnynt

3.32 Mae'r tabl yn nodi'r meysydd hynny o'r gyfraith y nododd ein dull gweithredu a'n hymgysylltiad fel meysydd ffocws ar gyfer ein hadolygiad ynghylch yr hyn y dylai'r darpar God ar gyfer cyfraith amaethyddol i Gymru ei gynnwys.

---

34 Llywodraeth Cymru, "Ynglŷn â Chyfraith Cymru" https://cyfraith.llyw.cymru/.

35 Comisiwn Diwygio'r Gyfraith Iwerddon, "Classified List of Legislation in Force in Ireland" https://revisedacts.lawreform.ie/classlist/intro.

36 Yr Archifau Gwladol, "Defralex: the online portal to Defra legislation" https://www.legislation.gov.uk/defralex.

37 Eur-Lex, "Summaries of EU legislation: Agriculture" https://eur-lex.europa.eu/summary/chapter/agriculture.html?root_default=SUM_1_CODED%3D03.

38 B Monnington (golygydd), *Halsbury's Laws of England: Agricultural Land and Allotments* (cyf 1 2022).

39 Cymdeithas Cyfraith Amaethyddol, "Legislation and Codes of Practice" https://ala.org.uk/legislation/.

| Maes y gyfraith | Crynodeb o'r sail resymegol |
|---|---|
| Y Deddfau Amaethyddiaeth a Deddfau, Mesurau neu chyfreithiau eraill y gellir eu dirnad yn rhwydd o'u teitl a'u cynnwys fel rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn bennaf neu'n unig. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Amaethyddiaeth 1947, Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. | Gyda'i gilydd, mae'r Deddfau hyn yn rhoi pwerau a dyletswyddau i Weinidogion Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus neu gyrff statudol eraill, i reoleiddio neu gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru. |
| Cyfreithiau sy'n rheoleiddio gweithgarwch amaethyddol neu ddefnydd tir amaethyddol, ac sydd wedi'u hanelu at warchod yr amgylchedd a bywyd gwyllt, lliniaru yn erbyn newid hinsawdd, rheoli adnoddau naturiol a mynediad i gefn gwlad. Mae enghreifftiau'n cynnwys Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a Rheoliadau Llosgi Gweddillion Cnydau 1993.[40] | Defnyddir tua 90% o dir Cymru ar gyfer amaethyddiaeth sy'n golygu bod gan y sector amaethyddol y potensial i effeithio'n sylweddol ar amgylchedd, adnoddau naturiol a bywyd gwyllt Cymru. |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, ac sy'n berthnasol i dda byw. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007.[41] | Defnyddir 78% o dir amaethyddol Cymru ar gyfer ffermio da byw. Mae 78% o'r mathau o ffermydd yng Nghymru yn ffermydd pori da byw.[42] |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud â phlanhigion (gan gynnwys cnydau amaethyddol), coedwigoedd a gwrychoedd ac sy'n gymwys yn y cyd-destun amaethyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Iechyd Planhigion 1967, Deddf Amrywogaethau | Defnyddir tua 6% o dir amaethyddol ar gyfer garddwriaeth a chnydau âr.[44]<br><br>Yn ogystal, defnyddir 7.5% o dir amaethyddol Cymru fel coetir fferm[45] ac |

40 OS 2021/77 (Cy 20); OS 1993/1366.

41 OS 2007/3070 (Cy 264).

42 Llywodraeth Cymru, *Incymau Fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024* (Ionawr 2025) https://www.llyw.cymru/incymau-fferm-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html.

44 Llywodraeth Cymru, *Arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth* (Rhagfyr 2025) https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2024/11/4/1732181435/survey-agriculture-and-horticulture-june-2024.pdf, t 6.

45 Adroddodd Ymchwil Coedwigaeth fod 132,000 hectar o goetir fferm yng Nghymru tra nododd yr arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth gyfanswm o 1,770,100 hectar o dir amaethyddol.

| | |
|---|---|
| Planhigion 1997 a Rheoliadau Gwrychoedd 1997.[43] | mae 42% o'r holl goetiroedd yng Nghymru wedi'u lleoli ar ffermydd yng Nghymru.[46] |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud â phrydlesu tir amaethyddol, tai i weithwyr amaethyddol a chyfreithiau rheoli tir neu gyfreithiau datblygu eraill sy'n berthnasol i dir amaethyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. | Mae tua thraean o dir amaethyddol Cymru a Lloegr yn cael ei osod i denantiaid.[47]<br><br>Adroddir bod gweithgareddau arallgyfeirio ar ffermydd Cymru, sy'n gallu ymgysylltu â chyfreithiau rheoli a datblygu tir ehangach, wedi tyfu dros y degawd diwethaf. Yn 2017, roedd gweithgareddau arallgyfeirio yn cynrychioli, ar gyfartaledd, 3.4% o refeniw ffermydd yng Nghymru.[48] |
| Cyfreithiau sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch a nwyddau amaethyddol.[49] | Mae gweithgareddau amaethyddol yn rhan o gam cychwynnol y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch amaethyddol ("y gadwyn gyflenwi amaethyddol"). Gall camau eraill yn y gadwyn gyflenwi amaethyddol gynnwys prosesu, pecynnu, trafnidiaeth ac adwerthu. Mae nifer cymharol sylweddol o gyfreithiau sy'n berthnasol i weithgareddau sy'n digwydd drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. |

3.33 Mae pob un o'r meysydd uchod yn cael eu hystyried yn fanylach ym Mhenodau 5 i 10 yr adroddiad hwn. Mae'r penodau hynny'n ystyried y cyfreithiau hynny sy'n perthyn i'r categorïau bras a amlinellir uchod ac yn archwilio a yw'r cyfreithiau dan sylw yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## MEINI PRAWF AR GYFER CYNNWYS YN Y DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL

3.34 Ein tasg yw penderfynu pa ddeddfwriaeth bresennol y dylid ei chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fel yr amlinellwyd uchod, rydym o'r farn bod

43 OS 1997/1160.

46 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Growing Together: A strategy for sustainably increasing tree cover in Wales" (Medi 2021) https://www.nfu-cymru.org.uk/media/rx5jui5k/growing-together.pdf, 2.

47 Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, "Agricultural Tenancy Reform" (Ionawr 2021) https://lordslibrary.parliament.uk/agricultural-tenancy-reform/.

48 Ymchwil y Senedd, "Arallgyfeirio a gwytnwch ffermio yng Nghymru: cyfleoedd yn dilyn Brexit" (Rhagfyr 2019) 6.

49 Fodd bynnag, nid yw ein hadroddiad yn ystyried yr holl gyfreithiau sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. Er enghraifft, mae cyfreithiau sy'n rheoleiddio milfeddygon y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn gan fod cyfreithiau o'r fath yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl (am ragor o fanylion gweler paragraff 7.101 yr adroddiad).

amwysedd ynghylch pa ddeddfwriaeth sy'n rhan o'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol i Gymru.

3.35 Yng ngoleuni'r amwysedd hwn, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod yn glir ynghylch ein rhesymeg dros gynnig bod cyfreithiau penodol sy'n berthnasol i'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol neu sy'n rheoleiddio'r sector amaethyddol yn cael eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, ac eraill yn cael eu heithrio. Yn benodol, rhaid i ni fod yn glir ynghylch y math o gyfraith a natur y gyfraith rydym yn ei chynnig sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God.

3.36 Yn hynny o beth, awgrymwn y dylai darpar God gwmpasu'r cyfreithiau hynny sy'n:

(1) ymwneud â phwnc amaethyddiaeth; a

(2) sydd â chymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

### Ein maen prawf cyntaf: yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth

3.37 Wrth asesu a yw cyfreithiau neu ddarpariaethau deddfwriaethol yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth, rydym yn canolbwyntio ar nodi nod y gyfraith neu'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol dan sylw. Pan fyddant ar gael, rydym yn cyfeirio at ffynonellau awdurdodol wrth wneud yr asesiad hwn. Mae enghreifftiau o ffynonellau o'r fath yn cynnwys cyfraith achosion, dadleuon seneddol wrth ddarllen deddfwriaeth ddrafft, nodiadau esboniadol i ddeddfwriaeth, memoranda esboniadol ar gyfer Biliau, canllawiau'r llywodraeth, gweithiau academaidd neu destunau gan ymarferwyr. Rydym o'r farn y bydd y maen prawf cyntaf yn caniatáu i ni nodi'r cyfreithiau hynny sydd wedi'u hanelu at reoleiddio neu gefnogi'r sector amaethyddol yng Nghymru. Bydd yn ein helpu ymhellach i eithrio'r cyfreithiau hynny a allai fod yn berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol, ond sydd â nod nad yw'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth.

### Ein hail faen prawf: cymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth neu sydd wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth

3.38 Mae ein maen prawf cyntaf yn taflu'r rhwyd yn eang drwy ei gwneud yn ofynnol gwerthuso a yw nod y ddeddfwriaeth sy'n cael ei hadolygu yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Yr ydym yn ymwybodol, fodd bynnag, y gall fod gan ddarn penodol o gyfraith amaethyddol nifer o nodau polisi, na fydd pob un ohonynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth, ac yr ydym yn aml wedi canfod bod hynny'n wir.

3.39 Yn ogystal, bydd llawer o gyfreithiau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol hefyd yn berthnasol yn ymarferol i sectorau eraill neu mewn cyd-destunau eraill. Mewn achosion o'r fath, gall fod yn anodd cyfiawnhau cynnwys y cyfreithiau hynny yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru pan allai sectorau neu ddiwydiannau eraill hefyd fod angen cyfeirio at y deddfau dan sylw.

3.40 Felly, mae ein hail faen prawf yn ein helpu i gydbwyso ystyriaethau o'r fath sy'n cystadlu â'i gilydd drwy ganolbwyntio ar gymhwyso'r gyfraith yn ymarferol. Er enghraifft, rydym fel arfer yn ystyried ai ffermwyr yw'r prif grŵp o unigolion sy'n gorfod

cydymffurfio â chyfraith benodol.[50] Mae penderfynu a yw cyfraith yn berthnasol yn ymarferol i'r sector amaethyddol yn bennaf yn golygu defnyddio barn werthusol. Felly, i lywio'r asesiad hwn, rydym yn dibynnu ar dystiolaeth, fel ystadegau, ac adnoddau llawn gwybodaeth eraill, fel cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU neu'r diwydiant. Rydym hefyd yn ystyried a yw'r ddeddfwriaeth yn rheoleiddio diwydiant neu weithgarwch sy'n bodoli i wasanaethu neu gefnogi'r sector amaethyddol, ond nad yw efallai'n cael ei ystyried yn rhan o'r sector.[51] Felly, mae ein hail faen prawf yn ein helpu i lunio paramedrau synhwyrol o amgylch y darpar God.

3.41 Yn olaf, rydym wedi dod ar draws rhai achosion lle mae'r asesiad ynghylch a yw cyfraith yn bodloni ein meini prawf cynnwys yn gytbwys iawn. Yn yr achosion hynny, rydym wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol asesu cyfran y darpariaethau mewn darn o ddeddfwriaeth sydd naill ai'n cyfeirio'n uniongyrchol at y term “amaethyddiaeth”, neu sy'n berthnasol yn bennaf neu'n unig i amaethyddiaeth. Dim ond pan fydd y dadleuon o blaid ac yn erbyn cynnwys cyfraith yn y darpar God yn gytbwys iawn y byddwn yn defnyddio'r prawf hwn fel ffordd bragmataidd o asesu addasrwydd i gael ei chynnwys.

### Meini prawf cynnwys: beth mae amaethyddiaeth yn ei olygu?

3.42 Mae ein meini prawf ar gyfer penderfynu pa gyfreithiau sy'n perthyn i ddarpar god cyfraith amaethyddol Cymru yn cael eu siapio'n rhannol gan ein dealltwriaeth o'r term “amaethyddiaeth”. Fodd bynnag, nid yw “amaethyddiaeth” yn derm sydd ag un diffiniad a dderbynnir.

3.43 Efallai y bydd rhai yn meddwl am amaethyddiaeth mewn termau traddodiadol fel rhywbeth sy'n ymwneud ag arferion tyfu cnydau, magu da byw neu ffermio gwartheg godro. Yn wir, mae un geiriadur yn diffinio “amaethyddiaeth” fel “gwyddoniaeth neu arferion trin y pridd a magu anifeiliaid”.[52]

3.44 Efallai y bydd gan eraill ganfyddiad ehangach o'r hyn y mae amaethyddiaeth yn ei gwmpasu. Nid yw'r diffiniad uchod o eiriadur yn cyfeirio'n benodol at weithgarwch garddwriaethol sy'n cynnwys cynhyrchu cnydau traul, fel ffrwythau, yn ogystal â thyfu planhigion a blodau addurnol.[53] Ar ben hynny, mae ystyr amaethyddiaeth yn parhau i esblygu yn unol â datblygiadau technolegol sy'n siapio ac yn dylanwadu ar arferion ffermio. Er enghraifft, mae amaethyddiaeth mewn amgylchedd wedi'i reoli yn fath

50 Fel yr esbonnir yn ein geirfa, rydym yn defnyddio'r term ffermwr i gyfeirio at unrhyw unigolyn sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n bodloni'r diffiniad o amaethyddiaeth, fel y nodir yn adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Pan fyddwn yn cyfeirio at ffermwyr, mae hyn yn cynnwys garddwyr a gweithwyr eraill yn y sector amaethyddol y deellir bod eu gweithgarwch o fewn ystyr “amaethyddiaeth” o dan Ddeddf 2023.

51 Er enghraifft, ym Mhennod 8, rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith sy'n llywodraethu amrywogaethau planhigion yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Mae hyn er gwaethaf y ffaith efallai na fyddai'r diwydiant sy'n cynhyrchu amrywogaethau planhigion sy'n cael eu gwarchod gan hawliau bridwyr planhigion yn cael ei ystyried yn rhan o'r sector amaethyddol. Yn fwy cyffredinol, rydym yn egluro ym Mhennod 10 nad yw ein hadolygiad o gyfraith amaethyddol yn ymestyn i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gam ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol.

52 Geiriadur Saesneg Rhydychen.

53 Rydym hefyd yn cydnabod y bydd safbwyntiau gwahanol ynghylch a yw garddwriaeth yn sector ynddo'i hun neu'n rhan o sector amaethyddol ehangach.

modern o ffermio sy'n golygu defnyddio technoleg i reoli'r amodau lle mae cnydau amaethyddol yn cael eu tyfu.

3.45 Lle mae amwysedd ynghylch ystyr term, gall fod yn ddefnyddiol troi at ddiffiniadau statudol i nodi, o leiaf yn y cyd-destun deddfwriaethol, yr hyn y deellir bod term yn ei olygu. Fodd bynnag, mewn deddfwriaeth sylfaenol, rydym wedi nodi 33 o wahanol Ddeddfau sy'n cynnwys darpariaethau sy'n diffinio'r term “amaethyddiaeth” sydd mewn grym ar hyn o bryd ac sy'n berthnasol yng Nghymru. Yn yr holl Ddeddfau hynny, rydym wedi nodi 13 diffiniad penodol o “amaethyddiaeth” fel y'u cynhwysir mewn darpariaethau deddfwriaethol sy'n berthnasol yng Nghymru.[54]

3.46 Mae'n amlwg, felly, y gall y term “amaethyddiaeth” fod ag ystyron gwahanol yn ddibynnol ar y cyd-destun. Mae ystyr y term hefyd yn esblygu'n barhaus yn unol â datblygiadau yn y sector. O ganlyniad, at ddibenion y prosiect hwn, rydym o'r farn na fyddai'n ddefnyddiol cyfyngu ein hunain yn gaeth i ddiffiniad penodol o “amaethyddiaeth” wrth geisio nodi'r corff o gyfraith y dylid ei ddosbarthu fel cyfraith amaethyddol.

3.47 Serch hynny, er mwyn penderfynu a ddylid cynnwys cyfraith yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, rydym o'r farn ei bod yn ddefnyddiol cael pwynt cyfeirio o leiaf o ran beth mae “amaethyddiaeth” yn ei olygu yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn hynny o beth, rydym yn cynnig cyfeirio at y diffiniad o amaethyddiaeth fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”). Mae adran 51 y Ddeddf honno yn darparu mai ystyr “amaethyddiaeth” yw:

(1) garddwriaeth;

(2) ffermio cnydau âr;

(3) ffermio gwartheg godro;

(4) cadw a bridio da byw;

(5) defnyddio tir fel tir pori;

(6) defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth;

(7) amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir;

(8) tyfu fel arall blanhigion i'w gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn; a

(9) chynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer gweithgaredd a restrir yn is-baragraffau (1) i (8).

3.48 Ein dealltwriaeth ni yw mai bwriad y diffiniad o “amaethyddiaeth” fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf 2023 yw adlewyrchu gweithgareddau ffermio modern a thraddodiadol a wneir yng Nghymru ac i roi cyfrif am arferion arloesol sy'n dod i'r

---

[54] Ym Mhennod 5, rydym yn ystyried a fyddai cydgrynhoi deddfwriaeth amaethyddol mewn Deddf sy'n rhan o'r darpar God yn gyfle i symleiddio neu foderneiddio'r gwahanol ddiffiniadau statudol presennol o amaethyddiaeth.

amlwg. Mae'r nodiadau esboniadol i Ddeddf 2023 yn cadarnhau mai'r diffiniad statudol o “amaethyddiaeth” fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 yw:

> bwriedir iddo adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau ffermio sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ar hyn o bryd, a chofnodi gweithgareddau sy'n cael eu hystyried yn gyffredin yn weithgareddau ffermio traddodiadol, e.e. tyfu cnydau ar gyfer bwyd, yn ogystal â gweithgareddau ffermio mwy modern, e.e. amaethyddiaeth mewn amgylchedd wedi'i reoli sy'n cynnwys datblygiadau mwy diweddar fel ffermio fertigol.[55]

3.49 Yn ogystal â darparu man cychwyn ar gyfer ein diffiniad o'r term “amaethyddiaeth”, mae adran 51 Deddf 2023 wedi ein helpu ymhellach i lunio paramedrau synhwyrol ynghylch cwmpas ein gwaith. Roedd yn rhoi fframwaith i ni ganolbwyntio ein hymdrechion arno ar y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i weithgareddau a defnydd tir sy'n cael eu cydnabod amlaf fel rhai sydd o fewn ystyr amaethyddiaeth.

### Defnyddio ein meini prawf cynnwys

3.50 Fel yr amlinellwyd uchod, bwriad ein meini prawf cynnwys yw llywio ein hystyriaeth o ba gyfreithiau sy'n perthyn i’r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae'r meini prawf wedi helpu i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'n tasg mewn ffordd gyson a'n bod yn dryloyw ynghylch ein dull.

3.51 Fodd bynnag, nid yw ein meini prawf wedi cael eu llunio gyda'r un manylder y gellid ei ddefnyddio wrth lunio prawf cyfreithiol a geir mewn statud. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd ein bod wedi cyfeirio at y meini prawf fel canllaw ar gyfer ein hymarfer, yn hytrach na'u cymhwyso fel prawf penderfynodol. Yn wir, mae achosion lle rydym wedi dod i'r casgliad bod cyfraith yn perthyn i'r darpar God, hyd yn oed os nad yw'n gwbl glir a yw'r ddeddfwriaeth yn bodloni ein meini prawf yn llawn. Pan fo achosion o'r fath wedi codi, rydym yn cymryd gofal i egluro ein rhesymeg dros ddod i'r casgliad hwn. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod bod llawer o fodelau posibl ar gyfer darpar God cyfraith amaethyddol Cymru ac weithiau mae'r gwerthusiadau sydd i'w gwneud ynghylch ffiniau'r darpar God yn dibynnu'n fawr ar ffeithiau.[56]

3.52 Mae ein meini prawf cynnwys hefyd yn ein helpu i ystyried a yw cyfreithiau sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol ond hefyd i sectorau neu gyd-destunau eraill, yn gallu cyd-fynd yn fwy naturiol â chod posibl arall o gyfraith Cymru yn y dyfodol. Mae'n anodd dod i gasgliadau am ffurf a chynnwys codau cyfraith eraill gan fod gwaith i godeiddio'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru yn mynd rhagddo: rhaglen waith sydd wedi cael ei disgrifio'n briodol fel un sy'n galw am ymdrech rhwng cenedlaethau.[57]

3.53 Serch hynny, mae wedi bod yn ddefnyddiol i ni gyfeirio at dacsonomeg codau drafft Llywodraeth Cymru fel enghraifft, sy'n dangos pa godau ychwanegol o gyfraith Cymru

---

55 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), paragraff 267.

56 Er enghraifft, mae'r ffaith mai ffermio da byw sy'n dominyddu'r sector amaethyddol yng Nghymru wedi cyfrannu at ein casgliad ym Mhennod 8 bod y gyfraith sy'n rheoli iechyd anifeiliaid yn addas i'w chynnwys yn y Cod.

57 Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar Ddyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio* (Hydref 2019), t 6.

y gellid eu datblygu yn y dyfodol.[58] Mae ein meini prawf cynnwys wedi cael eu datblygu i gydnabod y ffaith bod ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn cael ei osod yn erbyn rhaglen waith ehangach ac arloesol i godeiddio'r gyfraith ar bynciau datganoledig. Yn ei dro, mae'r meini prawf yn helpu ein hasesiad o ble y dylid llunio ffiniau darpar God cyfraith amaethyddol Cymru.

## CASGLIAD: EIN DULL O SEFYDLU CWMPAS DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL CYMRU

3.54 Roedd y prosiect cwmpasu hwn yn cynnwys adolygiad o nifer sylweddol o gyfreithiau unigol. Y cwestiwn allweddol yw pa rai ohonynt a all, ac a ddylai, fod yn rhan o ddarpar god cyfraith amaethyddol cydlynol i Gymru. Mae nifer helaeth o statudau yn berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru, ac mae'r bennod hon wedi ceisio egluro sut rydym wedi blaenoriaethu'r meysydd ffocws ar gyfer yr adolygiad hwn, yn enwedig ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y canlyniad fu ffocws strategol ar feysydd o'r gyfraith sy'n ymddangos yn fwyaf canolog i'r sector amaethyddol yng Nghymru.

3.55 Felly, mae nodi deddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God o reidrwydd wedi bod yn seiliedig ar ystyriaeth lefel uchel ond methodolegol o'r cyfreithiau yr ymgysylltwyd â nhw yn ein gwaith. At hynny, er ein bod wedi cyflawni ein gwaith gyda chwmpas cychwynnol eang, mae'n bosibl bod rhai cyfreithiau y mae angen i ffermwyr Cymru gydymffurfio â hwy, neu y mae angen iddynt gyfeirio atynt, nad ydynt wedi cael sylw penodol yn yr adroddiad hwn.

3.56 Yn olaf, fel y dangosir yn y bennod hon, mae penderfyniadau manwl i'w gwneud ynghylch ffiniau priodol darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Drwy gymhwyso meini prawf i'n hystyriaethau, rydym wedi ceisio bod yn gyson ac yn dryloyw ynghylch ein dull o nodi'r ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys mewn cod o'r fath yn ein barn ni. Felly, bwriad yr adroddiad hwn yw gosod y sylfeini ar gyfer unrhyw waith sy'n gysylltiedig â datblygu darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

58 Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar Ddyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio* (Hydref 2019), tt 35 i 45.

# Pennod 4: Materion cyffredinol sy'n ymwneud â chodeiddio cyfraith amaethyddol

## CYFLWYNIAD

4.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar nodweddion unigryw'r sector amaethyddol yng Nghymru a allai ddylanwadu ar ffurf, cynnwys a chyflwyniad darpar God cyfraith amaethyddol i Gymru (“y darpar God”). Mae'n edrych ymhellach ar ystyriaethau cyffredinol, fel y nodir isod, a allai hefyd fod yn sail i'r broses o sefydlu'r darpar God.

(1) I ba raddau y gall gwahanol ddarllenwyr neu gynulleidfaoedd y darpar God ddylanwadu ar ba ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynnwys o fewn ei gwmpas.

(2) Y pwerau sydd ar gael i ddod â chyfraith a gymathwyd o fewn cwmpas y darpar God a'r budd o wneud hynny fel ffordd o wella hygyrchedd y gyfraith.

(3) Y berthynas rhwng faint o ddeddfwriaeth sydd yn y darpar God a pha mor hygyrch ydyw.

(4) Y llu o ddiffiniadau statudol gwahanol o dermau allweddol fel amaethyddiaeth a da byw yn y ddeddfwriaeth amaethyddol bresennol.

(5) Galwadau am ddiwygio deddfwriaethol sylweddol a allai ddylanwadu ar amseriad neu drefn sefydlu'r darpar God.

## FFERMYDD TRAWSFFINIOL YNG NGHYMRU

4.2 Dywedir yn aml bod tua 500 o ffermydd trawsffiniol wedi'u lleoli ar y ffin neu'n agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr (“y ffin”).[1] Nid ydym wedi gallu dod o hyd i ffynhonnell swyddogol ar gyfer y ffigur hwn ac nid oes llawer o wybodaeth ar gael am yr hyn y mae’r term “ffermydd trawsffiniol” yn ei olygu yn union yn y cyd-destun hwn. O'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, mae'r term “ffermydd trawsffiniol” fel arfer yn cyfeirio at y ffermydd hynny, sydd wedi'u lleoli ar y ffin neu gerllaw iddi, sy'n cynnwys tir yng Nghymru a thir sydd wedi'i leoli yn Lloegr, ni waeth a yw'r tir dan sylw yn croesi'r ffin yn ffisegol. Nodwn fod y diffiniad hwn o fferm drawsffiniol hefyd yn cael ei fabwysiadu yn y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer cymorth amaethyddol fel y cymeradwywyd dros dro gan weinidogion perthnasol Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig.[2] Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar sut gallai creu'r darpar God effeithio ar ffermwyr sy'n gweithredu ffermydd trawsffiniol (“ffermwyr trawsffiniol”) sy'n gorfod cydymffurfio â'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr.

---

[1] Undeb Amaethwyr Cymru, “Flintshire farmers raise cross border concerns with local AM” (11 April 2017) https://fuw.org.uk/en/news/12646-flintshire-farmers-raise-cross-border-concerns-with-local-am.

[2] Fframwaith Cyffredin Cymorth Amaethyddol: Cytundeb amlinellol a choncordat fframwaith dros dro (2022) CP 613, t 46.

4.3 Er bod Cymru a Lloegr yn rhannu un awdurdodaeth gyfreithiol, mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol ym mhob gwlad yn parhau i ddargyfeirio yn dilyn datganoli ac, yn fwy diweddar, penderfyniad y DU i adael yr UE.[3] O ganlyniad, rhaid i ffermwyr trawsffiniol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr a deall lle mae'r gyfraith honno'n wahanol.

4.4 Er enghraifft, os yw'r gyfraith sy'n berthnasol mewn un wlad yn gosod mesurau llymach na'r gyfraith sy'n berthnasol yn y wlad arall, yna bydd angen i ffermwr trawsffiniol, yn y rhan fwyaf o achosion, gydymffurfio â'r gyfraith sy'n gosod y safon fwyaf llym. Mae hynny o leiaf mewn perthynas ag unrhyw dir sydd yn y wlad lle mae'r gyfraith sy'n gosod y safon fwyaf llym yn gymwys.[4] Efallai y bydd achosion hefyd lle mae natur y gyfraith yn golygu bod yn rhaid i ffermwr trawsffiniol gydymffurfio â safon reoleiddio fwy llym sydd wedi'i gosod mewn un wlad ar draws ei fferm drawsffiniol i gyd. Er enghraifft, gallai cyfraith ddamcaniaethol orfodi brechu gorfodol ar gyfer defaid yng Nghymru. Mewn theori, efallai y bydd angen i ffermwr trawsffiniol gydymffurfio â gofyniad o'r fath ar gyfer yr holl ddefaid ar fferm drawsffiniol mewn amgylchiadau lle mae'r ffermwr hwnnw'n cadw'r defaid mewn cylchdro ar draws tir amaethyddol yng Nghymru a thir amaethyddol yn Lloegr.

4.5 Gall gwahaniaethau yn y gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru ac yn Lloegr hefyd greu heriau ymarferol ac ansicrwydd i ffermwyr trawsffiniol. Arweiniodd achos diweddar yn Lloegr o feirws y tafod glas, clefyd sy'n effeithio ar dda byw, at Weinidogion Cymru yn gosod cyfyngiadau ar symudiadau da byw o Loegr i Gymru. Fodd bynnag, cafwyd rhai adroddiadau o ansicrwydd ynghylch sut roedd y cyfyngiadau'n berthnasol i symudiadau da byw rhwng ffermydd trawsffiniol a marchnadoedd da byw yn Lloegr.[5]

4.6 Fodd bynnag, mae dargyfeirio cyfraith amaethyddol fel y mae'n gymwys i Gymru a Lloegr yn ganlyniad cynhenid i ddatganoli. Mae Senedd Cymru ("y Senedd") wedi cael pwerau i ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth ers 2011.[6] Yn ogystal, mae datganoli pwerau gweithredol i Gymru sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn dyddio'n ôl i ganol yr ugeinfed ganrif.[7] Felly, mae'r fframwaith datganoli sy'n caniatáu i ddeddfwriaeth amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru a'r ddeddfwriaeth yn Lloegr fod yn wahanol eisoes wedi'i wreiddio'n gadarn.

4.7 Fel rydym yn ei drafod ym Mhennod 1, nod cod cyfraith Cymru yw bod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol. Bydd sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn golygu dod â'r gyfraith amaethyddol sylfaenol bresennol sy'n berthnasol yng Nghymru ynghyd mewn Deddf Senedd Cymru, neu gyfres o Ddeddfau o'r fath. Ar hyn o bryd mae achosion lle mae'n rhaid i ffermwyr trawsffiniol gyfeirio at

---

3 Pan fu'r DU yn aelod o'r UE, roedd polisi amaethyddol yn cael ei gydlynu i raddau helaeth ar lefel yr UE. Yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE, mae gan bedair gwlad y DU fwy o gyfle i gychwyn ar fframweithiau deddfwriaethol a pholisïau amaethyddol penodol.

4 Yn amodol ar effaith Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 2.

5 D Gregory-Kumar, "Bluetongue restrictions worry farmers on Shropshire-Wales border" *BBC News* (25 Mehefin 2025), https://www.bbc.co.uk/news/articles/c98w15l1ew8o.

6 Gweler Pennod 2 sy'n rhoi trosolwg o'r broses o ddatganoli pwerau deddfwriaethol a gweinyddol.

7 Gweler Pennod 2.

ddarpariaethau mewn Deddf Senedd y DU sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Gall creu'r darpar God olygu tynnu darpariaethau deddfwriaethol o Ddeddf Senedd y DU sy'n gymwys i Gymru a Lloegr ac ailddatgan y darpariaethau hynny mewn Deddf Senedd Cymru sy'n gymwys i Gymru yn unig. Mewn achosion o'r fath, bydd darpariaethau sy'n berthnasol i ffermydd trawsffiniol yn cael eu taenu ar draws dau ddeddfiad. Dyma Ddeddf wreiddiol Senedd y DU sy'n cynnwys y gyfraith sy'n berthnasol yn Lloegr, ac unrhyw Ddeddf newydd Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi ac yn codeiddio'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ar gyfer Cymru yn unig.

4.8 Er gwaethaf yr uchod, credwn y bydd ffermwyr trawsffiniol yn elwa o godeiddio'r gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru. Efallai na fydd Deddf Senedd y DU sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr yn berthnasol i bob gwlad yn yr un ffordd. Er enghraifft, gall Deddf Senedd y DU ddarparu bod darpariaethau penodol i fod yn gymwys i Gymru mewn modd gwahanol i Loegr, neu fod darpariaethau penodol i fod yn gymwys i Gymru yn unig. Mae hyn yn golygu y gall fod yn heriol nodi lle mae'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru yn wahanol i'r hyn a geir yn Lloegr. Ochr yn ochr â sicrhau manteision eraill, gall cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith amaethyddol fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd cydgrynhoi deddfwriaeth amaethyddol mewn Deddf Senedd Cymru yn ei gwneud yn haws i ddarllenwyr y gyfraith nodi'r union gorff o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru. Rydym o'r farn y bydd y budd posibl hwn o gymorth penodol i ffermwyr trawsffiniol a fydd ag angen penodol i ddeall lle mae'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru a'r gyfraith yn Lloegr yn wahanol i'w gilydd.

4.9 Unwaith y bydd y gyfraith ar bwnc wedi'i dwyn ynghyd o dan god cyfraith Cymru, bydd y drefn a gyflawnir drwy godeiddio yn cael ei gynnal. Mae hyn yn golygu y dylai diwygiadau deddfwriaethol i Ddeddf sy'n rhan o god cyfraith Cymru gael eu gwneud i'r Ddeddf ei hun, a'u cynnwys ynddi. Felly, dylai creu'r darpar God olygu na fydd yn rhaid i ffermwyr trawsffiniol roi darpariaethau cyfreithiol tameidiog at ei gilydd mwyach i ddeall effaith y gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Yn yr adran uchod, rydym yn cydnabod y gallai creu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyflwyno manteision ac anfanteision i ffermwyr trawsffiniol. At ei gilydd, credwn fod y manteision yn drech na'r anfanteision, ac y dylai codeiddio, mewn egwyddor, wella hygyrchedd cyfraith amaethyddol fel y mae'n berthnasol i ffermydd trawsffiniol.

## HYGYRCHEDD AR-LEIN

4.10 Bwriad codeiddio yw gwella hygyrchedd y gyfraith. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, y bwriad yw cyhoeddi cod cyfraith Cymru er mwyn i aelodau'r cyhoedd allu cael gafael ar y ddeddfwriaeth sy'n rhan o'r cod.

4.11 Ein dealltwriaeth ni yw y bydd y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cod cyfraith Cymru yn cael ei chyhoeddi a'i gwneud yn hygyrch ar-lein drwy dudalen we. Mae'r cod cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru ar gael drwy wefan Cyfraith Cymru. Mae tudalen we Cyfraith Cymru ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn rhoi crynodeb o brif ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae hefyd yn esbonio bod y Ddeddf yn rhan o god cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn rhestru'r is-gyfreithiau a lunnir o dan y Ddeddf. Mae'r dudalen we hefyd yn darparu dolenni i gopïau electronig o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol, fel y'u cyhoeddwyd ar wasanaeth cronfa ddata deddfwriaeth y DU: legislation.gov.uk.

4.12 Mae legislation.gov.uk yn wefan rad ac am ddim sy'n cael ei chynnal gan yr Archifau Gwladol. Mae'n cyhoeddi'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn y DU, ond nid pob un, a'i nod yw cyhoeddi deddfwriaeth sydd newydd gael ei deddfu o fewn 24 awr i'w chyhoeddi ar bapur.[8] Gellir chwilio am ddeddfwriaeth yn ôl ei theitl, blwyddyn ei deddfu a thrwy ddefnyddio geiriau allweddol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl chwilio am ddeddfwriaeth yn ôl pwnc.[9] Ystyriwyd cyfyngiadau legislation.gov.uk yn y cyswllt hwn gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad:

> Er y gall gwefan legislation.gov.uk olrhain newidiadau a wneir i ddeddfwriaeth, nid yw hyn yn helpu'r rhai sy'n ceisio deall y gyfraith mewn maes penodol os yw deddfwriaeth berthnasol wedi'i gwasgaru ar draws nifer o statudau ac offerynnau gwahanol.[10]

4.13 Ar ben hynny, nid yw legislation.gov.uk yn caniatáu i ddefnyddwyr hidlo canlyniadau chwilio i nodi'r is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan ddarpariaeth benodol neu set o ddarpariaethau mewn Deddf. Felly, mae creu a chyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ar-lein yn golygu y bydd yn haws i unigolion leoli ar-lein y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth sy'n berthnasol yng Nghymru.

4.14 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd pawb sydd angen deall cyfraith amaethyddol yn defnyddio adnoddau ar-lein. Gall ffactorau amrywiol ddylanwadu ar a yw unigolion yn defnyddio adnoddau ar-lein i gael mynediad at y gyfraith neu i'w deall, gan gynnwys eu mynediad at gyfrifiaduron, lefel eu sgiliau wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u mynediad at ryngrwyd dibynadwy.

4.15 Mae gan y mwyafrif helaeth o adeiladau yng Nghymru fynediad i'r rhyngrwyd. Yn ôl Ofcom, yn 2025, roedd gan 98% o safleoedd yng Nghymru fynediad at o leiaf "band eang teilwng" drwy gysylltiad llinell sefydlog.[11] Fodd bynnag, mae tua 32,000 o adeiladau yng Nghymru "nad ydynt yn gallu cael mynediad at fand eang gweddus drwy gysylltiad llinell sefydlog".[12] Yn 2022, adroddodd Ofcom fod y rhan fwyaf o'r adeiladau yng Nghymru nad oeddent yn gallu cael mynediad at fand eang gweddus, trwy gysylltiad llinell sefydlog, wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig.[13]

4.16 Felly, efallai y bydd y rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru, sy'n fwy tebygol o fod mewn ardaloedd gwledig neu'n agos atynt, yn wynebu rhwystrau wrth gael gafael ar gyhoeddiad ar-lein o'r darpar God. Yn wir, mae cydberthynas rhwng yr ardaloedd awdurdod lleol hynny yng Nghymru sydd â'r cyfraddau cyflogaeth

---

8 Yr Archifau Gwladol, "legislation.gov.uk: help" https://www.legislation.gov.uk/help.

9 Fodd bynnag, mae'n bosibl chwilio ar legislation.gov.uk am is-ddeddfwriaeth yn ôl pennawd pwnc.

10 The Legislative Process: Preparing Legislation for Parliament, Report of the Select Committee on the Constitution (2017-2019) HL 27, paragraff 137.

11 Ofcom, *Cysylltu'r Gwledydd 2025: Adroddiad Cymru* (Tachwedd 2025) t 10. Fodd bynnag, mae canran yr adeiladau heb fynediad at fand eang gweddus yng Nghymru yn is wrth ystyried yr adeiladau hynny sy'n gallu cael mynediad at fand eang gweddus naill ai drwy gysylltiad llinell sefydlog neu fynediad diwifr sefydlog: 0.4% o adeiladau.

12 Ofcom, *Cysylltu'r Gwledydd 2025: Adroddiad Cymru* (Tachwedd 2025) t 10.

13 Ofcom, *Cysylltu'r Gwledydd 2025: Adroddiad Cymru* (Rhagfyr 2022) t 13.

uchaf yn y sectorau amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth a'r rheini sydd â'r nifer uchaf o adeiladau heb fynediad i'r rhyngrwyd. Yn 2022, roedd Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd ar restr Ofcom o'r deg awdurdod lleol yng Nghymru sydd â'r nifer uchaf o adeiladau heb fynediad at "fand eang teilwng".[14] Mae'r un pedair ardal awdurdod lleol ymhlith yr ardaloedd hynny yng Nghymru sy'n cofnodi'r gyfran uchaf o weithwyr a gyflogir yn y sectorau amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth.[15]

4.17 Yn 2021, nododd arolwg a gynhaliwyd gan sefydliadau gan gynnwys Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ("NFU Cymru") ac Undeb Amaethwyr Cymru fod 50% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg sy'n dod o ardal wledig yng Nghymru yn teimlo nad oedd eu mynediad i'r rhyngrwyd yn gyflym nac yn ddibynadwy.[16] Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng mynediad i'r rhyngrwyd a hygyrchedd y gyfraith:

> o ystyried y gyfradd y mae rheolau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn newid ac y byddant yn newid yn y dyfodol, a'r cosbau sy'n gysylltiedig â mân wallau, mae'n hanfodol bod newidiadau o'r fath yn cael eu cyfleu i'r diwydiant mewn fformatau hygyrch i bawb. [...] Gyda mynediad at fand eang dibynadwy yn dal yn amlwg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn llawer o'n hardaloedd gwledig, a busnesau fferm yn cynrychioli cyfran fawr o'r rheini heb fynediad at fand eang, mae'n hanfodol bod cyfyngiadau gwasanaethau a chyfathrebiadau ar-lein yn cael eu cydnabod a bod mynediad gwledig at fand eang yn cael ei gynyddu.[17]

4.18 Ar wahân, mae rhai rhanddeiliaid wedi tynnu ein sylw at y ffaith y gallai cyfansoddiad demograffig y sector amaethyddol yng Nghymru effeithio ar a fydd ffermwyr yn cyfeirio at y darpar God sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein. Dywedir bod cyfartaledd oedran ffermwyr Cymru dros 60 oed.[18] Yn ogystal, adroddodd arolwg amaethyddol ar gyfer Cymru yn 2016 bod tua 3% o brif ffermwyr Cymru o dan 35 oed. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod tua 39% o brif ffermwyr yn 65 oed neu'n hŷn.[19]

4.19 Mae arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru ar ddefnyddio'r rhyngrwyd a sgiliau digidol yn cofnodi bod cyfraddau defnyddio'r rhyngrwyd yn gymharol uchel ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dangos bod cyfran y defnyddwyr rhyngrwyd yn

---

14 Ofcom, *Cysylltu'r Gwledydd 2022: Adroddiad Cymru* (Rhagfyr 2022) t 15. Cyfeiriwyd at ddiffyg seilwaith digidol ehangach mewn rhai ardaloedd gwledig fel rhwystr posibl i ffermwyr fabwysiadu technolegau newydd gan Adolygiad Gwarant Ffermydd y DU, *The UK Farm Assurance Review Report* (Ionawr 2025) t 15.

15 Mae ystadegau StatsCymru ar gyfer 2019 yn cofnodi bod Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Gwynedd yn y pum ardal awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr yn y sectorau amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/workplaceemployment-by-welshlocalareas-industry.

16 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Survey highlights digital urban-rural divide" (May 2021) https://www.nfu-cymru.org.uk/en/news-and-information/survey-highlights-digital-urban-rural-divide/.

17 Undeb Amaethwyr Cymru, "Digital Connectivity" https://fuw.org.uk/media/attachments/2025/04/11/digital-connectivity-1.pdf.

18 Undeb Amaethwyr Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Cymreig, https://committees.parliament.uk/writtenevidence/125155/html/.

19 Llywodraeth Cymru, "Ystadegau Amaethyddol Cymru: 2016" (Ionawr 2018). Mae'r adroddiad ystadegol yn disgrifio prif ffermwyr fel "y person sy'n gwneud y penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch rhedeg y fferm. Mae'n debyg mai dyma'r partner uwch yn y busnes".

uwch mewn grwpiau oedran iau.[20] Mae ymchwil a gynhaliwyd gan academyddion ym Mhrifysgol Aberystwyth yn adrodd y gall proffil oedran y gweithlu amaethyddol yng Nghymru fod yn rhwystr i fabwysiadu technoleg, gan gynnwys defnyddio offer ac adnoddau a gynhelir ar-lein.[21] Yn yr un modd, canfu arolwg yn 2012 a gynhaliwyd yn Lloegr gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ("Defra") fod hyfedredd yn y defnydd o TG ar ei uchaf ymysg y ffermwyr hynny o dan 40 oed.[22]

4.20 Drwy ein hymchwil a'n hymgysylltiad ar draws y sector amaethyddol, rydym wedi dod ar draws nifer o enghreifftiau o ffermwyr ar draws pob cenhedlaeth sydd wedi llwyddo i integreiddio'r defnydd o dechnoleg i'w harferion ffermio. Fel y nodwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru, mae bellach yn ofynnol i "ffermwyr o bob oed ddefnyddio technoleg gyfrifiadurol ar gyfer eu trafodion busnes ar-lein".[23] Ar ben hynny, mae mabwysiadu technoleg ddigidol ar ffermydd yng Nghymru yn parhau i gael ei hyrwyddo gan strategaethau amrywiol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a mentrau ehangach. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynllun gweithredu Technoleg Amaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru,[24] a rhaglen fuddsoddi Innovate UK mewn defnyddio technoleg yn y sectorau amaethyddol a bwyd yng Nghymru.[25] Fodd bynnag, mae gwneud tybiaethau cyffredinol ynghylch mynediad at wasanaethau digidol yn achosi risg o ymyleiddio a gwahaniaethu yn erbyn y rheini nad oes ganddynt fynediad o'r fath am amrywiaeth eang o resymau posibl.

4.21 Efallai y bydd ffactorau demograffig eraill hefyd sy'n dylanwadu ar p'un a fydd y rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru yn cael mynediad at y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein. Mae nodi ac archwilio pob un o'r ffactorau hynny y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Serch hynny, mae'r paragraffau blaenorol yn dangos y gallai nodweddion unigryw'r gweithlu amaethyddol yng Nghymru ddylanwadu ar p'un a yw ffermwyr yn cael mynediad at fersiwn ar-lein o'r darpar God.

4.22 Beth bynnag, ein dealltwriaeth ni yw y bydd y darpar God yn ategu yn hytrach na disodli'r adnoddau presennol sy'n ceisio gwella hygyrchedd y gyfraith. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod ffermwyr yn dibynnu ar amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau i ddeall y gyfraith. Mae enghreifftiau'n cynnwys gofyn am gyngor gan

---

[20] Llywodraeth Cymru, "Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol (Arolwg Cenedlaethol Cymru), Ebrill 2018 i Mawrth 2019" (Medi 2019) t 5. Mae'r arolwg yn cofnodi bod 98% o bobl 16 i 49 oed, 91% o bobl 50 i 64 oed, a 79% o bobl 65 i 74 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd.

[21] R Bowen a W Morris, "Digital entrepreneurship in agrifood business" (2024) 30 (2-3) *International Journal of Entrepreneurial Behaviour and Research* 482.

[22] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, "Computer usage by farmers in England 2012" (March 2013) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7a3856ed915d1fb3cd64e9/defra-stats-foodfarm-environ-fps-statsrelease2012-computerusage-130320.pdf. Nododd yr arolwg fod 85% o'r ffermwyr hynny o dan 40 oed a arolygwyd yn hyfedr wrth ddefnyddio word, excel, e-bost a chwilio ar y we, o'i gymharu â 54% o'r ffermwyr hynny sy'n 65 oed neu'n hŷn.

[23] Undeb Amaethwyr Cymru, "Digital Connectivity" https://fuw.org.uk/media/attachments/2025/04/11/digital-connectivity-1.pdf.

[24] Llywodraeth Cymru, *Cynllun gweithredu tech-amaethl i Gymru* (Tachwedd 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/cynllun-gweithredu-tech-amaeth.pdf.

[25] J Hutton, "Wales wins £400,000 for agri-tech innovation" *Agri-tech Insights* (18 Chwefror 2025) https://agritechinsights.com/index.php/2025/02/18/wales-wins-400000-for-agri-tech-innovation/.

gynghorwyr proffesiynol neu undebau ffermio, cyfeirio at ganllawiau ysgrifenedig, codau ymarfer neu gylchlythyrau'r diwydiant, a chael gafael ar adnoddau ar-lein fel gweminarau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal gwasanaeth Cyswllt Ffermio, sy'n cynnig hyfforddiant, cyngor a chyfleoedd rhwydweithio i ffermwyr.[26]

4.23 Felly, bydd unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn un o amrywiaeth o adnoddau y gall ffermwyr ddibynnu arnynt i'w helpu i ddeall cyfraith amaethyddol. Ar ben hynny, gall hyd yn oed y ffermwyr hynny nad ydynt efallai'n defnyddio'r darpar God eu hunain elwa'n anuniongyrchol o'i fodolaeth o hyd. Er enghraifft, gall cynghorwyr proffesiynol neu gyrff cynrychioliadol, fel undebau'r ffermwyr, gyfeirio at y darpar God wrth roi cymorth a chyngor i ffermwyr.

## CYNULLEIDFAOEDD Y DARPAR GOD

4.24 Yn yr adran flaenorol rydym yn canolbwyntio ar y ffactorau a allai ddylanwadu ar a yw ffermwyr yng Nghymru yn dueddol o gael mynediad at y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein. Fodd bynnag, mae ffermwyr yn un o nifer o grwpiau a allai fod â diddordeb mewn cael gafael ar y ddeddfwriaeth sydd yn y darpar God. Bydd grwpiau neu unigolion eraill a allai fod eisiau cyfeirio at y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn y darpar God yn cynnwys:

(1) cyrff sy'n cynrychioli'r sector amaethyddol megis undebau'r ffermwyr;

(2) swyddogion Llywodraeth Cymru;

(3) Gweinidogion Cymru;

(4) aelodau'r Senedd;

(5) cynghorwyr cyfreithiol;

(6) cynghorwyr proffesiynol eraill, fel asiantau tir;

(7) aelodau o'r farnwriaeth;

(8) academyddion; a

(9) cyrff rheoleiddio ac awdurdodau gorfodi.

Yn yr adran hon rydym yn defnyddio'r term “cynulleidfaoedd” i gyfeirio at yr unigolion a'r grwpiau hynny a allai ddymuno neu a allai fod â rheswm dros gael mynediad at ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

4.25 Mae cynulleidfaoedd gwahanol deddfwriaeth fel arfer wedi cael eu hystyried wrth werthuso a yw deddfwriaeth yn ddigon clir a hygyrch o ran ei harddull ddrafftio. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddrafftio deddfwriaethol, *Llunio Deddfau i Gymru*, yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried gwahanol gynulleidfaoedd deddfwriaeth ddrafft:

> Wrth ystyried y materion hyn, dylai drafftwyr gael eu harwain gan fuddiannau darllenwyr y ddeddfwriaeth, gan gofio y bydd nifer o wahanol gynulleidfaoedd ac y

[26] Cyswllt Ffermio, “Amdanom Ni” https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/amdanom-ni.

gallai un grŵp o ddarllenwyr fod ag anghenion gwahanol i un arall. Gall y grwpiau hynny gynnwys unigolion y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt, cyrff cyhoeddus a fydd yn ei gweinyddu, cyfreithwyr a fydd yn rhoi cyngor ar ei hystyr, llysoedd a allai fod yn gorfod penderfynu ar anghydfodau oddi tani, deddfwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.[27]

4.26 Bu'r Arglwydd Ustus Haddon-Cave, cyn Uwch Farnwr Gweinyddol Cymru a Lloegr, hefyd yn edrych yn ddiweddar ar wahanol gynulleidfaoedd deddfwriaeth yn ei ddarlith *English Law and Descent into Complexity*:

> Cyfreithwyr arferai ddefnyddio deddfwriaeth yn bennaf; ond dros yr 20 mlynedd diwethaf mae deddfwriaeth wedi dod yn llawer mwy hygyrch. Mae legislation.gov.uk yn cael rhwng 2 a 3 miliwn o ymwelwyr bob mis. Bydd y grŵp hwn o bobl yn amrywio o fusnesau bach sy'n ceisio deall eu hamgylchedd rheoleiddio, i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n cyflwyno hawliad anaf personol, i fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli mewn Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Mae gan yr holl ddefnyddwyr hyn yr un anghenion: bod y ddeddfwriaeth wedi'i drafftio'n syml ac yn hawdd ei deall.[28]

4.27 Ystyriodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar gyfer y Cyfansoddiad anghenion gwahanol gynulleidfaoedd deddfwriaeth yn ei adroddiad *The Legislative Process: Preparing Legislation for Parliament.* Wrth ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Dr Mark Ryan:

> Mae tensiwn cynhenid o ran drafftio deddfwriaeth sy'n gwbl glir (ond braidd yn or-syml ac yn brin o fanylion angenrheidiol gyda'r canlyniad bod y llysoedd yn gorfod delio â'r bylchau) a deddfwriaeth sydd mor fanwl (at ddibenion y gyfraith/llysoedd) fel ei bod yn anhreiddiadwy i'r sawl nad yw'n gyfreithiwr. Yn y pen draw, y cwestiwn yw at bwy mae'r eglurder wedi'i anelu: y cyfreithiwr/llysoedd neu'r cyhoedd?”[29]

4.28 Cyfyd cwestiwn tebyg yn y cyd-destun presennol: at bwy y mae'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru wedi'i anelu? Gall ffermwyr - un o brif gynulleidfaoedd y darpar God - ddisgwyl i'r darpar God fod yn ganllaw cynhwysfawr i'r holl ofynion deddfwriaethol y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw yn y cyd-destun amaethyddol. Fodd bynnag, ym Mhennod 3 rydym yn nodi pam rydym yn credu ei bod yn annymunol ac yn anymarferol sefydlu cod cyfraith amaethyddol i Gymru sy'n ceisio cwmpasu'r holl gyfreithiau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol. Yn gryno, rydym o'r farn bod cod mor eang mewn perygl o fod yn anghyson o ran ei gynnwys ac o bosibl yn rhy anhylaw i'w lywio'n hawdd. Yn ei dro, gallai cod cyfreithiol na ellir ei lywio'n rhwydd danseilio un o nodau craidd codeiddio: gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.

4.29 Ar ben hynny, bydd rhai cyfreithiau y mae angen i ffermwyr gydymffurfio â nhw yr un mor berthnasol i gynulleidfaoedd eraill fel unigolion sy'n gweithio neu'n gweithredu mewn sectorau gwahanol. Er enghraifft, fel rydym yn ei ystyried ym Mhennod 6, efallai y bydd angen i ffermwyr yng Nghymru gydymffurfio â Rheoliadau Trwyddedu

---

27 Llywodraeth Cymru, *Llunio Deddfau i Gymru*: *Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaethol* (Tachwedd 2019) t 5.

28 Haddon-Cave LJ, “English Law and Descent into Complexity” (June 2021) *Gray's Inn Reading*, paragraff 34.

29 The Legislative Process: Preparing Legislation for Parliament, Report of the Select Committee on the Constitution (2017-19) HL 27, t 36.

Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ("EPR 2016") sy'n pennu trefn drwyddedu amgylcheddol i reoleiddio gweithgareddau a allai niweidio'r amgylchedd neu iechyd pobl.[30] Mae'r gweithgareddau sy'n ddarostyngedig i EPR 2016 yn cynnwys y rhai a gyflawnir ar ffermydd fel ffermio dofednod dwys. Fodd bynnag, mae'r gofynion trwyddedu amgylcheddol yn berthnasol i weithgareddau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r sector amaethyddol, er enghraifft, gweithrediadau gwastraff mwyngloddio. Mewn achosion o'r fath, gall fod yn anodd cyfiawnhau cynnwys y cyfreithiau hynny yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru pan allent fod â chysylltiad agosach â phynciau eraill, fel yr amgylchedd, a bod â defnydd ymarferol eang sy'n ymestyn y tu hwnt i'r sector amaethyddol.

4.30 Gall swyddogion Llywodraeth Cymru, a'u Gweinidogion, ddisgwyl i ffiniau'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gael eu llunio'n fanwl gywir, gan ystyried ffurf a chynnwys codau presennol neu arfaethedig eraill cyfraith Cymru. Mae disgwyliadau'r gynulleidfa hon yn codi oherwydd bod y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn un o lawer o godau cyfraith Cymru y gellir eu sefydlu yn y dyfodol. Mae gan Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddyletswydd barhaus i gyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer pob tymor y Senedd sy'n cynnwys gweithgareddau arfaethedig i gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.[31]

4.31 Edrychwyd ar ofynion gwahanol gynulleidfaoedd deddfwriaeth yn yr adroddiad *When Laws Become Too Complex*:

> Mae Llywodraeth a Senedd y DU, yn ogystal â'u rolau cyfansoddiadol, hefyd yn defnyddio deddfwriaeth; ac mae eu gofynion penodol yn cael effaith ddramatig ar gyfreithiau drwy gydol eu 'cylch bywyd'. Nid yw'n syndod nad yw'r hyn a welir yn hawdd ei ddefnyddio i'r Llywodraeth ac yn y Senedd yr un fath o bosibl i'r farnwriaeth, sy'n defnyddio deddfwriaeth mewn cyd-destun cwbl wahanol. Bydd gan ddinasyddion neu fusnesau, yn eu tro, set wahanol o ddisgwyliadau a gofynion.[32]

4.32 Mae'n anochel y bydd gan y darpar God gynulleidfaoedd amrywiol sydd ag anghenion a disgwyliadau gwahanol. Efallai y bydd achosion hefyd lle nad yw'r anghenion a'r disgwyliadau hynny'n cyd-fynd â'i gilydd. Yn unol â hynny, rydym yn dod i'r casgliad, wrth lunio'r darpar God, y bydd yn bwysig cydbwyso anghenion a disgwyliadau gwahanol, a chroes ar adegau, darpar gynulleidfaoedd y darpar God. Yn yr adran ganlynol, rydym yn edrych ymhellach ar sut gall cydbwyso'r anghenion penodol hynny ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch cwmpas y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn y darpar God.

## PWERAU GALLUOGI SYLFAENOL

4.33 Bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth ar bwnc penodol. Deddfwriaeth sylfaenol yw deddfwriaeth a ddeddfir gan y deddfwrfeydd, fel Senedd Cymru a Senedd y DU, ar

---

30 SI 2016/1154. Mae Pennod 6 yn edrych ar y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol sydd â'r nod o warchod yr amgylchedd, bywyd gwyllt ac adnoddau naturiol.

31 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), adran 2.

32 Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol, *When Laws Become Too Complex: A review into the causes of complex legislation* (Mawrth 2013).

ffurf Deddfau: naill ai Deddfau neu Fesurau Senedd Cymru neu Ddeddfau Senedd y DU. Mae is-ddeddfwriaeth yn gyfraith - yn bennaf ar ffurf gorchmynion, rheolau a rheoliadau - a wneir gan Weinidogion Cymru neu Weinidogion y DU drwy arfer y pwerau y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth sylfaenol. Cyfeirir yn aml at ddarpariaethau deddfwriaethol mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi pwerau i weinidogion y llywodraeth ddeddfu is-ddeddfwriaeth fel pwerau galluogi sylfaenol.

4.34 Ym Mhennod 11, rydym yn nodi'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God.[33] Yn gyffredinol, pan fyddwn yn nodi bod is-ddeddfwriaeth benodol yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol , rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r darpar God hefyd gwmpasu'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol y mae'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei llunio oddi tanynt.[34]

4.35 Fodd bynnag, mae nifer ddethol o is-ddeddfau yr ydym yn awgrymu y dylid eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru er ein bod yn credu bod y pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol yn anaddas i'w cynnwys. Er enghraifft, ym Mhennod 6 rydym yn dod i'r casgliad bod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau CoAP 2021") yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.[35] Fodd bynnag, yn yr un bennod, rydym yn dod i'r casgliad bod y pwerau galluogi sylfaenol y mae Rheoliadau CoAP 2021 yn cael eu deddfu oddi tanynt yn anaddas i'w cynnwys: adran 92 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ("Deddf 1991").

4.36 Nod Rheoliadau CoAP 2021 yw lleihau'r risg o weithgarwch amaethyddol sy'n arwain at lygru dyfroedd a reolir. Mae'r rheoliadau'n cyflawni'r nod hwn drwy osod rheolau sy'n ymwneud â defnyddio, cymhwyso a storio silwair, slyri, tail organig a gwrtaith nitrogen.[36] Mae Pennod 6 yn amlinellu ein rhesymeg dros gynnig bod Rheoliadau CoAP 2021 yn cael eu cynnwys yn y darpar God. Yn fyr, credwn fod y Rheoliadau CoAP 2021 yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth i'r graddau y maent yn ceisio cyfyngu ar lygredd amaethyddol, a'u bod yn berthnasol yn ymarferol i'r rhai sy'n ymgymryd â gweithgarwch amaethyddol.

4.37 Er ein bod yn dod i'r casgliad bod Rheoliadau CoAP 2021 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God, credwn y dylid eithrio'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol, sef adran 92 Deddf 1991. Mae adran 92 Deddf 1991 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau sydd, at ddibenion diogelu rhag llygru dyfroedd a reolir, yn:

(1) gwahardd person rhag bod â gofal neu reolaeth ar unrhyw fater gwenwynig, niweidiol neu sy'n llygru; a

---

33 Mae Pennod 11 yn dwyn ynghyd y dadansoddiad a geir ym Mhenodau 5 i 10 i nodi'r cyfreithiau hynny sy'n perthyn, yn ein barn ni, i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

34 Er enghraifft, rydym wedi dod i'r casgliad bod Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025, OS 2025/293 (Cy 59) a phwerau galluogi sylfaenol y gwneir y Gorchymyn oddi tanynt yn addas i'w cynnwys yn y darpar God (gweler Pennod 5 ym mharagraffau 5.39 i 5.42).

35 OS 2021/77 (Cy 20).

36 Gweler Pennod 6 am ddiffiniadau o'r termau silwair, slyri, tail organig a gwrtaith nitrogen.

(2) rhagnodi'r rhagofalon neu'r gwaith y mae'n rhaid i berson ymgymryd â hwy er mwyn bod â rheolaeth neu ofal cyfreithiol ar sylweddau o'r fath.[37]

4.38 Mae Pennod 6 yn cyflwyno ein rhesymeg dros gynnig bod adran 92 Deddf 1991 yn cael ei heithrio o'r darpar God. I grynhoi, rydym o'r farn mai nod cyffredinol adran 92 Deddf 1991 yw diogelu rhag llygredd dŵr yn gyffredinol, nid dim ond llygredd dŵr a allai ddigwydd mewn cyd-destun amaethyddol. Yn wir, mae'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 92 Deddf 1991 wedi cael eu harfer i ddeddfu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau Storio Olew 2016").[38] Fel rydym yn ei drafod ym Mhennod 6, mae gan Reoliadau Storio Olew 2016 gymhwysiad ymarferol sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r sector amaethyddol.[39]

4.39 O safbwynt codeiddio, rydym yn cydnabod y gallai fod yn annymunol cynnwys is-ddeddfwriaeth mewn cod cyfraith Cymru pan fydd y pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol yn cael eu heithrio. Bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol. Diben cod cyfraith Cymru yw gwella hygyrchedd y gyfraith drwy ddod â chorff o gyfreithiau tameidiog at ei gilydd a'i gyhoeddi, er enghraifft, ar dudalen we. Mae cynnwys rheoliad yn y darpar God, gan eithrio'r pŵer galluogi sylfaenol y mae'n cael ei ddeddfu oddi tano, yn golygu rhywfaint o ddarnio yn ei hanfod. Fodd bynnag, gallai darnio, neu ddiffyg eglurder, ddigwydd hefyd os ychwanegir y prif bŵer galluogi at y darpar God ac, o ganlyniad, ei wahanu oddi wrth faes ehangach o gyfraith y mae ganddo gysylltiad agosach ag ef o ran y pwnc dan sylw.[40]

4.40 Mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu a ddylid gwneud cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn amodol ar gynnwys unrhyw bwerau galluogi sylfaenol cyfatebol. Rydym yn rhagweld bod hwn yn fater ehangach y byddir yn dod ar ei draws yng nghyd-destun datblygu codau cyfraith Cymru ar gyfer pynciau eraill. Fodd bynnag, credwn fod tri phrif opsiwn ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn yng nghyd-destun datblygu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym yn ystyried pob un yn ei dro isod.

### Opsiwn un

4.41 Yn gyntaf, gellid cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God yn amodol ar p'un a ystyrir bod y pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol yn addas i'w cynnwys yn y darpar God ai peidio. Ar hyn o bryd, nid yw legislation.gov.uk yn darparu rhestrau o'r is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan bwerau galluogi sylfaenol penodol. Felly, byddai opsiwn un, mewn egwyddor, yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr y darpar God ddod o hyd i'r is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan bŵer galluogi sylfaenol penodol.

---

37 Diffinnir dyfroedd a reolir o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 105.

38 OS 2016/359 (Cy 112).

38 Er enghraifft, gall Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 fod yn berthnasol yn ymarferol i fusnesau diwydiannol, busnesau masnachol, ysgolion, ysbytai, adeiladau'r sector cyhoeddus, cartrefi nyrsio ac eiddo domestig. Gweler Llywodraeth Cymru, *Cadw eich storfa olew yn ddiogel: Canllawiau ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016* (Mawrth 2016).

40 Er enghraifft, byddai cynnwys adran 92 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn y darpar God yn darnio'r pŵer galluogi sylfaenol hwnnw o'r fframwaith deddfwriaethol ehangach ar gyfer rheoleiddio dŵr fel y nodir yn Neddf 1991 (gweler Pennod 6 am drafodaeth bellach).

4.42 Gallai'r canlyniad uchod fod o fudd i unigolion sy'n dymuno nodi pŵer galluogi sylfaenol er mwyn archwilio a yw unrhyw is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan y pŵer yn dod o fewn ei gwmpas yn briodol (a elwir hefyd yn “vires”). Mae hon yn dasg sy'n cael ei chyflawni fel arfer gan gyfreithiwr, ond mewn egwyddor gallai unigolion heb gymwysterau cyfreithiol ymgymryd â hi hefyd. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl chwilio o dan ddarpariaeth mewn Deddf ar legislation gov.uk i ddod o hyd i'r holl is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan unrhyw bwerau galluogi sylfaenol sydd wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth honno.[41] Felly, byddai'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru sy'n cwmpasu'r pwerau galluogi sylfaenol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth o fewn ei gwmpas, yn gwneud y dasg honno'n haws.

4.43 Efallai y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn elwa o allu nodi'n hawdd y gyfres o is-ddeddfwriaethau a luniwyd o dan bŵer galluogi sylfaenol penodol. Er enghraifft, efallai y bydd angen i swyddogion sy'n gweithio ym maes polisi llygredd dŵr oruchwylio'r gyfres lawn o reoliadau llygredd dŵr a gyhoeddwyd o dan adran 92 Deddf 1991. Fodd bynnag, credwn y gallai'r dull gweithredu a amlinellir o dan opsiwn un arwain at ddau ganlyniad annymunol.

4.44 Ar y naill law, gall olygu bod angen ehangu cwmpas y darpar God i sicrhau ei fod yn cwmpasu'r holl bwerau galluogi sylfaenol ar gyfer unrhyw is-ddeddfau sydd o fewn y cwmpas. Byddai'r dull hwn yn golygu y byddai pwerau galluogi sylfaenol yn cael eu cynnwys yn y darpar God ni waeth a yw'r pwerau hefyd yn ymwneud â phynciau ar wahân i amaethyddiaeth. Gallai'r opsiwn hwn olygu bod y darpar God yn cynnwys darpariaethau deddfwriaethol sylfaenol a allai fod yn fwy addas o fewn codau posibl cyfraith Cymru yn y dyfodol ar gyfer gwahanol bynciau. Er enghraifft, gellir ystyried bod y pwerau galluogi sylfaenol y darperir ar eu cyfer o dan adran 92 Deddf 1991 yn fwy addas o fewn cod posibl cyfraith Cymru yn y dyfodol sy'n cwmpasu cyfraith dŵr neu gyfraith amgylcheddol.

4.45 Gallai'r dull uchod hefyd arwain at y darpar God yn cynnwys pwerau galluogi sylfaenol sydd, er enghraifft, yn ymwneud yn fras ag amaethyddiaeth. Gall hyn fod yn anatyniadol o ystyried mai pwrpas sefydlu cod cyfraith Cymru yw dod â'r gyfraith ar bwnc penodol at ei gilydd, yn hytrach na chydgrynhoi darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â materion sydd â chysylltiad llai uniongyrchol. Ar ben hynny, mae deddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei hystyried yn wahanol o ran cynnwys yn gallu denu beirniadaeth. Fel yr amlygwyd gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi, mae'n anoddach i'r “Senedd graffu'n briodol ar ddeddfwriaeth eang sy'n ymdrin â nifer o faterion amrywiol a gwahanol...”.[42]

4.46 Ar y llaw arall, os gwneir cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn amodol ar gynnwys y pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol, gallai hyn arwain at lunio darpar God cyfyngedig. Os bernir bod pwerau galluogi sylfaenol yn anaddas i'w cynnwys mewn cod, yna gallai unrhyw is-ddeddfwriaeth a

41 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gronfeydd data masnachol yn cynnig y swyddogaeth i chwilio am is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan bwerau galluogi sylfaenol penodol. Efallai y bydd swyddogion yn y llywodraeth yn fwy tebygol o gael mynediad at wasanaethau o'r fath o'u cymharu ag aelodau o'r cyhoedd.

42 The Legislative Process: Preparing Legislation for Parliament, Report of the Select Committee on the Constitution (2017-2019) HL 27, paragraff 171.

lunnir o dan y pwerau hynny gael ei heithrio'n awtomatig o'r cwmpas. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn achosi problemau i ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

4.47 Mae llawer o'r gofynion cyfreithiol y mae angen i ffermwyr gydymffurfio â nhw o ddydd i ddydd wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfau yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol. Ar ben hynny, mae llawer o'r is-ddeddfau hynny'n cael eu llunio drwy arfer pwerau galluogi sylfaenol sydd wedi'u cynnwys mewn Deddfau sydd â chylch gwaith a ffocws sy'n ymestyn y tu hwnt i amaethyddiaeth, fel y dangosir uchod gan adran 92 Deddf 1991. O ganlyniad, byddai darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru wedi'i lunio'n gyfyng - yn unol â'r termau a ddisgrifir ym mharagraff 4.41 uchod - o ddefnydd ymarferol cyfyngedig i'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yng Nghymru.

### Opsiwn dau

4.48 O dan opsiwn dau, gellid ailddatgan pwerau galluogi sylfaenol yn y darpar God ond dim ond i'r graddau y maent yn caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio yn y cyd-destun amaethyddol. Er enghraifft, gellid ailddatgan adran 92 Deddf 1991 mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God, ond dim ond i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau sy'n cyfyngu neu'n rheoli'r defnydd o sylweddau gwenwynig, niweidiol neu sy'n llygru, mewn cyd-destun amaethyddol. Fodd bynnag, gellid dadlau y byddai'r dull hwn yn dyblygu yn hytrach na symleiddio pwerau Gweinidogion Cymru i ddeddfu is-ddeddfwriaeth i atal llygredd dŵr.

4.49 Er enghraifft, gallai'r dull uchod arwain at roi dwy set o bwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru:

(1) pŵer cyffredinol o dan adran 92 Deddf 1991 i gyhoeddi rheoliadau a anelir at atal llygru dŵr; a

(2) phŵer penodol ar wahân sydd wedi'i gynnwys mewn Deddf Senedd Cymru (sy'n rhan o'r darpar God) i gyhoeddi rheoliadau sydd â'r nod o atal llygredd dŵr sy'n deillio o weithgarwch amaethyddol neu ddefnydd tir amaethyddol.

4.50 Credwn y byddai'r dull hwn yn annymunol gan y byddai'n arwain at ddarnio, a dyblygu posibl, pwerau galluogi sylfaenol Gweinidogion Cymru: fel y dangosir yn yr enghraifft a gyflwynir ym mharagraff 4.49 uchod. Gall darparu ar gyfer pwerau galluogi sylfaenol y gellir eu harfer dim ond i reoleiddio sectorau penodol, fel y sector amaethyddol, hefyd greu ansicrwydd ynghylch cwmpas y pwerau dan sylw.

### Opsiwn tri

4.51 Yn olaf, credwn y gellid cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru hyd yn oed os yw'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol wedi'u heithrio. Byddai'r dull hwn yn caniatáu i'r darpar God gynnwys is-ddeddfau fel Rheoliadau CoAP 2021 hyd yn oed os ystyrir bod y pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol yn anaddas i'w cynnwys. Byddai'n sicrhau y gallai'r darpar God gynnwys is-ddeddfau allweddol sy'n berthnasol i ffermwyr heb fod angen ehangu cwmpas y darpar God i gwmpasu meysydd cyfreithiol a allai fod yn wahanol, fel y gyfraith sy'n ymwneud â llygredd dŵr.

4.52 Gall y dull uchod olygu nad yw o reidrwydd yn syml dod o hyd i'r holl is-ddeddfwriaeth a luniwyd o dan bŵer galluogi sylfaenol penodol oherwydd gallai'r is-ddeddfau dan sylw gael eu cynnwys mewn gwahanol godau cyfraith Cymru. Fodd bynnag, rydym yn credu y bydd gan y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd y darpar God, yn enwedig ffermwyr, fwy o ddiddordeb mewn cael mynediad at ddatganiad cynhwysfawr o gyfreithiau amaethyddol allweddol. Fodd bynnag, gall ymgysylltu pellach â chynulleidfaoedd posibl y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru roi cipolwg ychwanegol ar anghenion a disgwyliadau gwahanol gynulleidfaoedd yn hyn o beth.

### Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio

4.53 At ei gilydd, rydym o'r farn y dylid mabwysiadu'r dull hyblyg a gynigir o dan opsiwn tri sy'n caniatáu ar gyfer y posibilrwydd o gynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru hyd yn oed os yw'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol wedi'u heithrio. Nodwn fod manteision i gynnwys, o fewn yr un cod cyfraith Cymru, y pwerau galluogi sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth a lunnir o dan y pwerau hynny. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod mabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â'r mater hwn yn helpu i daro cydbwysedd rhwng anghenion penodol gwahanol gynulleidfaoedd y darpar God.

4.54 Bydd angen defnyddio'r dull hyblyg hwn fesul achos. Mae angen cydbwyso'r darnio cymharol a fydd yn digwydd os caiff is-ddeddfwriaeth ei chynnwys yn y darpar God heb y prif bŵer galluogi cysylltiedig, yn erbyn cynnwys y prif bŵer galluogi hefyd yn y darpar God. Gall hyn ddibynnu, er enghraifft, ar ehangder y prif bŵer galluogi, i ba raddau y mae cwmpas y prif bŵer galluogi yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth, ac a yw'r prif bŵer galluogi wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddeddfu rheoliadau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth.

4.55 Ar ben hynny, byddai'n gofyn am ddadansoddiad o bwysigrwydd cymharol anghenion cynulleidfaoedd gwahanol. Mae galluogi cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God heb y prif bŵer galluogi cysylltiedig o fwy o fudd i'r bobl hynny sy'n cael eu rheoleiddio gan y darpar God, fel ffermwyr. Mae cynnwys y pŵer galluogi sylfaenol a rheoliadau'r is-ddeddfwriaeth gyfatebol yn y darpar God o fwy o fudd i'r rheini sy'n dymuno nodi'r pŵer statudol y cafodd rheoliad ei ddeddfu oddi tano.

4.56 Er enghraifft, yn achos Rheoliadau CoAP 2021, rydym yn dod i'r casgliad ym Mhennod 6 bod angen dybryd ar ffermwyr i gael mynediad at y rheoliadau a'u deall. Y rheswm am hyn yw bod Rheoliadau CoAP 2021 yn gosod rheolaethau rhagnodol ar y ffordd y cynhelir rhai gweithgareddau amaethyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rheolaethau sy'n ymwneud â phryd a sut mae sylweddau fel tail organig a slyri yn cael eu gwasgaru ar dir amaethyddol. Mae hyn yn rhoi rheswm cryf dros gynnwys y rheoliadau hyn yn y darpar God, er nad oes dadl glir dros gynnwys y prif bŵer galluogi yn y darpar God.

## CYFRAITH A GYMATHWYD

4.57 Mae cyfraith a gymathwyd yn gyfraith sy'n deillio o'r UE sydd, ar ôl i'r DU adael yr UE, wedi cael ei hymgorffori yn ein cyfraith ddomestig o ganlyniad i Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018 (“EUWA 2018”) a Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (“REULA 2023”). Mae'r term cyfraith a gymathwyd hefyd yn cynnwys cyfraith ddomestig a weithredodd gyfraith yr UE tra roedd y DU yn aelod-wladwriaeth o'r UE.

4.58 Gall cyfraith a gymathwyd - gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru - fod yn heriol i'w deall hyd yn oed i weithwyr cyfreithiol proffesiynol profiadol. Mae llawer o gyfreithiau a gymathwyd wedi cael eu diwygio'n sylweddol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE. Er enghraifft, gallai darpariaethau mewn cyfraith a gymathwyd fod wedi'u diwygio fel bod cyfeiriadau at sefydliadau'r UE yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at sefydliadau domestig cyfatebol. At hynny, nid yw cyfreithiau a ddeddfir gan sefydliad yr UE sydd bellach yn rhan o'n llyfr statud domestig fel cyfraith a gymathwyd ar gael yn Gymraeg.

4.59 Ar ben hynny, pan oedd y DU yn aelod-wladwriaeth o'r UE, roedd angen gweithredu rhai cyfreithiau'r UE mewn cyfraith ddomestig i sicrhau y gallai'r ddeddfwriaeth ddod i rym yn y DU. Er enghraifft, mae Cyfarwyddebau'r UE yn gosod amcanion lefel uchel y mae'n rhaid i aelod-wladwriaethau eu cyflawni, ond yna'n rhoi disgresiwn i aelod-wladwriaethau o ran sut y bydd yr amcanion yn cael eu gweithredu. Nid yw Cyfarwyddebau'r UE yn uniongyrchol berthnasol, sy'n golygu nad ydynt yn berthnasol yn awtomatig yng nghyfraith yr aelod-wladwriaethau.[43] Yn hytrach, pan oedd y DU yn aelod-wladwriaeth o'r UE, roedd yn ofynnol i'r DU ymgorffori Cyfarwyddebau'r UE mewn deddfwriaeth ddomestig erbyn terfyn amser penodol a bennwyd yn y Gyfarwyddeb berthnasol.

4.60 Mae mathau eraill o gyfraith yr UE, fel Rheoliadau'r UE, yn uniongyrchol berthnasol. Mae hyn yn golygu, pan oedd y DU yn aelod-wladwriaeth o'r UE, y byddai Rheoliad gan yr UE wedi dod i rym yn ddomestig heb fod angen i'r Rheoliad gael ei ymgorffori'n benodol mewn cyfraith ddomestig.[44] Fodd bynnag, efallai y byddai'r DU wedi gorfod deddfu deddfwriaeth ddomestig o hyd i ddarparu ar gyfer materion nad oeddent yn cael sylw yn Rheoliad yr UE, er enghraifft, i wneud darpariaeth ar gyfer rhwymedïau.

4.61 Mewn llawer o achosion, bydd deddfwriaeth ddomestig a weithredodd gyfraith yr UE yn cyfeirio at ddarpariaethau yng nghyfraith yr UE y mae naill ai'n darparu ar eu cyfer neu'n eu gweithredu. Mae'n gyffredin i ddarn o gyfraith ddomestig a weithredodd gyfraith yr UE ddarparu bod telerau penodol i gael yr un ystyr ag y darperir ar ei gyfer yng nghyfraith yr UE dan sylw.

4.62 Felly, mae'r ffordd y gweithredwyd cyfraith yr UE yn ddomestig, pan oedd y DU yn aelod o'r UE, yn golygu ei bod yn aml yn angenrheidiol darllen gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ochr yn ochr â'i gilydd i ddeall effaith y gyfraith. Er enghraifft, mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 [45]- sy'n darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliad ar Ddiogelu Anifeiliaid adeg eu Lladd sy'n deillio o'r UE [46] - yn croesgyfeirio at ddarpariaethau yn y Rheoliad sy'n deillio o'r UE o leiaf 30 o weithiau.

---

[43] Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall Cyfarwyddeb yr UE gael effaith uniongyrchol fertigol mewn cyfraith ddomestig os oedd y terfyn amser ar gyfer gweithredu wedi dod i ben heb i'r aelod-wladwriaeth ymgorffori'r Gyfarwyddeb mewn cyfraith ddomestig. Er mwyn cael effaith uniongyrchol mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i Gyfarwyddeb fod yn ddigon clir a manwl.

[44] Yn rhinwedd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, adran 2.

[45] OS 2014/951 (W 92).

[46] Rheoliad Cyngor y DU (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd.

4.63 Ar ben hynny, mewn sawl maes mae'r gyfraith a ddeilliodd o'r UE yn dameidiog. Er enghraifft, rydym wedi nodi o leiaf chwe chyfraith ar wahân sy'n deillio o'r UE ar gyfer nodi gwartheg.[47] Mae codeiddio'n cynnig un cyfle i ystyried a ellid dod â darnau o gyfraith a gymathwyd at ei gilydd fel bod gan ffermwyr lai o ddeddfiadau i fynd i'r â nhw, a llai o angen croesgyfeirio rhwng gwahanol ddeddfwriaethau. Er enghraifft, mae Defra wedi ymgynghori ar ddod â rheoliadau domestig ar nodi gwartheg ac amrywiol gyfreithiau a gymathwyd ar yr un pwnc at ei gilydd mewn un offeryn statudol.[48] Byddai hyn yn lleihau'r angen i groesgyfeirio rhwng yr is-ddeddfwriaeth ddomestig ar nodi gwartheg a'r ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a weithredwyd ganddo tra bo'r DU yn aelod o'r UE. Ym Mhennod 7, rydym yn trafod bod y rheoliadau gwartheg cyfatebol yng Nghymru yn cyfeirio at bedwar Rheoliad sy'n deillio o'r UE sy'n ymwneud â nodi gwartheg ac sydd bellach yn rhan o'n llyfr statud domestig fel cyfraith a gymathwyd.[49]

4.64 Mae REULA 2023 yn darparu ar gyfer pwerau gweinidogol i ailddatgan, dirymu, neu ddirymu a disodli unrhyw is-ddeddfwriaeth a gymathwyd.[50] Is-ddeddfwriaeth a gymathwyd yw unrhyw gyfraith a gymathwyd nad yw'n ddeddfwriaeth sylfaenol, ac eithrio darpariaethau neu eiriad a ychwanegwyd at ddeddfwriaeth sylfaenol gan is-ddeddfwriaeth.[51] Er enghraifft, bydd is-ddeddfwriaeth a gymathwyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth ddomestig a roddodd gyfraith yr UE ar waith mewn cyfraith ddomestig ac sydd bellach yn rhan o'n llyfr statud domestig fel cyfraith a gymathwyd.

4.65 Ar gyfer yr is-ddeddfau hynny a gymathwyd sydd â phwnc sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru, gall y pwerau i ailddatgan, dirymu neu ddirymu a disodli gael eu harfer naill ai drwy:

(1) Weinidogion Cymru;

(2) Gweinidogion y DU; neu

(3) Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn gweithredu ar y cyd.

4.66 Mae'r pwerau gweinidogol i ailddatgan, dirymu neu ddirymu a disodli is-ddeddfwriaeth a gymathwyd o dan REULA 2023 yn ddarostyngedig i gymalau machlud sy'n golygu y bydd y pwerau'n dod i ben ar 23 Mehefin 2026. Os caiff is-ddeddfwriaeth a gymathwyd ei hailddatgan o dan REULA 2023, yna ni fydd y gyfraith a ailddatganwyd yn cael ei dosbarthu mwyach fel cyfraith a gymathwyd ond yn hytrach fel cyfraith ddomestig arferol. Wrth ddirymu neu ddisodli is-ddeddfwriaeth a gymhathwyd, rhaid i Weinidogion Cymru neu Weinidogion y DU beidio â chynyddu beichiau rheoleiddio.

47 Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 494/98; Rheoliad y DU (CE) Rhif 1760/2000 o'r Senedd Ewrop a'r Cyngor; Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 911/2004; Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 644/2005; Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 1082/2003; a Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 2017/949.

48 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Changes to bovine identification, registration and movement in England: consultation document* (Medi 2023).

49 Gweler Pennod 7, para 7.164.

50 Deddf Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (Dirymu a Diwygio) 2023 a ddargedwir, adrannau 11 i 12.

51 Deddf Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (Dirymu a Diwygio) 2023 a ddargedwir, adran 12.

Gall baich rheoleiddio gynnwys, er enghraifft, y gost neu'r anhwylustod gweinyddol sy'n gysylltiedig â newid yn y gyfraith.[52]

4.67 Y tu allan i REULA 2023, efallai y bydd gan Weinidogion Cymru bwerau galluogi sylfaenol presennol mewn Deddfau eraill gan Senedd Cymru neu Senedd y DU, i reoleiddio ar gyfer y materion sy'n cael eu llywodraethu ar hyn o bryd gan is-ddeddfwriaeth a gymathwyd. Er enghraifft, mae Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau ar nodi da byw: mater y deddfwyd ar ei gyfer yn flaenorol ar lefel yr UE.[53] Os nad oes pwerau galluogi sylfaenol o'r fath yn bodoli, yna, yn amodol ar derfynau cymhwysedd datganoledig, gellid gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau o'r fath mewn Deddf Senedd Cymru (gan gynnwys Deddf sy'n rhan o god cyfraith Cymru). Er enghraifft, mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau ar bynciau y deddfwyd ar eu cyfer yn flaenorol ar lefel yr UE. Mae enghreifftiau'n cynnwys pwerau Gweinidogion Cymru i reoleiddio ar gyfer safonau marchnata sy'n berthnasol i gynnyrch amaethyddol penodol pan gaiff ei farchnata yng Nghymru, a'u pwerau i osod safonau sy'n ymwneud â dosbarthu carcasau da byw mewn lladd-dai.

4.68 Ar ben hynny, fel arall, gellid ailddatgan, neu ddiwygio, darpariaeth a wneir ar hyn o bryd mewn cyfraith a gymathwyd, fel Rheoliad sy'n deillio o'r UE, mewn cyfraith sylfaenol fel Deddf Senedd Cymru, yn amodol ar derfynau cymhwysedd datganoledig.[54] Er enghraifft, mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) 2025 yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion a reoleiddiwyd gynt drwy gyfraith a gymathwyd.[55] Bydd penderfyniad ynghylch a ellid ailddatgan, neu ddiwygio, darpariaeth a wneir mewn cyfraith a gymathwyd drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys penderfyniadau polisi a dewisiadau drafftio gan Lywodraeth Cymru. Gall ystyriaethau perthnasol gynnwys a yw'r ddarpariaeth yn un sy'n darparu ar gyfer egwyddorion neu hawliau sylfaenol (gan nodi y gallai fod yn addas i'w chynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol) neu, fel arall, a yw'r ddarpariaeth yn ymwneud â materion gweithdrefnol neu'r rhai y gallai fod angen eu diwygio'n aml (gan nodi y gallai fod yn fwy addas ar gyfer is-ddeddfwriaeth).

4.69 Mae nifer o fanteision posibl yn gysylltiedig ag ailddatgan neu ddiwygio cyfraith a gymathwyd mewn cyfraith ddomestig sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth a lunnir naill ai gan Weinidogion Cymru neu'r Senedd. Er enghraifft, bydd penderfyniad i ailddatgan neu ddiwygio cyfraith o'r fath drwy gyfrwng deddfwriaeth ddomestig yn golygu bod y gyfraith dan sylw ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg (os nad yw hynny eisoes yn

---

[52] Deddf Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (Dirymu a Diwygio) 2023 a ddargedwir, adran 14.

[53] Deddf Anifeiliaid 1981, adran 8. Mae rheoliadau presennol sy'n ymwneud â nodi defaid yn cael eu llunio o dan adran 8 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, tra bo rheoliadau sy'n ymwneud â nodi gwartheg wedi'u deddfu o dan adran 2(2) Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

[54] Gweler enghreifftiau o'r Biliau a'r Deddfau hynny y cyfeirir atynt yn Adroddiad Seneddol yr Adran Busnes a Masnach *Assimilated Law Parliamentary Report for December 2024 to June 2025* (Gorffennaf 2025). Os bwriedir i gyfraith a gymathwyd gael ei chydgrynhoi mewn Deddf Senedd Cymru neu ei disodli gan Ddeddf sy'n diwygio'n gyfan gwbl, yna byddai angen i unrhyw ddarpariaeth o'r fath ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ym Mhennod 11 rydym yn trafod ymhellach sut y gallai'r cyfyngiadau a osodir ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gyfyngu ar ehangder y Cod.

[55] Nodiadau Esboniadol i'r Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), paragraffau 9 i 15.

wir).[56] Bydd hefyd yn gyfle i ailddrafftio'r darpariaethau perthnasol mewn modd sy'n cyd-fynd ag arferion drafftio deddfwriaethol modern Cymru. Gallai ailddatgan neu ddiwygio cyfraith a gymathwyd mewn deddfwriaeth ddomestig hefyd leihau'r angen i groesgyfeirio rhwng gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, cyn y gellir gwireddu unrhyw un o'r manteision hyn, bydd angen cynnal asesiadau polisi ynghylch a yw'r ddarpariaeth a wnaed mewn cyfreithiau sy'n deillio o'r UE yn dal yn angenrheidiol neu'n ddymunol a hefyd yn cyd-fynd â pholisi amaethyddol domestig.

4.70 Mae Llywodraeth y DU yn cadw rhestr o gyfraith a gymathwyd, a elwir yn Ddangosfwrdd Cyfraith yr UE a Ddargedwir ("y dangosfwrdd").[57] Mae'r dangosfwrdd yn cofnodi cyfreithiau a gymathwyd sy'n berthnasol ledled y DU, ond nid yw'n cofnodi'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Mae'n bosibl hidlo'r cyfreithiau sydd wedi'u cofnodi ar y dangosfwrdd yn ôl maes pwnc. Cofnodwyd bod 466 o gyfreithiau a gymathwyd yn dod o fewn meysydd polisi sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth.[58] Mae'r nifer hwn yn cynnwys cyfreithiau sy'n berthnasol ledled y DU neu Brydain Fawr, y rheini sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr a'r rheini sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Mae cymhwyso hidlydd i'r cyfreithiau hynny sy'n ymwneud â meysydd polisi iechyd a lles anifeiliaid yn rhoi canlyniad o 175 o gyfreithiau a gymathwyd.[59]

4.71 Er nad yw'r canlyniadau chwilio uchod yn cynnwys y cyfreithiau sy'n berthnasol yng Nghymru, maent yn rhoi syniad defnyddiol o faint o gyfraith a gymathwyd sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a hefyd iechyd a lles anifeiliaid sy'n berthnasol yng Nghymru. Felly, rydym yn ystyried y bydd unrhyw waith i adolygu, ac o bosibl diwygio neu ddiddymu, y gyfraith a gymathwyd sy'n llywodraethu amaethyddiaeth yng Nghymru yn drwm iawn ar adnoddau ac yn debygol o fod yn addas i'w gyflawni fel rhan o raglen waith hirdymor. Mae'n ymddangos bod dull gweithredu o'r fath yn cyd-fynd â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r gwaith o reoli cyfraith a gymathwyd fel y cofnodwyd yn ei thrydydd adroddiad chwemisol ar y mater.[60]

---

56 Efallai bod is-ddeddfau a gymathwyd a luniwyd gan Weinidogion Cymru eisoes ar gael yn ddwyieithog.

57 Llywodraeth y DU, "Retained EU law and assimilated law dashboard" (2022) https://www.gov.uk/government/publications/retained-eu-law-dashboard.

58 Y meysydd polisi a ddewiswyd ar y dangosfwrdd i gynhyrchu'r cyfanswm hwn o 473 o gyfreithiau oedd: cymorth i'r sectorau ffermio amaethyddol, amaethyddiaeth a datblygu gwledig, bwyd-amaeth (a phob is-set sy'n dod o dan fwyd-amaeth) a'r gadwyn bwyd-amaeth. Fe wnaethom hidlo ein chwiliad i ddileu unrhyw gyfreithiau a gofnodwyd fel rhai wedi'u diddymu, wedi dod i ben neu wedi'u disodli. Cynhaliwyd y chwiliad ar 6 Hydref 2025.

59 Y meysydd polisi a ddewiswyd ar y dangosfwrdd i gynhyrchu'r cyfanswm hwn o 181 o gyfreithiau oedd iechyd anifeiliaid a phlanhigion (a phob is-set sy'n dod o dan y teitl hwnnw ar wahân i goedwigaeth), iechyd anifeiliaid (a phob is-set sy'n dod o dan y teitl hwnnw), iechyd a bioddiogelwch anifeiliaid, iechyd a lles anifeiliaid, a lles anifeiliaid (a phob is-set sy'n dod o dan y teitl hwnnw). Fe wnaethom hidlo ein chwiliad i ddileu unrhyw gyfreithiau a gofnodwyd fel rhai wedi'u diddymu, wedi dod i ben neu wedi'u disodli. Cynhaliwyd y chwiliad ar 3 Hydref 2025.

60 Llywodraeth Cymru, *Trydydd diweddariad chwemisol ar Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) Llywodraeth Cymru: Mehefin 2024 i Ragfyr 2024* (Mai 2025) https://www.llyw.cymru/trydydd-diweddariad-chwemisol-llywodraeth-cymru-ar-ddeddf-cyfraith-yr-ue-ddargedwir-mehefin-2024-0.

## DIFFINIADAU STATUDOL GWAHANOL O DERMAU ALLWEDDOL: AMAETHYDDIAETH A DA BYW

4.72 Rydym wedi clywed gan randdeiliaid y gall y llu o ddiffiniadau statudol gwahanol o'r term "amaethyddiaeth" greu dryswch ac ansicrwydd ynghylch yr union amgylchiadau lle mae deddfwriaeth amaethyddol, neu feysydd o'r gyfraith honno, yn berthnasol. Rydym wedi nodi rhestr anghyflawn o 13 diffiniad statudol gwahanol o'r term "amaethyddiaeth" fel y'u cynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n berthnasol i Gymru (fel y rhestrir yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn).[61] Yn yr un modd, ceir amrywiaeth o ddiffiniadau statudol gwahanol o'r term "da byw".[62]

4.73 Byddai datblygu darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn golygu dod â darpariaethau deddfwriaethol presennol at ei gilydd mewn Deddf cydgrynhoi gan y Senedd a allai gyflwyno diwygiadau technegol angenrheidiol neu ddymunol i'r gyfraith. Fel arall, neu yn ogystal, gellir datgan bod Deddf Senedd Cymru sy'n cyflwyno diwygio eang yn rhan o god cyfraith Cymru. Felly, mae sefydlu'r darpar God yn gyfle i archwilio a ellid moderneiddio neu symleiddio'r diffiniadau statudol presennol o "amaethyddiaeth".

4.74 Nid yw ein hadroddiad wedi dilyn cam ymgynghori ffurfiol a fyddai'n ein galluogi i nodi'n gynhwysfawr sut y gallai unrhyw ddiwygiad i ddiffiniad statudol penodol effeithio ar hawliau neu rwymedigaethau unigolion yn y cyd-destun amaethyddol. Fodd bynnag, mae ein cylch gorchwyl yn mynnu ein bod yn nodi materion a allai gyfiawnhau dadansoddiad neu ystyriaeth bellach, fel cyfleoedd i foderneiddio neu symleiddio diffiniadau statudol presennol. Yn unol â hynny, ym Mhennod 5, rydym yn ystyried yn fanylach y diffiniadau statudol amrywiol o "amaethyddiaeth" fel y darperir ar eu cyfer o dan y ddeddfwriaeth amaethyddol sy'n cael ei harchwilio yn y bennod honno.

## HYGYRCHEDD, EHANGDER A MAINT Y DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL I GYMRU

4.75 Ym Mhennod 1, rydym yn nodi y bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yr is-ddeddfwriaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, canllawiau'r llywodraeth ar bwnc penodol. Un o nodau craidd sefydlu cod cyfraith Gymru ar bwnc yw gwella hygyrchedd y gyfraith fel bod y ddeddfwriaeth dan sylw, er enghraifft, yn haws dod o hyd iddi, ei deall a'i chymhwyso. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gall tensiwn godi rhwng y nod o wella hygyrchedd y gyfraith a'r nod o gyflawni datganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc. Er enghraifft, po fwyaf o ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn un cod o gyfraith Cymru, y mwyaf yw'r risg y bydd cod yn dod yn anodd ei lywio - gan leihau hygyrchedd y ddeddfwriaeth.

4.76 Ym Mhennod 11, rydym yn cyflwyno rhestr o ddeddfwriaeth rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God. Fel y dywedwn ym Mhennod 1, bydd y cam

---

[61] Efallai nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ond yn hytrach mae'n rhestr o ddiffiniadau statudol o "amaethyddiaeth" yr ydym wedi'u canfod mewn deddfwriaeth sylfaenol wrth baratoi'r adroddiad hwn.

[62] Er enghraifft, mae pob un o'r Deddfau canlynol yn darparu diffiniadau penodol o'r term "da byw": Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 109(3); Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979, adran 6(1); Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 51(2); Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024, adran 1(4).

cyntaf wrth sefydlu cod cyfraith Cymru fel arfer yn golygu dod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer pwnc at ei gilydd ac ailddatgan y gyfraith honno mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r cod cyfraith.[63] Felly, gallai faint o ddeddfwriaeth rydym wedi'i nodi i'w chynnwys yn y darpar God effeithio ar faint unrhyw Ddeddf Senedd Cymru y nodir ei bod yn rhan o'r darpar God.

4.77 Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn dilyn y bydd Deddf swmpus gan y Senedd yn anodd ei llywio na'i deall oherwydd ei maint. Fel y cydnabyddir yn yr adroddiad *When Laws Become Too Complex*:

> Mae'n bwysig nodi nad yw hyd cynyddol Deddfau yn awtomatig ac, ynddo'i hun, yn nodwedd o ddeddfwriaeth gymhleth. Gall Deddfau byrrach fod hyd yn oed yn fwy cymhleth na rhai hir gan nad ydynt efallai'n cynnwys yr holl fanylion na'r esboniad sy'n ofynnol er mwyn i'r gyfraith gyflawni'r amcanion polisi'n effeithiol. Yn gyffredinol, nid yw Deddf fer, sy'n mynnu bod y defnyddiwr yn mynd at gyfres gymhleth o Reoliadau, yn fesur sy'n symleiddio.[64]

4.78 Ar ben hynny, gall strwythuro Deddf hirach yn ofalus helpu i sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth yn mynd yn rhy gymhleth. Yn benodol, gall is-adrannau a phenawdau fod yn declynnau llywio defnyddiol. Gellir rhannu Deddf fawr hefyd yn Rhannau a Penodau sy'n ymdrin ag isbynciau penodol fel y gall darllenwyr nodi a lleoli darpariaethau o ddiddordeb penodol yn hawdd. Gall penawdau sy'n rhoi crynodeb byr, disgrifiadol o grŵp o ddarpariaethau gyfeirio darllenydd ymhellach at ddarpariaethau o ddiddordeb.

4.79 Gall nodiadau esboniadol ac adrannau trosolwg hefyd helpu darllenwyr i lywio drwy Ddeddf. Mae adran trosolwg yn "ddarpariaeth ar ddechrau Deddf neu offeryn (neu ar ddechrau Rhan, Pennod neu Atodlen) sy'n crynhoi ac yn esbonio beth sydd i ddilyn."[65] Yn yr un modd, bydd nodiadau esboniadol - nad ydynt yn rhan o'r Ddeddf ei hun ond y gellir eu defnyddio i helpu i esbonio deddfwriaeth - fel arfer yn rhoi crynodeb o ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae'r rhan fwyaf o Ddeddfau'r Senedd, a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt, yn cynnwys adrannau trosolwg ac mae nodiadau esboniadol yn cyd-fynd â phob un ohonynt.[66] Gall eglurder drafftio darpariaethau deddfwriaethol unigol mewn Deddf sicrhau ymhellach ei bod yn hawdd llywio Deddf fwy. Yn wir, mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, *Llunio Deddfau i Gymru*, yn amlinellu'r technegau drafftio a all wella hygyrchedd y gyfraith.[67]

4.80 Rydym hefyd o'r farn y gall y ffordd y mae'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn cael ei gyhoeddi ar-lein wella hygyrchedd y gyfraith. Fel yr amlinellir ym mharagraff 4.11 uchod, rydym yn deall mai'r bwriad yw i'r ddeddfwriaeth sy'n rhan o god cyfraith Cymru gael ei chyflwyno gyda'i gilydd a'i darparu drwy dudalen we.

---

63 Fel arall, gellid disodli'r ddeddfwriaeth sylfaenol dan sylw drwy Ddeddf Senedd Cymru sy'n diwygio'r gyfraith yn gyfan gwbl.

64 Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol, *When Laws Become Too Complex: A review into the causes of complex legislation* (Mawrth 2013).

65 Llywodraeth Cymru, *Drafftio Deddfau i Gymru*: *Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaethol* (Tachwedd 2019) t 8.

66 Llywodraeth Cymru, *Drafftio Deddfau i Gymru*: *Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaethol* (Tachwedd 2019) t 8.

67 Llywodraeth Cymru, *Drafftio Deddfau i Gymru*: *Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaethol* (Tachwedd 2019).

4.81 Felly, byddai unigolion sy'n dymuno cael gwybod am y gyfraith sy'n llywodraethu pwnc datganoledig penodol yn gallu cyfeirio at un adnodd ar-lein er mwyn dod o hyd i'r ddeddfwriaeth berthnasol ar y pwnc hwn. Yn yr un modd, mae sefydliadau eraill yn defnyddio mwy a mwy o fodelau arloesol i gyfleu meysydd cymhleth o'r gyfraith. Gyda'i gilydd mae Archifau Cenedlaethol a Defra wedi datblygu gwefan, DefraLex, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn portffolio polisi'r adran, yn ôl pwnc a hidlyddion chwilio manwl eraill.[68] Mae Porth Cynllunio Lloegr yn cynnal ffeithlun rhyngweithiol sy'n galluogi defnyddwyr i nodi'r gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i wahanol fathau o ddatblygiadau preswyl.[69]

4.82 Ar ben hynny, yng ngoleuni nifer y darpariaethau deddfwriaethol sylfaenol rydym yn cynnig eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol , rydym o'r farn ei bod yn werth deddfu nifer o Ddeddfau'r Senedd sydd, gyda'i gilydd, yn rhan o'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Yn ein barn ni, byddai cyfundrefnu cyfraith amaethyddol fel hon yn helpu i sicrhau bod modd rheoli'r dasg dan sylw a bod y ddeddfwriaeth sy'n deillio o hynny yn hygyrch. Mae Pennod 11 yn trafod dilyniant posibl y gwaith sy'n gysylltiedig â sefydlu cod cyfraith amaethyddol.

4.83 Gall deddfu'r darpar God ar draws cyfres o Ddeddfau'r Senedd hefyd fod yn ddymunol lle mae yna feysydd cyfraith amaethyddol sy'n gofyn am ddiwygio sylweddol neu a fyddai'n elwa o hynny. Byddai'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gychwyn ar y broses o godeiddio wrth ystyried diwygio deddfwriaethol mewn meysydd penodol o gyfraith amaethyddol. Rhoddir ystyriaeth bellach i ddiwygio cyfraith amaethyddol yn sylweddol yn yr adran ganlynol.

## CYDGRYNHOI A CHODEIDDIO TRA BO GALWADAU AM DDIWYGIO SYLWEDDOL

4.84 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae polisi amaethyddol a deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru wedi mynd drwy gyfnod sylweddol o newid. Fel y trafodwyd uchod, ar ôl i'r DU adael yr UE, deddfodd y Senedd Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer polisi amaethyddol, gwneud penderfyniadau a chymorth yng Nghymru. Bydd system newydd o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yng Nghymru yn cael ei chyflwyno ar 1 Ionawr 2026: y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd hyn yn disodli'r system cyllid uniongyrchol i ffermwyr a oedd yn deillio o'r UE, sef Cynllun y Taliad Sylfaenol. Disgrifiodd Prif Weinidog Cymru bryd hynny, Mark Drakeford, Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 fel “Deddf hanesyddol. Y tro cyntaf erioed i Gymru allu llunio ei pholisi ffermio ei hun.”[70] Ategwyd y teimlad hwn gan randdeiliaid yn y sector; disgrifiodd NFU Cymru y Bil cychwynnol fel “deddfwriaeth unwaith mewn cenhedlaeth”.[71]

---

[68] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig and the National Archives, “DefraLex” https://www.legislation.gov.uk/defralex.

[69] Planning Portal, “Interactive House” https://interactive.planningportal.co.uk/explore-house.

[70] Llywodraeth Cymru, “Deddf Amaeth hanesyddol Cymru yn dod i rym” (Awst 2023) https://www.llyw.cymru/deddf-amaeth-hanesyddol-cymru-yn-dod-i-rym.

[71] Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, *Consultation response to the Senedd’s Economy, Trade and Rural Affairs Committee* (2022) https://www.nfu-cymru.org.uk/media/lcqj5oku/submission-to-etra-committee-agriculture-bill-finalised.pdf.

4.85 Yn ogystal, mae cyfraith amaethyddol fel sy'n berthnasol yng Nghymru wedi cael ei diwygio'n sylweddol mewn meysydd eraill. Cyflwynodd Rheoliadau CoAP 2021 fesurau rheoleiddio i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Cyflwynodd ofynion a oedd yn berthnasol ledled Cymru ynghylch pryd, sut a ble y gall ffermwyr daenu gwrtaith ar eu tir. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu gwyriad eithaf sylweddol oddi wrth y drefn gyfatebol yn Lloegr. Daeth yr adolygiad statudol o effeithiolrwydd Rheoliadau CoAP 2021 i ben ym mis Mawrth 2025 ac argymhellodd y dylai'r Rheoliadau barhau mewn grym gyda rhai newidiadau.

4.86 Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r drefn brofi ar gyfer twbercwlosis ("TB") yng Nghymru hefyd. Ddechrau 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau i fynd i'r afael â TB buchol yng Nghymru a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar brofi yn yr ardaloedd TB isel yng Nghymru. Yn yr un flwyddyn, cyflwynodd Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 hawl newydd i ddatrys anghydfod mewn anghytundebau sy'n ymwneud â chais tenant i ymgymryd â gweithgaredd newydd neu i amrywio telerau'r cytundeb tenantiaeth.[72] Yn olaf, gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamerâu teledu cylch cyfyng gael eu gosod ym mhob lladd-dy.[73]

4.87 Mae yna gynsail sefydledig ar gyfer cynnal ymarferion i gydgrynhoi'r gyfraith yn dilyn cyfnod o ddiwygio sylweddol. Enghraifft berthnasol yw Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a gyfnerthodd y gyfraith ar denantiaethau amaethyddol yng Nghymru a Lloegr yn dilyn y diwygiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1984 ("Deddf 1984"). Roedd Deddf 1984 yn ceisio "sicrhau bod mwy o denantiaethau ar gael drwy gymryd camau i atal dirywiad y sector amaethyddol sy'n ymwneud â thenantiaid".[74] Gwnaeth hynny drwy roi terfyn ar hawliau olyniaeth ar gyfer (y rhan fwyaf) o denantiaethau sydd newydd gael eu sefydlu; gwella hawliau diogelwch deiliadaeth; gwneud darpariaeth bellach ar gyfer hawliau digolledu; a chyflwyno adolygiadau rhent statudol. Cafodd y diwygiad eang hwn a gyflwynwyd yn Neddf 1984 ei gyfuno wedyn â meysydd eraill o'r gyfraith sy'n rheoleiddio tenantiaethau amaethyddol, gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

4.88 Fodd bynnag, mae gwrthddadleuon dilys i sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn y dyfodol agos. Drwy gydol yr adroddiad hwn rydym wedi tynnu sylw at achosion lle mae galw eang am ddiwygio meysydd penodol o gyfraith amaethyddol. Er enghraifft, rydym wedi clywed gan randdeiliaid y gallai'r gyfraith sy'n rheoli tenantiaethau amaethyddol elwa o ddiwygiadau sylweddol, fel rydym yn ei drafod ym Mhennod 9.

4.89 Nodwn hefyd fod galwadau am ddiwygio mwy cyfannol, er gwaethaf y cyfnod cymharol sylweddol o newid yr ydym wedi'i weld yn ddiweddar yng Nghymru. Yn *Brexit and Agriculture*, mae'r Athro Petetin a Dr Dobbs yn dadlau bod angen "amcan cyffredinol ac uchelgeisiol clir ar gyfer polisïau amaethyddol" a bod gan "wydnwch y

72 OS 2024/797 (W 126).

73 OS 2024/682 (W 94).

74 Hansard (HC), 07 Mawrth 1984, cyf 55, col 857.

gallu i weithredu fel yr amcan hwnnw".[75] Gan ymhelaethu ar y cysyniad o wydnwch, esbonia Petetin a Dobbs:

> Mae gwydnwch yn golygu bod amaethyddiaeth a'r polisïau sy'n deillio o hynny yn gallu amsugno ac ymateb i siociau ac addasu os oes angen, ond gan gynnal eu swyddogaethau a'u nodau cyffredinol i raddau helaeth. Mae'n ymwneud â datblygu gallu amaethyddiaeth i addasu, ond hefyd pob agwedd sy'n berthnasol iddo, e.e. y ffermydd, ffermwyr, tir, dŵr, cymuned, marchnad, cadwyni cyflenwi ac ati a'r polisïau, y cyfreithiau a'r strwythurau sy'n cefnogi ac yn arwain amaethyddiaeth.[76]

4.90 Nid ein rôl ni yw gwerthuso rhinweddau galwadau am ddiwygio cyfraith sylwedd yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r galwadau niferus am ddiwygio - fel y trafodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn - yn adlewyrchu'r ffaith mai anaml y mae'r gyfraith yn statig; mae'n esblygu'n barhaus, er enghraifft, i adlewyrchu datblygiadau technolegol a newidiadau mewn agweddau cymdeithasol. Felly, rydym o'r farn nad oes byth amser perffaith i gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith. Fodd bynnag, o ystyried y diwygiad diweddar i bolisi amaethyddol yng Nghymru ochr yn ochr ag ymadawiad y DU o'r UE, rydym o'r farn bod hwn yn gyfle amserol i symleiddio a gwella hygyrchedd y gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru.

75 L Petetin a M Dobbs, *Brexit and Agriculture* (argraffiad 1af 2022) t 185.

76 L Petetin a M Dobbs, "Senedd Research Guest Briefing: Designing agricultural policies: contextual consideration" (Awst 2022) 12.

# Pennod 5: Y Deddfau Amaethyddiaeth

## CYFLWYNIAD

5.1 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”) oedd y Ddeddf Amaethyddiaeth gyntaf i gael ei deddfu gan Senedd Cymru (“y Senedd”). Un o'i nodweddion allweddol yw'r egwyddor o reoli tir yn gynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar bedwar amcan:

(1) cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;

(2) lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd;

(3) cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a’r buddion maent yn eu darparu; a

(4) gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt a hyrwyddo ymgysylltu â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

5.2 Rhaid i bob amcan gael ei hyrwyddo mewn ffordd sy'n cyfrannu at nodau llesiant Cymru,[1] ac sy'n “diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain”.[2] O dan adran 2 Deddf 2023, rhoddir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth mewn ffordd y maent yn credu sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir cynaliadwy.[3] Gelwir y ddyletswydd hon yn ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy.

5.3 Mae'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy yn berthnasol i unrhyw rai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf 2023. Mae hefyd yn berthnasol i unrhyw swyddogaethau statudol eraill, a gynhwysir mewn deddfwriaeth arall, sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cymorth neu reoleiddio amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a gyflawnir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau penodedig a ddiffinnir fel gweithgareddau ategol.[4]

5.4 Mae'r egwyddor o reoli tir yn gynaliadwy, fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 2023, yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer polisi amaethyddol a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.[5] Felly, mae Deddf 2023 o bwysigrwydd canolog i amaethyddiaeth yng Nghymru, sy'n golygu ei bod yn amlwg yn gystadleuydd i'w chynnwys yn y darpar god

1 Darperir ar gyfer nodau llesiant Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), adran 4.

2 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 2.

3 Cyn belled ag y mae'n gyson â chyflawni'r swyddogaeth honno'n briodol.

4 Diffinnir gweithgareddau ategol yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 52.

5 Llywodraeth Cymru, “Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy” (Tachwedd 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-cyflwynor-fframwaith-rheoli-tir-gynaliadwy.pdf.

cyfraith amaethyddol i Gymru ("y darpar God"). Fodd bynnag, mae Deddf 2023 yn rhan o fframwaith cyfreithiol ehangach a chymhleth sy'n llywodraethu amaethyddiaeth yng Nghymru sy'n tarddu o wahanol ffynonellau deddfwriaethol (fel y trafodir ym Mhennod 2).

5.5 Yn y bennod hon rydym yn ystyried a yw cymysgedd o ddarpariaethau deddfwriaethol ar draws 20 darn gwahanol o ddeddfwriaeth sylfaenol yn addas i'w cynnwys yn y darpar God drwy ddefnyddio ein meini prawf cynnwys fel y nodir ym Mhennod 3 (gweler paragraffau 3.34 i 3.53). Mae'r deddfau dan sylw yn cynnwys Deddfau Senedd Cymru neu Ddeddfau y DU sy'n gwneud darpariaeth yn bennaf ar gyfer cefnogi neu reoleiddio'r sector amaethyddol. Mae'r Deddfau hyn yn tueddu i gael eu galw'n "Ddeddfau Amaethyddiaeth" neu'n "Ddeddfau Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol)". Mae'r Deddfau a ystyrir yn y bennod hon hefyd yn cynnwys Deddfau y gellir eu nodi yn ôl eu teitl fel rhai sydd â chylch gwaith mwy penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 a Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.

5.6 Yn y bennod hon rydym hefyd yn gwerthuso a allai cydgrynhoi a chodeiddio'r ddeddfwriaeth a archwiliwyd ymwneud â materion y mae angen eu dadansoddi neu eu hystyried ymhellach. Er enghraifft, rydym yn archwilio a yw sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gyfle i symleiddio neu foderneiddio'r llu o ddiffiniadau statudol gwahanol o amaethyddiaeth.

5.7 Yn olaf, rydym yn ystyried a oes problemau technegol gyda'r ddeddfwriaeth a ystyrir yn y bennod hon a allai fynnu neu elwa o ddiwygiadau sydd â'r nod o symleiddio neu foderneiddio'r gyfraith dan sylw.

## CYDGRYNHOI A CHODEIDDIO ARFAETHEDIG DEDDFAU AMAETHYDDOL A DEDDFAU CYSYLLTIEDIG

5.8 Gan gynnwys Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, rydym wedi nodi 12 Deddf Amaethyddiaeth sy'n cynnwys darpariaethau sy'n dal mewn grym ac sy'n berthnasol i Gymru. Mae wyth darn ychwanegol o ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir eu nodi o'u teitl a'u cynnwys fel rhai sy'n ymwneud yn bennaf neu'n unig ag amaethyddiaeth. Mae pob un o'r wyth darn hynny o ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys darpariaethau sy'n parhau mewn grym ac sy'n gymwys i Gymru.

5.9 Isod rhestrir y 12 Deddf Amaethyddiaeth a'r wyth deddfwriaeth sylfaenol ychwanegol sydd fel arall yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

### Y Deddfau Amaethyddiaeth a Deddfau Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol)

(1) Deddf Amaethyddiaeth 1947

(2) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1949

(3) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954

(4) Deddf Amaethyddiaeth 1957

(5) Deddf Amaethyddiaeth 1958

(6) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1963

(7) Deddf Amaethyddiaeth 1967

(8) Deddf Amaethyddiaeth 1970

(9) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976

(10) Deddf Amaethyddiaeth 1986

(11) Deddf Amaethyddiaeth 1993

(12) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

### Darnau ychwanegol o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth

(13) Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889

(14) Deddf Credydau Amaethyddol 1928

(15) Deddf Ffermio'r Bryniau 1946

(16) Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948

(17) Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979

(18) Deddf Tir Fferm a Datblygu Gwledig 1988

(19) Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

(20) Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

5.10 Yn fras, mae'r ddeddfwriaeth a restrir ym mharagraff 5.9 yn darparu ar gyfer:

(1) swyddogaethau Gweinidogion Cymru i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth;[6]

(2) sefydlu cyrff statudol y mae eu rolau'n cynnwys cefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth;

(3) swyddogaethau i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth sy'n arferadwy gan gyrff cyhoeddus neu ddeiliaid swyddi ac eithrio Gweinidogion Cymru; a

(4) materion amrywiol sy'n berthnasol i amaethyddiaeth.

5.11 Mae'r cyfreithiau hyn yn dyddio'n ôl, mewn rhai achosion, cyn belled â 1889. Nid yw'n syndod mai dim ond yn rhannol y mae llawer o'r Deddfau a restrir mewn grym, ar ôl iddynt gael eu diddymu'n helaeth (er yn rhannol yn unig). Mae llawer hefyd wedi cael eu diwygio sawl gwaith dros y blynyddoedd. Gall cymhwyso darpariaethau'n diriogaethol o fewn un Ddeddf Senedd y DU amrywio hefyd. Mae hyn yn golygu bod

[6] Fodd bynnag, mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” yn amrywio ar draws y ddeddfwriaeth sylfaenol a restrir, sy'n golygu bod cwmpas unrhyw bwerau statudol i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yn amrywio ar draws y ddeddfwriaeth a restrir ym mharagraff 5.9.

rhai o'r Deddfau a restrir ym mharagraff 5.9 uchod yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig, i Gymru ac i rannau eraill o'r DU, neu i rannau o'r DU heblaw Cymru.

5.12 Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o Ddeddfau Senedd y DU a restrir ym mharagraff 5.9 yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion y DU sydd wedi cael eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, nid yw testun y darpariaethau statudol sy'n rhoi'r swyddogaethau dan sylw wedi'i ddiwygio'n uniongyrchol i adlewyrchu bod swyddogaethau bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Yn hytrach, mae angen darllen y darpariaethau statudol dan sylw ochr yn ochr ag offerynnau statudol ar wahân - sydd ar ffurf gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau - i nodi bod y swyddogaethau statudol yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

5.13 Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau uchod yn golygu ei bod yn anodd nodi'r ystod o swyddogaethau statudol sydd ar gael i Weinidogion Cymru i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Byddai cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru yn dwyn ynghyd swyddogaethau statudol craidd Gweinidogion Cymru i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God.

## CYFREITHIAU SY'N ADDAS I'W CYNNWYS YN Y DARPAR GOD

5.14 Yn ein hasesiad, mae'r cyfreithiau canlynol yn cynnwys darpariaethau sy'n addas i'w cynnwys mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru:

(1) Deddf Ffermio’r Bryniau 1946 (adrannau 12, 20 a 21);

(2) Deddf Amaethyddiaeth 1970 (Rhan 3);

(3) Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 (Deddf gyfan);

(4) Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Deddf gyfan); a

(5) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (Rhan 1, Penodau 1 i 3 o Ran 2 a Phenodau 1 a 3 o Ran 3).

5.15 Ar gyfer pob un o'r pum Deddf a restrir uchod, rydym yn crynhoi ym mharagraffau 5.16 i 5.55 isod y darpariaethau allweddol rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Lle bo'n berthnasol, rydym hefyd yn nodi unrhyw is-ddeddfwriaeth, fel y'i llunnir o dan ddarpariaethau yn y Deddfau neu'r Mesurau uchod, yr ydym hefyd yn ystyried ei bod yn addas i'w chynnwys. Ar ben hynny, rydym yn cyflwyno materion y gallai fod angen eu hystyried ymhellach cyn dod â darpariaethau deddfwriaethol penodol o fewn y darpar God.

### Deddf Ffermio'r Bryniau 1946

5.16 Mae Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 (“Deddf 1946”) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

(1) gwneud gwelliannau i'r tir magu da byw;

(2) cyhoeddi rheoliadau ar gyfer rheoli cadw hyrddod ac ŵyn gwryw heb eu hysbaddu er mwyn gwella ansawdd defaid; a

(3) chyhoeddi rheoliadau sy'n cyfyngu ar losgi grug, rhedyn, eithin a vaccinium dan reolaeth.[7]

### Pwerau i wneud gwelliannau i dir magu da byw sy'n ddarostyngedig i hawliau comin

5.17 Mae adran 12 Deddf 1946 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud y gwaith sy'n ofynnol i wneud gwelliannau i dir magu da byw sy'n ddarostyngedig i hawliau pori cyffredin.[8] Cyn ymgymryd â gwelliannau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'u bwriad i wneud hynny.[9]

5.18 Gwneir darpariaeth bellach hefyd yn adran 12 ar gyfer materion gan gynnwys yr hawl i wrthwynebu gwaith arfaethedig, ac ar gyfer y posibilrwydd o ddosrannu costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw waith a wneir.

5.19 Dim ond os ydynt o'r farn ei bod yn hwylus gwneud hynny at ddibenion adsefydlu'r tir hwnnw y caiff Gweinidogion Cymru wneud gwelliannau i dir magu da byw.[10] Ystyr tir magu da byw yw tir sydd wedi'i leoli mewn ardal o fynyddoedd, bryniau neu rostir yn bennaf, sy'n addas ar gyfer bridio, magu a chynnal defaid neu wartheg (neu dir a allai fod mor addas pe bai gwelliannau'n cael eu gwneud iddo).[11] Nid yw'r diffiniad yn cynnwys tir sy'n addas at ddibenion penodol megis defnyddio tir, i unrhyw raddau perthnasol, ar gyfer ffermio gwartheg godro.[12] Felly, rydym o'r farn bod y pwerau y darperir ar eu cyfer yn adran 12 yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac y bydd arfer y pwerau'n berthnasol yn ymarferol i amaethyddiaeth yn unig.

5.20 Am y rhesymau a amlinellir uchod, rydym o'r farn bod pwnc adran 12 Deddf 1946 yn addas i'w gynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno penderfynu yn gyntaf a yw'r darpariaethau hyn yn dal i gael eu harfer neu'n debygol o gael eu harfer yn y dyfodol.

### Darpariaethau llosgi dan reolaeth (adrannau 20 a 21)

5.21 O dan adran 20 Deddf 1946, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau sy'n gwahardd neu'n rheoli llosgi grug, glaswellt, rhedyn, eithin a vaccinium ar dir yng

---

7 Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan Ddeddf Ffermio'r Bryniau 1946, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

8 Nid yw'r term “hawliau pori cyffredin” wedi'i ddiffinio yn Neddf Ffermio'r Bryniau 1946. Fodd bynnag, tir sy'n eiddo i un neu fwy o bartïon yw tir comin y mae gan barti arall hawliau penodol drosto, megis yr hawl i bori gwartheg. Mae'r gyfraith sy'n rheoli tir comin yn cael ei hystyried ym Mhennod 9.

9 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, adran 12(2). Rhaid hysbysu hefyd “unrhyw berson sydd â hawl fel arglwydd y faenor neu fel arall i bridd y tir.”

10 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, adran 12(1).

11 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, adran 1(3).

12 Gweler y diffiniad o dir magu da byw o dan adran 1 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 am y rhestr lawn o ddefnyddiau sydd wedi'u heithrio.

Nghymru.[13] Y rheoliadau perthnasol i Gymru yw Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008").[14] Mae mynd yn groes i'r gofynion a ragnodir yn Rheoliadau 2008 yn drosedd.[15] Cefnogir Rheoliadau 2008 gan ganllawiau, gan gynnwys Cod Llosgi Grug a Glaswellt Cymru 2008.[16]

5.22 Yn y cyd-destun amaethyddol, gellir defnyddio llosgi dan reolaeth fel ffordd o reoli plâu a chlefydau ac i annog twf llystyfiant newydd y dibynnir arno ar gyfer pori da byw.[17] Rydym felly o'r farn bod adrannau 20 a 21 Deddf 1946, a Rheoliadau 2008 a wnaed o dan y Ddeddf, yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

5.23 Gellir llosgi dan reolaeth hefyd at ddibenion cadwraeth natur ac i reoli anifeiliaid hela.[18] Mae hyn yn golygu bod gan y gyfraith sy'n rheoli llosgi dan reolaeth gymhwysiad ymarferol sy'n ymestyn y tu hwnt i amaethyddiaeth.

5.24 Serch hynny, credwn ei bod yn ddymunol i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gwmpasu adrannau 20 a 21 Deddf 1946, a Rheoliadau 2008. Ym Mhennod 6 rydym yn cynnig bod Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.[19] Yn yr un modd â Rheoliadau 2008, mae Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 yn gosod cyfyngiadau ar losgi llystyfiant yn y cyd-destun amaethyddol.[20] Er mwyn cysondeb, ac er mwyn osgoi darnio'r gyfraith ar y pwnc arbenigol hwn, rydym yn cynnig bod adrannau 20 a 21 Deddf 1946 a Rheoliadau 2008 hefyd yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.[21]

### Materion a allai gyfiawnhau dadansoddiad pellach: rheoli hyrddod

5.25 O dan adran 18 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, caiff Gweinidogion Cymru lunio rheoliadau ar gyfer rheoli cadw hyrddod ac ŵyn gwryw heb eu hysbaddu.[22] Rhaid i unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 18 anelu at wella ansawdd defaid. Mae adran 19 Deddf 1946 yn darparu ar gyfer gorfodi rheoliadau a luniwyd o dan adran 18.[23]

---

13 Mae grug, eithin a vaccinium yn fathau o lwyni. Math o redynen yw rhedyn.

14 OS 2008/1081 (W 115).

15 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946, adran 12(2).

15 Y dogfennau canllaw eraill yw *Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru a Chynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru: Canllawiau Technegol Atodol.*

17 Ymddiriedolaeth Cadwraeth Hela a Bywyd Gwyllt, *The Moorland Balance* (2il argraffiad 2019).

18 Ymddiriedolaeth Cadwraeth Hela a Bywyd Gwyllt, *The Moorland Balance* (2il argraffiad 2019).

19 Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993, OS 1993/1336.

20 Ym Mhennod 6, rydym yn ystyried y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol, ac sydd wedi'u hanelu at ddiogelu'r amgylchedd, bywyd gwyllt ac adnoddau naturiol.

21 Wrth ddod i'r casgliad bod Rheoliadau 2008 yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol, nodwn fod Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi ystyried deiseb yn ddiweddar yn galw am wahardd llosgi dan reolaeth. Mewn ymateb i'r ddeiseb, mynegodd Llywodraeth Cymru ei barn bod y "rheoliadau presennol a'r cod ategol yn addas i'r diben" (gweler Ymchwil y Senedd, "Stopio "Llosgi dan Reolaeth" yng Nghymru" (Tachwedd 2022) 5).

22 Mae cwmpas y pwerau llunio rheoliadau y darperir ar eu cyfer o dan adran 18 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 wedi cael ei ymestyn gan Ddeddf Magu Da Byw 1951, adran 7.

23 O dan adran 19, mae'n drosedd caniatáu i hwrdd neu oen fod ar unrhyw dir yn groes i unrhyw ofynion a osodir o dan reoliadau a luniwyd o dan adran 18 Deddf Ffermio'r Bryniau 1946.

5.26 Nid yw'r pwerau llunio rheoliadau y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf 1946 wedi cael eu harfer mewn perthynas â Chymru na Lloegr ers y 1950au.[24] Y set olaf o reoliadau sylweddol i'w cyhoeddi o dan adran 18 oedd Rheoliadau Rheoli Hyrddod 1952, a ddiddymwyd wedyn yn 1981.[25]

5.27 Mae nifer o ddogfennau canllaw sy'n cynnig cyngor ymarferol ar reoli hyrddod yn effeithiol yng Nghymru. Er enghraifft, mae Hybu Cig Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli hyrddod yn effeithiol er mwyn diogelu iechyd ac ansawdd defaid sy'n cael eu ffermio.[26] Mae cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer lles defaid hefyd yn cynnig arweiniad ar yr un pwnc.[27] Efallai yr ystyrir bod canllawiau'n ffordd addas a chymesur o gyflawni'r mesurau diogelu a'r amcanion polisi a ddymunir yn y cyd-destun hwn.

5.28 Ar ben hynny, lle nad yw pwerau statudol wedi cael eu harfer ers cyfnod hir, gall hyn ddangos nad yw'r pwerau bellach o ddefnydd, effaith na gwerth ymarferol. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth benderfynu bod darpariaeth wedi mynd yn ddiangen oherwydd nad yw wedi cael ei harfer ers amser maith. Mae rhai pwerau statudol "wedi'u cynllunio'n benodol i gael eu defnyddio'n anaml".[28] Gall y defnydd o ddarpariaethau eraill fod yn prinhau'n raddol ond byddant yn parhau i gael eu defnyddio'n ymarferol.

5.29 Nid yw ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi cynnwys cam ymgynghori a fyddai'n caniatáu i ni brofi barn yn gynhwysfawr ynghylch a yw'r pwerau llunio rheoliadau y darperir ar eu cyfer o dan adran 18 yn parhau i fod o ddefnydd neu werth. Serch hynny, rydym o'r farn y gallai adrannau 18 a 19 Deddf 1946 fod yn addas i'w diddymu, o ystyried nad yw'r darpariaethau hyn wedi cael eu defnyddio ers dros 50 mlynedd ac felly efallai eu bod yn adlewyrchu pwerau nad ydynt bellach yn addas i'r polisïau presennol sy'n sail i amaethyddiaeth yng Nghymru. Gall ymgynghori fod yn ffordd o gadarnhau a yw'r darpariaethau hyn yn barod i'w diddymu.

### Deddf Amaethyddiaeth 1970

5.30 Mae Deddf Amaethyddiaeth 1970 ("Deddf 1970") yn gwneud y darpariaethau sy'n cael eu crynhoi isod.

(1) Mae adrannau 29 a 30 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru dalu grantiau cyfalaf i ffermydd o dan gynllun.

---

24 Mae hynny ar wahân i gyhoeddi rheoliadau ym 1981 i ddiddymu set gynharach o reoliadau a wnaed dan adran 18 (gweler paragraff 5.26 yn y bennod hon am ragor o fanylion).

25 Drwy Reoliadau Rheoli Hyrddod (Dirymu) 1981, OS 1981/892.

26 Hybu Cig Cymru, "Iechyd Defaid: Cael y gorau o'ch diadell trwy wella iechyd y defaid" https://meatpromotion.wales/wp-content/uploads/2024/05/210129_RMDP_Sheep_Health_WEL_Booklet-compressed.pdf.

27 Llywodraeth Cymru, *Cod Ymarfer er Lles Da Byw: Defaid* (Mawrth 2010) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/lles-defaid-cod-ymarfer.pdf.

28 Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 228, paragraff 5.48.

(2) Mae adran 32 yn gwneud diwygiadau i ddarpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 1967 ynghylch grantiau ar gyfer uno ac addasu ffiniau tir amaethyddol.[29]

(3) Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer cyfundrefn mân-ddaliadau statudol mewn perthynas â thir amaethyddol.

(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata a chynnyrch sy'n gymwys i wrteithiau a bwyd ar gyfer da byw.[30]

### Cyfundrefn mân-ddaliadau statudol: Rhan 3 Deddf 1970

5.31 Mae Rhan 3 Deddf 1970 yn darparu ar gyfer cyfundrefn mân-ddaliadau statudol. Mae mân-ddaliadau statudol yn barseli o dir amaethyddol sy'n eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cael eu prydlesu, at ddefnydd amaethyddol, i ffermwyr neu unigolion sy'n dymuno bod yn ffermwyr. Mae'r gyfundrefn mân-ddaliadau statudol yn cael ei hystyried ym Mhennod 9. Yn y bennod honno, rydym yn cynnig bod Rhan 3 Deddf 1970 yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Safonau cynnyrch a marchnata sy'n berthnasol i wrtaith a bwyd ar gyfer da byw: Rhan 4 Deddf 1970

5.32 Mae Rhan 4 Deddf 1970 yn darparu ar gyfer gwrteithiau a bwyd ar gyfer da byw. Yn benodol, mae darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 Deddf 1970 yn grymuso Gweinidogion Cymru i reoli cyfansoddiad, cynnwys neu swyddogaeth gwrteithiau a bwyd anifeiliaid pan fyddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.[31] Edrychir ar Ran 4 Deddf 1970 ym Mhennod 10 yr adroddiad hwn sy'n ystyried y cyfreithiau sy'n gymwys drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol gyfan.

### Cynlluniau grant cyfalaf i ffermydd: adran 29

5.33 Mae adran 29 Deddf 1970 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynlluniau sy'n cynnig rhoi cyllid tuag at gostau sefydlu neu gynnal busnes amaethyddol.[32] Byddwn yn cyfeirio at gynlluniau megis cynlluniau grant cyfalaf i ffermydd.

5.34 Nod adran 29 Deddf 1970 yw cefnogi'r sector amaethyddol drwy gyllid grant. Credwn fod adran 29 yn ymwneud ag amaethyddiaeth, ac ymhellach fod ei chymhwysiad ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth. Bydd unrhyw benderfyniad ynghylch cynnwys adran 29 Deddf 1970 yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn

---

29 Os yw darpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 1967 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 i'w cynnwys mewn Deddf cydgrynhoi gan y Senedd sy'n rhan o'r darpar God, yna nid oes angen cynnwys darpariaethau diwygio Deddf 1970 yn y Ddeddf cydgrynhoi. Gellir ailddatgan y darpariaethau fel y'u diwygiwyd yn y Ddeddf Cydgrynhoi. Gweler paragraff 5.99 y bennod hon am drafodaeth ar Ddeddf Amaethyddiaeth 1967.

30 Deddf Amaethyddiaeth 1970, adrannau 65 i 72A, 74 a 75 i 87. Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

31 Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 74A.

32 Mae adran 30 Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn gwneud darpariaeth sy'n atodol i'r pwerau rhoi grantiau y darperir ar eu cyfer o dan adran 29.

dibynnu ar a yw'r ddarpariaeth yn parhau i fod o ddefnydd, effaith neu werth ymarferol.

5.35 Rhaid i gynlluniau grant cyfalaf i ffermydd adran 29 gael eu gwneud drwy offeryn statudol. Mae yna saith gorchymyn a roddwyd o dan adran 29 sy'n sefydlu cynlluniau grant cyfalaf i ffermydd, sy'n parhau mewn grym ac sy'n gymwys i Gymru.[33] Mae'r cynllun grant i ffermydd olaf o'r fath yn fwy nag 20 mlwydd oed: Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2004.[34] Caeodd y ffenestr ar gyfer ceisiadau am grantiau dan Gynllun 2004 yn 2005 gan nodi efallai nad yw'r cynllun bellach yn weithredol.[35]

5.36 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch a oes unrhyw un o'r cynlluniau grant eraill a gyhoeddwyd o dan adran 29 Deddf 1970 yn dal ar waith. Fodd bynnag, ers hynny mae Gweinidogion Cymru wedi cael pwerau eang o dan adran 8 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth, neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth, a allai fod ar ffurf cyllid grant. Felly, mae'n bosibl nad yw'r pwerau yn adran 29 Deddf 1970 bellach yn cael eu hystyried o werth nac o ddefnydd ymarferol. Os felly, gall ymgynghori fod yn ffordd o gadarnhau a yw'r darpariaethau hyn yn barod i'w diddymu.

### Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979

5.37 Mae Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 ("Deddf 1979") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berchenogion neu feddianwyr tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth ddarparu gwybodaeth benodedig at ddibenion casglu gwybodaeth ystadegol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth.[36] Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berchenogion neu feddianwyr ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chymeriad a defnydd y tir amaethyddol y maent yn berchen arno neu'n ei feddiannu. Mae'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf 1979 yn parhau i gael eu defnyddio. Er enghraifft, mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar bwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 1979 i gynnal yr arolwg blynyddol o amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru.[37]

#### Addasrwydd ar gyfer cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

5.38 Gall gwybodaeth ystadegol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau yn y cyd-destun

---

[33] Cynllun Ffrwythau Coed Eirin (Grantiau Plannu) 1979, OS 1979/876; Cynllun Grantiau Deunyddiau Eirin a Chlirio 1979, OS 1979/877; Cynllun Grant Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 1980, OS 1981/1533; Cynllun Gwella Amaethyddiaeth, OS 1985/1029; Cynllun Grant Arallgyfeirio Ffermydd, OS 1987/1949; Cynllun Grant Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001, OS 2001/643; Cynllun Grantiau Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2004, OS 2004/1606 (Cy 165).

[34] OS 2004/1606 (Cy 165).

[35] Senedd Cymru, "Gwerthusiad Rheoleiddiol - Cynllun Grant Gwastraff Fferm (Parthau Perygl Nitradau) (Cymru) 2004" https://senedd.wales/media/znrphwcd/bus-guide-n0000000000000000002356-english.pdf

[36] Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan Ddeddf Ystadegau Amaethyddol 1979 i Weinidogion Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[37] Llywodraeth Cymru, "Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth: hysbysiad preifatrwydd" (2018) https://www.llyw.cymru/arolwg-o-amaethyddiaeth-garddwriaeth-hysbysiad-preifatrwydd-html.

amaethyddol. Mae cwmpas y pwerau casglu data y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf 1979 wedi'u cyfyngu i gasglu data gan berchnogion neu feddianwyr tir amaethyddol. Credwn fod Deddf 1979 yn ymwneud ag amaethyddiaeth a bod ganddi gymhwysiad ymarferol sydd wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth. Am y rhesymau hynny, rydym yn ystyried bod Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

5.39 Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru.[38] Ymhlith materion eraill, mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn gyfrifol am baratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf drafft. Cyn iddynt gael eu deddfu, rhaid i'r gorchmynion drafft fod yn destun ymgynghoriad ac yna gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.[39] Ar ôl eu deddfu, mae'r gorchmynion yn darparu ar gyfer yr isafswm cyflog amaethyddol a thelerau ac amodau cyflogaeth penodol y mae'n rhaid eu cynnig i weithwyr amaethyddol yng Nghymru. Y gorchymyn presennol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014 yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025.[40]

#### Addasrwydd ar gyfer cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

5.40 Yn achos *Agricultural Sector (Wales) Bill,* barn y Goruchaf Lys oedd mai prif ddiben ac effaith Deddf 2014 yw:

> sefydlu cyfundrefn statudol ar gyfer rheoleiddio cyflogau amaethyddol a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill o fewn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Diben ac effaith cyfundrefn o'r fath yw gweithredu ar weithgarwch economaidd amaethyddiaeth drwy hybu a diogelu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru.[41]

5.41 Felly, rydym o'r farn bod Deddf 2014 yn ymwneud ag amaethyddiaeth a bod ganddi gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Am y rhesymau hynny, rydym o'r farn bod Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, ac unrhyw orchymyn blynyddol a wneir o dan y Ddeddf sy'n pennu'r isafswm cyflog amaethyddol, yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

5.42 Wrth ddod i'r casgliad uchod, rydym yn cydnabod bod galwadau am ddiwygio yn y sector amaethyddol sy'n ymwneud â dyfodol y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth a'r isafswm cyflog amaethyddol.[42] Fodd bynnag, mae unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid parhau i ddarparu isafswm cyflog amaethyddol yn fater o bolisi sydd y tu allan i'n cylch gwaith.

---

38 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (dccc 6), adran 2.

39 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (dccc 6), adran 4.

40 OS 2025/293 (Cy 59).

41 *Attorney General for England and Wales v Counsel General for Wales* [2014] UKSC 43, [2014] 1 WLR 2622, paragraff 54.

42 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Ffermio Cymru: Tyfu Ymlaen" (Mehefin 2025) https://www.nfuonline.com/media/r10f3kuy/nfu-cymru-senedd-report-2025_welsh-no-trim.pdf.

### Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

5.43 Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”) yn cynnwys y darpariaethau sy'n cael eu crynhoi isod.

(1) Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy (fel y trafodir ym mharagraffau 5.1 i 5.4 uchod). Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

(2) Mae Pennod 1 o Ran 2 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) ar gyfer gweithgareddau amaethyddol ac ategol yng Nghymru, neu mewn cysylltiad â hwy. Bwriedir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei weithredu o dan y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan Ran 2.

(3) Mae Pennod 2 o Ran 2 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfau penodedig eraill sy'n darparu ar gyfer cynlluniau ariannu neu gymorth amaethyddol (megis y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol).

(4) Mae Pennod 3 o Ran 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud datganiad o amodau eithriadol yn y farchnad mewn marchnadoedd amaethyddol ac i gymryd camau penodedig yn dilyn datganiad o'r fath (er enghraifft, darparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru).

(5) Mae Pennod 1 o Ran 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, i gael gwybodaeth benodedig sy'n ymwneud â'r “gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth”.[43] O dan adran 25(1), caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berson mewn cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sydd â chysylltiad agos â hi, ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi i'r graddau y mae'r gweithgareddau'n digwydd yng Nghymru.

(6) Mae adran 34 (Pennod 2 o Ran 3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y safonau marchnata sy'n gymwys i restr benodedig o gynhyrchion amaethyddol pan gânt eu marchnata yng Nghymru.

(7) Mae adran 35 (Pennod 3 o Ran 3) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch dosbarthu, nodi a chyflwyno carcasau da byw penodol gan ladd-dai yng Nghymru.

5.44 Yn ogystal â'r materion a restrir uchod, mae Rhannau 4 a 5 Deddf 2023 yn darparu ar gyfer diwygiadau i Ddeddfau eraill sy'n cael eu harchwilio ym mhenodau diweddarach yr adroddiad hwn.[44]

---

43 Diffinnir y term cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 26(2).

44 Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4) yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i hystyrir ym Mhennod 6, a Deddf Coedwigaeth 1967 fel y'i hystyrir ym Mhennod 8. Mae Deddf 2023 hefyd yn cyflwyno diwygiadau i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, ac mae'r naill a'r llall yn cael eu hystyried ym Mhennod 9.

### Rhan 1, Penodau 1 i 3 o Ran 2 a Phennod 1 o Ran 3

5.45 Yn gyffredinol, mae darpariaethau Deddf 2023 a restrir ym mhwyntiau 1 i 5 paragraff 5.43 uchod yn rhoi pwerau neu ddyletswyddau i Weinidogion Cymru gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Rydym felly o'r farn bod y darpariaethau dan sylw yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac ymhellach bod ganddynt gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Am y rhesymau uchod, rydym yn cynnig bod y darpariaethau hynny'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Adran 34 (Pennod 2 o Ran 3): safonau marchnata

5.46 O dan adran 34 Deddf 2023 gall Gweinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n pennu'r safonau marchnata sy'n gymwys i fathau penodol o gynhyrchion amaethyddol pan gânt eu marchnata yng Nghymru.[45] Nid yw Gweinidogion Cymru eto wedi arfer eu pwerau i ddeddfu rheoliadau o dan adran 34.

5.47 Ym Mhennod 10, rydym yn ystyried a yw cyfreithiau penodol sy'n berthnasol i gamau penodol o'r gadwyn gyflenwi amaethyddol yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Yn y bennod honno, rydym yn nodi bod ein hadolygiad o ddeddfwriaeth amaethyddol wedi canolbwyntio ar gyfreithiau sy'n berthnasol i weithgareddau neu ddefnyddiau tir sy'n digwydd ar ffermydd fel bridio a chadw da byw, tyfu cnydau, a ffermio gwartheg godro. Mae'r dull hwn wedi ein helpu i osod paramedrau synhwyrol ar gwmpas ein gwaith.

5.48 O ganlyniad, ym Mhennod 10, nid ydym yn archwilio'n fanwl a yw'r cyfreithiau unigol sy'n berthnasol i gamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol, gan gynnwys cyfreithiau sy'n ymwneud â marchnata, labelu a chyfansoddiad cynnyrch amaethyddol, yn perthyn i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fodd bynnag, rydym yn darparu crynodeb o'r prif gyfreithiau marchnata sy'n berthnasol i gynnyrch amaethyddol yng Nghymru. Nodwn fod y cyfreithiau marchnata hynny'n cynnwys cyfreithiau sy'n ymddangos fel petaent yn ymwneud yn bennaf â diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd, y rheini sy'n ymwneud yn bennaf â chynnal hyder defnyddwyr, a'r rheini sy'n ymwneud â chymysgedd o'r pynciau hynny. Am yr un rhesymau ag a amlinellir ym Mhennod 10, nid ydym yn cynnig barn ynghylch a yw adran 34 Deddf 2023 yn perthyn i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Adran 35 (Pennod 3 o Ran 3): nodi carcasau

5.49 Mae adran 35 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio dosbarthu, nodi a chyflwyno rhywogaethau buchol (megis gwartheg), carcasau moch a defaid mewn lladd-dai yng Nghymru. Mae'r gyfraith bresennol ar ddosbarthu carcasau'n deillio o'r UE.[46]

---

[45] Y cynhyrchion amaethyddol dan sylw yw'r rhai a restrir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), Atodlen 1.

[46] Mae'r deddfau presennol sy'n rheoli dosbarthu carcasau da byw yn cynnwys Rheoliad y DU (UE) Rhif 1308/2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol, Rheoliad Dirprwyedig Comisiwn y DU (UE) 2017/1182 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid, a Rheoliad Gweithredu Comisiwn y DU (UE) 2017/1184 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif

5.50 Mae rheoleiddio dosbarthu carcasau da byw yn gwella effeithlonrwydd y farchnad ac yn cynnal hyder defnyddwyr. Fel y nodir ym memorandwm esboniadol Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (bryd hynny):

> Mae creu fframwaith mewn deddfwriaeth ar gyfer dosbarthu carcasau wedi golygu bod tryloywder o ran prisiau a delir i gynhyrchwyr am garcasau gwartheg a moch yn dibynnu ar eu hansawdd, wedi'i alluogi gan ddarpariaethau adrodd ar brisiau sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau.
>
> Mae'r ddeddfwriaeth wedi rhoi mwy o hyder i brynwyr carcasau gwartheg a moch fod y cynnyrch y maent yn ei brynu yn bodloni'r safonau gofynnol. Heb fframwaith deddfwriaethol a greodd system raddio safonol, mae'n debyg na fyddai'r hyder hwn gan y prynwr wedi bodoli.[47]

Ar ben hynny, mae'r rheolau presennol ar ddosbarthu carcasau yn cael eu "defnyddio'n bennaf i gyfrifo'r taliad sy'n ddyledus gan ladd-dai i gynhyrchwyr".[48]

5.51 Yn ddiweddar, mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y pwerau a ddarperir o dan adran 35 Deddf 2023, i ddeddfu rheoliadau sy'n llywodraethu dosbarthu carcasau defaid mewn lladd-dai: Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu a Chofnodi Prisiau) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau 2025").[49] Disgrifiwyd nod y Rheoliadau 2025 fel "sicrhau bod y farchnad ddefaid yn gweithredu gyda mwy o dryloywder fel y bydd cynhyrchwyr yn deall a ydynt yn derbyn pris teg am eu hanifeiliaid a laddwyd.".[50]

5.52 Rydym o'r farn bod y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 35 yn ceisio cynnal hyder defnyddwyr yn ansawdd cynnyrch amaethyddol, ac ymhellach i sicrhau bod ffermwyr da byw yn cael pris teg am gynnyrch o'r fath. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod adran 35 Deddf 2023 yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

5.53 Yn ogystal, bydd adran 35 yn berthnasol yn ymarferol i amaethyddiaeth gan y bydd rheolau sy'n rheoleiddio dosbarthu carcasau yn pennu faint y telir i ffermwyr da byw am eu cynnyrch amaethyddol. Fodd bynnag, bydd adran 35 hefyd yn berthnasol yn ymarferol i ladd-dai: gosod rheolau sy'n ymwneud â'r dulliau y mae'n rhaid i ladd-dai eu mabwysiadu wrth ddosbarthu carcasau da byw.

5.54 At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi mabwysiadu ystyr amaethyddiaeth fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf 2023. O ran ein darlleniad, nid yw lladd-dai yn dod o fewn ystyr amaethyddiaeth fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 2023. Felly, dim ond yn rhannol y mae adran 35 Deddf 2023 yn bodloni ein meini prawf cynnwys.

---

1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid.

47 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (Awst 2023) tt 64 i 65.

48 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, t 44.

49 OS 2025/1121 (W 186) a ddaeth i rym ar 28 Ionawr 2026.

50 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu a Chofnodi Prisiau) (Cymru) 2025, OS 2025/1121 (W 186).

5.55 Serch hynny, mae'n anodd dychmygu y byddai adran 35 Deddf 2023 yn perthyn i god cyfraith Cymru o dan bwnc gwahanol. Mae hynny'n arbennig o wir o gofio bod y gyfraith sy'n rheoleiddio dosbarthu carcasau yn bodoli i sicrhau bod ffermwyr da byw yn cael pris teg am eu cynnyrch. Am y rheswm hwnnw, rydym o'r farn bod adran 35 Deddf 2023 a Rheoliadau 2025 yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## CYFREITHIAU SY'N ADDAS DROS DRO I'W CYNNWYS YN Y DARPAR GOD

5.56 Yn yr adran hon rydym yn ystyried y Deddfau hynny sy'n cynnwys darpariaethau sydd, yn ein barn ni, yn addas dros dro i'w cynnwys yn y darpar God, yn amodol ar faterion y gallai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach.

### Deddf Amaethyddiaeth 1947

#### Crynodeb o'r Ddeddf: darpariaethau allweddol

5.57 Mae Deddf Amaethyddiaeth 1947 ("Deddf 1947") yn darparu ar gyfer y materion a amlinellir isod.

(1) Rheolau rheoli ystadau'n dda a hwsmonaeth dda sy'n berthnasol yn y drefn honno mewn perthynas â thir amaethyddol ac unedau amaethyddol.[51]

(2) Sefydlu Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a'i swyddogaethau.

(3) Pwerau Gweinidogion Cymru i gaffael a rheoli tir amaethyddol o dan amgylchiadau penodedig.

(4) Pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd y camau sy'n angenrheidiol ar gyfer lladd, cymryd neu ddinistrio, ar dir penodedig, adar gwyllt penodol ac anifeiliaid penodol.[52]

(5) Pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi hysbysiadau i'w gwneud yn ofynnol i berson gymryd camau i atal anifeiliaid caeth rhag dianc.[53]

#### Hwsmonaeth dda a rheoli ystadau'n dda

5.58 Mae adrannau 10 ac 11 Deddf 1947 yn darparu ar gyfer rheolau rheoli ystadau'n dda a rheolau hwsmonaeth dda. Mae'r rheolau'n berthnasol i'r gyfraith sy'n ymwneud â daliadau amaethyddol a thenantiaethau amaethyddol. Felly, rydym yn ystyried y darpariaethau hyn ym Mhennod 9.

---

51 At ddibenion Deddf Amaethyddiaeth 1947, diffinnir y termau "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol" yn adran 109(1) y Ddeddf honno.

52 Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a ddarperir yn Neddf Amaethyddiaeth 1947, adran 98.

53 Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan adran 73(3) Deddf 1947 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018, OS 2018/644.

## Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

5.59 Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTA Cymru") yn gwrando achosion sy'n ymwneud yn bennaf â thir amaethyddol â thenant. Yn dilyn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru,[54] a gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Gyfiawnder yng Nghymru,[55] cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn ar system tribiwnlysoedd newydd i Gymru. Cynigiodd y bapur gwyn y dylid dod â gwaith TTA Cymru o fewn cylch gwaith Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.[56] Adroddir bod Bil perthnasol yn cael ei ddatblygu.[57] Am y rheswm hwnnw, rydym o'r farn y byddai'r darpariaethau yn Neddf 1947 sy'n ymwneud â sefydlu a gweithredu TTA Cymru yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## Pwerau i gaffael tir amaethyddol drwy gytundeb

5.60 Mae adran 82 Deddf 1947 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gaffael tir amaethyddol drwy gytundeb.[58] O dan adran 90 Deddf 1947, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i reoli, i ffermio, i werthu, i osod neu i ddelio fel arall ag unrhyw dir a gaffaelwyd drwy gytundeb o dan Ddeddf 1947 neu i gael gwared arno.[59]

5.61 Ar ail ddarlleniad y Bil a ddaeth yn Ddeddf 1947, amlinellodd y Gweinidog Amaeth (ar y pryd), Thomas Williams AS, gerbron Tŷ'r Cyffredin mai un o nodau arfaethedig y Bil oedd sicrhau bod tir amaethyddol yn cael ei reoli'n effeithlon a "not needlessly whittled away".[60] Fodd bynnag, bydd y polisi amaethyddol a oedd yn sail i Ddeddf 1947, a'r pwerau statudol i gaffael tir amaethyddol drwy gytundeb, yn wahanol i'r polisi sy'n sail i ddeddfwriaeth amaethyddol yn yr oes fodern.[61]

5.62 Mater i Lywodraeth Cymru fydd ystyried a yw'n debygol y dibynnir ar y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 82 Deddf 1947 i hyrwyddo amcanion polisi amaethyddol modern. Felly, rydym o'r farn bod adrannau 82 a 90 Deddf 1947, mewn egwyddor, yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, ond dim ond os bydd y pwerau'n parhau i fod o ddefnydd ymarferol.[62]

---

54 Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2021) Comisiwn y Gyfraith Rhif 403.

55 Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru ar gyfer Pobl yng Nghymru* (Hydref 2019).

56 Llywodraeth Cymru, *System Dribiwnlys Newydd i Gymru: papur gwyn* (Mehefin 2023), paragraff 69.

57 *Cofnod Trafodion y Senedd*, 5 Tachwedd 2024, 145.

58 Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan adrannau 82 a 90 Deddf Amaethyddiaeth 1947, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

59 Gweler Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 90.

60 *Hansard* (HC), 27 Ionawr 1947, cyf 432, col 632.

61 Gweler Pennod 2 am ddadansoddiad pellach o sut mae nodau'r polisi sy'n sail i gyfraith amaethyddol wedi datblygu ers pasio Deddf Amaethyddiaeth 1947.

62 Rydym yn deall mai diben y pŵer y darperir ar ei gyfer o dan adran 82 Deddf Amaethyddiaeth 1947 oedd atal tir amaethyddol rhag peidio â chael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu. Mae'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Cymru 2017 (a ddiwygiodd Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn datgan y byddai'r eithriad i'r cyfyngiad cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i addasu'r gyfraith breifat yn berthnasol yn achos pŵer deddfwriaethol i gaffael tir yng Nghymru at ddiben nad yw wedi'i gadw'n ôl (gweler paragraff 3(3) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

## Pwerau i gyhoeddi hysbysiadau i atal difrod gan anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid caeth

5.63 O dan adran 98(1) Deddf 1947, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gymryd camau i ladd, cymryd neu ddifa anifeiliaid penodedig ar dir. Yr anifeiliaid y mae'r pŵer yn gymwys iddynt yw cwningod, ysgyfarnogod, cnofilod, ceirw, llwynogod, tyrchod daear, adar gwyllt a'u hwyau[63], ac unrhyw anifeiliaid eraill a ragnodir mewn rheoliadau. Nid oes rheoliadau o'r fath wedi'u llunio gan Weinidogion Cymru sy'n rhagnodi anifeiliaid ychwanegol.

5.64 Cyn cyhoeddi hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd camau i ladd, difa neu gymryd unrhyw anifail penodedig, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y gofyniad yn hwylus i atal difrod i'r canlynol:

(1) cnydau;

(2) tir pori;

(3) bwydydd anifeiliaid neu bobl;

(4) da byw;

(5) coed;

(6) gwrychoedd;

(7) glannau; neu

(8) unrhyw waith ar dir.

5.65 Ar wahân, mae adran 98(7) Deddf 1947 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd tir gymryd camau i ddinistrio mannau bridio cwningod, gwahardd cwningod o dir neu atal cwningod rhag ymledu i dir arall. Cyn ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd camau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni bod unrhyw ofyniad yn hwylus i atal difrod i gnydau, porfeydd, coed, gwrychoedd, glannau neu unrhyw waith ar dir: categori adnoddau mwy cyfyng nag a gyflwynir ym mharagraff 5.64.

5.66 O dan adran 99 Deddf 1947, mae gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i gyhoeddi hysbysiad i'w gwneud yn ofynnol i feddiannydd tir gymryd camau sy'n angenrheidiol i atal unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu cadw’n gaeth ar y tir rhag dianc. Cyn cyhoeddi unrhyw ofyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon y byddai'n hwylus er mwyn atal difrod i unrhyw un o'r adnoddau a restrir ym mharagraff 5.64.

5.67 Mae adran 100 Deddf 1947 yn ei gwneud yn drosedd methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir mewn hysbysiad a gyhoeddir o dan adrannau 98(1), 98(7) neu 99.

---

63 Nid oedd y pŵer o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, adran 98 yn wreiddiol yn ymestyn i unrhyw adar gwyllt a restrir yn Neddf Gwarchod Adar 1954, ond ers hynny mae'r Ddeddf honno wedi cael ei diddymu yn ei chyfanrwydd gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

5.68 Yn 2015, cyhoeddasom adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer cydgrynhoi a diwygio'n dechnegol cyfraith bywyd gwyllt.[64] Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom argymell y dylid cyfuno'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98 a 99 Deddf 1947 - ynghyd â chyfreithiau eraill sy'n ymwneud â rheoli plâu a chwyn - mewn Deddf i gydgrynhoi deddfwriaeth bywyd gwyllt.[65] Roedd deddfau eraill yr argymhellwyd eu cydgrynhoi yn cynnwys Deddf Plâu 1954 a Deddf Chwyn 1959. Mae Deddf Plâu 1954 yn darparu ar gyfer pwerau gweinidogol sy'n ymwneud â rheoli cwningod gwyllt. Mae Deddf Chwyn 1959 yn darparu ar gyfer pwerau gweinidogol i fynnu bod meddiannydd tir yn cymryd camau i atal chwyn rhag lledaenu.[66]

5.69 Yn unol â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar gyfraith bywyd gwyllt, rydym yn cydnabod bod y pwerau y darparwyd ar eu cyfer o dan adrannau 98(1) a 98(7) Deddf 1947 yn ymwneud â rheoli bywyd gwyllt. Fodd bynnag, yn wahanol i adran 98, nid yw'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 99 yn ymwneud â bywyd gwyllt. Yn hytrach, mae adran 99 yn ymwneud â rheoli anifeiliaid sy'n cael eu cadw'n gaeth, ac yn benodol â'u hatal rhag dianc. Beth bynnag, fel y nodir yn ein hadroddiad bywyd gwyllt, mae yna achos perswadiol dros ddod â'r pwerau a gynhwysir yn adrannau 98 a 99 Deddf 1947 ynghyd â phwerau eraill i ddarparu ar gyfer rheoli chwyn, bywyd gwyllt neu anifeiliaid eraill a allai achosi difrod i adnoddau neu eiddo.

5.70 Fodd bynnag, dim ond pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod unrhyw gamau neu weithredu gofynnol yn hwylus at ddibenion atal difrod i adnoddau penodol y caniateir arfer y pwerau perthnasol y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98(1), 98(7) a 99 Deddf 1947. Yr adnoddau perthnasol ar gyfer adrannau 98(1) a 99 yw'r rhai a restrir ym mharagraff 5.64. Mae nifer o'r adnoddau perthnasol yn rhai sydd fel arfer yn cael eu defnyddio, eu cadw neu eu cynhyrchu mewn cyd-destun amaethyddol: cnydau, tir pori, da byw a bwydydd anifeiliaid. Mae cnydau a thir pori hefyd yn adnoddau perthnasol at ddibenion adran 98(7). Felly, mae yna ddadl gref bod adrannau 98 a 99 yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Yn wir, mae ein hadroddiad ar gyfraith bywyd gwyllt yn disgrifio'r darpariaethau hyn fel rhai sy'n rhoi pwerau i reoli "mathau penodol o blâu amaethyddol".[67]

5.71 Yng ngoleuni'r dadansoddiad uchod, rydym o'r farn bod y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98 a 99 yn ymwneud ag amaethyddiaeth a phynciau ychwanegol: rheoli bywyd gwyllt a rheoli anifeiliaid caeth, yn y drefn honno. Yn hyn o beth, rydym yn cydnabod y bydd deddfwriaeth yn aml yn ymwneud â nifer o bynciau, ac nid ydym o'r farn bod hyn o reidrwydd yn rhwystr rhag cynnwys cyfraith yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

5.72 O ran cymhwyso'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98(7) a 99 yn ymarferol, nodwn fod gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan bob adran i roi hysbysiadau i feddianwyr tir. O dan adran 99, dim ond i berson sydd â'r hawl i gymryd y camau sy'n ofynnol mewn hysbysiad ar y tir y mae'r hysbysiad yn gymwys iddo y

---

[64] Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362.

[65] Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362, t 348, argymhelliad 217.

[66] Mae'r swyddogaethau gweinidogol y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Plâu 1954 a Deddf Chwyn 1959 wedi'u trosglwyddo, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[67] Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362, paragraff 9.96.

caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad. Nid yw tir wedi'i ddiffinio at ddibenion adrannau 98 a 99. Fodd bynnag, mae “tir amaethyddol” yn derm a ddiffinnir o dan Ddeddf 1947 ac mae'n golygu unrhyw dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth at ddibenion masnach neu unrhyw dir sydd wedi'i ddynodi'n dir amaethyddol.[68] O ganlyniad, rydym yn deall bod y term “tir” yn adrannau 98 a 99 yn cynnwys unrhyw dir, nid tir amaethyddol yn unig. Felly, deuwn i'r casgliad nad yw'r defnydd ymarferol o'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98 a 99 wedi'u cyfyngu i amaethyddiaeth yn unig.

5.73 Mae'n fwy heriol asesu a oes cymhwysiad ymarferol i’r pwerau o dan adrannau 98 a 99 sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Nod y pwerau dan sylw yw atal difrod i adnoddau penodol. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.70 uchod, mae rhai o'r adnoddau hynny yn rhai sy'n cael eu defnyddio, eu cadw neu eu cynhyrchu fel arfer mewn cyd-destun amaethyddol (cnydau, da byw a thir pori). Mae eraill yn adnoddau y gellir eu defnyddio, eu datblygu neu eu cynhyrchu mewn cyd-destunau ehangach, gan gynnwys amaethyddiaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Mae enghreifftiau'n cynnwys coed, gwrychoedd ac “unrhyw waith ar dir”. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl dod i gasgliad ar ôl darllen y ddeddfwriaeth yn unig y bydd y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98 a 99 yn cael eu cyhoeddi'n bennaf i atal difrod mewn cyd-destun amaethyddol.

5.74 Am y rhesymau a amlinellir uchod, rydym o'r farn mai dim ond yn rhannol y mae adrannau 98 a 99 Deddf 1947 yn bodloni ein meini prawf cynnwys. Rydym yn dod i'r un casgliad mewn perthynas ag adran 100 sy'n darparu ar gyfer gorfodi adrannau 98 a 99. Felly, rydym o'r farn bod y dadleuon dros gynnwys y darpariaethau hyn yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gytbwys iawn. Mae dadleuon perswadiol - fel y nodir yn gynhwysfawr yn ein hadroddiad ar gyfraith bywyd gwyllt - dros gynnwys adrannau 98 i 100 Deddf 1947, ynghyd â chyfreithiau rheoli plâu eraill, mewn unrhyw ymarfer posibl i gydgrynhoi cyfraith bywyd gwyllt. Os bwrir ymlaen â gwaith cydgrynhoi o'r fath, yna gallai cynnwys adrannau 98 i 100 Deddf 1947 yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru achosi risg o ddarnio'r darpariaethau hynny o gyfreithiau ehangach sy'n ymwneud â rheoli plâu a chwyn.

5.75 Cyhoeddwyd yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad bywyd gwyllt dros ddegawd yn ôl a chyn i Lywodraeth Cymru ddechrau ar ei rhaglen waith gyntaf i gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith ar bynciau datganoledig. Serch hynny, rydym o'r farn bod y dadleuon dros gynnwys adrannau 98 i 100 mewn unrhyw ymarfer posibl yn y dyfodol i gydgrynhoi deddfwriaeth bywyd gwyllt yn dal yn ddilys. Gall unrhyw benderfyniad ynghylch a fydd adrannau 98 i 100 Deddf 1947 yn cael eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ddibynnu ar a oes bwriad i gydgrynhoi neu godeiddio cyfraith bywyd gwyllt sy'n berthnasol yng Nghymru.

### Deddf Amaethyddiaeth 1986

5.76 Yn fras, mae Deddf Amaethyddiaeth 1986 (“Deddf 1986”) yn gwneud y ddarpariaeth a amlinellir isod.

---

68 Gall tir gael ei ddynodi'n dir amaethyddol gan Weinidogion Cymru o dan adran 109 Deddf Amaethyddiaeth 1947 os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai'r tir gael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth.

(1) Mae adran 1 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a chefn gwlad.

(2) Mae adran 17 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, i roi sylw i, ac ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhwng ystyriaethau penodol gan gynnwys, ymysg materion eraill, "hyrwyddo a chynnal diwydiant amaethyddol sefydlog ac effeithlon".

(3) Mae adran 18 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddynodi ardaloedd yng Nghymru yn "ardaloedd amgylcheddol sensitif".[69]

### Pwerau i ddarparu cyflenwad nwyddau a gwasanaethau (adran 1)

5.77 O dan adran 1 Deddf 1986, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer cyflenwi i unrhyw berson unrhyw wasanaethau neu nwyddau sy'n ymwneud â'r canlynol:

(1) cynhyrchu a marchnata cynnyrch amaethyddol a bwyd arall;

(2) gwarchod a gwella harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad; neu

(3) unrhyw weithgaredd amaethyddol arall neu fenter arall sydd o fudd i'r economi wledig.[70]

5.78 Nid yw'n glir a yw Gweinidogion Cymru yn parhau i arfer y pwerau o dan adran 1 Deddf 1986. Os yw'r pwerau'n parhau i gael eu defnyddio, yna rydym o'r farn bod y ddarpariaeth yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Ar y llaw arall, os nad ystyrir bod y pwerau o werth neu ddefnydd ymarferol mwyach, yna gall ymgynghori fod yn ffordd o gadarnhau a yw'r darpariaethau hyn yn addas i'w diddymu.

### Dyletswydd i gydbwyso buddiannau wrth arfer swyddogaethau amaethyddol (adran 17)

5.79 Mae adran 17 Deddf 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, roi sylw i a cheisio sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng ystyriaethau penodedig penodol (i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth o dan sylw). Dyma'r ystyriaethau penodedig:

(1) hybu a chynnal diwydiant amaethyddol sefydlog ac effeithlon;

(2) buddiannau economaidd a chymdeithasol ardaloedd gwledig;

[69] Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1986, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[70] Mae adran 1(2) yn rhestru'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud o dan adran 1 Deddf Amaethyddiaeth 1986 (er enghraifft, darparu cyngor, cyfarwyddyd a hyfforddiant).

(3) gwarchod a gwella harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad (gan gynnwys ei fflora a ffawna a'i nodweddion daearegol a ffisiograffigol) ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb archaeolegol yno; a

(4) hybu mwynhad y cyhoedd o gefn gwlad.

5.80 Nid yw Deddf 1986 yn diffinio ystyr "swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth". Fodd bynnag, mae adran 17(2) yn cadarnhau bod i'r term "amaethyddiaeth" yr un ystyr ag y darperir ar ei gyfer o dan adran 109(3) Deddf Amaethyddiaeth 1974:

> mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio gwartheg godro a bridio a chadw da byw, defnyddio tir fel tir pori, dolydd, tir helyg, gerddi marchnad a meithrinfeydd planhigion, a defnyddio tir ar gyfer coetiroedd lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol i ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill, a bydd "amaethyddol" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny.

5.81 O dan adran 2 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy. Fel yr amlinellir ym mharagraffau 5.3 i 5.4 uchod, mae'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu mewn ffordd y maent yn credu sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir cynaliadwy i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol. Mae'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy yn berthnasol i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 2023. Mae hefyd yn gymwys i unrhyw swyddogaethau a gynhwysir mewn unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio neu gefnogi amaethyddiaeth;[71] gweithgareddau eraill a gyflawnir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth; neu weithgareddau penodedig a ddiffinnir fel gweithgareddau ategol.[72]

5.82 Felly, bydd y ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy o dan adran 2 Deddf 2023 a'r ddyletswydd o dan adran 17 Deddf 1986 yn berthnasol i swyddogaethau y gellir dweud eu bod yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Mae hyn yn golygu bod gorgyffwrdd rhwng y swyddogaethau statudol y mae pob dyletswydd yn berthnasol iddynt.[73]

5.83 Os yw adran 17 Deddf 1986 yn cael ei dwyn o fewn Deddf cydgrynhoi a fydd yn rhan o'r darpar God, yna efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i sut mae'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17 Deddf 1986 yn rhyngweithio â'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy a osodir o dan adran 2 Deddf 2023. Yn hynny o beth, rydym yn nodi bod adran 17 Deddf 1986 wedi cael ei diddymu, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r Alban, gan Ddeddf Amaethyddiaeth a Chymunedau Gwledig (Yr Alban) 2024. Mae'r nodiadau esboniadol i Ddeddf 2024 yn amlinellu bod dyletswyddau

---

71 Diffinnir amaethyddiaeth at ddibenion Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4) yn gynhwysfawr o dan adran 51.

72 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 2(2).

73 Wrth ddod i'r casgliad rhagarweiniol hwn, fodd bynnag, rydym yn nodi bod Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4) yn darparu ar gyfer ei diffiniad ei hun o amaethyddiaeth sy'n wahanol i'r diffiniad y darperir ar ei gyfer o dan adran 109(2) Deddf Amaethyddiaeth 1947 ac mae'r ddau ddiffiniad yn dylanwadu ar gwmpas y dyletswyddau sy'n cael eu hystyried yn adran hon y bennod.

newydd Gweinidogion yr Alban wedi disodli adran 17 Deddf 1986 fel y'u gosodwyd o dan y Ddeddf honno.[74]

### Pŵer i ddynodi ardaloedd amgylcheddol sensitif

5.84 Mae adran 18 Deddf 1986 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddynodi, drwy orchymyn, ardaloedd yng Nghymru yn ardaloedd amgylcheddol sensitif ("ESA").[75] Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi dynodiad ESA dim ond os yw'r canlynol yn ymddangos yn arbennig o ddymunol:

(1) gwarchod a gwella harddwch naturiol ardal;

(2) gwarchod fflora neu ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol ardal; neu

(3) gwarchod adeiladau neu wrthrychau eraill o ddiddordeb archaeolegol, pensaernïol neu hanesyddol mewn ardal.

Yn ogystal, ni chaniateir i ddynodiad gael ei ddyroddi o dan adran 18 dim ond pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod cynnal neu fabwysiadu dulliau amaethyddol penodol yn debygol o hwyluso cadwraeth, gwella neu warchodaeth o'r fath.[76] Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn rhoi dynodiad ESA.

5.85 Pan fo ardal wedi ei dynodi'n ESA, caiff Gweinidogion Cymru ymrwymo i gytundebau rheoli tir amgylcheddol gydag unrhyw berson sydd â buddiant mewn tir amaethyddol sydd o fewn yr ESA dynodedig.

5.86 Rydym wedi nodi deg gorchymyn sydd wedi cael eu cyhoeddi o dan adran 18 sy'n dynodi ardaloedd yng Nghymru yn ESA.[77] Nid ydym wedi nodi bod unrhyw un o'r deg gorchymyn hynny wedi cael eu dirymu. Fodd bynnag, mae Gorchymyn Gorchmynion Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Cymru) (Diwygio) 1999 ("Gorchymyn 1999") yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol:

---

74 Deddf Amaethyddiaeth a Chymunedau Gwledig (Yr Alban) 2024 (dsc 11), adran 34(1). Gweler hefyd y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Amaethyddiaeth a Chymunedau Gwledig (Yr Alban) 2024 (dsc 11), t 25.

75 Fodd bynnag, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud gorchymyn dynodi.

76 Deddf Amaethyddiaeth 1986, adran 18(1).

77 Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Mynyddoedd Cambria) 1986, OS 1986/2257; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Mynyddoedd Cambria - Estyniad) 1987, OS 1987/2026; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Penrhyn Llŷn) 1987, OS 1987/2027; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Cymru) (Darpariaethau Iaith Gymraeg) 1990, OS 1990/1693; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Maesyfed) 1993, OS 1993/1211; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Ynys Môn) 1993, OS 1993/1210; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Bryniau Clwyd) 1994 OS 1994/238; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Preseli) 1994, OS 1994/239; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Maesyfed) (Darpariaethau Iaith Gymraeg) 1994, OS 1994/1989; Gorchymyn Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Ynys Môn) (Darpariaethau Iaith Gymraeg) 1994, OS 1994/1990.

peidio ag ymrwymo i gytundeb gydag unrhyw berson [mewn perthynas ag ESA dynodedig a bennir yng ngorchymyn 1999] oni fydd cais i ymrwymo i'r cytundeb yn dod i law'r Ysgrifennydd Gwladol cyn 11 Mai 1999.[78]

Mae Gorchymyn 1999, a'r cyfyngiad a nodir uchod, yn gymwys i chwech o'r gorchmynion a wnaed o dan adran 18 sy'n dynodi ardaloedd yng Nghymru yn ESAs.[79]

5.87 Yr unig ffordd y gall dynodiad ESA gael effaith ymarferol yw drwy gytundeb rheoli tir er lles yr amgylchedd, fel y disgrifir ym mharagraff 5.85 uchod. Nid yw Deddf Amaethyddiaeth 1986 yn gosod unrhyw derfynau penodol ar y cyfnod y gellir ymrwymo i gytundeb rheoli tir er lles yr amgylchedd. Fodd bynnag, yn *Agricultural Law*, mae'r Athro Christopher Rodgers yn adrodd bod cytundebau rheoli tir er lles yr amgylchedd wedi'u gwneud am gyfnodau o ddeng mlynedd ac o ganlyniad bydd y "rhan fwyaf o gytundebau rheoli tir er lles yr amgylchedd a wnaed o dan y rhaglen ESA yn awr wedi'u disbyddu"[80].

5.88 Yn ystod ein hymchwil a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, ni wnaethom nodi unrhyw ddynodiadau ESA presennol sy'n parhau i fod ar waith yn ymarferol yng Nghymru. Rydym hefyd yn rhagweld y gallai'r drefn ESA fod wedi cael ei disodli gan gynlluniau polisi newydd sy'n talu ffermwyr yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau a nwyddau amgylcheddol.[81] Mae enghreifftiau'n cynnwys cynllun Glastir, a'r Cynllun Cynefin Cymru interim, a bydd y ddau gynllun yn cael eu disodli gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026.[82]

5.89 Roedd y cynllun dynodi ESA o dan adran 18 Deddf 1986 yn gweithredu Rheoliad gan y Cyngor (CEE) Rhif 797/85 a oedd yn awdurdodi aelod-wladwriaethau i "gyflwyno cynlluniau cenedlaethol arbennig mewn ardaloedd amgylcheddol sensitif".[83] Roedd erthygl 19 Rheoliad gan y Cyngor (CEE) Rhif 797/85 yn caniatáu i aelod-wladwriaethau roi cymorth i ffermwyr a ymgymerodd i "ffermio ardaloedd amgylcheddol bwysig er mwyn gwarchod neu wella eu hamgylchedd".[84] Mae Rheoliad gan y Cyngor (CEE) Rhif 797/85 wedi'i ddiddymu ers hynny.[85]

---

78 OS 1999/1175, erth 2.

79 Fodd bynnag, nid yw'r rhestr o chwe gorchymyn y mae Gorchymyn Gorchmynion Dynodi Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (Cymru) (Diwygio) 1999, OS 1999/1175 yn gymwys iddynt, yn cyd-fynd yn union â'r rhestr o chwe gorchymyn y cofnodwyd ar y cronfeydd data cyfreithiol perthnasol eu bod mewn grym.

80 C Rodgers, *Agricultural Law (*4ydd argraffiad 2016) paragraffau 13.77 a 13.106.

81 Dywed adroddiad a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Mynyddoedd Cambria yn 2008 fod y cynllun ardal amgylcheddol sensitif ar gyfer Mynyddoedd Cambria, bryd hynny, yn cael ei "ddirwyn i ben yn raddol". Cymdeithas Mynyddoedd Cambria*, Cambrian Mountains - The Heart of Wales Developing a Strategy for a Sustainable Future* (2008), https://cambrian-mountains.co.uk/wp-content/uploads/2014/01/cambrian-mountains-sustainable-future.pdf.

82 Daethpwyd i gasgliad tebyg yn *Agricultural Law* C Rogers (4ydd argraffiad 2016) sy'n adrodd bod y drefn ESA yn Lloegr wedi'i disodli gan y Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol. Tir Gofal oedd yr hyn a oedd yn cyfateb yng Nghymru i'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol, a gafodd ei ddisodli yn 2011 gan Glastir.

83 L Petetin and M Dobbs, *Brexit and Agriculture* (argraffiad 1af 2022) t 9.

84 Rheoliad Cyngor y DU (CEE) Rhif 797/85 ar wella effeithlonrwydd strwythurau amaethyddol, erth 19(3).

85 Mae Rheoliad Cyngor y DU (CEE) Rhif 2328/91 ar wella effeithlonrwydd strwythurau amaethyddol wedi diddymu Rheoliad gan y Cyngor (CEE) Rhif 797/85 ar wella effeithlonrwydd strwythurau amaethyddol.

5.90 Yn unol â hynny, gall adran 18 Deddf 1986 fod yn barod i'w diddymu.[86] Fodd bynnag, er cyflawnder, rydym o'r farn y byddai'n ddoeth ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid i sicrhau nad oes cytundebau ar waith yng Nghymru y gellid effeithio arnynt.

### Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

5.91 Mae Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 ("Mesur 2010") yn darparu ar gyfer ardoll cig coch statudol, y defnyddir yr arian ohoni i gefnogi a hyrwyddo'r sector cig coch yng Nghymru. Mae'r ardoll cig coch yn daladwy gan gynhyrchwyr (ffermwyr) a phroseswyr (fel lladd-dai a ffatrïoedd prosesu) cig coch yng Nghymru. Hybu Cig Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r arian a godir drwy'r ardoll.

5.92 Gellir defnyddio'r ardoll cig coch i hyrwyddo amcanion y Mesur 2010, i gyflawni swyddogaethau sy'n berthnasol i'r diwydiant cig coch neu i ddarparu gwasanaethau i'r diwydiant. Amcanion Mesur 2010 yw:

(1) cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch;

(2) gwella marchnata yn y diwydiant;

(3) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y gallai eu darparu i'r gymuned; a

(4) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.[87]

5.93 Mae'r diwydiant cig coch at ddibenion y 2010 Mesur yn cynnwys bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch. Mae hefyd yn cynnwys cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n deillio'n sylweddol o'r anifeiliaid da byw hynny. Gellir defnyddio'r arian o'r ardoll cig coch ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys hyrwyddo allforio cynhyrchion cig coch, hyrwyddo neu farchnata cynhyrchion o'r fath, cynnal ymchwil sy'n berthnasol i'r diwydiant cig coch a hyrwyddo mesurau i sicrhau gwell amodau gwaith.

5.94 Fel y nodir ym Mhennod 3, rydym wedi defnyddio'r diffiniad o "amaethyddiaeth" yn adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 fel ein harweiniad i ystyr amaethyddiaeth yng Nghymru. Nid yw'r diffiniad o "amaethyddiaeth" o dan yr adran honno, yn ôl ein darlleniad ni, yn cynnwys camau'r gadwyn gyflenwi amaethyddol sy'n digwydd ar ôl y fferm megis lladd da byw neu brosesu cig coch. Ym Mhennod 10, rydym yn nodi, er mwyn gosod paramedrau realistig ar gwmpas ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn, nad ydym yn ceisio penderfynu a yw'r cyfreithiau sy'n berthnasol ar ôl y fferm i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ehangach yn perthyn i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

5.95 Disgrifiwyd pwrpas Mesur 2010 fel "gwneud darpariaeth statudol, drwy fframwaith deddfwriaethol ar gyfer datblygu a hyrwyddo diwydiant cig coch Cymru".[88] Fel y

---

[86] Yn hynny o beth, rydym yn nodi bod adran 18 Deddf Amaethyddiaeth 1986 wedi cael ei diddymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r Alban ar y sail bod y ddarpariaeth wedi'i disbyddu. Gweler Deddf Amaethyddiaeth a Chymunedau Gwledig (Yr Alban) 2024 (dsc 11), adran 34 a'r Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf honno.

[87] Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (dccc 3), adran 2.

[88] Memorandwm Esboniadol i Fesur Arfaethedig y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (dccc 3), t 3.

cadarnhawyd gan adran 1 Mesur 2010, mae'r diwydiant cig coch yn cynnwys y ffermydd hynny sy'n cynhyrchu cynnyrch cig coch. Yn yr ystyr hwnnw, credwn fod Mesur 2010 yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae cymhwyso Mesur 2010 hefyd yn ymestyn i gamau diweddarach y gadwyn gyflenwi cig coch gan gynnwys y diwydiannau hynny sy'n ymwneud â lladd, prosesu, dosbarthu, marchnata ac adwerthu. Er enghraifft, mae lladd-dai a phroseswyr cig coch yn atebol i dalu, a byddant yn elwa, o'r ardoll cig coch. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd dod i'r casgliad bod gan Fesur 2010 gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

5.96 Felly, rydym o'r farn mai dim ond yn rhannol y mae Mesur 2010 yn bodloni ein meini prawf ar gyfer cael ei gynnwys yn y darpar God. Er gwaethaf ein casgliad, mae'n anodd dychmygu cod cyfraith Gymru ar bwnc datganoledig gwahanol a fyddai'n fwy addas i gwmpasu Mesur 2010.

5.97 At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â chynrychiolwyr y sector amaethyddol yng Nghymru. O ganlyniad, nid ydym wedi holi yn gynhwysfawr am farn sefydliadau sy'n cynrychioli'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ehangach ynghylch a yw Mesur 2010 yn addas i'w gynnwys yn y darpar God. Yng ngoleuni'r ffaith honno, ac oherwydd mai dim ond yn rhannol y mae Mesur 2010 yn bodloni ein meini prawf cynnwys, awgrymwn yn betrus y gallai fod yn addas i'w gynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Gallai ymgysylltu ychwanegol ar draws y gadwyn gyflenwi cig coch fod o gymorth i lywio unrhyw benderfyniad terfynol ar y pwynt hwnnw.

5.98 Os daw Mesur 2010 o fewn cwmpas y darpar God, yna awgrymwn y byddai'n bwysig ystyried yn ofalus sut y cymhwysir yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy i Fesur 2010. O ran ein darlleniad, mae'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy o dan Ddeddf 2023 a'r amcanion y darperir ar eu cyfer o dan Fesur 2010 yn ategu yn hytrach na gwrthdaro â'i gilydd. Serch hynny, credwn y byddai'r rhyngweithio rhwng y ddwy set hynny o amcanion yn elwa o ystyriaeth bellach pe bai Mesur 2010 yn cael ei gynnwys yn y darpar God.

### Deddfau Ychwanegol sy'n rhoi swyddogaethau i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth

5.99 Rydym wedi nodi pedair Deddf ychwanegol sy'n cynnwys darpariaethau a allai fod yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae'r holl ddarpariaethau dan sylw yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio neu gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru. Felly, rydym o'r farn bod y darpariaethau a gyflwynir yn y tabl isod, mewn egwyddor, yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys. Nid ydym yn glir, fodd bynnag, a ddibynnir ar y pwerau yn ymarferol yn y presennol, neu a yw'r pwerau'n debygol o gael eu harfer yn y dyfodol. Os nad ystyrir bod y darpariaethau o werth ymarferol nac o ddefnydd ymarferol mwyach, yna gallent fod yn addas i'w diddymu.

| DARPARIAETH | CRYNODEB O'R EFFAITH |
|---|---|
| **Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889** | Mae adran 2(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud, neu gynorthwyo i wneud, unrhyw ymholiadau, arbrofion ac ymchwil o'r fath a ymgymerir at y diben o hybu |

| | |
|---|---|
| | amaethyddiaeth. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gasglu, neu gynorthwyo i gasglu, unrhyw wybodaeth y maent yn credu ei bod yn addas at ddiben hybu amaethyddiaeth.[89] |
| **Deddf Amaethyddiaeth 1967** | Mae adrannau 26 i 28 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer grantiau neu fenthyciadau at ddibenion addasu ffiniau mewn perthynas â thir amaethyddol, neu gyfuno tir amaethyddol.[90] |
| **Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976** | Mae adran 4 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru dalu grantiau i unrhyw gorff sy'n dylunio, yn llunio, yn hyrwyddo, yn cydlynu neu'n darparu profion hyfedredd mewn amaethyddiaeth sy'n gysylltiedig â chrefftau.[91] |
| **Deddf Tir Fferm a Datblygu Gwledig 1988** | Deddf fer yw Deddf Tir Fferm a Datblygu Gwledig 1988 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynlluniau grant tuag at wariant sydd wedi'i ysgwyddo neu sydd i'w ysgwyddo mewn cysylltiad â sefydlu, ehangu neu hyrwyddo a marchnata busnes fferm. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynlluniau grantiau tuag at wariant a ysgwyddir at ddibenion newid tir o ddefnydd amaethyddol i ddefnydd ar gyfer coetiroedd, neu mewn cysylltiad â hynny.[92] Nodwn fod y Ddeddf wedi cael ei diddymu'n rhannol i'r graddau y mae'n berthnasol i'r Alban.[93] |

89 Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889, adran 2(3). Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan adran 2(3) Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 OS 1978/272, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 OS 2000/253 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

90 Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan adrannau 82 a 90 Deddf Amaethyddiaeth 1947, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) 1969, OS 1969/388, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

91 Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan adran 4 Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

92 Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan Ddeddf Ffermydd a Datblygiad Gwledig 1988, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

93 Deddf Amaethyddiaeth a Chymunedau Gwledig (Yr Alban) 2024, adran 34 ac Atodlen 2.

## CYFREITHIAU SY'N ANADDAS I'W CYNNWYS YN Y DARPAR GOD

5.100 Rydym o'r farn bod y cyfreithiau a restrir isod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

(1) Deddf Credydau Amaethyddol 1928

(2) Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948

(3) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1949

(4) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954

(5) Deddf Amaethyddiaeth 1957

(6) Deddf Amaethyddiaeth 1958

(7) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1963

(8) Deddf Amaethyddiaeth 1993

Rydym yn cyflwyno ein rhesymeg dros ddod i'r casgliad bod chwech o'r Deddfau uchod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae ein rhesymeg dros ddod i'r casgliad bod Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948 a Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954 yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God yn haeddu esboniad manylach, fel y nodir isod.

### Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948

5.101 Mae Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948 ("Deddf 1948") wedi cael ei diddymu'n sylweddol. Ar adeg ei deddfu, roedd Deddf 1948 yn darparu ar gyfer sefydlu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol: corff statudol annibynnol â dyletswydd i bennu'r isafswm cyflog amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Roedd gan y Bwrdd hefyd bwerau disgresiwn i ragnodi telerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

5.102 Diddymwyd y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn 2013 gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.[94] Yn fuan ar ôl hynny, deddfodd y Senedd Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 a sefydlodd y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth: corff sy'n gyfrifol am bennu'r isafswm cyflog amaethyddol yng Nghymru (gweler paragraff 5.39 uchod). Trafodir ymhellach ddarpariaethau Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948 sy'n gymwys i Gymru ac sy'n parhau mewn grym isod.

5.103 Mae adran 2 Deddf 1948 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu pwyllgor cyflogau amaethyddol ar gyfer pob sir yng Nghymru neu un pwyllgor ar gyfer Cymru gyfan.[95] Mae Gorchymyn Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007, fel y'i

---

94 Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, adran 72 ac Atodlen 20.

95 Mae'r swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948 wedi'u trosglwyddo, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

deddfwyd o dan adran 2, yn diwygio Gorchymyn Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (Ardaloedd) 1974 i ddarparu ar gyfer sefydlu Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol Cymru.[96]

5.104 Mae adrannau 6 i 8 Deddf 1948 yn darparu ar gyfer swyddogaethau pwyllgorau cyflogau amaethyddol a sefydlwyd drwy orchymyn o dan y Ddeddf honno. Er enghraifft, mae gan Bwyllgor Cyflogau Amaethyddol Cymru bwerau i gyhoeddi tystysgrifau sy'n caniatáu i gyflogwyr amaethyddol dalu isafswm cyflog amaethyddol is i ddysgwyr sy'n cael hyfforddiant.

5.105 Mae gan gadeirydd Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol Cymru bwerau hefyd i benodi aelodau pwyllgor anheddau amaethyddol ar gyfer ardal yng Nghymru.[97] Mae pwyllgor anheddau amaethyddol yn bwyllgor a sefydlwyd o dan Ddeddf Rhentu (Amaethyddiaeth) 1976. O dan y Ddeddf honno, efallai y bydd gan rai gweithwyr amaethyddol y darparwyd llety iddynt fel un o amodau eu cyflogaeth hawl i aros yn y llety hwnnw ar ôl ymddeol. Cyfeirir yn aml at lety a ddarperir fel amod cyflogaeth i weithiwr amaethyddol fel llety clwm.

5.106 Dim ond mewn amgylchiadau penodol y mae'r hawl i aros mewn llety clwm, fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Rhentu (Amaethyddiaeth) 1976, yn berthnasol. Er enghraifft, dim ond pan fydd gweithiwr amaethyddol wedi cael caniatâd neilltuol i fyw yn y llety clwm, cyn 1 Ionawr 1989, y defnyddir yr hawl. Os yw'r hawl i aros mewn llety clwm wedi'i ddefnyddio, gall ffermwr, serch hynny, wneud cais i'r awdurdod tai lleol i weithiwr amaethyddol gael ei ailgartrefu os oes angen y llety ar gyfer gweithiwr amaethyddol arall.[98] Swyddogaeth pwyllgor tŷ annedd amaethyddol yw rhoi cyngor i'r awdurdod tai lleol ar unrhyw gais o'r fath i ailgartrefu gweithiwr amaethyddol gwarchodedig.

5.107 Nid ydym yn glir a oes pwyllgor tŷ annedd amaethyddol wedi cael ei benodi yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i roi cyngor i awdurdod tai lleol. Nid yw pwyllgorau anheddau amaethyddol bellach yn weithredol yn Lloegr.[99]

5.108 Yn 2013, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru adroddiad statudol yn cadarnhau, bryd hynny, nad oedd dim penodiadau wedi'u gwneud ar gyfer aelodau o Bwyllgor Cyflogau Amaethyddol Cymru ers ei sefydlu yn 2007.[100] Nid ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n cadarnhau a oes penodiadau o'r fath wedi cael eu gwneud ers 2013.

5.109 Rydym felly o'r farn y byddai datblygu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gyfle i archwilio dyfodol Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol Cymru ac a yw'r

---

96 Gorchymyn Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007, OS 2007/395 (Cy 41); Gorchymyn Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (Ardaloedd) 1974, OS 1974/515.

97 Deddf Rhentu (Amaethyddiaeth) 1976, adran 29(3).

98 Deddf Rhentu (Amaethyddiaeth) 1976, adran 27.

99 Pwyllgorau Ymgynghorol Tai Annedd Amaethyddol, “About us” https://www.gov.uk/government/organisations/agricultural-dwelling-house-advisory-committees-x16/about.

100 Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Report on Wages in Agriculture* (Hydref 2013) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7db6f1ed915d2acb6edb4b/44656-report-wages-agricuture-2013.pdf.

darpariaethau yn Neddf 1948 sy'n ymwneud â'r pwyllgor hwnnw yn addas i'w diddymu. Yn hynny o beth, nodwn fod gan Weinidogion Cymru bwerau presennol i ddiddymu Pwyllgor Cymru Amaethyddol ac unrhyw bwyllgorau tai annedd amaethyddol fel y'u sefydlwyd yng Nghymru neu ardal benodol yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau penodedig cyn arfer eu pwerau i ddiddymu'r pwyllgorau hynny drwy orchymyn.[101]

### Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954

5.110 Mae Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Fel yr amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno deddfwriaeth i sefydlu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Mae'r papur gwyn perthnasol yn cynnig y byddai gwaith TTA Cymru yn dod o fewn cylch gwaith Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. O ganlyniad, rydym o'r farn dros dro nad oes angen cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau TTA Cymru yn y darpar God.

5.111 Yn ogystal, mae adran 9 Deddf 1954 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gasglu gwastraff cegin neu wastraff arall i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a ffermir. Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyhoeddi gwybodaeth am sut mae gwastraff bwyd a gesglir yn cael ei brosesu a'i ddefnyddio. Er enghraifft, defnyddir gwastraff bwyd a gesglir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gynhyrchu trydan ac ymhellach i gynhyrchu gwrtaith.[102] Nid ydym wedi nodi unrhyw enghreifftiau o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ail-bwrpasu gwastraff fel bwyd anifeiliaid. Beth bynnag, ers deddfu Deddf 1954, mae corff helaeth o ddeddfwriaeth wedi datblygu sy'n gosod rheolaethau ar gyfansoddiad bwyd anifeiliaid er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd (fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 10).

5.112 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod Deddf 1954 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Gall adran 9 Deddf 1954 hefyd fod yn addas i'w diddymu os nad yw'r pŵer bellach yn cael ei arfer yn ymarferol gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

## MATERION I'W HYSTYRIED NEU EU DADANSODDI YMHELLACH

5.113 Mae ein cylch gorchwyl yn gofyn i ni dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru a allai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach. Yn yr adran hon rydym yn nodi enghreifftiau o faterion o'r fath y gellir eu cynnwys drwy ddod â'r cyfreithiau sy'n cael eu harchwilio yn y bennod hon o fewn y darpar God.

### Diffiniadau o amaethyddiaeth

5.114 Fel y nodwyd ym Mhennod 4, mae toreth o ddiffiniadau statudol o'r term “amaethyddiaeth” fel y darperir ar eu cyfer mewn cyfreithiau amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried a yw sefydlu'r darpar

[101] Deddf Corff Cyhoeddus 2011, adran 18.

[102] Cyngor Sir Caerfyrddin, “Cwestiynau Cyffredin - Ailgylchu a gwastraff “ (diweddarwyd yn 2024) https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/ailgylchu-biniau-a-sbwriel/cwestiynau-cyffredin-ailgylchu-a-gwastraff/.

god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gyfle i foderneiddio neu symleiddio'r diffiniadau statudol hynny.[103]

5.115 Yn y Deddfau rydym yn nodi yn y bennod hon eu bod yn addas, neu o bosibl yn addas, i'w cynnwys yn y darpar God, mae chwe diffiniad statudol gwahanol o “amaethyddiaeth”.

(1) Y diffiniad a ddarperir o dan adran 12 Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889.

(2) Y diffiniad a ddarperir o dan adran 109(3) Deddf Amaethyddiaeth 1947. Mae Deddf Amaethyddiaeth 1967 a Deddf Amaethyddiaeth 1986 (fel y'u hystyrir yn y bennod hon) hefyd yn cymhwyso'r diffiniad o “amaethyddiaeth” fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 1947.[104] Mae deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol fel y'i hystyrir ym Mhennod 9 hefyd yn cymhwyso diffiniad Deddf 1947[105], yn yr un modd â llu o ddarpariaethau statudol eraill sydd wedi'u cynnwys mewn Deddfau gwahanol.[106]

(3) Y diffiniad a ddarperir o dan adran 4 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976.[107]

(4) Y diffiniad a ddarperir o dan adran 6 Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979. Mae diffiniad Deddf 1979 o “amaethyddiaeth” yn cymhwyso'r diffiniad y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 1947, ac eithrio bod 1979 yn diffinio “da byw” mewn termau gwahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn Neddf 1947.

(5) Y diffiniad a ddarperir o dan adran 18 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

(6) Y diffiniad a ddarperir o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Rhestrir pob un o'r diffiniadau statudol uchod mewn tabl yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

5.116 Mae'r diffiniadau statudol uchod i gyd yn effeithio ar gwmpas hawliau, pwerau neu rwymedigaethau cyfreithiol penodol sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol.[108] Er enghraifft, mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn pennu, ymysg materion eraill, cwmpas pwerau Gweinidogion Cymru

---

103 Ym Mhennod 4, rydym hefyd yn ystyried gwahanol ystyron a diffiniadau'r term “amaethyddiaeth” yng nghyd-destun nodi paramedrau ein hadolygiad o ddeddfwriaeth amaethyddol at ddibenion yr adroddiad hwn.

104 Mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 109(3) Deddf Amaethyddiaeth 1947 hefyd yn cael ei gymhwyso at ddibenion adran 152(5) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Ym Mhennod 6, rydym yn nodi bod adran 152 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

105 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986; Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1985.

106 Gweler y tabl diffiniadau a gyflwynir yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

107 Mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” o dan adran 4(5) Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gymwys i adran 4 y Ddeddf honno yn unig.

108 Mae'r tabl a gyflwynir yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn yn darparu rhestr anghyflawn o hawliau a rhwymedigaethau sy'n seiliedig ar y gwahanol ddiffiniadau statudol o amaethyddiaeth.

i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru.[109]

5.117 Mae'r diffiniadau statudol o "amaethyddiaeth" fel y'u rhestrir ym mharagraff 5.115 wedi'u cynnwys mewn cyfreithiau sydd, gyda'i gilydd, wedi cael eu deddfu dros gyfnod o fwy na 100 mlynedd. Nid yw'n syndod felly bod "amaethyddiaeth" yn cael ei diffinio mewn termau gwahanol a bod y diffiniadau statudol, mewn rhai achosion, yn defnyddio iaith hen ffasiwn. Fel cymhariaeth, nodir bod y diffiniad o "amaethyddiaeth" o dan Ddeddf 2023 yn cwmpasu gweithgareddau ffermio modern a thraddodiadol a gyflawnir yng Nghymru.[110]

5.118 Mae'r gwahanol ddiffiniadau o "amaethyddiaeth" yn codi cyfres o gwestiynau cysylltiedig i'w hystyried yng nghyd-destun sefydlu'r darpar God.

(1) A ellid gwella hygyrchedd cyfraith amaethyddol drwy symleiddio a disodli diffiniadau statudol gwahanol o "amaethyddiaeth" â diffiniad wedi'i foderneiddio, fel yr hyn y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf 2023?

(2) A fyddai disodli a symleiddio'r diffiniadau statudol presennol o "amaethyddiaeth" gyda diffiniad modern yn newid effaith y gyfraith, er enghraifft, drwy newid cwmpas hawliau, pwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol?

(3) I'r graddau y byddai newid y diffiniad o "amaethyddiaeth" yn newid effaith y gyfraith, a fyddai'n ddymunol cadw gwahanol ddiffiniadau statudol o safbwynt polisi?

(4) Os oes rhesymau polisi cadarn dros gadw gwahanol ddiffiniadau statudol o "amaethyddiaeth", a ellid moderneiddio neu gysoni'r iaith a ddefnyddir ar draws y gwahanol ddiffiniadau hynny i wella hygyrchedd cyfraith amaethyddol?

### Eithriad ar gyfer y diffiniad o amaethyddiaeth o dan Ddeddf 1947

5.119 Rydym yn ystyried y cwestiynau a amlinellir ym mharagraff 5.118 uchod, yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth a ystyrir yn y bennod hon yn unig, yn amodol ar un eithriad pwysig. Nid ydym yn ystyried a ellid disodli'r diffiniad statudol o "amaethyddiaeth" fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, neu a ddylid ei ddisodli, gan ddiffiniad wedi'i foderneiddio at bob diben. Y rheswm am hyn yw bod diffiniad Deddf 1947 o "amaethyddiaeth" yn berthnasol i ddeddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol, a bu galwadau ers tro am adolygiad sylweddol o'r drefn gyfreithiol ar gyfer tenantiaethau amaethyddol.[111]

5.120 Ym mis Medi 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i ddechrau prosiect i adolygu'r gyfraith sy'n rheoli tenantiaethau amaethyddol. Mae ein hadroddiad ar ein 14eg rhaglen waith yn rhoi rhagor o gyd-destun:

---

109 Deddf Amaethyddiaeth (2023 (dsc 4), adran 8.

110 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru), https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-08/agriculture-wales-act-2023-explanatory-memorandum.pdf, t 11.

111 Gweler yr enghreifftiau a nodwyd ym Mhennod 9 yr adroddiad hwn ym mharagraffau 9.83 i 9.88.

Bydd y prosiect hwn yn ystyried a yw'r gyfraith bresennol yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng rhoi sicrwydd digonol i ffermwyr sy'n denantiaid i annog buddsoddiad a chynnal busnesau fferm hyfyw, cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid gael mynediad at gyfleoedd ffermio, a buddiannau a hyder landlordiaid i osod tir. Bydd y prosiect hwn hefyd yn ystyried a yw'r gyfraith yn rhwystro ffermwyr sy'n denantiaid rhag arallgyfeirio eu busnesau, gan gynnwys ffermio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy; a yw'r gyfraith yn cefnogi dull cydweithredol rhwng landlordiaid a thenantiaid; ac a oes materion technegol sy'n achosi problemau'n ymarferol. Mae'n hen bryd ystyried diwygio'r gyfraith yn fanwl yn y maes pwysig hwn.[112]

5.121 Gan nad yw amaethyddiaeth yn fater a gedwir yn ôl, gallai'r prosiect gynnwys ystyriaeth o'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hwn yn fater y bydd angen ei drafod maes o law gyda Llywodraeth Cymru.[113] Ym Mhennod 9, rydym yn dod i'r casgliad bod deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol, mewn egwyddor, yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, rydym hefyd yn awgrymu, ym Mhennod 9, y dylid ystyried ei chynnwys mewn unrhyw god o'r fath ar ôl unrhyw ddiwygiad sylweddol arfaethedig i'r maes cyfreithiol. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn ystyried yn yr adroddiad hwn unrhyw ddiwygiadau i ddarpariaethau Deddf 1947 i'r graddau y maent yn rhan o'r gyfraith sy'n llywodraethu tenantiaethau amaethyddol. Rydym wedi mabwysiadu'r safbwynt hwn er mwyn osgoi (o bosibl) rhagdybio canlyniad ein hadolygiad manwl a gadarnhawyd o gyfraith tenantiaethau amaethyddol.

5.122 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle mae cyfreithiau amaethyddol nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phrydlesu tir amaethyddol yn cymhwyso'r diffiniad o "amaethyddiaeth" fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 109(3) Deddf Amaethyddiaeth 1947. Mae Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 yn datgan bod i "amaethyddiaeth" yr ystyr y darperir ar ei gyfer o dan adran 109(3) Deddf 1947.[114] Nid yw Deddf 1979 yn ymwneud â rheoleiddio tenantiaethau amaethyddol. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chasglu gwybodaeth at ddibenion llunio ystadegau amaethyddol.

5.123 Er enghraifft, os yw Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 wedi ei chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, yna gellid cymhwyso diffiniad newydd neu ddiwygiedig o "amaethyddiaeth" (mewn theori) i'r darpariaethau ailddatganedig o Ddeddf 1979 heb ddiwygio'r diffiniad fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf 1947 (i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw'n gymwys i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol). Yn hytrach na chroesgyfeirio at ddiffiniad Deddf 1947, gallai Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God ddarparu ar gyfer ei diffiniad ei hun o "amaethyddiaeth" sy'n berthnasol i unrhyw ddarpariaethau a ailddatganwyd o Ddeddf Ystadegau Amaethyddol 1979. Yn unol â hynny, rydym yn ystyried isod y diffiniadau statudol hynny sy'n defnyddio'r diffiniad o "amaethyddiaeth" fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 1947, ond sydd wedi'u cynnwys mewn cyfreithiau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phrydlesu tir amaethyddol nac yn rheoleiddio hynny.

---

112 Y Pedwerydd ar Ddeg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (2025) Comisiwn y Gyfraith Rhif 421, t 13.

113 I gael rhagor o drafodaeth am ein prosiect ar denantiaethau amaethyddol, gweler Pennod 9, paragraff 9.87.

114 Ac eithrio i'r graddau y mae Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979 yn darparu ar gyfer diffiniad gwahanol o dda byw i'r un y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947.

### A ellid gwella hygyrchedd cyfraith amaethyddol drwy symleiddio, gan ddisodli'r diffiniad statudol hŷn â diffiniad modern o amaethyddiaeth?

5.124 Mae'n bosibl i Ddeddf gynnwys diffiniadau gwahanol o'r un term, y mae pob un ohonynt yn gymwys i ddarpariaethau gwahanol. Er enghraifft, mae Deddf Priffyrdd 1980 yn darparu ar gyfer dau ddiffiniad gwahanol o "amaethyddiaeth", a'r naill a'r llall yn berthnasol i wahanol setiau o ddarpariaethau yn y Ddeddf. Gallai Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru - mewn egwyddor - ailddatgan y gwahanol ddiffiniadau statudol cynhwysol a chynhwysfawr o "amaethyddiaeth" fel y'u cynhwysir mewn deddfwriaeth amaethyddol bresennol.

5.125 Fodd bynnag, rydym wedi clywed gan randdeiliaid bod y diffiniadau amrywiol o "amaethyddiaeth" yn gallu creu dryswch ynghylch cwmpas rhai cyfreithiau amaethyddol.[115] Mae dadl y Senedd ar y diffiniad o "amaethyddiaeth" ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) (bryd hynny) yn dangos ymhellach y gall defnyddio gwahanol fynegiannau ar draws gwahanol ddiffiniadau statudol o "amaethyddiaeth" greu ansicrwydd ynghylch cwmpas y gyfraith. Er enghraifft, yn ystod y ddadl berthnasol gofynnwyd i Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig Cymru (ar y pryd), gadarnhau a oedd mynegiannau fel "tir helyg" a "gerddi marchnad" - fel y'u defnyddir mewn diffiniadau statudol hŷn o "amaethyddiaeth" - yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad newydd a gynigir yn y Bil.[116]

5.126 Felly, rydym o'r farn y gallai gwaith i symleiddio, neu foderneiddio fel arall, y gwahanol ddiffiniadau o "amaethyddiaeth" - mewn egwyddor - wella hygyrchedd cyfraith amaethyddol. Ond, fel rydym yn ei ystyried isod, gall newidiadau i ddiffiniadau statudol o "amaethyddiaeth" effeithio ar gwmpas hawliau, pwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol pwysig y darperir ar eu cyfer o dan ddeddfwriaeth amaethyddol.

### A fyddai disodli a symleiddio'r diffiniadau statudol presennol o "amaethyddiaeth" gyda diffiniad modern yn newid effaith y gyfraith?

5.127 Un gwahaniaeth sylfaenol rhwng y diffiniad o "amaethyddiaeth" y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 2023 a'r diffiniadau statudol eraill a restrir ym mharagraff 5.115 uchod yw bod diffiniad Deddf 2023 yn gynhwysfawr. Mae hyn yn golygu, at ddibenion Deddf 2023, mai dim ond y gweithgareddau a'r defnyddiau tir hynny a restrir yn adran 51(1) y mae "amaethyddiaeth" yn eu cwmpasu.

5.128 Mae'r diffiniadau statudol eraill o "amaethyddiaeth" a restrir ym mharagraff 5.115 uchod wedi'u mynegi mewn termau cynhwysol. Bydd diffiniadau cynhwysol o "amaethyddiaeth" yn cynnwys y gweithgareddau a'r defnyddiau tir a restrir yn y diffiniad statudol perthnasol ond gallant, mewn egwyddor, ymestyn i weithgareddau a defnyddiau tir eraill nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol.

5.129 Er gwaethaf yr uchod, mewn sawl achos, mae'r llysoedd wedi mabwysiadu'r hyn y gellir ei ystyried yn ddull cyfyngol o ddehongli diffiniadau cynhwysol o

---

115 Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth, "Cofnodion o'r cyfarfod: 18 Tachwedd 2024" (Awst 2025) https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-18-tachwedd-2024-html.

116 *Cofnod Trafodion y Senedd*, 16 Mai 2023, 423 i 429.

"amaethyddiaeth" mewn cyd-destunau statudol eraill. Fel yr eglurodd yr Athro Christopher Rodgers yng nghyd-destun deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol:

> Mae'r llysoedd wedi dehongli diffiniadau 'cynhwysol' o amaethyddiaeth mewn cyd-destunau statudol eraill, ac wedi dangos amharodrwydd amlwg i ehangu ei hystyr a'i chwmpas. Felly, er enghraifft, yn *Hemens v Whitsbury Farm a Stud Ltd*, dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi fod yn rhaid dehongli diffiniadau cynhwysol o amaethyddiaeth yn y cyd-destun amaethyddol y maent yn digwydd ynddo, a thrwy gyfeirio at y materion hynny y derbyniwyd yn benodol eu bod yn gymwys i gael eu hystyried fel "amaethyddiaeth" drwy gyfeirio at y diffiniad statudol.[117]

5.130 Yn yr un modd, yn *Belmont Farming*, penderfynodd y llys, yng nghyd-destun deddfwriaeth gynllunio, nad oedd y diffiniad cynhwysol o "amaethyddiaeth", a oedd yn cynnwys cadw a bridio da byw yn benodol, hefyd yn ymestyn i gadw a bridio ceffylau (ac eithrio eu defnyddio wrth ffermio'r tir). Wrth wneud hynny, gwrthododd y llys ddehongliad o'r term "da byw" drwy gyfeirio at ei ddiffiniad ehangach yn y geiriadur.[118]

5.131 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau lle mae'r llysoedd wedi canfod bod diffiniadau cynhwysol o "amaethyddiaeth" yn cynnwys gweithgareddau nad ydynt efallai mor amlwg yn cael eu hystyried yn rhan o ddealltwriaeth gyffredinol o'r term. Yn *Millington v Secretary for State*, penderfynodd y Llys Apêl fod gweithgarwch gwneud gwin ar fferm yn dod o fewn y diffiniad o amaethyddiaeth, at ddibenion deddfwriaeth gynllunio, mewn amgylchiadau lle'r oedd y grawnwin a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r gwin yn cael eu tyfu ar y fferm.[119]

5.132 Beth bynnag, mae'r diffiniad yn adran 51 Deddf 2023, er ei fod yn gynhwysfawr, wedi'i fframio'n eang: mae'n diffinio "amaethyddiaeth" drwy gyfeirio at restr gynhwysfawr o weithgareddau amaethyddol a defnydd tir. Ar ben hynny, fel yr amlinellir ym mharagraff 5.117 uchod, bwriedir i "amaethyddiaeth" at ddibenion Deddf 2023 gwmpasu arferion ffermio modern a thraddodiadol yng Nghymru. Felly, gall y cwmpas i ddiffiniadau statudol cynhwysol o "amaethyddiaeth" gynnwys gweithgareddau neu ddefnyddiau tir sydd y tu allan i'r diffiniad cynhwysfawr o "amaethyddiaeth" o dan Ddeddf 2023 fod yn fach iawn yn ymarferol.

5.133 Fodd bynnag, mae enghreifftiau lle mae rhai o'r diffiniadau statudol cynhwysol o "amaethyddiaeth" (fel y'u cyflwynir ym mharagraff 5.115 uchod) yn ymddangos yn ehangach - o leiaf mewn rhai ffyrdd - na'r diffiniad cynhwysfawr o dan Ddeddf 2023. Er enghraifft, mae'r diffiniad statudol o "amaethyddiaeth" o dan Ddeddf Ystadegau Amaethyddol 1979 yn cynnwys yn benodol '"defnyddio dolydd". Yn ystod hynt Bil Amaethyddiaeth (Cymru), eglurodd Gweinidog Materion Gwledig Cymru (ar y pryd) fod "defnyddio tir fel tir dolydd" o fewn y diffiniad o "weithgareddau ategol" fel y nodir

117 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 3.21.

118 *Belmont Farm v Minister of Housing and Local Government* (1962) 13 P & CR 417. Yn yr achos hwnnw, penderfynodd y llys nad oedd cadw a bridio ceffylau ar gyfer neidio mewn sioeau yn cael ei ystyried yn "amaethyddol".

119 *Millington v Secretary of State for Environment, Transport and the Regions* [1999] 3 PLR 118.

hynny o dan adran 52 Deddf 2023[120], yn hytrach nag o fewn y diffiniad o "amaethyddiaeth" o dan y Ddeddf honno.[121]

5.134 Ar y llaw arall, gellir ystyried bod "amaethyddiaeth" at ddibenion adran 51 Deddf 2023 yn ehangach - mewn rhai ffyrdd - na'r diffiniadau statudol cynhwysol a gyflwynir ym mharagraff 5.115. Er enghraifft, nid yw'r diffiniadau cynhwysol o "amaethyddiaeth" dan sylw yn cyfeirio'n benodol at weithgarwch "amaethyddiaeth amgylchedd a reolir" (fel y'i cynhwysir yn adran 51(1)(g) Deddf 2023).[122]

5.135 Er y gallai diffiniadau cynhwysol o amaethyddiaeth - mewn theori - gynnwys "amaethyddiaeth amgylchedd a reolir", nid yw wedi'i brofi eto a fyddai'r llysoedd yn dehongli'r diffiniadau hynny yn y modd hwnnw. Rydym hefyd yn nodi nad yw rhai o'r diffiniadau cynhwysol o "amaethyddiaeth" a restrir ym mharagraff 5.115 yn cyfeirio'n benodol at "ffermio cnydau âr" - gweithgaredd a restrir yn adran 51(1) Deddf 2023. Fodd bynnag, fel y mae eraill wedi awgrymu (o leiaf yng nghyd-destun diffiniadau statudol eraill), gellir ystyried ei bod yn amlwg y byddai diffiniad cynhwysol o "amaethyddiaeth" yn cael ei ddehongli i gwmpasu cynhyrchu cnydau âr.[123]

5.136 Yng ngoleuni'r uchod, ni allwn ddiystyru na fyddai disodli diffiniadau hŷn presennol â diffiniad mwy newydd - fel yr un y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 2023 - yn newid cwmpas diffiniad presennol o "amaethyddiaeth" ac o ganlyniad yn effeithio ar hawliau, pwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol pwysig presennol sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol. Heb ymgynghori, gall fod yn anodd rhagweld pa newidiadau allai ddeillio o newid i ddiffiniad statudol penodol o "amaethyddiaeth".

5.137 Yn gysylltiedig â hynny, rydym hefyd yn nodi y gellir cymhwyso a dibynnu ar ddiffiniad o "amaethyddiaeth" fel y darperir ar ei gyfer mewn un Ddeddf yng nghyd-destun Deddfau dilynol.[124] Felly, gallai newid y diffiniad statudol o "amaethyddiaeth" mewn un Ddeddf gael effeithiau canlyniadol ar ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n dibynnu ar y diffiniad hwnnw ac yn ei gymhwyso. Mae hyn yn golygu y gallai'r hawliau a'r rhwymedigaethau cyfreithiol y gallai gael eu heffeithio o ganlyniad i newid i ddiffiniad statudol o "amaethyddiaeth" fod yn eang.

### A oes rhesymau polisi dros gadw gwahanol ddiffiniadau o amaethyddiaeth?

5.138 Fel uchod, rydym yn dod i'r casgliad y gallai disodli diffiniadau hŷn â diffiniad Deddf 2023 newid cwmpas hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol pwysig sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol.

---

120 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 52.

121 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016).

122 Mae adran 51(2) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4) yn diffinio amaethyddiaeth amgylchedd a reolir fel "tyfu planhigion mewn ecosystem gaeedig sy'n caniatáu i amrywiolion amgylcheddol (gan gynnwys tymheredd, lleithder, golau a maethynnau) gael eu rheoli".

123 Yn C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 5.08, mae'n awgrymu y byddai'r gweithgaredd hwn yn amlwg o fewn cwmpas "amaethyddiaeth" at ddibenion deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol.

124 Bydd hyn yn wir pan geir cyfeiriadau mewn un darn o ddeddfwriaeth at ddiffiniad o "amaethyddiaeth" mewn un arall ac sy'n newidiol, ac sydd felly yn tracio unrhyw newidiadau a wneir wedyn i'r diffiniad hwnnw.

5.139 Bydd angen ystyried a yw'n ddymunol cadw diffiniadau cynhwysol hŷn a allai fod yn wahanol o ran sylwedd (o leiaf mewn rhai ffyrdd) i ddiffiniad wedi'i foderneiddio o “amaethyddiaeth”, fel yr hyn y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf 2023.

5.140 Nid yw ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys gwneud cynigion ar gyfer diwygio'r gyfraith a fyddai'n golygu newidiadau i bolisi amaethyddol. Serch hynny, rydym yn cydnabod y gall fod rhesymau polisi cadarn dros gadw gwahanol ddiffiniadau statudol o dermau allweddol yn y cyd-destun amaethyddol. Er enghraifft, mae'r term “da byw” yn cael ei ddiffinio'n gyffredin ar draws deddfwriaeth amaethyddol mewn termau a fyddai'n cynnwys dofednod.[125] Yng nghyd-destun Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024, sy'n gosod gwaharddiad ar allforio da byw i'w lladd, gwnaethpwyd penderfyniad polisi i eithrio dofednod o'r diffiniad o “da byw”. Fel yr esboniwyd gan y Gweinidog Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd (ar y pryd), Victoria Prentis AS, mae dofednod wedi'u heithrio o gwmpas y gwaharddiad ar y sail:

> nad oes unrhyw ddofednod yn cael eu hallforio i'w lladd neu eu pesgi o Brydain Fawr i'r UE. Mae allforion dofednod naill ai at ddibenion bridio neu ddibenion eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad, fel arddangos. Ni fu unrhyw fewnforion o'r fath ers sawl blwyddyn.[126]

Os oes rhesymau polisi dros gadw gwahanol ddiffiniadau statudol o “amaethyddiaeth”, a oes lle i wella hygyrchedd cyfraith amaethyddol drwy gysoni neu foderneiddio'r iaith a ddefnyddir yn y diffiniadau hynny?

5.141 Er gwaethaf y diffiniadau statudol amrywiol o “amaethyddiaeth”, mae rhai gweithgareddau a defnyddiau tir y cyfeirir atynt yn benodol yn y rhan fwyaf o ddiffiniadau statudol a restrir ym mharagraff 5.115 uchod. Er enghraifft, nodir bod y diffiniadau o “amaethyddiaeth” y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Ystadegau Amaethyddol 1979, Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 i gyd yn cynnwys:

(1) cadw a bridio da byw;[127]

(2) defnyddio tir fel tir pori;

(3) ffermio gwartheg godro; a

(4) garddwriaeth.

5.142 Mae rhai gweithgareddau neu ddefnyddiau tir hefyd sy'n cael eu cynnwys yn y diffiniad o “amaethyddiaeth” yn Neddf 2023, ond sy'n cael eu mynegi'n wahanol mewn diffiniadau statudol hŷn. Er enghraifft, mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” o dan Ddeddf Ystadegau Amaethyddol 1979 yn cynnwys yn benodol “defnyddio tir fel tir helyg”. Nid

---

[125] Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 109(3); Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979, adran 6(1); Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 51(2).

[126] *Hansard* (HC), 16 Tachwedd 2021, cyf 703, col 136.

[127] Fodd bynnag, mae'r term “da byw” yn cael ei ddiffinio'n wahanol ar draws y Deddfau hynny (gweler yr enghreifftiau a gyflwynir ym Mhennod 4).

yw “tir helyg” wedi'i ddiffinio yn Neddf 1979,[128] ond mae helyg fel arfer yn cael eu tyfu i'w defnyddio i wneud basgedi a chrefftau eraill. Yn ystod dadl yn y Senedd ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) (bryd hynny), dywedodd Gweinidog Materion Gwledig Cymru (ar y pryd) fod y term “defnyddio tir helyg” yn dod o dan weithgareddau eraill a restrir yn niffiniad adran 51, gan gynnwys:

(1) defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth; a

(2) tyfu planhigion fel arall i'w gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn”.[129]

5.143 Yn yr un modd, eglurodd Gweinidog Materion Gwledig Cymru (ar y pryd) mai bwriad diffiniad Deddf 2023 o “amaethyddiaeth” yw cynnwys defnyddio tir ar gyfer “gerddi marchnad”. Nid ydym wedi nodi diffiniad statudol o'r term “gardd farchnad” sy'n dal mewn grym.[130] Fodd bynnag, mae un diffiniad geiriadurol yn disgrifio gardd farchnad fel “fferm fach lle mae ffrwythau a llysiau'n cael eu tyfu i'w gwerthu i'r cyhoedd”.[131] O ganlyniad, mae'n ymddangos yn debygol y byddai “gerddi marchnad” yn dod o dan weithgareddau “garddwriaeth” a “thyfu planhigion ar gyfer eu gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn”: gweler adrannau 51(1)(a) ac (h) Deddf 2023.

5.144 Ar ben hynny, efallai y bydd achosion lle gellid gwneud cwmpas diffiniad statudol o “amaethyddiaeth” yn gliriach, er enghraifft, i adlewyrchu arferion sefydledig. Mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn pennu pa weithwyr sy'n cael eu dosbarthu fel gweithwyr amaethyddol sydd â hawl i'r isafswm cyflog amaethyddol. Mae tudalen we Llywodraeth Cymru ar yr isafswm cyflog amaethyddol yn egluro:

> mae gan bob gweithiwr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth cyflogedig yng Nghymru, gan gynnwys gweithwyr a gyflogir gan feistri gangiau ac asiantaethau cyflogi, hawl i'r Isafswm Cyflog Amaethyddol o leiaf.[132]

5.145 Rydym yn deall bod gweithwyr garddwriaethol wedi cael eu trin ers tro fel gweithwyr sydd â hawl i'r isafswm cyflog amaethyddol (gan gynnwys ar ei ffurf flaenorol). Er enghraifft, roedd gan weithwyr garddwriaethol hawl i'r isafswm cyflog amaethyddol pan ddarparwyd ar ei gyfer yn flaenorol o dan Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948.[133] Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad penodol at “garddwriaeth” yn y diffiniad cynhwysol o “amaethyddiaeth” o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Mae - i raddau -

---

128 Nid yw ychwaith wedi'i ddiffinio yn Neddf Amaethyddiaeth 1947, sef tarddiad y diffiniad o “amaethyddiaeth” fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 1979.

129 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adrannau 51(1)(f) ac (h).

130 Mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1923, adran 57 sydd bellach wedi'i diddymu, yn diffinio gardd farchnad fel “daliad wedi'i drin, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, at ddibenion masnach neu fusnes garddio marchnad”. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'r diffiniad hwn yn taflu rhagor o oleuni ar ystyr y term.

131 Mae Geiriadur Caergrawnt yn diffinio “gardd farchnad” fel “fferm fach lle mae ffrwythau a llysiau'n cael eu tyfu i'w gwerthu i'r cyhoedd”.

132 Llywodraeth Cymru, “Cyflogau amaethyddol: cyfraddau tâl isaf” (2025) https://www.llyw.cymru/cyflogau-amaethyddol-cyfraddau-tal-isaf.

133 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Consultation on the Future of the Agricultural Wages Board for England and Wales, and Agricultural Wages Committees and Agricultural Dwelling House Advisory Committees in England* (Hydref 2012).

yn dod o dan weithgareddau eraill a restrir yn niffiniad Deddf 2014, fel “cynhyrchu unrhyw gynnyrch traul at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw fenter arall”.[134] Serch hynny, rydym o'r farn y gellid gwneud y diffiniad cynhwysol presennol o “amaethyddiaeth” o dan Ddeddf 2014 yn gliriach. Er enghraifft, nodwn fod “garddwriaeth” wedi'i rhestru yn y diffiniad o “amaethyddiaeth” o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.[135]

5.146 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 5.138 uchod, rydym yn cydnabod y gall fod rhesymau polisi dilys dros gadw gwahanol ddiffiniadau statudol o'r term “amaethyddiaeth” - gan gynnwys diffiniadau wedi'u mynegi mewn termau cynhwysol a'r rheini mewn termau cynhwysfawr. Hyd yn oed os cedwir diffiniadau statudol cynhwysol a chynhwysfawr gwahanol o “amaethyddiaeth” mewn darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, mae'r enghreifftiau a amlinellir ym mharagraffau 5.127 i 5.137, yn dangos bod lle i gysoni, egluro a moderneiddio (o leiaf rhywfaint) o'r iaith a ddefnyddir ar draws y diffiniadau hynny. I arwain unrhyw ystyriaethau pellach ar y mater hwn, rydym yn cyflwyno yn nhabl 2 Atodiad 3 grynodeb o'n dadansoddiad ar i ba raddau y mae'n ymddangos bod y diffiniadau statudol gwahanol a restrir ym mharagraff 5.115 naill ai'n gorgyffwrdd neu'n wahanol.

### Adrannau 98 a 99 Deddf Amaethyddiaeth 1947

5.147 Ym mharagraffau 5.63 i 5.75 uchod, rydym yn dod i'r casgliad bod y dadleuon o blaid ac yn erbyn cynnwys adrannau 98 a 99 Deddf 1947 mewn darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gytbwys iawn. Yn hynny o beth, nodwn fod ein hadroddiad ar gyfraith bywyd gwyllt, fel y'i cyhoeddwyd yn 2015, yn cynnig bod adrannau 98 a 99 yn addas i'w cynnwys mewn ymarfer i gydgrynhoi deddfwriaeth bywyd gwyllt.[136]

5.148 Ni waeth a yw adrannau 98 a 99 wedi'u cynnwys yn y darpar God, neu fel arall mewn unrhyw ymarfer posibl yn y dyfodol i gydgrynhoi cyfraith bywyd gwyllt, awgrymwn y dylid ystyried argymhellion perthnasol a wneir yn ein hadroddiad ar gyfraith bywyd gwyllt. Yn benodol, yn yr adroddiad hwnnw rydym yn gwneud argymhellion manwl ar gyfer diwygiadau i adrannau 98 a 99 Deddf 1947 sydd â'r nod o foderneiddio, egluro a gwella hygyrchedd y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan y darpariaethau hynny.[137] Mae nifer o argymhellion hefyd yn ymwneud â thegwch gweithdrefnol.[138]

5.149 Rydym yn tynnu sylw at yr argymhellion perthnasol fel materion y mae angen eu hystyried ymhellach os gwneir penderfyniad i gynnwys adrannau 98 a 99 Deddf 1947 mewn darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

---

134 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (dccc 6), adran 18.

135 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai angen ystyried unrhyw ddiwygiad i'r diffiniad hwn yn ofalus, er enghraifft, o ran a allai unrhyw newid o'r fath newid cwmpas yr hawl i'r isafswm cyflog amaethyddol. Os felly, byddai angen ystyried a fyddai ymgynghori yn briodol. Byddai angen dadansoddi'r potensial i'r diwygiad effeithio ar gyfreithiau eraill hefyd.

136 Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362.

137 Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362, argymhellion 219 i 236.

138 Er enghraifft, rydym yn argymell bod y pwerau sylweddol y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 98 a 99 Deddf Amaethyddiaeth 1947 yn cael eu hategu gan ofynion penodol o ran cymesuredd a rhesymau (argymhelliad 221).

## MATERION TECHNEGOL

5.150 Mae cydgrynhoi deddfwriaeth mewn Deddf Senedd Cymru a fyddai'n rhan o'r darpar God yn gyfle i gyflwyno newidiadau technegol i'r gyfraith gyda'r nod o egluro, symleiddio neu foderneiddio'r gyfraith. Rydym yn nodi enghreifftiau o'r mathau o faterion technegol a allai fod yn gysylltiedig ag ymarfer o'r fath.

### Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979: symleiddio a moderneiddio gofynion gwasanaeth

5.151 Mae Deddf 1979 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berchenogion neu feddianwyr tir amaethyddol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth benodedig iddynt at ddibenion cael gwybodaeth ystadegol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth. O dan Ddeddf 1979, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu perchnogion neu feddianwyr tir amaethyddol yn gyntaf am unrhyw ofyniad i ddarparu gwybodaeth benodedig o dan y Ddeddf ac mae adran 5 yn nodi beth sy'n gyfystyr â chyflwyno hysbysiad o'r fath mewn ffordd ddilys. Er hwylustod, rydym yn cyfeirio at yr hysbysiadau hyn fel “hysbysiadau ystadegau amaethyddol”. Mae'r gofynion a osodir o dan adran 5 sy'n ymwneud â chyflwyno hysbysiadau ystadegau amaethyddol yn rhagnodol ac o bosibl wedi dyddio.

5.152 Mae adran 5(1) Deddf 1979 yn darparu y bydd hysbysiad ystadegau amaethyddol yn cael ei ystyried yn hysbysiad a gyflwynir yn briodol os caiff ei ddanfon at y perchennog neu'r meddiannydd perthnasol, ei adael yn ei gyfeiriad priodol neu ei anfon ato drwy'r post mewn llythyr cofrestredig. Fel yr amlinellir ym mharagraff 5.37 uchod, mae Gweinidogion Cymru yn dibynnu'n ymarferol ar y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf 1979 i gynnal yr arolwg amaethyddol a garddwriaethol blynyddol. Rydym yn deall, yn ymarferol, y gall hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwblhau'r arolwg amaethyddol a garddwriaethol blynyddol yng Nghymru gael ei gyflwyno naill ai drwy'r post neu ei gyfleu drwy ddulliau electronig.[139]

5.153 Er mwyn adlewyrchu'r arferion presennol, rydym o'r farn y gellid moderneiddio'r gofynion gwasanaeth a osodir o dan adran 5 Deddf 1979 i ddarparu'n benodol ar gyfer gwasanaeth electronig. Yn hynny o beth, rydym o'r farn bod darpariaeth a wneir o dan adran 398 Bil Cynllunio (Cymru) yn fodel defnyddiol. Mae adran 398 yn caniatáu i hysbysiadau penodol gael eu cyflwyno'n electronig o dan y Bil ac yn darparu ar gyfer mesurau diogelu gweithdrefnol sy'n ymwneud â chyflwyno o'r fath.

5.154 Mae adran 5 Deddf 1979 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiadau ystadegau amaethyddol i berchenogion a meddianwyr y tir pan na ellir canfod enw neu gyfeiriad y meddiannydd neu'r perchennog. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae Deddf 1979 yn darparu y gellir cyflwyno hysbysiadau yn lle hynny drwy gyfeirio'r hysbysiad naill ai at berchennog neu feddiannydd y tir a chyflwyno'r hysbysiad i ryw berson cyfrifol ar y tir, neu drwy osod yr hysbysiad, neu gopi ohono, ar ryw “wrthrych amlwg ar y tir”.

---

139 Yng Nghymru, deallwn y gallai hysbysiad i gwblhau'r arolwg amaethyddol a garddwriaethol blynyddol, er enghraifft, gael ei gyfleu drwy blatfform ar-lein Taliadau Gwledig Cymru Llywodraeth Cymru. Yn Lloegr, gellir rhoi hysbysiad i lenwi'r arolwg cyfatebol drwy'r post neu drwy e-bost: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, “June survey of agriculture and horticulture” https://www.gov.uk/agricultural-survey.

5.155 Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd rhai amgylchiadau lle na fydd person sy'n cyflwyno'r hysbysiad yn gallu mynd ar dir, neu fel arall ddod o hyd i wrthrych amlwg ar y tir hwnnw y gellid gosod hysbysiad arno. Mewn amgylchiadau o'r fath, credwn y gellid gwneud darpariaeth i ganiatáu arddangos hysbysiad ystadegau amaethyddol ar fan amlwg sydd mor agos ag sy'n rhesymol ymarferol at y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef. Byddai unrhyw ychwanegiad o'r fath yn adlewyrchu'r darpariaethau newydd ar gyfer cyflwyno hysbysiadau stop dros dro neu hysbysiadau stop gan awdurdodau cynllunio fel y cynigir yn y drefn honno o dan adrannau 120(4) a 147(7) Bil Cynllunio (Cymru). Nodwn fod y newidiadau a gynigir i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau sydd â'r bwriad o egluro effaith yr arferion presennol yn cael eu cyflwyno "ar y sail nad yw deddfwriaeth yn cael ei dehongli fel un sy'n mynnu'r amhosibl neu'r abswrd".[140] Yn yr un modd, gallai fod yn ddymunol felly ystyried yr arfer presennol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau ystadegau amaethyddol mewn amgylchiadau lle nad yw enw neu gyfeiriad y perchennog yn hysbys.

5.156 Yn olaf, mae adran 5 Deddf 1979 yn gwneud darpariaeth ragnodol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau ystadegau amaethyddol mewn amgylchiadau pan fo tir amaethyddol wedi'i freinio yn Eglwys Loegr.[141] Efallai y gellid ymdrin â'r lefel hon o fanylder technegol yn briodol mewn is-ddeddfwriaeth neu drwy ganllawiau.[142]

## CASGLIAD

5.157 Yn y bennod hon, rydym yn archwilio drysfa gymhleth o ddarpariaethau statudol sydd ar wasgar ar draws 20 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn rhai achosion. Mae'r deddfau dan sylw yn cynnwys Deddfau Senedd Cymru, Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Deddfau y DU, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu diwygio'n sylweddol a'u diddymu. Mae mynd drwy'r ddeddfwriaeth hon i nodi'r ystod lawn o swyddogaethau statudol sydd ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag amaethyddiaeth yn dasg heriol i weithwyr cyfreithiol proffesiynol profiadol ei chyflawni. I aelodau lleyg o'r cyhoedd, mae bron yn anhreiddiadwy.

5.158 Drwy ein hadolygiad o'r cyfreithiau dan sylw, rydym wedi nodi darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi'u cynnwys mewn o leiaf bum Deddf rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym wedi nodi rhagor o ddarpariaethau deddfwriaethol ar draws saith darn ychwanegol o ddeddfwriaeth sylfaenol rydym yn eu hystyried yn addas dros dro i'w cynnwys yn y darpar God. Ar ben hynny, rydym wedi nodi llu o ddarpariaethau statudol sy'n ymddangos yn addas i'w diddymu. Rydym yn nodi'r posibilrwydd o ddiddymu

---

140 Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol, "Nodiadau Drafftwyr ar gyfer Bil Cynllunio (Cymru)" (Medi 2025) https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/pri-ld17396-em-d1-cy.pdf, 63.

141 Mae Eglwys Loegr yn berchen ar dir yng Nghymru a Lloegr. Mae eu portffolio ystadau'n cynnwys amaethyddiaeth defnyddio tir, coedwigaeth, darparu tai a mannau masnachol, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy: Eglwys Loegr, "Real assets" https://www.churchofengland.org/about/governance/national-church-institutions/church-commissioners-england/how-we-invest/real-assets.

142 Er enghraifft, yn Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362, daethom i'r casgliad bod y gofynion cyflwyno ar gyfer hysbysiadau o dan adrannau 98 a 99 Deddf Amaethyddiaeth 1947 yn ddiangen o ragnodol. Nid oedd yr adran yn y Bil drafft sy'n cyd-fynd â'n hadroddiad yn ailddatgan darpariaeth a wnaed yn yr adrannau hyn ar gyfer gofynion cyflwyno hysbysiadau sy'n ymwneud â thir Eglwys Loegr.

darpariaethau o'r fath fel mater technegol i'w ystyried ymhellach ar y sail y gall diddymu darpariaethau diangen neu ddarfodedig dacluso’r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu amaethyddiaeth yng Nghymru.

5.159 Y darpariaethau statudol rydym wedi nodi eu bod yn addas, neu'n addas dros dro, i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yw'r rheini sy'n bennaf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, neu gyrff statudol eraill, gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Gyda'i gilydd, rydym o'r farn bod y darpariaethau hyn yn rhan o'r fframwaith statudol craidd ar gyfer datblygu polisi amaethyddol a gwneud penderfyniadau datganoledig yng Nghymru. Felly, mae gan gydgrynhoi'r darpariaethau statudol hyn mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru y potensial i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau cyfreithlon ac ystwyth a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

5.160 Yn bwysig, gall cydgrynhoi a chodeiddio'r darpariaethau statudol hyn helpu aelodau o'r cyhoedd ymhellach i ddeall cwmpas pwerau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amaethyddiaeth. Yn hyn o beth, bydd datblygu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn sicrhau y gall unigolion gael mynediad yn haws at y gyfraith sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd hefyd yn helpu unigolion i nodi'n haws y sail statudol ar gyfer penderfyniadau neu gamau gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cymru sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

# Pennod 6: Deddfau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, adnoddau naturiol a chadwraeth bywyd gwyllt a natur

## CYFLWYNIAD

6.1 Mae gan y sector amaethyddol gysylltiad dwfn a pharhaus ag amgylchedd Cymru. Gan fod tua 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, mae ffermwyr yn aml yn cael eu disgrifio fel ceidwaid cefn gwlad Cymru.[1] Yn ogystal, mae adnoddau naturiol fel tir, pridd a dŵr yn rhan annatod o gynhyrchu amaethyddol. Ar ben hynny, gall defnydd tir amaethyddol arwain at ganlyniadau cadarnhaol a negyddol i'r amgylchedd ac i fywyd gwyllt. O ganlyniad, mae “corff sylweddol o ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n effeithio ar amaethyddiaeth fodern” yn bodoli.[2]

6.2 Mae'r bennod hon yn ymwneud â'r cyfreithiau, fel y bo'n berthnasol, yng Nghymru sy'n rheoleiddio gweithgarwch amaethyddol, neu ddefnydd tir amaethyddol, neu sy’n effeithio'n sylweddol arnynt fel arall, at ddibenion:

(1) gwarchod natur a bywyd gwyllt;

(2) gwarchod a rheoli adnoddau naturiol; a

(3) diogelu'r amgylchedd.

6.3 Yn y bennod hon rydym yn ystyried a yw deddfwriaeth o fewn y categorïau uchod yn perthyn i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru drwy gymhwyso ein meini prawf cynnwys fel y nodir ym Mhennod 3 (gweler paragraffau 3.34 i 3.53). Rydym hefyd yn gwerthuso a yw'r ddeddfwriaeth dan sylw yn ymwneud â materion a allai fod angen eu dadansoddi neu eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar God. Er enghraifft, rydym yn tynnu sylw at ble mae galwadau am ddiwygio sylweddol ar y ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas y bennod hon. Yn olaf, rydym yn gwerthuso a oes unrhyw faterion technegol gyda'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei harchwilio yn y bennod hon a allai elwa o ddiwygiadau sydd â'r nod o symleiddio'r gyfraith, ei moderneiddio neu ei lliflinio, neu a allai fod angen gwelliannau o'r fath.

### Cyfreithiau sydd y tu allan i gwmpas y bennod hon

6.4 Mae rhai cyfreithiau penodol sy'n dod o dan y disgrifiad a ddarperir ym mharagraff 6.2, sy'n cael eu hystyried ar wahân ym mhenodau eraill yr adroddiad hwn.

---

[1] Llywodraeth Cymru, “Arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth” (Rhagfyr 2025) https://www.llyw.cymru/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2025-html.

[2] C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 1.02.

(1) Mae Pennod 2 yn ystyried y berthynas rhwng yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy a osodwyd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a darpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

(2) Mae Pennod 8 yn ystyried cyfraith coedwigaeth a'r gyfraith ar warchod gwrychoedd.

(3) Mae Pennod 9 yn ystyried agweddau ar ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref.

(4) Mae Pennod 10 yn ystyried y cyfreithiau ar blaladdwyr a gwrteithiau.

## YSTYRIED DEDDFWRIAETH

6.5 Yn yr adran hon, rydym yn cymhwyso ein meini prawf cynnwys i'r ddeddfwriaeth sy'n dod o dan y disgrifiad ym mharagraff 6.2 uchod.

### Deddf Adnoddau Dŵr 1991

6.6 Mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ("Deddf 1991") yn rheoleiddio materion gan gynnwys ansawdd dŵr, llygredd dŵr a rheoli dŵr fel adnodd naturiol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer atal llifogydd.

6.7 Mae paragraffau 6.8 i 6.38 yn ystyried y darpariaethau allweddol yn Neddf 1991, ac is-ddeddfwriaeth berthnasol a luniwyd o dan y Ddeddf, sy'n rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru neu'n effeithio'n sylweddol arni fel arall.

#### Adran 92 Deddf 1991

6.8 O dan adran 92 Deddf 1991, mae gan Weinidogion Cymru bwerau, sy'n arferadwy mewn perthynas â Chymru, i gyhoeddi rheoliadau sy'n anelu at atal llygru dyfroedd a reolir.[3] Caiff rheoliadau a luniwyd o dan adran 92 Deddf 1991 wahardd person rhag meddu ar neu reoli neu ddefnyddio sylweddau gwenwynig, niweidiol neu sy'n llygru, oni bai bod rhagofalon rhagnodedig, gwaith neu gamau eraill wedi eu cymryd.

6.9 Yn gyffredinol, mae dyfroedd a reolir yn cynnwys dyfroedd tiriogaethol perthnasol, dyfroedd arfordirol, dyfroedd croyw mewndirol (fel llynnoedd, pyllau ac afonydd)[4] a dyfroedd daear (unrhyw ddyfroedd a gynhwysir mewn strata tanddaearol).[5]

6.10 Mae dwy set o reoliadau a ddeddfwyd o dan adran 92 Deddf 1991 yn gymwys yng Nghymru.

---

3 Trosglwyddwyd y pwerau o dan adran 92 Deddf 1991 i Weinidogion Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r swyddogaethau o dan adran 92 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ddalgylchoedd afonydd Dyfrdwy, Gwy a Hafren. I'r graddau y mae'r dalgylchoedd hynny'n perthyn i Gymru, mae'r swyddogaethau o dan adran 92 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol.

4 Gweler y diffiniad yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 104(2)(c).

5 Diffinnir y termau y cyfeirir atynt ym mharagraff 6.9 y bennod hon yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 104.

(1) Rheoliadau Rheoli Adnoddau Dŵr a Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016 (“Rheoliadau Storio Olew 2016”).

(2) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (“Rheoliadau CoAP 2021”).

### Rheoliadau Rheoli Llygredd Adnoddau Dŵr (Storio Olew) (Cymru) 2016

6.11 Mae Rheoliadau Storio Olew 2016 yn gosod gofynion sy'n ymwneud â storio olew at ddibenion atal neu leihau'r risg o lygredd. Mae “olew” wedi'i ddiffinio'n fras at ddibenion y rheoliadau ac mae'n cynnwys “petrol, diesel, cerosîn, olew iro (mwynol a synthetig), olew gwastraff, llysiau ac olew planhigion”.[6]

6.12 Nid yw'r gofynion storio a osodir o dan Reoliadau Storio Olew 2016 yn berthnasol i gynwysyddion storio olew sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl o dan y ddaear, oni bai fod y cynhwysydd wedi'i leoli mewn adeilad. Ar ben hynny, dim ond pan fydd olew'n cael ei storio mewn cynhwysydd gyda chynhwysedd o fwy na 200 litr y mae'r gofynion storio dan sylw'n berthnasol.[7]

### Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

6.13 Nod Rheoliadau CoAP 2021 yw atal neu leihau'r risg o lygredd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio. Yn benodol, mae'r rheoliadau'n gosod rheolaethau ar ddefnyddio a storio silwair,[8] slyri,[9] tail organig[10] a gwrtaith nitrogen.[11] Cyfoeth Naturiol Cymru (“NRW”) yw'r corff gorfodi ar gyfer y rheoliadau.[12]

6.14 Meddianwyr daliadau sy'n gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliadau CoAP 2021.[13] Mae cyfyngiadau hefyd wedi'u gosod o dan y rheoliadau sy'n berthnasol i unrhyw berson sy'n defnyddio slyri, silwair, tail organig a rhai gwrteithiau, neu sy'n eu taenu neu'n eu defnyddio.

---

6 Llywodraeth Cymru, *Cadw eich storfa olew yn ddiogel: Canllawiau ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016* (Mawrth 2016) t 3.

7 Rheoliadau Rheoli Llygredd Adnoddau Dŵr (Storio Olew) (Cymru) 2016, OS 2016/359 (Cy 112), rheoliad 3.

8 Mae silwair yn cynnwys glaswellt wedi'i eplesu, neu borthiant gwyrdd arall, sy'n cael ei ddefnyddio fel porthiant anifeiliaid.

9 Mae slyri yn sylwedd hylifol neu led-hylifol o dewychedd penodol sy'n cynnwys carthion da byw, ac mewn rhai achosion mae'n cael ei gymysgu â deunyddiau gwely da byw a dŵr, sy'n cael ei ddefnyddio yn y sector amaethyddol fel gwrtaith naturiol.

10 Mae tail organig yn cynnwys unrhyw wrtaith nitrogen neu wrtaith ffosffad sy'n deillio o anifeiliaid, planhigion neu ffynonellau dynol.

11 Gwrtaith nitrogen yw unrhyw sylwedd sy'n cynnwys un cyfansoddyn nitrogen neu fwy a ddefnyddir i wella twf llystyfiant.

12 Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Canllawiau i Ffermwyr a Rheolwyr Tir* (diweddarwyd Hydref 2023).

13 Daliad yw unrhyw dir a'i adeiladau cysylltiedig sydd at ddefnydd y meddiannydd, ac a ddefnyddir i dyfu cnydau mewn pridd neu fagu da byw at ddibenion amaethyddol. Gweler Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, OS 2021/77 (Cy 20), rheoliad 3.

6.15 Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion a amlinellir isod.

(1) Safonau storio sy'n gymwys i storio tail organig, slyri a silwair.

(2) Cyfyngiadau ar pryd, ble a sut y caiff gwrtaith, tail organig a slyri eu gwasgaru.

(3) Terfynau ar faint o nitrogen, o wrteithiau a thail organig, y gellir ei daenu ar dir yn flynyddol.

(4) Gofynion i gynhyrchu mapiau risg gyda'r nod o leihau'r risg o lygredd dŵr.

(5) Gofynion i gynnal archwiliadau maes gyda'r nod o leihau'r risg o lygredd dŵr.

(6) Gofynion cadw cofnodion.

6.16 Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn dirymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013.[14]

### Adran 92 Deddf 1991, Rheoliadau Storio Olew 2016 a Rheoliadau CoAP: meini prawf cynnwys

6.17 Mae adran 92 Deddf 1991 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sydd â'r nod o atal neu leihau'r risg o lygredd dŵr o ganlyniad i sylweddau gwenwynig, niweidiol neu sy'n llygru. Rydym o'r farn bod adran 92 Deddf 1991 yn ymwneud â phwnc yr amgylchedd a llygredd dŵr. At hynny, mae adran 92 Deddf 1991 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau sydd â'r nod o leihau'r risg o lygredd dŵr mewn unrhyw gyd-destun. Felly, rydym o'r farn nad yw cymhwyso'r pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 92 Deddf 1991 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.18 Fel yr amlinellwyd uchod, mae Rheoliadau Storio Olew 2016 yn cael eu llunio o dan adran 92 Deddf 1991. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar storio olew yn ddiogel yn nodi mai "nod y rheoliadau yw lleihau nifer yr achosion o lygredd dŵr sy'n gysylltiedig ag olew a chyflawni amcanion Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru".[15]

6.19 Mae Rheoliadau Storio Olew 2016 yn gymwys i unrhyw berson sy'n cadw neu'n rheoli olew gaiff ei storio mewn cynhwysydd neu gyfleuster sy'n bodloni'r manylebau a ragnodir yn rheoliad 3. Felly, bydd angen i ffermwyr sy'n storio olew mewn cynwysyddion neu gyfleusterau sy'n bodloni'r manylebau hynny gydymffurfio â'r rheoliadau.

6.20 Fodd bynnag, mae'r defnydd ymarferol o Reoliadau Storio Olew 2016 yn llawer ehangach nag amaethyddiaeth. Mae'r ystod o sectorau, busnesau ac adeiladau a allai fod angen cydymffurfio â'r rheoliadau yn cynnwys busnesau diwydiannol, busnesau masnachol, ysgolion, ysbytai, adeiladau'r sector cyhoeddus, cartrefi nyrsio ac eiddo

---

[14] OS 2010/1493 (Cy 136); OS 2013/2506 (Cy 245).

[15] Llywodraeth Cymru, *Cadw eich storfa olew yn ddiogel: Canllawiau ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016* (Mawrth 2016) t 2.

domestig.[16] Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod Rheoliadau Storio Olew 2016 yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

6.21 Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn rheoleiddio defnyddio a storio rhai gwrteithiau, slyri a silwair yn y cyd-destun amaethyddol. Mae gwrteithiau, slyri a thail organig yn sylweddau a ddefnyddir i wella twf cnydau a llystyfiant arall. Defnyddir silwair fel porthiant i dda byw. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoliadau CoAP 2021 yn nodi bod y rheoliadau "wedi cael eu cyflwyno i leihau colli llygryddion o amaethyddiaeth i'r amgylchedd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio".[17] Rydym o'r farn felly bod Rheoliadau CoAP 2021 yn ymwneud â phynciau amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

6.22 Er bod Rheoliadau CoAP 2021 yn ymwneud ag amaethyddiaeth, ond yn ymestyn y tu hwnt i'r pwnc, nid ydym o'r farn bod hyn yn rhwystr iddynt gael eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Yn wir, mae'n gyffredin i ddeddfwriaeth ymwneud â nifer o bynciau, yn enwedig yn y cyd-destun amaethyddol.

6.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio bod rheoleiddio'r sector amaethyddol yn angenrheidiol "er mwyn diogelu'r amgylchedd".[18] Yn yr un modd, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ("Defra") yn disgrifio un o nodau rheoleiddio amaethyddol fel "diogelu ein hamgylchedd".[19] Daeth adolygiad annibynnol cymharol ddiweddar o reoleiddio amaethyddol yn Lloegr, dan gadeiryddiaeth y Fonesig Glenys Stacey, hefyd i'r casgliad canlynol:

> yn draddodiadol, mae'r llywodraeth wedi rheoleiddio ffermydd i atal niwed (a delio â niwed pan fydd yn digwydd); i gynnal a hyrwyddo'r amgylchedd, iechyd planhigion ac anifeiliaid a lles anifeiliaid, ac i hwyluso masnach.[20]

Roedd yr un adolygiad hefyd yn disgrifio un o swyddogaethau rheoleiddio amaethyddol fel "diogelu, cynnal a gwella arferion rheoli tir sy'n cael ei ffermio a'r amgylchedd naturiol yn dda".[21]

6.24 Pan fydd cyfraith benodol yn ymwneud â nifer o bynciau, gan gynnwys amaethyddiaeth, gall ail gam ein meini prawf cynnwys arwain ein penderfyniad ynghylch a yw'r ddeddfwriaeth, serch hynny, yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn berthnasol i feddianwyr tir sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau neu fagu da byw at ddibenion amaethyddol. Mae Rheoliadau CoAP 2021 hefyd yn berthnasol i bobl sy'n cadw neu'n rheoli, neu sy'n defnyddio, silwair, slyri, tail organig a gwrteithiau: sydd yn sylweddau a ddefnyddir yn y cyd-destun amaethyddol.

---

16 Llywodraeth Cymru, *Cadw eich storfa olew yn ddiogel: Canllawiau ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016* (Mawrth 2016) t 3.

17 Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Canllawiau i Ffermwyr a Rheolwyr Tir* (2021) t 6.

18 Llywodraeth Cymru, "Datganiad Ysgrifenedig: Ffermio yng Nghymru" (Chwefror 2024) https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ffermio-yng-nghymru.

19 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, "Understanding and improving farming regulation" (Mawrth 2022) https://defrafarming.blog.gov.uk/2022/03/02/understanding-and-improving-farming-regulation/.

20 Adolygiad Arolygu a Rheoleiddio Ffermydd, *Interim report* (Gorffennaf 2018) t 11.

21 Adolygiad Arolygu a Rheoleiddio Ffermydd, *Final report* (Rhagfyr 2018) t 19.

Gan ddefnyddio ail gam ein meini prawf cynnwys, rydym felly'n dod i'r casgliad bod cymhwyso Rheoliadau CoAP 2021 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth, neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.25 Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn bod Rheoliadau CoAP 2021 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw adran 92 Deddf 1991 a Rheoliadau Storio Olew 2016 yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys.

6.26 Fel yr ystyrir uchod, mae adran 92 Deddf 1991 yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru y dibynnwyd arnynt i lunio Rheoliadau CoAP 2021. Cyfeirir yn aml at ddarpariaethau deddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth fel pwerau galluogi sylfaenol. Rydym yn ystyried ymhellach ym mharagraffau 6.130 i 6.132 isod y mater o gynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God mewn amgylchiadau lle mae'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol wedi'u heithrio.

### Adran 97 Deddf 1991: cod ymarfer amaethyddol da

6.27 O dan adran 97 Deddf 1991, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo codau ymarfer a gyhoeddir at ddibenion:

(1) rhoi canllawiau ymarferol i bobl sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth mewn perthynas â gweithgareddau a allai effeithio ar ddyfroedd a reolir; a

(2) hyrwyddo arferion dymunol gan bobl o'r fath ar gyfer osgoi neu leihau llygru dyfroedd a reolir.[22]

6.28 Cod Ymarfer cyfredol Cymru fel y'i cymeradwywyd o dan adran 97 Deddf 1991 yw Cod Ymarfer Amaethyddol Da Cymru.[23] Mae Rhan 2 y cod hwn yn ymwneud â llygredd dŵr a dyma'r rhan o'r cod a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd o dan adran 97 Deddf 1991. [24]

### Adran 97 Deddf 1991: meini prawf cynnwys

6.29 Mae adran 97 Deddf 1991 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu canllawiau ymarferol - ar ffurf cod ymarfer statudol - ar fesurau ac arferion ar gyfer lleihau'r risg o lygredd dŵr yn y cyd-destun amaethyddol. Rydym felly o'r farn bod adran 97 Deddf 1991 yn ymwneud ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Gan ddefnyddio'r un dadansoddiad ag a amlinellir ym mharagraffau 6.23 i 6.25 uchod, rydym yn dod i'r casgliad bod adran 97 Deddf 1991 yn bodloni ein maen prawf cyntaf er bod y ddarpariaeth yn ymwneud â phynciau amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

6.30 O ran ein hail faen prawf, mae cwmpas pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 97 wedi'i gyfyngu i ddarparu neu gymeradwyo canllawiau ymarferol ar leihau llygredd dŵr yn y cyd-destun amaethyddol yn unig. Felly, mae adran 97 Deddf 1991 yn bodloni ein meini prawf cynnwys. Nid yw ein hadroddiad wedi cynnwys archwilio'r cod ymarfer

---

22 Trosglwyddwyd y pwerau o dan adran 97 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 i Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

23 Llywodraeth Cymru, *Cod ymarfer amaethyddol da* (Ebrill 2011) https://www.llyw.cymru/cod-ymarfer-amaethyddol-da.

24 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 93(1A).

amaethyddol da a gyhoeddir drwy arfer y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 97. Fodd bynnag, fel rydym yn ei drafod ym Mhennod 1, gall cod cyfraith Cymru gynnwys canllawiau perthnasol. Felly, rydym o'r farn y gallai darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, mewn egwyddor, gynnwys y cod ymarfer amaethyddol da.

### Pennod 2 o Ran 2 Deddf 1991: y drefn tynnu dŵr

6.31 Mae Pennod 2 Rhan 2 Deddf 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003, yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn drwyddedu tynnu dŵr. Tynnu dŵr yw'r broses o echdynnu dŵr o ffynonellau dŵr tanddaearol neu ar yr wyneb, fel afonydd, nentydd a chamlesi.

6.32 Mae'n drosedd tynnu dŵr, neu achosi neu ganiatáu i unrhyw berson arall dynnu dŵr, o ffynonellau dŵr tanddaearol neu ar yr wyneb heb drwydded, oni bai bod eithriadau neu esemptiadau'n berthnasol.[25] Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff gorfodi ar gyfer y gyfundrefn trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru.[26]

6.33 Mae'n gyffredin i ffermwyr dynnu dŵr o dyllau turio fel dewis cost-effeithiol yn lle'r prif gyflenwad.[27] Mae tyllau turio yn siafftiau cul sydd wedi'u turio neu wedi'u drilio i mewn i'r ddaear er mwyn echdynnu dŵr tanddaearol. Cyn 2018, roedd nifer o eithriadau i'r gyfundrefn trwyddedu tynnu dŵr, a bydd ffermwyr yng Nghymru wedi dibynnu ar rai ohonynt. Fodd bynnag, o 1 Ionawr 2018, mae'r rhan fwyaf o esemptiadau wedi cael eu dileu.[28]

#### Pennod 2 o Ran 2 Deddf 1991 (cyfundrefn tynnu dŵr): meini prawf cynnwys

6.34 Mae awduron *Environmental Law* yn disgrifio'r gyfundrefn trwyddedu tynnu dŵr fel a ganlyn:

> Mae trwyddedau tynnu dŵr a roddir gan [Asiantaeth yr Amgylchedd] a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfyngu ar faint o ddŵr y gall cwmnïau dŵr, yn ogystal â defnyddwyr diwydiannol ac amaethyddol, ei dynnu allan o'r amgylchedd. Felly, mae trwyddedau tynnu dŵr yn sicrhau bod digon o ddŵr ar ôl yn yr amgylchedd naturiol a all gyfrannu at wanhau llygryddion mewn cyrsiau dŵr, a thrwy hynny gynnal ansawdd dŵr.[29]

6.35 Mae'r dyfyniad canlynol o ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Defra ar dynnu dŵr yn rhoi rhagor o wybodaeth am nod y gyfundrefn:

---

25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, a 24.

26 Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, "Water regulations for farmers" https://ahdb.org.uk/knowledge-library/water-regulations-for-farmers.

27 Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, "Water regulations for farmers" https://ahdb.org.uk/knowledge-library/water-regulations-for-farmers.

28 Cyfoeth Naturiol Cymru, "Dŵr sydd ar gael yn ein dalgylchoedd" (diweddarwyd ddiwethaf 2024) https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/our-roles-and-responsibilities/water/water-available-in-our-catchments/?lang=cy.

29 E Fisher, B Lane ac E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il argraffiad 2019) paragraff 15.3.2.1.

Gall echdynnu effeithio'n sylweddol ar lif a lefel y dŵr, gan effeithio ar y corff dŵr a'r amgylchedd y mae'n ei gynnal. Dyna pam mae'r rhan fwyaf o waith tynnu dŵr wedi'i drwyddedu.[30]

6.36 Wrth ystyried y ffynonellau uchod, rydym yn dod i'r casgliad nad yw'r gyfundrefn trwyddedu tynnu dŵr yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth. Mae'r gofyniad i gael trwydded i dynnu dŵr yn gymwys i unrhyw un, oni bai bod eithriadau neu esemptiadau penodol yn gymwys. Felly, nid yw'r defnydd ymarferol o'r gyfundrefn trwyddedau tynnu dŵr wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth, nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.37 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer y gyfundrefn trwyddedu tynnu dŵr, fel y'i cynhwysir yn Rhan 2 Deddf 1991, yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God.

### Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989

6.38 Gall slwtsh wella ansawdd pridd a darparu rhai elfennau cemegol y mae eu hangen ar y rhan fwyaf o gnydau i dyfu. Fodd bynnag, mae slwtsh yn cynnwys elfennau a allai fod yn wenwynig sy'n peri risg i iechyd planhigion, anifeiliaid a phobl.[31] Mae Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989 ("Rheoliadau 1989"), sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, yn cyfyngu ar ddefnyddio slwtsh ar dir amaethyddol oni bai fod gofynion diogelwch penodol yn cael eu bodloni.[32]

6.39 Mae Rheoliadau 1989 yn gosod gofynion ar gynhyrchwyr a ffermwyr slwtsh. Er enghraifft, dim ond ar dir amaethyddol y ceir defnyddio slwtsh ar yr amod:

(1) bod lefel pH y slwtsh wedi'i phrofi a'i bod yn is na therfynau penodedig; a

(2) nad oes unrhyw gnydau ffrwythau na llysiau (ac eithrio coed ffrwythau) yn tyfu nac yn cael eu cynaeafu ar y tir adeg ei ddefnyddio.

#### Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989: meini prawf cynnwys

6.40 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cynigion polisi a galwadau i ddod â rheoleiddio slwtsh o fewn cwmpas y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol fel y darperir ar ei chyfer o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (a drafodir ymhellach ym mharagraff 6.43). Yn ei strategaeth ar gyfer defnyddio slwtsh yn ddiogel ac yn gynaliadwy, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnig bod rheoleiddio'r defnydd o slwtsh yn dod o fewn cwmpas Rheoliadau Trwyddedu

---

[30] Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Changes to water abstraction licensing exemptions: Government response to the 2009 consultation* (Ionawr 2016) https://consult.defra.gov.uk/water/water-abstraction-licensing-exemptions/supporting_documents/Consultation%20Document%20%20New%20Authorisations.pdf.

[31] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Sewage sludge in agriculture: code of practice for England, Wales and Northern Ireland* (Mai 2018) https://www.gov.uk/government/publications/sewage-sludge-in-agriculture-code-of-practice/sewage-sludge-in-agriculture-code-of-practice-for-england-wales-and-northern-ireland, paragraff 1.2.

[32] OS 1989/1263. Cafodd y Rheoliadau eu deddfu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd mewn perthynas â Lloegr, Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru ac Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â'r Alban, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, adran 2(2).

Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.[33] Yn yr un modd, mae adroddiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol, a gyhoeddwyd yn 2025, yn argymell y dylai defnyddio slwtsh ddod o dan y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol.[34] Roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu cynigion a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar y mater hwn yn destun her adolygiad barnwrol yn 2024.[35]

6.41 Ym mharagraffau 6.42 i 6.55 isod, rydym yn ystyried y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol ac yn dod i'r casgliad bod y rheoliadau perthnasol yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God. O ganlyniad, rydym o'r farn bod addasrwydd Rheoliadau 1989 i'w cynnwys yn y darpar God yn dibynnu ar benderfyniad ynghylch a fydd pwnc y Rheoliadau hynny'n cael ei gynnwys yn y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol.[36]

### Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

6.42 Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ("EPR 2016") yn rheoleiddio rhai cyfleusterau a allai niweidio'r amgylchedd neu iechyd pobl.[37]

6.43 Rhaid i berson beidio â gweithredu cyfleuster rheoleiddiedig ac eithrio o dan drwydded amgylcheddol, ac i'r graddau y mae wedi ei awdurdodi gan drwydded amgylcheddol.[38]

6.44 Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r prif gorff gorfodi perthnasol yng Nghymru ar gyfer y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am drwyddedu a gorfodi trwyddedau ar gyfer nifer cyfyngedig o gyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio.

6.45 Mae 12 dosbarth o gyfleusterau wedi'u rheoleiddio o dan EPR 2016.[39] Dim ond y dosbarthiadau hynny sydd fwyaf perthnasol i amaethyddiaeth yn ein barn ni y mae'r bennod hon yn eu hystyried:

(1) gweithfeydd lle yr ymgymerir â gweithgarwch ffermio dwys moch a dofednod;

(2) gweithgareddau gollwng dŵr; a

(3) gweithrediadau rheoli gwastraff.

---

33 Asiantaeth yr Amgylchedd, *Environment Agency strategy for safe and sustainable sludge use* (Mawrth 2020) https://www.gov.uk/government/publications/environment-agency-strategy-for-safe-and-sustainable-sludge-use/environment-agency-strategy-for-safe-and-sustainable-sludge-use#contents.

34 Comisiwn Dŵr Annibynnol, *Final Report* (July 2025) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/687dfcc4312ee8a5f0806be6/Independent_Water_Commission_-_Final_Report_-_21_July.pdf, para 542.

35 *R (Fighting Dirty Limited) v Environment Agency and Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs* [2024] EWHC 2029 (Admin).

36 Ym mharagraffau 8.52 i 8.54 isod, rydym yn dod i'r casgliad bod y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol (Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016) yn anaddas i'w chynnwys yn y Cod.

37 Fel y'i deddfwyd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd.

38 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, rheoliad 12.

39 Fel y nodir yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, rheoliadau 8(1)(a) i (l).

### EPR 2016: ffermio dwys moch a dofednod

6.46 Mae angen trwydded amgylcheddol ar gyfer ffermio dwys moch neu ddofednod.[40] Fodd bynnag, dim ond pan fydd nifer y moch, hychod neu ddofednod a ffermir yn y weithfa yn uwch na throthwyon penodedig y bydd y gofyniad yn gymwys.[41]

### EPR 2016: gweithgareddau gollwng dŵr

6.47 Mae angen trwydded amgylcheddol ar gyfer unrhyw weithgaredd gollwng dŵr ac ar gyfer unrhyw weithgaredd dŵr daear. Mae gweithgaredd gollwng dŵr yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, roi neu ollwng i ddyfroedd croyw mewndirol, dyfroedd arfordirol neu ddyfroedd tiriogaethol:

(1) deunydd gwenwynig, niweidiol neu sy’n llygru;

(2) deunydd gwastraff; neu

(3) elifion masnach neu elifion carthion.[42]

6.48 Mae rhai gollyngiadau na fyddant yn cael eu dosbarthu fel gweithgarwch gollwng dŵr at ddibenion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Er enghraifft, unrhyw ollwng a awdurdodir gan neu o dan unrhyw ddarpariaeth statudol.[43]

6.49 Diffinnir elifion masnach fel unrhyw elifion a ollyngir o adeiladau masnach neu ddiwydiannol ac unrhyw adeiladau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion amaethyddol neu at ddibenion ffermio pysgod.[44] Felly, byddai angen trwydded amgylcheddol ar ffermwr er mwyn rhoi neu ollwng i ddyfroedd penodedig wastraff amaethyddol penodol, fel slyri, a sylweddau hylifol eraill sy'n cael effaith wenwynig neu sy’n llygru, fel olew tanwydd.[45]

6.50 Ystyr "dŵr daear" yw'r holl ddŵr sydd o dan wyneb y tir yn y parth dirlawnder ac mewn cysylltiad uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd.[46] Mae gweithgarwch dŵr daear yn cael ei ddiffinio'n fanwl yn dechnegol yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Yn gyffredinol, mae gweithgarwch dŵr daear yn golygu gollwng llygrydd yn anuniongyrchol neu'n uniongyrchol, sy'n arwain, neu a allai arwain, at fewnbynnu'r llygrydd hwnnw i ddŵr daear.[47]

---

40 Mae angen trwydded amgylcheddol ar gyfer “gweithfeydd” sy'n cael eu diffinio fel unedau technegol sefydlog lle mae un neu fwy o weithgareddau penodol yn cael eu cyflawni. Mae gweithgarwch ffermio dwys moch neu ddofednod yn weithgaredd penodedig pan fo trothwyon penodol yn cael eu bodloni.

41 Rhagnodir y trothwyon perthnasol yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, Rhan 2 i Atodlen 1.

42 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, Atodlen 21, paragraff 3.

43 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, SI 2016/1154, Atodlen 21, paragraff 3.

44 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, rheoliad 2; Deddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 221.

45 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 14.14.

46 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, rheoliad 2.

47 Darperir y diffiniad llawn o weithgaredd dŵr daear o dan baragraff 3 Atodlen 22 i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154.

### EPR 2016: gwaith gwastraff

6.51 Mae angen trwydded amgylcheddol ar gyfer gwaith gwastraff. Mae "gwaith gwastraff" yn golygu unrhyw weithred sy'n cynnwys gwaredu neu adfer gwastraff.[48] Diffinnir "gwastraff" fel unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r deiliad yn ei waredu neu'n bwriadu ei waredu neu y mae'n ofynnol iddo ei waredu.[49] Fodd bynnag, mae rhai deunyddiau wedi'u heithrio o'r diffiniad.[50]

6.52 Mae eithriadau i'r gofyniad i gael trwydded amgylcheddol ar gyfer gwaith gwastraff. Mae eithriadau y dibynnir arnynt yn aml yn y cyd-destun amaethyddol yn cynnwys yr esemptiad ar gyfer taenu gwastraff penodol ar dir amaethyddol i wella neu gynnal ansawdd pridd (a elwir yn esemptiad gwastraff U10)[51] a'r esemptiad gwastraff ar gyfer lludw moch a dofednod (a elwir yn esemptiad gwastraff U15).[52]

### EPR 2016: meini prawf ar gyfer cynnwys yn y darpar God

6.53 Mae EPR 2016 yn fframwaith statudol cymhleth sy'n "ymdrin â gweinyddu rheoli llygredd".[53] Mae canllawiau ar y cyd, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Defra, yn rhoi rhagor o wybodaeth am swyddogaeth y gyfundrefn.

> Gallai rhai cyfleusterau niweidio'r amgylchedd neu iechyd pobl oni bai eu bod yn cael eu rheoleiddio. Mae EPR yn mynnu bod gweithredwyr "cyfleusterau a reoleiddir" yn cael trwydded neu'n cofrestru rhai gweithgareddau, a fyddai fel arall angen trwyddedau, fel "cyfleusterau wedi'u hesemptio". Fel hyn, mae EPR yn darparu ar gyfer goruchwyliaeth barhaus gan reoleiddwyr ar weithgareddau a allai niweidio'r amgylchedd.[54]

6.54 Mae yna weithgareddau'n cael eu gwneud yn y cyd-destun amaethyddol sy'n cael eu rheoleiddio o dan Reoliadau 2016, ac felly mae angen trwydded amgylcheddol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau a reoleiddir gan EPR 2016, a elwir yn "gyfleusterau a reoleiddir", yn eang eu cwmpas ac yn cynnwys:

---

48 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, rheoliad 2.

49 Cyfarwyddeb 2008/98/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor, erth 3(1).

50 Gweler Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, OS 2016/1154, rheoliad 2 a Chyfarwyddeb 2008/98/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor, erth 2(1).

51 Environment Agency, *Guidance U10: spreading waste to benefit agricultural land* https://www.gov.uk/guidance/waste-exemption-u10-spreading-waste-to-benefit-agricultural-land.

52 Mae rhestr o'r eithriadau gwastraff hynny y dibynnir arnynt yn fwyaf cyffredin yn y cyd-destun amaethyddol ar gael yma: https://www.nfuonline.com/updates-and-information/changes-to-waste-exemptions-latest-updates-and-what-you-need-to-know/#:~:text=Waste%20exemptions%20allow%20farmers%20to,the%20EA%20(Environment%20Agency).

53 E Fisher, B Lane ac E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il agraffiad 2019).

54 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru, *Environmental Permitting: Core guidance For the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016 (SI 2016 No 1154)*, (Mawrth 2020) t 8.

gweithfeydd diwydiannol mawr, gweithrediadau gwastraff, tirlenwi, gweithgareddau gollwng dŵr, gweithgareddau dŵr daear, gweithfeydd hylosgi mawr, llosgi gwastraff, gweithrediadau mwyngloddio ac ati.[55]

6.55 Yng ngoleuni'r uchod, deuwn i'r casgliad nad yw EPR 2016 yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth. Yn yr un modd, rydym o'r farn nad yw cymhwyso EPR 2016 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Rydym felly'n dod i'r casgliad bod EPR 2016 yn anaddas i'w gynnwys yn y darpar God.

### Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

6.56 Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 (“Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017”) yn rhan o fframwaith deddfwriaethol yr asesiad o'r effaith amgylcheddol (“EIA”) sy'n berthnasol i Gymru.

6.57 Gellir disgrifio’r gyfundrefn EIA fel proses lle mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn casglu ac yn ystyried gwybodaeth am effaith amgylcheddol debygol prosiect arfaethedig cyn rhoi caniatâd neu gydsyniad ar gyfer y cynnig.[56]

6.58 Mae ein cyfundrefn EIA ddomestig yn deillio o ddeddfwriaeth yr UE, sef Cyfarwyddeb Asesu'r Effaith Amgylcheddol 2011/92/EU (“y Gyfarwyddeb EIA”), fel y'i diwygiwyd.[57] Gweithredwyd y Gyfarwyddeb AEA yn ddomestig yng Nghymru gan wahanol setiau o reoliadau sydd i gyd yn ymwneud â gwahanol fathau o brosiectau. Er enghraifft, mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (“Rheoliadau TCP EIA (Cymru)”) yn darparu ar gyfer y broses EIA sy'n berthnasol i ddatblygiadau sy'n destun caniatâd cynllunio.[58]

6.59 Mae prosiectau “nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer oherwydd eu bod yn cael eu trin o dan weithdrefnau cydsynio ar wahân yn cael eu llywodraethu gan setiau gwahanol o Reoliadau”.[59] Er enghraifft, mae rheoliadau ar wahân sy'n darparu ar gyfer proses AEA ar gyfer rhai prosiectau coedwigaeth.[60]

6.60 Mae Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn darparu ar gyfer proses AEA sy'n berthnasol i brosiectau amaethyddol penodol a phrosiectau tir gwledig. Yn amodol ar eithriadau cyfyngedig, mae Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad sgrinio gael ei wneud ar gyfer prosiectau amaethyddol penodol a phrosiectau ailstrwythuro tir gwledig.

6.61 Yn benodol, rhaid cael penderfyniad sgrinio ar gyfer:

---

55 E Fisher, B Lane and E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il agraffiad 2019) t 424.

56 S Bell ac eraill, *Environmental Law* (10fed argraffiad 2024) t 362.

57 Fodd bynnag, mae cyfundrefn EIA yr UE yn tarddu o gyfraith ryngwladol.

58 OS 2017/567 (Cy 136).

59 S Bell ac eraill, *Environmental Law* (10fed argraffiad 2024) t 362.

60 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999, OS 1999/2228.

(1) unrhyw brosiect sy'n cynyddu cynhyrchiant amaethyddol ardal o dir lled-naturiol a/neu dir heb ei drin; a

(2) phrosiectau sy'n cynnwys ailstrwythuro daliadau tir gwledig ac sy'n mynd y tu hwnt i drothwy penodol (y cyfeirir ato fel "y trothwy perthnasol").[61]

6.62 Pan fydd angen penderfyniad sgrinio, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r prosiect dan sylw yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.[62] Os asesir bod prosiect yn debygol o gael yr effeithiau hynny, yna bydd angen i'r sawl sy'n bwriadu ymgymryd â'r prosiect wneud cais am ganiatâd Gweinidogion Cymru ar gyfer y prosiect.[63]

6.63 Efallai y bydd angen i ffermwyr, neu berchnogion tir amaethyddol, hefyd gydymffurfio â'r gofynion AEA a osodir gan Reoliadau EIA TCP (Cymru). O dan y rheoliadau hynny, rhaid cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer datblygiadau penodol cyn y gellir rhoi caniatâd cynllunio.

6.64 Mae Rheoliadau TCP EIA (Cymru) yn eang eu cwmpas ac yn ymestyn i ddatblygiadau a wneir mewn gwahanol gyd-destunau neu sectorau y tu allan i amaethyddiaeth (er enghraifft datblygiadau ar gyfer rhai safleoedd trin dŵr gwastraff, gorsafoedd pwerau thermol, meysydd awyr a chwareli). Efallai y bydd angen i ffermwr hefyd gydymffurfio â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 os ydyw, er enghraifft, yn bwriadu cynnal prosiect coedwigo neu ddatgoedwigo ar ei dir.[64]

### Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru): meini prawf cynnwys

6.65 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan mai nod Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yw sicrhau bod effeithiau prosiectau amaethyddol ar yr amgylchedd yn cael eu hystyried cyn i'r prosiectau hynny ddechrau.[65] Mae Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau yn nodi:

> Mae [Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017] yn sicrhau bod unrhyw brosiectau sy'n debygol o effeithio ar yr amgylchedd yn cael eu hasesu'n ddigonol cyn iddynt ddechrau. ...Mae [Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017] yn ceisio diogelu

---

[61] Gweler Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, OS 2017/565 (Cy 134), rheoliadau 2 a 4. Er mwyn rhoi cyd-destun, nid ydym wedi gallu nodi diffiniad o dirddaliadaeth wledig.

[62] Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, OS 2017/565 (Cy 134), rheoliadau 2 a 7 ar gyfer ystyr prosiect sylweddol.

[63] Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, OS 2017/565 (Cy 134), rheoliad 8.

[64] Mae Rheoliad 3 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, OS 2017/565 (Cy 134) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y prosiectau coedwigaeth sy'n dod o fewn cwmpas Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999, OS 1999/2228.

[65] Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017: Canllawiau Cyffredinol* (2017) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/asesiad-or-effeithiau-amgylcheddol-canllawiau.pdf, t 4.

safleoedd cynefinoedd tir amaethyddol a thir hanesyddol bwysig rhag gweithgarwch amaethyddol niweidiol, yn ogystal â diogelu adnoddau naturiol Cymru.[66]

Felly, rydym o'r farn bod Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn ymwneud â materion amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

6.66 Yn amodol ar esemptiadau, mae Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn berthnasol i brosiectau sy'n cynyddu cynhyrchiant amaethyddol ardal o dir lled-naturiol neu dir heb ei drin. Cyfeirir at brosiectau o'r fath yn aml fel prosiectau dwysáu amaethyddol. Mae memorandwm esboniadol Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn disgrifio cymhwysiad ymarferol y rheoliadau fel a ganlyn:

> Bydd y Rheoliadau'n berthnasol yn bennaf i ffermwyr a rheolwyr tir amaethyddol eraill. Ni fyddant yn berthnasol i dir nad yw'n amaethyddol.[67]

6.67 Felly, rydym o'r farn bod Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn bodloni ein meini prawf i'w cynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA 2017 yn rhan o set o reoliadau cysylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn rhan o fframwaith cyfreithiol ehangach sy'n llywodraethu'r gyfundrefn EIA yng Nghymru. Mae proses yr EIA hefyd yn rhan o drefn Asesu Amgylcheddol ehangach sy'n cwmpasu'r gyfraith ar asesiadau amgylcheddol strategol. Mae ystyriaeth fanwl o'r drefn asesu amgylcheddol strategol y tu allan i gwmpas y papur hwn. Fodd bynnag, yn fyr, mae'r gyfundrefn yn "gofyn am asesiad o effaith rhai cynlluniau a rhaglenni [strategol] ar yr amgylchedd".[68]

6.68 Gyda'i gilydd, mae'r cyfreithiau sy'n rhan o'r gyfundrefn EIA yn ymwneud yn bennaf â diogelu'r amgylchedd. Ar ben hynny, ar wahân i Reoliadau Amaethyddol EIA 2017, mae cwmpas y cyfreithiau sy'n sail i'r drefn Asesu Amgylcheddol yn llawer ehangach nag amaethyddiaeth. Felly, rydym o'r farn y byddai'r cyfreithiau ehangach sy'n darparu ar gyfer y gyfundrefn Asesu Amgylcheddol yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

6.69 Mae ein gwaith at ddibenion yr adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen waith ehangach dan arweiniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu a chodeiddio'r gyfraith ar bynciau datganoledig. Pwrpas cydgrynhoi a chodeiddio yw dod â'r cyfreithiau ar bwnc penodol at ei gilydd a'u cyhoeddi gyda'i gilydd. Yn unol â hynny, rydym o'r farn na fyddai'n ddymunol darnio'r gyfraith ar y gyfundrefn Asesu Amgylcheddol drwy gynnwys dim ond Rheoliadau Amgylcheddol EIA 2017 yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

6.70 Rydym hefyd yn nodi, ar gyfer rhai prosiectau, efallai y bydd angen i ffermwyr gyfeirio at reoliadau eraill sy'n rhan o'r fframwaith deddfwriaethol EIA ehangach hwnnw, a chydymffurfio â nhw. Er enghraifft, gallai prosiect y mae angen caniatâd cynllunio arno sy'n digwydd ar dir amaethyddol ddefnyddio Rheoliadau TCP EIA (Cymru) (gweler

---

66 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, OS 2017/565 (Cy 134), t 2.

67 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007, SI 2007/2933 (Cy 253), t 1.

68 E Fisher, B Lane ac E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il argraffiad 2019), t 693.

paragraff 6.64 uchod). O ystyried y gallai fod gan ffermwyr achos i gyfeirio at ddeddfau eraill sy'n rhan o'r gyfundrefn EIA, rydym o'r farn y byddai o gymorth pe bai'r cyfreithiau hynny ar gael mewn un lle.

6.71 Am y rhesymau uchod, ar ôl pwyso a mesur rydym o'r farn bod Rheoliadau EIA 2017 yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

6.72 Mae paragraffau 6.74 i 6.94 yn ystyried y darpariaethau allweddol yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981") sy'n rheoleiddio neu'n effeithio'n sylweddol fel arall ar ddefnydd tir amaethyddol neu weithgarwch amaethyddol yng Nghymru.

### Adrannau 1 i 8: adar gwyllt

6.73 Mae Rhan 1 Deddf 1981 yn darparu ar gyfer troseddau sydd wedi'u hanelu at ddiogelu adar gwyllt, eu hwyau a'u nythod. Er enghraifft, o dan adran 1 Deddf 1981, mae'n drosedd lladd, anafu neu gymryd unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol neu gymryd neu ddinistrio ŵy unrhyw aderyn gwyllt. Mae adran 1 hefyd yn darparu ar gyfer troseddau sydd wedi'u hanelu at ddiogelu nythod adar gwyllt. Mae Rhan 1 Deddf 1981 yn darparu ymhellach ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â meddu ar adar gwyllt a'u gwerthu.

### Adrannau 1 i 8: meini prawf cynnwys

6.74 Mae canllawiau Defra ar reoli a gwarchod adar gwyllt yn datgan bod Deddf 1981 yn "gwarchod pob aderyn gwyllt ac yn datgan na ellir eu lladd na'u cymryd ac eithrio mewn rhai amgylchiadau".[69] Yn yr un modd, mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn disgrifio Deddf 1981 fel un sy'n cynnig "gwarchodaeth i adar gwyllt, eu hwyau a'u nythod yng Nghymru, Lloegr a'r Alban".[70] Felly, rydym o'r farn nad yw pwnc adrannau 1 i 8 Deddf 1981 yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

6.75 Gellir cyflawni'r gweithredoedd gwaharddedig o ladd neu niweidio adar gwyllt o dan Ran 1 mewn cyd-destunau amaethyddol ac anamaethyddol.[71] Felly, nid yw cymhwyso adrannau 1 i 8 Rhan 1 Deddf 1981 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod adrannau 1 i 8 Deddf 1981 yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God.

### Adrannau 9 a 13: diogelu anifeiliaid gwyllt a phlanhigion gwyllt

6.76 Mae'n drosedd i unrhyw berson ladd, anafu neu gymryd yn fwriadol neu'n ddi-hid unrhyw anifail gwyllt a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf 1981.[72] O dan adran 9(2), mae

---

69 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Lloegr Naturiol, *Wild birds: management and legal protection guidance* (2012) https://www.gov.uk/guidance/wild-birds#:~:text=The%20main%20law%20applying%20to,the%20authority%20of%20a%20licence.

70 RSPB, "What does the Wildlife and Countryside Act 1981 do?" https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-and-countryside-act.

71 I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i'r drosedd o gi sy'n aflonyddu neu'n ymosod ar dda byw o dan Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953, adran 1, ddigwydd ar dir amaethyddol.

72 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a 9(1).

hefyd yn drosedd i berson feddu ar neu reoli unrhyw anifail byw neu farw a restrir yn Atodlen 5 neu unrhyw beth sy'n deillio o anifail o'r fath.

6.77 Mae adran 13 yn ei gwneud yn drosedd i berson yn fwriadol neu'n ddi-hid godi, dadwreiddio neu ddinistrio planhigyn gwyllt a restrir yn Atodlen 8, neu unrhyw hedyn neu sborau sydd ynghlwm wrth blanhigyn o'r fath. Mae hefyd yn drosedd i berson dynnu unrhyw fath arall o blanhigyn gwyllt yn fwriadol neu'n ddi-hid oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny.[73]

### Adrannau 9 a 13: meini prawf cynnwys

6.78 Nid yw adrannau 9 a 13 Deddf 1981 yn ymwneud â da byw na chnydau amaethyddol. Yn ogystal, gall unrhyw berson gyflawni'r troseddau a bennir o dan y darpariaethau hynny ar unrhyw fath o dir. Am y rhesymau hynny, rydym o'r farn nad yw'r darpariaethau perthnasol - adrannau 9 a 13 - yn bodloni ein meini prawf cynnwys ac, o ganlyniad, eu bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God.

### Adrannau 27AA i 33: safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig

6.79 Mae safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ("SoDdGA") yn safle y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi ei fod o ddiddordeb arbennig oherwydd unrhyw un o'i fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol.[74] Mae NRW yn adrodd bod "mwy na 1,000 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru, sy'n cwmpasu tua 12% o arwynebedd y wlad".[75] Mae gan bob SoDdGA restr o weithrediadau, neu weithgareddau, sy'n debygol o niweidio buddiannau arbennig y safle.

6.80 Bydd gweithrediadau amaethyddol, fel pori da byw, aredig, ail-hau neu waith draenio, fel arfer yn weithrediadau a nodir mewn hysbysiad safle fel rhai sy'n debygol o ddifrodi SoDdGA.[76] Fodd bynnag, gall hysbysiad dynodi SoDdGA gyfyngu ar weithrediadau neu weithgareddau eraill nad ydynt yn amaethyddol eu natur. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith cloddio mwynau, cyflwyno gwaith rheoli coetiroedd, adeiladu ffyrdd, defnyddio'r tir ar gyfer gweithgareddau hamdden a dympio, taenu neu ollwng unrhyw ddeunyddiau.

6.81 Rhaid i berchennog neu feddiannydd tir o fewn SoDdGA beidio â chyflawni, na pheri na chaniatáu cyflawni, unrhyw weithred a bennir yn yr hysbysiad fel un sy'n debygol o niweidio buddiannau cadwraeth y safle oni fodlonir gofynion penodol. Y gofyniad cyntaf yw bod yn rhaid i'r perchennog neu'r meddiannydd roi hysbysiad i NRW o'r bwriad i gyflawni'r gwaith.[77] Yr ail ofyniad yw bod yn rhaid cyflawni'r gwaith:

---

73 Y personau awdurdodedig at ddibenion adran 13 yw'r rhai a restrir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 27(1).

74 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 28.

75 Cyfoeth Naturiol Cymru, "Mathau o ardaloedd tir a môr gwarchodedig" (diweddarwyd ddiwethaf 2023) https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/types-of-protected-areas-of-land-and-sea/?lang=cy.

76 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 13.11.

77 Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 28E(1) yn datgan bod yn rhaid i'r hysbysiad nodi natur y gwaith arfaethedig a'r tir y bwriedir ei gyflawni arno.

(1) gyda chaniatâd ysgrifenedig CNC;

(2) yn unol â thelerau cytundeb rheoli;[78] neu

(3) yn unol â chynllun rheoli neu hysbysiad rheoli.

6.82 Ar ôl ymgynghori â phersonau penodedig, gall NRW baratoi a hysbysu cynllun rheoli ar gyfer y SoDdGA cyfan neu ran ohono.[79] Mae cynllun rheoli yn gynllun sydd wedi'i anelu at warchod neu adfer y fflora, y ffawna neu'r nodweddion ffisiograffigol daearegol y mae'r tir wedi'i ddynodi'n SoDdGA o'u herwydd.

6.83 Os nad yw deiliad neu berchennog y tir yn cydymffurfio â thelerau cynllun rheoli, yna gall NRW roi hysbysiad rheoli. Gall hysbysiad rheoli ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog neu'r deiliad dan sylw wneud gwaith ar y tir neu gymryd camau eraill mewn perthynas â'r tir.[80]

### Adrannau 27AA i 33: meini prawf cynnwys

6.84 Mae'r drefn SoDdGA yn gwarchod "nid yn unig anifeiliaid a phlanhigion, ond ardaloedd o ddiddordeb daearegol hefyd".[81] At hynny, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddynodi tir i'w warchod fel SoDdGA onid ydynt o'r farn bod y tir o ddiddordeb arbennig oherwydd unrhyw un o'i fflora, ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffigol. Yn unol â hynny, rydym o'r farn nad yw darpariaethau perthnasol Deddf 1981 - adrannau 27AA i adran 33 - yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond yn hytrach â chadwraeth natur a bywyd gwyllt.

6.85 Mae'n anodd asesu a oes gan SoDdGA ddefnydd ymarferol sydd wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. O ystyried bod tua 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, gellir tybio'n rhesymol y bydd cyfran uchel o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'u lleoli ar dir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol. Yn 2011, lluniodd Natural England adroddiad a oedd yn edrych ar berchnogaeth a defnydd tir mynychaf SoDdGA yn Lloegr. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y rhan fwyaf o SoDdGA yn Lloegr yn eiddo i unigolion preifat (39% o'r holl SoDdGA) ond bod SoDdGA hefyd yn eiddo i'r llywodraeth (28%), cyrff cadwraeth (15%) a llywodraeth leol (4%).[82] Rhestrwyd y defnydd tir mynychaf ar gyfer SoDdGA yn Lloegr fel a ganlyn:

(1) amaethyddiaeth;

(2) cadwraeth;

(3) chwaraeon a hamdden;

---

[78] Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i ymrwymo i gytundebau rheoli o'r fath o dan ddarpariaethau sy'n cynnwys adran 16 Deddf Parciau Cenedlaethol a Chefn Gwlad 1949 ac adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3).

[79] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 28J.

[80] Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 28K.

[81] S Bell ac eraill, *Environmental Law* (10fed argraffiad 2024) t 20.

[82] Cafodd y 4% arall o SoDdGA yn Lloegr eu categoreiddio fel rhai sy'n eiddo i "eraill".

(4) dim defnydd gweithredol;

(5) milwrol; a

(6) choedwigaeth.

6.86 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth gyfatebol ynghylch perchnogaeth na defnydd tir SoDdGA yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes gennym reswm i ddod i'r casgliad nad yw perchenogaeth a defnydd tir safleoedd o'r fath yng Nghymru yn gymharol eang ac amrywiol. Felly, rydym yn dod i'r casgliad petrus nad yw cymhwyso cyfundrefn ddeddfwriaethol SoDdGA yn ymarferol wedi'i chyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.87 Ar ben hynny, rydym o'r farn ei bod yn berthnasol bod y gyfundrefn SoDdGA yn dod o fewn fframwaith cyfreithiol rhyngberthynol ehangach sy'n llywodraethu safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion cadwraeth natur neu fywyd gwyllt. Gyda'i gilydd, cyfeirir at y safleoedd dynodedig hyn yn aml fel ardaloedd gwarchodedig. Gall enghreifftiau o safleoedd o'r fath gynnwys gwarchodfeydd natur, gwarchodfeydd natur cenedlaethol, parciau cenedlaethol, ardaloedd cadwraeth arbennig, ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig (ymhlith eraill).

6.88 Mae'n bosibl hefyd i un ardal ddod o fewn mwy nag un dynodiad neu hysbysiad. Er enghraifft, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd bod yr holl warchodfeydd natur cenedlaethol hefyd wedi'u dynodi'n SoDdGA a bod y rhan fwyaf wedi'u dynodi ymhellach naill ai'n ardaloedd cadwraeth arbennig neu'n ardaloedd gwarchodaeth arbennig.[83] O safbwynt codeiddio, gallai fod yn ddymunol i'r gwahanol gyfreithiau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gwahanol gyfundrefnau ardaloedd gwarchodedig gael eu cynnwys mewn un cod o gyfraith Cymru. Yn hynny o beth, rydym yn cydnabod bod ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen waith ehangach dan arweiniad Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi, codeiddio a gwella hygyrchedd y gyfraith ar bynciau datganoledig.[84]

6.89 Ar ben hynny, fel ffordd bragmataidd o werthuso addasrwydd i'w cynnwys, rydym hefyd wedi asesu cyfran y darpariaethau yn Neddf 1981 sy'n ymwneud â'r gyfundrefn SoDdGA sy'n cyfeirio at amaethyddiaeth. Dim ond un ddarpariaeth yr ydym wedi'i nodi: adran 32 Deddf 1981. Yn gryno, mae adran 32 Deddf 1981 yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswyddau Gweinidogion Cymru wrth ddyroddi grantiau cyfalaf ffermydd o dan adran 29 Deddf Amaethyddiaeth 1970 mewn perthynas â thir sydd wedi'i ddynodi'n SoDdGA.[85] Nid oes unrhyw ddarpariaethau eraill yn Neddf 1981, sy'n ymwneud â'r gyfundrefn SoDdGA, yn cyfeirio'n uniongyrchol at amaethyddiaeth.

---

83 Cyfoeth Naturiol Cymru, “Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol” (diweddarwyd ddiwethaf 2023) https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy.

84 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol Cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-ddiwygiedig-2021-i-2026-html.

85 Ym Mhennod 5, rydym yn ystyried y pwerau i ddyroddi grantiau cyfalaf ffermydd o dan adran 29 Deddf Amaethyddiaeth 1970 ac yn dod i'r casgliad eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God ar yr amod bod y pwerau hynny'n dal o werth neu ddefnydd ymarferol. Yng ngoleuni'r berthynas rhwng adran 32 ac adran 29

6.90 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod y gyfundrefn SoDdGA, fel y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf 1981, yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God.

### Adran 39: cytundebau rheoli

6.91 O dan adran 39 Deddf 1981, gall awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ymrwymo i gytundeb rheoli tir mewn perthynas ag unrhyw dir yn ei ardal lle mae'r cytundeb at y naill neu'r llall o'r dibenion canlynol:

(1) gwarchod neu wella harddwch naturiol neu amwynder y tir; neu

(2) hyrwyddo mwynhad y cyhoedd ohono.

6.92 Ymhlith materion eraill, caiff cytundeb rheoli tir yr ymrwymir iddo o dan adran 39 osod cyfyngiadau ar ddefnyddio'r tir at ddibenion amaethyddol.[86]

### Adran 39: meini prawf cynnwys

6.93 Mae adran 39 Deddf 1981 yn ymwneud â chadwraeth natur a mynediad i gefn gwlad (fel y nodir gan y diben statudol y cyfeirir ato ym mharagraff 6.91 uchod). Gellir ymrwymo i gytundeb rheoli tir mewn perthynas ag unrhyw dir ni waeth a yw'n cael ei ddefnyddio at ddiben amaethyddol ai peidio. Gall cytundeb o'r fath ddarparu ar gyfer cyfyngiadau ar ddefnyddio tir at ddibenion amaethyddol, ond hefyd mewn perthynas â defnyddiau a gweithgareddau tir eraill. Felly, nid yw cymhwyso adran 39 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod adran 39 Deddf 1981 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God.

## Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

6.94 O dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (“Rheoliadau 2017”) gellir dynodi safleoedd i'w gwarchod. Tra bu’r DU yn aelod o'r UE, roedd Rheoliadau 2017 yn gweithredu Cyfarwyddeb 2009/147/CE (a elwir yn “Gyfarwyddeb Adar Gwyllt”) a Chyfarwyddeb y Cyngor 92/43/CEE (a elwir yn “Gyfarwyddeb Cynefinoedd”).

6.95 Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn caniatáu i safleoedd sy'n bodloni meini prawf penodol gael eu dynodi fel a ganlyn:

(1) ardaloedd gwarchodaeth arbennig;

(2) ardaloedd cadwraeth arbennig; neu

(3) safleoedd o ddiddordeb cymunedol.[87]

---

Deddf 1970, os caiff adran 29 Deddf 1970 ei chynnwys yn y darpar God, rydym o'r farn y byddai hefyd yn synhwyrol cynnwys adran 32 Deddf 1981 yn y darpar God.

86 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 39(2).

87 Safle a oedd ar y rhestr y cyfeirir ati yn is-baragraff erthygl 4(2) Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/CEE (rhestr o safleoedd o bwys i'r Gymuned) cyn y diwrnod ymadael: Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, OS 2017/1012, rheoliad 8(1)(b).

6.96 Mae ardaloedd gwarchodaeth arbennig yn safleoedd sydd wedi'u dynodi yng Nghymru at ddibenion gwarchod adar gwyllt sydd wedi'u rhestru fel rhai prin ac agored i niwed yn y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt a rhai rhywogaethau eraill o adar mudol.[88]

6.97 Mae ardaloedd cadwraeth arbennig yn safleoedd sydd wedi'u dynodi yng Nghymru o dan reoliad 12 Rheoliadau 2017 at ddibenion gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt a chynnal bioamrywiaeth.

6.98 Gyda'i gilydd, mae ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig, yn amodol ar ddyddiad dosbarthu'r safle, yn cael eu galw'n Safleoedd Ewropeaidd.[89] Pan fo safle wedi'i ddynodi'n Safle Ewropeaidd, yna mae Rheoliadau 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfyngiadau neu waharddiadau y gellir eu gosod mewn perthynas â'r ffordd y defnyddir tir.

6.99 Er enghraifft, caiff NRW ymrwymo i gytundebau rheoli gyda pherson sydd â buddiant mewn tir sy'n rhan o safle Ewropeaidd, neu mewn tir sy'n ffinio â safle o'r fath.[90] Ymhlith materion eraill, caiff cytundeb rheoli o'r fath osod cyfyngiadau mewn cysylltiad â defnyddio'r tir o dan sylw.

### Ardaloedd gwarchodaeth arbennig ac ardaloedd cadwraeth arbennig: meini prawf cynnwys

6.100 Fel y nodwyd uchod, dim ond at ddibenion penodol y gellir dynodi tir yn ardal gwarchodaeth arbennig ac yn ardal gadwraeth arbennig. Yn fras, pwrpas dynodi tir yn ardal gwarchodaeth arbennig yw gwarchod adar gwyllt penodol. Pwrpas cyffredinol dynodi ardal yn ardal gadwraeth arbennig yw gwarchod natur a bywyd gwyllt. Yn unol â hynny, rydym o'r farn nad yw Rheoliadau 2017 yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

6.101 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw ffynonellau sy'n cynnig trosolwg o brif ddefnyddiau ardaloedd gwarchodaeth arbennig neu ardaloedd cadwraeth arbennig. Felly, mae'n anodd asesu a oes gan Reoliadau 2017 gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Fodd bynnag, yn yr un modd â'n hasesiad ar gyfer y gyfundrefn SoDdGA, nodwn fod 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Felly, mae'n rhesymegol dod i'r casgliad bod cyfran o ardaloedd gwarchodaeth arbennig ac ardaloedd cadwraeth arbennig yn cael eu defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth.

6.102 Mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn cadw rhestr o ardaloedd cadwraeth arbennig yng Nghymru sy'n cofnodi nodweddion allweddol pob un o'r ardaloedd hynny.[91] Gyda'i gilydd, mae'r nodweddion a gofnodwyd yn dangos y gall ardaloedd cadwraeth

---

88 Gweler Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, OS 2017/1012, rheoliad 15 a Cyfoeth Naturiol Cymru, “Safleoedd a ddiogelir gan gyfraith Ewropeaidd a rhyngwladol” (diweddarwyd ddiwethaf 2023) https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/sites-protected-by-european-and-international-law/?lang=cy.

89 Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ochr yn ochr â safleoedd Ewropeaidd, safleoedd morol Ewropeaidd a safleoedd morol alltraeth Ewropeaidd, yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol (rheoliad 3(1) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, OS 2017/1012).

90 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, OS 2017/1012, rheoliad 20.

91 JNCC, “List of SACs in Wales” https://sac.jncc.gov.uk/site/wales.

arbennig yng Nghymru gynnwys glaswelltir, coetir, corsydd a mignedd, cyrff dŵr mewndirol fel llynnoedd a thir a ddefnyddir ar gyfer trefi, pentrefi a ffyrdd. Yn ogystal, mae llawer o'r tir a ddynodwyd fel ardaloedd gwarchod arbennig yng Nghymru yn arfordirol neu'n forol. Mae natur amrywiol y tir sydd wedi'i gynnwys mewn ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig yng Nghymru yn dangos y byddai'r tir dan sylw yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol at amrywiaeth eang o ddibenion.[92]

6.103 Am yr holl resymau uchod, rydym o'r farn nad yw Rheoliadau 2017 yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys a'u bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God.

### Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949

6.104 Mae Rhan 2 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ("Deddf 1949") yn gwneud darpariaeth ar gyfer parciau cenedlaethol. O dan adrannau 4A a 5 Deddf 1949, gall NRW ddynodi'r rhannau helaeth hynny o'r wlad yng Nghymru yn barciau cenedlaethol sydd, oherwydd eu harddwch naturiol a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored, yn golygu ei bod yn ddymunol i fesurau angenrheidiol gael eu cymryd i ddiogelu a gwarchod eu harddwch naturiol.[93] Mae tri pharc cenedlaethol yng Nghymru: Arfordir Penfro (Pembrokeshire Coast), Bannau Brycheiniog (Brecon Beacons) ac Eryri (Snowdonia).

6.105 Awdurdodau parciau cenedlaethol sy'n rheoli parciau cenedlaethol.[94] Mae Deddf 1981 yn darparu y caiff awdurdod parc cenedlaethol ddyroddi gorchmynion sy'n gosod cyfyngiadau ychwanegol ar gynnal gweithrediadau amaethyddol ar dir sy'n cynnwys rhosydd neu rostir mewn parc cenedlaethol dynodedig.[95] Nid ydym wedi nodi unrhyw orchmynion o'r fath a wnaed gan unrhyw un o'r parciau cenedlaethol yng Nghymru.

#### Parciau Cenedlaethol: meini prawf cynnwys

6.106 Nod cyfundrefn ddeddfwriaethol y parciau cenedlaethol yw:

(1) gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardaloedd parciau cenedlaethol; a

(2) hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

Yng ngoleuni diben statudol cyfundrefn ddeddfwriaethol y parciau cenedlaethol, deuwn i'r casgliad nad yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

---

92 Cyfoeth Naturiol Cymru, “Ardaloedd tir a môr gwarchodedig” (diweddarwyd ddiwethaf Awst 2025) https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/find-protected-areas-of-land-and-sea/?lang=cy.

93 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, adran 5(2).

94 Mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn awdurdodau a sefydlwyd drwy orchymyn mewn pwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995. Sefydlwyd awdurdodau parciau cenedlaethol ar gyfer y tri pharc cenedlaethol yng Nghymru gan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, OS 1995/2803.

95 Awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru yw'r awdurdodau hynny a ddynodwyd yng Ngorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, OS 1995/2803.

6.107 Adroddodd astudiaeth o barciau cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd yn 2013, fod defnydd tir amaethyddol yn nodwedd o bob un o'r tri pharc cenedlaethol a ddynodwyd yng Nghymru. Fodd bynnag, canfu'r astudiaeth fod economïau'r parciau cenedlaethol yn "gymharol amrywiol gyda chynrychiolaeth eang o wahanol sectorau economaidd".[96] Felly, rydym o'r farn nad yw cymhwyso cyfundrefn ddeddfwriaethol y parciau cenedlaethol yn ymarferol wedi'i chyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.108 Ar ben hynny, yn y gyfundrefn ddeddfwriaethol ar gyfer parciau cenedlaethol, dim ond un ddarpariaeth statudol yr ydym wedi'i nodi sy'n cyfeirio'n benodol at amaethyddiaeth: adran 42 Deddf 1981. Mae adran 42 Deddf 1981 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y modd y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau o dan adran 29 Deddf Amaethyddiaeth 1970 ("Deddf 1970") wrth ddyroddi grant cyfalaf ffermydd mewn cysylltiad â thir sydd wedi'i leoli mewn parc cenedlaethol yng Nghymru. Er enghraifft, wrth ddyroddi grant cyfalaf ffermydd mewn perthynas â thir sydd wedi'i leoli mewn parc cenedlaethol rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau rhoi grantiau mewn modd sy'n hybu cadwraeth a gwella harddwch naturiol ac amwynder cefn gwlad. Rydym yn ystyried y pwerau i ddyroddi grantiau cyfalaf ffermydd o dan adran 29 Deddf 1970 ym Mhennod 5, a dod i'r casgliad eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God ar yr amod bod y pwerau hynny'n dal o werth neu ddefnydd ymarferol.

6.109 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod y darpariaethau yn Rhan 2 Deddf 1949 yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God Fodd bynnag, yng ngoleuni'r berthynas uniongyrchol rhwng adran 42 Deddf 1981 ac adran 29 Deddf 1970, rydym o'r farn, os yw adran 29 Deddf 1970 yn cael ei chynnwys yn y darpar God, y byddai hefyd yn synhwyrol cynnwys adran 42 Deddf 1981 yn y darpar God.

### Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a gwarchodfeydd natur

6.110 O dan adran 82(2) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, gall NRW ddynodi drwy orchymyn ardal o dir yng Nghymru yn ardal o harddwch naturiol eithriadol at ddibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal.[97] Fodd bynnag, ni ellir dynodi tir mewn parc cenedlaethol yn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Mae pum ardal o harddwch naturiol eithriadol yng Nghymru, a gafodd eu hailfrandio fel tirweddau cenedlaethol ym mis Tachwedd 2023.[98] Fodd bynnag, mae'r term ardal o harddwch naturiol eithriadol yn dal i gael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth.

6.111 Rhaid i fwrdd cadwraeth ar gyfer ardal o harddwch naturiol eithriadol gyhoeddi cynllun sy'n nodi ei bolisi ar gyfer rheoli'r ardal. Gall polisi o'r fath wneud darpariaeth ynghylch math neu faint y gweithgarwch amaethyddol a ganiateir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol.

---

[96] Parciau Cenedlaethol Cymru, "Valuing Wales' National Parks" (Medi 2013) https://www.nationalparkswales.uk/_data/assets/pdf_file/0026/18674/Valuing-Wales-National-Parks-.pdf, 14.

[97] Rhaid i orchymyn a roddir o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adran 82(2) fodloni gofynion gweithdrefnol a nodir yn adran 83 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer ymgynghori ag awdurdodau lleol.

[98] Croeso Cymru, "Wales' top National Landscapes" https://www.visitwales.com/things-do/nature-and-landscapes/welsh-areas-outstanding-natural-beauty.

6.112 Mae Rhan 3 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwarchodfeydd natur. Mae gwarchodfa natur yn dir sy'n cael ei reoli naill ai:

(1) at ddiben cadwraeth yn unig; neu

(2) nid yn unig at ddiben cadwraeth ond hefyd at ddiben hamdden, os nad yw rheoli'r tir at y diben hamdden yn peryglu ei reolaeth at ddibenion cadwraeth.[99]

6.113 Er nad yw wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, gellir defnyddio gwarchodfeydd natur yn ymarferol hefyd at ddibenion amaethyddol, fel pori da byw, lle mae'r gweithgarwch yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cefnogi neu'n ategu cadwraeth.[100]

6.114 O dan adran 21 Deddf 1949, rhoddir pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru sefydlu gwarchodfeydd natur yn eu hardaloedd lleol. O dan adran 35 Deddf 1981, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ddynodi gwarchodfa natur yn warchodfa natur genedlaethol os yw o'r farn bod y safle o bwysigrwydd cenedlaethol, ar yr amod bod gofynion ac amodau perthnasol yn cael eu bodloni.[101]

### Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a gwarchodfeydd natur: meini prawf cynnwys

6.115 Er bod modd defnyddio tir sydd wedi'i ddynodi'n warchodfa natur ar gyfer amaethyddiaeth, diben statudol gwarchodfa natur yw gwarchod tir at ddibenion cadwraeth neu at ddibenion cadwraeth a hamdden.[102] Rydym felly'n dod i'r casgliad nad yw pwnc y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwarchodfeydd natur yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Am yr un rheswm, deuwn i'r casgliad nad oes cymhwysiad ymarferol i ddeddfwriaeth sydd wedi'i chyfyngu i amaethyddiaeth neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.116 Mae Croeso Cymru yn disgrifio ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol fel “ardaloedd gweithio a byw y mae eu tirweddau, eu diwylliant, eu fflora a'u ffawna yn cael eu hystyried yn ased i'r genedl”.[103] Yng ngoleuni'r disgrifiad hwn a diben statudol ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, rydym yn dod i'r casgliad nad yw cymhwyso'r gyfraith berthnasol yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth, nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.117 Am y rhesymau a nodir uchod, rydym o'r farn bod y priod fframweithiau cyfreithiol ar gyfer ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a gwarchodfeydd natur yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

---

99 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, adran 15(1).

100 Ymddiriedolaethau Natur Cymru, “Farming and wildlife” https://www.wtwales.org/farming-and-wildlife.

101 Cyfoeth Naturiol Cymru, “Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol” (diweddarwyd ddiwethaf 2023) https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy.

102 An extraordinary challenge: Restoring 30 per cent of our land and sea by 2030, Report of the Environment and Climate Change Committee (2022-23) HL 234.

103 Croeso Cymru, “Wales’ top National Landscapes” https://www.visitwales.com/things-do/nature-and-landscapes/welsh-areas-outstanding-natural-beauty.

### Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 ac adran 152 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

6.118 Mae Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 (“Rheoliadau 1993”) yn gymwys i Gymru a Lloegr. Mae Rheoliadau 1993 yn gwahardd llosgi mathau penodedig o weddillion cnydau (er enghraifft, gwellt ŷd a sofl, gweddillion hadau olew) ar dir amaethyddol. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r gwaharddiad a osodir o dan Reoliadau 1993 os yw'r llosgi at ddibenion addysg neu ymchwil, neu ar gyfer gwaredu gweddillion tas wair neu fyrnau wedi torri.[104] Rhaid dilyn rhai cyfyngiadau a gofynion o dan yr amgylchiadau cyfyngedig pan ganiateir llosgi o'r fath.

6.119 Mae Rheoliadau 1993 wedi eu deddfu o dan bwerau y darperir ar eu cyfer o dan adran 152 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (“Deddf 1990”).[105] Mae adran 152 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi rheoliadau sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar losgi gweddillion cnydau ar dir amaethyddol gan bersonau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth.

#### Llosgi cnydau: meini prawf cynnwys

6.120 Mae canllawiau Defra ar losgi cnydau yn nodi mai nod gwaharddiadau a chyfyngiadau a osodir dan Reoliadau 1993 yw diogelu'r amgylchedd ac osgoi achosi niwsans cyhoeddus.[106] Mae Rheoliadau 1993 yn gymwys i losgi a gyflawnir gan berson sy'n ymgymryd ag amaethyddiaeth ac sy'n digwydd ar dir amaethyddol yn unig. Rydym felly o'r farn bod Rheoliadau 1993 ac adran 152 Deddf 1990 ill dau yn ymwneud â phynciau'r amgylchedd ac amaethyddiaeth. At hynny, mae cwmpas neu gymhwysiad ymarferol adran 152 Deddf 1990 a Rheoliadau 1993 felly wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth, neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

6.121 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod adran 152 Deddf 1990 a Rheoliadau 1993 yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## MATERION SY'N HAEDDU DADANSODDIAD PELLACH

### Cwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

6.122 Yn y bennod hon, rydym wedi nodi amrywiaeth o gyfreithiau a darpariaethau deddfwriaethol sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God.

(1) Adran 97 Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

---

104 Mae Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993, OS 1993/1366, rheoliad 4 hefyd yn caniatáu llosgi at ddibenion rheoli clefydau neu ddileu plâu planhigion pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan erth 22 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993, OS 1993/1320. Fodd bynnag, mae Gorchymyn 1993 wedi'i ddirymu yng Nghymru ers hynny gan Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006, OS 2006/1643 (Cy 158).

105 Trosglwyddwyd y pwerau gwneud rheoliadau y darperir ar eu cyfer o dan adran 152 Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 i Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

106 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Burning crop residues: restrictions and rules for farmers and land managers* (Rhagfyr 2021) https://www.gov.uk/guidance/burning-crop-residues-restrictions-and-rules-for-farmers-and-land-managers.

(2) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

(3) Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993.

(4) Adran 152 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

6.123 Bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol. Felly, efallai yr ystyrir ei bod yn anfoddhaol i'r darpar god cyfraith amaethyddol eithrio'r cyfreithiau amgylcheddol hynny sy'n berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol. O ganlyniad, rydym yn ystyried isod i ba raddau y gall cyfeirio liniaru'r mater hwn yn foddhaol.

## Cyfeirio at gyfraith amgylcheddol

6.124 Gallai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at gyfreithiau amgylcheddol sydd y tu allan i'r darpar God, ond sydd serch hynny'n berthnasol i'r sector amaethyddol.[107] Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod darllenwyr y darpar God yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth hon a'u bod yn gallu nodi a lleoli'r cyfreithiau amgylcheddol hynny a allai fod yn berthnasol iddynt. Felly gallai cyfeirio wella hygyrchedd cyfraith amgylcheddol sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol hyd yn oed os yw'r rhan fwyaf o ddeddfau o'r fath wedi'u heithrio o gwmpas y darpar God.

6.125 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai cyfeirio fod yn ateb amherffaith yn y cyd-destun hwn. Fel y mae eraill wedi pwysleisio, mae cyfraith amgylcheddol yn croestorri i raddau helaeth â deddfwriaeth amaethyddol.[108] Felly, efallai y bydd angen i unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at nifer sylweddol o gyfreithiau amgylcheddol tameidiog. Ymhellach, nodwn fod adolygiad *Hwyluso'r Drefn* 2011 o reoleiddio amaethyddol yng Nghymru wedi adrodd fel a ganlyn: "dywedodd ffermwyr...fod rheoliadau amgylcheddol ymysg y rhai mwyaf cymhleth".[109] Felly, gellid ystyried bod eithrio'r rhan fwyaf o'r cyfreithiau a drafodir yn y bennod hon fel cyfle a gollwyd i wella hygyrchedd deddfau amgylcheddol sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol.

6.126 Mae ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen ehangach i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru fel sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru.[110] At ddibenion yr adroddiad hwn, ni ofynnwyd i ni roi sylwadau ar ffurf a chynnwys codau posibl eraill o gyfraith Cymru yn y dyfodol ar wahanol bynciau. Fodd bynnag, nodwn, yng nghyd-destun Cymru, mai nod codeiddio yw trefnu'r gyfraith ar bynciau datganoledig yn godau cyfraith. Felly, nid datblygu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yw'r unig gyfle i wella hygyrchedd y cyfreithiau amgylcheddol hynny sy'n benodol berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol.

---

107 Mae Pennod 1 yn amlinellu'r hyn a olyga'r term cyfeirio i ni.

108 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) t 3; M Alabrese ac eraill, *Agricultural Law Current Issues from a Global Perspective* (1af argraffiad 2017) t 10.

109 G Williams, *Hwyluso'r Drefn: Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio* (Rhagfyr 2011) t 44.

110 Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), adran 2.

6.127 Er gwaethaf ein sylwadau uchod, nid ydym yn tanbrisio maint y gwaith a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw ymdrechion i wella hygyrchedd cyfraith amgylcheddol. Derbynnir yn gyffredinol fod y deddfau sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd a bywyd gwyllt yn swmpus iawn ac yn dameidiog.[111] Er mwyn gwneud y dasg dan sylw yn haws ei rheoli, gallai unrhyw ymdrech i wella hygyrchedd y cyfreithiau amgylcheddol hynny sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol ganolbwyntio ar faes penodol o gyfraith amgylcheddol.

6.128 Mae corff cyfraith amgylcheddol yn aml yn cael ei drin fel un sy'n cwmpasu cyfreithiau sydd â'r nod o warchod a diogelu bywyd gwyllt a'u cynefinoedd. Er enghraifft, mae nifer o destunau blaenllaw ar gyfraith amgylcheddol yn cynnwys archwilio cyfreithiau sydd â'r nod o gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt.[112] Yn hynny o beth, rydym yn nodi bod adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen Dyfodol Cyfraith Cymru yn adrodd bod gwaith cwmpasu cychwynnol wedi cael ei wneud i asesu a allai cyfraith bywyd gwyllt fod yn addas i'w chydgrynhoi.[113]

6.129 Fel rydym yn ei ystyried yn y bennod hon, mae nifer o gyfreithiau sydd wedi'u hanelu at warchod bywyd gwyllt a'u cynefinoedd sy'n berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol. Mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt yn cael eu hystyried yn dameidiog, fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2016 ar gyfraith bywyd gwyllt.[114] Yn nodedig, daeth adroddiad annibynnol diweddar a gynhyrchwyd gan yr Athro Nurse a Dr Hejny i'r casgliad bod canfyddiadau Comisiwn y Gyfraith yn ein hadroddiad cyfraith bywyd gwyllt ynghylch yr angen i gyfnerthu cyfraith bywyd gwyllt yn parhau i fod yn ddilys. O ganlyniad, mae eu hadroddiad, sy'n dwyn y teitl *Wildlife Law Reform*, yn argymell bod "cyfraith bywyd gwyllt y DU yn cael ei chydgysylltu'n un statud sy'n cryfhau lefelau diogelu ar draws bywyd gwyllt y DU...".[115] Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â gwaith o'r fath yn fater i Lywodraeth Cymru. [116]

## Pwerau galluogi sylfaenol

6.130 Ym Mhennod 4, rydym yn nodi'r ystyriaeth ynghylch a ddylid cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn amodol ar a yw'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol wedi'u cynnwys yn y darpar God. Yn y bennod honno, rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu dull hyblyg, sy'n caniatáu (fesul achos) ar gyfer y posibilrwydd o gynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God hyd yn oed os yw'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol wedi'u heithrio. Rydym yn defnyddio'r term pwerau galluogi sylfaenol i gyfeirio at y darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi

---

[111] D Corry, *Delivering economic growth and nature recovery: An independent review of Defra's regulatory landscape* (Ebrill 2025).

[112] Gweler, er enghraifft, E Fisher, B Lane ac E Scotford, *Environmental Law: Text, Cases and Materials* (2il agraffiad 2019) a hefyd S Bell and others, *Environmental Law* (10fed argraffiad 2024).

[113] Llywodraeth Cymru, *Dyfodol Cyfraith Cymru: adroddiad blynyddol 2023 i 2024* (Rhagfyr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html, paragraff 8.

[114] Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362.

[115] Ysgol y Gyfraith ARU, "Wildlife Law Reform" (Chwefror 2025).

[116] Llywodraeth Cymru, *Dyfodol Cyfraith Cymru: adroddiad blynyddol 2023 i 2024* (Rhagfyr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-adroddiad-blynyddol-2023-i-2024-html, paragraff 8.

pwerau i weinidogion y llywodraeth wneud is-ddeddfwriaeth fel rheoliadau neu orchmynion.

6.131 Ym mharagraff 6.26 uchod, rydym yn cynnig bod Rheoliadau CoAP 2021 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God ond rydym yn dod i'r casgliad nad yw'r pwerau galluogi sylfaenol y gwneir y rheoliadau hynny oddi tanynt yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys. Mae'r prif bwerau galluogi o dan sylw wedi eu cynnwys yn adran 92 Deddf 1991. Ym mharagraff 6.18, rydym yn dod i'r casgliad bod adran 92 Deddf 1991 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God ar y seiliau a amlinellir isod.

(1) Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â'r amgylchedd a llygredd dŵr.

(2) Nid yw cymhwyso’r ddarpariaeth yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Mae'r pwerau galluogi sylfaenol y darperir ar eu cyfer o dan adran 92 wedi cael eu harfer i reoleiddio ar gyfer rheoli olew mewn cyd-destunau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i amaethyddiaeth.

6.132 Ym Mhennod 4, rydym yn cydnabod bod yna elfen gynhenid o ddarnio sy'n gysylltiedig â chynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru tra bo'r pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol wedi'u heithrio. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod dadleuon cryf dros gynnwys Rheoliadau CoAP 2021 yn y darpar God.

(1) Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn berthnasol yn ymarferol i'r sector amaethyddol yn unig.

(2) Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn berthnasol i bob fferm yng Nghymru.[117]

(3) Mae Rheoliadau CoAP 2021 yn gosod gofynion rhagnodol ynghylch y ffordd y cyflawnir gweithgarwch amaethyddol penodol. Felly, mae angen dybryd ar ffermwyr i gael mynediad at, a deall y gofynion cyfreithiol a osodir o dan Reoliadau 2021. Bydd sicrhau bod ffermwyr yn gallu cael gafael ar Reoliadau CoAP 2021 a'u deall yn rhwydd hefyd yn allweddol i'w gorfodi'n effeithiol.

(4) Mae Rheoliadau CoAP 2021 wedi denu trafodaeth a chraffu eang a pharhaus ar draws y sector amaethyddol ers eu cyflwyno, gan ddangos eu pwysigrwydd yn y cyd-destun amaethyddol.

## CYNIGION I DDIWYGIO'R GYFRAITH

6.133 Ni ofynnwyd i ni wneud argymhellion yn yr adroddiad hwn ar gyfer diwygio cyfraith sylwedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ym Mhennod 4, lle ceir galwadau sylweddol am ddiwygio maes o gyfraith amaethyddol, y gellid ystyried ei bod yn ddymunol rhoi'r diwygiadau hynny ar waith cyn dod â'r ddeddfwriaeth dan sylw o fewn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fel arall, gellir datgan bod Deddf Senedd Cymru sy'n diwygio'n gyfan gwbl yn rhan o god cyfraith Cymru. Yn unol â hynny,

117 Llywodraeth Cymru, *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: canllawiau i ffermwyr a rheolwyr tir* (diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2023) t 6.

rydym yn nodi isod enghraifft lle mae galw am ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried yn y bennod hon.

### Adolygiad statudol o Reoliadau CoAP 2021

6.134 Rhaid cynnal adolygiad statudol annibynnol o effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan Reoliadau CoAP 2021 bob pedair blynedd.[118] Cyhoeddwyd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad statudol cyntaf o Reoliadau CoAP 2021 ar 31 Mawrth 2025.[119] Ymysg materion eraill, cynigiodd yr adolygiad y dylid adolygu diffiniadau statudol a ddefnyddir yn y rheoliadau er mwyn sicrhau bod y gofynion yn fwy eglur.

6.135 Yn ogystal, mae'r adolygiad yn argymell y dylid diwygio Rheoliadau CoAP 2021 i wneud darpariaeth ar gyfer diogelu pridd. Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â diogelu pridd yng Nghymru: mater a ddisgrifiwyd gan yr adolygiad fel “bwlch pwysig” yn y fframwaith rheoleiddio presennol.[120]

6.136 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i weithredu argymhellion yr adolygiad yn llawn.[121] Er hynny, mae galw o hyd yn y sector amaethyddol am adolygiad o'r “baich cronnus a osodir ar deuluoedd sy'n ffermio yng Nghymru” o dan Reoliadau CoAP 2021.[122]

## MATERION TECHNEGOL

6.137 Mae sefydlu cod cyfraith Cymru yn golygu dod â'r gyfraith sylfaenol ar bwnc at ei gilydd o dan Ddeddf, neu gyfres o Ddeddfau, gan Senedd Cymru y nodir eu bod yn rhan o god cyfraith Cymru ar y pwnc dan sylw. Yn ogystal, deallwn y bydd sefydlu cod cyfraith Cymru ar bwnc fel arfer yn golygu “proses o resymoli is-ddeddfwriaeth”.[123] Fel rydym yn ei drafod ym Mhennod 1, gallai rhesymoli is-ddeddfwriaeth bresennol i ffurfio rhan o god cyfraith Cymru olygu ailddatgan yr is-ddeddfwriaeth ar bwnc penodol mewn set newydd o offerynnau statudol Cymru. Rydym yn nodi isod enghraifft lle gallai'r is-ddeddfau sy'n rheoleiddio llosgi llystyfiant yn y cyd-destun amaethyddol elwa o'r broses resymoli.

### Rhesymoli is-ddeddfwriaeth

6.138 Mae Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc (Cymru) 2008 a Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 yn ymwneud â llosgi mathau penodedig o lystyfiant yn y cyd-

---

118 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, OS 2021/77 (Cy 20), rheoliad 44(2).

119 S Bolton, *Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021* (Mawrth 2025) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/4/4/1745501128/adolygiad-statudol-or-rheoliadau-rheoli-llygredd-amaethyddol-adolygiad-2025.pdf.

120 Llywodraeth Cymru, “Datganiad Polisi Pridd Amaethyddol” (Ebrill 2025) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-04/datganiad-polisi-pridd-amaethyddol.pdf.

121 Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Ansawdd Dŵr a Llygredd Amaethyddol* (Mawrth 2015) https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-ansawdd-dwr-llygredd-amaethyddol.

122 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, “NFU Cymru ‘frustrated’ by Welsh Government response to review of agricultural pollution regulations” (March 2025) https://www.nfu-cymru.org.uk/news-and-information/nfu-cymru-frustrated-by-welsh-government-response-to-review-of-agricultural-pollution-regulations/.

123 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), paragraff 23.

destun amaethyddol.[124] Felly, efallai y byddai'n ddymunol ailddatgan y rheoliadau hyn mewn un offeryn statudol Cymreig. Gellid trefnu'r offeryn statudol hwnnw mewn Rhannau sy'n ymdrin â gwaharddiadau neu gyfyngiadau penodol sy'n gymwys i losgi gwahanol ddosbarthiadau o lystyfiant.

6.139 Byddai ailddatgan Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc (Cymru) 2008 a Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 yn rhoi cyfle pellach i foderneiddio unrhyw dermau neu gyfeiriadau statudol sydd wedi dyddio. Er enghraifft, nodwn fod Rheoliadau Gweddillion Cnydau Llosgi) 1993 yn caniatáu llosgi gweddillion cnydau penodedig ar dir amaethyddol at ddibenion rheoli clefydau neu ddileu plâu planhigion pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan erthygl 22 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Prydain Fawr) 1993 ("Gorchymyn 1993"). Fodd bynnag, mae Gorchymyn 1993 wedi'i ddirymu yng Nghymru ers hynny.[125]

## CASGLIAD

6.140 Yn y bennod hon, rydym wedi nodi amrywiaeth o gyfreithiau sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r cyfreithiau amgylcheddol a ystyrir yn y bennod hon yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God. Er gwaethaf ein casgliadau, rydym yn cydnabod bod y ddeddfwriaeth dan sylw yn bwysig i amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn unol â hynny, rydym yn cynnig y dylai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at y cyfreithiau amgylcheddol hynny sy'n berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol.

6.141 Drwy gyfeirio at y ddeddfwriaeth dan sylw, rydym o'r farn y gall datblygu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru wella hygyrchedd deddfwriaeth sydd y tu allan i'w chwmpas, ond sydd serch hynny'n berthnasol i amaethyddiaeth. Y rheswm am hyn yw y bydd yr adnodd cyfeirio mewn theori yn ei gwneud yn haws i ffermwyr ddod o hyd i'r cyfreithiau amgylcheddol sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol. Fodd bynnag, ni fyddai cyfeirio yn mynd i'r afael â natur dameidiog na swmp y ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yng Nghymru. Ni fyddai ychwaith yn ateb pryderon ynghylch cymhlethdod y gyfraith. Yn hynny o beth, rydym yn cydnabod bod ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen waith ehangach a pharhaus i gydgrynhoi, codeiddio a gwella hygyrchedd y gyfraith ar bynciau datganoledig yng Nghymru fel arall.[126]

---

124 Gweler Pennod 5 am ystyriaeth o Reoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc (Cymru) 2008, OS 2008/1081 (Cy 115).

125 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006, OS 2006/1643 (Cy 158), Atodlen 19.

126 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol Cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-ddiwygiedig-2021-i-2026-html.

# Pennod 7: Iechyd a lles da byw

## CYFLWYNIAD

7.1 Mae ansawdd pridd, hinsawdd a thopograffeg mynyddig Cymru yn golygu bod amaethyddiaeth yn seiliedig ar dda byw yn bennaf. Defnyddir 78% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru ar gyfer pori da byw, ac mae pori da byw yn cyfrif am 78% o'r holl fathau o ffermydd yng Nghymru.[1] O ganlyniad, mae cyfreithiau sy'n ymwneud â lles ac iechyd da byw yn hollbwysig i amaethyddiaeth yng Nghymru.

7.2 Gellir disgrifio cyfraith iechyd anifeiliaid yn fras fel y cyfreithiau hynny sydd â'r nod o ddileu, atal neu reoli lledaeniad clefydau anifeiliaid. Mae cyfreithiau o'r fath yn ymwneud â chlefydau sy'n effeithio ar anifeiliaid a'r rhai y gellir eu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl.

7.3 Gellir disgrifio cyfraith lles anifeiliaid, mewn termau eang cyffelyb, fel y cyfreithiau hynny sydd wedi'u hanelu at ddiogelu a hyrwyddo lles anifeiliaid. Nid yw "lles" yn derm a ddiffinnir mewn deddfwriaeth lles anifeiliaid ddomestig. Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol bod pum rhyddid sylfaenol sy'n sylfaen ar gyfer safonau lles anifeiliaid gofynnol.

(1) Rhyddid rhag syched, newyn a diffyg maeth.

(2) Rhyddid rhag anghysur thermol a chorfforol.

(3) Rhyddid rhag poen, anafiadau a chlefydau.

(4) Rhyddid rhag ofn a thrallod.

(5) Rhyddid i ymddwyn yn naturiol.[2]

7.4 Cyfeirir yn aml at yr uchod fel y "pum rhyddid". Mae cysyniad y pum rhyddid yn deillio o adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Brambell: pwyllgor a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU yn y 1960au i ymchwilio i les anifeiliaid sy'n cael eu ffermio'n ddwys. Cymeradwywyd adroddiad Pwyllgor Brambell gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm ac arweiniodd at ddatblygu'r pum rhyddid yn eu ffurf bresennol, fel yr amlinellir ym mharagraff 7.3 uchod. Ers hynny, mae'r pum rhyddid wedi:

sicrhau cydnabyddiaeth gyhoeddus ledled y byd a gellir dod o hyd iddynt mewn deddfwriaeth genedlaethol, cynlluniau marchnata a chynlluniau gwarant ffermydd,

---

1 Llywodraeth Cymru, *Incymau Fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024* (Ionawr 2025) https://www.llyw.cymru/incymau-fferm-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html.

2 Prifysgol Caeredin, "Understanding the Five Domains Model of Animal Welfare" https://vet.ed.ac.uk/sites/default/files/2024-09/5%20Domains%20Model.pdf.

weithiau gyda mân addasiadau. Maent wedi gwrthsefyll llawer o feirniadaeth ac, ym Mhrydain Fawr, maent yn gonglfaen polisi'r Llywodraeth a diwydiant.[3]

7.5 Mae'r pum rhyddid - ac yn enwedig y rhyddid rhag poen, anafiadau a chlefydau - yn tanlinellu'r cysylltiad agos rhwng pynciau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Er gwaethaf y cysylltiadau yn y pwnc, mae'r gyfraith ar iechyd anifeiliaid wedi'i chynnwys yn bennaf mewn statudau neu offerynnau statudol sy'n wahanol i'r gyfraith ar les anifeiliaid.

7.6 Mae'r gyfraith ar les anifeiliaid, fel sy'n berthnasol yng Nghymru, yn cwmpasu deddfwriaeth sylfaenol a ddeddfir gan Senedd y DU, is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU. Mae llawer iawn o'r gyfraith yn y maes hwn yn deillio o'r UE ac mae bellach yn rhan o'n cyfraith ddomestig fel cyfraith a gymathwyd yn rhinwedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, fel sy'n berthnasol yng Nghymru, yn tarddu o'r un ffynonellau.

7.7 Mae'r bennod hon yn ystyried y cyfreithiau iechyd anifeiliaid a'r cyfreithiau lles anifeiliaid hynny sy'n berthnasol i dda byw. Mae ystyr “da byw” yn agored i'w ddehongli. Deallir yn gyffredinol bod y term yn cynnwys anifeiliaid fel gwartheg, defaid a moch. Gall fod yn llai clir a yw'r term yn cwmpasu anifeiliaid eraill fel dofednod neu eifr. Gwaethygir yr amwysedd ynghylch ystyr “da byw” gan y ffaith bod statudau gwahanol yn mabwysiadu diffiniadau gwahanol o'r term.

7.8 Mae gennym ddwy brif dasg at ddibenion y bennod hon. Yn gyntaf, rhaid inni nodi'r cyfreithiau iechyd anifeiliaid a'r cyfreithiau lles anifeiliaid hynny sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol oherwydd eu bod yn berthnasol i dda byw. Yn ail, rhaid inni ystyried a yw'r cyfreithiau hynny'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru drwy gymhwyso ein meini prawf cynnwys a nodir ym Mhennod 3.

7.9 At y dibenion uchod, rydym o'r farn ei bod yn bwysig mabwysiadu diffiniad eang o'r term “da byw”. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydym yn anwybyddu unrhyw gyfreithiau iechyd a lles anifeiliaid a allai fod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Yn unol â hynny, rydym wedi cyfeirio at y diffiniad y darperir ar ei gyfer o dan adran 51(2) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023:

> mae da byw yn cynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw anifail a gedwir i gynhyrchu bwyd, diod, olewau, ffibrau neu ledrau, neu i bori tir.[4]

Rydym yn deall bod y diffiniad uchod o dda byw yn cynnwys gwartheg, moch, defaid, dofednod a geifr, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt.

7.10 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 7.7 uchod, mae gwahanol statudau'n mabwysiadu gwahanol ddiffiniadau o'r term da byw. Rydym yn tynnu sylw at achosion lle mae unrhyw statud a ystyrir yn y bennod hon yn mabwysiadu diffiniad gwahanol i'r hyn y

---

[3] Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm, *Farm Animal Welfare in Great Britain: Past, Present and Future* (2009) t 2.

[4] Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 51(2).

darperir ar ei gyfer o dan adran 51(2) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydym yn cynnig y dylai'r holl ddeddfwriaeth a ystyrir yn y bennod hon fabwysiadu'r diffiniad o dda byw y darperir ar ei gyfer o dan adran 51(2) Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Ym Mhennod 4, fodd bynnag, rydym yn ystyried goblygiadau'r darpar God o ran dod â deddfwriaeth at ei gilydd sy'n dibynnu ar wahanol ddiffiniadau statudol o'r un term.

7.11 Ochr yn ochr â gwerthuso a yw cyfraith iechyd a lles anifeiliaid yn addas i'w chynnwys yn y darpar God, rydym hefyd yn ystyried a allai'r ddeddfwriaeth dan sylw fynnu neu elwa o newidiadau neu addasiadau sydd â'r nod o symleiddio'r gyfraith (gweler paragraffau 7.143 i 7.164). Ar ben hynny, rydym yn ystyried a allai dod â deddfwriaeth o'r fath o fewn cwmpas y darpar God gynnwys materion y mae angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach (gweler paragraffau 7.165 i 7.173).

## LLES DA BYW: CWMPAS Y GYFRAITH

7.12 Mae'r adran ganlynol (paragraffau 7.15 i 7.73) yn ystyried y cyfreithiau lles anifeiliaid hynny sy'n gymwys i dda byw yn unig neu i gategorïau penodol o dda byw. Mae hefyd yn ystyried y cyfreithiau lles anifeiliaid hynny sy'n berthnasol i dda byw, ond hefyd i gategori ehangach o anifeiliaid. Nid yw'n ystyried y cyfreithiau hynny sy'n ymwneud â lles anifeiliaid ar wahân i dda byw yn unig.

7.13 Mae'r deddfau a ystyrir yn yr adran ganlynol yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â lles da byw tra byddant ar y fferm, adeg eu lladd, wrth eu cludo ac yn ystod eu cyfnod mewn marchnadoedd. Fel rheol gyffredinol, nid ydym yn archwilio yn yr adroddiad a yw'r cyfreithiau sy'n berthnasol i gamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.[5] Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd rheoli paramedrau ein tasg ar gyfer yr adroddiad hwn a bod ein hadolygiad yn canolbwyntio ar y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol ar ffermydd.

7.14 Fodd bynnag, ym mharagraffau 7.132 i 7.135 isod, rydym yn ystyried a ellid ymestyn cwmpas y darpar God i gynnwys cyfraith lles anifeiliaid. Am y rheswm hwnnw, rydym yn ystyried yn y bennod hon y cyfreithiau lles anifeiliaid hynny sy'n berthnasol i dda byw adeg eu lladd. Yn yr un modd, ystyrir deddfwriaeth sy'n gwahardd allforio rhywogaethau penodol o dda byw i'w lladd ar sail lles ym mharagraffau 7.69 i 7.73.

### Deddf Lles Anifeiliaid 2006

7.15 Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (“Deddf 2006”) yn eang ei chwmpas. Mae'n amddiffyn anifeiliaid asgwrn cefn sy'n cael eu dofi'n gyffredin yn Ynysoedd Prydain, dan reolaeth dyn, ac nad ydynt yn byw yn wyllt.[6]

7.16 Mae'r diffiniad o anifeiliaid a warchodir o dan Ddeddf 2006 yn cwmpasu ein hystyr arfaethedig o “da byw”. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, anifeiliaid sy’n gwmni ac anifeiliaid gwasanaethu neu anifeiliaid eraill sy'n gweithio. Nid yw'n cynnwys anifeiliaid gwyllt ac eithrio anifeiliaid sy'n cael eu cadw

---

5 Gweler Pennod 10 lle rydym yn nodi'r sail ar gyfer y safbwynt hwn ym mharagraffau 10.8 i 10.13.

6 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 2.

mewn caethiwed naill ai'n barhaol (er enghraifft, anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn sw) neu dros dro (er enghraifft, anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu dal mewn trapiau).[7]

7.17 Mae Deddf 2006 yn creu troseddau sydd â'r nod o atal creulondeb i anifeiliaid ac, fel arall, atal anifeiliaid rhag dioddef neu gael niwed diangen. Disgrifir y prif droseddau sy'n berthnasol i dda byw yn fras isod.

(1) Y drosedd o beri i anifail a warchodir ddioddef yn ddiangen, boed hynny drwy weithred neu fethiant i weithredu.[8]

(2) Y drosedd o roi triniaethau gwaharddedig (anffurfio) i anifeiliaid a warchodir (gweler paragraff 7.31 isod).[9]

(3) Y drosedd o roi gwenwyn neu gyffuriau neu sylweddau niweidiol i anifail a warchodir.[10]

7.18 Mae person hefyd yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf 2006 os nad yw'n cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod anghenion anifeiliaid o dan ei gyfrifoldeb yn cael eu diwallu (i'r graddau sy'n ofynnol gan arferion da).[11]

7.19 Rhoddir pwerau i orfodi Deddf 2006 i arolygwyr y gellir eu penodi, yng Nghymru, gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru.[12] Yn ymarferol, arolygwyr a gyflogir gan awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n bennaf gyfrifol am orfodi Deddf 2006 mewn perthynas â da byw ar ffermydd. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion hefyd yn monitro ac yn arolygu lles da byw ar y fferm.

7.20 Cyhoeddir codau ymarfer o dan adran 14 Deddf 2006 sy'n darparu canllawiau ar gydymffurfio â'r Ddeddf. Yng Nghymru, mae codau ymarfer perthnasol sy'n gymwys i les defaid, ieir bwyta ac ieir bridio cig, ieir dodwy a chywennod, gwartheg a moch.[13]

---

7 Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid 2022-2024* (Ionawr 2022) t 41.

8 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 4.

9 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 5.

10 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 7. Mae hefyd yn drosedd achosi i unrhyw gyffur neu sylwedd gwenwynig neu niweidiol gael ei gymryd gan anifail a warchodir gan wybod ei fod yn wenwynig neu'n niweidiol.

11 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 9.

12 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adrannau 51 a 62(1)(b). Mae adran 62(1)(b) yn diffinio mai'r awdurdod cenedlaethol priodol yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sydd bellach yn dwyn yr enw Senedd Cymru). Fodd bynnag, trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i'r Cynulliad fel yr awdurdod cenedlaethol priodol i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

13 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cod Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw: Defaid* (Mawrth 2010); Llywodraeth Cymru, *Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Bwyta ac Ieir Bridio Cig* (Mawrth 2020); Llywodraeth Cymru, *Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Dodwy a Chywennod* (Mawrth 2020); Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cod Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw*: *Gwartheg* (Mawrth 2010); Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, *Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Moch* (2004). Nodwn fod fersiwn ddrafft wedi'i diweddaru o'r cod ar gyfer lles moch, sy'n cael ei ddatblygu ar ôl ymgynghori yn 2020.

7.21 Mae wyth offeryn statudol sylweddol wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2006. Mae tri o'r offerynnau statudol hynny'n berthnasol i les da byw ac fe'u hystyrir mewn adrannau dilynol o'r penodau hyn.

(1) Rheoliadau Anffurfio (Gweithdrefnau a Ganiateir) (Cymru) 2007.[14]

(2) Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007.[15]

(3) Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024.[16]

Mae gweddill yr offerynnau statudol yn ymwneud â mathau eraill o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cadw fel da byw.[17]

### Deddf Lles Anifeiliaid 2006: meini prawf cynnwys

7.22 Mae Deddf 2006 yn "seiliedig ar, ac yn mabwysiadu'r egwyddor bod lles anifeiliaid yn hollbwysig".[18] Yn wir, mae'r Ddeddf yn cael ei disgrifio'n gyffredin fel y "brif gyfraith sy'n ymwneud â lles anifeiliaid".[19]

7.23 Mae Deddf 2006 yn ymwneud â lles anifeiliaid a warchodir ym mhob cyd-destun bron heblaw pan fyddant yn byw yn wyllt. Felly, rydym o'r farn nad yw cymhwyso'r Ddeddf yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

7.24 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod Deddf 2006 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym hefyd o'r farn y byddai cynnwys Deddf 2006 yn y darpar God yn achosi risg o greu argraff gamarweiniol mai dim ond i'r sector amaethyddol y mae'r Ddeddf yn berthnasol. O safbwynt symbolaidd, gallai cynnwys Deddf 2006 yn y darpar God hefyd awgrymu mai dim ond yng nghyd-destun gweithgarwch economaidd y mae lles anifeiliaid yn bwysig, yn hytrach nag ynddo'i hun.

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007

7.25 Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") yn "diogelu lles anifeiliaid a ffermir drwy osod safonau gofynnol ar gyfer eu gofal a'u hwsmonaeth".[20] Diffinnir anifeiliaid fferm fel anifeiliaid sy'n cael eu "bridio neu eu cadw er mwyn cynhyrchu bwyd, gwlân neu groen neu at ddibenion ffermio eraill".[21] Mae rhai

---

14 OS 2007/1029 (Cy 96). Gweler paragraffau 7.31 i 7.39.

15 OS 2007/3070 (Cy 264). Gweler paragraffau 7.25 i 7.30.

16 OS 2024/682 (Cy 94). Gweler paragraffau 7.56 i 7.61.

17 Sef is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â lles cathod, cŵn ac anifeiliaid sy'n cael eu cadw fel anifeiliaid anwes.

18 N Sweeney, *A Practical Approach to Animal Welfare Law* (2il argraffiad 2017) paragraff 2.2.

19 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yr Asiantiaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, *Animal welfare* (April 2013) https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare.

20 Llywodraeth Cymru, *Trawsgydymffurfio: safonau lles anifeiliaid a ffermir* (Rhagfyr 2024) https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html.

21 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070 (Cy 264), rheoliad 3(2). Fodd bynnag, mae rhai anifeiliaid wedi'u heithrio o'r diffiniad (er enghraifft pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid).

anifeiliaid wedi'u heithrio o gwmpas y diffiniad hwn gan gynnwys anifeiliaid gwyllt, pysgod, ymlusgiaid ac amffibiaid.[22]

7.26 Rhaid i berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid a ffermir gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr amodau y mae'r anifail yn cael ei gadw neu ei fridio oddi tanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir yn Rheoliadau 2007. Er enghraifft, rhaid i anifeiliaid sy'n cael eu ffermio gael deiet iachus a chael mynediad at gyflenwad dŵr addas.[23] Mae gofynion ychwanegol sy'n gymwys i amodau lles mathau penodol o anifeiliaid a ffermir (er enghraifft dofednod, ieir dodwy neu loi).[24] Mae Rheoliadau 2007 hefyd yn gosod gofynion ar weithredwyr lladd-dai i gofnodi cyfraddau marwolaeth ieir o heidiau sy'n cyrraedd trothwyon penodol.[25]

7.27 Awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gorfodi Rheoliadau 2007 ar ffermydd.[26] Mae methu â chydymffurfio â gofynion y rheoliadau yn drosedd.[27]

7.28 Tra bu'r DU yn aelod o'r UE, gweithredodd Rheoliadau 2007 Gyfarwyddeb y Cyngor 98/58/CE ynghylch diogelu anifeiliaid a gedwir at ddibenion ffermio ac amrywiol Gyfarwyddebau eraill yr UE ynghylch lles rhywogaethau da byw penodol.[28]

### Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007: meini prawf cynnwys

7.29 Mae Rheoliadau 2007 yn darparu ar gyfer lles anifeiliaid a ffermir tra bônt ar ffermydd. Yn y cyd-destun amaethyddol, mae safonau lles anifeiliaid uchel yn helpu i ddiogelu iechyd da byw. Mae ymchwil yn dangos bod da byw iach yn "cynhyrchu mwy o gig a sgil-gynhyrchion anifeiliaid a bod angen llai o adnoddau arnynt nag anifeiliaid sy'n dioddef o glefydau."[29] Gall mabwysiadu safonau lles uchel hefyd gynyddu hyder defnyddwyr a gellir ei ddefnyddio fel arf marchnata i ddenu sylfaen defnyddwyr fodern

---

22 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070, rheoliad 3(2).

23 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070 (Cy 264), Atodlen 1.

24 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070 (Cy 264), rheoliad 5.

25 Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chasglu at ddibenion Atodiad 2 i Reoliad y DU (CE) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

26 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, adran 28(1) ac adran 51. Gweler hefyd Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, *Animal welfare on farms inspection* (Ionawr 2016) https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare-on-farms-inspection#:~:text=These%20inspections%20are%20normally%20carried,your%20farm%20in%20your%20absence.

27 Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070 (Cy 264), rheoliad 7.

28 Ar ôl i'r DU adael yr UE, nid yw Cyfarwyddebau'r UE bellach yn rhan o'n cyfraith ddomestig (ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig) yn rhinwedd Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070 (Cy 264) yn dal i ddibynnu ar ddiffiniadau yng Nghyfarwyddebau'r UE sy'n ymwneud â lles da byw megis Cyfarwyddeb 2008/120/CE sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer diogelu moch.

29 Iechyd ar gyfer Anifeiliaid, "How better animal health supports sustainable food systems" (Ionawr 2024) https://healthforanimals.org/wp-content/uploads/2024/01/How-Better-Animal-Health-Supports-Sustainable-Food-Systems-2501.pdf.

sy'n ymgysylltu fwyfwy â phrynu'n foesegol.[30] Felly, rydym o'r farn bod Rheoliadau 2007 yn ymwneud â lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

7.30 Mae Rheoliadau 2007 yn gymwys i les "anifeiliaid fferm" fel y'u diffinnir o dan reoliad 3: diffiniad statudol sy'n adlewyrchu'n agos y diffiniad o "dda byw" o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Yn ymarferol, ffermwyr, a'r sefydliadau hynny sy'n gorfodi Rheoliadau 2007, fydd yn gorfod cydymffurfio'n bennaf â'r rheoliadau, neu gyfeirio atynt.[31] Felly, mae gan Reoliadau 2007 gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth, neu wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth. Am y rhesymau hynny, rydym o'r farn bod Rheoliadau 2007 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

### Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

7.31 Mae'n drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i roi neu beri rhoi triniaeth waharddedig i anifail. Mae hefyd yn drosedd, mewn rhai amgylchiadau, caniatáu i driniaeth waharddedig gael ei rhoi. Triniaeth waharddedig yw triniaeth sy'n golygu ymyrryd â meinwe sensitif neu strwythur esgyrn anifail, ac eithrio at ddibenion triniaeth feddygol.

7.32 Mae Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau Anffurfio") yn darparu bod rhai triniaethau penodol yn cael eu caniatáu gan y gyfraith ac na fyddant yn cael eu hystyried yn droseddau o dan Ddeddf 2006. Byddwn yn cyfeirio at driniaethau o'r fath fel triniaethau a ganiateir. Mae'r Rheoliadau Anffurfio yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch sut y dylid rhoi triniaethau a ganiateir.

7.33 Tra oedd y DU yn aelod o'r UE, gweithredodd y Rheoliadau Anffurfio rai o Gyfarwyddebau'r UE a oedd yn ymwneud â lles da byw.[32]

#### Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007: meini prawf cynnwys

7.34 Mae'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ("Defra") ar driniaethau a ganiateir yn tanlinellu bod Deddf 2006 yn gwahardd creulondeb i anifeiliaid. Mae llawer o'r triniaethau a ganiateir yn rhai sy'n cael eu cyflawni yn aml ar dda byw yn y cyd-destun amaethyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys tagio clustiau, digornio ac ysbaddu.

7.35 Fodd bynnag, mae'r triniaethau a ganiateir yn cynnwys y rhai y gellir eu cyflawni ar anifeiliaid ar wahân i dda byw. Er enghraifft, mae tagio adenydd a thagio gwe adar gwyllt yn driniaethau a ganiateir fel arfer at ddibenion cadwraeth ac ymchwil.[33] Felly,

---

[30] Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid* (Gorffennaf 2014) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-ar-gyfer-iechyd-a-lles-anifeiliaid-yng-nghymru.pdf, paragraff 25.

[31] Ceir darpariaethau cyfyngedig sy'n gymwys i weithredwyr lladd-dai. Gweler Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007, OS 2007/3070 (Cy 264), rheoliad 5A a Rhan 3 o Atodlen 5A. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn Rheoliadau 2007 yn ymwneud â lles anifeiliaid a ffermir tra byddant ar y fferm.

[32] Er enghraifft, Cyfarwyddeb y Cyngor 91/630/CEE sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer diogelu moch a Chyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/CE sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer diogelu ieir dodwy.

[33] Rheoliadau Anffurfio Drafft (Triniaethau a Ganiateir) (Lloegr) (Diwygio) 2008 Deb 12 Mai 2008, col 4.

gellir dweud bod y Rheoliadau Anffurfio yn ymwneud ag amaethyddiaeth a lles anifeiliaid.

7.36 Mae'n anodd dod i'r casgliad bod gan y Rheoliadau Anffurfio gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Fel y nodwyd uchod, mae'r triniaethau a ganiateir yn cynnwys y rhai a gyflawnir ar dda byw ac anifeiliaid eraill. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu nodi unrhyw ystadegau, na gwybodaeth arall, a allai ddangos a yw'r triniaethau a ganiateir, yn ymarferol, yn cael eu cynnal gan amlaf ar dda byw.

7.37 Yn absenoldeb unrhyw wybodaeth o'r fath, mae'n ddefnyddiol gwerthuso cyfran y darpariaethau yn y Rheoliadau Anffurfio sy'n ymwneud â thriniaethau a gyflawnir naill ai'n bennaf neu'n unig ar rywogaethau a gedwir fel arfer fel da byw. Mae Atodlen 1 i Reoliadau 2007 yn rhestru'r triniaethau perthnasol a ganiateir. Trefnir y triniaethau yn ôl categori rhywogaeth. Er enghraifft, o dan y pennawd “gwartheg”, ceir rhestr o driniaethau y caniateir eu cyflawni ar wartheg.

7.38 Mae'r penawdau yn Atodlen 1 fel a ganlyn: gwartheg, moch, defaid, adar, ceffylau, ceirw, geifr a rhywogaethau eraill. Mae gwartheg, moch, defaid a geifr i gyd yn anifeiliaid sy'n cael eu cadw fel arfer fel da byw. Gellir cadw ceirw hefyd fel da byw, ond mae ffermio ceirw yn anghyffredin yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd y categori o driniaethau a ganiateir ar gyfer adar yn cynnwys triniaethau a gyflawnir ar ddofednod a ffermir ond hefyd y rhai a gyflawnir ar adar gwyllt. Mae'r categorïau o driniaethau a restrir o dan y pennawd “rhywogaethau eraill” yn cynnwys triniaethau a gyflawnir ar bysgod, cŵn a chathod. Mae 16 categori o driniaethau a ganiateir wedi'u rhestru o dan y pennawd ar gyfer gwartheg, 13 dan foch, 16 dan adar, 16 dan ddefaid, 7 dan geffylau, 10 dan geirw, 15 dan eifr ac 20 dan rywogaethau eraill.

7.39 Yng ngoleuni'r uchod, mae'n anodd dweud bod darpariaethau Rheoliadau Anffurfio yn ymwneud yn bennaf â thriniaethau a gyflawnir ar dda byw. O ganlyniad, rydym yn dod i'r casgliad dros dro bod y Rheoliadau Anffurfio yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fodd bynnag, credwn y byddai unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch a yw Reholiadau Anffurfio'n addas i'w cynnwys yn y darpar God yn cael ei lywio orau gan asesiad ynghylch a yw'r triniaethau a ganiateir o dan y rheoliadau o fath a gyflawnir yn bennaf ar dda byw.

### Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990

7.40 Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 (“Gorchymyn 1990”) wedi'i ddeddfu o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ac mae'n gymwys i Gymru,[34] Lloegr a'r Alban. Mae'n darparu ar gyfer lles anifeiliaid mewn marchnadoedd. Mae llawer o ffermwyr yng Nghymru yn prynu neu'n gwerthu da byw mewn marchnadoedd da byw. Mae marchnadoedd o'r fath wedi bod yn “nodwedd o fywyd amaethyddol yn y

[34] OS 1990/2628.

DU ers dros ddau gan mlynedd a mwy."[35] Er yr adroddir bod nifer y marchnadoedd yn gostwng,[36] mae tua 30 o farchnadoedd da byw yn dal i weithredu ledled Cymru.[37]

7.41 At ddibenion Gorchymyn 1990, diffinnir anifeiliaid fel "gwartheg, defaid, geifr a phob anifail cnoi cil arall, moch, cwningod a dofednod".[38] Mae marchnad yn golygu lle, iard werthu neu unrhyw safle neu fan arall lle mae anifeiliaid o'r fath yn cael eu cludo i'r farchnad ac yn cael eu dangos i'w gwerthu.[39]

7.42 Mae Gorchymyn 1990 yn darparu ar gyfer amrywiol droseddau sydd â'r nod o ddiogelu lles anifeiliaid mewn marchnadoedd da byw. Er enghraifft, mae'n drosedd i unrhyw berson ganiatáu i anifail anaddas gael ei ddangos i'w werthu mewn marchnad.[40]

7.43 Mae Gorchymyn 1990 hefyd yn gosod dyletswyddau ar weithredwyr marchnadoedd da byw. Er enghraifft, rhaid i weithredwyr marchnadoedd sicrhau bod anifeiliaid mewn lloc a chaets priodol a'u bod yn cael digon o olau a deunydd gwely.[41] Rhaid i berchenogion anifeiliaid sydd i'w gwerthu mewn marchnadoedd sicrhau bod anifeiliaid o'r fath yn cael dŵr a bwyd digonol.[42] Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi Gorchymyn 1990.

### Gorchymyn Lles mewn Marchnadoedd 1990: meini prawf cynnwys

7.44 Mae marchnadoedd da byw yn fan lle mae'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol, neu sy'n gysylltiedig ag ef, yn dod at ei gilydd i fasnachu da byw. Yn wir, mae marchnadoedd da byw wedi cael eu disgrifio fel rhai sy'n bodoli i "wasanaethu diwydiant sy'n magu da byw yn bennaf er mwyn cynhyrchu cig neu laeth a chynnyrch llaeth".[43]

7.45 Yn ein hasesiad, mae Gorchymyn 1990 yn ymwneud â lles anifeiliaid pan gânt eu masnachu at ddibenion amaethyddol mewn marchnadoedd da byw. Rydym felly'n dod i'r casgliad bod Gorchymyn 1990 yn ymwneud ag amaethyddiaeth a lles anifeiliaid. Am yr un rhesymau, credwn fod gan Orchymyn 1990 gymhwysiad ymarferol sy'n

---

35 C Nye, M Winter a M Lobley, "More than a Mart: The Role of UK Livestock Auction Markets in Rural Communities" (2021) 15.

36 MLCSL, *Livestock Markets in the 21st Century* (Rhagfyr 2010) https://democracy.e-lindsey.gov.uk/documents/s33209/p_cp_livestockmarket2010040111%20App%20Q.pdf, p 8.

37 Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw, "Locate a Livestock Mart" https://laa.co.uk/locate-a-mart/?regions=1502&counties=&saletype=&day=.

38 Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990, OS 1990/2628, erth 3. Mae rhai o erthyglau penodol y Gorchymyn hefyd yn berthnasol i rywogaethau penodol eraill o anifeiliaid megis teirw.

39 Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990, SI 1990/2628, erth 3. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys unrhyw walfeydd sy'n ffinio â marchnad ac a ddefnyddir mewn cysylltiad â hi ac unrhyw le parcio i ymwelwyr ar gyfer y farchnad.

40 Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990, OS 1990/2628, erth 5.

41 Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990, OS 1990/2628, erthyglau 10, 12 ac 16 yn y drefn honno.

42 Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990, OS 1990/2628, erth 11(2).

43 MLCSL, *Livestock Markets in the 21st Century,* (Rhagfyr 2010) https://democracy.e-lindsey.gov.uk/documents/s33209/p_cp_livestockmarket2010040111%20App%20Q.pdf, t 11.

ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. O ganlyniad, mae Gorchymyn 1990 yn bodloni ein meini prawf i'w gynnwys yn y darpar God.

### Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

7.46 Tra bu'r DU yn aelod o'r UE, deddfwyd Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 ("Gorchymyn 2007") o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, i wneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y DU (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo ("Rheoliad 2005").[44] Ar ôl i'r DU adael yr UE, mae Rheoliad 2005 yn rhan o'n cyfraith ddomestig, fel cyfraith a gymathwyd. Mae darpariaethau yng Ngorchymyn 2007 yn aml yn croesgyfeirio at Reoliad 2005 sy'n golygu bod angen darllen y ddau ddarn o ddeddfwriaeth gyda'i gilydd i ddeall effaith y gyfraith yn y maes hwn.

7.47 Mae Gorchymyn 2007 yn gosod gofynion penodol sy'n gymwys i gludo anifeiliaid sy'n digwydd mewn cysylltiad â gweithgaredd economaidd.[45] Yn gyffredinol, mae Gorchymyn 2007 a Rheoliad 2005 yn gymwys i bob anifail asgwrn cefn. Mae yna ddarpariaethau cyfyngedig yng Ngorchymyn 2007 sydd hefyd yn gymwys i infertebratau gwaed oer. Un enghraifft yw'r drosedd o gludo anifeiliaid mewn ffordd sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi anaf neu ddioddefaint diangen, sy'n berthnasol i infertebratau gwaed oer.[46]

7.48 Nid yw gweithgarwch economaidd wedi'i ddiffinio yng Ngorchymyn 2007 nac yn Rheoliad 2005. Fodd bynnag, mae canllawiau Defra ar les anifeiliaid wrth eu cludo yn Lloegr yn cynnig yr enghreifftiau canlynol o deithiau yr ystyrir eu bod yn digwydd mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd:

(1) cludo anifeiliaid gan ffermwyr a chludwyr da byw masnachol;

(2) cludo ceffylau at ddibenion rasio ceffylau proffesiynol;

(3) cludo anifeiliaid sydd i'w cadw mewn sŵau a pharciau hamdden; a

(4) cludo anifeiliaid gan fridwyr anifeiliaid anwes masnachol.[47]

7.49 Fodd bynnag, mae eithriadau sy'n berthnasol i'r cyd-destun amaethyddol fel pan fydd anifail yn cael ei gludo i gael triniaeth filfeddygol.[48] Mae canllawiau Defra (ar gyfer Lloegr) hefyd yn datgan na fyddai cludo da byw gan ffermwr o un tir pori i un arall yn

---

44 Fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022, OS 2022/846.

45 Yn rhinwedd Rheoliad Cyngor y DU (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig, erthygl 1(5).

46 Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007, OS 2007/1047 (Cy 105), erth 4.

47 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Welfare of Animals During Transport* (Chwefror 2011) https://localgovernmentanimalwelfare.org/wp-content/uploads/2020/03/Guidance-on-Welfare-of-Animals-During-Transport.pdf#page17.

48 Rheoliad Cyngor y DU (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig, erth 1(5).

cael ei ddosbarthu fel gweithgarwch economaidd, na chludo da byw gan ffermwr o fewn 50 cilometr i'w fferm.[49]

7.50 Mae darpariaethau penodol yng Ngorchymyn 2007 sy'n gymwys i bob anifail asgwrn cefn (pan gludir hwy mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd). Er enghraifft, mae'n drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi, anaf neu ddioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.[50] Mae gofynion ychwanegol hefyd sy'n berthnasol i rywogaethau penodol: er enghraifft, ceffylau, gwartheg, defaid, geifr, moch, cwningod, dofednod ac adar.

### Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007: meini prawf cynnwys

7.51 Mae Gorchymyn 2007 yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad 2005. Disgrifiwyd nod Rheoliad 2005 fel "atal anaf neu ddioddefaint diangen i anifeiliaid wrth eu cludo".[51]

7.52 Mae Gorchymyn 2007 yn ymwneud â lles da byw a gludir at ddibenion masnach amaethyddol. Fodd bynnag, mae'n gosod gofynion cludo cyffredinol sy'n gymwys i bob anifail a gludir at ddibenion busnes neu fasnach. Mae gofynion ychwanegol hefyd sy'n berthnasol i gludo rhywogaethau penodol. Mae rhai o'r gofynion hynny'n berthnasol i rywogaethau da byw yn unig, ond mae gofynion penodol sy'n berthnasol i fathau eraill o anifeiliaid. Am y rhesymau hynny, credwn fod Gorchymyn 2007 yn ymwneud ag amaethyddiaeth, ond hefyd â lles anifeiliaid.

7.53 Fel yr amlinellwyd uchod, gall Gorchymyn 2007 fod yn gymwys i gludo anifeiliaid heblaw da byw at ddibenion gweithgareddau economaidd nad ydynt yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth. O ganlyniad, mae'n anodd dod i'r casgliad bod gan Orchymyn 2007 gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod canllawiau (sydd bellach wedi'u tynnu'n ôl) gan Defra ar les anifeiliaid sy'n cael eu cludo sy'n datgan bod "cludo 'da byw' ... yn cyfrif am gyfran sylweddol o deithiau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid".[52]

7.54 Yn absenoldeb gwybodaeth ystadegol am rywogaethau'r anifeiliaid sy'n cael eu cludo amlaf, rydym yn asesu cyfran y darpariaethau yng Ngorchymyn 2007 sy'n gymwys i gludo da byw yn unig neu'n bennaf. O'r 18 o ddarpariaethau yng Ngorchymyn 2007 sy'n gosod gofynion ynghylch cludo anifeiliaid, mae 10 o ddarpariaethau yn ymwneud â lles anifeiliaid yn fwy cyffredinol. Mae wyth darpariaeth yn fwy penodol i anifeiliaid a

---

49 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Animal Welfare in Transport* (Mai 2024) https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare-in-transport.

50 Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007, OS 2007/1047 (Cy 105), erthyglau 4(2) a 5(1); Rheoliad Cyngor y DU (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig, erthygl 3(1).

51 Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop, Rheoliad (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig: Asesiad Gweithredu Ewropeaidd" (Hydref 2018) https://www.europarl.europa.eu/RegData/etudes/STUD/2018/621853/EPRS_STU(2018)621853_EN.pdf, paragraff 1.2.2.

52 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Welfare of Animals During Transport* (February 2011) paragraff 1.20.

gedwir fel arfer fel da byw.[53] Felly, mae'n anodd dod i'r casgliad bod Gorchymyn 2007 yn ymwneud yn bennaf â chludo da byw.

7.55 Ceir dadleuon cytbwys iawn ynghylch a yw Gorchymyn 2007 a Rheoliad 2005 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Rydym o'r farn y gallai gwybodaeth ystadegol am gyfran y teithiau sy'n ymwneud â chludo da byw lywio penderfyniad ynghylch a fydd Gorchymyn 2007 yn cael ei gynnwys yn y darpar God. Os yw'r rhan fwyaf o deithiau sy'n ddarostyngedig i Orchymyn 2007 yn rhai sy'n ymwneud â chludo da byw, yna byddai hyn yn cyflwyno sail resymegol argyhoeddiadol dros gynnwys Gorchymyn 2007 a Rheoliad 2005 yn y darpar God.

## Rheoliadau Defnydd Gorfodol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024

7.56 Mae Rheoliadau Defnydd Gorfodol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 ("Rheoliadau CCTV 2024") yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau lladd-dai osod systemau teledu cylch cyfyng ("CCTV") i gofnodi, a chadw am gyfnodau penodol, delweddau o ladd a gweithrediadau cysylltiedig ym mhob rhan o'r lladd-dy lle mae anifeiliaid byw yn bresennol.[54] Mae'n drosedd mynd yn groes i'r gofynion i osod neu gadw delweddau o'r fath.[55]

7.57 Awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ("APHA") a'r Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau CCTV 2024. Mae Rheoliadau CCTV 2024 yn gwneud darpariaeth sy'n ategu Rheoliad 1099/2009 y DU ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd.

### Rheoliadau Defnydd Gorfodol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024: meini prawf cynnwys

7.58 Mae memorandwm esboniadol Rheoliadau Teledu Cylch Cyfyng 2024 yn datgan:

> O ganlyniad i ddarpariaeth teledu cylch cyfyng mwy cynhwysfawr a hygyrch, rydym yn disgwyl y bydd newid ymddygiad ar ran lladd-dai nad ydynt o bosibl yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion presennol ar hyn o bryd. …
>
> Bydd teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid byw yn bresennol yn gwella effeithlonrwydd gweithgareddau monitro a gorfodi.[56]

7.59 Mae Rheoliadau CCTV 2024 yn gwneud darpariaeth ar gyfer lles da byw sy'n cael eu cadw a'u bridio at ddibenion cynhyrchu cig. Felly, rydym o'r farn bod Rheoliadau CCTV 2024 yn ymwneud â lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

---

53 Roeddem wedi eithrio o'r asesiad hwn y darpariaethau hynny a oedd yn weithdrefnol eu natur. Mae hyn yn golygu'r rheini sy'n nodi'r teitl, y dyddiad cychwyn ac unrhyw ddiwygiadau dilynol.

54 Mae gweithrediadau cysylltiedig yn golygu gweithrediadau fel trin, llocio, atal, stynio a gwaedu anifeiliaid sy'n digwydd yn y cyd-destun ac yn y lleoliad lle byddant yn cael eu lladd (Rheoliad Cyngor y DU (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd, erth 2).

55 Rheoliadau Defnydd Gorfodol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024, OS 2024/682 (Cy 94), rheoliad 9.

56 Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Defnydd Gorfodol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024, OS 2024/682 (Cy 94), t 3.

7.60 Mae'r gofynion a osodir gan Reoliadau CCTV 2024 yn gymwys i ladd-dai. Nid yw lladd da byw yn amlwg yn dod o fewn ein hystyr arfaethedig o amaethyddiaeth (fel y'i diffinnir yn adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023). Mae adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn diffinio amaethyddiaeth drwy gyfeirio at restr o weithgareddau. Mae cadw a bridio da byw yn dod o fewn y diffiniad o amaethyddiaeth fel y'i darperir o dan adran 51. Fodd bynnag, o ran ein darllen ni, nid yw lladd a phrosesu da byw ar gyfer cynhyrchu cig yn dod o fewn y diffiniad hwnnw.[57] O ganlyniad, nid yw cwmpas na chymhwysiad ymarferol Rheoliadau Teledu Cylch Cyfyng 2024 wedi'u cyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth o fewn ystyr arfaethedig y term.

7.61 Am y rhesymau uchod, rydym yn dod i'r casgliad nad yw Rheoliadau Teledu Cylch Cyfyng 2024 yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y darpar God. Mae Pennod 10 yn ystyried yn fanylach a allai cwmpas y darpar God ymestyn i'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch amaethyddol.

### Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014

7.62 Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn gymwys yng Nghymru ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer lles anifeiliaid adeg eu lladd.[58] Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y DU (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd.

7.63 Mae Rheoliadau 2014 yn croesgyfeirio'n sylweddol at Reoliad y DU (CE) Rhif 1099/2009 sy'n golygu bod angen cyfeirio at y ddau ddarn o ddeddfwriaeth er mwyn deall effaith y gyfraith.

7.64 Mae Rheoliad y DU (CE) Rhif 1099/2009 yn darparu mai dim ond pobl sy'n gymwys i wneud hynny heb achosi unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint y gellir eu hosgoi sy'n cael lladd anifeiliaid a chyflawni rhai gweithrediadau sy'n gysylltiedig â lladd (fel gwaedu a stynio). Mae Rheoliadau 2014 yn darparu ar gyfer trefn ardystio i sicrhau mai dim ond pobl priodol gymwys sy'n cyflawni gweithrediadau penodol. Mae enghreifftiau o weithrediadau o'r fath yn cynnwys lladd, stynio, gwaedu, atal neu lyffetheirio anifeiliaid.[59]

7.65 Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, mae'n ofynnol cael trwydded i ymgymryd â gweithrediadau penodol ar anifeiliaid adeg eu lladd ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy.[60] Er enghraifft, gallai da byw gael eu lladd ar ffermydd, ar eiddo preifat neu mewn iard lladd: mae'r olaf yn fan lle cymerir hen anifeiliaid neu anifeiliaid sydd wedi'u hanafu yno i gael eu lladd. Bydd angen trwydded hefyd er mwyn cyflawni'r un gweithrediadau mewn perthynas â lladd dofednod, cwningod ac

[57] Fodd bynnag, byddai'n dod o fewn y diffiniad o weithgaredd ategol fel y'i diffinnir o dan adran 52 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4).

[58] OS 2014/951 (Cy 92).

[59] Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014, OS 2014/951 (Cy 92), rheoliad 6; Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1099/2009, erth 7.

[60] Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014, OS 2014/951 (Cy 92), rheoliad 13.

ysgyfarnogod at ddibenion cyflenwi symiau bach o gig yn uniongyrchol i gwsmeriaid neu i adwerthwyr lleol.[61]

### Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014: meini prawf cynnwys

7.66 Roedd Rheoliadau 2014 yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi UK (CE) Rhif 1099/2009 sy'n darparu ar gyfer "arbed unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint diangen i anifeiliaid pan gânt eu lladd a gweithrediadau cysylltiedig".[62] Mae Rheoliadau 2014 yn gymwys i ladd anifeiliaid mewn lladd-dai ond hefyd mewn cyd-destunau eraill (er enghraifft ar ffermydd ac mewn iardiau lladd).

7.67 Mae Rheoliadau 2014 yn darparu'n bennaf ar gyfer lles da byw sy'n cael eu cadw a'u bridio at ddibenion amaethyddol. Mae darpariaethau penodol yn Rheoliadau 2014 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer lles mathau eraill o anifeiliaid ar adeg eu lladd, gan gynnwys ymlusgiaid ac amffibiaid.[63] O ganlyniad, rydym o'r farn bod Rheoliadau 2014 yn ymwneud â lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth. Fel yr amlinellwyd uchod, nid yw lladd anifeiliaid mewn lladd-dai yn dod o fewn ystyr arfaethedig y term 'amaethyddiaeth', gan gymhwyso'r diffiniad o'r term fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Felly, rydym o'r farn nad yw cymhwyso Rheoliadau 2014 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

7.68 Am y rhesymau uchod, rydym yn dod i'r casgliad nad yw Rheoliadau 2014 yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y darpar God. Mae Pennod 10 yn ystyried yn fanylach y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch amaethyddol.

### **Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024**

7.69 Mae Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ("Deddf 2024") yn rhychwantu ac yn gymwys i Gymru a Lloegr a'r Alban (ac eithrio darpariaethau cyfyngedig sy'n rhychwantu ac yn gymwys i'r Alban yn unig). Mae Deddf 2024 yn ei gwneud yn drosedd allforio rhai anifeiliaid byw o Brydain Fawr i'w lladd, neu i'w pesgi at ddibenion eu lladd, y tu allan i Ynysoedd Prydain.[64] Yr anifeiliaid da byw y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt yw gwartheg neu anifeiliaid buchol eraill, ceffylau ac anifeiliaid ceffylaidd eraill, defaid, geifr, moch a baeddod gwyllt.[65] Nid yw'r darpariaethau'n berthnasol i ddofednod. Mae'r drosedd yn berthnasol i deithiau o Brydain Fawr neu drwy Brydain Fawr i gyrchfan y tu allan i Ynysoedd Prydain.

7.70 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi Deddf 2024 fel y darperir ar ei chyfer o dan Reoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ("Rheoliadau 2024").[66]

---

61 Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014, OS 2014/951 (Cy 92), rheoliad 13(b).

62 Rheoliad Cyngor y DU (CE) Rhif 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd, erth 3(1).

63 Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014, OS 2014/951 (Cy 92), rheoliad 28 ac Atodlen 4.

64 Daeth darpariaethau sylweddol Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 i rym mewn perthynas â Chymru ar 22 Gorffennaf 2024.

65 Nid yw'r gwaharddiad ar allforio o dan Ddeddf 2024 yn berthnasol i ddofednod oherwydd nad ystyrir bod allforio anifeiliaid o'r fath yn codi pryderon lles ar hyn o bryd.

66 Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024, OS 2024/1146, rheoliad 4(1).

### Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024: meini prawf cynnwys

7.71 Mae briff ymchwil Tŷ'r Cyffredin ar gyfer Deddf 2024 yn nodi:

> Mae anifeiliaid byw wedi cael eu hallforio ers tro byd i wledydd yr UE o'r DU ar gyfer bridio, pesgi a lladd. Mae ymgyrchoedd wedi bod yn mynd rhagddynt ers tro byd, gan gynnwys ymgyrch Stop Live Exports yr RSPCA, i roi diwedd ar allforion o'r fath. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon bod anifeiliaid sy'n cael eu cludo i Ewrop yn dioddef teithiau diangen o hir, yn profi straen, blinder, syched a thriniaeth arw.[67]

7.72 Nod Deddf 2024 yw diogelu lles da byw sy'n cael eu cadw a'u bridio at ddibenion amaethyddol. Felly, mae Deddf 2024 yn ymwneud â lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth. Mae Deddf 2024 yn gwahardd allforio da byw i'w lladd neu i'w pesgi cyn eu lladd. Fel yr amlinellir ym mharagraff 7.60, nid yw lladd da byw yn dod o fewn ein hystyr arfaethedig o'r term da byw (fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023). Ar ben hynny, mae tystiolaeth gan y sector a ddarparwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ("NFU Cymru") ynghylch Deddf 2024 yn adrodd na fyddai ffermwyr, cyn y gwaharddiad, wedi bod yn "ymwneud yn uniongyrchol ag allforio anifeiliaid yn fyw."[68] Felly, rydym o'r farn nad yw cymhwyso Deddf 2024 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

7.73 O ganlyniad, rydym o'r farn nad yw Deddf 2024 yn bodloni ein meini prawf ar gyfer cael ei chynnwys yn y darpar God. Beth bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod ystyriaethau polisi sy'n llywio a yw Deddf 2024 a rheoliadau ategol yn dod o fewn darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Er enghraifft, nodwn fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad yn ddiweddar i Weinidogion y DU ddeddfu Rheoliadau 2024, sy'n gweithredu Deddf 2024, ar y sail:

> gall teithiau cludo da byw gychwyn a theithio drwy wahanol wledydd Prydain Fawr er mwyn cyrraedd y gyrchfan. Gallai rheoliadau ar wahân, neu unrhyw wahaniaeth wrth i reoliadau ddod i rym, ledled Prydain Fawr arwain at gymhlethdod, anghysondebau a baich gweinyddol ar y diwydiant ac asiantaethau gorfodi.[69]

## DEDDFWRIAETH IECHYD ANIFEILIAID

7.74 Mae'r adran ganlynol (paragraffau 7.75 i 7.99) yn ystyried y gyfraith ddomestig (gan gynnwys deddfwriaeth a gymathwyd) sy'n llywodraethu iechyd anifeiliaid i'r graddau y mae'n gymwys i dda byw. Mae'r corff o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cyfraith iechyd anifeiliaid yn sylweddol ei faint. O ganlyniad, mae'r bennod hon yn

---

67 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, "Animal Welfare (Livestock Exports) Act 2024: Research Briefing" (Gorffennaf 2024) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9912/CBP-9912.pdf.

68 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Consultation Response to the Senedd Economy, Trade and Rural Affairs Committee – Legislative Consent: Animal Welfare (Livestock Exports) Bill" (2024) https://business.senedd.wales/documents/s144529/Evidence%20paper%20-%20National%20Farmers%20Union%20Cymru.pdf.

69 H Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, "Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024" (Medi 2024) https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-gorfodi-lles-anifeiliaid-allforion-da-byw-2024.

canolbwyntio ar y cyfreithiau iechyd anifeiliaid hynny sydd fwyaf perthnasol i'r sector amaethyddol yn ein barn ni.

### Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981

7.75 Mae Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981") yn rheoleiddio'r gwaith o atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid.

7.76 Mae Deddf 1981 yn darparu ar gyfer cyfundrefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r awdurdodau perthnasol am glefydau anifeiliaid penodol. Yn ymarferol, cyfeirir at y clefydau hyn fel clefydau hysbysadwy.[70] Nodwn fod y term "clefydau hysbysadwy" hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at glefydau dynol hysbysadwy o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r term "clefydau hysbysadwy" i gyfeirio at y clefydau anifeiliaid hynny sy'n cael eu trin fel rhai hysbysadwy o dan Ddeddf 1981.

7.77 Clefydau hysbysadwy yw'r rhai a bennir yn adran 88 Deddf 1981 ac mewn gorchmynion penodol a wneir o dan y Ddeddf. Mae enghreifftiau o glefydau hysbysadwy yn cynnwys clwy'r traed a'r genau, clwy'r moch, ffliw adar, a thwbercwlosis buchol. Gall clefydau hysbysadwy fod yn endemig sy'n golygu eu bod eisoes yn bresennol yn y DU neu'n egsotig, sy'n golygu nad ydynt yn bresennol yn y DU fel arfer.

7.78 Rhaid i berson sydd ag anifail yn ei feddiant neu o dan ei ofal y mae clefyd hysbysadwy yn effeithio arno, neu anifail yr amheuir bod clefyd o'r fath yn effeithio arno, hysbysu'r awdurdod perthnasol o'r ffaith honno.[71] Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn ofynnol i filfeddyg neu berson sy'n dadansoddi sampl o anifail hefyd roi gwybod am achosion lle mae clefyd hysbysadwy wedi effeithio ar anifail neu lle'r amheuir bod clefyd hysbysadwy wedi effeithio arno. Yn ymarferol, rhaid rhoi gwybod i'r APHA am achosion neu achosion a amheuir o glefydau hysbysadwy.[72]

7.79 Diffinnir anifeiliaid o dan Ddeddf 1981 fel "gwartheg, defaid, geifr, pob anifail arall sy'n cnoi cil a moch".[73] Gellir estyn y diffiniad o anifail o dan Ddeddf 1981 drwy orchymyn.[74]

7.80 Mae Deddf 1981 yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru, y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, i wneud gorchmynion i atal a rheoli lledaeniad clefydau anifeiliaid, gan gynnwys gorchmynion sy'n:

---

70 Llywodraeth Cymru, "Rhowch wybod am glefydau hysbysadwy" https://www.llyw.cymru/clefydau-hysbysadwy-canllaw.

71 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 15 a darpariaethau perthnasol yn y gorchmynion a wnaed o dan y Ddeddf.

72 Yr APHA yw'r asiantaeth weithredol sy'n gyfrifol am nodi a rheoli clefydau iechyd anifeiliaid a phlanhigion (ymysg materion eraill).

73 Deddf Anifeiliaid 1981, adran 87.

74 Ers hynny, trosglwyddwyd y pwerau perthnasol i Weinidogion Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(1) gosod cyfyngiadau ar symud anifeiliaid;

(2) rheoleiddio nodi anifeiliaid;

(3) darparu ar gyfer mesurau bioddiogelwch (er enghraifft, gofynion o ran glanhau a diheintio ardaloedd lle y cedwir anifeiliaid);

(4) gwahardd neu reoleiddio mewnforio anifeiliaid, dofednod a charcasau anifeiliaid neu ddofednod (ymhlith pethau eraill);

(5) gwahardd neu reoleiddio allforio anifeiliaid, dofednod a charcasau; a

(6) rhagnodi a rheoleiddio atafaelu, cadw a gwaredu anifeiliaid wedi'u heintio (neu anifeiliaid yr amheuir eu bod wedi'u heintio).

7.81 Gall Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol i anifeiliaid gael eu trin â brechlynnau neu serwm i atal clefydau anifeiliaid rhag lledaenu. Yn ogystal, mae Deddf 1981 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofyniad i gynhyrchu cynlluniau wrth gefn cenedlaethol ar gyfer ymateb i achosion o glefydau anifeiliaid.[75]

7.82 Mae Rhan 3 Deddf 1981 yn ymwneud â lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu hallforio ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion yn y cyswllt hwnnw.[76] Mae Deddf 1981 hefyd yn rhoi pwerau amrywiol i Weinidogion Cymru, fel y pŵer i wneud gorchmynion sy'n ymwneud â rheoli cŵn.[77]

### Is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf 1981

7.83 Mae toreth o is-ddeddfwriaeth wedi'i gwneud o dan Ddeddf 1981. Rydym wedi nodi 53 o offerynnau statudol sylweddol a wnaed o dan Ddeddf 1981 sy'n berthnasol i Gymru ac sy'n parhau mewn grym.[78]

7.84 Mae pwnc yr offerynnau statudol a wnaed o dan Ddeddf 1981 yn perthyn i'r categorïau bras a amlinellir isod.

(1) Gorchmynion sy'n darparu ar gyfer atal a rheoli mathau penodol o glefydau anifeiliaid (megis ffliw adar a chlwy'r traed a'r genau).

(2) Gorchmynion sy'n ymwneud ag atal clefydau anifeiliaid rhag ymledu'n gyffredinol, er enghraifft, drwy gyfyngu ar symud anifeiliaid neu osod rheolaethau ar anifeiliaid a fewnforir.

---

75 Deddf Anifeiliaid 1981, adran 14A. Gweler, er enghraifft, gynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer clefydau hysbysadwy egsotig: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/exotic-animal-diseases-contingency-plan.pdf.

76 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adrannau 38 i 39.

77 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 13.

78 Mae offerynnau statudol sylweddol yn golygu unrhyw offerynnau statudol ar wahân i'r rheini sy'n dirymu neu'n diwygio deddfwriaeth arall.

(3) Gorchmynion sy'n ymwneud ag iechyd neu les anifeiliaid mewn cyd-destunau penodol: sef, mewn marchnadoedd, mewn crynoadau ac wrth gludo.

(4) Gorchmynion sy'n gwneud darpariaeth sy'n atodol neu'n ategol i atal a rheoli clefydau anifeiliaid. Er enghraifft, gorchmynion sy'n darparu ar gyfer mesurau digolledu pan fo anifail wedi'i ladd er mwyn atal neu reoli lledaeniad clefyd anifeiliaid.

7.85 Gwneir un gorchymyn hefyd o dan Ddeddf 1981 sy'n ymddangos yn ddigyswllt, neu'n gysylltiedig yn fras ar y gorau, â phwnc clefyd anifeiliaid: Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992.[79]

### Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf 1981: meini prawf cynnwys

7.86 Mae Deddf 1981 yn ymwneud yn bennaf â lledaeniad clefydau ymysg da byw. Diffinnir clefyd at ddibenion y Ddeddf i olygu unrhyw un o'r canlynol: pla gwartheg, pliwro-niwmonia, clwy'r traed a'r genau, brech y defaid, y clafr, neu glwy'r moch.[80] Ar ben hynny, mae'r diffiniad o “anifeiliaid” yn Neddf 1981 yn canolbwyntio'n bennaf ar dda byw, sef “gwartheg, defaid a geifr, a phob anifail arall sy'n cnoi cil, a moch”.[81]

7.87 Fodd bynnag, mae cwmpas y Ddeddf yn ehangach na'r clefydau hynny sy'n effeithio'n bennaf ar dda byw i'r graddau:

(1) y gall y term “anifeiliaid sy'n cnoi cil” gynnwys anifeiliaid sy'n byw yn y gwyllt, megis ceirw;

(2) gellir estyn y diffiniad o anifeiliaid drwy orchymyn;[82]

(3) mae darpariaethau penodol yn y Ddeddf yn ymestyn i fathau eraill o anifeiliaid gan gynnwys ceffylau; a

(4) gellir ymestyn ystyr y term “clefyd” drwy orchymyn.[83]

7.88 O dan Ddeddf 1981, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i osod safonau, mesurau a rheolaethau y mae'n rhaid i berchenogion a cheidwaid anifeiliaid penodol gydymffurfio â hwy. Mae Gweinidogion Cymru, ac mewn rhai achosion dethol Gweinidogion y DU, wedi deddfu ar gyfer safonau, mesurau a rheolaethau o'r fath drwy nifer o offerynnau statudol sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru. Diben cyffredinol cyfreithiau o'r fath yw atal a dileu clefydau anifeiliaid a rheoli lledaeniad clefydau o'r fath pan fydd brigiad o achosion neu achosion o glefydau'n digwydd.

7.89 Yn ein hasesiad, mae atal, dileu a rheoli clefydau anifeiliaid yn ymwneud ag amaethyddiaeth i'r graddau bod da byw iach yn hanfodol i gynhyrchiant sector

79 OS 1992/901.

80 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 88(1).

81 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 87(1).

82 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 87(2).

83 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 88(2).

amaethyddol Cymru. Mae ymchwil yn dangos bod da byw iach yn cynhyrchu mwy o gig a chynnyrch amaethyddol arall a bod angen llai o adnoddau arnynt nag anifeiliaid y mae clefydau'n effeithio arnynt.[84]

7.90 At hynny, gall brigiad o achosion o glefydau anifeiliaid fod yn drychinebus yn ariannol i'r sector amaethyddol. Amcangyfrifir, o ganlyniad i frigiad o achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001, fod y sector amaethyddol, y gadwyn fwyd, a gwasanaethau cefnogi wedi wynebu costau net o £0.6 biliwn ar ôl iawndal.[85] Erbyn i'r clefyd gael ei ddileu ddiwedd 2001, roedd dros 6 miliwn o anifeiliaid yn y DU wedi cael eu lladd.[86]

7.91 Fodd bynnag, mae'r sector amaethyddol yn un o nifer o sectorau y mae brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid yn effeithio arno. Amcangyfrifir bod y brigiad o achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001 wedi costio £3 biliwn i sector cyhoeddus y DU.[87] Amcangyfrifwyd bod twristiaeth a'r diwydiannau ategol wedi colli refeniw o rhwng £4.5 biliwn a £5.4 biliwn.[88] Felly, er y gellir dweud bod cyfraith iechyd anifeiliaid yn cefnogi ac yn amddiffyn y diwydiant amaethyddol, mae hefyd yn diogelu'r economi genedlaethol yn ehangach.

7.92 Mae cyfraith iechyd anifeiliaid hefyd yn diogelu iechyd y cyhoedd. Mae Deddf 1981 nid yn unig yn ceisio atal, dileu a rheoli clefydau y gellir eu trosglwyddo rhwng anifeiliaid, ond hefyd y clefydau hynny sy'n gallu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl, a elwir yn filheintiau. Fel y nodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd, “mae llawer o glefydau heintus dynol sefydledig yn tarddu o anifeiliaid”.[89] Yn ogystal, adroddir bod “bron pob cyfrwng heintus newydd sy'n dod i'r amlwg mewn bodau dynol yn deillio o anifeiliaid”.[90] Yn wir, mae pandemig diweddar y coronafeirws wedi dangos yr effaith ddinistriol y gall milheintiau ei chael ar iechyd pobl ar raddfa fyd-eang.[91]

7.93 Ar ben hynny, mae'r dull “Iechyd Cyfunol” o lunio polisïau a fabwysiadwyd yn rhyngwladol yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth sylfaenol bod pynciau iechyd anifeiliaid ac iechyd pobl yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae Iechyd Cyfunol yn ddull o ddylunio a

---

84 Iechyd ar gyfer Anifeiliaid, “How better animal health supports sustainable food systems” (Ionawr 2024) https://healthforanimals.org/wp-content/uploads/2024/01/How-Better-Animal-Health-Supports-Sustainable-Food-Systems-2501.pdf.

85 The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease, Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfrifon Cyhoeddus (2002-03) HC 487 https://publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmselect/cmpubacc/487/48703.htm.

86 The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease, Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfrifon Cyhoeddus (2002-03) HC 487 https://publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmselect/cmpubacc/487/48703.htm.

87 The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease, Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfrifon Cyhoeddus (2002-03) HC 487 https://publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmselect/cmpubacc/487/48703.htm.

88 The 2001 Outbreak of Foot and Mouth Disease, Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfrifon Cyhoeddus (2002-03) HC 487 https://publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmselect/cmpubacc/487/48703.htm.

89 Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid, “Animal Health and Welfare” https://www.woah.org/en/what-we-do/animal-health-and-welfare/.

90 Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid, “Animal Health and Welfare” https://www.woah.org/en/what-we-do/animal-health-and-welfare/.

91 POST Senedd y DU, “Preventing emerging zoonoses” (Ionawr 2022) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0660/POST-PN-0660.pdf.

gweithredu polisi, a fabwysiadwyd gan sefydliadau rhyngwladol fel yr UE a Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n cydnabod:

> mae iechyd pobl, anifeiliaid domestig a gwyllt, planhigion, a'r amgylchedd ehangach (gan gynnwys ecosystemau) wedi'u cysylltu'n agos ac yn rhyngddibynnol.[92]

7.94 Mae'r cysyniad Iechyd Cyfunol wedi'i wreiddio yng Nghynllun Gweithredu Iechyd a Lles Anifeiliaid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022 i 2024. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod diogelu iechyd anifeiliaid yn helpu i sicrhau cyflenwad bwyd sydd, yn ei dro, yn lleihau'r "posibilrwydd o broblemau iechyd cyhoeddus difrifol a achosir gan brinder bwyd a diffygion protein".[93]

7.95 Yn gyffredinol, nod Deddf 1981, ac is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu'r Ddeddf, yw atal, dileu a rheoli lledaeniad clefydau anifeiliaid er mwyn:

(1) diogelu iechyd y cyhoedd;

(2) diogelu iechyd anifeiliaid;

(3) hyrwyddo safonau uchel o ran lles anifeiliaid; a

(4) diogelu'r economi rhag y colledion ariannol difrifol sy'n gallu deillio o frigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid.

O ganlyniad, rydym o'r farn bod Deddf 1981 yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond hefyd â phynciau ehangach gan gynnwys iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, iechyd y cyhoedd a'r economi.

7.96 O ran ei chymhwyso'n ymarferol, mae Deddf 1981 yn ymwneud yn bennaf â materion iechyd a lles anifeiliaid sydd:

> yn gysylltiedig yn draddodiadol ag anifeiliaid a ffermir megis symud a nodi, TB a chlefydau anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chyfyngiadau yn ystod brigiad o achosion o glefyd.[94]

O ganlyniad, ffermwyr a gweithwyr amaethyddol yw un o'r prif grwpiau rhanddeiliaid sy'n gorfod cydymffurfio â'r corff o gyfreithiau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid.

7.97 Fodd bynnag, bydd angen i randdeiliaid eraill - er enghraifft, y rheini sy'n ffermio ar gyfer eu bwyd eu hunain a'r rheini sy'n cadw anifeiliaid da byw fel anifeiliaid anwes dof - hefyd gydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i'r anifeiliaid yn eu meddiant.

---

92 Sefydliad Iechyd y Byd, "One Health" https://www.who.int/health-topics/one-health#tab=tab_1.

93 Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid 2022-2024* (Ionawr 2022) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2022-2024.pdf, t 13.

94 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, *Animal Health and Welfare Framework* (diweddarwyd ym Medi 2022) https://www.gov.uk/government/publications/animal-health-and-welfare-framework-2018/animal-health-and-welfare-framework#managing-the-animal-health-and-welfare-framework.

7.98 Ar ben hynny, gall llawer o'r clefydau sy'n effeithio ar dda byw yn aml effeithio ar anifeiliaid eraill hefyd. Er enghraifft, gwneir nifer o orchmynion o dan Ddeddf 1981 sy'n ymwneud ag atal a rheoli ffliw adar: clefyd sy'n effeithio ar ddofednod, ond sydd hefyd yn gallu heintio adar gwyllt. Yn ogystal, ceir gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf 1981 sy'n ceisio atal neu reoli clefydau na wyddys eu bod yn bodoli mewn da byw. Er enghraifft, gwnaed nifer o orchmynion dan y Ddeddf sy'n ceisio atal neu reoli clefydau sy'n effeithio ar geffylau.[95] Yn ogystal, fel yr amlinellir uchod, mae Deddf 1981 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer atal clefydau anifeiliaid rhag lledaenu a all drosglwyddo o anifeiliaid i bobl.

7.99 Am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'n anodd penderfynu a yw cymhwyso'r Ddeddf yn ymarferol yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. O ganlyniad, credwn fod dadleuon cystadleuol a chytbwys ynghylch a yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno, yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Felly, rydym yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cwmpasu cyfraith iechyd anifeiliaid yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ym mharagraffau 7.119 i 7.136 isod.

## CYFRAITH IECHYD ANIFEILIAID A GYMATHWYD

7.100 Adroddwyd, cyn i'r DU adael yr UE, fod 400 darn o ddeddfwriaeth yn deillio o'r UE a oedd yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid.[96] Bydd llawer o'r ddeddfwriaeth honno bellach yn rhan o'n llyfr statud domestig fel cyfraith a gymathwyd. Ni fu'n bosibl, o fewn cyfyngiadau ein gwaith, i'r adroddiad hwn ystyried pob cyfraith a gymathwyd sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio ar y cyfreithiau hynny a gymathwyd sydd, yn ein barn ni, yn fwyaf canolog i iechyd da byw. Gellir rhannu'r cyfreithiau hynny i'r categorïau isod:

(1) cyfreithiau a gymathwyd sy'n ymwneud â nodi, olrhain a chofrestru da byw; a

(2) chyfreithiau a gymathwyd sy'n ymwneud â rheoli clefydau anifeiliaid penodol sy'n effeithio ar dda byw.

7.101 Ceir hefyd gyfreithiau a gymathwyd sy'n ymwneud â rheoleiddio milfeddygon. Fodd bynnag, mae rheoleiddio cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol a safonau proffesiynol milfeddygol yn faterion a gedwir yn ôl.[97] Mae hyn yn golygu bod y materion hynny y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, nid yw ein hadroddiad yn ystyried cyfreithiau a gymathwyd sy'n ymwneud â materion o'r fath.

7.102 Yn ogystal, ceir y cyfreithiau hynny sy'n sail i orfodi cyfraith iechyd a lles anifeiliaid a gymathwyd gan gynnwys y ddeddfwriaeth ar reolaethau swyddogol.[98] Ceir cyfreithiau

---

95 Yn gyffredinol, nid yw'r gyfraith yn ystyried bod ceffylau yn dod o fewn ystyr da byw amaethyddol oni bai eu bod yn cael eu cadw at ddibenion pori. Gweler er enghraifft, *P Williams, Scammell, Densham a Williams Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023) paragraff 3.54.

96 Llywodraeth Cymru, "Amaethyddiaeth a garddwriaeth: Anifeiliaid" (Mawrth 2021) https://cyfraith.llyw.cymru/yr-amgylchedd/amaethyddiaeth-garddwriaeth/anifeiliaid.

97 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraffau 140 a 150.

98 Er enghraifft, Rheoliad y DU (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar reolaethau swyddogol a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2020, OS 2020/44 (Cy 5).

hefyd sy'n ceisio atal a rheoli lledaeniad clefydau anifeiliaid drwy reoleiddio masnach ryngwladol mewn anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid.[99] Fodd bynnag, ym Mhennod 10, rydym yn egluro, er mwyn gosod paramedrau y gellir eu rheoli ar gwmpas ein hadolygiad o gyfraith amaethyddol, nad ydym yn archwilio'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i gamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol.

### Cyfreithiau a gymathwyd sy'n ymwneud â rheoli clefydau anifeiliaid penodol

7.103 Mae nifer sylweddol o gyfreithiau a gymathwyd sy'n gosod mesurau sydd â'r nod o atal, dileu neu reoli lledaeniad mathau penodol o glefydau anifeiliaid. Cyfeirir yn aml at fesurau o'r fath fel mesurau bioddiogelwch y gellir eu disgrifio, yn y cyd-destun amaethyddol, fel mesurau a gymerir “i atal a chyfyngu ar ledaeniad clefydau heintus ar fferm ... ac mewn mannau eraill”.[100] Mae enghreifftiau o gyfreithiau a gymathwyd o'r math hwn wedi'u nodi isod.

(1) Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 sy'n darparu ar gyfer mesurau bioddiogelwch sydd â'r nod o ddileu, atal a rheoli lledaeniad y tafod glas: clefyd feirysol sy'n effeithio ar ddefaid.[101]

(2) Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 sy'n darparu ar gyfer gofynion hysbysu a mesurau bioddiogelwch sydd wedi'u hanelu at ddileu, atal a rheoli lledaeniad clefydau penodol sy'n effeithio ar ddofednod, er enghraifft, clefyd Newcastle.[102]

(3) Rheoliadau Clefydau Moch 2014 sy'n darparu ar gyfer gofynion hysbysu a mesurau bioddiogelwch sydd â'r nod o ddileu, atal a rheoli lledaeniad clefydau penodol sy'n effeithio ar foch, er enghraifft, clwy clasurol y moch.[103]

7.104 Ceir hefyd gyfreithiau a gymathwyd sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer mesurau bioddiogelwch neu fathau eraill o gyfyngiadau neu safonau sydd wedi'u hanelu at ddileu, atal neu reoli lledaeniad clefydau anifeiliaid yn gyffredinol (yn hytrach na mathau penodol o glefydau). Mae enghreifftiau wedi'u rhestru isod.

(1) Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn wirfoddol sy'n cydnabod compartmentau dofednod sy'n bodloni safonau bioddiogelwch uchel.[104]

---

99 Er enghraifft, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, OS 2011/2379 (Cy 252).

100 AHDB, “Biosecurity” https://ahdb.org.uk/knowledge-library/biosecurity.

101 Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008, OS 2008/1090 (Cy 116) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 1266/2007.

102 Mae Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003, OS 2003/1079 (Cy. 148) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 616/2009.

103 OS 2014/1894.

104 Mae Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010, OS 2010/1780 (Cy 169) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 616/2009.

(2) Rheoliadau Embryo Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995 sy'n gosod cyfyngiadau ar fewnforio embryonau buchol at ddibenion diogelu iechyd anifeiliaid ac atal clefydau anifeiliaid rhag ymledu.[105]

### Cyfreithiau a gymathwyd sy'n gorfodi mesurau bioddiogelwch: meini prawf cynnwys

7.105 Nod y cyfreithiau a gymathwyd a ystyrir ym mharagraffau 7.103 i 7.104 uchod yw dileu, atal a rheoli lledaeniad clefydau anifeiliaid sy'n effeithio ar dda byw. Ym mharagraff 7.95 deuwn i'r casgliad bod Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno, yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond hefyd â phynciau ehangach gan gynnwys lles anifeiliaid, iechyd pobl a'r economi. Rydym o'r farn bod yr un dadansoddiad yn berthnasol i'r cyfreithiau a gymathwyd a ystyrir ym mharagraffau 7.103 i 7.104 uchod.

7.106 Mae llawer o'r clefydau sy'n destun y cyfreithiau a gymathwyd a ystyriwyd ym mharagraff 7.103 yn glefydau sy'n effeithio'n bennaf ar dda byw ond sydd hefyd yn gallu lledaenu i rywogaethau eraill. Er enghraifft, adroddir y gall tafod glas effeithio ar dda byw ond hefyd ar anifeiliaid gwyllt megis ceirw ac, mewn achosion prin, ar gŵn.[106] Yn yr un modd, gwyddys bod ffliw adar yn effeithio ar ddofednod ond hefyd adar gwyllt a mamaliaid gwyllt a mamaliaid cadw.[107] Am y rhesymau hynny, mae'n anodd dod i'r casgliad bod gan y cyfreithiau a gymathwyd a amlinellir ym mharagraffau 7.103 i 7.104 gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth neu'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Felly, rydym o'r farn bod dadleuon cystadleuol a chytbwys iawn ynghylch a yw'r cyfreithiau a gymathwyd dan sylw yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. O ganlyniad, rydym yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cwmpasu'r cyfreithiau iechyd anifeiliaid hyn a gymathwyd yn y darpar God ym mharagraffau 7.119 i 7.136 isod.

### Cyfreithiau a gymathwyd sy’n ymwneud ag adnabod, olrhain a chofrestru da byw

7.107 Mae tri darn o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adnabod ac olrhain da byw at ddibenion iechyd anifeiliaid. Rhestrir yr is-ddeddfwriaeth berthnasol isod.

(1) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007.

(2) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011.

(3) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.[108]

7.108 Mae'r tair deddf uchod yn gosod gofynion sy'n ymwneud ag adnabod ac olrhain da byw at ddibenion rheoli clefydau. Er enghraifft, mae Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gwartheg osod tagiau clust ar eu gwartheg, cofrestru pob anifail gyda Gweinidogion Cymru a gwneud cais am basbort

---

105 OS 1995/2478.

106 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, “Bluetongue: how to spot and report it” (Awst 2014) https://www.gov.uk/guidance/bluetongue.

107 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, “Bird flu (avian influenza): latest situation in England” (Tachwedd 2022) https://www.gov.uk/government/news/bird-flu-avian-influenza-latest-situation-in-england.

108 OS 2007/842 (Cy 74); OS 2011/2830 (Cy 303); OS 2015/1992 (Cy 302).

gwartheg. Rhaid i unrhyw un sy'n cludo gwartheg sicrhau bod pasbort gwartheg dilys gyda phob anifail a gludir.

7.109 Ceir deddfau hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestrau o sefydliadau sy'n cadw ieir dodwy at ddibenion rheoli clefydau anifeiliaid. Mae Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestrau o sefydliadau sy'n cadw mwy na 350 o ieir dodwy (ac eithrio magu ieir dodwy sy'n bridio).[109] At hynny, mae rheoliad 7 Rheoliadau Mesurau Atal Ffliw Adar (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i geidwaid dofednod neu adar caeth eraill gofrestru gyda Gweinidogion Cymru ni waeth faint o ddofednod neu adar caeth a gedwir.[110] Fodd bynnag, mae'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu at ddibenion y gofrestr yn amrywio yn ôl maint yr haid.

### Cyfreithiau adnabod ac olrhain ar gyfer da byw: meini prawf cynnwys

7.110 Mae'r cyfreithiau da byw, olrhain a chofrestru a ddisgrifir uchod yn ymwneud ag atal, rheoli a dileu lledaeniad clefydau anifeiliaid ymysg da byw.

7.111 Ym mharagraff 7.95 rydym yn ystyried sut mae cyfreithiau iechyd anifeiliaid sy'n berthnasol i glefydau sy'n effeithio ar dda byw yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond hefyd pynciau ehangach gan gynnwys iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, iechyd y cyhoedd a'r economi. Rydym o'r farn bod yr un dadansoddiad yn berthnasol i'r cyfreithiau adnabod, olrhain a chofrestru da byw a ystyrir ym mharagraffau 7.107 i 7.109 uchod. Yn wir, disgrifiwyd nod eang cyfraith iechyd anifeiliaid sy'n deillio o'r UE fel a ganlyn:

> galluogi masnach yn y Farchnad Sengl, i sicrhau safonau uchel o iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd yn yr UE a datblygiad rhesymol y sectorau amaethyddiaeth a dyframaethu, ac i gynyddu cynhyrchiant.[111]

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod adnabod da byw yn "hanfodol ar gyfer atal, rheoli a dileu clefydau a diogelu iechyd y cyhoedd".[112]

7.112 Mae'r cyfreithiau adnabod, olrhain a chofrestru da byw a ystyrir ym mharagraffau 7.103 i 7.104 yn gosod gofynion y mae'n rhaid i ffermwyr da byw gydymffurfio â nhw tra bo anifeiliaid yn cael eu cadw ar fferm (er enghraifft tagio clustiau a'r gofynion cofrestru perthnasol). Mae gofynion hefyd sy'n berthnasol i gludwyr da byw, ond rydym o'r farn y bydd y teithiau hynny'n cael eu gwneud at ddibenion hwyluso masnach amaethyddol. Felly, rydym yn fodlon bod cymhwyso'r deddfau yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth, ac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

---

[109] OS 2004/1432 (Cy 145).

[110] OS 2006/2803 (Cy 242).

[111] Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590.

[112] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar Newid Trefn Adnabod, Cofrestru a Rhoi Gwybod am Symudiadau Da Byw* (Medi 2021) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-10/dogfen-ymgynhori-da%20byw.pdf, t 8.

7.113 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod y cyfreithiau adnabod, olrhain a chofrestru da byw dan sylw yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

## CWMPAS Y DARPAR GOD

7.114 Yn y bennod hon, rydym wedi dod i'r casgliad bod nifer fach o gyfreithiau lles anifeiliaid yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru:

(1) Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007; a

(2) Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 2009.

7.115 Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw'r rhan fwyaf o'r cyfreithiau lles anifeiliaid a ystyrir yn y bennod hon yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y darpar God. Y rheswm am hyn yw bod gan y cyfreithiau dan sylw gysylltiad agosach â phwnc lles anifeiliaid nag ag amaethyddiaeth. Fel arall, neu'n ychwanegol at hynny, rydym wedi penderfynu bod gan y cyfreithiau dan sylw gymhwysiad ymarferol nad yw wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

7.116 Yn yr un modd, rydym wedi dod i'r casgliad bod nifer fach o gyfreithiau iechyd anifeiliaid yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys: y rheini sy'n ymwneud ag adnabod, olrhain a chofrestru da byw. Rhestrir y deddfau, a'r darpariaethau deddfwriaethol, dan sylw isod.

(1) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007.

(2) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011.

(3) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

(4) Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004.

(5) Rheoliad 7 Rheoliadau Mesurau Atal Ffliw Adar (Cymru) 2006.

7.117 Ar gyfer gweddill y ddeddfwriaeth iechyd anifeiliaid a ystyrir yn y bennod hon, mae dadleuon cytbwys iawn ynghylch a yw cyfreithiau o'r fath yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Yn gyntaf, rydym o'r farn bod y deddfau dan sylw yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond hefyd ag ystod ehangach o bynciau gan gynnwys lles anifeiliaid yn fwy cyffredinol, iechyd cyhoeddus a'r economi. Yn ail, rydym o'r farn bod cymhwyso'r cyfreithiau'n ymarferol yn cynnwys y sector amaethyddol, ond yn ymestyn y tu hwnt iddo. Yn drydydd, rydym o'r farn ei bod yn anodd dirnad a oes gan y cyfreithiau gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Y rheswm am hyn yw bod modd trosglwyddo llawer o glefydau anifeiliaid sy'n effeithio ar dda byw rhwng nifer o rywogaethau, a gallant effeithio arnynt, gan gynnwys bywyd gwyllt.[113]

[113] A Wiethoelter ac eraill, "Global trends in infectious diseases at the wildlife-livestock interface" (Gorffennaf 2015).

7.118 Yng ngoleuni ein hasesiad o'r uchod, rydym o'r farn bod tri opsiwn ar gyfer ymgorffori'r gyfraith ar iechyd a lles da byw yn y darpar God.

### Opsiwn un: cyfeirio at y gyfraith ar iechyd a lles da byw

7.119 O dan opsiwn un, byddai'r darpar God ond yn cynnwys y nifer fach o gyfreithiau lles anifeiliaid a chyfreithiau iechyd anifeiliaid yr ydym wedi nodi eu bod yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys.

(1) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007.

(2) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011.

(3) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

(4) Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004.

(5) Rheoliadau Mesurau Atal Ffliw Adar (Cymru) 2006.

(6) Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir 2007.

(7) Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990.

7.120 Prif fantais opsiwn un yw y byddai'n sicrhau bod y darpar God yn canolbwyntio ar y cyfreithiau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid hynny sy'n uniongyrchol ac yn bennaf berthnasol i'r sector amaethyddol. Byddai'n sicrhau ymhellach nad yw'r darpar God yn cynnwys deddfwriaeth a allai fod yn fwy addas i ddod o fewn cod posibl o gyfraith Cymru yn y dyfodol ar bwnc gwahanol, fel cod cyfraith Cymru sy'n cwmpasu deddfwriaeth sy'n effeithio ar anifeiliaid yn gyffredinol.

7.121 O'r tri opsiwn a gynigir, rydym hefyd o'r farn mai opsiwn un fyddai'r un lleiaf dwys o ran adnoddau i'w weithredu. Mae'r deddfau a gynigir i'w cynnwys o dan opsiwn un i gyd wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth ac mae'r rhan fwyaf mewn offerynnau a wnaed gan Weinidogion Cymru.[114]

7.122 Prif anfantais y model a gynigir o dan opsiwn un yw y byddai'n golygu na fyddai'r darpar God yn cynnwys cyfreithiau allweddol ar iechyd a lles anifeiliaid y mae'n rhaid i ffermwyr gydymffurfio â hwy. Er enghraifft, byddai Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a'r gorchmynion iechyd anifeiliaid a wnaed o dan y Ddeddf honno y tu allan i'w gwmpas. Bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol a gyhoeddir gyda'i gilydd. Felly, gellid ystyried ei bod yn anfoddhaol i'r darpar God beidio â chynnwys yr holl gyfreithiau iechyd anifeiliaid a'r cyfreithiau lles anifeiliaid sy'n berthnasol i dda byw. Yn ogystal, gall unigolion sy'n cyfeirio at y darpar God dybio bod cyfreithiau sydd wedi'u heithrio o'i gwmpas yn amherthnasol i'r sector amaethyddol.

7.123 Fodd bynnag, gallai cyfeirio helpu i liniaru'r risgiau a amlinellir uchod. Gallai cyfeirio olygu tudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar God sy'n darparu dolenni i'r cyfreithiau iechyd

[114] Yr unig eithriad yw Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990, OS 1990/2628: gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddeddfu Gorchymyn 1990 yng Nghrymu'n unig.

anifeiliaid a'r cyfreithiau lles anifeiliaid hynny sydd y tu allan i gwmpas y darpar God ond sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol.

7.124 Serch hynny, rydym yn cydnabod mai dim ond ateb rhannol i fynd i'r afael ag anhygyrchedd y gyfraith yn y maes hwn y gall cyfeirio ei gynnig. Y rheswm am hyn yw y byddai'r darpar God yn cyfeirio at feysydd cyfreithiol - cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid - a fyddai'n dal yn dameidiog ac yn swmpus.

7.125 Felly, gellid ystyried bod eithrio'r rhan fwyaf o gyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid o gwmpas y darpar God yn gyfle a gollwyd i gydgrynhoi, symleiddio a moderneiddio'r gyfraith yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen waith ehangach ac uchelgeisiol i godeiddio'r gyfraith ar bynciau datganoledig yng Nghymru; tasg sydd wedi'i disgrifio'n briodol fel un sy'n galw am ymdrech genedlaethol.[115] Felly, nid y gwaith sy'n deillio o'r adroddiad hwn yw'r unig gyfle i godeiddio'r cyfreithiau ar iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid.

### Opsiwn dau: cynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid a deddfau lles da byw dethol yn y darpar God

7.126 O dan opsiwn dau, rydym yn cynnig y byddai'r ddeddfwriaeth ganlynol yn cael ei chynnwys yn y darpar God:

(1) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981;

(2) yr is-ddeddfwriaeth a ddeddfwyd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981;

(3) y gyfraith a gymathwyd sy'n ceisio atal, dileu a rheoli lledaeniad clefydau anifeiliaid penodol (gweler paragraffau 7.103 i 7.104);

(4) y deddfau adnabod, olrhain a chofrestru da byw a ystyrir ym mharagraffau 7.107 i 7.109;

(5) Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007; a

(6) Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990.

7.127 O'i gymharu â'r opsiwn cyntaf, mae gan opsiwn dau y fantais o gwmpasu cwmpas llawer ehangach o gyfreithiau iechyd anifeiliaid a chyfreithiau lles anifeiliaid y mae angen i ffermwyr gydymffurfio â nhw.

7.128 Yn ogystal, mae opsiwn dau yn osgoi darnio cyfraith iechyd anifeiliaid. Gall brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid waethygu'n gyflym a pheri risgiau difrifol i'r sector amaethyddol, lles anifeiliaid, iechyd pobl a'r economi. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, a'r asiantaethau neu'r cyrff hynny sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn, yn gallu nodi'n hawdd yr ystod lawn o bwerau gweithredol sydd ar gael i ymateb i frigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid. Yn unol â hynny, mae achos cryf

---

115 Llywodraeth Cymru, *Dyfodol Cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 - adroddiad blynyddol 2021 i 2022* (Tachwedd 2022) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-adroddiad-blynyddol-2021-i-2022-html, paragraff 51.

dros sicrhau bod cyfraith iechyd anifeiliaid yn cael ei chynnwys mewn un fframwaith deddfwriaethol cydlynol a chynhwysfawr (ar ffurf cod cyfraith Cymru).

7.129 Prif anfantais opsiwn dau yw ei fod yn golygu na fyddai'r gyfraith ar iechyd anifeiliaid a'r rhan fwyaf o'r cyfreithiau ar les anifeiliaid yn cael eu cynnwys yn yr un cod o gyfraith Cymru. Mae cysylltiad agos rhwng iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Mae cryn dystiolaeth bod mabwysiadu safonau lles anifeiliaid uchel yn lleihau'r risg o frigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid ac yn diogelu iechyd anifeiliaid. Mae lles anifeiliaid gwael "fel arfer yn arwain at fwy o duedd i gael afiechydon oherwydd yr effeithiau ar y system imiwnedd o orfod ymdopi ag amodau byw anodd".[116]

7.130 Cydnabyddir ymhellach bod anifeiliaid "y gofelir amdanynt yn briodol ac yn unol â'r safonau bioddiogelwch a lles presennol yn fwy tebygol o fod yn iach ac yn llai tebygol o ledaenu clefydau".[117] O ystyried bod cyswllt anorfod rhwng pynciau iechyd a lles anifeiliaid, mae anfanteision i ddatblygu model o'r darpar God sy'n rhannu'r meysydd cyfraith hynny.

7.131 Yn olaf, gallai dod â chyfraith iechyd anifeiliaid o fewn cwmpas y darpar God greu argraff gamarweiniol nad yw cwmpas a pherthnasedd cyfraith iechyd anifeiliaid yn ymestyn y tu hwnt i'r sector amaethyddol. Er y gellir ystyried bod y rhan fwyaf o gyfreithiau iechyd anifeiliaid yn ymwneud yn ganolog ag iechyd da byw, mae'r cyfreithiau hynny hefyd yn ymwneud ag iechyd categorïau ehangach o anifeiliaid a chlefydau nad yw'n hysbys eu bod yn peri risg benodol i dda byw. Fodd bynnag, gallai tudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God, mewn egwyddor, ddangos cwmpas ehangach unrhyw gyfreithiau iechyd anifeiliaid sydd ynddi.

### Opsiwn tri: ehangu cwmpas y darpar God a chynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid

7.132 Byddai opsiwn tri yn cynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid yn y darpar God. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r darpar God yn cwmpasu'r gyfraith ar iechyd a lles anifeiliaid gan gynnwys da byw, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Rydym o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn golygu ehangu cwmpas y darpar God i gynnwys cod cyfreithiol ar gyfer amaethyddiaeth ac anifeiliaid. Pe bai cwmpas y darpar God yn cael ei ehangu fel hyn, credwn y byddai'n bwysig egluro bod y gyfraith ar les anifeiliaid yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r cyd-destun amaethyddol.

7.133 O dan opsiwn tri, byddai'r darpar God yn cynnwys y gyfraith ar iechyd anifeiliaid ac ar les anifeiliaid, gan ei gwneud yn haws i unigolion nodi a chael gafael ar y cyfreithiau iechyd a lles anifeiliaid sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol. Byddai opsiwn tri hefyd yn gyfle i gyfuno cyrff cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid, sy'n dameidiog ac yn swmpus ar hyn o bryd, mewn fframwaith cyfreithiol cydlynol.

7.134 Fodd bynnag, byddai model y darpar God a gynigir o dan opsiwn tri yn arwain at god cyfraith Cymru sy'n eang ei gwmpas. Rydym o'r farn y gellid gwneud y gwaith sy'n

---

[116] Prifysgol Caeredin, *Understanding the Five Domains Model of Animal Welfare* https://vet.ed.ac.uk/sites/default/files/2024-09/5%20Domains%20Model.pdf.

[117] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, "Animal health and welfare framework: 2015 to 2017" (Tachwedd 2015) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7f205540f0b6230268d97c/animal-health-welfare-framework-2015-2017.pdf, 3.

gysylltiedig â chodeiddio deddfwriaeth o'r fath fesul cam. Er enghraifft, gellid datblygu darpar god cyfraith ar gyfer amaethyddiaeth ac anifeiliaid fesul cam drwy weithredu pob un o'r modelau a gynigir o dan opsiynau un, dau a thri mewn trefn.

7.135 Yn gysylltiedig, gallai maint posibl darpar god cyfraith ar gyfer amaethyddiaeth ac anifeiliaid o bosibl dynnu oddi wrth brif amcan codeiddio: gwella hygyrchedd y gyfraith. Rydym yn ystyried y berthynas rhwng swm y gyfraith sydd wedi'i chynnwys mewn cod cyfraith a pha mor hygyrch yw'r cod hwnnw ym Mhennod 4.

### Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gennym: opsiwn dau

7.136 Y model a ffefrir gennym ar gyfer y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yw'r model a gynigir o dan opsiwn dau. Rydym o'r farn bod opsiwn dau yn taro cydbwysedd priodol rhwng sicrhau bod darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn cwmpasu'r cyfreithiau allweddol sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol, heb ehangu cwmpas y darpar God yn sylweddol i feysydd cyfreithiol penodol. Fel uchod, rydym o'r farn y gellid cyfeirio defnyddwyr y darpar God at y cyfreithiau hynny sydd y tu allan i'r cwmpas ond sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol. Rydym hefyd yn cydnabod y gellid ehangu cwmpas y model a gynigir o dan opsiwn dau i adlewyrchu'r model a gynigir o dan opsiwn tri. Rydym o'r farn y dylid darllen am yr ehangu posibl hwn ar y darpar God ochr yn ochr ag awgrym tebyg a gynigir ym Mhennod 8 mewn perthynas â chyfraith iechyd planhigion. Mae hyn yn golygu y byddai'r darpar God yn dod yn god cyfraith ar gyfer amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion.[118]

### FFRAMWEITHIAU CYFFREDIN

7.137 Ar ôl i'r DU adael yr UE, mae Llywodraeth y DU "wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddatblygu Fframweithiau Cyffredin y DU".[119] Trafodir fframweithiau cyffredin ym Mhennod 2. Yn gryno, mae fframweithiau cyffredin yn sicrhau:

(1) "ymagwedd gyffredin lle mae pwerau wedi dychwelyd o'r UE sy'n croestorri â meysydd polisi â chymhwysedd datganoledig";[120] a

(2) "gall y DU negodi, ymrwymo i a gweithredu cytundebau masnach newydd a chytundebau rhyngwladol, a sicrhau cydymffurfiad â rhwymedigaethau rhyngwladol".[121]

---

[118] Er nad yw'n cynrychioli polisi sefydlog Llywodraeth Cymru ar dacsonomeg darpar godau cyfraith, rydym yn nodi bod Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol - "Tacsonomeg Ddrafft y Cod" - yn cynnig cod cyfraith posibl ar gyfer amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion.

[119] Swyddfa'r Cabinet, "UK Common Frameworks" (Rhagfyr 2020) https://www.gov.uk/government/collections/uk-common-frameworks.

[120] Swyddfa'r Cabinet, "UK Common Frameworks" (Rhagfyr 2020) https://www.gov.uk/government/collections/uk-common-frameworks.

[121] Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590, t 4.

7.138 Yn amodol ar gymalau cadw, mae iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yn bynciau sy'n perthyn i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[122] Cyn i'r DU adael yr UE, cafodd cyfraith iechyd a lles anifeiliaid ei "harmoneiddio i raddau helaeth ar lefel yr UE".[123] Mae hyn yn golygu bod deddfwrfeydd yr UE wedi deddfu cyfreithiau sylfaenol sy'n llywodraethu iechyd a lles anifeiliaid y mae'r DU, fel cyn-aelod-wladwriaeth yr UE, wedi'u rhoi ar waith yn ddomestig. Roedd fframwaith deddfwriaethol yr UE sy'n llywodraethu cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid yn rhoi rhywfaint o gyfle i "wahanol rannau o'r DU wneud pethau'n wahanol, ond o leiaf, roedd angen cydymffurfio â'r safonau a nodir yn rheoliadau'r UE".[124]

7.139 Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (" y partïon") wedi rhoi cymeradwyaeth dros dro i fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid ("Fframwaith Dros Dro AHW").[125] Nodir bod Fframwaith Dros Dro AHW yn berthnasol i'r holl ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid sy'n berthnasol yn y DU.[126]

7.140 O dan y fframwaith, mae'r partïon wedi ymrwymo dros dro i "beidio â gwyro oddi wrth safonau sylfaenol mewn ffordd sy'n niweidiol i fioddiogelwch, lles neu farchnad fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol".[127] Ar ben hynny, wrth wneud newidiadau i ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid, mae'r partïon wedi cytuno dros dro i "geisio datblygu dulliau polisi cyffredin, lle bo hyn yn briodol, drwy fecanweithiau trawsbynciol".[128]

7.141 Pan fo cyfraith iechyd anifeiliaid a chyfraith lles anifeiliaid wedi'u cynnwys ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth sylfaenol a ddeddfwyd gan Senedd y DU, byddai cynnwys y gyfraith honno o fewn cwmpas y darpar God yn golygu ei hailddatgan mewn Deddf a wneir gan y Senedd. Rydym felly'n cydnabod y byddai angen datblygu unrhyw god cyfraith Cymru sy'n cynnwys cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfraith iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yng nghyd-destun ymrwymiadau a wnaed o dan Fframwaith Dros Dro AHW.

7.142 Ar ben hynny, mae nifer o randdeiliaid wedi pwysleisio wrthym nad yw iechyd anifeiliaid "yn parchu ffiniau", sy'n golygu bod achosion o glefydau anifeiliaid mewn un

---

122 Materion perthnasol a gedwir yn ôl gan gynnwys cadw triniaethau ar anifeiliaid byw at ddibenion gwyddonol neu addysgol (paragraff 61 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) a rheoleiddio'r proffesiwn milfeddygol a meddygaeth filfeddygol (paragraffau 140 a 150, yn y drefn honno, o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

123 Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590, t 5.

124 Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590, t 6.

125 Rhaid i Senedd y DU, Senedd Cymru a deddfwrfeydd datganoledig eraill graffu ar y fframwaith dros dro cyn cael cymeradwyaeth derfynol gan weinidogion.

126 Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590, t 12.

127 Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590, t 14.

128 Fframwaith Cyffredinol Iechyd a Lles Anifeiliaid: Cytundeb Amlinellol a Choncordat Fframwaith Dros Dro (2022) CP 590, t 14.

wlad yn y DU yn gallu arwain at ganlyniadau i wledydd eraill y DU. Rydym yn cydnabod felly y gallai fod ystyriaethau polisi - y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn - a allai ddylanwadu ar p'un a yw, a sut byddai deddfwriaeth iechyd anifeiliaid yn cael ei chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## MATERION TECHNEGOL

7.143 Ochr yn ochr â nodi'r cyfreithiau hynny sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God, rydym hefyd wedi ystyried a allai'r gyfraith dan sylw fynnu neu elwa o newidiadau neu addasiadau sydd â'r nod o symleiddio.

7.144 Er enghraifft, drafftiwyd Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 dros 40 mlynedd yn ôl ac nid yw'n syndod y byddai'n elwa o foderneiddio mewn rhai agweddau. Isod, rydym yn cynnig rhestr nad yw'n gynhwysfawr o enghreifftiau lle gallai'r gyfraith yn y maes hwn elwa o welliannau technegol.

### Moderneiddio'r ddyletswydd i adrodd am glefydau anifeiliaid hysbysadwy

7.145 Mae Deddf 1981 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y drefn clefydau anifeiliaid hysbysadwy, sy'n ei gwneud yn ofynnol adrodd am glefydau anifeiliaid penodol. Mae adran 15(1) Deddf 1981 yn darparu bod rhaid i berchennog yr anifail, neu'r person sy'n gyfrifol am yr anifail, hysbysu'r heddlu pan fydd anifail yn cael ei heintio â chlefyd. Diffinnir “clefyd” yn adran 88(1) Deddf 1981 drwy gyfeirio at restr o glefydau. Yn ogystal, gwnaed nifer o orchmynion o dan adran 88(2) Deddf 1981 sy'n ychwanegu clefydau newydd at gwmpas y diffiniad statudol o dan adran 88. Mae rhai o'r gorchmynion hynny dan sylw yn darparu bod rhaid hysbysu'r awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru am achosion o'r clefydau hysbysadwy ychwanegol hynny.[129]

7.146 Fodd bynnag, yn ymarferol rydym yn deall bod yn rhaid rhoi gwybod i'r APHA am achosion neu achosion a amheuir o glefydau hysbysadwy.[130] Felly, mae dod â chyfraith amaethyddol at ei gilydd yn y ffordd a gynigir yn gyfle i ddiweddaru geiriad adran 15 Deddf 1981 i adlewyrchu sut mae'r gyfraith yn gweithredu'n ymarferol.

### Diffinio clefydau anifeiliaid hysbysadwy

7.147 Yng nghyd-destun iechyd anifeiliaid, mae'r term “clefyd hysbysadwy” yn cael ei ddefnyddio'n eang yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r diwydiant i gyfeirio at y clefydau anifeiliaid hynny y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r APHA amdanynt pan fydd achos o'r clefyd yn digwydd neu amheuaeth o hynny.[131] Nid yw'r term “clefyd hysbysadwy” wedi'i ddiffinio na'i ddefnyddio yn Neddf 1981. Heb ddiffiniad statudol, rydym yn deall bod clefydau hysbysadwy yn golygu unrhyw glefyd anifeiliaid y mae dyletswydd i hysbysu'r APHA amdano. Mae hyn yn golygu mai clefydau hysbysadwy yw'r rhai sy'n dod o fewn y diffiniad o glefyd o dan adran 88(1) Deddf

---

129 Gweler er enghraifft, Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006, OS 2006/179 (Cy 30).

130 Llywodraeth Cymru, “Rhowch wybod am glefydau hysbysadwy” https://www.llyw.cymru/clefydau-hysbysadwy-canllaw. Yr APHA yw'r asiantaeth weithredol sy'n gyfrifol am nodi a rheoli clefydau iechyd anifeiliaid a phlanhigion.

131 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 7.76, defnyddir y term “clefyd hysbysadwy” hefyd i ddisgrifio clefydau dynol hysbysadwy o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

1981[132], a'r clefydau hynny a bennir mewn gorchmynion a wneir o dan adran 88(2) y Ddeddf.

7.148 Mae adran 88(1) yn darparu bod “clefyd” yn golygu pla gwartheg, pliwro-niwmonia, clwy'r traed a'r genau, brech y defaid, y clafr neu glwy’r moch. Mae hyn yn golygu bod y clefydau hynny'n cael eu trin fel clefydau hysbysadwy at ddibenion Deddf 1981.

7.149 Er bod y clafr wedi'i restru yn adran 88(1), nid yw'n glir o ganllawiau'r llywodraeth a yw'r clafr yn cael ei drin yn ymarferol fel clefyd hysbysadwy. Mae canllawiau Defra yn datgan bod y clafr yn glefyd hysbysadwy yn yr Alban ond nid yw'n cadarnhau'r sefyllfa'n benodol yng Nghymru a Lloegr.[133] Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r clafr fel clefyd adroddadwy yn hytrach na chlefyd hysbysadwy.[134]

7.150 Dydy'r term “clefyd hysbysadwy” ddim wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Defra a'r APHA yn cynghori bod y term “clefyd hysbysadwy” yn cyfeirio at glefydau sydd “dim ond angen eu hysbysu ar ôl eu canfod mewn profion diagnostig mewn labordy, y cae neu leoliad arall”.[135] I'r gwrthwyneb, mae'r canllawiau'n disgrifio clefydau hysbysadwy fel clefydau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt ar unwaith pan fydd anifail wedi'i heintio neu yr amheuir ei fod wedi'i heintio.

7.151 Mae diffyg diffiniad statudol, a'r amwyseddau a amlinellir uchod, yn dangos y gall fod yn anodd dirnad pa glefydau sy'n glefydau hysbysadwy at ddibenion Deddf 1981. Gwaethygir yr anhawster hwn gan y ffaith nad oes rhestr gynhwysfawr ar gael i'r cyhoedd o'r holl glefydau hysbysadwy.[136] Yn hytrach, mae angen cyfeirio at ddarpariaethau Deddf 1981, y nifer helaeth o orchmynion a wnaed o dan y Ddeddf honno a chanllawiau'r llywodraeth i grynhoi'r clefydau hynny sy'n cael eu trin fel clefydau hysbysadwy. Awgrymwn felly y gellid ystyried a ellid gwneud deddfwriaeth iechyd anifeiliaid yn gliriach yn hyn o beth. Er enghraifft, efallai y byddai'n ddymunol cyflwyno diffiniadau statudol o'r termau “clefyd hysbysadwy” a “clefydau adroddadwy”, neu ailstrwythuro'r ddeddfwriaeth i wneud y rhestr lawn o glefydau hysbysadwy yn haws eu hadnabod.

7.152 Yng nghyd-destun yr UE, mae Rheoliad 2016/429 (“Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE”) wedi'i gwneud yn haws nodi'r clefydau anifeiliaid y mae'n rhaid rhoi gwybod i awdurdodau cymwys mewn aelod-wladwriaethau'r UE amdanynt.[137] Mae Rheoliad

---

132 Yn rhinwedd y ffaith bod adran 15(1) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn gosod dyletswydd i hysbysu am achosion o glefydau a ddiffinnir i olygu'r rhai a restrir yn adran 88.

133 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, “Sheep scab: how to spot and report the disease” (Awst 2014) https://www.gov.uk/guidance/sheep-scab.

134 Llywodraeth Cymru, “Y clafr” (Tachwedd 2018) https://www.llyw.cymru/y-clafr-0.

135 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, “Reportable diseases: immediate reporting requirements for diagnostic laboratories” (Mawrth 2025) https://www.gov.uk/government/publications/listed-diseases-in-animals-case-definitions-testing-and-reporting/reportable-diseases-immediate-reporting-requirements-for-diagnostic-laboratories.

136 Mae gwefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn darparu rhestr anghyflawn o glefydau hysbysadwy: https://www.gov.uk/government/collections/notifiable-diseases-in-animals.

137 Daeth Cyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE i rym ar ôl i'r DU adael yr UE ac nid yw'n rhan o'n llyfr statud domestig.

Iechyd Anifeiliaid yr UE yn cydgrynhoi rhwng 40 a 50 o ddeddfau iechyd anifeiliaid gwahanol yr UE ac yn rhestru'r clefydau anifeiliaid hynny y mae'n rhaid hysbysu awdurdod cymwys ar gyfer aelod-wladwriaeth amdanynt, mewn atodiad i'r Rheoliad. Ar ben hynny, mae Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE yn caniatáu i glefydau gael eu hychwanegu neu eu tynnu oddi ar y rhestr atodedig o glefydau anifeiliaid drwy is-ddeddfwriaeth (a elwir yn ddeddfwriaeth ddirprwyedig yng nghyd-destun yr UE).

7.153 Yn ogystal, dywedodd un rhanddeiliad wrthym y byddai'n ddefnyddiol deall ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn penderfynu pa glefydau sy'n glefydau hysbysadwy. Yn hynny o beth, rydym yn nodi bod Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE yn pennu meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ychwanegu clefyd anifeiliaid at gwmpas y rheoliad.

### Ymestyn pwerau presennol i ddiwygio'r diffiniad o "glefyd".

7.154 Diffinnir "clefyd" yn adran 88(1) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru ychwanegu, drwy orchymyn, glefydau newydd at y diffiniad o "glefyd" at ddibenion Deddf 1981 (gweler adran 88(2)).[138] Gallai Gweinidogion Cymru hefyd ddirymu gorchymyn a wnaed o dan adran 88(2) Deddf 1981. Effaith gwneud hynny fyddai tynnu'r clefyd(au) yn y gorchymyn hwnnw a ddirymwyd o'r cwmpas clefydau y mae dyletswydd i hysbysu APHA yn bodoli ar eu cyfer.

7.155 Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau i ddileu clefyd o'r rhestr o glefydau a gyflwynir yn adran 88(1) Deddf 1981. Mae hyn yn golygu na all Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd, drwy is-ddeddfwriaeth o leiaf, ddileu unrhyw un o'r clefydau a restrir yn benodol yn adran 88(1). Fel yr amlinellwyd uchod, nid ydym yn glir a yw'r clafr yn dal i gael ei drin fel clefyd hysbysadwy yn ymarferol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r clafr wedi'i restru ar hyn o bryd yn niffiniad adran 88(1) o "glefyd". Gellid felly ystyried ymestyn cwmpas pwerau gwneud gorchmynion presennol Gweinidogion Cymru i ganiatáu iddynt dynnu clefydau oddi ar y rhestr a gyflwynir yn adran 88(1) Deddf 1981.

## Safoni'r ddyletswydd i hysbysu

7.156 Yn yr un modd, rydym o'r farn y gellid diwygio'r gyfraith i egluro bod gofyniad i adrodd i'r APHA (yr asiantaeth weithredol sy'n gyfrifol am nodi a rheoli clefydau anifeiliaid).

7.157 Rydym wedi adolygu sampl o'r gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf 1981 sy'n golygu bod clefydau penodol yn cael eu dynodi'n glefydau hysbysadwy. Mae'r gorchmynion dan sylw yn darparu bod rhaid i berson sy'n meddu ar neu'n gyfrifol am anifail y mae'r clefyd hysbysadwy dan sylw yn effeithio arno roi gwybod i'r awdurdod perthnasol am y ffaith honno, sef i'r APHA yn ymarferol. Mae'r gorchmynion a adolygwyd hefyd yn darparu'n benodol bod rhaid i bersonau o'r fath wneud hysbysiad pan amheuir bod y clefyd hysbysadwy perthnasol yn effeithio ar anifail.

7.158 Ar gyfer y clefydau hynny sy'n dod o fewn y diffiniad o glefyd o dan adran 88 Deddf 1981 - pla gwartheg, pliwro-niwmonia, clwy'r traed a'r genau, brech y defaid, y clafr a

[138] Mae Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 hefyd yn darparu diffiniad penodol o glefyd i'r graddau y mae'r Ddeddf yn gymwys i ddofednod ac yn darparu ymhellach bwerau ar wahân i Weinidogion Cymru ychwanegu at y diffiniad hwnnw drwy is-ddeddfwriaeth (gweler adrannau 88(3) a (4) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn y drefn honno).

chlwy'r moch - mae'r ddyletswydd i hysbysu'r APHA yn deillio o adran 15 Deddf 1981. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n meddu ar anifail yr effeithir arno gan glefyd, neu sy'n gofalu am anifail o'r fath, o fewn ystyr adran 88 y Ddeddf, hysbysu'r heddlu. Fel yr amlinellir ym mharagraff 7.146 uchod, rhaid rhoi gwybod yn ymarferol i'r APHA. Fodd bynnag, nid yw adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i hysbysu pan amheuir bod anifail wedi ei effeithio gan glefyd o'r fath. Felly, rydym o'r farn y gellid gwneud y drefn ar gyfer clefydau hysbysadwy yn gliriach pe bai'r ddyletswydd i roi gwybod am achosion, ac achosion a amheuir, o glefydau hysbysadwy yn cael ei drafftio mewn termau cyson ar draws y darpariaethau deddfwriaethol perthnasol.[139]

7.159 Ar wahân, mae rhywfaint o anghysondeb ar draws y gyfundrefn clefydau hysbysadwy o ran pa bersonau sy'n benodol gyfrifol am hysbysu'r APHA. Mae llawer o'r gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf 1981 yn darparu bod y rhai sy'n gyfrifol am hysbysu'r APHA yn cynnwys perchnogion anifeiliaid, milfeddygon a phersonau sy'n dadansoddi samplau at ddibenion canfod presenoldeb clefyd.[140] Ar gyfer y clefydau hysbysadwy hynny a restrir yn adran 88(1) (pla gwartheg, pliwro-niwmonia, clwy'r traed a'r genau, brech y defaid, neu glwy'r moch), dim ond person sy'n gyfrifol am anifail heintiedig neu sydd â gofal dros anifail o'r fath y mae Deddf 1981 yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud yr hysbysiad.[141] Nid yw'r ddyletswydd yn yr achos hwn yn ymestyn yn benodol i filfeddygol na'r rheini sy'n dadansoddi samplau profi.

7.160 Rydym yn cydnabod y gallai fod rhesymau polisi neu ymarferol dros y gwahaniaeth yn y dull gweithredu. Wedi dweud hynny, pe bai Deddf 1981 yn cael ei chynnwys yn y darpar God, byddai cyfle i archwilio a ellid safoni cwmpas y ddyletswydd ar draws yr holl glefydau hysbysadwy.

### Rhesymoli'r gyfraith ar adnabod da byw

7.161 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1, bydd datblygu cod cyfraith Cymru hefyd fel arfer yn cynnwys proses o resymoli'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer y pwnc perthnasol.

7.162 Felly, mae codeiddio yn gyfle i ystyried a ellid rhesymoli is-ddeddfau sy'n berthnasol i amaethyddiaeth, er enghraifft, drwy ailddatgan eu pwnc mewn un offeryn statudol Cymreig. Er enghraifft, mae pedwar offeryn statudol gwahanol y mae pob un yn ymwneud â'r gofynion adnabod sy'n berthnasol i rywogaethau penodol o dda byw:

(1) Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007;

(2) Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011;

(3) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015; a

(4) Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2024.

---

139 Sef ar draws Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 88 a darpariaethau'r gorchmynion amrywiol a wnaed o dan Ddeddf 1981 sy'n gosod dyletswydd i hysbysu ynghylch clefyd penodol neu grŵp penodol o glefydau.

140 Gweler er enghraifft Orchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996, OS 1996/2628, erth 3.

141 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 15.

7.163 Gellid dod â phwnc yr offerynnau statudol uchod at ei gilydd a'i ailddatgan mewn un offeryn statudol, gan ei gwneud yn haws i unigolion ddod o hyd i'r gyfraith sy'n llywodraethu adnabod gwahanol rywogaethau o dda byw. Yn hynny o beth, nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi nodi o'r blaen ei bod yn bwriadu disodli'r cyfreithiau ar wahân presennol sy'n ymwneud ag adnabod da byw â deddfwriaeth newydd.[142]

7.164 Rydym hefyd yn nodi bod y cyfreithiau adnabod da byw uchod yn croesgyfeirio at ddarpariaeth a wneir mewn amrywiol Reoliadau sy'n deillio o'r UE sydd bellach yn rhan o'n llyfr statud domestig fel cyfraith a gymathwyd.[143] Mae Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 yn cyfeirio at o leiaf bedwar deddf a gymathwyd sy'n ymwneud ag adnabod gwartheg, sy'n dangos bod lle pellach i symleiddio'r gyfraith yn y maes hwn. Fel y trafodwyd ym Mhennod 5, mae Defra wedi ymgynghori ar ddod â rheoliadau domestig ar nodi gwartheg ac amrywiol gyfreithiau a gymathwyd ar yr un pwnc at ei gilydd mewn un offeryn statudol.[144]

## MATERION NEU FEYSYDD SYDD ANGEN EU DADANSODDI YMHELLACH

7.165 Ni ofynnwyd i ni yn yr adroddiad hwn wneud cynigion ar gyfer diwygio cyfraith amaethyddol yn sylweddol. Yn unol â hynny, nid ydym yn gwneud cynigion ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol a fyddai'n golygu newidiadau i'r polisi sy'n sail i gyfraith amaethyddol.

7.166 Fodd bynnag, mae ein cylch gorchwyl yn gofyn i ni dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â chodeiddio cyfraith amaethyddol a allai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach. Rydym yn nodi enghreifftiau o faterion o'r fath isod.

### Adolygu pwerau gorfodi

7.167 Mae pwerau awdurdodau lleol a’r APHA i orfodi cyfraith iechyd anifeiliaid wedi'u gwasgaru ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf 1981 a'r gorchmynion a wnaed o dan y Ddeddf honno. Oherwydd datblygiad tameidiog y gyfraith yn y maes hwn, gall y cyfreithiau hynny sy'n darparu ar gyfer pwerau gorfodi yng nghyd-destun iechyd anifeiliaid fod yn anghyson o ran eu geiriad. Er enghraifft, mae darpariaethau yn Neddf 1981, a gorchmynion penodol a wnaed o dan y Ddeddf honno, yn gwneud darpariaeth anghyson ynghylch yr adeg o'r dydd y gellir arfer pwerau mynediad statudol penodol. Mynegir bod rhai pwerau mynediad yn arferadwy “ar unrhyw adeg”,[145] tra mynegir bod eraill yn arferadwy “ar bob awr resymol”,[146] neu

---

142 Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar Newid Trefn Adnabod, Cofrestru a Rhoi Gwybod am Symudiadau Da Byw* (Medi 2021) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-10/dogfen-ymgynhori-da%20byw.pdf.

138 Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 494/98, Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 911/2004, Rheoliad y DU (CE) Rhif 1760/2000 o Senedd Ewrop a’r Cyngor a Rheoliad y DU 644/2005 a Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 509/1999. Mae Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007, OS 2007/842 (Cy 74) hefyd yn cyfeirio at Reoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 509/1999, a ddiddymwyd ers hynny gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (CE) 2019/2035.

144 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Changes to bovine identification, registration and movement in England: consultation document* (Medi 2023).

145 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 63.

146 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 64A.

“ar bob adeg resymol”.[147] Rydym yn cydnabod y gallai fod rhesymau polisi dros wneud darpariaeth benodol ar gyfer gwahanol bwerau gorfodi. Fodd bynnag, mae cynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid yn y darpar God yn gyfle i archwilio a ellid safoni geiriad pwerau gorfodi neu a ellid cydgrynhoi pwerau o'r fath.[148]

7.168 Nodwn fod yr adolygiad Annibynnol o Arolygu a Rheoleiddio Ffermydd wedi adrodd ar fater tebyg mewn perthynas â'r fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol yn Lloegr:

> Mae gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion bwerau sylweddol i gynnal gwyliadwriaeth ac ymchwiliadau, a mynediad at bwerau ehangach (drwy Defra) i fynd i'r afael â brigiadau o achosion o glefydau. Mae esblygiad y pwerau hyn dros flynyddoedd lawer a thrwy lawer o wahanol orchmynion statudol wedi arwain at amrywiad fel bod pwerau mynediad, er enghraifft, sy'n hanfodol at ddibenion rheoli clefydau, yn cael eu defnyddio'n wahanol yn ôl eu ffynhonnell ddeddfwriaethol. Mae hyn weithiau'n achosi anawsterau ymarferol ar lawr gwlad.[149]

### Adolygu’r dirwyon uchaf y gellir eu gosod am droseddau

7.169 Nid yw'n rhan o'n cylch gwaith i wneud argymhellion ynghylch y ddirwy uchaf y gellir eu gosod pan fydd unigolyn yn cyflawni trosedd o dan ddeddfwriaeth amaethyddol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai achosion lle mae lefel y dirwyon y gellir eu gosod am droseddau penodol sy'n deillio o weithredoedd neu hepgoriadau tebyg yn ymddangos yn anghyson o bosibl.

7.170 Er enghraifft, mae’r dirwyon uchaf y gellir eu rhoi am droseddau sy'n ymwneud ag adnabod da byw yn wahanol ar draws yr offerynnau statudol perthnasol. Mae Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 yn creu nifer o droseddau sy'n ymwneud ag adnabod gwartheg. Er enghraifft, mae'n drosedd i feddiannydd daliad sy'n dechrau cadw gwartheg fethu â hysbysu Gweinidogion Cymru o fewn cyfnod penodedig o'i enw, ei gyfeiriad a chyfeiriad y daliad.[150] Y gosb am gyflawni trosedd o dan Reoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 yw:

(1) ar gyfer euogfarn ddiannod, dirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad heb fod yn fwy na thri mis neu'r ddau; neu

(2) ar gyfer euogfarn ar dditiad, dirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

7.171 Yn yr un modd, mae'n drosedd mynd yn groes i ofyniad a osodir o dan Reoliadau Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011.[151] Er enghraifft, mae'n drosedd i feddiannydd daliad sy'n dechrau cadw moch ar y daliad hwnnw fethu â hysbysu

---

147 Gorchymyn Lewcosis Ensootig Buchol (Cymru) 2006, OS 2006/867 (Cy 79), erth 15.

148 Yn ogystal, nodwn fod gan Weinidogion Cymru bwerau i gyhoeddi cod ymarfer sy'n cynnwys canllawiau ar arfer pwerau mynediad datganoledig o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, adran 53 ac Atodlen 3.

149 Adolygiad Arolygu a Rheoleiddio Ffermydd, *Final Report* (Rhagfyr 2018) t 59.

150 Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007, OS 2007/842 (Cy 74), rheoliad 3.

151 Yn rhinwedd Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 73.

Gweinidogion Cymru o fewn cyfnod penodedig o'i enw, ei gyfeiriad a chyfeiriad y daliad.[152]

7.172 Mae unigolyn sy'n cyflawni trosedd o dan Orchymyn Rheoliadau Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 yn agored, gydag euogfarn ddiannod, i gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i'r ddau.[153] Ar gyfer troseddau diannod a gyflawnwyd cyn 13 Mawrth 2015, y dirwy uchag y gellir eu gosod yw £5,000. Ar 13 Mawrth 2015 neu ar ôl hynny, mae trosedd y nodir y gellir ei chosbi â dirwy o hyd at £5,000 (sut bynnag y'i mynegir) yn cael ei throsi'n drosedd y gellir ei chosbi â dirwy o unrhyw swm.[154]

7.173 Rydym yn cydnabod y gall fod rhesymau polisi dros ddarparu dirwyon uchaf gwahanol y gellir eu gosod am droseddau gwahanol. Fodd bynnag, mae codeiddio yn rhoi cyfle i archwilio a yw y dirwyon uchaf y gellir eu gosod am droseddau y darperir ar eu cyfer o dan ddeddfwriaeth amaethyddol yn gyson.

## CYFREITHIAU PERTHNASOL ERAILL

### Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953

7.174 O dan Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 (“Deddf 1953”), os bydd ci yn ymosod ar dda byw neu'n eu poeni ar dir amaethyddol, yna mae'r perchennog yn euog o drosedd.[155] Yn ogystal, neu yn lle hynny, gall y sawl sy'n gyfrifol am y ci adeg yr ymosodiad (os nad y perchennog) hefyd fod yn euog o drosedd. Mae NFU Cymru yn adrodd bod anifeiliaid fferm gwerth tua £883,000 wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd gan gŵn yng Nghymru yn 2023.[156]

7.175 Mae Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) 2025 (“Deddf 2025”) yn cyflwyno gwelliannau i Ddeddf 1953 a fydd yn:

(1) ymestyn y diffiniad o dda byw i gynnwys camelidau, sy'n golygu y byddai Deddf 1953 yn cynnig amddiffyniad i alpacas a lamas;

(2) dod ag achosion o aflonyddu neu ymosodiadau sy'n digwydd ar ffyrdd a llwybrau o fewn cwmpas y trosedd o dan adran 1 Deddf 1953; a

(3) chynyddu uchafswm y gosb mewn perthynas â throseddau yn adran 1 Deddf 1953 o £1,000 i ddirwy ddiderfyn.

---

152 Rheoliadau Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011, OS 2011/2830 (Cy 303), rheoliad 4; Deddf Iechyd Anifeiliaid, adran 73.

153 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981, adran 75.

154 Yn rhinwedd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, adran 85.

155 Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953, adran 6.

156 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, “Cost of dog attacks on livestock in Wales more than doubles” (Ebrill 2024) https://www.nfu-cymru.org.uk/news-and-information/cost-of-dog-attacks-on-livestock-in-wales-more-than-doubles/#:~:text=The%20NFU%20has%20been%20working,investigate%20dog%20attacks%20on%20livestock.

7.176 Mae Senedd Cymru wedi cytuno ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Deddf 2025 sy'n cofnodi bod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU safbwyntiau gwahanol ynghylch a all y Senedd ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol ar gŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni.[157] Yng ngoleuni'r safbwyntiau a gofnodwyd yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, nid ydym yn cynnig barn ynghylch a yw pwnc Deddf 1953 yn addas i'w gynnwys yn y darpar God.

## CASGLIAD

7.177 Yn y bennod hon rydym yn cynnig y dylai cyfreithiau iechyd anifeiliaid a chyfreithiau lles anifeiliaid sy'n effeithio ar dda byw, i ryw raddau o leiaf, gael eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym yn cynnig tri model posibl ar gyfer ymgorffori'r cyfreithiau hyn yn y darpar God i wahanol raddau. Rydym yn mynegi ein bod yn ffafrio datblygu'r model o'r darpar God a gynigir o dan opsiwn dau ond rydym yn nodi y gellid ehangu cwmpas y darpar God wedyn yn unol â'r model a gynigir o dan opsiwn tri. Rydym hefyd yn nodi meysydd o gyfraith iechyd anifeiliaid sy'n ymwneud â materion technegol, ac yn tynnu sylw at y materion ehangach hynny a allai fod angen eu dadansoddi ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol.

[157] Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Cŵn (Diogelu Da Byw) (Bil Diwygio),* Mai 2025. Fel y cytunwyd gan y Senedd ar 23 Medi 2025.

# Pennod 8: Coedwigaeth, iechyd planhigion, amrywogaethau planhigion a hadau

## CYFLWYNIAD

8.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried a yw'r cyfreithiau hynny ar goedwigaeth, iechyd planhigion, amrywogaethau planhigion a hadau, a gwrychoedd sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ("y darpar God"). Rydym yn ystyried pob un o'r meysydd cyfreithiol hyn ar wahân, gan ddechrau gyda choedwigaeth. Fel rhan o'n hasesiad o'r gyfraith coedwigaeth sy'n berthnasol i amaethyddiaeth, rydym yn ystyried yn gyntaf a yw coedwigaeth yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn sector ar wahân i amaethyddiaeth. Mae ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng coedwigaeth ac amaethyddiaeth ar ôl hynny yn sail i'n hasesiad ynghylch a ddylai'r darpar God gwmpasu'r gyfraith sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, amrywogaethau planhigion a gwrychoedd. Rydym yn defnyddio ein meini prawf cynnwys, fel y nodir ym Mhennod 3, i lywio ein dadansoddiad ynghylch a yw'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried yn y bennod hon yn addas i'w chynnwys yn y darpar God.

8.2 Er bod y rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru yn ffermydd da byw, mae tua 6% o dir amaethyddol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth a chnydau âr.[1] Ar ben hynny, roedd coetir ffermydd yn cyfrif am 7.5% o'r 1,770,100 hectar o dir amaethyddol yng Nghymru yn 2024,[2] ac mae 42% o'r holl goetiroedd yng Nghymru wedi'u lleoli ar ffermydd yng Nghymru.[3]

8.3 Gall coed a gwrychoedd gynnig llu o fanteision i ffermydd, gan gynnwys:

> gweithredu fel nodweddion ffiniau, rhwystrau da byw, bioddiogelwch a lloches a chysgod i dda byw. Gallai manteision eraill hefyd gynnwys cynhyrchu ffrwythau neu ffrydiau incwm ychwanegol, fel coetiroedd masnachol.[4]

8.4 Mae coed hefyd yn "un o'r ffyrdd o liniaru llygredd gwasgaredig sy'n deillio o amaethyddiaeth".[5] Felly, mae'n hanfodol i'r sector amaethyddol bod cnydau a choed yn iach, mewn cyflwr da ac yn gallu addasu i amodau sy'n newid o hyd.

---

1 Llywodraeth Cymru, *Arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth* (Rhagfyr 2025) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/12/2/1765272706/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2025.pdf, t 6.

2 Adroddodd Ymchwil Coedwigaeth fod 132,000 hectar o goetir fferm yng Nghymru yn ei adroddiad 2025, tra nododd yr arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth gyfanswm o 1,770,100 hectar o dir amaethyddol.

3 Ymchwil Coedwigaeth, *Forestry Statistics 2025* (Medi 2025) https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/09/FS2025_Ch1-68d4f71b97f6f.pdf, pennod 1, tt 9 a 48.

4 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Growing Together: A strategy for sustainably increasing tree cover in Wales" (2021) https://www.nfu-cymru.org.uk/media/rx5jui5k/growing-together.pdf, 6.

5 Ymddiriedolaeth Coetir, *Benefits of trees on arable farms* (2012) t 9.

8.5 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â choed yn eang ei chwmpas ac wedi'i thaenu ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a chyfraith achosion. Mae'n cwmpasu materion gan gynnwys perchnogaeth coed yn ôl y math o dir y maent wedi'u lleoli arno, diogelwch arbennig a roddir i goed penodol ac atebolrwydd am niwed sy'n deillio o goed. Yn y bennod hon, rydym yn canolbwyntio ar reolaethau statudol sy'n ymwneud â choedwigoedd ac ardaloedd tebyg o dir sydd wedi'u gorchuddio â choed yn hytrach na'r gyfraith sy'n ymwneud â choed yn fwy cyffredinol.

8.6 Mae cyfraith coedwigaeth yn cwmpasu mwy na dim ond ein dealltwriaeth nodweddiadol o goedwigoedd. Ei nod yw cefnogi'r gwaith o sefydlu coed mewn ardaloedd heb orchudd coed blaenorol (a elwir yn goedwigo), cynnal cronfeydd digonol o goed, a hwyluso'r gwaith o gynhyrchu a chyflenwi pren. Mae arferion coedwigaeth modern a pholisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ceisio cyflawni nifer o nodau sy'n cwmpasu:

> "gwneud gwelliannau i'r dirwedd, gwarchod bywyd gwyllt, hwyluso hamdden a chwaraeon [a] gwella economi ardaloedd gwledig ....[6]

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Coetiroedd i Gymru*, yn pwysleisio ymhellach y rôl hanfodol y mae coed yn ei chwarae o ran cyfrannu at nodau llesiant Cymru ac ymrwymiadau cenedlaethol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.[7]

8.7 Nid dim ond i goed a geir mewn coedwigoedd y mae cyfraith coedwigaeth yn berthnasol. Mae hefyd yn berthnasol i goed a geir ar fathau eraill o dir - fel tir amaethyddol. Nodweddion coeden benodol, yn hytrach na'r tir y mae wedi'i lleoli arno, sy'n penderfynu a oes angen trwydded cwympo coed. Nid yw cyfraith coedwigaeth yn cynnig diffiniadau statudol o dermau fel "coeden", "coedwig" na "choetir". Er ein bod yn cydnabod bod rhywfaint o ddadl ynghylch y diffiniad o "goeden", nid yw hynny'n rhwystr i'n gwaith yn y bennod hon o ystyried nad yw'r fframwaith cyfreithiol, yn ein barn ni, yn dibynnu ar ystyr y cysyniadau hyn.[8] Fel yr ystyrir hynny yn *The Law of Trees, Forests and Hedges*:

> nid oes diffiniad cyfreithiol o "goeden" sy'n berthnasol yn gyffredinol, ond ... nid yw hyn yn bwysig mewn gwirionedd gan fod y gyfraith yr un mor berthnasol mewn egwyddor i blanhigion sy'n goed heb amheuaeth â'r rhai a allai fod yn unig.[9]

8.8 Ar ben hynny, er bod gwahaniaeth hanesyddol rhwng coedwigoedd a choetiroedd, nid yw'n ymddangos bod cytundeb cyffredin ynghylch y ffactorau sy'n gwahaniaethu rhwng coedwigoedd a choetiroedd.[10] Er enghraifft, nodir maint, dwysedd a gorchudd canopi fel ffactorau a allai helpu i ddiffinio darn o dir naill ai fel coedwig neu goetir, ond

---

6 C Mynors, S Hall ac E Nicholls, *The Law of Trees, Forests and Hedges* (3ydd argraffiad 2022) t 376.

7 Llywodraeth Cymru, *Coetiroedd i Gymru* (Mehefin 2018) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), adran 4.

8 C Mynors, S Hall ac E Nicholls, *The Law of Trees, Forests and Hedges* (3ydd argraffiad 2022) tt 21 i 23.

9 C Mynors, S Hall ac E Nicholls, *The Law of Trees, Forests and Hedges* (3ydd argraffiad 2022) t 23.

10 Yn hanesyddol, roedd coedwigoedd yn cael eu rheoli fel darnau o dir mawr ar gyfer hela. Yn fwy diweddar, mae llai o wahaniaeth ac mae llawer o ddiffiniadau o beth yw coedwig neu goed. Mae diffiniadau'n amrywio o ran dwysedd coed, canopi a maint.

mae'r ffigurau a briodolir i bob un o'r ffactorau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y ffynhonnell.[11] Fel y mae Safon Coedwigaeth y DU yn ei gydnabod, “bydd y ddeddfwriaeth neu'r amodau grant yn pennu'r arwynebedd lleiaf o dir sy'n cael ei ddosbarthu fel coedwig” ym mhob gwlad.[12]

8.9 Er ein bod yn cyfeirio at y corff cyfraith sy'n rheoli cwympo coed fel “cyfraith coedwigaeth”, nid yw'r tir a allai fod yn ddarostyngedig i'r gyfraith hon o reidrwydd yn goedwig. Yn aml, gall ardaloedd o'r fath gael eu “hadnabod yn ôl amrywiaeth o dermau fel coedwigoedd, coedlannau, perthlys, prysglwyn neu leiniau cysgodi, ac maent yn cynnwys ardaloedd coediog ar ffermydd ac mewn parciau”.[13] Rydym yn mabwysiadu'r derminoleg “cyfraith coedwigaeth” fel ei bod yn gyson â dull gweithredu Llywodraeth Cymru a chyrff eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (“NRW”).[14]

8.10 Fel y trafodir yn nes ymlaen yn y bennod hon, gall cyfraith coedwigaeth fod yn berthnasol i goed sy'n rhan o wrychoedd. Serch hynny, mae fframwaith cyfreithiol ar wahân ar gyfer diogelu gwrychoedd, sy'n cael eu deall yn gyffredin fel cymysgedd o goed a llwyni sydd wedi'u plannu'n agos i ffurfio ffin.[15]

8.11 Yn fras, mae cyfraith iechyd planhigion yn ymwneud â chynnal a hyrwyddo coed, llwyni a phlanhigion iach, gan gynnwys cnydau amaethyddol a chnydau garddwriaethol.[16] Felly, mae cyfraith iechyd planhigion - sy'n ceisio atal a rheoli lledaeniad clefydau sy'n effeithio ar blanhigion a choed - yn hanfodol i sicrhau iechyd economaidd y sector amaethyddol.

8.12 Mae'r gyfraith sy'n rheoli amrywogaethau planhigion a hadau yn diogelu ac yn rheoleiddio'r llu o amrywogaethau planhigion sy'n bodoli. Is-grŵp o rywogaeth, sydd â nodwedd benodol, yw amrywogaeth planhigyn.[17] Mae'r gyfraith yn y maes hwn yn darparu fframwaith ar gyfer hawliau eiddo deallusol a freinir mewn mathau cymwys o blanhigion a choed (a elwir yn hawliau bridwyr planhigion). Mae hefyd yn sicrhau bod rhai hadau a deunydd lluosogi planhigion sy'n cael eu marchnata ledled y sector o'r ansawdd uchaf, drwy orfodi rhestr genedlaethol o amrywogaethau.

8.13 Mae'r gyfraith ar goedwigaeth, gwrychoedd, iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion wedi'i gwasgaru ar draws nifer o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol a ddeddfwyd gan Senedd y DU, is-ddeddfwriaeth a wnaed gan

---

11 Gweler Comisiwn Coedwigaeth, “Definition of trees and woodland” (diweddarwyd Gorffennaf 2025), adran 6.

12 Comisiwn Coedwigaeth, *The UK Forestry Standard* (5ed argraffiad 2023) t 2.

13 Comisiwn Coedwigaeth, *The UK Forestry Standard* (5ed argraffiad 2023) t 2.

14 Gweler er enghraifft dudalen Cyfraith Cymru ar goedwigaeth: https://cyfraith.llyw.cymru/yr-amgylchedd/coedwigaeth.

15 Rydym wedi cyfeirio at y ffynonellau canlynol wrth ystyried ystyr cyffredin gwrych: Ymddiriedolaeth Coetir, “Hedgerows” https://www.woodlandtrust.org.uk/trees-woods-and-wildlife/habitats/hedgerows/; Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Hedgerow Survey Handbook* (2il argraffiad 2007).

16 Deddf Iechyd Planhigion 1967, adran 1.

17 Mae'r term “amrywogaeth planhigion” yn deillio o'r Undeb Rhyngwladol er Diogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion ac ers hynny mae wedi cael ei gydnabod mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997.

Weinidogion Cymru, is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y DU a chyfraith a gymathwyd.

## CYFRAITH COEDWIGAETH

8.14 Mae paragraffau 8.15 i 8.34 isod yn ystyried y cyfreithiau coedwigaeth hynny a all fod yn gymwys i dir amaethyddol, ond sydd hefyd yn gymwys yn fwy cyffredinol i dir arall.

### Deddf Coedwigaeth 1967 ac is-ddeddfwriaeth

8.15 Mae Deddf Coedwigaeth 1967 (“Deddf 1967”) yn darparu ar gyfer coedwigo ym Mhrydain Fawr ac mae hefyd yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cwympo coed. NRW yw'r awdurdod coedwigaeth priodol yng Nghymru.[18] Fel yr awdurdod coedwigaeth priodol, mae gan NRW ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo:

(1) coedwigaeth a datblygu coedwigoedd;

(2) cynhyrchu a chyflenwi pren a chynhyrchion coedwigaeth eraill; a

(3) sefydlu a chynnal cronfeydd digonol wrth gefn o goed sy'n tyfu.

Rhaid i NRW geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng dilyn y nodau uchod, a gwarchod a gwella harddwch naturiol a fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig.[19] Effaith y ddyletswydd hon yw bod yn rhaid i CNC roi sylw i gadwraeth yr amgylchedd wrth gyflawni ei swyddogaethau coedwigaeth o dan Ddeddf 1967.

8.16 Mae prif swyddogaethau NRW o dan Ddeddf 1967 yn cynnwys:

(1) creu, datblygu a rheoli ystâd coetiroedd Llywodraeth Cymru - y coedwigoedd a'r coetiroedd hynny sy'n eiddo cyhoeddus;

(2) cynhyrchu a gwerthu coed o'r coetiroedd y mae'n eu rheoli; a

(3) gweinyddu a rheoleiddio'r system trwyddedau cwympo coed.[20]

Mae NRW hefyd yn gwneud gwaith i ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy yn ystâd coetiroedd Llywodraeth Cymru. Er nad yw'n swyddogaeth y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf 1967, rydym hefyd yn nodi bod NRW yn gweinyddu'r gyfundrefn ar gyfer Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 (gweler paragraffau 8.35 i 8.38 isod).[21]

8.17 Mae adran 8A Deddf 1967 hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r buddiant cenedlaethol mewn perthynas â chynnal ac ehangu adnoddau coedwigaeth Cymru wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf. Er mwyn

---

[18] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 1.

[19] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 1.

[20] Cyfoeth Naturiol Cymru, “Ein rolau a'n cyfrifoldebau: coedwigaeth” (diweddarwyd ddiwethaf 2024) https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/what-we-do/our-roles-and-responsibilities/forestry/?lang=cy.

[21] OS 1999/2228.

hyrwyddo'r ddyletswydd hon, adroddir bod Llywodraeth Cymru yn berchen ar y canlynol yng Nghymru:

> bron i ddwy ran o dair o'r coetir conwydd (gan gynnwys coetir wedi'i blannu ar safleoedd coetir hynafol), ac un rhan o bump o'r coetir brodorol a chyfran lai o'r coetir lled-naturiol hynafol.[22]

8.18 Mae angen trwydded i gwympo coed sy'n tyfu oni bai bod eithriad a restrir yn adran 9 Deddf 1967 neu Reoliadau Coedwigaeth (Eithriadau rhag Cyfyngu ar Gwympo Coed) 1979 yn gymwys.[23] Er enghraifft, nid oes angen trwydded cwympo coed ar gyfer coed mewn mannau agored cyhoeddus[24], perllannau, gerddi na mynwentydd, ni waeth beth yw maint y coed sy'n cael eu cwympo.[25] Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau cwympo coed, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried buddiannau amaethyddiaeth yn ogystal â chadwraeth harddwch naturiol.[26] Gall trwyddedau cwympo coed hefyd fod yn destun amodau, gan gynnwys amodau amgylcheddol sydd wedi'u hanelu at:

(1) gwarchod neu wella harddwch naturiol; neu

(2) gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol neu gynefinoedd naturiol.[27]

8.19 Yn ogystal â thrwyddedau cwympo coed, mae Deddf 1967 yn grymuso Cyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau cwympo coed. Caiff CNC gyfarwyddo perchennog coed i gwympo coed penodol,[28] lle y byddai hynny er budd coedwigaeth dda neu at ddibenion hybu sefydlu a chynnal cronfeydd coed digonol.[29] Wrth ystyried a ddylid rhoi cyfarwyddyd cwympo coed, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried buddiannau amaethyddiaeth.[30]

---

[22] Llywodraeth Cymru, *Coetiroedd i Gymru* (Mehefin 2018) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf, t 7.

[23] OS 1979/792.

[24] Mae Deddf Coedwigaeth 1967, adran 9(6) yn diffinio ystyr y term “man agored cyhoeddus” at ddibenion y Ddeddf.

[25] Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y gallai fod angen caniatâd neu gydsyniad gwahanol i gwympo coed ar dir o'r fath. Gweler y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth fel sy'n berthnasol yn Lloegr: https://www.gov.uk/government/publications/tree-felling-getting-permission/tree-felling-getting-permission/environmental-legislation-and-protection.

[26] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 10(2).

[27] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 10(2)(c); Cyfoeth Naturiol Cymru, “Trwyddedau Cwympo Coed: Canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau cwympo coed” (Mehefin 2024) https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/jxjfgk5w/guidance-for-applicants-and-licence-holders-convert-cym.pdf. O 1 Ebrill 2024, bydd pob trwydded cwympo coed yn destun amodau amgylcheddol sylfaenol penodol. Gellir gosod amodau amgylcheddol ychwanegol a phwrpasol hefyd yn amodol ar natur neu leoliad y gwaith cwympo coed.

[28] Diffinnir perchennog yn adran 34 Deddf Coedwigaeth 1967 fel y person y mae'r ystâd gyfreithiol mewn ffi syml wedi'i breinio ynddo.

[29] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 18.

[30] Deddf Coedwigaeth 1967, adran 18(2).

8.20 Mae cyfraith coedwigaeth yn rhyngweithio â phynciau eraill, fel cyfraith cynllunio. Fel arfer, cyhoeddir gorchmynion cadw coed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Rhaid i unrhyw gais i gwympo coed o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 sy'n ddarostyngedig i orchmynion diogelu coed gael ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol yn ogystal â NRW.[31]

8.21 Mae tri offeryn statudol ("OS") sylweddol wedi'u deddfu o dan Ddeddf 1967 sydd mewn grym ac yn gymwys i Gymru: Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979, Rheoliadau Coedwigaeth (Eithriadau rhag Cyfyngu ar Gwympo Coed) 1979 ac Is-ddeddfau'r Comisiwn Coedwigaeth 1982.[32] Maent yn ategu'r ddeddfwriaeth sylfaenol drwy fanylu ar y weithdrefn ar gyfer trwyddedau cwympo coed, sefydlu eithriadau i drwyddedau cwympo coed a nodi is-ddeddfau coedwigaeth. Gan fod cysylltiad mor agos rhwng y tri OS hyn o ran eu pynciau â'u Deddf Alluogi - Deddf 1967 - rydym o'r farn ei bod yn briodol gwerthuso'r cyfreithiau hyn ynghyd â'r Ddeddf yn erbyn ein meini prawf arweiniol.

8.22 Mae cyfreithiau eraill a allai fod yn berthnasol i goedwigaeth hefyd, fel:

(1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;

(2) Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;[33]

(3) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999;[34] a

(4) Rheoliadau Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999.

Ystyrir y ddau gyntaf o'r deddfiadau hyn ym Mhenodau 2 a 7 yn y drefn honno. Nid yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 yn cael eu hystyried yn yr adroddiad hwn gan ein bod yn deall y bwriedir i'r rheoliadau fod yn rhan o'r cod cyfraith sy'n ymwneud â chynllunio. Rhoddir sylw i Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 ym mharagraffau 8.35 i 8.38.

### Coedwigaeth fel sector ar wahân

8.23 Cyn inni gymhwyso ein meini prawf arweiniol i'r cyfreithiau coedwigaeth, mae'n ddefnyddiol ystyried a yw coedwigaeth yn cael ei hystyried yn gyffredinol yn sector ar wahân i amaethyddiaeth. Ein man cychwyn yw nad oes ateb clir i'r cwestiwn hwn. Yn hytrach, mae achosion lle mae coedwigaeth yn cael ei hystyried yn sector ar wahân i amaethyddiaeth yn ogystal ag achosion lle mae coedwigaeth ac amaethyddiaeth yn cael eu hystyried yn un sector. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a

31 Deddf Coedwigaeth 1967, adran 15.

32 OS 1979/791; OS 1979/792; OS 1982/648. Nodwn fod Rheoliadau Coedwigaeth (Addasu Cyfyngiadau Cwympo Coed) 1985, OS 1985/1958 mewn grym ac yn gymwys i Gymru, ond nid yw ond yn gwneud diwygiad testunol i ddarpariaeth yn Neddf Coedwigaeth 1967.

33 OS 1994/2716; OS 2017/1012.

34 OS 1999/1892.

Diogelwch yn cyhoeddi adroddiadau iechyd a diogelwch fesul sector.[35] Mae ei adroddiadau ar faterion amrywiol yn cynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota i greu un set o ystadegau, ac mae'r ffigurau hyn fel arfer yn cael eu talfyrru i "amaethyddiaeth". Mae dull tebyg yn cael ei fabwysiadu gan Ddangosfwrdd Cyfraith yr UE a Ddargedwir, a gynhyrchwyd gan Adran Busnes a Masnach y DU.[36]

8.24 Yn groes i hynny, mae Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwahanu coedwigaeth oddi wrth amaethyddiaeth yn ei data 2021 yn ôl diwydiant.[37] Yn yr un modd, mae'r drefn gyfreithiol ar gyfer asesiadau o'r effaith amgylcheddol yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer prosiectau amaethyddiaeth a choedwigaeth.[38] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfennau strategaeth ar wahân ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth.[39] Mae'r rheini sy'n gweithio ym maes amaethyddiaeth a'r rheini sy'n gweithio ym maes coedwigaeth yn cael eu cynrychioli ymhellach yng Nghymru gan gyrff aelodaeth penodol. Er enghraifft, mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ("NFU Cymru") ac Undeb Amaethwyr Cymru yn cynrychioli'r sector amaethyddol, ac mae Confor (Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd) a Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig yn cynrychioli'r sector coedwigaeth.

8.25 Fel y trafodwyd ym Mhennod 4, nid yw cyfraith amaethyddol yn gorff cyfreithiol sydd â chwmpas y cytunir arno'n gyffredinol. O ganlyniad, rydym yn cael ein harwain gan y diffiniad o amaethyddiaeth a nodir yn adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("Deddf 2023"); mae adran 51(1)(f) yn datgan bod defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth yn gyfystyr ag amaethyddiaeth.[40]

8.26 Mae coetiroedd fferm ac amaeth-goedwigaeth yn arferion sy'n uno defnydd tir amaethyddol a choed. Nid yw Deddf 2023 yn cynnig diffiniad statudol o'r naill derm na'r llall. Ein dealltwriaeth ni yw bod amaeth-goedwigaeth yn cynnwys integreiddio coed a llwyni i arferion ffermio. Ni ellir o reidrwydd drefnu arferion amaeth-goedwigaeth ar ffurf a ystyrir yn gyffredinol yn goetir. Mae un o'r arferion, tir pori silfo dwysedd isel, yn cynnwys coed unigol gwasgaredig ynghyd â da byw. Mae coetir fferm yn disgrifio coetir sydd wedi'i leoli ar dir amaethyddol sy'n rhoi cyfle i "gynyddu cynhyrchiant pren y gellir ei ddefnyddio" a thrwy hynny gefnogi "datblygiad busnesau llai".[41]

---

35 Gweler yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, "Agriculture, forestry and fishing statistics in Great Britain, 2025" (Tachwedd 2025) https://www.hse.gov.uk/statistics/assets/docs/agriculture.pdf.

36 Yr Adran Fusnes a Masnach, "Retained EU law and assimilated law dashboard" (2022) https://reul.businessandtrade.gov.uk/dashboard.

37 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, "Census 2021: Industry" (2021) https://www.ons.gov.uk/datasets/TS060/editions/2021/versions/5.

38 Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999, OS 1999/2228; Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017, OS 2017/565 (Cy 134).

39 Amaeth Cymru, "Dyfodol ffermio yng Nghymru: y ffordd ymlaen" (Tachwedd 2017) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/amaeth-cymru-dyfodol-ffermio-yng-nghymru_0.pdf; Llywodraeth Cymru, *Coetiroedd i Gymru* (Mehefin 2018) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/coetiroedd-i-gymru-strategaeth.pdf.

40 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4), adran 51(6).

41 Llywodraeth Cymru, "Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru" (Gorffennaf 2025) paragraff 1.4.2.

8.27 Mae gweithgareddau amaeth-goedwigaeth a choetir fferm wedi'u cynnwys yn y diffiniad statudol cynhwysfawr o amaethyddiaeth o dan Ddeddf 2023. Fodd bynnag, mae gweithgarwch cyffredinol coedwigaeth wedi'i eithrio, sy'n dangos bod amaethyddiaeth a choedwigaeth yn cael eu trin fel sectorau ar wahân o dan y gyfraith. Yn wir, mae'r gyfraith sy'n berthnasol i goedwigaeth wedi'i chynnwys yn gyffredinol mewn statudau ac offerynnau statudol gwahanol i'r rhai sy'n berthnasol i amaethyddiaeth. Fel y nodwyd uchod, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rheoli coedwigaeth wedi'i chynnwys yn Neddf Coedwigaeth 1967. Yn yr un flwyddyn, deddfodd Senedd y DU Ddeddf ar wahân sy'n llywodraethu'r sector amaethyddol: Deddf Amaethyddiaeth 1967.

8.28 Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 (a hefyd darpariaethau sy'n diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981). Yn fras, mae'r diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn cynnwys diwygio pwerau a dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â thrwyddedau cwympo coed a gorchmynion cadw coed. Fel rydym wedi'i amlinellu ym Mhennod 5, nid ydym o'r farn bod naill ai Rhannau o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 sy'n delio â choedwigaeth neu fywyd gwyllt yn perthyn i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Felly, nid yw'r ffaith bod diwygiadau i gyfraith coedwigaeth wedi'u cynnwys yn Neddf 2023 yn dangos bod coedwigaeth yn perthyn i'r sector amaethyddol. Nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn "eithaf gwahanol ei natur",[42] a bod Rhannau 4 a 5 ar goedwigaeth a bywyd gwyllt â "chysylltiad gwan efallai"[43] ag amaethyddiaeth.

8.29 Er bod coedwigaeth ac amaethyddiaeth yn ategu ei gilydd ac yn cydblethu'n dda, rydym o'r farn bod coedwigaeth ac amaethyddiaeth fel arfer yn cael eu hystyried yn sectorau ar wahân. Felly, rydym yn asesu cyfreithiau coedwigaeth yn erbyn ein meini prawf arweiniol gan gadw'r casgliad hwn mewn cof.

### Cyfreithiau coedwigaeth: meini prawf cynnwys

8.30 Rhwng 2015 a 2024, cynyddodd coetiroedd ffermydd a gofnodwyd yng Nghymru o 78,000 hectar i 132,000.[44] Mae'r cynnydd mewn coetiroedd ffermydd yn ystod y degawd diwethaf yn adlewyrchu poblogrwydd cynyddol cyfuno coed a llwyni â defnydd tir amaethyddol. Mae llawer o resymau dros wneud hyn. Er bod twf coed a llwyni yn cynnig manteision amgylcheddol, gall amaeth-goedwigaeth ac arferion coetiroedd ffermydd gefnogi cynhyrchu amaethyddol. Er enghraifft, gellir tyfu coed ar dir amaethyddol er mwyn darparu cysgod i dda byw a chnydau rhag tywydd eithafol. Ar ben hynny, gellir tyfu coed i fod yn atalwyr gwynt sy'n diogelu cnydau a da byw ac yn lleihau erydiad pridd.[45]

---

42 Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru, *Adroddiad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)* (Ionawr 2023) paragraff 76.

43 Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Senedd Cymru, *Adroddiad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)* (Ionawr 2023) paragraff 76.

44 Ymchwil Coedwigaeth, *Forestry Statistics 2025* (Medi 2025) pennod 1, t 48.

45 Comisiwn Coedwigaeth, "A guide to agroforestry*"* (Awst 2024) https://www.gov.uk/guidance/a-guide-to-agroforestry.

8.31 Wrth i amaeth-goedwigaeth a choetir fferm ddod yn fwy cyffredin yng Nghymru, mae cyfraith coedwigaeth yn fwy perthnasol i sector amaethyddol Cymru. Fodd bynnag, nod cyfraith coedwigaeth yw cefnogi coedwigo a rheoli cronfeydd coed yn gynaliadwy yn ogystal â phren ar gyfer amrywiaeth o amcanion ni waeth a yw coed wedi'u lleoli ar dir amaethyddol ai peidio.

8.32 Mae'r ddyletswydd i gydbwyso yn adran 1(3A) Deddf 1967 yn golygu bod ystyriaethau amgylcheddol a bywyd gwyllt hefyd yn agwedd sylfaenol ar gyfraith coedwigaeth. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ymhellach gan y diwygiadau a gyflwynwyd i Ddeddf 1967 gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, sy'n rhoi'r pŵer i NRW osod amodau amgylcheddol ar drwyddedau cwympo coed. Am yr holl resymau uchod, nid ydym yn credu bod cyfraith coedwigaeth yn ymwneud yn uniongyrchol ag amaethyddiaeth.

8.33 Bydd cyfreithiau coedwigaeth yn berthnasol i'r holl waith rheoli coedwigoedd, p'un a ydynt yn cael eu rheoli'n fasnachol neu fel arall. Fel y crybwyllwyd uchod, adroddodd Llywodraeth Cymru am 132,000 hectar o goetiroedd ffermydd yng Nghymru yn 2023.[46] Fodd bynnag, amcangyfrifir bod y coetir cyffredinol yng Nghymru (sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat) yn 312,000 hectar, sy'n golygu bod coetir ffermydd yn adlewyrchu tua 42% o'r coetir yng Nghymru. Felly, mae ffermwyr sy'n ymarfer amaeth-goedwigaeth a thechnegau coetir fferm yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r rheini sy'n gorfod cydymffurfio â'r cyfreithiau hyn, ond nid pob un. Yn seiliedig ar hyn, rydym o'r farn nad yw cymhwyso deddfau coedwigaeth yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

8.34 Mae'n dilyn ein bod yn ystyried bod Deddf Coedwigaeth 1967, a'r tri OS a restrir ym mharagraff 8.21, yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Ein barn dros dro yw bod perygl y bydd cynnwys y cyfreithiau coedwigaeth yn y darpar God yn dangos mai dim ond mewn cyd-destun amaethyddol y maent yn berthnasol. Rydym o'r farn y gallai defnyddwyr y darpar God felly dybio'n anghywir mai dim ond i ddefnydd tir amaethyddol y mae cyfreithiau coedwigaeth yn berthnasol.[47] Fodd bynnag, rydym yn awgrymu y byddai'n fuddiol i unrhyw dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at gyfraith coedwigaeth.

### Rheoliadau Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999

8.35 Er bod Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 (“Rheoliadau Coedwigaeth yr EIA”) yn rhan ganolog o gyfraith coedwigaeth, nid ydym yn cymhwyso ein meini prawf ar gyfer cynnwys y rheoliadau hynny yn yr adroddiad hwn.[48]

8.36 Ym Mhennod 6 rydym yn edrych ar Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 (“Rheoliadau EIA Amaethyddiaeth Cymru”).[49] Yn y

[46] Ymchwil Coedwigaeth, *Forestry Statistics 2025* (Medi 2025) pennod 1, t 48.

[47] Rydym yn nodi, pe bai deddfwriaeth benodol yn cael ei deddfu ar gyfer naill ai amaeth-goedwigaeth neu goetir fferm, y byddem yn ystyried y gallai hyn fod yn addas i'w gynnwys yn y darpar God.

[48] OS 1999/2228.

[49] Ym Mhennod 6, rydym yn ystyried y cyfreithiau hynny sy'n gwarchod yr amgylchedd, adnoddau naturiol a bywyd gwyllt.

bennod honno, rydym yn dod i'r casgliad, er bod Rheoliadau EIA Amaethyddiaeth Cymru yn bodloni ein meini prawf i'w cynnwys yn y darpar God, eu bod yn debygol o fod yn fwy addas i ddod o fewn cod posibl o gyfraith Cymru yn y dyfodol ar bwnc datganoledig gwahanol. Y rheswm am hyn yw bod Rheoliadau EIA Amaethyddiaeth Cymru yn rhan o gyfundrefn ehangach sy'n llywodraethu asesu amgylcheddol: cyfundrefn yr ystyriwn, yn ei chyfanrwydd, ei bod yn ymwneud â'r amgylchedd yn hytrach nag amaethyddiaeth.[50] O ganlyniad, rydym o'r farn na fyddai'n ddymunol darnio'r gyfundrefn EIA ehangach drwy gynnwys dim ond Rheoliadau Amaethyddiaeth EIA Cymru yn y darpar God.

8.37 Gan ddefnyddio ein rhesymeg ynghylch Rheoliadau EIA Amaethyddiaeth Cymru, mae'n dilyn yn rhesymegol ein bod o'r farn bod Rheoliadau EIA Coedwigaeth hefyd yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'n safbwynt ehangach bod cyfraith coedwigaeth yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God (fel y nodir uchod ym mharagraffau 8.30 i 8.34).

8.38 Wrth wneud yr asesiad hwn, rydym yn cydnabod bod Rheoliadau EIA Coedwigaeth yn rhan bwysig o'r gyfraith y gallai fod angen i ffermwyr yng Nghymru gydymffurfio â hi. O dan Reoliadau EIA Coedwigaeth, bydd angen cael caniatâd NRW ar gyfer rhai prosiectau coedwigaeth sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys coedwigo, datgoedwigo, gwaith ffyrdd mewn coedwigoedd a gwaith chwareli mewn coedwigoedd.[51] Os yw ffermwr yn bwriadu ymgymryd â phrosiect sy'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau uchod, yna gellir defnyddio Rheoliadau EIA Coedwigaeth.[52] Felly, rydym yn dod i'r casgliad y dylai unrhyw dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God gyfeirio at Reoliadau EIA Amaethyddiaeth Cymru a Rheoliadau EIA Coedwigaeth.

## CYFRAITH IECHYD PLANHIGION

8.39 Mae'r paragraffau 8.40 i 8.58 canlynol yn ystyried y gyfraith sy'n llywodraethu iechyd planhigion, sef yn bennaf Deddf Iechyd Planhigion 1967 ("PHA 1967"), yr is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno a chyfraith a gymathwyd ynghylch amodau sicrhau iechyd planhigion. Mae cyfreithiau eraill hefyd yr ystyrir eu bod yn rhan o ddeddfwriaeth iechyd planhigion, fodd bynnag, rydym yn ceisio canolbwyntio ar y rhai sy'n ymddangos fwyaf perthnasol i amaethyddiaeth.

### Deddf Iechyd Planhigion 1967

8.40 PHA 1967 yw'r prif ddeddfiad sy'n ymwneud â rheoli cyflwyno a lledaenu plâu yn y DU. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion er mwyn dilyn y nod

50 Gweler Pennod 6 am ddadansoddiad pellach.

51 Mae'r termau "prosiect", "coedwigo", "datgoedwigo", "gwaith ffyrdd mewn coedwigoedd" a "gwaith chwareli mewn coedwigoedd" i gyd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999, OS 1999/2228.

52 Bydd p'un a fydd angen cydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y prosiect dan sylw ai peidio yn dibynnu ar a yw'r prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd yn rhinwedd ffactorau fel ei natur, ei faint neu ei leoliad.

hwnnw[53] ac mae'r rhannu cyfrifoldeb mewn perthynas ag iechyd planhigion yng Nghymru wedi'i nodi isod.

(1) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am bolisi iechyd planhigion.

(2) Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion sy'n gyfrifol am weithredu swyddogaethau rheoleiddio iechyd planhigion ar ran Gweinidogion Cymru.

(3) Mae NRW a'r Comisiwn Coedwigaeth hefyd yn cyflawni swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas ag iechyd planhigion (coedwigaeth).

8.41 Mae'r PHA 1967 yn ymestyn i gnydau amaethyddol a garddwriaethol, ac i goed a llwyni. Mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn bla yn cael ei ddiffinio'n eithaf bras. Diffinnir 'plâu' at ddibenion PHA 1967 fel a ganlyn:

> pryfed, bacteria, ffyngau ac organeddau llysiau neu anifeiliaid eraill, firysau a phob cyfrwng arall sy'n achosi unrhyw glefyd trosglwyddadwy mewn cnydau amaethyddol neu arddwriaethol neu goed neu lwyni, ac mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at blâu ar unrhyw gam o'u bodolaeth.[54]

8.42 Mae dau OS sylweddol wedi'u deddfu o dan PHA 1967 sydd mewn grym, ac sy'n berthnasol i Gymru.[55] Gan fod y rhain yn ymwneud â rheoli clefydau sy'n effeithio ar goed, byddwn yn ystyried y rhain yn erbyn ein meini prawf arweiniol ar wahân i Ddeddf Iechyd Planhigion 1967.

### Deddf Iechyd Planhigion 1967: meini prawf cynnwys

8.43 Mae adran 1 PHA 1967 yn cadarnhau mai nod y Ddeddf yw darparu fframwaith ar gyfer rheoli plâu a fyddai fel arall yn niweidio cnydau amaethyddol a garddwriaethol, a choed a llwyni. Rydym yn ystyried bod garddwriaeth yn rhan o amaethyddiaeth, yn unol â'r diffiniad o amaethyddiaeth o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Gyda hyn mewn golwg, ac o ystyried yr amcan a nodir yn adran 1 y Ddeddf, mae PHA 1967 yn ymwneud ag amaethyddiaeth oherwydd ei bod yn ceisio gwarchod cnydau amaethyddol a garddwriaethol yn benodol. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod PHA 1967 hefyd yn ymwneud â meysydd pwnc eraill, fel coedwigaeth. O'r herwydd, mae adran 1 PHA 1967 hefyd yn ceisio rheoli'n benodol blâu a chlefydau a allai fel arall niweidio coed.

8.44 Bydd cymhwyso'r Ddeddf yn ymarferol yn ymestyn i weithgareddau sy'n amaethyddol, ac i'r rhai sydd y tu allan i'n dealltwriaeth o amaethyddiaeth. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adran 3 PHA 1967 i gyfarwyddo neu awdurdodi gwaredu unrhyw gnwd, neu unrhyw hadau, planhigion neu ran o blanhigyn. Byddai cyfyngiadau o'r fath yn amlwg yn effeithio ar y sector amaethyddol ond hefyd ar sectorau eraill gan gynnwys y diwydiant cyflenwadau garddio (er enghraifft canolfannau garddio).[56] Ar

---

53 Deddf Iechyd Planhigion 1967, adrannau 2 a 3(1).

54 Deddf Iechyd Planhigion 1967, adran 1(1)(a).

55 Gorchymyn Clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd (Awdurdodau Lleol) 1984, OS 1984/687; Gorchymyn Clefyd Dyfrnod (Awdurdodau Lleol) 1974, OS 1974/768.

56 Ein hasesiad ni yw y gall y pŵer i wneud gorchymyn i waredu neu ddinistrio unrhyw gnwd, hedyn neu blanhigyn gyfyngu wedyn ar werthu neu ddosbarthu cynnyrch amaethyddol. Os yw cnydau, hadau neu

ben hynny, mae PHA 1967 yn grymuso Gweinidogion Cymru i reoleiddio a chyfyngu ar fewnforio eitemau o unrhyw ddisgrifiad (fel planhigion, coed neu lwyni) sy'n debygol o gyflwyno pla i Brydain Fawr. Felly, bydd yn rhaid i'r rheini sy'n mewnforio ac yn allforio gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau o'r fath a osodir.[57]

8.45 Mae deddfwriaeth iechyd planhigion hefyd yn berthnasol i goed. Mae coed iach yn hanfodol i goedwigaeth, sy'n cael ei hystyried yn gyffredinol yn sector ar wahân yn ein barn ni. Mae cymhwyso deddfwriaeth iechyd planhigion i'r sector coedwigaeth yn dangos nad yw'r gyfraith yn y maes hwn wedi'i chyfyngu o ran ei chymhwyso'n ymarferol i amaethyddiaeth.

8.46 Rydym wedi clywed gan randdeiliaid nad yw'n bosibl dod i'r casgliad bod iechyd planhigion yn fwy perthnasol i amaethyddiaeth na choedwigaeth. Felly, mae p'un a yw cyfraith iechyd planhigion yn addas i'w chynnwys yn y darpar God yn ddadl gytbwys iawn. Ar y naill law, yr ydym wedi nodi bod y ddeddfwriaeth yn amlwg yn ymwneud â diogelu iechyd cnydau amaethyddol a garddwriaethol. Ar y llaw arall, mae deddfwriaeth iechyd planhigion yn chwarae rôl debyg ym maes coedwigaeth. Am y rheswm hwn, rydym yn nodi isod amrywiol ddulliau posibl o amlinellu cwmpas y darpar God (paragraffau 8.95 i 8.107).

### Iechyd planhigion: OS

8.47 Mae dau OS sylweddol wedi'u gwneud o dan PHA 1967 sy'n ymwneud â phlâu neu glefydau sy'n effeithio ar goed:

(1) Gorchymyn Clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd (Awdurdodau Lleol) 1984; a

(2) Gorchymyn Clefyd Dyfrnod (Awdurdodau Lleol) 1974.[58]

8.48 Ystyrir y cyfreithiau hyn ynghyd â'r gyfraith a gymathwyd, Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.[59] Mae Gorchymyn Clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd 1984 a Gorchymyn Clefyd Dyfrnod 1974 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol gymryd camau yn erbyn clefydau sy'n effeithio ar y coed hynny. Mae'r gyfraith a gymathwyd yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arolygiadau, gwiriadau iechyd planhigion a dogfennau ar gyfer llwythi o bren a chynhyrchion cysylltiedig.

#### OS iechyd planhigion: meini prawf cynnwys

8.49 Rydym yn dod i'r casgliad ym mharagraff 8.29 bod amaethyddiaeth a choedwigaeth yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn sectorau ar wahân, ac yn yr un modd rydym yn cynnig nad yw cyfraith coedwigaeth yn cael ei chynnwys yng nghwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae'r ddau orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Iechyd

blanhigion sy'n cael eu tyfu i'w gwerthu yn cael eu dinistrio neu eu gwaredu oherwydd gorchymyn o'r fath, y canlyniad yw y gallai hyn leihau gweithgareddau ategol yn sylweddol, fel gwerthu neu ddosbarthu.

57 Gweler erth 3 Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006, OS 2006/1701 (Cy 163) fel enghraifft o fesur o'r fath. Er nad yw'r gorchymyn mewn grym mwyach, mae'n rhoi enghraifft o'r mesurau a weithredir a allai reoleiddio masnach.

58 OS 1984/687; OS 1974/768.

59 OS 2019/497 (Cy 114).

Planhigion 1967 a'r gyfraith a gymathwyd sy'n nodi ffioedd (fel yr ystyrir ym mharagraffau 8.47 i 8.48 uchod) yn ymwneud ag iechyd coed.

8.50 Fel rydym yn ei ystyried uchod, mae ffermwyr yn ymgorffori mwy a mwy o arferion sy'n seiliedig ar goed ar eu tir, sy'n golygu y gellid ystyried bod cyfreithiau sy'n ymwneud ag iechyd coed yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Ond mae'r is-ddeddfau iechyd planhigion (a amlinellir ym mharagraffau 8.47 i 8.48) yn ymwneud â chynnal iechyd coed ni waeth a ydynt yn cael eu tyfu ar ffermydd neu mewn mannau eraill. Fel y trafodwyd uchod, mae tua 42% o goetiroedd Cymru i'w cael ar ffermydd. Fodd bynnag, bydd deddfwriaeth iechyd planhigion hefyd yn berthnasol i gategori ehangach o goed: y rheini nad ydynt o reidrwydd yn goetir, ond sydd i'w cael mewn lleoliadau trefol. Gall hyn gynnwys coed a geir ar strydoedd, mewn parciau a gerddi. Ni ellir dweud felly bod y deddfau hyn yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Am y rheswm hwn, rydym yn credu bod y tri OS hyn yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Cyfraith iechyd planhigion a gymathwyd: amodau sicrhau iechyd planhigion a ffioedd

8.51 Tra bu'r DU yn aelod o'r UE, roedd gan yr UE gymhwysedd ar y cyd mewn perthynas ag iechyd planhigion. Yn ystod y cyfnod hwn, pasiodd yr UE lawer o gyfreithiau a oedd yn ceisio rheoleiddio iechyd planhigion a bioddiogelwch. Ers i'r DU adael yr UE, mae yna gyfreithiau'r UE a oedd yn berthnasol yn y DU ac sydd wedi cael eu hymgorffori yn ein llyfr statud fel cyfreithiau domestig a elwir yn gyfreithiau a gymathwyd. Mae pum prif ddeddf sy'n rhan o'r dirwedd iechyd planhigion sy'n berthnasol i amaethyddiaeth.[60]

(1) Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion ("Rheoliad y DU 2016/2031").

(2) Rheoliad Gweithredu'r DU (UE) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 o ran mesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion ("Rheoliad Gweithredu'r DU 2019/2072").

(3) Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd) (Cymru) 2018.[61]

(4) Rheoliad y DU (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

(5) Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020.[62]

---

60 Fel y nodwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ei Phorth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion y DU: https://planthealthportal.defra.gov.uk/trade/helpful-content/specific-commodity-guidance/.

61 OS 2018/1179 (Cy 238).

62 OS 2020/206 (Cy 48).

At ddibenion y bennod hon, rydym ond yn bwriadu asesu'r tair deddf gyntaf a gymathwyd. Mae'r ddeddfwriaeth rheolaethau swyddogol yn cael ei hystyried yn fyr ym Mhennod 10.

8.52 Mae Rheoliad y DU 2016/2031 yn darparu fframwaith rhagweithiol ar gyfer delio â phlâu a chlefydau a fyddai fel arall yn niweidio planhigion. Ymysg materion eraill, cyflwynodd y Rheoliad basportau planhigion y DU fel gofyniad ar gyfer gweithredwyr proffesiynol sy'n symud planhigion o fewn Prydain Fawr neu i mewn iddi.[63] Mae Rheoliad Gweithredu 2019/2072 y DU yn ategu Rheoliad 2016/2031 y DU sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer y mesurau diogelu hynny yn erbyn plâu planhigion. Mae'n cynnwys rhestrau o blâu cwarantin, plâu cwarantin dros dro[64] ac ardaloedd heb blâu ym Mhrydain Fawr.[65]

8.53 Mae cyfraith a gymathwyd hefyd sy'n darparu ar gyfer ffioedd sy'n gysylltiedig ag archwiliadau, pasbortau planhigion a gwasanaethau ardystio allforio. Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd) (Cymru) 2018 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am "wasanaethau iechyd planhigion ac ardystio tatws hadyd, planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi planhigion ffrwythau".[66]

### Cyfraith iechyd planhigion a gymathwyd ar fesurau sicrhau iechyd planhigion a ffioedd: meini prawf cynnwys

8.54 Nod y tair deddf gyntaf a gymathwyd a ystyrir ym mharagraffau 8.51 i 8.53 yw darparu mesurau sicrhau iechyd planhigion unffurf i ddileu a rheoli plâu sydd fel arall yn niweidiol i blanhigion. Mae mesurau sicrhau iechyd planhigion yn cyfeirio at fesurau sydd wedi'u hanelu at reoli iechyd planhigion fel archwiliadau, sicrhau bod planhigion a deunydd planhigion yn dod o ardaloedd heb glefydau, ardystio a phrofi. Mae'r testun rhagarweiniol i Reoliad 2016/2031 y DU yn egluro:

> Mae iechyd planhigion yn bwysig iawn ar gyfer cynhyrchu planhigion, coedwigoedd, ardaloedd naturiol ac ardaloedd wedi'u plannu, ecosystemau naturiol, gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth ym... [Mhrydain Fawr]. Mae iechyd planhigion yn cael ei fygwth gan rywogaethau sy'n niweidiol i blanhigion a chynnyrch planhigion sydd bellach yn peri mwy o risg o gael eu cyflwyno i ... [Brydain Fawr] ... oherwydd globaleiddio masnach a newid yn yr hinsawdd. Er mwyn ymladd y bygythiad hwnnw, mae angen mabwysiadu mesurau sy'n ymwneud â phennu'r risgiau mewn perthynas â sicrhau iechyd planhigion a berir gan y plâu hynny a lleihau'r risgiau hynny i lefel dderbyniol.[67]

---

63 Mae gweithredwyr proffesiynol yn cynnwys unrhyw unigolyn neu gwmni sy'n gwerthu planhigion yn rheolaidd am elw neu sy'n cynnig gwasanaeth proffesiynol.

64 Plâu cwarantin yw plâu sy'n dod o fewn y diffiniad yn Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion, erthyglau 3 a 4. Mae pla cwarantin dros dro yn un sy'n bodloni'r diffiniad a nodir yn Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion, erth 30(A1).

65 Mae ardal heb blâu ym Mhrydain Fawr yn un sy'n bodloni'r trothwy a ddiffinnir yn Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion, erth 2(31).

66 Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd) (Cymru) 2018, OS 2018/1179 (Cy 238).

67 Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop y Cyngor dyddiedig 26 Hydref 2016 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion.

8.55 Yn yr un modd â'r casgliad y daethpwyd iddo mewn perthynas â PHA 1967, rydym yn fodlon bod y tair deddf hyn a gymathwyd yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae cnydau, coed a llwyni iach yn allweddol i allu cynhyrchu cynnyrch amaethyddol. Gall ymosodiad gan bla gael goblygiadau difrifol ar gnydau ac, yn ei dro, gall gael effeithiau economaidd niweidiol ar y sector amaethyddol. Serch hynny, mae'n ymddangos bod y cyfreithiau a gymathwyd hefyd yn ymwneud â phynciau y tu hwnt i amaethyddiaeth, gan gynnwys coedwigaeth a'r amgylchedd.

8.56 Mae llawer o'r plâu a restrir yn yr Atodiadau i Reoliad Gweithredu'r DU 2019/2072 yn blâu sy'n targedu cnydau amaethyddol a garddwriaethol yn benodol. Enghraifft o hyn yw synchytrium endobioticum (a elwir yn fwy cyffredin yn glefyd dafaden datws), sy'n effeithio ar datws a dyfir yn y DU. Arferai fod yn un o glefydau tatws mwyaf difrifol y DU, ac ers hynny mae wedi cael ei reoli gan fesurau statudol.[68] Mae hyn yn helpu i ddangos pwysigrwydd cymhwyso'r deddfau hyn i'r sector amaethyddol.

8.57 Fodd bynnag, bydd y mesurau sicrhau iechyd planhigion hyn yn sicr o fod yn berthnasol i weithgareddau yr ystyrir eu bod yn ategol i amaethyddiaeth neu sydd y tu allan i'r sector. Mae enghreifftiau o raglenni ehangach wedi'u rhestru isod.

(1) Mae llawer o'r plâu yn effeithio ar goed, a fydd yn effeithio ar y sector coedwigaeth. Gan fod coedwigaeth yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel sector ar wahân, mae cymhwyso'r gyfraith i goedwigaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r sector amaethyddol.

(2) Mae nifer sylweddol o gyfyngiadau a gofynion yn berthnasol i fewnforion ac allforion. Er y gall y mewnforion a'r allforion hyn fod yn gynnyrch amaethyddol, ein barn ni yw nad yw hyn yn cynnwys masnach fel rhan o amaethyddiaeth yn awtomatig.

(3) Bydd angen pasbortau planhigion ar sefydliadau sy'n cyflenwi planhigion i adwerthwyr neu i gwsmeriaid at ddefnydd personol pan fyddant yn symud deunydd penodol ym Mhrydain Fawr.

8.58 Daethom i'r casgliad ym mharagraff 8.46 ei bod yn anodd penderfynu a yw Deddf Iechyd Planhigion 1967 yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Yn ein barn ni, dylid dilyn dull gweithredu cyson gyda Deddf Iechyd Planhigion 1967 a'r gyfraith a gymathwyd: Rheoliad y DU 2016/2031, Rheoliad Gweithredu'r DU 2019/2072 a Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd) (Cymru) 2018. Mae trin Deddf Iechyd Planhigion 1967 a'r gyfraith a gymathwyd yn wahanol yn achosi risg o ddarnio rhan o'r gyfraith sy'n ategol ac yn rhyngberthynol iawn.

## CYFRAITH AMRYWOGAETHAU PLANHIGION A HADAU

8.59 Mae “amrywogaethau planhigion” yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio grŵp o blanhigion sydd wedi'u diffinio'n fanwl gywir, sy'n dod o fewn rhywogaeth benodol o blanhigion, sydd â set gyffredin o nodweddion. Mae'r gyfraith ar amrywogaethau planhigion a hadau wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a

---

68 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, “Plant pest factsheet: potato wart disease” (Medi 2024) https://planthealthportal.defra.gov.uk/assets/factsheets/Plant_Pest_Factsheet_Potato_Wart_Disease_final-v2.pdf.

chyfraith a gymathwyd. Mae paragraffau 8.60 i 8.69 isod yn ystyried y cyfreithiau hynny sy'n rheoli'r warchodaeth gyfreithiol a roddir i rai mathau o blanhigion ac mae paragraffau 8.70 i 8.78 yn ystyried y fframwaith ar gyfer hadau. Gellir categoreiddio cyfreithiau sy'n ymwneud ag amrywogaethau planhigion a hadau yn fras fel a ganlyn.

(1) Hawliau bridwyr planhigion.

(2) Cofrestru amrywogaeth.

(3) Ardystio hadau a deunydd lluosogi planhigion.

(4) Marchnata hadau a deunydd lluosogi planhigion.

At ddibenion y bennod hon, rydym yn ystyried cyfraith hawliau bridwyr planhigion yn gyntaf ac wedyn cyfraith cofrestru, ardystio a marchnata gyda'i gilydd.

### Cyfraith hawliau bridwyr planhigion

8.60 Math o eiddo deallusol yw hawliau bridwyr planhigion, sy'n ceisio rhoi hawliau masnachol unigryw i berchnogion amrywogaethau planhigion cofrestredig dros ddeunydd y planhigion (fel yr hadau). Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu'r hawl eiddo deallusol hon yn sylweddol yn cynnwys Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997 ("Deddf 1997"), saith OS a wnaed o dan y Ddeddf honno a chyfraith a gymathwyd.[69] Mae Deddf 1997 a'r saith OS a wneir o dan y Ddeddf yn gweinyddu hawliau bridwyr planhigion, sy'n rhoi rheolaeth lwyr i'r deiliad hawl dros unrhyw ddefnydd masnachol o ddeunyddiau lluosogi. Mae lluosogi'n golygu creu planhigion newydd o blanhigyn rhiant, y gellir ei gyflawni gan ddefnyddio gwahanol ddulliau a gwahanol rannau o'r planhigyn rhiant. Er mwyn i amrywogaeth fod yn gymwys ar gyfer hawliau bridwyr planhigion, rhaid iddi gael ei phrofi'n swyddogol i ddangos ei bod yn newydd, yn unigryw, yn unffurf ac yn sefydlog.[70] Ar ôl iddynt gael eu rhoi gan Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion y DU, bydd yr hawliau hyn yn weithredol am naill ai 25 neu 30 mlynedd, yn dibynnu ar yr amrywogaeth.[71] Fodd bynnag, ni fydd defnydd preifat, anfasnachol neu arbrofol yn amharu ar yr hawliau hyn.[72]

8.61 Mae hadau a arbedir ar y fferm yn eithriad a gyflwynwyd yn Neddf 1997[73] ac a ategir ymhellach gan Orchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Hadau a Arbedir ar y Fferm) (Manyleb Rhywogaethau a Grwpiau) 1998. Mae hyn yn golygu y gall ffermwr

69 Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hysbysiadau Gwybodaeth) 1998, OS 1998/1024; Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hadau Wedi'u Harbed ar y Fferm) (Pennu Rhywogaethau a Grwpiau) 1998, OS 1998/025; Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hadau Wedi'u Harbed ar y Fferm) (Gwybodaeth Benodedig) 1998, OS 1998/1026; Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion 1998, OS 1998/1027; Gorchymyn Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997 (Cychwyn) 1998, OS 1998/028; Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006, OS 2006/648; Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad Defnydd Blaenorol) (Cymru) 2006, OS 2006/1261. Y gyfraith a gymathwyd yw Rheoliadau Patentau a Hawliau Amrywogaethau Planhigion (Trwyddedu Gorfodol) 2002, OS 2002/247.

70 Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997, adran 4(2).

71 Mae Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997, adran 11, yn nodi y bydd hawliau mewn perthynas â thatws, coed a gwinwydd yn effeithiol am 30 mlynedd o'r dyddiad rhoi. Ym mhob achos arall, dywed adran 12 Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997 y bydd yr hawliau mewn grym am 25 mlynedd o'r dyddiad rhoi.

72 Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997, adran 8.

73 Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997, adran 9.

ddefnyddio deunydd lluosogi, fel hadau, sydd wedi'u cynaeafu o gnydau o amrywogaethau planhigion gwarchodedig a dyfir ar ei ddaliad, er mwyn cynhyrchu mwy o blanhigion o'r amrywogaeth warchodedig honno. Fodd bynnag, rhaid iddynt ddatgelu'r hadau a arbedwyd ar y fferm i Gymdeithas Bridwyr Planhigion Prydain ac wedyn talu breindaliadau i ddeiliad yr hawliau i gefnogi rhagor o fuddsoddi ac arloesi.

8.62 Mae'r Tribiwnlys Amrywogaethau Planhigion a Hadau, a sefydlwyd gyntaf o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, yn gwneud penderfyniadau am hawliau bridwyr planhigion a rhestru amrywogaethau newydd o blanhigion lle mae unigolyn yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniadau Rheolwr y Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion.

### Cyfraith hawliau bridwyr planhigion: meini prawf cynnwys

8.63 Nod y gyfraith ar hawliau bridwyr planhigion yw cymell “buddsoddi mewn bridio planhigion”.[74] Cydnabu'r Gweinidog Gwladol (ar y pryd) dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, wrth drafod y Bil Amrywogaethau Planhigion yn 1997, fod “diwydiant bridio planhigion ffyniannus yn hanfodol i lwyddiant amaethyddiaeth y DU a'r fasnach feithrin”.[75] Adleisiwyd barn debyg mewn dadleuon am y Bil Amrywogaethau Planhigion a Hadau yn 1964. “Mae amrywogaethau gwell yn golygu mwy o gnydau, sy'n haws eu tyfu, costau is a chynnyrch o ansawdd uwch”, sy'n golygu y bydd y fframwaith cyfreithiol “o fudd sylweddol i'r diwydiannau amaethyddol a garddwriaethol”.[76]

8.64 Felly, rydym o'r farn bod y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu amrywogaethau planhigion yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae dadleuon seneddol cyn y ddwy Ddeddf sy'n llywodraethu'r rhan hon o'r gyfraith (Deddf Amrywogaethau Planhigion a Hadau 1964 a Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997) yn adlewyrchu'r berthynas rhwng bridio planhigion a'r sector amaethyddol. Drwy annog bridio planhigion, mae'r gyfraith ar hawliau bridwyr planhigion yn hwyluso ansawdd ac effeithlonrwydd y diwydiant amaethyddol.

8.65 Fodd bynnag, gall y gyfraith ar amrywogaethau planhigion ymwneud ag amcanion eraill hefyd. Mae hawliau bridwyr planhigion hefyd yn ysgogi ymchwil wyddonol yn ehangach.

8.66 Ein hasesiad ni yw y bydd cyfraith hawliau bridwyr planhigion yn berthnasol i'r sector amaethyddol, ond gall hefyd fod yn berthnasol y tu hwnt i hyn. Yng Nghymru, y prif sefydliad sy'n cynnal ymchwil i fridio planhigion yw Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

8.67 Ar ben hynny, ym mharagraff 8.29 daethom i'r casgliad bod coedwigaeth yn cael ei hystyried yn gyffredinol yn sector ar wahân i amaethyddiaeth. Fodd bynnag, mae coed yn gallu cael eu diogelu o dan gyfundrefn hawliau bridwyr planhigion. Mae hyn yn golygu y bydd y gyfraith ar amrywogaethau planhigion yn berthnasol i'r sector coedwigaeth. Enghraifft arall yw bod hawliau bridwyr planhigion yn eithrio unrhyw

---

[74] *Hansard* (HC), 24 Mehefin 1997, cyf 296, col 690.

[75] *Hansard* (HC), 24 Mehefin 1997, cyf 296, col 690.

[76] *Hansard* (HC), 21 Ionawr 1964, cyf 864, col 926.

berson arall rhag mewnforio, allforio neu farchnata'r amrywogaeth honno i'w gwerthu. Ein dealltwriaeth ni o'r gadwyn fwyd amaethyddol, sy'n cael ei hegluro ymhellach ym Mhennod 10, yw bod masnachu cynnyrch amaethyddol yn rhyngwladol y tu allan i weithgarwch amaethyddol craidd. Felly, mae hyn yn cynrychioli achos arall lle mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol y tu hwnt i'r sector amaethyddol. Wedi dweud hynny, ystyrir marchnata yn weithgaredd ategol i amaethyddiaeth.[77]

8.68 Er gwaethaf y pwyntiau uchod ym mharagraff 8.67, rydym o'r farn bod gan y gyfraith ar amrywogaethau planhigion gwmpas sy'n debygol o ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Mae'r gyfraith yn berthnasol i fridwyr planhigion, nad ydynt o reidrwydd yn rhan o'n dealltwriaeth graidd o amaethyddiaeth. Ond cyflwynwyd hawliau bridwyr planhigion yn Neddf 1997 i wella cnydau, gwytnwch ac ansawdd cnydau yn y sector amaethyddol. O ystyried y rhesymeg sy'n sail i'r cymhelliant i gynnig hawliau bridwyr planhigion, mae'n anodd meddwl am sector arall lle byddai'r hawliau hyn yn chwarae rhan mor ganolog.

8.69 Am y rhesymau a eglurir uchod, rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith sy'n rheoli hawliau bridwyr planhigion yn addas i'w chynnwys yn y darpar God.[78]

### Cyfraith cofrestru, ardystio a marchnata

8.70 Deellir bod hadau yn ddeunydd lluosogi a ddefnyddir wedyn i dyfu planhigion (boed y rhain yn blanhigion addurnol neu'n ffrwythau) yn ogystal â chnydau grawnfwyd a llysiau. Mae llawer o'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i hadau ac amrywogaethau yn ymwneud â'u hardystio a'u marchnata. Er ein bod yn egluro ym Mhennod 10 ein bod wedi ceisio canolbwyntio ein hymchwil ar weithgareddau ar y fferm, gan eithrio camau diweddarach yn y gadwyn gyflenwi amaethyddol fel marchnata, credwn ei bod yn bwysig edrych ar y cyfreithiau marchnata hynny ar gyfer hadau.

8.71 Mae dau reswm am hyn. Yn gyntaf, mae cysylltiad annatod rhwng cyfraith farchnata ar gyfer hadau a deunydd lluosogi planhigion a chofrestru: caiff amrywogaethau eu cofrestru dim ond fel y gellir eu marchnata wedi hynny. Yn ail, rydym o'r farn mai'r sector amaethyddol yw un o brif ddefnyddwyr unrhyw hadau neu ddeunydd lluosogi planhigion sy'n cael eu marchnata. Ar y sail honno, mae'n ymddangos yn berthnasol ystyried y deddfau hynny sy'n rheoli marchnata deunydd a ddefnyddir wedyn gan y sector amaethyddol. Mae'r deddfau dan sylw yn eithaf eang.

(1) Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 (adrannau 16 i 19, 24 i 31 a 33 i 41).

(2) Rheoliadau Hadau Llysiau 1993.

(3) Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995.

(4) Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999.

---

77 Deddf Amaethyddiaeth (2023 (dsc 4), adran 52.

78 Er bod eiddo deallusol yn fater a gedwir yn ôl dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B, mae pwnc amrywogaethau planhigion a hadau yn eithriad.

(5) Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001.

(6) Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012.

(7) Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016.

(8) Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.[79]

8.72 Rhaid rhestru amrywogaethau amaethyddol a garddwriaethol penodol cyn y gellir marchnata'r hadau yn y DU. Mae Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 yn gyfraith a gymathwyd sy'n rhoi effaith i amrywiol Gyfarwyddebau Cyngor yr UE drwy greu rhestr amrywogaethau Prydain Fawr. Mae rhestr amrywogaethau Prydain Fawr a hawliau bridwyr planhigion yn cyflawni dibenion gwahanol ond ategol wrth reoleiddio amrywogaethau planhigion. Maent yn brosesau ar wahân, er ei bod yn bosibl gwneud cais i restru amrywogaethau Prydain Fawr a hawliau bridwyr planhigion ar yr un pryd ar gyfer cnydau amaethyddol a llysiau er mwyn symleiddio'r broses.

8.73 Mae Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 yn darparu dull gweithredu ledled Prydain Fawr, sy'n golygu bod yr un rhestr o amrywogaethau yn bodoli ar gyfer Prydain Fawr gyfan. Gwneir ceisiadau ar gyfer amrywogaethau yng Nghymru i Weinidogion Cymru, sydd â'r pŵer i dderbyn amrywogaethau ar y rhestr. Fodd bynnag, deallwn fod yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yn ymarferol, yn gweinyddu pob cais i restru ar ran Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Ysgrifennydd Gwladol. Fel rhan o'r broses, bydd yr hadau neu'r deunydd planhigion yn cael eu profi i gadarnhau eu bod yn wahanol, yn unffurf ac yn sefydlog. Yna, mae'n ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi a chyhoeddi rhestr amrywogaethau Prydain Fawr yn y newyddiadur planhigion a hadau. Mae'r rhestr genedlaethol yn newid yn aml, ac mae'r rhestrau'n cael eu tracio gan y newyddiadur. Ym mis Mawrth 2025 er enghraifft, derbyniwyd 21 amrywiad ar restr amrywogaethau Prydain Fawr a chafodd 28 eu dileu o'r rhestr.

8.74 Mae ardystio yn sicrhau ansawdd a hunaniaeth hadau a phlanhigion sy'n lluosogi. Mae'r broses hon yn cael ei chynnal mewn sawl ffordd: archwilio, profi a labelu. Gall y broses amrywio, yn dibynnu ar y deunydd. Er enghraifft, mae'r rhestr uchod ym mharagraff 8.71 yn dangos bod deddfwriaeth ar wahân ar waith ar gyfer tatws, hadau llysiau a deunydd planhigion ffrwythau.

8.75 Ar ôl ardystio a rhestru hadau a deunydd lluosogi planhigion, mae safonau marchnata deddfwriaethol pellach ar waith i reoleiddio ansawdd y nwyddau ar y farchnad.[80] Yn yr un modd ag ardystio, gall deddfwriaeth farchnata amrywio yn dibynnu ar y math o gnwd. Ymysg pethau eraill, rhaid i gyflenwyr gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer pecynnu, selio a labelu i sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu bodloni.

---

79 OS 1993/2008; OS 1995/2652; OS 1999/1801; OS 2001/3510; OS 2012/245 (Cy 39); OS 2016/106 (Cy 52); OS 2017/691 (Cy 163).

80 Gweler y rhestr ym mharagraff 8.71 i gael syniad o'r deddfau marchnata hynny ar gyfer hadau a deunydd lluosogi planhigion.

### Cyfraith cofrestru, ardystio a marchnata: meini prawf cynnwys

8.76 Mae'r gofynion ar gyfer rhestru, ardystio a marchnata cnydau amaethyddol a llysiau penodol yn helpu i ddiogelu ffermwyr a'u defnyddwyr. Mae'n darparu sicrwydd ansawdd oherwydd y profion a'r mesurau trylwyr y mae'n rhaid i hadau eu pasio cyn cael eu cymeradwyo i'w cynnwys ar y rhestr. Yn yr ystyr hwnnw, mae'r cyfreithiau hyn yn ymwneud ag amaethyddiaeth oherwydd eu bod yn rheoleiddio'r deunydd y gall ffermwyr ei ddefnyddio i dyfu eu cynnyrch.

8.77 Er gwaethaf hyn, rydym yn ymwybodol bod llawer o'r cwmnïau sy'n arbenigo mewn datblygu hadau a deunydd lluosogi planhigion yn perthyn i amrywiaeth o sectorau fel cemegion, biotechnoleg a chynhyrchion fferyllol.[81] Felly, mae'r cwmnïau hyn yn debygol o gynrychioli cyfran o'r rhai y bydd angen iddynt gydymffurfio â'r gofynion. O ystyried ffocws eang y cwmnïau, mae'n anodd eu categoreiddio fel rhan greiddiol o'r sector amaethyddol. Yna eto, mae'r gyfraith hon yn canolbwyntio'n gul ar restru, ardystio a marchnata cnydau amaethyddol a llysiau.

8.78 Yn ein hasesiad, rydym o'r farn bod y cyfreithiau hyn yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Er gwaethaf y meysydd eang y gall rhai cwmnïau arbenigo ynddynt, mae cwmpas y ddeddfwriaeth wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol i'r sector amaethyddol drwy ddarparu rhestr amrywogaethau Prydain Fawr o hadau ardystiedig ar gyfer ffermwyr. Felly, rydym o'r farn y gallai'r cyfreithiau hynny a nodir ym mharagraff 8.71 fod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Rydym yn cydnabod bod cyfran sylweddol o'r gyfraith sy'n llywodraethu amrywogaethau planhigion a hadau yn canolbwyntio ar eu marchnata. Yn yr ystyr hwnnw, mae awgrymu bod y cyfreithiau hynny'n cael eu cynnwys yn y darpar God yn wahanol i'n safbwynt cyffredinol ym Mhennod 11 mewn perthynas â chyfreithiau marchnata sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch da byw. Fel y nodir ym mharagraff 8.71, rydym o'r farn bod rhesymau cryf dros gadw pob cyfraith o fewn y gyfundrefn amrywogaethau planhigion a hadau gyda'i gilydd.

## CYFRAITH GWRYCHOEDD

8.79 Mae'r gyfraith ar wrychoedd wedi'i chynnwys yn bennaf yn Rheoliadau Gwrychoedd 1997, a wnaed o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.[82] Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod angen i goed sy'n rhan o wrychoedd, mewn theori, gydymffurfio â gofynion trwydded cwympo coed Deddf Coedwigaeth 1967 a gorchmynion diogelu coed yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ystyriwyd Deddf Coedwigaeth 1967 uchod rhwng paragraffau 8.15 i 8.34 ac rydym o'r farn bod Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.[83] Nodwn fod disgwyl i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hymgorffori mewn Deddf Cynllunio newydd i Gymru a fyddai'n rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio. Mae gwrychoedd hefyd yn gynefinoedd i wahanol rywogaethau. Am y rheswm hwn, gall Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fod yn berthnasol hefyd. Ystyriwyd y Rheoliadau hyn yn gynharach ym Mhennod 6. Mae

81 Mae enghreifftiau o gwmnïau o'r fath yn cynnwys Bayer UK, Corteva Agriscience a BASF UK.

82 OS 1997/1160.

83 Fodd bynnag, ystyrir agweddau ar Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn fyr ym Mhennod 9.

paragraffau 8.80 i 8.88 yn rhoi trosolwg o Reoliadau Gwrychoedd 1997 ac yn ystyried a allai fod yn addas eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Rheoliadau Gwrychoedd 1997

8.80 Mae Rheoliadau Gwrychoedd 1997 ("Rheoliadau 1997") yn gosod cyfyngiadau ar waredu gwrychoedd penodol. Nid yw gwrych wedi'i ddiffinio yn Rheoliadau 1997. Fodd bynnag, mae gwrych at ddibenion y Rheoliadau yn un sy'n tyfu mewn, neu wrth ymyl, unrhyw dir comin, tir gwarchodedig, tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth neu gadw neu fridio ceffylau, merlod neu asynnod.[84] Mae rhai gwrychoedd wedi'u heithrio o gwmpas y rheoliadau.[85]

8.81 Ar ben hynny, dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y bydd gwrych yn dod o fewn cwmpas Rheoliadau 1997:

(1) os yw ei hyd yn ddi-dor yn 20 metr neu fwy; neu

(2) mae pob pen i'r gwrych yn cyfarfod â gwrych arall, boed drwy groestoriad neu waharddeb.

Bydd Rheoliadau 1997 hefyd yn gymwys i ddarn o wrych sy'n ffurfio rhan o wrych sy'n perthyn i'r ddau gategori uchod.

8.82 Rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol am unrhyw gynnig i dynnu gwrych sy'n ddarostyngedig i Reoliadau 1997 drwy gyfrwng “hysbysiad tynnu gwrych”. Dim ond pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn darparu awdurdodiad y caniateir tynnu gwrych.[86] Mae rhai eithriadau i'r gwaharddiad tynnu gwrych, er enghraifft, lle mae angen tynnu gwrych er mwyn atal unrhyw blâu o blanhigion neu goed rhag lledaenu.[87]

8.83 Mae'n bosibl i awdurdod cynllunio lleol wrthod caniatâd, drwy roi hysbysiad cadw gwrych, os yw o'r farn bod y gwrych yn bwysig, gan gymhwyso'r meini prawf a nodir yn rheoliad 4 Rheoliadau 1997 ac Atodlen 1 iddynt. Ymysg materion eraill, gellir ystyried gwrych yn bwysig os yw'n 30 oed o leiaf.[88] Mae'n drosedd tynnu gwrych yn fwriadol neu'n ddi-hid lle nad yw eithriad yn berthnasol neu os oes hysbysiad cadw wedi'i roi. Ar ben hynny, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod y perchennog yn plannu gwrych arall.

#### Rheoliadau Gwrychoedd 1997: meini prawf cynnwys

8.84 Mewn ymateb i “golli gwrychoedd yn barhaus”, nod Rheoliadau 1997 yw rheoli eu tynnu drwy gyflwyno system hysbysu.[89] Wrth wneud hynny, cynigiodd Llywodraeth y

---

[84] Rheoliadau Gwrychoedd 1997, OS 1997/1160, rheoliad 3.

[85] Mae gwrychoedd sydd o fewn cwrtil neu sy'n nodi ffin cwrtil tŷ annedd y tu allan i gwmpas y rheoliadau; Rheoliadau Gwrychoedd 1997, OS 1997/1160, rheoliad 3(3).

[86] Rheoliadau Gwrychoedd 1997, OS 1997/1160, rheoliad 5.

[87] Rheoliadau Gwrychoedd 1997, OS 1997/1160, rheoliadau 5 a 6.

[88] Rheoliadau Gwrychoedd 1997, OS 1997/1160, rheoliad 4.

[89] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, “Debate on legal protection for hedgerows” (Ionawr 2024) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CDP-2024-0012/CDP-2024-0012.pdf, 2. Gweler hefyd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, *The Hedgerows Regulations 1997: a guide to the*

DU ddarpariaethau a oedd yn ceisio “taro'r cydbwysedd iawn rhwng manteision amgylcheddol effeithiol a lleihau'r effaith ar ffermwyr.”[90] Mae gwrychoedd yn cynnig llawer o fanteision, fel y rhestrir isod.

> Mae gwarchod a rheoli gwrychoedd yn gynaliadwy yn hanfodol er mwyn cynnal bioamrywiaeth Cymru, diogelu ecosystemau hanfodol, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. ... Yng Nghymru, mae gwrychoedd yn rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd ac yn gwneud cyfraniad hanfodol at ymdeimlad o le mewn ardal.[91]

8.85 Yn benodol, mae gwrychoedd yn bwysig i amaethyddiaeth. Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn egluro:

> Maent yn nodweddion amaethyddol sydd wedi hen ennill eu plwyf yng Nghymru lle maent yn gweithredu fel systemau amaeth-goedwigaeth ac yn gwella'r berthynas rhwng amaethyddiaeth a rheoli coetiroedd. Gall gwrychoedd ddarparu manteision sylweddol i iechyd a lles anifeiliaid. Maen nhw'n darparu cysgod i dda byw a chnydau, yn y gaeaf yn lleihau oerfel gwynt ac yn yr haf yn lleihau straen gwres. ...Gall gwrychoedd atal erydiad pridd, cynnal iechyd pridd a gwella ansawdd dŵr.[92]

8.86 Felly, rydym yn fodlon bod Rheoliadau 1997 yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond hefyd â phynciau eraill. Er enghraifft, mae Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) wedi tynnu sylw at y cysylltiad rhwng Rheoliadau 1997 a chyfraith cynllunio, rheoli cefn gwlad, yr amgylchedd a'r amgylchedd hanesyddol.[93]

8.87 Mae Rheoliadau 1997 yn gymwys yn ymarferol i amaethyddiaeth oherwydd bod y Rheoliadau yn gymwys i wrychoedd penodol sy'n tyfu ar dir amaethyddol. Fodd bynnag, mae gwrychoedd sy'n tyfu mewn coedwigoedd neu ar dir comin neu dir gwarchodedig hefyd yn cael eu gwarchod o dan Reoliadau 1997. Gan i ni ddod i'r casgliad ym mharagraff 8.29 bod coedwigaeth yn cael ei hystyried yn gyffredinol yn sector ar wahân, mae cymhwyso'r gyfraith hon i dir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer coedwigaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r sector amaethyddol. Yn yr un modd, er bod tir comin yn aml yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol (fel pori da byw) mae ganddo hefyd ddefnydd ehangach fel darparu man agored ar gyfer hamddena. Rydym hefyd yn ystyried pwynt pwysig a nodwyd yn adroddiad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar wrychoedd:

> er bod y Rheoliadau'n eithrio gwrychoedd gardd yn benodol, nid ydynt yn cyfeirio at ddarnau eraill o dir gan gynnwys parcdir, mynwentydd ac ystadau diwydiannol ac

*law and good practice* (1997) https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a817aee40f0b6230269788e/hedgerow__guide_part_1.pdf.

90 *Hansard* (HC), 26 Chwefror 1997, cyf 291, col 308.

91 Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* (Gorffennaf 2025) tt 7 i 8.

92 Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* (Gorffennaf 2025) t 20.

93 Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru), paragraff 45.

unrhyw dir preifat nad yw o fewn cwrtil annedd. Efallai y bydd gan unrhyw un o'r rhain ffiniau gwrychoedd.[94]

8.88 Nid ydym wedi gallu nodi unrhyw ystadegau i gadarnhau cyfran y gwrychoedd sy'n ddarostyngedig i Reoliadau 1997 sydd naill ai'n tyfu ar dir amaethyddol neu wrth ymyl tir amaethyddol. O ganlyniad, mae'n anodd dod i'r casgliad bod gan y Rheoliadau gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Yn ein barn ni, nid yw Rheoliadau 1997 yn amlwg yn bodloni ein meini prawf arweiniol i'w cynnwys yn y darpar God, ac felly nid ydynt yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

### Materion eraill i'w hystyried

8.89 Mae gwneud cynigion neu argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith sylwedd y tu allan i gwmpas ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig cydnabod galwadau diweddar i ddiwygio'r gyfraith sy'n gwarchod gwrychoedd. Cyhoeddodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* ym mis Gorffennaf 2025 mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch effeithiolrwydd Rheoliadau 1997. Yn bennaf, mae'r adroddiad yn argymell y dylai'r Senedd ddeddfu i "warchod gwrychoedd yn gyfreithiol yng Nghymru mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu statws fel cynefinoedd â blaenoriaeth".[95] Dylai'r warchodaeth newydd hon ymestyn i "bob gwrych a nodweddion llinol coediog eraill" oni bai fod caniatâd i'w tynnu.[96] Mae llawer o'r argymhellion naill ai wedi cael eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.

8.90 Os yw'r gyfraith ar wrychoedd i fod yn rhan o ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried y cyd-destun ehangach hwn fel rhan o ddilyniannu gwaith codeiddio. Fel rydym yn ei drafod ym Mhennod 11, mae rheswm da dros ystyried ymgymryd â diwygiadau sylweddol yn fuan cyn codeiddio'r gyfraith yn y maes hwn.

8.91 Yn yr un modd, mae'n werth nodi bod y cyfeiriad ar gyfer Rheoliadau 1997 yn ansicr ar hyn o bryd. Mewn egwyddor, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru bod gwarchodaeth gyfreithiol yn ymestyn i bob gwrych, gan gynnwys y rheini mewn lleoliadau trefol. Felly, gallai cwmpas Rheoliadau 1997 yn y dyfodol fod yn berthnasol i unrhyw asesiad o'u haddasrwydd i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## CWMPAS Y DARPAR GOD

8.92 Yn y bennod hon, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r gyfraith ar goedwigaeth yn bodloni ein meini prawf arweiniol i'w chynnwys yn y darpar God. Nid yw'n ymddangos i ni fod gan y cyfreithiau hyn gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth, oherwydd ystyrir coedwigaeth yn gyffredinol fel sector ar wahân. Daethpwyd i gasgliad cysylltiedig mewn perthynas â'r ddau OS a wnaed o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 oherwydd eu bod i gyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli clefydau sy'n effeithio ar goed. Fodd bynnag, ar

[94] Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* (Gorffennaf 2025) t 33.

[95] Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* (Gorffennaf 2025) t 13.

[96] Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* (Gorffennaf 2025) t 13.

gyfer y cyfreithiau hynny ar iechyd planhigion yn ehangach, mae'r asesiad a wneir yn erbyn y meini prawf arweiniol ar gyfer cynhwysiant yn fwy cytbwys.

8.93 Er ein bod yn dod i'r casgliad bod cyfraith iechyd planhigion yn ymwneud ag amaethyddiaeth, rydym hefyd wedi nodi meysydd eraill lle mae'r fframwaith cyfreithiol hwn yn chwarae rhan bwysig. I'r perwyl hwnnw, bu'n anodd penderfynu a oes cymhwysiad ymarferol i'r cyfreithiau hyn sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Er enghraifft, rydym wedi clywed gan randdeiliaid bod cyfraith iechyd planhigion yn cefnogi ymdrechion ehangach i sicrhau bioddiogelwch yng Nghymru, ac yn ehangach yn y DU. Oherwydd hyn, mae'n anodd dod i'r casgliad bod iechyd planhigion yn ymwneud yn fwy ag amaethyddiaeth nag y mae â choedwigaeth. Yn yr un modd, mae cyfraniad iechyd planhigion at fioddiogelwch yn cefnogi manteision cymdeithasol, economaidd, meddyginiaethol ac amgylcheddol - ac nid yw'r un ohonynt o reidrwydd yn amaethyddol.

8.94 O ystyried hyn, credwn fod dau opsiwn sy'n cynnig atebion i'r asesiadau cytbwys hyn. Ein barn ni yw mai'r ail opsiwn sydd yn fwyaf ffafriol am resymau a amlinellir isod ym mharagraff 8.106.

### Opsiwn un: cyfeirio at gyfraith coedwigaeth, iechyd planhigion a gwrychoedd

8.95 O dan yr opsiwn cyntaf hwn, dim ond y cyfreithiau hynny sy'n bodloni ein meini prawf arweiniol ar gyfer cynhwysiant fyddai'n cael eu cynnwys darpar God. Byddai hyn yn cynnwys y gyfraith ar amrywogaethau planhigion a hadau, fel y nodir ym mharagraffau 8.59 i 8.78. Byddai unrhyw gyfreithiau eraill sy'n cael eu hystyried yn y bennod hon, fel y rheini sy'n rheoli coedwigaeth, iechyd planhigion a gwrychoedd, yn cael eu heithrio o'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

8.96 Serch hynny, rydym o'r farn y bydd angen i ffermwyr a gweithwyr eraill yn y sector amaethyddol gydymffurfio â rhai o'r gofynion a nodir yn y cyfreithiau ar goedwigaeth, iechyd planhigion a gwrychoedd. Gan mai bwriad y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yw darparu datganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar amaethyddiaeth, mae perygl y bydd y model hwn yn hepgor deddfau y gallai defnyddwyr y gyfraith ddisgwyl iddynt fod yn rhan o'r darpar God. Ar ben hynny, gallai'r dull hwn ddangos yn anghywir nad yw cyfreithiau coedwigaeth ac iechyd planhigion yn berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol. Am y rheswm hwn, os yw'r cyfreithiau ar goedwigaeth, iechyd planhigion a gwrychoedd yn cael eu heithrio o'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, rydym o'r farn y byddai'n bwysig cyfeirio atynt. Drwy gyfeirio, rydym yn golygu bod tudalen we ehangach y darpar God yn cyfeirio darllenwyr at y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol.

8.97 Os oes cyfeirio, mantais opsiwn un yw osgoi cwmpas y darpar God rhag ehangu'n ehangach nag a allai fod yn ddefnyddiol. Drwy eithrio cyfreithiau coedwigaeth ac iechyd planhigion sy'n anodd eu nodi fel rhai sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth, dim ond y cyfreithiau craidd hynny sydd wedi'u cysylltu'n gliriach â'r sector y mae'r darpar God yn eu cynnwys.

8.98 Er gwaethaf hyn, mae rhai agweddau ar yr opsiwn cyntaf hwn a allai barhau i fod yn anfoddhaol. Yn y model hwn, byddai'r gyfraith ar amrywogaethau planhigion a hadau yn cael ei gwahanu oddi wrth iechyd planhigion a choedwigaeth. Mae codeiddio'n gyfle i gydgrynhoi'r gyfraith yn ôl pwnc, gan gynnig ateb i natur dameidiog a

chymhlethdod y dirwedd gyfreithiol bresennol. Byddai'r opsiwn cyntaf hwn yn darnio'r gyfraith sy'n llywodraethu planhigion, a gellid dadlau ei fod yn mynd yn groes i nod codeiddio.

### Opsiwn dau: cynnwys rhai cyfreithiau iechyd planhigion yn y darpar God

8.99 Byddai'r model o dan yr ail opsiwn hwn yn cynnwys cyfreithiau amrywogaethau planhigion a'r cyfreithiau iechyd planhigion hynny sy'n berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol, ac nad ydynt mor amlwg yn berthnasol i'r sector coedwigaeth. Mae hyn yn golygu Deddf Iechyd Planhigion 1967 a'r gyfraith a gymathwyd sy'n ymwneud ag amodau sicrhau iechyd planhigion, a drafodir uchod ym mharagraff 8.51. O dan y dull gweithredu arfaethedig hwn, byddai cyfreithiau coedwigaeth a gwrychoedd yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth iechyd planhigion sy'n ymwneud â choed yn cael eu heithrio o'r darpar God.

8.100 Mae'r ail opsiwn hwn yn cynnig cynnwys cyfreithiau nad ydynt yn amlwg yn bodloni ein meini prawf arweiniol ar gyfer eu cynnwys, ond sydd serch hynny'n berthnasol iawn i'r sector amaethyddol. Y risg sy'n gysylltiedig ag opsiwn dau felly yw y gallai darllenwyr y darpar God dybio'n anghywir bod cyfreithiau iechyd planhigion yn berthnasol i amaethyddiaeth yn unig. Fodd bynnag, credwn y gellid lliniaru'r risg hon pe bai tudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God yn dangos bod gan ddeddfwriaeth iechyd planhigion berthnasedd ehangach sy'n ymestyn y tu hwnt i amaethyddiaeth.

8.101 Prif fantais yr opsiwn hwn yw y byddai'n osgoi darnio'r deddfau hynny sy'n llywodraethu planhigion sy'n amlwg yn berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol. Byddai dod â'r ddeddfwriaeth iechyd planhigion allweddol at ei gilydd yn grwpio'r gyfraith ar amrywogaethau planhigion, hadau ac iechyd planhigion gyda'i gilydd. Yn ein hasesiad, mae hyn yn helpu i gyflawni nodau codeiddio drwy gydgrynhoi'r gyfraith ar bwnc penodol. Mae gorgyffwrdd sylweddol hefyd rhwng y gyfraith ar hadau ac iechyd planhigion oherwydd mae'r gallu i farchnata'r cynnyrch hwn yn dibynnu ar gydnabod bod yr hadau hynny'n iach. Gallai opsiwn dau fod yn fwy defnyddiol i ddefnyddwyr y gyfraith o ystyried ei fod yn cwmpasu ystod ehangach o gyfreithiau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol nag opsiwn un uchod.

8.102 Yn ogystal, credwn fod manteision i ddod â chyfraith iechyd a lles anifeiliaid ynghyd â chyfraith iechyd planhigion. Yn ogystal â'u pwysigrwydd i'r sector amaethyddol, mae gan y model hwn y potensial i gynnig fframwaith cydlynol i reoli bioddiogelwch sydd fel arall yn niweidiol i'r sector amaethyddol a thu hwnt.

8.103 Rydym yn cydnabod y byddai ehangu cwmpas y darpar God i gynnwys cyfraith iechyd planhigion yn gwahanu'r corff hwnnw o gyfraith oddi wrth goedwigaeth. Mae hyn yn arwain at risg debyg a nodir ym mharagraff 8.96 mewn perthynas ag amaethyddiaeth ac iechyd planhigion; gall defnyddwyr y gyfraith dybio mai dim ond mewn cyd-destun amaethyddol y mae cyfraith iechyd planhigion yn berthnasol. Yn ein barn ni, nid yw'r risg hon yn sylweddol. Mae ein prosiect yn cyfrannu at raglen ehangach o waith Llywodraeth Cymru i ddosbarthu, cydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru.[97] Felly, rydym yn deall y gall meysydd o'r gyfraith nad ydynt

[97] Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/1/2/1706019508/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-ddiwygiedig-2021-i-2026.pdf.

wedi'u cynnwys mewn un darpar God fod yn rhan o god cyfreithiol amgen yn y dyfodol. Os felly, gallai'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at unrhyw god Cymru posibl yn y dyfodol sy'n cwmpasu coedwigaeth.

8.104 Yn yr un modd, ni fyddai'r opsiwn arfaethedig hwn yn cynnwys y ddau OS a ddeddfwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 sy'n berthnasol i goed. Mae perygl i hyn wahanu'r is-ddeddfwriaeth oddi wrth ei phŵer galluogi, a allai, yn ein barn ni, beri rhai anfanteision mewn perthynas ag eglurder a diwygiadau dilynol (gweler Pennod 4). Fodd bynnag, drwy wneud hynny, mae'r opsiwn hwn yn cynnig cwmpas sy'n canolbwyntio'n agosach ar amaethyddiaeth.

8.105 Prif anfantais y model a gynigir o dan opsiwn dau yw y byddai'r darpar God yn debygol o fod yn swmpus. Gallai cynyddu maint y gyfraith a gwmpesir yn y darpar God dynnu oddi ar rai o'r manteision a gynigir gan godeiddio. Yn benodol, rydym yn ymwybodol y gallai cod sylweddol danseilio hygyrchedd y gyfraith. Ond, unwaith eto, rydym yn cydnabod bod technolegau sy'n datblygu, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (“AI”), sy'n ategu ac yn hwyluso'r gwaith o ddarparu cyfraith hygyrch sy'n berthnasol yng Nghymru.

### Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gennym: opsiwn dau

8.106 Yn ein hasesiad, opsiwn dau yw'r ateb mwyaf ffafriol. Ar ôl ystyried y gwahanol ffyrdd y gellid modelu'r darpar God i gynnwys neu eithrio'r cyfreithiau a amlinellir yn y bennod hon, mae opsiwn dau yn cynnig tir canol sy'n ceisio cydbwyso'n fanwl anghenion gwahanol randdeiliaid a sectorau. Er bod opsiwn un yn cynnig model sy'n cynnwys dim ond y cyfreithiau hynny sy'n amlwg yn ymwneud ag amaethyddiaeth, mae perygl iddo ddarnio cyfraith iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion. Mae opsiwn dau yn cynnig model sy'n cwmpasu'r cyfreithiau iechyd planhigion allweddol sy'n berthnasol mewn cyd-destun amaethyddol.

8.107 Mewn theori, gellid ehangu opsiwn dau i gynnwys cod cyfreithiol ar gyfer amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion. Rydym yn cydnabod bod perygl ar hyn o bryd i opsiwn dau wahanu Deddf Iechyd Planhigion 1967, fel prif bŵer galluogi, oddi wrth y ddau OS a ddeddfwyd oddi tani. Un ffordd o liniaru hyn yw ystyried ehangu cwmpas y darpar God yn y dyfodol, i gwmpasu'r tri OS ac i ddangos nad yw'r gyfraith iechyd planhigion sydd wedi'i chynnwys wedi'i chyfyngu i amaethyddiaeth. Rydym o'r farn y dylid darllen yr ehangu posibl hwn ar y darpar God ochr yn ochr ag awgrym tebyg a gynigir ym Mhennod 7 mewn perthynas â chyfraith iechyd a lles anifeiliaid.[98]

## FFRAMWEITHIAU, STRATEGAETHAU A CHYTUNDEBAU CYFFREDIN

8.108 Mae Pennod 2 yn rhoi esboniad byr o berthnasedd fframweithiau cyffredin i'n gwaith ar y prosiect hwn. Maent yn cynnig mecanwaith i sicrhau cysondeb ar draws y pedair gwlad, lle mae pwerau a oedd yn arfer cael eu dal ar lefel yr UE wedi dychwelyd i lefel ddomestig ac yn croestorri â chymhwysedd datganoledig.

---

[98] Er nad yw'n cynrychioli polisi sefydlog Llywodraeth Cymru ar dacsonomeg darpar godau cyfraith, rydym yn nodi bod Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol - “Tacsonomeg Ddrafft y Cod” - yn cynnig cod cyfraith posibl ar gyfer amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion.

8.109 Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cytuno ar ddau fframwaith cyffredin dros dro sy'n ymwneud â'r meysydd polisi sydd wedi'u cynnwys yn y bennod hon. Sef:

(1) y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer iechyd planhigion; a'r

(2) fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer amrywogaethau planhigion a hadau.

8.110 Pan fu'r DU yn aelod o'r UE, mabwysiadodd reolau cyffredin i ddiogelu iechyd planhigion ledled y DU. Felly, "pwrpas Fframwaith Iechyd Planhigion y DU yw cynnal rheolau cyffredin i ddiogelu iechyd planhigion ar draws y [pedair gwlad]".[99] Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n sail i'r fframwaith dros dro hwn yn cynnwys:

(1) Deddf Iechyd Planhigion 1967;

(2) Rheoliad y DU (UE) 2016/2031;

(3) Rheoliad Gweithredu'r DU (UE) 2019/2072;

(4) Rheoliad y DU (UE) 2017/62; a

(5) Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020.[100]

8.111 Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer iechyd planhigion yn bwriadu rheoli'r broses ar gyfer newid y rheolau iechyd planhigion yn un o bedair gwlad y DU. Felly, rydym yn ymwybodol y bydd angen i benderfyniadau sy'n cynnwys cyfraith iechyd planhigion yn y darpar God ystyried yr ymrwymiadau a wneir o fewn y fframwaith dros dro hwn.

8.112 Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer amrywogaethau planhigion a hadau yn cwmpasu'r polisi sy'n llywodraethu hawliau bridwyr planhigion, cofrestru amrywogaethau planhigion, safonau marchnata ac ardystio hadau. Mae llawer mwy o ddeddfwriaeth yn sail i'r fframwaith hwn nag ar gyfer iechyd planhigion. Mae Atodiad 1 i'r fframwaith amrywogaethau planhigion a hadau yn rhestru 46 darn o ddeddfwriaeth - cymysgedd o gyfraith sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a chyfraith yr UE a gymathwyd.[101] Mae nifer o amcanion polisi, gan gynnwys:

(1) cynnal un gyfundrefn sy'n llywodraethu hawliau bridwyr planhigion;

(2) marchnad fewnol yn y DU ar gyfer marchnata hadau; a

(3) mabwysiadu mesurau sy'n gyson â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

---

99 Fframwaith Cyffredin Dros Dro y DU ar gyfer Iechyd Planhigion (2022) CP 612 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61fa81928fa8f5388f444ec5/plant-health-provisional-common-framework.pdf, t 5.

100 I weld ein trafodaethau am y cyfreithiau hyn, gweler paragraffau 8.40 i 8.58 uchod.

101 Fframwaith Cyffredin Dros Dro y DU ar gyfer Amrywogaethau Planhigion a Hadau (2022) CP 591 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61fa81338fa8f5388df28bef/plant-varieties-seeds-provisional-common-framework.pdf, Atodiad 1.

8.113 Rydym yn ymwybodol y gallai penderfyniadau i ailddatgan deddfwriaeth - efallai gyda diwygiadau deddfwriaethol - ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru wneud hynny yn unol â'r fframweithiau cyffredin dros dro a ystyriwyd. Ar ben hynny, mae cysylltiadau rhwng y ddau fframwaith cyffredin dros dro oherwydd bod cysylltiad agos iawn rhwng y meysydd polisi.

8.114 Yn ogystal â'r ddau fframwaith cyffredin dros dro, mae strategaeth bioddiogelwch planhigion ar waith ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. I gydnabod y ffaith nad yw "plâu a chlefydau yn parchu ffiniau cenedlaethol",[102] mae'r tair llywodraeth wedi ymrwymo i gydlynu eu dull gweithredu ynghylch bioddiogelwch planhigion. Y weledigaeth sy'n gyrru'r broses o wneud penderfyniadau o dan y strategaeth hon yw "diogelu planhigion Prydain Fawr drwy bartneriaeth gref rhwng y llywodraeth, diwydiant a'r cyhoedd".[103] Rydym yn cydnabod y rôl y gallai'r strategaeth hon ei chwarae ochr yn ochr â'r fframwaith cyffredin dros dro. Mae'n bosibl y gallai'r strategaeth hon ddylanwadu ymhellach ar y ffordd y mae cyfraith iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion yn cael ei hymgorffori yn y darpar God.

8.115 Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bwriad ym mis Mai 2025 i gytuno ar Gytundeb Iechydol a Ffytoiechydol. Yn fuan wedyn, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd "argymhelliad yn awdurdodi cychwyn trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig ... a'r Undeb Ewropeaidd".[104] Rhagwelir y bydd y cytundeb hwn yn cynnwys:

> rheolau iechydol, ffytoiechydol, diogelwch bwyd a diogelwch cyffredinol i ddefnyddwyr sy'n gymwys i gynhyrchu, dosbarthu a bwyta cynhyrchion bwyd-amaeth, rheoleiddio anifeiliaid byw, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion a phlaladdwyr.[105]

8.116 Rydym yn deall y gallai'r cytundeb hwn arwain at rywfaint o newid deddfwriaethol, yn enwedig os yw'r cytundeb yn dileu'r angen am dystysgrifau iechyd planhigion.

## CASGLIAD

8.117 Mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud â choedwigaeth, iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion yn codi materion anodd o ran cwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae dadleuon sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd ynghylch a yw coedwigaeth yn cael ei hystyried yn rhan o amaethyddiaeth ai peidio. Mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud â choedwigaeth, iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion yn rheoleiddio materion sy'n berthnasol iawn i amaethyddiaeth, ond sydd hefyd â chwmpas ehangach nag amaethyddiaeth.

---

102 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Plant biosecurity strategy for Great Britain (2023 to 2028)* (2023) https://www.gov.uk/government/publications/plant-biosecurity-strategy-for-great-britain-2023-to-2028/plant-biosecurity-strategy-for-great-britain-2023-to-2028.

103 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Plant biosecurity strategy for Great Britain (2023 to 2028)* (2023) https://www.gov.uk/government/publications/plant-biosecurity-strategy-for-great-britain-2023-to-2028/plant-biosecurity-strategy-for-great-britain-2023-to-2028, paragraff 2.1.

104 Swyddfa'r Cabinet, "Explanatory Memorandum on the negotiation of SPS and ETS agreements between the UK and EU" (Awst 2025).

105 Swyddfa'r Cabinet, "Explanatory Memorandum on the negotiation of SPS and ETS agreements between the UK and EU" (Awst 2025).

8.118 Nod darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yw gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch, gan alluogi'r rheini sy'n gweithio ym maes amaethyddiaeth ac yn rheoleiddio amaethyddiaeth i ddod o hyd i gyfraith amaethyddol yn hawdd. Yn hytrach na gorfod chwilio drwy sawl ffynhonnell o'r gyfraith, gellir dod o hyd i'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol mewn un cod cyfraith Cymru sydd wedi'i labelu'n glir. Fodd bynnag, yn y meysydd hyn sy'n gorgyffwrdd, gallai gosod y darpariaethau hyn yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru arwain at broblemau gwahanol o ran darnio. Er enghraifft, pe bai darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ond yn cynnwys y cyfreithiau iechyd planhigion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, byddai hyn yn achosi darnio'r fframwaith cyfreithiol ehangach sy'n ymwneud ag iechyd planhigion. Fodd bynnag, gallai hygyrchedd y gyfraith gael ei danseilio pe bai'r holl gyfreithiau sy'n ymwneud ag iechyd planhigion yn cael eu cynnwys yn y darpar God, heb egluro bod y darpar God hefyd yn god amaethyddiaeth a phlanhigion. Yn yr achos hwnnw, efallai y bydd y rhai y mae angen iddynt gael mynediad at y gyfraith ar iechyd planhigion, ond nad ydynt yn gweithio yn y sector amaethyddol, yn ei chael yn anos dod o hyd i'r gyfraith.

8.119 Rydym wedi archwilio modelau amrywiol o ran ehangder a swmp y cyfreithiau y gellid eu cynnwys. Un opsiwn yw cynnwys dim ond y cyfreithiau hynny a oedd yn bodloni ein meini prawf arweiniol. Un arall yw cynnwys y cyfreithiau hynny nad oeddent yn eu bodloni, ond sydd serch hynny yn ymwneud ag amaethyddiaeth ac sydd â chysylltiad agos ag amaethyddiaeth. Mae ein dewis yn seiliedig ar asesiad o'r ffordd orau o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith heb achosi rhagor o ddarnio. Rydym hefyd wedi ystyried i ba raddau y gallai unrhyw dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at gyfreithiau eraill a allai fod yn berthnasol i'r sector amaethyddol, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y darpar God (fel deddfwriaeth coedwigaeth a'r gyfraith ar wrychoedd). Rydym yn cydnabod y bydd y penderfyniad terfynol ynghylch cwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn dibynnu ar y dewisiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru.

8.120 Y cyfreithiau hynny a oedd yn bodloni ein meini prawf arweiniol ar gyfer eu cynnwys yw'r cyfreithiau amrywogaethau planhigion a hadau. Mae rhestr lawn o'r cyfreithiau hyn ar gael uchod ym mharagraffau 8.59 ac 8.71. Rydym yn trafod bod dadleuon credadwy o blaid ac yn erbyn cynnwys cyfraith iechyd planhigion, sy'n gytbwys iawn. At ei gilydd, rydym o'r farn bod y cyfreithiau iechyd planhigion canlynol yn addas i fod yn rhan o'r darpar God. Mae'r rhain yn cynnwys:

(1) Deddf Iechyd Planhigion 1967; a

(2) chyfraith iechyd planhigion a gymathwyd sy'n ymwneud ag amodau ffytoiechydol.

# Pennod 9: Tenantiaethau amaethyddol, tai a rheoli tir

## CYFLWYNIAD

9.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried a yw'r cyfreithiau sy'n ymwneud â'r materion a restrir isod yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru (“y darpar God”).

(1) Tenantiaethau amaethyddol a daliadau amaethyddol.

(2) Y gyfundrefn mân-ddaliadau statudol.

(3) Darparu tai i weithwyr amaethyddol fel amod o'u cyflogaeth.

(4) Cyfreithiau sy'n llywodraethu trefniadau ffermio cyfran.

(5) Cyfyngiadau cynllunio sy'n berthnasol i ddatblygiadau ar dir amaethyddol.

(6) Hawliau mynediad sy'n berthnasol i dir amaethyddol.

(7) Cofrestru tir comin.

9.2 Rydym hefyd yn gwerthuso a allai dod â'r ddeddfwriaeth a ddisgrifir uchod o fewn cwmpas y darpar God ymwneud â materion y mae angen eu dadansoddi neu eu hystyried ymhellach. Er enghraifft, rydym yn tynnu sylw at ble mae galwadau am ddiwygio sylweddol ar y ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas y bennod hon. Yn olaf, rydym yn gwerthuso a oes unrhyw faterion technegol gyda'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei harchwilio yn y bennod hon a allai elwa o ddiwygiadau sydd â'r nod o symleiddio'r gyfraith, ei moderneiddio neu ei lliflinio, neu a allai fod angen gwelliannau o'r fath.

## TENANTIAETHAU AMAETHYDDOL A DALIADAU AMAETHYDDOL

9.3 Mae'r gyfraith ar denantiaeth amaethyddol yn faes cyfreithiol cymhleth ac arbenigol. Mae'r bennod hon yn archwilio, i'r graddau sy'n angenrheidiol, y gyfraith yn y maes hwn i lywio penderfyniad ynghylch a yw'n addas i'w chynnwys yn y darpar God.

9.4 Mae'r gyfraith bresennol ar denantiaethau amaethyddol, fel sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr, wedi'i chynnwys yn bennaf mewn dwy Ddeddf Senedd y DU:

(1) Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (“AHA 1986”); a

(2) Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (“ATA 1995”).

Mae'r ddwy ddeddf uchod yn rheoleiddio hawliau a rhwymedigaethau tenantiaid a landlordiaid mewn perthynas â thir amaethyddol â thenant.

## AHA 1986

9.5 Dim ond i ddaliadau amaethyddol a grëwyd gan gytundebau a ddechreuodd cyn 1 Medi 1995 y mae AHA 1986 yn berthnasol. Hynny yw, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau cyfyngedig y darperir ar eu cyfer o dan adran 4 ATA 1995 yn berthnasol. Cyfeirir at y tenantiaethau hyn yn gyffredin fel daliadau amaethyddol, tenantiaethau amaethyddol llawn neu denantiaethau AHA. Yn y bennod hon, byddwn yn defnyddio'r term tenantiaethau AHA.

9.6 Mae'r diffiniad o denantiaeth AHA wedi'i nodi mewn termau cynhwysfawr yn AHA 1986. Yn fras, mae tenantiaeth AHA yn denantiaeth ar gyfer tir sy'n cael ei osod, dan gontract tenantiaeth,[1] i'w ddefnyddio fel tir amaethyddol at ddibenion masnach neu fusnes.[2] Ar ben hynny, er mwyn i AHA 1986 fod yn berthnasol, rhaid gosod yr holl dir sydd wedi'i gynnwys yn y contract i'w ddefnyddio fel tir amaethyddol. Caniateir eithriadau i'r rheol hon ar gyfer unrhyw ddefnydd o'r tir nad yw'n effeithio'n sylweddol ar gymeriad amaethyddol y denantiaeth.[3] Mae rhai trefniadau hefyd wedi'u heithrio o gwmpas AHA 1986.[4]

9.7 Mae tenantiaeth AHA sy'n ddarostyngedig i AHA 1986 yn elwa o amrywiol fesurau diogelu gan gynnwys y rhai a amlinellir isod.

(1) Sicrwydd deiliadaeth: mae'r amgylchiadau lle gall landlord derfynu tenantiaeth AHA wedi'u cyfyngu. Er enghraifft, rhaid i landlord roi o leiaf 12 mis o rybudd i'r tenant o fwriad i derfynu'r denantiaeth. Gelwir hysbysiadau o'r fath yn hysbysiadau ymadael a gallant fod ar ddwy ffurf: hysbysiad ymadael achos arbennig neu hysbysiad ymadael cyffredinol.[5]

(2) Hawliau olyniaeth: mae hawliau olyniaeth hefyd yn gymwys i denantiaethau AHA a roddwyd cyn 12 Gorffennaf 1984, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol. Mae hawliau olyniaeth yn caniatáu i berthynas agos benodol i denant sydd wedi marw neu sy'n ymddeol ("y tenant") wneud cais am denantiaeth olyniaeth pan fydd y tenant yn marw neu'n ymddeol.

(3) Adolygiad rhent statudol: gall y partïon ofyn am i broses adolygu rhent statudol gael ei chynnal bob tair blynedd. Bydd cymrodeddwr annibynnol, neu drydydd parti, yn pennu'r rhent newydd sy'n daladwy drwy ddefnyddio fformiwla statudol.

---

1 Ystyr contract tenantiaeth yw gosod tir, neu gytundeb ar gyfer gosod tir, am gyfnod o flynyddoedd neu o flwyddyn i flwyddyn: Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 1. Fodd bynnag, bydd lesoedd tir amaethyddol ar gyfer buddiant sy'n llai na thenantiaeth o flwyddyn i flwyddyn a thrwydded i feddiannu tir i'w ddefnyddio fel tir amaethyddol yn cael eu trosi'n denantiaethau AHA: Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 2.

2 I gael ei dosbarthu fel tenantiaeth AHA, rhaid i denantiaeth hefyd beidio â bod yn denantiaeth lle mae'r tir yn cael ei osod i'r tenant tra bydd yn parhau mewn unrhyw swydd, penodiad neu gyflogaeth a ddelir o dan y landlord: Deddf Daliadau Amaethyddol 1988, adran 1.

3 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 1.

4 Gweler Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 2(3).

5 Mae'r cyfnod hysbysiad o 12 mis yn dechrau ar ddiwedd blwyddyn y denantiaeth pan gyflwynir yr hysbysiad ymadael. Gweler Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adrannau 25 a 26 ac Atodlen 3 am ragor o fanylion ynghylch hysbysiadau ymadael.

## ATA 1995

9.8 Dim ond i denantiaethau amaethyddol, a elwir yn denantiaethau busnes fferm, a grëwyd ar neu ar ôl 1 Medi 1995, y mae ATA 1995 yn gymwys, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.[6] Rhaid i denantiaeth amaethyddol fodloni amodau penodol i gael ei dosbarthu fel tenantiaeth busnes fferm ac felly i elwa o amddiffyniad ATA 1995.[7] Mae ystyriaeth fanwl o'r amodau hynny y tu allan i gwmpas y bennod hon. Yn fras, mae tenantiaeth busnes fferm yn gontract ar gyfer tenantiaeth a roddir mewn perthynas â thir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth at ddibenion masnach neu fusnes.[8] Rhaid rhoi tenantiaeth busnes fferm am gyfnod o flynyddoedd neu o flwyddyn i flwyddyn.

9.9 Mae ATA 1995 yn caniatáu mwy o ryddid contract nag a ganiateir dan AHA 1986. Mae hyn yn golygu bod partïon i denantiaethau busnes fferm yn rhydd i negodi telerau eu tenantiaeth eu hunain mewn perthynas ag ystod ehangach o faterion na phartïon i denantiaethau AHA.

### Tenantiaethau busnes fferm: nodweddion allweddol

9.10 Mae tenantiaethau busnes fferm o dan ATA 1995 yn wahanol i denantiaethau AHA 1986 mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol.

(1) Nid yw hawliau olyniaeth yn berthnasol i denantiaethau busnes fferm.

(2) Nid oes gan denant tenantiaeth busnes fferm ddiogelwch deiliadaeth. Bydd tenantiaethau busnes fferm o ddwy flynedd neu lai yn dod i ben yn awtomatig ar y dyddiad dod i ben. Mae angen rhybudd o 12 mis o leiaf i derfynu tenantiaeth o ddwy flynedd neu fwy. Os na roddir rhybudd ar ddiwedd y cyfnod, yna bydd y denantiaeth yn parhau fel tenantiaeth gyfnodol flynyddol hyd nes y rhoddir rhybudd i derfynu.[9]

(3) Mae rhyddid i bartïon negodi cymal terfynu. Ar gyfer tenantiaethau sydd â chyfnod o ddwy flynedd neu fwy, mae cymal terfynu yn destun cyfnod rhybudd o 12 mis o leiaf.

## Is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i denantiaethau AHA a thenantiaethau busnesau fferm

9.11 Isod, rydym yn rhoi trosolwg o'r is-ddeddfwriaeth sydd mewn grym sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol ac sy'n berthnasol yng Nghymru.

(1) Mae Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn gosod cymalau contract enghreifftiol ar gyfer tenantiaethau AHA.[10] Mae'r cymalau contract enghreifftiol

---

6 Am yr eithriadau perthnasol gweler Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 4.

7 Nodir yr amodau perthnasol - yr amod busnes a naill ai'r amod amaethyddol neu'r amod hysbysu - o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, adran 1.

8 Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, adran 1.

9 Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, adran 5(1).

10 OS 2019/12709 (Cy 223).

yn rheoli cyfrifoldebau landlordiaid a thenantiaid mewn perthynas ag atgyweirio, cynnal a chadw ac yswirio offer sefydlog.

(2) Mae Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau a Phrawf Addasrwydd) (Cymru) 2024 yn nodi'r meini prawf addasrwydd sy'n berthnasol i geisiadau am olyniaeth.[11] Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer ffordd o ddatrys anghydfod o dan amgylchiadau penodedig, er enghraifft, pan fo landlord i denantiaeth AHA wedi gwrthod cais tenant i amrywio telerau'r denantiaeth.

(3) Mae Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffioedd) 2022 yn pennu'r ffi y mae'n rhaid ei thalu wrth wneud cais i awdurdod proffesiynol benodi cymrodeddwr annibynnol i ddatrys anghydfod sy'n ymwneud â thenantiaeth AHA.[12]

(4) Mae Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024 yn cynnig llwybr i denantiaid tenantiaethau busnes fferm ddatrys anghydfod o dan amgylchiadau penodedig.[13]

### AHA 1986 ac ATA 1995: meini prawf cynnwys

9.12 Mae tua thraean o dir amaethyddol Cymru dan denantiaeth.[14] Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio'r sector tenantiaeth amaethyddol fel sector sy'n "hanfodol i economi wledig Cymru".[15] Mae'r sector tenantiaeth yn cynnig llwybr i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio, gan gynnwys unigolion heb gysylltiadau teuluol â thir amaethyddol na'r cyfalaf i brynu tir o'r fath. Gall newydd-ddyfodiaid i'r sector hefyd ddod â'r "sgiliau a'r cymhelliant entrepreneuraidd i roi syniadau newydd ar waith yn y sector".[16]

9.13 Ar ben hynny, mae'r gyfundrefn tenantiaeth amaethyddol yn cynnig yr hyblygrwydd i dirfeddianwyr nad ydynt efallai eisiau ffermio'r holl dir neu ran o'u tir, osod tir amaethyddol tra'n cadw incwm o'r tir. Cydnabyddir bod yr hyblygrwydd a gynigir gan y gyfundrefn tenantiaeth amaethyddol yn hanfodol i gydnerthedd y sector amaethyddol a'i allu i addasu i amgylchiadau sy'n newid.[17] Mae'r sector tenantiaeth hefyd yn rhoi cyfleoedd i ffermwyr sefydledig nad ydynt yn dirfeddianwyr amaethyddol ffermio.

9.14 Mae Deddf Tai 1986 wedi cydgrynhoi'r gyfraith ar denantiaethau amaethyddol gan gynnwys Deddf Daliadau Amaethyddol 1984 ("AHA 1984"). Cyn dechrau'r rhyfel byd cyntaf, adroddwyd bod tenantiaid ar 90% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru a

---

[11] OS 2024/798 (Cy 127).

[12] OS 2024/1356.

[13] OS 2024/797 (Cy 126).

[14] Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, "Agricultural Tenancy Reform" (Ionawr 2021) https://lordslibrary.parliament.uk/agricultural-tenancy-reform/.

[15] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar foderneiddio atgyweirio a chynnal a chadw offer sefydlog ac iawndal diwedd tenantiaeth mewn perthynas â thenantiaethau amaethyddol yng Nghymru* (Rhagfyr 2016).

[16] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaethau amaethyddol* (Ebrill 2019).

[17] Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaethau amaethyddol* (Ebrill 2019).

Lloegr.[18] Erbyn 1978, roedd y ffigur hwnnw wedi gostwng i tua 43%.[19] Cynlluniwyd Deddf 1984 yn bennaf i weithredu pecyn o ddiwygiadau a argymhellwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a Chymdeithas y Tirfeddianwyr.[20] Ar ail ddarlleniad y Bil a ddaeth yn AHA 1984, disgrifiodd y Gweinidog Amaeth ar y pryd, Michael Jopling AS, mai prif bwrpas y Bil oedd "sicrhau bod mwy o denantiaethau ar gael drwy gymryd camau i atal dirywiad y sector amaethyddol â thenantiaid".[21]

9.15 Cydgrynhowyd AHA 1984 yn fuan wedyn gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, ac mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf honno'n cael eu trafod yn gynharach yn y bennod hon. Yn gryno, roedd AHA 1984, fel y'i cydgrynhowyd gan AHA1986, yn dod â hawliau olyniaeth i ben ar gyfer tenantiaethau a oedd newydd eu sefydlu, yn gwella diogelwch deiliadaeth ac yn darparu ar gyfer adolygiadau rhent statudol.

9.16 Yn yr un modd ag AHA 1986, cyflwynwyd ATA 1995 i Senedd y DU yng nghanol gostyngiad parhaus yn nifer y ffermydd â thenantiaid ledled Cymru a Lloegr. Erbyn 1990, roedd y sector tenantiaeth yn cynrychioli 36% o'r holl dir fferm.[22]

9.17 Nod ATA 1995 oedd dadreoleiddio'r sector tenantiaethau amaethyddol. Gwnaeth hynny drwy roi mwy o ryddid i bartïon mewn tenantiaeth busnes fferm na'r hyn a ganiateir o dan AHA 1986. Mae'r Athro Christopher Rodgers yn nodi bod amcanion ATA 1995 yn driphlyg:

(1) annog tirfeddianwyr i osod tir;

(2) darparu fframwaith hyblyg lle gall busnesau fferm arallgyfeirio i fusnesau fferm eraill tra'n parhau i fod yn denant amaethyddol; a

(3) darparu fframwaith sy'n cydnabod pwysigrwydd cynyddol rheoli tir amgylcheddol gan ffermwyr, ac sy'n caniatáu ar gyfer gorfodi cyfamodau amgylcheddol mewn tenantiaethau fferm.[23]

9.18 O ystyried y cyd-destun y cyflwynwyd AHA 1986 ac ATA 1995 ynddo ac amcanion datganedig pob Deddf, rydym o'r farn bod y ddwy Ddeddf yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth. Yn ogystal, mae gan ATA 1995 ac AHA 1986 gymhwysiad ymarferol sydd wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth i'r graddau y mae'r ddwy Ddeddf yn rheoleiddio tenantiaethau a roddir mewn perthynas â thir amaethyddol yn unig. Yn unol â hynny, rydym o'r farn bod pwnc AHA 1986, ATA 1995 a'r is-ddeddfwriaeth a ddeddfwyd o dan y Deddfau hynny yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

---

18 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, "Agricultural Tenancies Bill Research Paper" (Ionawr 1995) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/RP95-15/RP95-15.pdf.

19 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 1.12.

20 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 1.52.

21 *Hansard* (HL), 7 Mawrth 1984, cyf 55, col 857.

22 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, "Agricultural Tenancies Bill Research Paper" (Ionawr 1995) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/RP95-15/RP95-15.pdf.

23 C Rodgers, *Agricultural Law* (4ydd argraffiad 2016) paragraff 1.27.

9.19 Wrth ddod i'r casgliad uchod, rydym yn ymwybodol y bu galwadau amlwg yn ddiweddar am ddiwygio'r gyfraith ynghylch tenantiaethau amaethyddol. Rydym yn ystyried hyn yn fanylach ym mharagraffau 9.83 i 9.88 isod.

## ADRANNAU 10 AC 11 DEDDF AMAETHYDDIAETH 1947

9.20 Ym Mhennod 5, rydym yn ystyried a yw Deddf Amaethyddiaeth 1947 ("Deddf 1947") yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw Pennod 5 yn ymdrin ag adrannau 10 ac 11 Deddf 1947 gan fod y darpariaethau hynny'n berthnasol yn bennaf i brydlesu tir amaethyddol.

9.21 Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir amaethyddol reoli'r tir hwnnw yn unol â rheolau rheoli ystâd yn dda. Mae'r iaith a ddefnyddir yn adran 10 wedi dyddio ac felly mae'r ddarpariaeth yn anodd ei deall. Yn gyffredinol, mae rheolau rheoli ystadau'n dda yn ei gwneud yn ofynnol i dirfeddiannwr reoli'r tir amaethyddol y mae'n berchen arno i safon sy'n galluogi deiliad y tir sydd â sgiliau "hwsmonaeth" rhesymol i gynnal cynhyrchiant effeithlon. Nid yw hwsmonaeth wedi'i ddiffinio yn y ddeddfwriaeth. Mae un geiriadur yn nodi bod y term yn golygu "troi neu drin y tir" mewn perthynas â ffermio, neu'n ehangach, "rheoli adnoddau".[24]

9.22 Wrth benderfynu a yw rheolau rheoli ystadau'n dda wedi'u bodloni, mae Deddf 1947 yn ei gwneud yn ofynnol ystyried i ba raddau:

> mae'r perchennog yn darparu, yn gwella, yn cynnal ac yn atgyweirio offer sefydlog ar y tir i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol er mwyn galluogi meddiannydd y tir sydd â sgiliau hwsmonaeth rhesymol i barhau i gynhyrchu'n effeithlon fel y nodwyd uchod.[25]

9.23 Mae adran 11 Deddf 1947 yn darparu ar gyfer rheolau hwsmonaeth dda. Mae'r iaith a ddefnyddir yn adran 11 hefyd wedi dyddio ac eto'n golygu nad yw'r ddarpariaeth yn hawdd ei dehongli. Yn fras, mae rheolau hwsmonaeth dda yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd tir amaethyddol ffermio'r tir y mae'n ei feddiannu yn unol â safon resymol o reolaeth er mwyn galluogi cynhyrchiant effeithlon yn awr ac yn y dyfodol. Bydd yr hyn a ystyrir yn safon resymol o reolaeth yn dibynnu ar gymeriad a sefyllfa'r tir a feddiennir, safon y rheoli gan y perchennog ac amgylchiadau perthnasol eraill.

9.24 Mae rhai ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw rheolau hwsmonaeth dda wedi cael eu bodloni.[26] Mae'r ffactorau hynny'n cynnwys, er enghraifft, a yw unrhyw dir pori barhaol yn cael ei dorri, ei bori a'i gynnal yn briodol.

9.25 Pan ddeddfwyd hi'n wreiddiol, roedd Deddf 1947 yn darparu ar gyfer gorfodi rheolau rheoli ystadau'n dda a rheolau hwsmonaeth dda. Mae'r darpariaethau gorfodi wedi cael eu diddymu ers hynny. Serch hynny, gall cydymffurfio â rheolau rheoli ystadau'n dda barhau i gael ei gynnwys fel term mewn tenantiaeth amaethyddol.

---

24 Geiriadur Rhydychen.

25 Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 10(2).

26 Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 11(2).

9.26 Gellir dibynnu ar reolau hwsmonaeth dda pan fo landlord yn ceisio terfynu tenantiaeth AHA. Er enghraifft, gall landlord geisio terfynu tenantiaeth AHA ar y sail bod y tenant wedi methu â chydymffurfio â rheolau hwsmonaeth dda o dan Ddeddf 1947.[27] Er mwyn terfynu'n llwyddiannus ar y sail hon, byddai'n rhaid i'r landlord wneud cais am dystysgrif hwsmonaeth wael gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a chael y dystysgrif honno.

### Adrannau 10 ac 11 Deddf Amaethyddiaeth 1947: meini prawf cynnwys

9.27 Mae adrannau 10 ac 11 yn eu tro yn gosod rhwymedigaethau ar landlordiaid a thenantiaid (neu feddianwyr eraill tir amaethyddol) i reoli tir amaethyddol i safonau penodol sydd, yn eu hanfod, yn sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer cynhyrchu amaethyddol. Rydym felly o'r farn bod y ddwy ddarpariaeth yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth. Ar ben hynny, dim ond yn ymarferol yn y cyd-destun amaethyddol y mae adrannau 10 ac 11 Deddf 1947 yn berthnasol. Am y rhesymau hynny, rydym o'r farn bod adrannau 10 ac 11 yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

## MÂN-DDALIADAU STATUDOL

9.28 Mae Rhan 3 Deddf Amaethyddiaeth 1970 ("Deddf 1970") yn darparu ar gyfer cyfundrefn mân-ddaliadau statudol.[28] Mae mân-ddaliadau statudol yn ffermydd sy'n eiddo i awdurdodau lleol sy'n cael eu gosod i ffermwyr nad oes ganddynt y cyfalaf efallai i brynu tir amaethyddol neu gysylltiadau teuluol â thir o'r fath. Cyfeirir at fân-ddaliadau statudol yn aml fel ffermydd sirol a dyma'r term y byddwn yn ei fabwysiadu am weddill y bennod.

9.29 Mae ffermydd sirol yn rhoi lle i newydd-ddyfodiaid i'r sector amaethyddol "ar ris cyntaf yr ysgol ffermio".[29] Ar 31 Mawrth 2024, roedd 876 o denantiaid ar ffermydd sirol yng Nghymru.[30] O dan Ddeddf 1970, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i'w "gwneud yn nod cyffredinol iddynt ddarparu cyfleoedd i bersonau fod yn ffermwyr ar eu cyfrif eu hunain drwy osod daliadau iddynt".[31]

9.30 Mae Deddf 1970 yn gosod terfyn uchaf ar faint fferm sirol. Mae terfyn uchaf y tir wedi'i osod fel swm o dir sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn gallu:

---

27 Yn benodol, byddai'n rhaid i'r landlord ddibynnu ar hysbysiad ymadael achos arbennig a elwir yn hysbysiad ymadael 'Achos C'.

28 Trosglwyddwyd swyddogaethau Gweinidogion y DU o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, ac eithrio'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer o dan adran 53, i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 30 o Atodlen 11.

29 P Williams, *Scammell, Densham and Williams Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023) paragraff 19.46.

30 Llywodraeth Cymru, *Adroddiad Blynyddol ar Fân-ddaliadau yng Nghymru 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024* (Mawrth 2025).

31 Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 39(1).

pan gaiff ei ffermio o dan reolaeth resymol fedrus, darparu cyflogaeth lawn amser i ddim mwy na dau ddyn (gan gynnwys y person y'i gosodir iddo) gyda neu heb gyflogaeth ran-amser ychwanegol i ddyn arall.[32]

9.31 Dim ond i unigolion sydd, ym marn yr awdurdod, â'r cymwysterau priodol i ffermio'r daliad ar eu cyfrif eu hunain neu sy'n debygol o fod â'r cymwysterau priodol i wneud hynny o fewn cyfnod cymharol fyr y caiff awdurdod lleol osod ffermydd sirol.[33] Mae Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970 yn darparu ar gyfer yr hyn y mae'r term 'cymwysterau priodol' yn ei olygu at ddibenion Deddf 1970.[34]

9.32 Mae Rhan 3 Deddf 1970 yn rhoi pwerau eang i awdurdodau lleol weinyddu ffermydd sirol. Amlinellir enghreifftiau o'r pwerau hynny isod.

(1) Pwerau i bennu'r rhent sy'n daladwy gan denantiaid sy'n meddiannu ffermydd sirol.

(2) Pwerau i ddarparu, gwella, cynnal a chadw ac atgyweirio offer sefydlog ar dir sy'n cael ei ddal fel fferm sirol.

(3) Pwerau i gaffael tir at ddibenion gosod fel fferm sirol.

(4) Pwerau i osod tir a ddelir at ddibenion y gyfundrefn mân-ddaliadau statudol at ddibenion eraill pan nad oes angen y tir hwnnw am y tro fel fferm sirol.[35]

### Cyfundrefn mân-ddaliadau statudol: meini prawf cynnwys

9.33 Mae'r drefn mân-ddaliadau statudol yn darparu llwybr mynediad i'r sector amaethyddol i unigolion nad oes ganddynt efallai'r cyfalaf i brynu tir amaethyddol neu nad oes ganddynt gysylltiadau teuluol â thir o'r fath. Fel y trafodwyd ym mharagraff 9.12, mae newydd-ddyfodiaid i'r sector amaethyddol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sbarduno arloesedd a chynhyrchiant. Am y rheswm hwnnw, credwn fod y gyfundrefn mân-ddaliadau statudol yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Ar ben hynny, unig ddiben y gyfundrefn mân-ddaliadau statudol yw gosod tir amaethyddol er mwyn i'r tir gael ei ffermio. Felly, rydym o'r farn bod cymhwyso Rhan 3 Deddf 1970 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth. Am y rhesymau hynny, rydym o'r farn bod Rhan 3 Deddf 1970 yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Am yr un rhesymau, rydym yn dod i'r casgliad bod y Rheoliadau a wnaed o dan Ran 3 Deddf 1970 - Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970 - hefyd yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.[36]

---

[32] Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 39(2).

[33] Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 44(2).

[34] OS 1970/1049.

[35] Deddf Amaethyddiaeth 1970, adrannau 45, 46, 49 a 55.

[36] Mae Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970 yn darparu ar gyfer cymhwyso meini prawf i asesu addasrwydd darpar denant ar gyfer fferm sirol. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach ym mharagraffau 9.93 i 9.94 isod.

## FFERMIO CYFRAN, FFERMIO AR GONTRACT A MENTRAU AR Y CYD

9.34 Yn absenoldeb cysylltiadau teuluol â thir amaethyddol, mae ffermio'n parhau i fod yn ddiwydiant heriol i newydd-ddyfodiaid ymuno ag ef oherwydd y buddsoddiad cyfalaf sylweddol sydd ei angen i ddechrau busnes ffermio.

9.35 Mae'r cyfreithiau a ystyriwyd yn adran flaenorol y bennod hon - AHA 1986, ATA 1995 a Rhan 3 Deddf 1970 - i gyd yn hwyluso mynediad ffermwyr newydd i'r sector amaethyddol drwy ddarparu fframwaith ar gyfer lesio tir amaethyddol. Fodd bynnag, mae cyflenwad cyfyngedig o dir amaethyddol ar gael i'w lesio yng Nghymru. O ganlyniad, efallai y bydd newydd-ddyfodiaid yn penderfynu chwilio am lwybrau eraill i'r sector. Datblygodd ffermio cyfran a ffermio ar gontract yn y DU yn ystod y 1980au fel ymateb i dirfeddianwyr a oedd eisiau cael trefniant nad oedd yn gyfystyr â thenantiaeth AHA yn amodol ar AHA 1986.[37] Mae ffermio ar gontract yn caniatáu i ffermwyr gontractio rhai gweithrediadau ffermio allan i weithwyr contract annibynnol. Mae'r contractwr yn cyflawni'r gweithrediadau ffermio am swm y cytunwyd arno ac mae'r ffermwr sy'n contractio yn cadw'r holl elw ffermio a'r cyfrifoldebau am gostau.

9.36 Mae ffermio cyfran yn fodel busnes llai cyffredin, ond sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd, lle mae tirfeddiannwr a gweithredwr ffermio yn rhedeg busnesau ar wahân ar yr un tir amaethyddol. Fel arfer, bydd y parti sy'n berchen ar y tir yn darparu ac yn cynnal a chadw'r tir amaethyddol, yr offer sefydlog a'r peiriannau sefydlog. Fel arfer, bydd y gweithredwr ffermio yn ffermio o ddydd i ddydd ac yn darparu peiriannau symudol. O dan y model hwn, bydd y ddau barti'n cytuno ar gyfran o'r allbwn amaethyddol gros o'r fferm, gyda phob parti'n talu ei gostau ei hun.[38] Fel arall, gall dau neu ragor o ffermwyr ddewis ymuno â menter ar y cyd ar ffurf cwmni neu bartneriaeth.[39]

9.37 Yng Nghymru, gall gweithwyr newydd sy'n chwilio am gyfleoedd o'r math a ddisgrifir uchod gael cymorth gan Cyswllt Ffermio.[40] Mae “Dechrau Ffermio” - menter Cyswllt Ffermio a elwid gynt yn Menter - wedi'i chynllunio i helpu i gysylltu tirfeddianwyr ffermio “sy'n awyddus i gamu'n ôl o ffermio gyda newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio”.[41] Drwy'r cynllun Dechrau Ffermio, gall unigolion gael cymorth i chwilio am bartner busnes posibl ac i sefydlu partneriaeth neu fenter ar y cyd.[42]

---

37 Cyllid a Thollau EF, *Inheritance Tax Manual* (Mawrth 2016).

38 Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, “Knowledge Library Share Farming” https://ahdb.org.uk/knowledge-library/share-farming.

39 Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, “Knowledge Library Joint Ventures” https://ahdb.org.uk/knowledge-library/joint-ventures#:~:text=What%20are%20joint%20ventures%3F,of%20their%20land%20between%20them.

40 Mae Cyswllt Ffermio yn wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i roi cyngor, arweiniad, hyfforddiant a chymorth i ffermwyr.

41 Cyswllt Ffermio, “Dechrau Ffermio” https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/dechrau-ffermio.

42 Mae rhagor o ganllawiau am y gwahanol fodelau sydd ar gael i ffermwyr ar gael yn llawlyfr Cyswllt Ffermio ar fentrau ar y cyd: Cyswllt Ffermio, “Llawlyfr Mentrau: Cefnogi Mentrau ar y Cyd yng Nghymru” (Tachwedd 2024).

### Ffermio cyfran a threfniadau eraill: meini prawf cynnwys

9.38 Mae'r cyfreithiau cyffredinol sy'n berthnasol i gontractau, cwmnïau a threfniadau partneriaeth yn berthnasol i'r modelau ffermio cyfrannau, ffermio ar gontract a mentrau ar y cyd a drafodir uchod. Nid yw'r cyfreithiau hynny'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer y cyd-destun amaethyddol. O ganlyniad, mae'r cyfreithiau hynny'n berthnasol yn ymarferol yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i drefniadau busnes a chytundebol yr ymrwymir iddynt mewn cyd-destunau eraill. Felly, nid ydym yn credu bod cyfreithiau o'r fath yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, gallai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar God gyfeirio darllenwyr at ganllawiau ac adnoddau presennol ar ffermio cyfran a threfniadau tebyg.

## TAI GWEITHWYR AMAETHYDDOL

9.39 Mae'r gyfraith sy'n rheoli darparu tai i weithwyr amaethyddol, fel sy'n berthnasol i Gymru, wedi'i chynnwys yn bennaf yn Neddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 ("Deddf 1976") a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").[43]

9.40 Mae Deddf 1976 yn gymwys pan roddwyd, cyn 1 Ionawr 1989, meddiant neilltuol ar dŷ annedd sydd o dan berchnogaeth gymwys i weithiwr amaethyddol cymwys. Gellir rhoi'r feddiannaeth neilltuol dan drwydded neu denantiaeth. Gweithiwr amaethyddol cymwys yw person a gyflogir mewn amaethyddiaeth fel y'i diffinnir yn adran 1 Deddf 1976. Mae Atodlen 3 Deddf 1976 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan fernir bod person yn cael ei gyflogi mewn amaethyddiaeth at ddibenion y Ddeddf.

9.41 Bydd annedd yn eiddo cymwys os yw'r deiliad yn cael ei gyflogi mewn amaethyddiaeth a bod cyflogwr y deiliad yn berchen ar y tŷ annedd neu os yw'r cyflogwr wedi gwneud trefniadau gyda pherchennog y tŷ i'r gweithiwr breswylio ynddo. Gelwir tenantiaethau neu drwyddedau sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 1976 yn feddiannaeth amaethyddol warchodedig tra bo'r tenant yn parhau i gael ei gyflogi gan y landlord. Ar ôl i'r berthynas gyflogaeth ddod i ben, bydd y denantiaeth yn dod yn denantiaeth statudol o dan Ddeddf 1976. Mae'r ddau fath o denantiaeth yn cynnig diogelwch ac amddiffyniadau sylweddol i'r tenant, gan gynnwys diogelwch deiliadaeth.[44]

9.42 Hyd yn gymharol ddiweddar, byddai tenantiaethau neu drwyddedau a roddwyd i weithwyr amaethyddol, ar neu ar ôl 1 Ionawr 1989, fel amod o'u cyflogaeth wedi bod yn denantiaethau amaethyddol sicr neu'n denantiaethau sicr sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Tai 1998 (ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni).

9.43 Fodd bynnag, mae'r fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn wedi cael ei ddiwygio gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf honno'n cyflwyno cyfundrefn ddeddfwriaethol newydd ar gyfer tenantiaethau preswyl yng Nghymru ac yn

---

[43] Nodwn y bydd Deddf Rhenti 1977 hefyd wedi bod yn berthnasol i rai gosodiadau preswyl a feddiannir gan weithwyr amaethyddol, ond nid mewn amgylchiadau lle darparwyd y tai fel amod cyflogaeth. O ganlyniad, nid ydym yn ystyried Deddf Rhenti 1977 yn y bennod hon.

[44] Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976, Atodlen 4.

gweithredu argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ein hadroddiad Rhentu Cartrefi yng Nghymru.[45]

9.44 O 1 Rhagfyr 2022 ymlaen, bydd unrhyw denantiaethau newydd mewn perthynas â thai annedd a roddir i weithwyr amaethyddol fel rhan o'u cyflogaeth yn gontractau meddiannaeth a reoleiddir o dan Ddeddf 2016. Ar ben hynny, cafodd unrhyw ddeiliadaethau amaethyddol sicr presennol a thenantiaethau byrddaliad sicr, a oedd yn arfer bod yn ddarostyngedig i Ddeddf Tai 1998, eu trosi ar 1 Rhagfyr 2022 yn gontractau meddiannaeth sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2016.

### Tai gweithwyr amaethyddol: meini prawf cynnwys

9.45 O 1 Rhagfyr 2022 ymlaen, mae Deddf 2016 yn trin tenantiaethau preswyl a roddir i weithwyr amaethyddol yn yr un ffordd ag unrhyw denantiaethau preswyl eraill. Mae hyn yn golygu nad yw Deddf 2016 yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer anheddau amaethyddol. Felly, rydym o'r farn bod Deddf 2016 yn ymwneud â thai yn hytrach nag amaethyddiaeth. Ar ben hynny, nid yw cymhwyso Deddf 2016 yn ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth nac yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. O ganlyniad i hynny, rydym o'r farn bod Deddf 2016 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God.

9.46 Mae Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 yn darparu amddiffyniad, mewn rhai amgylchiadau, i weithwyr fferm sy'n meddiannu tai fel rhan o'u cyflogaeth. Felly, gellir dweud bod Deddf 1976 yn ymwneud â thai ac amaethyddiaeth. Ar ben hynny, mae gan Ddeddf 1976 gymhwysiad ymarferol sydd wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth oherwydd dim ond i weithwyr amaethyddol cymwys y mae'r Ddeddf yn berthnasol. Ar y sail hon, rydym o'r farn bod Deddf 1976, mewn theori, yn addas i'w chynnwys yn y darpar God.

9.47 Rydym yn ymwybodol mai dim ond i denantiaethau gweithwyr amaethyddol yr ymrwymwyd iddynt cyn 15 Ionawr 1989 y mae Deddf 1976 yn berthnasol. Ers 15 Ionawr 1989, ni fu'n bosibl creu meddiannaeth warchodedig newydd sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 1976. O safbwynt pragmataidd, gall y ffaith bod Deddf 1976 yn dod yn raddol ddiangen fod yn ffactor i'w ystyried wrth benderfynu a ddylid cynnwys y Ddeddf o fewn cwmpas y darpar God.

## DEDDFWRIAETH GYNLLUNIO

9.48 Yn 2018, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru a oedd yn gwneud argymhellion ynghylch ffurf a chynnwys cod cyfraith cynllunio ar gyfer Cymru.[46] Nod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn ein hadroddiad oedd symleiddio, moderneiddio a chydgrynhoi deddfwriaeth bresennol yn god cyfraith Cymru ar gyfer cynllunio.

9.49 Ym mis Medi 2025, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Cynllunio (Cymru) i'r Senedd. Bwriad y Bil yw cydgrynhoi cyfraith cynllunio yng Nghymru a sefydlu cod cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio. Mae Bil Cynllunio (Cymru) yn mynd drwy'r Senedd

---

[45] Rhentu Cartrefi yng Nghymru (2013) Comisiwn y Gyfraith Rhif 337.

[46] Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 383.

ar hyn o bryd. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddarpariaethau yn y gyfraith bresennol, yn hytrach nag at y rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

9.50 Fel rheol gyffredinol, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer cyflawni unrhyw ddatblygiad ar dir. Ystyr datblygu yw "cyflawni gwaith adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu waith arall mewn tir, ar dir, dros dir neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid sylweddol i ddefnydd unrhyw adeiladau neu dir arall".[47]

9.51 Wedi'i eithrio o'r diffiniad o ddatblygu mae "defnyddio unrhyw dir at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth (gan gynnwys coedwigaeth) a defnyddio at unrhyw un o'r dibenion hynny unrhyw adeiladau sy'n cael eu meddiannu ynghyd â thir a ddefnyddir felly".[48] Yn gyffredinol, deellir bod hyn yn golygu nad oes angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd tir arfaethedig o ddibenion nad ydynt yn rhai amaethyddol i ddefnydd at ddibenion amaethyddol.

9.52 Fodd bynnag, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer cynnig i godi adeiladau newydd, neu i addasu neu ymestyn adeiladau presennol ar dir amaethyddol. Gellir rhoi caniatâd cynllunio penodol neu ei roi'n awtomatig yn rhinwedd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("GDPO 1995").[49] Mae GDPO 1995 yn berthnasol yng Nghymru ac mae'n darparu bod rhai dosbarthiadau o ddatblygiadau'n derbyn caniatâd cynllunio'n awtomatig.

### Deddfwriaeth gynllunio: meini prawf cynnwys

9.53 Mae Bil Cynllunio (Cymru) - a fydd, os caiff ei ddeddfu, yn rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio - yn cynnig cydgrynhoi darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a archwiliwyd ym mharagraffau 9.50 i 9.51 uchod. Yn yr un modd, deallwn fod GDPO 1995 yn un o'r darnau o is-ddeddfwriaeth y bwriedir iddynt ffurfio rhan o'r un cod. O ganlyniad, credwn nad oes angen ystyried yn yr adroddiad hwn a yw cyfreithiau o'r fath yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol . Fodd bynnag, gallai tudalen we a allai gyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at y cyfreithiau dan sylw.

## DEDDF HAWLIAU TRAMWY CEFN GWLAD 2000

9.54 Mae Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 ("CROW 2000") yn rhoi hawliau mynediad i'r cyhoedd i dir penodol a elwir yn dir mynediad. Mae tir mynediad yn golygu tir sydd wedi'i fapio fel tir agored (mynydd, gwaun, rhos a thwyndir) neu dir comin cofrestredig.[50]

9.55 Mae CROW 2000 yn darparu ar gyfer y materion a grynhoir isod.

(1) Mae Rhan 1 y Ddeddf yn darparu ar gyfer hawliau mynediad cyhoeddus yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac eithriadau penodol. Mae'n ei gwneud yn

---

47 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 55.

48 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 55(2)(e).

49 OS 1995/418.

50 Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000, adran 1.

ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff cefn gwlad priodol i Gymru, gynnal mapiau o dir mynediad yng Nghymru.[51]

(2) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch mynediad i gilffyrdd, llwybrau ceffylau a phriffyrdd.

(3) Mae Rhan 3 yn diwygio darnau gwahanol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac yn cyflwyno darpariaeth newydd i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n ymwneud â nodi safleoedd Ramsar.[52]

(4) Mae Rhan 4 yn rhoi manylion y weithdrefn ar gyfer dynodi ardal yn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Mae Pennod 7 yn ystyried ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol.

(5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer materion amrywiol.

### CROW 2000: meini prawf cynnwys

9.56 Mae nodiadau esboniadol CROW 2000 yn esbonio mai bwriad Rhan 1 y Ddeddf yw “rhoi mwy o ryddid i bobl grwydro cefn gwlad agored”.[53] O ran Rhan 2, mae'r nodiadau esboniadol yn nodi bod y darpariaethau wedi'u “dylunio i ddiwygio a gwella hawliau tramwy yng Nghymru a Lloegr”.[54] Fel yr amlinellwyd uchod, mae Rhannau 3 a 4 yn diwygio deddfwriaeth ynghylch ardaloedd sy'n cael eu gwarchod at ddibenion bywyd gwyllt a chadwraeth natur.

9.57 Gyda'i gilydd, mae'r nodiadau esboniadol yn nodi mai nod y Ddeddf yw gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a darparu mwy o warchodaeth i'r amgylchedd. Felly, nid yw'n ymddangos bod y Ddeddf yn ymwneud â phwnc amaethyddiaeth.

9.58 Fel yr amlinellwyd uchod, mae tua 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, y bydd cyfran uchel o dir amaethyddol yng Nghymru wedi cael ei ddynodi'n dir mynediad at ddibenion CROW 2000. Fodd bynnag, gall yr hawliau mynediad y darperir ar eu cyfer dan Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 hefyd fod yn berthnasol i dir sy'n eiddo i dirfeddianwyr sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad ond nad oes ganddynt dir amaethyddol. Yn ogystal, mae'r hawliau mynediad y darperir ar eu cyfer dan Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 yn arferadwy gan y cyhoedd. Felly, deuwn i'r casgliad nad oes gan CROW 2000 gymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

9.59 Yn ogystal, dim ond cyfran fach o'r darpariaethau yn Neddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 sy'n cyfeirio at amaethyddiaeth.[55] Am y rhesymau hynny, rydym o'r farn

---

51 Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000, adran 4(2).

52 Y Confensiwn ar Wlypdiroedd o Bwys Rhyngwladol yn enwedig fel Cynefin Adar Dŵr (1971), a lofnodwyd yn Ramsar ar 2 Chwefror 1971. Mae safleoedd Ramsar yn wlypdiroedd sydd wedi'u dynodi'n rhai o bwysigrwydd rhyngwladol o dan Gonfensiwn Ramsar.

53 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000, paragraff 5.

54 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000, paragraff 70.

55 Er enghraifft, gweler Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000, Atodlen 6.

bod CROW 2000 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God. Rydym hefyd o'r farn ei bod yn berthnasol bod ein hadroddiad ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru yn archwilio a ddylid cynnwys Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 yng nghwmpas cod cyfraith cynllunio i Gymru. Yn yr adroddiad hwnnw, daethom i'r casgliad y gallai fod yn well cynnwys CROW 2000 mewn cod cyfraith Cymru posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud â hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad.[56]

## TIR COMIN

9.60 Mae briff ymchwil diweddar gan y Senedd yn disgrifio tir comin fel "tir sy'n eiddo i un parti y mae gan barti arall hawliau penodol drosto, fel yr hawl i bori gwartheg".[57] Gall nifer o bartïon hefyd fod yn berchen ar dir comin. Yn groes i'r gred boblogaidd, nid yw tir comin yn eiddo i'r cyhoedd. Fodd bynnag, efallai y bydd gan y cyhoedd hawliau mynediad mewn perthynas â thir comin neu ganiatâd i ddefnyddio'r tir. Adroddir bod tua 8.5% o'r holl dir yng Nghymru wedi'i gofrestru fel tir comin. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 175,000 hectar.[58]

9.61 Y prif Ddeddfau sy'n llywodraethu tir comin yw Deddf Cofrestru Tir Comin 1965 ("Deddf 1965") a Deddf Tir Comin 2006 ("Deddf 2006").

9.62 Mae Deddf 1965 wedi cael ei diddymu'n rhannol. Ceir crynodeb isod o effaith y prif ddarpariaethau, sy'n parhau mewn grym ac sy'n gymwys i Gymru.

(1) Mae adran 1 y Ddeddf yn darparu yng Nghymru a Lloegr ar gyfer creu cofrestr o dir comin a meysydd trefi a phentrefi. Mae cynnwys tir ar y gofrestr tir comin yn dystiolaeth bendant bod y tir yn dir comin. Os nad ydynt wedi'u cofrestru, ni ellir arfer hawliau comin.

(2) Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u dynodi'n awdurdodau cofrestru tiroedd comin ac maent yn gyfrifol am gynnal cofrestr o dir comin, a meysydd trefi a phentrefi ar gyfer eu hardal.[59]

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer diwygio'r cofrestrau, er enghraifft, pan fo tir yn peidio â bod yn dir comin neu'n faes tref neu bentref.[60]

(4) Pan fo hawl comin yn cynnwys hawl, heb ei chyfyngu gan rif, i bori anifeiliaid, yna, at ddibenion cofrestru, fe'i trinnir fel hawl arferadwy mewn perthynas â nifer bendant o anifeiliaid.[61]

9.63 Mae amryw o offerynnau statudol a ddeddfwyd o dan Ddeddf 1965 sy'n parhau mewn grym ac yn gymwys i Gymru. I raddau helaeth maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer

---

56 Cyfraith Cynllunio yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 383, paragraffau 4.37 i 4.38.

57 Ymchwil y Senedd, "Briff Ymchwil: Tir Comin" (Gorffennaf 2018) 1.

58 Llywodraeth Cymru, "Tir Comin - y Gyfraith yng Nghymru" https://cyfraith.llyw.cymru/yr-amgylchedd/cefn-gwlad-mynediad/tir-comin.

59 Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 adrannau 2 a 3.

60 Deddf Cofrestru Tir Comin 1965, adran 13.

61 Deddf Cofrestru Tir Comin 1965, adran 15.

materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r gofrestr o diroedd comin a'r gofrestr o feysydd trefi a phentrefi.[62]

9.64 Mae pum rhan i Ddeddf 2006.

(1) Mae Rhan 1 yn ymwneud â'r gofynion cofrestru sy'n gymwys o ran tir comin. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u dynodi'n awdurdodau cofrestru tiroedd comin ac mae'n ofynnol iddynt gadw a chynnal cofrestr o dir comin a meysydd trefi a phentrefi sydd yn eu hardal.

(2) Mae Rhan 2 yn ymwneud â rheoli tir comin. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu cynghorau a elwir yn gynghorau tiroedd comin sy'n cynnwys cominwyr sy'n gallu gwneud penderfyniadau mwyafrifol ar y cyd ar reoli tir comin.[63] Mae cynghorau tir comin yn rheoleiddio ac yn rheoli'r defnydd amaethyddol, llystyfiant a hawliau comin mewn perthynas â thir comin yn eu hardal. Nid oes unrhyw gynghorau tir comin o'r fath wedi'u sefydlu o dan y Ddeddf ar gyfer unrhyw ardaloedd yng Nghymru.

(3) Mae Rhan 3 yn gwahardd gwneud gwaith penodol ar dir comin heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau amrywiol. Mae'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol mewn perthynas â thir heb ei hawlio yn eu hardal. Rhoddir pwerau i awdurdodau lleol hefyd i atal ymyrraeth anghyfreithlon â thir comin. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru atal gweithgarwch amaethyddol anghyfreithlon rhag digwydd ar dir comin.[64]

(5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaethau atodol.

9.65 Nid yw Deddf 2006 mewn grym yn llawn. Mae hyn yn golygu mai dim ond darpariaethau dethol o'r Ddeddf sydd mewn grym i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o'r darpariaethau yn Neddf Tiroedd Comin 2006 a ddaeth i rym yng Nghymru ym mis Ionawr 2018.[65] Nid ydym wedi nodi unrhyw ddarpariaethau ychwanegol sydd wedi dod i rym yn y cyfamser.

### Tir comin: meini prawf cynnwys

9.66 Mae Deddfau 1965 a 2006 i gyd yn darparu ar gyfer cofrestru tir comin a meysydd trefi a phentrefi. Mae Deddf 2006 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau a

---

62 Er enghraifft: Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Tir Eithriedig) 1965, OS 1965/2001; Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966, OS 1966/1471; Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Tir Newydd) 1969, OS 1969/1843.

63 Ystyr “Cominwr” yn y cyd-destun hwn yw rhywun sydd â'r hawl i ddefnyddio tir comin. Gweler Cymdeithas Mannau Agored, “Frequently Asked Questions: Commons” https://www.oss.org.uk/frequently-asked-questions-commons/.

64 Deddf Tiroedd Comin 2006, adran 46.

65 Llywodraeth Cymru, “Deddf Tiroedd Comin 2006 - Adrannau mewn grym yng Nghymru” (Ionawr 2018) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/deddf-tiroedd-comin-2006-adrannau-mewn-grym.pdf.

dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â chynnal cofrestr o'r fath ac mewn perthynas â thir comin cofrestredig neu feysydd trefi a phentrefi cofrestredig.

9.67 Prif ffocws pob Deddf yw cofrestru a rheoli tir comin a meysydd trefi a phentrefi. Ar ben hynny, dim ond nifer fach o ddarpariaethau yn Neddf 1965 a Deddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer amaethyddiaeth, neu'n cyfeirio at amaethyddiaeth. At ei gilydd, rydym felly o'r farn bod Deddf 1965 a Deddf 2006 i gyd yn ymwneud â phynciau cyfraith tir, hawliau comin a mynediad cyhoeddus i dir, yn hytrach nag amaethyddiaeth.

9.68 Mae'n anodd penderfynu a oes gan Ddeddf 1965 a Deddf 2006 gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth neu'n gyfyngedig i amaethyddiaeth. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ("NFU Cymru") yn pwysleisio'r cysylltiad cryf rhwng ffermio a thir comin fel a ganlyn.

> Mae ffermio ar dir comin yn arferiad traddodiadol, sy'n ganrifoedd oed, yn aml gyda bridiau lleol, daearyddol nodedig o dda byw. Mae llawer o ddiadelloedd yn 'symud' i bori rhannau penodol o'r comin - gwybodaeth sy'n ymwneud â pherthyn sy'n gynhenid ac sy'n cael ei throsglwyddo o famog i'r oen, o genhedlaeth i genhedlaeth.[66]

9.69 Mae NFU Cymru yn adrodd bod bron i 10% o dir amaethyddol yng Nghymru yn dir comin cofrestredig.[67] Mae NFU Cymru hefyd yn disgrifio defnyddio tir o'r fath at ddibenion pori fel rhywbeth sy'n "hanfodol i lwyddiant miloedd o fusnesau ffermio yng Nghymru".[68]

9.70 Fodd bynnag, ystyrir bod gwerth cymdeithasol ehangach i dir comin yn enwedig mewn perthynas â chadwraeth natur, yr amgylchedd hanesyddol a defnydd hamdden gan y cyhoedd. Er enghraifft, mae tua 40% o diroedd comin Cymru wedi'u dynodi'n SoDdGA.[69]

9.71 Mae nodiadau esboniadol Deddf 2006 yn tynnu sylw at ddefnydd eang o dir comin:

> Mae llawer o dir comin yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth ac yn gwasanaethu buddiannau economaidd cymunedau ffermio. Maent hefyd yn cael eu gwerthfawrogi am eu tirwedd, eu bywyd gwyllt a'u diddordebau archaeolegol, ac er mwynhad i'r cyhoedd.[70]

9.72 Yn yr un modd, mae *Halsbury's Laws of England* yn tanlinellu swyddogaethau amrywiol tir comin yn Lloegr:

---

66 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Shaping Welsh Farming's Future: NFU Cymru's Policy Priorities for Common Land" (Medi 2022).

67 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Shaping Welsh Farming's Future: NFU Cymru's Policy Priorities for Common Land" (Medi 2022).

68 Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, "Shaping Welsh Farming's Future: NFU Cymru's Policy Priorities for Common Land" (Medi 2022).

69 Ymchwil y Senedd, "Briff Ymchwil: Tir Comin" (Gorffennaf 2018) 2.

70 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Tiroedd Comin 2006, paragraff 5.

> Yr agwedd fwyaf arwyddocaol ar hawliau comin yn ymarferol bellach yw y gall tir sy'n ddarostyngedig i hawliau o'r fath hefyd fod ar gael i'r cyhoedd at ddibenion hamdden... Mae hawliau comin tir pori hefyd yn rhan hanfodol o redeg llawer o ffermydd mynydd ac ychydig o ffermydd tir isel na fyddent yn hyfyw hebddynt.[71]

9.73 Yng nghyd-destun Cymru, mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd yn egluro arwyddocâd tir comin fel a ganlyn:

> Yn ogystal â chwarae rhan hanfodol mewn amaethyddiaeth, mae tir comin yn cael ei werthfawrogi am ei gyfraniad at dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru, yn enwedig cadwraeth natur a chynefinoedd.[72]

Yn yr un modd, gellir defnyddio meysydd trefi a phentrefi at ddibenion amaethyddol, er enghraifft, pori da byw. Fodd bynnag, gellir defnyddio tir o'r fath at ddibenion hamdden hefyd, fel chwaraeon neu fynd â chŵn am dro.[73]

9.74 Mae'n bwysig cydnabod y gallai topograffi mynyddig Cymru ddylanwadu ar y prif ddefnydd o dir comin. Mae'r Athro Christopher Rodgers (ac eraill) yn rhoi cipolwg ar y defnydd o dir comin mewn ardaloedd ucheldirol.

> Fel arfer, bydd yn cynnwys tir agored gyda hawliau pori tir comin y gall perchnogion neu feddianwyr ffermydd sy'n ffinio â'r comin eu harfer. Mae'r rhan fwyaf o dir comin mewn ardaloedd ucheldirol hefyd yn 'dir mynediad' y mae gan y cyhoedd hawl statudol i grwydro arno, ac mae gan gymunedau lleol hawliau ychwanegol dros dir comin yn aml hefyd (e.e. hawl i bysgota ... neu i fwynhau mynediad hamdden i'r comin).[74]

9.75 Yn y pen draw, mae dadleuon cytbwys iawn ynghylch a yw cymhwyso'r naill Ddeddf neu'r llall yn ymarferol yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Rydym yn parchu'r ffaith bod tir comin yn rhan annatod o ffermio yng Nghymru, gan gydnabod bod gwerth cymdeithasol ehangach i dir o'r fath. Ar sail yr adnoddau a ystyrir ym mharagraffau 9.68 i 9.73 uchod, rydym yn rhagweld gyda gofal mai amaethyddiaeth fydd y prif ddefnydd o dir comin yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw wybodaeth ystadegol i gadarnhau'r pwynt hwn.

9.76 Beth bynnag, ar sail ein hasesiad bod pynciau Deddf 1965 a 2006 yn ymwneud â phynciau ar wahân i amaethyddiaeth, rydym yn dod i'r casgliad nad yw'r Deddfau'n bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

9.77 Ar ben hynny, er bod Deddf 2006 wedi'i deddfu 20 mlynedd yn ôl, nid yw'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi dod i rym eto mewn perthynas â Chymru. Felly, gall unrhyw benderfyniad i wario adnoddau ar gydgrynhoi Deddf 2006 gael ei ddylanwadu

---

71 *Halsbury's Laws of England: Commons* (cyf 13 2021) paragraff 3.02.

72 Ymchwil y Senedd, “Briff Ymchwil: Tir Comin” (Gorffennaf 2018) 1.

73 Llywodraeth y DU, “Tir Comin a Meysydd Pentrefi” https://www.gov.uk/common-land-village-greens':-text=You%20can%20use%20town%20and,local%20parish%20or%20community%20councils.

74 C Rodgers ac eraill, *Contested Common Land Environmental Governance Past and Present,* (argraffiad 1af 2011) t 52.

gan p'un a oes unrhyw fwriad gwirioneddol i gychwyn defnyddio’r darpariaethau perthnasol (nad ydynt mewn grym eto) yn y dyfodol agos.

9.78 Er gwaethaf ein casgliadau uchod, rydym yn cydnabod bod tir comin yn cynnig pwrpas hanfodol fel tir pori i lawer o ffermwyr Cymru. Rydym hefyd wedi clywed gan randdeiliaid bod y gyfraith sy'n rheoli tir comin yn cael ei hystyried yn gymhleth ac yn anodd ei deall. Felly, rydym yn cydnabod y gall fod rhesymau dilys a phragmatig dros gynnwys deddfwriaeth tiroedd comin yn y darpar God, hyd yn oed os nad yw pwnc Deddf 1965 a Deddf 2006 yn ymwneud yn benodol ag amaethyddiaeth. Rydym yn awgrymu, o leiaf, y byddai'n bwysig i unrhyw dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru gyfeirio at y gyfraith berthnasol ynghylch tir comin, ac at unrhyw ganllawiau ategol.

## FFURF A CHYNNWYS Y DARPAR GOD

9.79 Yn y bennod hon rydym yn cynnig bod pwnc y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth a restrir isod yn addas i'w gynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

(1) Deddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995.

(3) Rhan 3 Deddf Amaethyddiaeth 1970 a Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970.

(4) Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019.

(5) Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024.

(6) Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau (Cymru) 2024.

(7) Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffioedd) 2022.

### Cyfeirio

9.80 Bydd gan lawer o ffermwyr achos i gydymffurfio â'r cyfreithiau hynny yr ydym yn eu harchwilio yn y bennod hon, ond y casgliad yw eu bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym yn tynnu sylw at achosion lle byddai'n arbennig o fuddiol i dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God gyfeirio darllenwyr at y cyfreithiau hynny y byddem yn dod i'r casgliad y dylent fod y tu allan i gwmpas y darpar God, ond a allai serch hynny fod yn berthnasol i'w darllenydd.

## MATERION Y MAE ANGEN EU DADANSODDI YMHELLACH

9.81 Ni ofynnwyd i ni wneud cynigion nac argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith amaethyddol yn sylweddol. Yn unol â hynny, nid ydym yn gwneud cynigion ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol a fyddai'n golygu newidiadau i'r polisi sy'n sail i gyfraith

amaethyddol; nid ydym chwaith yn awgrymu newidiadau i hawliau neu rwymedigaethau cyfreithiol pwysig.

9.82 Fodd bynnag, mae ein cylch gorchwyl yn gofyn i ni dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â chodeiddio cyfraith amaethyddol a allai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach. Pan fydd galw am ddiwygio maes o gyfraith amaethyddol, rydym o'r farn y gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sut a phryd y caiff y maes hwnnw o'r gyfraith ei godeiddio.

9.83 Yn unol â hynny, rydym yn crynhoi isod alwadau diweddar i ddiwygio'r gyfraith sy'n rheoli tenantiaethau amaethyddol ac, ar wahân, yn galw am ddiwygio sy'n ymwneud â'r gyfundrefn mân-ddaliadau statudol. Ar ben hynny, rydym yn amlinellu galwadau diweddar i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol pwrpasol i reoli trefniadau ffermio cyfran.

## Tenantiaethau amaethyddol: galwadau i ddiwygio cyfraith sylwedd

### Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio tenantiaethau amaethyddol

9.84 Yn 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar opsiynau ar gyfer diwygio'r gyfraith ar denantiaethau AHA a thenantiaethau busnesau fferm ar sail argymhellion Grŵp y Diwydiant Diwygio Tenantiaethau (sydd wedi dod i ben erbyn hyn). Nod y cynigion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad oedd:

> Cael gwared â rhwystrau ymddangosiadol a allai atal tenantiaid a landlordiaid rhag addasu i newid, gwella cynhyrchiant, galluogi newid strwythurol a chael mynediad at gynlluniau rheoli tir yn gynaliadwy yn y dyfodol.[75]

9.85 Mae tua hanner y cynigion a gyflwynwyd yn ymgynghoriad 2019 wedi cael eu rhoi ar waith yng Nghymru naill ai drwy Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 neu Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Er enghraifft, diddymodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 ddarpariaeth yn AHA 1986 a oedd yn darparu mai dim ond os oedd y tenant a oedd yn ymddeol yn 65 oed neu'n hŷn y gellid gwneud ceisiadau am olyniaeth tenantiaeth AHA ar ôl i denant ymddeol.[76] Erbyn hyn, yng Nghymru a Lloegr, mae'n bosibl gwneud cais am olyniaeth ar ôl ymddeol, beth bynnag fo oedran y tenant sy'n ymddeol. Yn gyffredinol, mae'r darpariaethau a gynigir yn ymgynghoriad 2019, sydd wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny, yn helpu i foderneiddio'r meini prawf a'r broses sy'n berthnasol i geisiadau olyniaeth ar gyfer tenantiaethau AHA. Roedd y diwygiadau hefyd yn ymestyn yr amgylchiadau lle mae gan bartïon i denantiaeth amaethyddol hawl i gyfeirio mater i ddatrys anghydfod gan drydydd parti annibynnol.

9.86 Nid yw nifer o gynigion yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru arnynt yn 2019 wedi cael eu rhoi ar waith eto ond adroddir eu bod yn parhau i gael eu hystyried.[77]

---

75 Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaethau amaethyddol* (Ebrill 2019).

76 Deddf Amaethyddiaeth 2020, adran 36 ac Atodlen 3.

77 Llywodraeth Cymru, *Ymgynghoriad - Crynodeb o'r ymatebion, gan gynnwys Ymateb Llywodraeth Cymru: Diwygio Tenantiaeth Amaethyddol* (Medi 2021).

### Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol

9.87 Ar 4 Medi 2025, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei fwriad i ddechrau prosiect diwygio'r gyfraith a fydd yn cynnwys adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu tenantiaethau AHA a thenantiaethau busnesau fferm. Mae ein 14eg adroddiad rhaglen yn rhoi rhagor o gyd-destun i'r prosiect tenantiaethau amaethyddol.

> Bydd y prosiect hwn yn ystyried a yw'r gyfraith bresennol yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng rhoi sicrwydd digonol i ffermwyr sy'n denantiaid i annog buddsoddiad a chynnal busnesau fferm hyfyw, cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid gael mynediad at gyfleoedd ffermio, a buddiannau a hyder landlordiaid i osod tir. Bydd y prosiect hwn hefyd yn ystyried a yw'r gyfraith yn rhwystro ffermwyr sy'n denantiaid rhag arallgyfeirio eu busnesau, gan gynnwys ffermio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy; a yw'r gyfraith yn cefnogi dull cydweithredol rhwng landlordiaid a thenantiaid; ac a oes materion technegol sy'n achosi problemau'n ymarferol. Mae'n hen bryd ystyried diwygio'r gyfraith yn fanwl yn y maes pwysig hwn.[78]

9.88 Mae'r amserlen ar gyfer dechrau'r prosiect i'w chadarnhau. Gan fod amaethyddiaeth yn faes cyfraith datganoledig, gallai'r prosiect gynnwys ystyried y gyfraith mewn perthynas â Chymru. Mae hwn yn fater y bydd angen ei drafod maes o law gyda Llywodraeth Cymru.[79]

9.89 Ym Mhennod 4, rydym yn nodi y gallai fod yn annerbyniol cydgrynhoi deddfwriaeth lle mae posibilrwydd gwirioneddol y bydd y gyfraith yn cael ei diwygio. Yn amodol ar a fydd ein prosiect ar gyfraith tenantiaeth amaethyddol yn ymestyn i'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru, efallai y byddai'n ddefnyddiol i unrhyw adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n deillio o hynny lywio penderfyniadau ynghylch sut ac a yw deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol yn dod o fewn cwmpas y darpar God.

## Cyfundrefn mân-ddaliadau statudol: galwadau i ddiwygio

### Galwadau i ddiwygio sy'n ymwneud â dirywiad ffermydd sirol

9.90 Adroddir bod nifer y ffermydd sirol yng Nghymru, a hefyd yn Lloegr, yn gostwng. Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae amryw o sefydliadau wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n edrych ar y mater hwn yn Lloegr.[80] Nid ydym wedi nodi unrhyw adroddiadau sy'n ystyried y mater hwn yn benodol yng nghyd-destun Cymru.

9.91 Fodd bynnag, mae TFA Cymru wedi galw am drin ffermydd sirol fel asedau cenedlaethol strategol. Ar ben hynny, mae TFA Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru wedi eiriol ar i Lywodraeth Cymru gefnogi cydweithio rhwng awdurdodau lleol yng

---

78 Y Pedwerydd ar Ddeg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (2025) Comisiwn y Gyfraith Rhif 421, t 13.

79 O dan ein Protocol gyda Gweinidogion Cymru, gall y Comisiwn ymgymryd â phrosiect diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig Cymru (fel y'u diffinnir gan adran 3D(8) Deddf Cymru 2014) naill ai drwy ei gynnwys mewn rhaglen diwygio'r gyfraith a fabwysiadwyd yn unol â darpariaethau perthnasol adran 3(1)(b) ac (c) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 neu drwy dderbyn y prosiect ar gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 3(1)(ea) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965: https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/54/2015/07/Law_Commission_Welsh_Protocol.pdf.

80 Er enghraifft, Grŵp Ffermio Cynaliadwy a Chyflenwi Bwyd, "The Importance of the County Farm Service to the Rural Economy" (Tachwedd 2008).

nghyd-destun rheoli ystadau ffermydd sirol.[81] Rydym yn cydnabod y gallai cynigion sy'n ymwneud â chydweithio gael eu hwyluso heb ddiwygio deddfwriaethol. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai ystyriaethau ariannol ddylanwadu ar allu awdurdodau lleol i weithredu cynigion sy'n ymwneud â chydweithio.

### Addasrwydd tenantiaid ar gyfer ffermydd sirol

9.92 Ym mis Ionawr 2014, cynigiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fod angen moderneiddio'r gyfraith, fel sy'n berthnasol yn Lloegr, sy'n rheoli addasrwydd tenantiaid ar gyfer ffermydd sirol.[82] Ym mharagraff 9.32 uchod, rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith sy'n llywodraethu'r gyfundrefn ffermydd sirol yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Felly, gall codeiddio fod yn gyfle i archwilio a oes angen moderneiddio'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru sy'n llywodraethu addasrwydd tenantiaid ffermydd sirol, neu a fyddai'n elwa o hynny.

9.93 Dim ond i unigolion sydd, ym marn yr awdurdod, â'r cymwysterau priodol i ffermio'r daliad ar eu cyfrif eu hunain neu sy'n debygol o fod â'r cymwysterau priodol i wneud hynny o fewn cyfnod cymharol fyr y caiff awdurdod lleol osod ffermydd sirol.[83]

9.94 Mae Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970 yn darparu mai dim ond i'r tenantiaid hynny sy'n gallu dangos eu bod wedi ymgymryd â gwaith fferm ymarferol amser llawn am o leiaf bum mlynedd, boed hynny'n barhaus ai peidio, y caiff awdurdod lleol osod fferm sirol. Bydd amser a dreulir ar gwrs llawn amser mewn amaethyddiaeth mewn prifysgol, coleg neu sefydliad addysg bellach arall yn cyfrif, hyd at uchafswm o dair blynedd, tuag at y gofyniad gwaith fferm ymarferol pum mlynedd.[84]

9.95 Adroddir bod 40% o'r gweithlu amaethyddol yn y DU yn gweithio'n rhan amser.[85] Yn ogystal, mae newidiadau yn y ddarpariaeth addysg yn golygu bod mwy o opsiynau i ddilyn cymwysterau amaethyddol y tu allan i gyrsiau addysg bellach neu uwch amser llawn traddodiadol. Felly, os yw'r gyfraith sy'n llywodraethu'r gyfundrefn ffermydd sirol yn cael ei chynnwys yn y darpar God, yna gall hyn fod yn gyfle i archwilio a yw'r gofynion addasrwydd ar gyfer tenantiaethau fferm sirol yn adlewyrchu'r gweithlu amaethyddol modern, a darpariaeth addysgol fodern.

### Trefniadau ffermio cyfran

9.96 Fel yr amlinellwyd uchod, mae trefniadau ffermio cyfran yn cael eu llywodraethu gan egwyddorion cyffredinol cyfraith contractau. Fodd bynnag, rydym wedi nodi nifer o adroddiadau ar wahân sy'n cynnig y gall diffyg fframwaith deddfwriaethol pwrpasol yn y maes hwn fod yn rhwystr rhag manteisio ar drefniadau ffermio cyfran.[86] Mae'r

---

81 Undeb Amaethwyr Cymru, *A mandate for future farmers* (Gorffennaf 2025) t 6; Cymdeithas Amaethwyr Tenantiaid Cymru, “Brief to Senedd members on council owned farms” (Hydref 2024) https://tfa.org.uk/wp-content/uploads/2024/10/24October14Smallholdings_in_Wales.pdf.

82 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *Red Tape Challenge: Agriculture Theme Proposals* (Ionawr 2014) t 48.

83 Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 44(2); paragraff 9.31 uchod.

84 Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970 (OS 1970/1049), rheoliad 3.

85 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, “Recruitment Support for Agricultural Workers” (Mai 2022) 2.

86 S Wetherell, “Can share farming offer a route into farming for new entrants?” (Gorffennaf 2023) https://media.churchillfellowship.org/documents/Wetherell_S_Report_2020_Final.pdf.

adroddiadau a adolygwyd yn nodi, yn absenoldeb fframwaith deddfwriaethol pwrpasol, y gallai partïon i drefniadau ffermio cyfran fod yn agored i delerau cytundebol annheg. Gwneir cymariaethau â'r fframwaith cyfreithiol yn Seland Newydd o dan Ddeddf Cytundeb Godro Cyfran 1937, a'r Gorchymyn ategol.[87] Godro cyfran yw'r term a ddefnyddir yn Seland Newydd i ddisgrifio trefniadau ffermio cyfran a sefydlwyd yng nghyd-destun ffermio gwartheg godro. Mae'r fframwaith cyfreithiol yn gosod rhai telerau safonol mewn cytundebau godro cyfran sydd wedi'u cynllunio i ddarparu amddiffyniad i'r ddwy ochr.

9.97 Tynnodd un rhanddeiliad y buom yn siarad ag ef sylw hefyd at y ffaith bod anghydfodau ynghylch trefniadau ffermio cyfran yng Nghymru yn cael eu clywed naill ai gan y Llys Sirol neu'r Uchel Lys. Mae'r rhain yn llysoedd sy'n arbenigo mewn clywed anghydfodau cytundebol a masnachol, ond nad oes ganddynt efallai arbenigedd penodol mewn materion amaethyddol. Fodd bynnag, mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer godro cyfran yn Seland Newydd yn darparu ar gyfer datrys anghydfodau: proses lle mae cymodwr annibynnol yn gweithio gyda'r partïon i nodi'r materion y mae anghydfod yn eu cylch ac yn eu helpu i ddod i gytundeb. Yn benodol, rhaid i gymodwyr ar gyfer cytundebau godro cyfran yn Seland Newydd fod â chymwysterau a phrofiad addas i ddatrys anghydfodau.[88]

9.98 Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion yn yr adroddiad hwn ynghylch pa mor ddymunol yw fframwaith deddfwriaethol pwrpasol ar gyfer ffermio cyfran yng Nghymru. Nodwn, fodd bynnag, y gallai codeiddio cyfraith amaethyddol fod yn gyfle i ystyried galwadau perthnasol am ddiwygio yn y maes hwn.

## MATERION TECHNEGOL

9.99 Gall cydgrynhoi gynnwys cyflwyno newidiadau technegol i ddeddfwriaeth sydd â'r nod o egluro effaith y gyfraith. Rydym wedi nodi dwy enghraifft lle gallai'r gyfraith sy'n ymwneud â ffermydd sirol elwa o gael eglurhad.

### Mân-ddaliadau statudol: yr eithriad addasrwydd a gwŷr gweddw gwrywaidd

9.100 Fel yr amlinellwyd uchod, dim ond pan fydd tenant unigol wedi bod yn gwneud gwaith fferm ymarferol amser llawn am gyfnod o bum mlynedd yr ystyrir ei fod yn gymwys i fyw ar fferm sirol.

9.101 Mae eithriad i'r rheol gyffredinol uchod ar gyfer cymar neu bartneriaid sifil tenant sydd wedi marw mewn amgylchiadau lle mae'r cymar neu'r partner sifil yn dal i fyw ar y fferm sirol (“yr eithriad addasrwydd”). Mae hyn yn golygu, pan fydd tenant fferm sirol yn marw, y gall awdurdod lleol, wrth ailosod y fferm honno am y tro cyntaf ar ôl marwolaeth y tenant, ddewis gosod i gymar neu bartner sifil y tenant ymadawedig p'un a oes gan y person hwnnw bum mlynedd neu fwy o brofiad o waith fferm ymarferol amser llawn ai peidio. Fodd bynnag, rhaid i'r cymar neu'r partner sifil fod yn dal i breswylio ar y fferm sirol er mwyn i'r eithriad addasrwydd fod yn berthnasol.

9.102 Cyn cyflwyno Deddf Partneriaeth Sifil 2004, dim ond i weddw (benywaidd) tenant ymadawedig yr oedd yr eithriad addasrwydd yn berthnasol. Ar ôl cyflwyno Deddf

87 Gorchymyn Cytundebau Rhannu Godro 2011, SR 2011/295 (Seland Newydd).

88 Sefydliad Cymrodeddwyr a Chyfryngwyr Seland Newydd, https://www.aminz.org.nz/conciliation.

2004, disodlwyd y term “gweddw” gan y termau “cymar” a “phartner sifil”. Fodd bynnag, mae'r eithriad addasrwydd yn dal i ddefnyddio'r rhagenw “hi” i gyfeirio at gymar neu bartner sifil y tenant ymadawedig:

> Ni fydd y paragraff blaenorol yn gymwys i gymar neu bartner sifil sy'n goroesi tenant ymadawedig mân-ddaliad mewn perthynas â gosod y mân-ddaliad hwnnw am y tro cyntaf ar ôl marwolaeth y tenant, os yw hi’n preswylio yn y mân-ddaliad pan fo hwnnw dan ystyriaeth gan yr awdurdod mân-ddaliadau.[89]

9.103 O ganlyniad, nid yw'r defnydd o'r rhagenw “hi” yn y dyfyniad uchod yn adlewyrchu'n gywir y newidiadau a wnaed gan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Felly, gallai cydgrynhoi fod yn gyfle i gadarnhau bod yr eithriad addasrwydd hefyd wedi'i fwriadu i fod yn gymwys i weddwon neu bartneriaid sifil gwrywaidd tenant ymadawedig mewn fferm sirol.

9.104 Yn gysylltiedig, pe bai Rhan 3 Deddf 1970 a Rheoliad 1970 yn cael eu cynnwys yn y darpar God - fel y cynigir yn y bennod hon - yna byddai hyn yn gyfle i foderneiddio'r gwaith o ddrafftio’r ddeddfwriaeth dan sylw er mwyn cydymffurfio â dymuniad Llywodraeth Cymru i wneud gwaith drafftio sy'n niwtral o ran rhywedd.[90]

### Mân-ddaliadau statudol: egwyddorion rheoli ystadau’n dda

9.105 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, o ystyried buddiannau cyffredinol amaethyddiaeth a rheoli ystadau'n dda, ei gwneud yn nod cyffredinol iddynt ddarparu cyfleoedd i fod yn ffermwyr ar eu cyfrif drwy osod ffermydd sirol iddynt.[91]

9.106 Ar hyn o bryd, nid yw Deddf 1970 yn ymhelaethu ar yr hyn a olygir wrth yr ymadrodd “rheoli ystadau’n dda”. Mae *Law of Agricultural Holdings* yn nodi na fyddai'r gyfraith gyffredin yn cynnig unrhyw gymorth pellach yn hyn o beth:

> Mewn cyfraith gyffredin, ni fu erioed unrhyw rwymedigaeth ymhlyg ar landlord i reoli ei ystâd yn unol â rheolau rheoli ystâd yn dda, nac unrhyw gyfraith gyffredin gyfatebol.[92]

Felly, credwn nad yw'n glir pa faterion y mae'n rhaid i awdurdodau mân-ddaliadau eu hystyried wrth ystyried buddiannau “rheoli ystadau'n dda'” wrth arfer eu swyddogaethau o dan adran 39 Deddf 1970.

9.107 Nodwn fod adran 10 Deddf Amaethyddiaeth 1947 yn gosod rhwymedigaeth ar berchnogion tir amaethyddol i gydymffurfio â rheolau rheoli ystadau’n dda. Mae Deddf 1947 yn esbonio yn hytrach na diffinio'r hyn a olygir gan reolau rheoli ystadau’n dda.[93] Wrth wneud hynny, mae'n darparu y bydd rheoli ystadau’n dda yn golygu rheoli'r tir

---

89 Rheoliadau Mân-ddaliadau (Dewis Tenantiaid) 1970, OS 1970/1049, rheoliad 3(2).

90 Llywodraeth Cymru, *Llunio Deddfau i Gymru*: *Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaethol* (Tachwedd 2019).

91 Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 39.

92 P Williams, *Scammell, Densham and Williams, Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023), paragraff 27.4.

93 P Williams, *Scammell, Densham and Williams, Law of Agricultural Holdings* (11eg argraffiad 2023), paragraff 27.11.

mewn ffordd sy'n galluogi deiliad sydd â sgiliau hwsmonaeth rhesymol i gynnal y tir i safon sy'n caniatáu cynhyrchu effeithlon.

9.108 Fodd bynnag, nid yw darpariaethau Deddf 1947 sy'n ymwneud â rheolau rheoli ystadau'n dda yn berthnasol yn benodol i Ddeddf 1970. Beth bynnag, rydym o'r farn bod canfyddiadau ynghylch yr hyn y mae rheoli ystadau'n dda yn ei olygu yn debygol o fod wedi esblygu yn y pum degawd ers pasio Deddf 1970.

9.109 Yng ngoleuni'r amwysedd hwn, gellid ystyried ymhellach a allai cadarnhau ystyr “rheoli ystadau’n dda” at ddibenion Deddf 1970 wella hygyrchedd y gyfraith yn y maes hwn.

## CASGLIAD

9.110 Yn y bennod hon, rydym yn nodi deddfwriaeth rydym yn ystyried sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae'r ddeddfwriaeth rydym yn ei hystyried yn addas i'w chynnwys yn ymwneud â phrydlesu tir amaethyddol, fel y nodir yn y rhestr a gyflwynir ym mharagraff 9.78 uchod. Rydym hefyd yn crynhoi'r galwadau diweddar i ddiwygio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Yn benodol, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi ei fwriad i gynnal prosiect sy'n adolygu'r gyfraith ar denantiaethau amaethyddol. Gallai unrhyw argymhellion i ddiwygio'r gyfraith sy'n deillio o'r adolygiad hwnnw fod yn ddefnyddiol i lywio penderfyniadau ynghylch sut ac a yw deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol yn cael ei chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

9.111 Ar ben hynny, rydym yn darparu enghreifftiau o faterion technegol y gallai fod angen eu hystyried ymhellach er mwyn moderneiddio, symleiddio a lliflinio'r gyfraith sy'n llywodraethu'r gyfundrefn mân-ddaliadau statudol yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

# Pennod 10: Y gadwyn gyflenwi

## CYFLWYNIAD

10.1 Mae'r bennod hon yn ystyried rôl y sector amaethyddol yn y gadwyn gyflenwi amaethyddol ehangach sy'n creu cynhyrchion i'w defnyddio yng Nghymru, yn ogystal ag ar gyfer masnach ddomestig a rhyngwladol. Gellir disgrifio'r gadwyn gyflenwi amaethyddol fel rhwydwaith o unigolion a sefydliadau sy'n cynhyrchu, prosesu a dosbarthu cynnyrch amaethyddol.

10.2 Bydd gweithgareddau amaethyddol yn rhan o gam cychwynnol y gadwyn gyflenwi amaethyddol. Mae ffermwyr yn tyfu ac yn cynhyrchu deunyddiau crai sydd wedyn yn cael eu prosesu a'u pecynnu i greu cynnyrch sy'n ymddangos mewn llawer o ddiwydiannau. Mae allbynnau amrywiol yn deillio o gadwyn gyflenwi amaethyddol; cyfeirir at y rhain yn aml fel y "pedair F": bwyd, porthiant, ffeibr a thanwydd.

(1) Gall bwyd gynnwys da byw ei hun yn ogystal â chynhyrchion da byw, fel llaeth ac wyau. Mae da byw yn cynnwys gwartheg, defaid, dofednod a moch.

(2) Mae porthiant yn cyfeirio at y bwyd a roddir i dda byw a gedwir ar ffermydd a gellir ei gynhyrchu ar y safle drwy dyfu cnydau. Mae cnydau nodweddiadol a allai fod yn rhan o fwyd anifeiliaid yn cynnwys haidd, corn a betys porthiant.

(3) Mae ffibr yn ddeunydd crai hanfodol sy'n cyfrannu at decstilau a phecynwaith. Mae magu defaid ar gyfer gwlân yn un ffordd y mae arferion amaethyddol yn cynhyrchu ffibr. Fodd bynnag, gellir tyfu cnydau hefyd i gynhyrchu ffibr (fel cywarch, danadl poethion a llin).

(4) Gall rhai cnydau hefyd fod yn werthfawr ar gyfer cynhyrchu biodanwydd, fel gwenith a miscanthus (math o gnwd glaswellt).[1]

10.3 Er bod llawer o allbynnau posibl o'r sector amaethyddol, mae'r sector yng Nghymru yn cynnwys ffermydd da byw yn bennaf. Defnyddir 78% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru ar gyfer pori da byw, ac mae ffermydd pori da byw yn cyfrif am 78% o'r holl fathau o ffermydd yng Nghymru.[2]

10.4 Yn ogystal â chyfrif am y gyfran fwyaf o ffermydd a thir yng Nghymru, ffermio da byw sy'n cynhyrchu'r allbwn gros mwyaf hefyd. "Mae allbwn gros yn cyfeirio at gyfanswm gwerth yr holl gynnyrch neu wasanaethau a gynhyrchir gan fusnesau fferm ym mhob

---

1 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, "Bioenergy Crops in England and the UK 2008 to 2023"(Mehefin 2024); Cyswllt Ffermio, "Miscanthus fel cnwd amgen i ffermwyr Cymru" (Tachwedd 2019) https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/newyddion-digwyddiadau/erthyglau-technegol/miscanthus-fel-cnwd-amgen-ar-gyfer-ffermwyr-cymru.

2 Llywodraeth Cymru, *Incymau Fferm: Ebrill 2023 i Fawrth 2024* (Ionawr 2025) https://www.llyw.cymru/incymau-fferm-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html.

gwlad”.[3] Yn 2024, roedd yr allbwn amaethyddol gros yng Nghymru yn £2.2 biliwn.[4] Roedd da byw a chynhyrchion da byw yn cynrychioli 82.3% o gyfanswm yr allbwn gros hwn. Mewn cymhariaeth, mae allbynnau eraill y sector amaethyddol - bwyd, biodanwydd a ffeibr - yn cynrychioli cyfran lawer llai o'r sector yng Nghymru. Fel rydym yn egluro ym mharagraff 10.2 uchod, mae'r tri allbwn arall hyn yn cael eu cynhyrchu'n bennaf o gnydau. Fodd bynnag, mae cnydau a garddwriaeth yn cynrychioli cyfran fach iawn o dir amaethyddol ac allbwn gros y ffermydd yng Nghymru. Roedd cnydau a garddwriaeth yn cyfrif am 5% o'r allbwn amaethyddol gros yng Nghymru yn 2024. Yn yr un modd, o'r 24,677 o ddaliadau fferm a gofnodwyd yng Nghymru yn 2020, dim ond 2% o'r rhain oedd wedi'u neilltuo ar gyfer tyfu cnydau a garddwriaeth.[5] Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn dangos bod ffermio da byw yn dominyddu sector amaethyddol Cymru i raddau helaeth.

## EIN DULL GWEITHREDU

10.5 Ein prif dasg ar gyfer yr adroddiad hwn yw nodi'r ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru (“y darpar God”) drwy gymhwyso ein meini prawf cynnwys fel y nodir ym Mhennod 3.

10.6 Yn y bennod hon, rydym yn blaenoriaethu adolygiad o'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r ffaith mai ffermio da byw sy'n dominyddu'r sector amaethyddol yng Nghymru. Gallai cadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch cig gynnwys y camau canlynol.

(1) Cynhyrchu: magu da byw ar y fferm.

(2) Cigydda: lladd da byw mewn lladd-dy.

(3) Prosesu: prosesu, pecynnu a labelu cynnyrch i'w werthu.

(4) Dosbarthu: cludo cynnyrch i'w werthu (e.e. i gyfanwerthwyr neu adwerthwyr).

(5) Adwerthu: adwerthwyr neu fusnesau eraill sy'n rhan o'r diwydiant bwyd a diod sy’n gwerthu cynnyrch.

Fel rydym yn ei drafod ymhellach ym mharagraffau 10.9 i 10.11 isod, dim ond un enghraifft yw'r model enghreifftiol uchod o gadwyn gyflenwi amaethyddol nodweddiadol ar gyfer cynnyrch cig.

10.7 Yn adran gyntaf y bennod hon, rydym yn adolygu cyfreithiau sy'n berthnasol i gamau cynnar y gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig. Yn benodol, rydym yn defnyddio ein meini prawf cynnwys i’r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu defnyddio fel arfer gan ffermydd da byw neu sy'n cael eu cyflenwi iddynt.

---

[3] Ymchwil y Senedd, “Y Sector Ffermio yng Nghymru: Briff Ymchwil” (Gorffennaf 2022) 19.

[4] StatsCymru, *Allbwn ac Incwm Amaethyddol Cyfun* (2025).

[5] Ymchwil y Senedd, “Y Sector Ffermio yng Nghymru: Briff Ymchwil” (Gorffennaf 2022) 15.

10.8 Fodd bynnag, nid ydym yn cymhwyso ein meini prawf cynnwys i gamau'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cig da byw sy'n digwydd ar ôl y fferm. Rydym yn nodi isod ein rhesymeg dros fabwysiadu'r dull hwn.

10.9 Fel yr amlinellwyd uchod, mae gweithgarwch amaethyddol sy'n digwydd ar y fferm yn rhan o gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer cynnyrch amaethyddol. Mae'r camau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi amaethyddol yn amrywio yn ôl ffactorau gan gynnwys y cynnyrch amaethyddol, y deunyddiau crai dan sylw, y cynnyrch a brosesir yn y pen draw a'r fferm benodol dan sylw. Yn eu tro, mae'r cyfreithiau sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol yn amrywiol, yn gymhleth ac yn enfawr eu cwmpas.

10.10 O ganlyniad, nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol gwerthuso yn yr adroddiad hwn y gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r cadwyni cyflenwi gwahanol niferus ar gyfer cynhyrchion amaethyddol eraill (gan gynnwys y rheini sy'n perthyn i'r categorïau bwyd, porthiant, ffeibr a chynnyrch tanwydd). Yn ein hasesiad, byddai dull gweithredu o'r fath yn ehangu cwmpas ein hadolygiad yn sylweddol i feysydd deddfwriaethol neilltuol a chymhleth, gan gynnwys y cyfreithiau sy'n llywodraethu diogelwch bwyd, diogelu defnyddwyr a masnachu nwyddau'n rhyngwladol. Rydym hefyd o'r farn y byddai dull o'r fath mewn perygl o wyro ein ffocws yn anghyfiawn oddi wrth adolygu'r corff o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru.[6]

10.11 Rydym hefyd o'r farn bod tasg o'r fath yn anymarferol ei chwmpas hyd yn oed petaem yn cyfyngu ein ffocws i'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y cyfreithiau sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig yn amrywio'n sylweddol yn ôl y camau penodol sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi benodol. Er enghraifft, unwaith y bydd ffermwr wedi magu da byw ar fferm, mae nifer o opsiynau ar gael i'w gwerthu neu eu dosbarthu. Gallai ffermwr ddewis gwerthu ei dda byw mewn marchnad da byw (i ffermwyr da byw eraill o bosibl), gellid anfon da byw i'w lladd mewn lladd-dy, neu gall ffermwr werthu'n uniongyrchol i adwerthwyr neu ddefnyddwyr lleol (er enghraifft, mewn siop fferm). Felly, rydym o'r farn y byddai ceisio cymhwyso ein meini prawf cynnwys i'r cyfreithiau sy'n berthnasol i'r camau amrywiol sy'n gysylltiedig hyd yn oed â'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig yn dasg rhy anhylaw.

10.12 Ar ben hynny, rydym o'r farn y gellid dadlau bod ffocws polisi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol yn newid ar yr adeg pan fydd cynnyrch amaethyddol yn gadael y fferm ac yn symud i gamau dilynol y gadwyn gyflenwi. Yng nghyd-destun y gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig, rydym o'r farn bod y lladd-dy yn bwynt terfyn naturiol lle mae da byw yn dod yn gynnyrch bwyd ac felly'n ddarostyngedig yn bennaf i gyrff cyfraith penodol ond cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, diogelu defnyddwyr a masnach.

10.13 Am y rhesymau uchod, nid ydym yn ceisio cymhwyso ein meini prawf cynnwys i'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol drwy gydol y gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer gwahanol gynhyrchion amaethyddol. Nid ydym chwaith yn ceisio cymhwyso ein meini prawf i'r set gulach o gyfreithiau sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig. Yn hytrach, rydym yn rhoi trosolwg nad yw'n gynhwysfawr o'r

[6] Gweler Pennod 3 am ein dull o nodi'r corff presennol o gyfraith amaethyddol yng Nghymru.

cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i gamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig rhwng paragraffau 10.77 a 10.89. Rydym yn cynnig trosolwg o'r fath gan ein bod yn cydnabod y gallai fod yn ddymunol, yn y dyfodol, ehangu cwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru i gwmpasu'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi.

## DEDDFWRIAETH GYFFREDINOL

10.14 Drwy gydol y gadwyn gyflenwi amaethyddol, bydd cyfreithiau sy'n berthnasol i ffermwyr ond a fyddai hefyd yn berthnasol i unrhyw berthynas fusnes. Nid ydym o'r farn bod y cyfreithiau hyn yn benodol i'r sector amaethyddol.

(1) Cyfraith contractau.

(2) Cyfraith cyflogaeth.

(3) Cyfraith iechyd a diogelwch.

### Cyfreithiau contract delio’n deg sy'n ymwneud yn benodol ag amaethyddiaeth

10.15 Mae dwy is-ddeddfau, fel y rhestrir isod, sy'n ymwneud â'r telerau sy'n berthnasol i gontractau ar gyfer gwerthu cynhyrchion amaethyddol penodol.

(1) Rheoliadau Ymrwymiadau Delio’n Deg (Llaeth) 2024.

(2) Rheoliadau Ymrwymiadau Delio’n Deg (Moch) 2025.[7]

10.16 Rydym hefyd yn nodi bod y diwydiant yn ymgysylltu ynghylch cynigion ar gyfer rheoliadau a fyddai'n darparu ar gyfer telerau cytundebol sy'n berthnasol i werthu wyau a chynnyrch ffres.[8] Nid ydym yn ystyried y cyfreithiau a restrir ym mharagraff 10.15 uchod gan eu bod yn cael eu deddfu gan ddibynnu ar bwerau a roddir i Weinidogion y DU o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.[9]

## MEWNBYNNAU CYNHARACH: NWYDDAU A GWASANAETHAU A GYFLENWIR I FFERMYDD DA BYW

10.17 Yn yr adrannau canlynol rydym yn ystyried y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i nwyddau a gwasanaethau sydd fel arfer yn cael eu cyflenwi neu eu darparu i ffermydd da byw. Felly, mae'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n destun deddfwriaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r sector ffermio da byw. Fodd bynnag, fel yr ydym yn archwilio isod, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod pwnc y ddeddfwriaeth dan sylw yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn unig.

---

[7] OS 2024/537; OS 2025/610.

[8] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, “Advancing work on supply chain fairness” (Tachwedd 2024) https://defrafarming.blog.gov.uk/2024/11/21/advancing-work-on-supply-chain-fairness/.

[9] Deddf Amaethyddiaeth 2020, adrannau 29 a 50.

### Cyfraith plaladdwyr

10.18 Mae plaladdwyr yn cael eu diffinio mewn cyfraith fel unrhyw sylwedd, paratoad neu organeb sy'n cael ei baratoi neu ei ddefnyddio i ddinistrio unrhyw bla.[10] Yn y cyd-destun hwn, ystyr y term “pla” yw:

(1) unrhyw organedd sy'n niweidiol i blanhigion, coed neu gynhyrchion planhigion eraill;

(2) unrhyw blanhigyn nad yw'n ddymunol; ac

(3) unrhyw greadur niweidiol.[11]

10.19 Gall defnyddio plaladdwyr beri risg i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. O ganlyniad, mae cynhyrchu, gwerthu a defnyddio plaladdwyr yn cael eu rheoleiddio'n llym i sicrhau bod cynhyrchion diogel ac effeithiol ar gael. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r prif reoleiddiwr cenedlaethol yn y maes hwn.

10.20 Mae plaladdwyr yn chwarae rhan bwysig yn y sector amaethyddol. Drwy ddiogelu cnydau a phlanhigion rhag plâu, mae plaladdwyr yn helpu ffermwyr i gynhyrchu mwy o gynnyrch. Fodd bynnag, defnyddir plaladdwyr mewn cyd-destunau ehangach:

> mae plaladdwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu cnydau i gefnogi cynhyrchu bwyd domestig, gwarchod tirweddau naturiol, a chynnal mannau cyhoeddus hanfodol, fel ffyrdd, rhwydweithiau rheilffyrdd a meysydd chwaraeon.[12]

10.21 Gan fod ffermwyr yn defnyddio plaladdwyr fel ffordd bwysig o reoli plâu, rydym o'r farn ei bod yn briodol ystyried, ar lefel uchel, a yw'r gyfraith ar blaladdwyr yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Mae'r cwestiwn a yw cyfraith plaladdwyr yn ymwneud yn agosach â chynhyrchu a gwerthu plaleiddiad, neu â'u defnydd terfynol, yn arbennig o berthnasol i'n hasesiad.

#### Rhan 3 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 ac is-ddeddfwriaeth

10.22 O dan adran 16 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 ("Deddf 1985"), caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer gwaharddiadau a gofynion sy'n ymwneud â mewnforio, gwerthu, cyflenwi, storio, defnyddio a hysbysebu plaleiddiaid. Caiff rheoliadau a wneir o dan adran 16 hefyd wneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo plaladdwyr penodol ar yr amod eu bod yn gallu cydymffurfio ag amodau

---

[10] Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, adran16.

[11] Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, adran 16(15).

[12] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, *UK Pesticides National Action Plan 2025: Working for a more sustainable future* (Mai 2025), https://www.gov.uk/government/publications/uk-pesticides-national-action-plan-2025/uk-pesticides-national-action-plan-2025-working-for-a-more-sustainable-future.

penodol. Mae adran 17 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru weithredu ar yr un pryd neu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi cod ymarfer ar blaleiddiaid.[13]

10.23 Gwneir Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986 ("Rheoliadau 1986") drwy arfer y pwerau a geir yn adran 16 Deddf 1985, yn ogystal ag adran 24(3).[14] Mae Rheoliadau 1986 yn atal unrhyw berson rhag hysbysebu, gwerthu, cyflenwi, storio neu ddefnyddio plaleiddiad oni bai bod y plaleiddiad wedi'i gymeradwyo a bod amodau penodol wedi'u bodloni.[15]

### Rhan 3 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985: meini prawf cynnwys

10.24 Mae adran 16 Deddf 1985 yn disgrifio nodau'r rheolaethau a osodir mewn perthynas â phlaleiddiaid fel a ganlyn:

(1) amddiffyn iechyd pobl, creaduriaid a phlanhigion;

(2) diogelu'r amgylchedd;

(3) sicrhau dulliau diogel, effeithlon a dyngarol o reoli plâu; a

(4) sicrhau bod gwybodaeth am blaladdwyr ar gael i'r cyhoedd.

10.25 Credwn fod Rhan 3 Deddf 1985 (sef adrannau 16 i 19) a Rheoliadau 1986 yn ymwneud ag amaethyddiaeth oherwydd nod y cyfreithiau hynny yw sicrhau mecanwaith priodol ar gyfer rheoli plâu, a fyddai fel arall yn niweidio cnydau a phlanhigion. Fodd bynnag, mae llawer o nodau eraill yn sail i'r darpariaethau hyn, fel diogelu'r amgylchedd a diogelu iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid.

10.26 Yn ein hasesiad, nid yw cymhwyso Rhan 3 Deddf 1985 a Rheoliadau 1986 yn ymarferol yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn unig nac yn bennaf. Er bod "y prif ddefnydd o blaladdwyr mewn amaethyddiaeth i sicrhau bod cnydau'n parhau'n iach"[16], mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 1985, a Rheoliadau 1986, yn ymwneud yn agosach â gosod rheolaethau ar gynhyrchu a gwerthu plaleiddiaid. Er bod y cyfreithiau dan sylw yn gosod amodau sy'n ymwneud â defnyddio plaladdwyr, maent yn amodau sy'n berthnasol drwy gydol y gadwyn gyflenwi ar gyfer plaladdwyr: yn ystod y camau cynhyrchu, hysbysebu, gwerthu a storio.

10.27 Rydym felly o'r farn bod Rhan 3 Deddf 1985, a Rheoliadau 1986, yn berthnasol i ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys:

(1) gwneuthurwyr a dosbarthwyr plaleiddiaid;

---

[13] Trosglwyddwyd swyddogaethau gweinidogol y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 16 i 18 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985 i Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018, OS 2018/1644.

[14] Cafodd Rheoliadau 1986 eu deddfu gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd cyn i'r pwerau i wneud y rheoliadau gael eu datganoli i Gymru.

[15] Rheoliadau Rheoli Plaleiddiaid 1986, OS 1986/1510, rheoliad 4.

[16] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, "Pesticide fact sheet" https://acss.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/publication/foodpestfactsh.pdf.

(2) defnyddwyr proffesiynol (er enghraifft gwasanaeth rheoli plâu);

(3) gweithwyr amaethyddol a garddwriaethol; a

(4) defnyddwyr amatur (er enghraifft mewn gerddi yn y cartref).

10.28 Ar ben hynny, mae'r amodau a'r cyfyngiadau a osodwyd o dan Ddeddf 1985 a Rheoliadau 1986 ar ddefnyddio plaleiddiaid yn ceisio:

> rheoli nid yn unig agrogemegau ond yr holl blaladdwyr o dan y cynllun rhagofalon diogelwch plaleiddiaid presennol. Mae hyn yn golygu eu bod yn ymwneud nid yn unig â chemegau a ddefnyddir ar ffermydd a gerddi ond hefyd â'r rheini a ddefnyddir mewn storfeydd bwyd, ffatrïoedd, carthffosydd, bwytai, ceginau ac ysbytai i ladd plâu a diogelu iechyd y cyhoedd, yn ogystal â'r rheini a ddefnyddir i warchod pren mewn tai ac adeiladau eraill.[17]

10.29 Mae defnyddwyr proffesiynol eraill yn cynnwys awdurdodau lleol, coedwigwyr, rheolwyr plâu a garddwyr masnachol.[18] Mae'r cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 17 Deddf 1985 yn cyfeirio at amaethyddiaeth, garddwriaeth, sefyllfaoedd amwynder a choedwigaeth fel sectorau perthnasol. Gall y sector amwynder gynnwys seilwaith trafnidiaeth, caeau chwaraeon, parciau cyhoeddus a mannau amlbwrpas.

10.30 Am y rhesymau uchod, rydym o'r farn bod Rhan 3 Deddf 1985 a Rheoliadau 1986 yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God.

### Deddfau diogelu planhigion

10.31 Yn y paragraffau canlynol, rydym yn ystyried y cyfreithiau hynny sy'n rheoli math o blaladdwyr a elwir yn “gynhyrchion diogelu planhigion”. Mae'r ymadrodd “cynhyrchion diogelu planhigion” wedi'i ddiffinio'n helaeth yn y gyfraith.[19] Yn fras, mae cynhyrchion diogelu planhigion yn fath o blaladdwyr sy'n cael eu defnyddio i ddiogelu, gwarchod neu ddylanwadu ar dwf planhigion, fel cnydau, neu i ddinistrio neu reoli twf planhigion annymunol fel chwyn.[20]

10.32 Yn yr adran ganlynol rydym yn ystyried y cyfreithiau a restrir isod.

(1) Rheoliadau Cynhyrchion Gwarchod Planhigion 2011.[21]

(2) Rheoliadau Cynhyrchion Gwarchod Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012.[22]

---

17 *Hansard* (HL), 5 Mawrth 1985, cyf 74, col 798.

18 Llywodraeth Cymru, *Plaladdwyr: cod ymarfer* (Mehefin 2010) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/plaladdwyr-cod-ymarfer_0.pdf.

19 Rheoliad y DU (CE) Rhif 1107/2009 o Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, erth 2.

20 Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, “Plant Protection Product” https://www.efsa.europa.eu/en/glossary/plant-protection-product-ppp.

21 Mae Rheoliadau Cynhyrchion Gwarchod Planhigion 2011, OS 2011/2131 yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y DU (CE) Rhif 1107/2009 o Senedd Ewrop a’r Cyngor.

22 OS 2012/1657.

(3) Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Gwarchod Planhigion) 2020.[23]

(4) Rheoliad y DU (CE) 1107/2009 ar gynhyrchion gwarchod planhigion ar y farchnad.

Gyda'i gilydd, byddwn yn cyfeirio at y cyfreithiau uchod fel y “cyfreithiau gwarchod planhigion”. Gyda'i gilydd, mae'r cyfreithiau gwarchod planhigion yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio cynhyrchion diogelu planhigion, o'u gweithgynhyrchu, hyd at eu defnydd terfynol.

### Cyfreithiau gwarchod planhigion: meini prawf cynnwys

10.33 Defnyddir cynhyrchion gwarchod planhigion yn y sector amaethyddol i warchod cnydau, ac felly gellir dweud bod y cyfreithiau hynny sy'n rheoleiddio cyflenwi a defnyddio cynhyrchion o'r fath yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Ar yr un pryd, nod y cyfreithiau gwarchod planhigion yw cydbwyso'r manteision y gall cynhyrchion gwarchod planhigion eu cynnig i gynhyrchu amaethyddol yn erbyn yr angen i ddiogelu rhag y niwed posibl a all ddeillio o ddefnyddio cynhyrchion o'r fath. Er enghraifft, nodir mai pwrpas Rheoliad y DU (CE) 1107/2009 ar gynhyrchion gwarchod planhigion yw “sicrhau lefel uchel o amddiffyniad i iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd”.[24]

10.34 Ar ben hynny, mae'r cyfreithiau gwarchod planhigion yn eang eu cwmpas. Er bod rhai darpariaethau penodol sy'n mynd i'r afael â defnyddio cynhyrchion gwarchod planhigion,[25] mae llawer o ddarpariaethau hefyd yn ymdrin â chymeradwyo, gweithgynhyrchu, dosbarthu, marchnata a chyflenwi cynhyrchion o'r fath.[26] Mae hyn yn golygu bod y cyfreithiau gwarchod planhigion yn berthnasol i ddiwydiannau (fel gweithgynhyrchwyr plaleiddiad) na fyddent yn cael eu cwmpasu gan ein hystyr arfaethedig o amaethyddiaeth fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

10.35 Ar ben hynny, nid ffermwyr yw'r unig rai sy'n defnyddio cynnyrch gwarchod planhigion sy'n ddarostyngedig i'r cyfreithiau gwarchod planhigion. Gellir defnyddio cynhyrchion gwarchod planhigion hefyd yn y sector coedwigaeth, mewn ardaloedd amwynder ac ar feysydd chwaraeon.[27]

10.36 Gan ystyried hyn ynghyd â'r ffaith bod y cyfreithiau hyn hefyd yn cwmpasu camau cynharach yn y broses gynhyrchu (fel gweithgynhyrchu), rydym o'r farn nad oes gan y ddeddfwriaeth dan sylw gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag

---

23 OS 2020/552.

24 Rheoliad y DU (CE) Rhif 1107/2009 o Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, erth 1.

25 Gweler, er enghraifft, reoliad 12 Rheoliadau Cynhyrchion Gwarchod Planhigion 2011, OS 2011/2131 a rheoliadau 8 a 10 Rheoliadau Cynhyrchion Gwarchod Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2012, OS 2012/1657.

26 Gweler, er enghraifft, y gofynion a osodir o dan reoliadau 16 a 17 Rheoliadau Cynhyrchion Planhigion 2011, OS 2011/2131, a Rheoliad y DU (CE) Rhif 1107/2009 o Senedd Ewrop a’r Cyngor ynghylch rhoi cynhyrchion gwarchod planhigion ar y farchnad, erth 65 a 66.

27 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac eraill, *Pesticides Code of practice for using plant protection products* (2006) t 18.

amaethyddiaeth. Felly, rydym o'r farn nad yw'r cyfreithiau gwarchod planhigion yn bodloni ein meini prawf cynnwys, ac o ganlyniad eu bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God. Yn gyffredinol, nid ydym o'r farn bod cyfiawnhad tra phwysig dros gynnwys y ddeddfwriaeth sy'n rheoli plaladdwyr yn y darpar God. Er bod cynhyrchion gwarchod planhigion yn chwarae rhan bwysig mewn ffermio, yn y pen draw maent yn chwarae rhan bwysig mewn cyd-destunau eraill.

### Cyfraith gwrtaith

10.37 Mae gwrtaith yn ddeunydd - yn naturiol neu'n synthetig - sy'n ceisio gwella tyfiant planhigion. Yn aml, nid yw'r pridd a ddefnyddir i dyfu cnydau yn cynnwys digon o faetholion, felly mae gwrtaith yn digolledu am y diffyg hwn. Er bod eu ffurf ffisegol yn gallu amrywio (slyrïau, pelenni neu bowdrau), gall ffynonellau gwrtaith amrywio hefyd.

10.38 Mae gwrteithiau'n chwarae rhan hollbwysig yn y sector amaethyddol; "yn 2015, roedd dros 50% o boblogaeth y byd yn cael eu bwydo â chnydau a dyfwyd gyda gwrteithiau artiffisial".[28]

10.39 Felly, rydym o'r farn ei bod yn bwysig asesu'r deddfau sy'n rheoli gwrteithiau i benderfynu a allai'r ddeddfwriaeth dan sylw fod yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Yn yr un modd â'r gyfraith ar blaleiddiaid, mae'r cwestiwn a yw'r gyfraith yn bennaf yn llywodraethu gweithgynhyrchu a chynhyrchu gwrteithiau yn hytrach na'u defnydd terfynol, yn ganolog i'n hasesiad.

10.40 Mae nifer o gyfreithiau sy'n rheoli gwrteithiau, o'u cyfansoddiad i'w defnydd. Yn gryno:

(1) Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth 1970.

(2) Rheoliadau Gwrteithiau 1991.[29]

(3) Rheoliadau Gwrteithiau (Samplu a Dadansoddi) 1996.[30]

(4) Rheoliadau Diogelwch Deunydd Amoniwm Nitrad (Cynnwys Nitrogen Uchel) 2003.[31]

(5) Rheoliadau Gwrteithiau CE (Cymru a Lloegr) 2006.[32]

(6) Rheoliadau Cynhyrchion Gwrteithio 2020.[33]

(7) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru).[34]

---

28 Swyddfa Seneddol y DU ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, "The future of fertiliser use" (Ionawr 2024) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0710/POST-PN-0710.pdf, 3.

29 OS 1991/2197.

30 OS 1996/1342.

31 OS 2003/1082.

32 OS 2006/2486.

33 Mae Rheoliadau Cynhyrchion Gwrteithio 2020, OS 2020/887 yn gweithredu Rheoliad y DU (CE) Rhif 2003/2003 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â gwrteithiau ym Mhrydain Fawr.

34 OS 2021/77 (Cy 20).

(8) Rheoliad y DU (CE) 2019/1009 ar farchnata cynhyrchion gwrtaith yr UE.

10.41 Nid ydym yn bwriadu asesu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn y bennod hon oherwydd rydym yn eu hystyried ym Mhennod 7.

10.42 Ar gyfer gweddill y cyfreithiau a restrir, bwriadwn eu hasesu yn erbyn y meini prawf cynnwys mewn dau grŵp. Y cyntaf yw Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth 1970 a'i his-ddeddfwriaeth.

### Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth 1970 ac is-ddeddfwriaeth

10.43 Mae Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth 1970 (“Deddf 1970”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwrteithiau a bwyd anifeiliaid. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod rheolaethau ar gyfansoddiad, cynnwys, swyddogaeth, labelu a phecynwaith gwrtaith a bwyd anifeiliaid pan fyddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.[35] Mae Rhan 4 Deddf 1970 hefyd yn gosod rhwymedigaethau ar werthwyr gwrteithiau a bwyd anifeiliaid. Mae hefyd yn darparu ar gyfer samplu a dadansoddi gwrteithiau.

10.44 Cafodd Rheoliadau Gwrteithiau 1991 a Rheoliadau Gwrteithiau (Samplu a Dadansoddi) 1996 eu deddfu o dan Ddeddf 1970. Ymhlith materion eraill, maent yn rheoleiddio labelu, pecynnu a samplo gwrtaith a weithgynhyrchwyd yn y DU. Mae dadansoddi samplau a gymerir o dan Reoliadau Gwrteithiau (Samplu a Dadansoddi) 1996 i'w wneud gan ddadansoddwr amaethyddol.

### Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth 1970 ac is-ddeddfwriaeth: meini prawf cynnwys

10.45 Mae gwrteithiau'n cael eu hystyried yn rhan bwysig o'r sector amaethyddol. Mae gwrteithiau o ansawdd uchel yn helpu i wella cynnyrch cnydau.[36] Ar ben hynny, fel y cydnabuwyd yn y ddadl ynghylch y Bil Amaethyddiaeth ym 1970, mae'r darpariaethau ynghylch gwrtaith yn sicrhau bod “prynwyr gwrteithiau a bwydydd anifeiliaid [yn cael] gwybodaeth gywir”.[37] Ond mae Rhan 4 Deddf 1970 yn cyflawni nodau eraill, fel diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Rhagwelwyd hefyd y byddai Rhan 4 Deddf 1970 yn “cynyddu diogelwch defnyddwyr yn sylweddol mewn perthynas â'r ddau nwydd [ffermio] pwysig hyn”.[38]

10.46 “Defnyddwyr gwrtaith” yw ffermwyr.[39] Hyd y gwyddom, fodd bynnag, nid yw ffermwyr yn aml yn chwarae rhan yn y gwaith o weithgynhyrchu, pecynnu a dosbarthu gwrtaith. Fel defnyddwyr gwrteithiau, mae rhai darpariaethau deddfwriaethol y mae'n rhaid i ffermwyr gydymffurfio â hwy. Gall y rhain gynnwys rheoliadau 2 i 4 Rheoliadau

---

35 Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 74A. Trosglwyddwyd y swyddogaethau gweinidogol a roddwyd o dan adran 74A Deddf Amaethyddiaeth 1970, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

36 Swyddfa Seneddol y DU ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, “The future of fertiliser use” (Ionawr 2024) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0710/POST-PN-0710.pdf, 3.

37 *Hansard* (HL), 21 Ebrill 1970, cyf 309, col 626.

38 *Hansard* (HL), 21 Ebrill 1970, cyf 309, col 626.

39 *Hansard* (HL), 21 Ebrill 1970, cyf 309, col 619.

Gwrteithiau (Samplu a Dadansoddi) 1996, sy'n nodi'r dull o gymryd ac anfon sampl o wrteithiau.

10.47 Er nad ydym wedi gallu dod o hyd i ystadegyn ar ganran y ffermwyr sy'n defnyddio gwrtaith yng Nghymru, cawn ein harwain gan y ffaith bod gwrtaith yn cael ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o fathau o ffermio. Nid ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer ffermio cnydau yn unig, ond hefyd ar laswellt sy'n bwydo da byw. Ein dealltwriaeth ni yw bod defnyddio gwrtaith felly'n gyffredin ar draws ffermydd yng Nghymru, er mai ffermio da byw yw'r math mwyaf cyffredin o ffermio.[40]

10.48 Fel y trafodwyd uchod mewn perthynas â phlaladdwyr, mae amrywiaeth ehangach o randdeiliaid - ar wahân i ffermwyr - a fydd angen cydymffurfio â'r maes cyfraith hwn. Gall y rhain gynnwys cwmnïau cemegol, gwneuthurwyr gwrtaith a chwmnïau sy'n gyfrifol am becynnu a dosbarthu. O ystyried hyn, mae'n anodd dod i'r casgliad bod gan gyfreithiau gwrtaith gwmpas neu gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Rydym o'r farn y gallai dadansoddiad tebyg i'r hyn a ddefnyddir gyda chyfreithiau plaleiddiaid fod yn berthnasol yma. Mae'n ymddangos bod y cyfreithiau'n canolbwyntio ar y camau cynharach hynny, sef cynhyrchu a gwerthu gwrteithiau. Nid yw'r diwydiannau sy'n cynhyrchu ac yn dosbarthu gwrteithiau yn cyd-fynd yn union â'n dealltwriaeth o amaethyddiaeth, na'r gweithgareddau ategol hynny a nodir yn adran 52 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Ar y sail hon, rydym o'r farn dros dro nad yw'r tair deddf hyn yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Cyfraith gwrtaith arall

10.49 Yn yr un modd â'r ddwy ddeddf a ystyrir uchod, mae gweddill y cyfreithiau gwrtaith a restrir ym mharagraff 10.39 uchod yn rheoleiddio pob agwedd ar wrtaith, o'i becynwaith i orfodi'r gyfraith gan Weinidogion Cymru.

### Cyfraith gwrtaith arall: meini prawf cynnwys

10.50 Mae cyfraith gwrtaith yn ymwneud ag amaethyddiaeth i raddau, oherwydd mae'n ceisio sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn darparu gwrteithiau diogel ac effeithlon a all wella cynnyrch amaethyddol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod mewn perthynas â Rheoliadau Gwrteithiau 1991 a Rheoliadau Gwrteithiau (Samplu a Dadansoddi) 1996, mae iechyd pobl a diogelu'r amgylchedd hefyd yn amcanion allweddol.

10.51 Efallai y bydd angen i lawer o randdeiliaid gydymffurfio â'r cyfreithiau hyn. Mae ffermwyr yn defnyddio gwrtaith, ac eto mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynhyrchu, pecynnu, labelu a marchnata gwrteithiau.

10.52 Mae'n ymddangos yn annhebygol y gellir dweud bod y cwmnïau hynny sy'n gweithgynhyrchu ac yn dosbarthu gwrtaith yn rhan o'r sector amaethyddol, yn enwedig o'u hystyried yng nghyd-destun y diffiniad o amaethyddiaeth fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 51 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae yr un mor anodd categoreiddio gwrtaith fel gweithgaredd ategol i amaethyddiaeth. Mae adran 52 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn diffinio gweithgaredd ategol fel gweithgaredd a gyflawnir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu werthu, marchnata, paratoi,

40 Gweler Pennod 1 am drafodaeth fanylach ar ffermio yng Nghymru.

pecynnu, prosesu neu ddosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth. Felly, gall fod yn fwy cywir ystyried y diwydiant gwrtaith fel un sy'n ategu amaethyddiaeth, ac sy'n cefnogi'r sector.

10.53 Nid yw'n ymddangos bod y cyfreithiau gwrtaith yn bodloni ein meini prawf ar gyfer eu cynnwys, ac nid ydym wedi canfod unrhyw gyfiawnhad tra phwysig dros gynnwys y cyfreithiau hyn yn y darpar God serch hynny. Er ein bod yn ystyried ym Mhennod 6 bod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn addas i'w cynnwys yn y darpar God, ein hasesiad yw bod natur y ddeddfwriaeth hon yn wahanol iawn i'r cyfreithiau hynny sy'n cael eu hystyried yn yr adran hon. Mae modd rhannu'r ddeddfwriaeth ar wrtaith yn ddau gategori: “mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfansoddiad gwrtaith artiffisial, gweithdrefnau labelu a samplo a dadansoddi” a deddfwriaeth sydd â'r “nod o leihau effaith gwrtaith ar yr amgylchedd”.[41] Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn perthyn i’r ail gategori hwn, tra bod y cyfreithiau gwrtaith hynny rydym yn eu hystyried yn y bennod hon yn perthyn yn fwy priodol i'r categori cyntaf. O ystyried natur amrywiol y ddau gategori hyn o gyfreithiau, mae eithrio'r cyfreithiau gwrtaith hyn yn annhebygol o ddarnio'r gyfraith yn ormodol yn y maes hwn.

### Casgliad ar gyfraith gwrtaith

10.54 Yn yr adran hon, rydym wedi dod i'r casgliad petrus bod cyfraith gwrtaith yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn yn bennaf oherwydd ei bod yn ymddangos bod cyfraith gwrtaith yn ymwneud yn bennaf â gosod rheolaethau ar gynhyrchu a labelu gwrteithiau ac i raddau llai â defnyddio gwrteithiau. Mae ein casgliad bod y gyfraith ar blaleiddiaid yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God yn cael ei atgyfnerthu gan y ffaith bod plaladdwyr yn cael eu defnyddio'n eang y tu allan i'r cyd-destun amaethyddol. Felly, bydd y gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â defnydd terfynol plaleiddiaid yn berthnasol i sectorau gan gynnwys amaethyddiaeth, ond sy’n ymestyn y tu hwnt i hynny.

10.55 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i wybodaeth nac ystadegau sy'n dangos pa mor eang y defnyddir gwrteithiau y tu allan i'r cyd-destun amaethyddol. Os yw gwrteithiau'n cael eu defnyddio'n eang y tu allan i'r cyd-destun amaethyddol, yna rydym o'r farn y byddai hyn yn atgyfnerthu ein casgliad bod y gyfraith ar wrtaith yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Ar y llaw arall, os yw tystiolaeth yn dangos bod gwrtaith yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn y cyd-destun amaethyddol, yna gallai hyn gefnogi casgliad gwahanol.

## Cyfraith porthiant

### Cyflwyniad

10.56 Yn yr adran ganlynol byddwn yn defnyddio'r term “porthiant” i ddisgrifio'r bwyd sy'n cael ei ddarparu i anifeiliaid, gan gynnwys da byw. Cyfraith porthiant yw'r gyfraith sy'n berthnasol i gynhyrchu a defnyddio porthiant. Mae rhai cyfreithiau porthiant sy'n berthnasol i borthiant a ddarperir i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd yn unig (fel da

---

41 Swyddfa Seneddol y DU ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, “The future of fertiliser use” (Ionawr 2024) https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0710/POST-PN-0710.pdf, 8.

byw).[42] Mae cyfreithiau eraill yn berthnasol i borthiant a roddir i gategori ehangach o anifeiliaid, gan gynnwys anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, fel anifeiliaid anwes.[43] Mae cyfraith porthiant yn ymwneud yn bennaf â rheoleiddio diogelwch bwyd anifeiliaid a sicrhau bod defnyddwyr yn cael digon o wybodaeth gywir i lywio'r broses o brynu cynhyrchion porthiant.

10.57 Bydd y rhan fwyaf o gyfraith porthiant yn berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi, o gynhyrchu cynradd i ddefnyddio porthiant. Mae cyfraith porthiant yn cynnwys cyfraith a gymathwyd: cyfraith a ddeilliodd o'r UE, ac sydd wedi'i hymgorffori mewn cyfraith ddomestig. Mae hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth ddomestig sydd, mewn llawer o achosion, wedi gweithredu deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE. Isod ceir tabl o'r ddeddfwriaeth porthiant allweddol sy'n berthnasol yng Nghymru.

Tabl 1: deddfwriaeth porthiant allweddol sy'n berthnasol yng Nghymru

| DEDDFWRIAETH | CRYNODEB |
|---|---|
| **Deddfwriaeth a gymathwyd** | |
| **Rheoliad y DU (CE) Rhif 178/2002 ar egwyddorion cyfraith bwyd a phorthiant** | Mae'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd. Mae'n darparu ar gyfer diogelwch bwyd a diogelu buddiannau defnyddwyr. Mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, mae'r rheoliad yn darparu na chaiff bwyd anifeiliaid a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ei roi ar y farchnad na'i fwydo i unrhyw anifail sy'n cynhyrchu bwyd os yw'n anniogel. Mae'n gorfodi gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid i sicrhau bod bwydydd anifeiliaid yn bodloni gofynion cyfraith diogelwch bwyd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer gofynion marchnata a chyflwyno a gofynion o ran y gallu i olrhain. |
| **Rheoliad y DU (CE) Rhif 183/2005 sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid** | Mae'n gosod rheolau cyffredinol ynghylch hylendid bwyd anifeiliaid, yn gosod gofynion sy'n ymwneud â'r gallu olrhain bwyd anifeiliaid, yn gosod gofynion cofrestru ar gyfer busnesau bwyd anifeiliaid ac yn gosod rhwymedigaethau ar ffermwyr wrth fwydo anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd (gweler erthygl 4(2)). Mae ond yn gymwys i fwyd anifeiliaid a ddarperir i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd (gweler erthygl 2). |
| **Rheoliad y DU (CE) Rhif 767/2009 ar gysoni'r amodau ar gyfer marchnata a defnyddio porthiant** | Mae'r rheoliad yn darparu mai dim ond os yw porthiant yn ddiogel ac nad yw'n cael effaith andwyol uniongyrchol ar yr amgylchedd neu les anifeiliaid y caniateir ei roi ar y farchnad (erthygl 4). O ganlyniad, mae'n nodi gofynion sy'n ymwneud â marchnata, labelu a chyfansoddiad porthiant. Mae'n gymwys i borthiant a ddarperir i |

[42] Rheoliad y DU (CE) Rhif 183/2005 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.

[43] Rheoliad y DU (CE) Rhif 767/2009 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gysoni'r amodau ar gyfer rhoi porthiant ar y farchnad a'i ddefnyddio.

| | |
|---|---|
| | anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd gan gynnwys anifeiliaid gwyllt (gweler erthygl 2). |
| **Rheoliad y DU (CE) 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid** | Mae'r rheoliad yn gosod cyfyngiadau mewn perthynas â chyfansoddiad porthiant: yn benodol mewn perthynas â defnyddio ychwanegion. Mae'n gosod gofynion awdurdodi ar gyfer defnyddio ychwanegion mewn porthiant a gofynion sy'n ymwneud â labelu a phecynnu. |
| **Rheoliad y DU (CE) 1829/2003 ar fwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig** | Mae'n sefydlu gweithdrefn ar gyfer awdurdodi organeddau a addaswyd yn enetig a bwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig. Mae'n gymwys i borthiant a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid eraill nas cedwir at ddibenion cynhyrchu bwyd (gweler paragraff 8 o'r rhagymadrodd). |
| **Rheoliad y DU (UE) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r ffyrdd y bwriedir defnyddio bwyd anifeiliaid** | Mae'n darparu ar gyfer gofynion marchnata sy'n gymwys i fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol. |
| **Deddfwriaeth genedlaethol** | |
| **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 (“Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid 2016”)[44]** | Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a gymathwyd gan gynnwys Rheoliad y DU (CE) Rhif 178/2002, Rheoliad y DU (CE) Rhif 1829/2003, Rheoliad y DU (CE) Rhif 1831/2003 a Rheoliad y DU (CE) Rhif 767/2009. Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid 2016 yn ei gwneud yn drosedd methu â chydymffurfio â gofynion bwyd anifeiliaid penodol fel y'u gosodwyd gan Reoliadau'r DU a nodwyd uchod. Maent hefyd yn gweithredu Cyfarwyddeb 2002/32/CE drwy ei gwneud yn drosedd rhoi ar y farchnad neu ddefnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid sy'n cynnwys sylweddau annymunol penodedig. |
| **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc a Gorfodi) (Cymru) 2016 (“Rheoliadau 2016”)[45]** | Mae Rheoliadau 2016 yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu Rheoliadau penodol yr UE ar gyfraith bwyd anifeiliaid sydd bellach yn rhan o'n deddfwriaeth ddomestig fel cyfraith a gymathwyd: Rheoliad y DU (CE) Rhif 183/2005, Rheoliad Comisiwn y DU (CE) Rhif 152/2009 a Rheoliad y DU (CE) Rhif 882/2004. |

44 OS 2016/386 (Cy 120).

45 OS 2016/387 (Cy 121).

| | |
|---|---|
| **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010**[46] | Diddymwyd yn bennaf ar wahân i ddiwygiadau i Ddeddf Amaethyddiaeth 1970. |
| **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Cymru) 2018**[47] | Mae'r rheoliadau hyn yn gosod cyfyngiadau i atal ychwanegu sylweddau ymbelydrol at fwyd anifeiliaid. Mae'n darparu na chaiff neb ychwanegu sylweddau ymbelydrol yn fwriadol at fwyd anifeiliaid ac yn cyfyngu ar fewnforio bwyd anifeiliaid y mae sylwedd ymbelydrol wedi cael ei ychwanegu ato wrth gynhyrchu. |
| **Rheoliadau Porthiant 2000, rheoliadau 11 a 12**[48] | Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am awdurdodiadau ar gyfer ychwanegion. |
| **Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2001**[49] | Diddymwyd bron yn gyfan gwbl. |
| **Rhan 4 Deddf Amaethyddiaeth 1970** | Mae'n gosod dyletswyddau ar werthwyr porthiant i ddarparu datganiad statudol sy'n cynnwys manylion penodol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â sylwedd, ansawdd neu natur y porthiant. Mae hefyd yn gwneud darpariaethau ar gyfer samplu a dadansoddi bwydydd anifeiliaid. |

### Cyfraith porthiant: meini prawf cynnwys

10.58 Oherwydd swmp y gyfraith dan sylw, ni fu'n bosibl cymhwyso ein meini prawf cynnwys i bob darn o ddeddfwriaeth diogelwch porthiant a restrir yn y tabl uchod. Yn hytrach, rydym yn cynnig defnyddio dull lefel uchel gan gymhwyso ein meini prawf yn erbyn yr egwyddorion a'r gofynion eang y darperir ar eu cyfer o dan y cyfreithiau porthiant sy'n berthnasol yng Nghymru.

10.59 Gyda'i gilydd, mae'r ddeddfwriaeth diogelwch porthiant a restrir yn nhabl 1 yn darparu ar gyfer materion diogelwch porthiant, gan gynnwys y rheini a amlinellir isod.

(1) Safonau hylendid a diogelwch sy'n gymwys i gynhyrchu, storio a chludo porthiant.

(2) Safonau a gofynion sy'n gymwys i farchnata, labelu a chyfansoddiad bwyd anifeiliaid.

---

[46] OS 2010/2652 (Cy 220).

[47] OS 2018/40 (W 12).

[48] OS 2000/2481.

[49] OS 2001/343 (W 15).

(3) Safonau a chyfyngiadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad porthiant yn gyffredinol ac â chategorïau penodol o borthiant (er enghraifft, porthiant organig).

(4) Gofynion cofrestru sy'n berthnasol i fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu a phrosesu cynhyrchion porthiant.

10.60 Gyda'i gilydd, mae'r gofynion deddfwriaethol hyn yn sicrhau bod porthiant yn ddiogel ac felly'n diogelu iechyd pobl, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd.[50] Mae cyfraith porthiant hefyd yn diogelu buddiannau defnyddwyr: gan sicrhau bod y rheini sy'n prynu porthiant yn cael digon o wybodaeth i hysbysu eu pryniant.

10.61 Gellir dweud bod cyfraith porthiant yn ymwneud ag amaethyddiaeth i'r graddau bod porthiant diogel yn helpu i ddiogelu iechyd da byw a bod da byw iach yn hanfodol i gynhyrchiant ac enw da'r sector amaethyddol. Mae cyfraith porthiant hefyd yn diogelu buddiannau ffermwyr fel defnyddwyr, fel prynwyr cynnyrch porthiant. Rydym felly o'r farn bod cyfraith porthiant yn ymwneud ag amaethyddiaeth ond hefyd â phynciau ehangach gan gynnwys diogelu iechyd anifeiliaid, iechyd pobl a'r amgylchedd.

10.62 Mae cyfreithiau porthiant yn gosod gofynion sy'n berthnasol i ffermydd. Er enghraifft, bydd gofynion cyfraith porthiant yn berthnasol i'r ffermydd hynny sy'n cynhyrchu bwyd at eu defnydd eu hunain ac i'r ffermydd hynny sy'n cynhyrchu bwyd i'w werthu ar y farchnad. Ar ben hynny, bydd rhai gofynion cyfraith porthiant yn berthnasol i ffermwyr sy'n prynu porthiant yn hytrach na'i gynhyrchu. Er enghraifft, mae erthygl 4(2) Rheoliad y DU 183/2005 ar hylendid bwyd anifeiliaid yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr, wrth fwydo da byw, gymryd camau a mabwysiadu gweithdrefnau i leihau'r risg o halogi porthiant.

10.63 Mae gofynion cyfraith porthiant hefyd yn berthnasol i'r busnesau hynny sy'n gweithredu drwy'r gadwyn gyflenwi porthiant: er enghraifft, gweithgynhyrchwyr, proseswyr, busnesau pecynnu a labelu ac adwerthwyr ac ati. Ar ben hynny, mae rhai cyfreithiau porthiant hefyd yn berthnasol i borthiant sy'n cael ei ddarparu i anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd fel anifeiliaid anwes;[51] er bod y safonau sy'n berthnasol i borthiant da byw fel arfer yn fwy llym na'r rheini sy'n berthnasol i borthiant anifeiliaid anwes.

10.64 Nid yw cyfraith porthiant yn bodloni'n llawn ein meini prawf i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Yn unol â hynny, rydym yn ystyried yn betrus bod cyfraith porthiant yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God. Rydym yn cydnabod y gallai asesiad manylach o'r darnau unigol o ddeddfwriaeth porthiant arwain at sefyllfa llai pendant.

10.65 Beth bynnag, rydym yn cydnabod bod y dadleuon dros gynnwys cyfraith porthiant yn y darpar God yn gytbwys iawn. Mae cyfraith porthiant yn rheoleiddio cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio i roi maeth i dda byw. Mae'r deunyddiau crai y cynhyrchir porthiant ohonynt yn cael eu cynhyrchu ar y fferm yn bennaf. Ceir hefyd ffermydd sy'n cynhyrchu porthiant i'w werthu neu at eu defnydd eu hunain. Ar ben hynny, mae rhai

---

[50] Gall rhai ychwanegion a ddefnyddir mewn porthiant anifeiliaid beri risg i'r amgylchedd.

[51] Gweler yr enghreifftiau a gyflwynir yn y tabl ym mharagraff 10.57 y bennod hon.

cyfreithiau porthiant yn gosod gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â diogelwch porthiant y mae'n rhaid i ffermwyr gydymffurfio â nhw wrth fwydo da byw ar fferm.

10.66 Ar y llaw arall, mae dadleuon sy'n anghyson â'i gilydd dros ddod i'r casgliad bod cysylltiad agosach rhwng cyfraith diogelwch porthiant a'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu diogelwch bwyd i'w fwyta gan bobl. Yn benodol, mae gan rai o'r cyfreithiau porthiant a ystyrir gylch gwaith sy'n ymestyn i ddiogelwch bwyd. Er enghraifft, mae Rheoliad y DU (CE) Rhif 178/2002 ar egwyddorion cyfraith bwyd a phorthiant yn gwneud darpariaeth ar gyfer diogelwch bwyd i'w fwyta gan bobl a diogelwch porthiant. Yn ogystal, mae'r un awdurdod cyhoeddus - yr Asiantaeth Safonau Bwyd - yn gyfrifol yng Nghymru am ddatblygu polisi sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a phorthiant, ac am orfodi'r gyfraith sy'n ymwneud â'r ddau fater.[52]

## Cyfraith bridio a ffrwythloni artiffisial

### Deddf Amaethyddiaeth (Ffrwythloni Artiffisial) 1946

10.67 Mae Deddf Amaethyddiaeth (Ffrwythloni Artiffisial) 1946 ("Deddf 1946") yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ariannu ymchwil ac arbrofion i ffrwythloni da byw yn artiffisial.[53]

### Deddf Amaethyddiaeth (Ffrwythloni Artiffisial) 1946: meini prawf cynnwys

10.68 Gall ffrwythloni da byw yn artiffisial helpu ffermwyr da byw i reoli bridio, gwella nodweddion genetig, ac atal trosglwyddo clefydau a allai ddigwydd drwy baru naturiol.[54] Rydym felly o'r farn bod pwerau Gweinidogion Cymru i ariannu ymchwil neu arbrofion i ffrwythloni da byw yn artiffisial yn ymwneud ag amaethyddiaeth. At hynny, mae cwmpas y pwerau o dan adran 1 Deddf 1964 wedi'u cyfyngu i ariannu ymchwil neu arbrofion sy'n ymwneud â ffrwythloni artiffisial yn y cyd-destun amaethyddol. Felly, rydym o'r farn bod cymhwyso'r pwerau'n ymarferol wedi'i gyfyngu i amaethyddiaeth. Ar yr amod bod y pwerau'n parhau i fod o ddefnydd ymarferol, rydym o'r farn bod adran 1 Deddf 1946 yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### Rheoleiddio ffrwythloni da byw yn artiffisial: Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig

10.69 Mae adran 10 Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau ar gyfer rheoli'r arfer o fridio da byw yn artiffisial.[55] Rhestrir y brif is-ddeddfwriaeth a ddeddfwyd o dan adran 10 Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984 yn y tabl isod (tabl 2).

---

52 Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi ynghylch safonau iechyd maethol a labelu.

53 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

54 MarNat StudySpace, "Artificial insemination in livestock production: a complete guide" (2025) https://mnathall.com/artificial-insemination-in-livestock-production-a-complete-guide/.

55 Trosglwyddwyd y swyddogaethau dan sylw i Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Tabl 2: is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys i ffrwythloni da byw yn artiffisial

| IS-DDEDDFWRIAETH FFRWYTHLONI ARTIFFISIAL | CRYNODEB |
|---|---|
| **Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (CEE) 1992[56]** | Mae'n darparu na chaiff neb gasglu, prosesu, storio na chludo at ddibenion allforio i aelod-wladwriaeth unrhyw semen moch onid yw'n cydymffurfio â gofynion iechyd anifeiliaid penodol a osodwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 90/429/CEE. |
| **Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008[57]** | Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer trefn drwyddedu ar gyfer canolfannau semen buchol, cymeradwyo bucholion y caniateir casglu semen oddi wrthynt ac ar gyfer gofynion sy'n ymwneud â chasglu, cludo a storio semen buchol. Tra bu'r DU yn aelod o'r UE, roedd y rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2003/43/CE. |
| **Rheoliadau Embryo Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995[58]** | Mae'n darparu ar gyfer system gymeradwyo ar gyfer casglu, cynhyrchu a throsglwyddo embryonau buchol ac yn gosod gofynion sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny. |

## Meini prawf cynnwys

10.70 Fel yr amlinellwyd uchod, adroddir bod ffrwythloni da byw yn artiffisial yn helpu ffermwyr da byw i reoli bridio, gwella nodweddion genetig, ac atal trosglwyddo clefydau a allai ddigwydd drwy baru naturiol.[59] Ar ben hynny, mae'r rheolaethau a'r gofynion a osodir o dan y cyfreithiau dan sylw yn lleihau'r risgiau o glefydau anifeiliaid a all fod yn gysylltiedig ag arferion semenu artiffisial.[60] Felly, gellir dweud bod deddfau sy'n cefnogi neu'n hwyluso ffrwythloni artiffisial, neu'n rheoleiddio arferion diogel, yn ymwneud ag amaethyddiaeth, ond hefyd â chyfres ehangach o bynciau gan gynnwys diogelu iechyd anifeiliaid ac iechyd pobl.

10.71 Gall ffermwyr neu filfeddygon ffrwythloni da byw yn artiffisial. Gellir ymgymryd â phroses ffrwythloni o'r fath mewn cyfleusterau allanol hefyd. Deallwn, fodd bynnag, fod ffrwythloni da byw yn artiffisial yn cael ei wneud yn bennaf i wasanaethu'r diwydiant ffermio da byw. Felly, rydym o'r farn bod gan y gyfraith ar ffrwythloni artiffisial gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

56 OS 1992/3161.

57 OS 2008/1040 (Cy 110).

58 OS 1995/2478.

59 MarNat StudySpace, “Artificial insemination in livestock production: a complete guide” (2025) https://mnathall.com/artificial-insemination-in-livestock-production-a-complete-guide/.

60 Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008, OS 2008/1040 (Cy 110).

10.72 Ein hasesiad ni yw bod y dadleuon dros gynnwys y gyfraith ar ffrwythloni da byw yn artiffisial yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gytbwys iawn. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y gyfraith ar ffrwythloni da byw yn artiffisial - yn ei hanfod - yn ymwneud â diogelu iechyd anifeiliaid ac atal clefydau anifeiliaid rhag lledaenu. Ym Mhennod 7, rydym yn dod i'r casgliad bod y gyfraith ar iechyd anifeiliaid yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Felly, yn unol â'n safbwynt ar gyfraith iechyd anifeiliaid yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y gyfraith ar ffrwythloni da byw yn artiffisial - fel y rhestrir ym mharagraff 10.69 uchod - yn addas i'w chynnwys yn y darpar God.

## Cyfreithiau sootechnegol

10.73 Mae cyfreithiau sootechnegol yn llywodraethu bridio a masnachu rhywogaethau o anifeiliaid bridiau pur penodol a'u cynhyrchion cenhedlol (er enghraifft, semen ac embryonau). O dan ddeddfau sootechnegol, gall sefydliadau wneud cais i fod yn gymdeithas neu'n sefydliad brîd sy'n cael ei gydnabod yn swyddogol ac sy'n caniatáu iddynt fasnachu'n rhyngwladol ar delerau a ffefrir. Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys i fridiau pur o geffylau, gwartheg, geifr, defaid a moch. Rhestrir y prif ddeddfau sootechnegol sy'n berthnasol i dda byw yng Nghymru isod.

(1) Rheoliad y DU (UE) 2016/1012 ar amodau sootechnegol ac achyddol ar gyfer bridio a masnachu anifeiliaid bridiau pur ("y Rheoliad Bridio Anifeiliaid").[61] Mae'r Rheoliad Bridio Anifeiliaid yn darparu ar gyfer cyfundrefn sootechnegol wirfoddol sy'n hwyluso masnach mewn anifeiliaid brîd pur o rywogaethau penodol a'u cynhyrchion cenhedlol.[62]

(2) Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Cymru) 2018.[63] Mae Rheoliadau Sootechnegol 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r Rheoliad Bridio Anifeiliaid. Mae'n darparu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am orfodi.

Gyda'n gilydd, byddwn yn cyfeirio at y cyfreithiau sydd wedi'u rhestru uchod fel y "cyfreithiau sootechnegol".

### Meini prawf cynnwys

10.74 Mae'r cronicliad i'r Rheoliad Bridio Anifeiliaid yn datgan:

> Mae aelod-wladwriaethau wedi ymdrechu'n gyson i hybu cynhyrchu da byw sydd â nodweddion genetig penodol. ... Drwy ddethol a bridio, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu nodweddion sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant anifeiliaid fferm, gan arwain at gostau cynhyrchu is ar lefel fferm.

10.75 Rydym o'r farn bod y cyfreithiau sootechnegol yn ymwneud ag amaethyddiaeth i'r graddau eu bod yn hwyluso bridio da byw bridiau pur gyda nodweddion sy'n cael eu hystyried yn ffafriol mewn cyd-destun amaethyddol. Mae'r gyfundrefn sootechnegol yn

---

61 Cafodd Erthygl 64(3) Rheoliad y DU (UE) 2016/1012 ar amodau sootechnegol ac achyddol ar gyfer bridio, masnachu a mynediad i'r Undeb anifeiliaid bridiau pur, moch bridio hybrid a chynhyrchion cenhedlol hynny ei dirymu gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, adrannau 1 ac Atodlen 1.

62 Llywodraeth Cymru, *Rheolau a safonau sootechnegol* (Ionawr 2021) https://www.llyw.cymru/rheolau-safonau-sootechnegol.

63 OS 2018/1152 (Cy 234).

berthnasol yn bennaf i fridio anifeiliaid sy'n cael eu cadw fel arfer fel da byw: gwartheg, moch, geifr a defaid. Fodd bynnag, mae'r gyfundrefn hefyd yn berthnasol i fridio rhywogaethau ceffylaidd (er enghraifft, ceffylau) nad ydynt fel arfer yn cael eu cadw a'u bridio fel da byw. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r gyfundrefn ar gyfer rhaglenni bridio yng Nghymru.

10.76 Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cadw rhestr o raglenni bridio cymeradwy (ar gyfer rhywogaethau defaid, geifr a gwartheg) a sefydliadau bridio (ar gyfer rhywogaethau moch) sydd wedi'u lleoli yn y DU. Ar ôl adolygu sampl o'r rhaglenni bridio cymeradwy hynny sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, nodwn fod yr anifeiliaid brîd pur dan sylw yn aml yn cael eu hyrwyddo neu eu marchnata ar sail eu haddasrwydd i'w defnyddio fel da byw. Am y rheswm hwnnw, rydym yn dod i'r casgliad bod gan y cyfreithiau sootechnegol gymhwysiad neu gwmpas ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth ac felly eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

## DEDDFAU SY'N BERTHNASOL AR ÔL Y FFERM NEU DRWY GYDOL Y GADWYN GYFLENWI

### Trafnidiaeth

10.77 Mae Pennod 7 yn ystyried deddfau sy'n llywodraethu lles anifeiliaid wrth eu cludo - gan gynnwys lles da byw. Mae cyfreithiau pellach sy'n rheoleiddio'r tymheredd ar gyfer cludo cig at ddibenion diogelwch bwyd a hylendid.

### Lladd-dai

10.78 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ladd-dai yn cynnwys:

(1) cyfreithiau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a anfonir i'w lladd; a

(2) cyfreithiau sy'n darparu ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd yng nghyd-destun lladd-dai.

#### Cyfreithiau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a anfonir i'w lladd

10.79 Ym Mhennod 7, rydym yn ystyried y prif gyfreithiau sy'n rheoleiddio lles anifeiliaid adeg eu lladd mewn lladd-dai: Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 a'r Gyfarwyddeb gysylltiedig ar Ddiogelu Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cyfarwyddeb y Cyngor 93/119/CE). Ar ben hynny, mae nifer fach o Ddeddfau Senedd y DU sydd fel arall yn ymwneud yn bennaf â lles da byw adeg eu lladd.

#### Deddf Lladd-dai 1974

10.80 I'r graddau y mae'r Ddeddf yn parhau mewn grym, mae Deddf Lladd-dai 1974 yn darparu ar gyfer:

(1) pwerau awdurdodau lleol i gaffael lladd-dai drwy gytundeb ac wedyn i roi'r gorau i'w defnyddio;

(2) pwerau awdurdodau lleol i ddarparu a rheoli lladd-dai cyhoeddus; a

(3) phwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi rheoliadau ar gyfer sicrhau amodau dyngarol mewn lladd-dai.

### Deddf Lladd Dofednod 1967

10.81 Mae Deddf Lladd Dofednod 1967 yn darparu ar gyfer:

(1) pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi rheoliadau at ddibenion sicrhau amodau ac arferion dyngarol mewn cysylltiad â difa dofednod;

(2) pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi codau ymarfer sy'n darparu canllawiau ymarferol ar gydymffurfio â'r Ddeddf neu is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tani; a

(3) phwerau mynediad a gorfodi.

### Cyfreithiau sy'n darparu ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd yng nghyd-destun lladd-dai.

(4) Rheoliad y DU (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.[64]

(5) Rheoliad y DU (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd anifeiliaid.

## Marchnata

10.82 Mae cyfreithiau cyffredinol sy'n berthnasol i farchnata a labelu bwyd, gan gynnwys cynhyrchion amaethyddol. Ymysg materion eraill, mae'r cyfreithiau hyn yn nodi'r wybodaeth sylfaenol y mae'n rhaid ei darparu i ddefnyddwyr ar labeli bwyd: er enghraifft, gwybodaeth am gynhwysion ac alergenau. Byddwn yn cyfeirio at y cyfreithiau hyn fel y cyfreithiau marchnata bwyd cyffredinol. Mae enghreifftiau o gyfreithiau o'r fath yn cynnwys Rheoliad y DU (CE) Rhif 178/2022 sy'n nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, Rheoliad y DU (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.[65] Mae cyfreithiau marchnata bwyd cyffredinol yn rhan o gorff ehangach o gyfraith bwyd. Nid yw ystyried cyfreithiau o'r fath yn rhan o gwmpas yr adroddiad hwn.

10.83 Ochr yn ochr â'r cyfreithiau marchnata bwyd cyffredinol, mae cyfreithiau sy'n berthnasol i farchnata a labelu mathau penodol o gynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, gan gynnwys:

(1) wyau;

(2) cig coch a chig dofednod;[66]

(3) llaeth a chynhyrchion llaeth megis menyn;[67]

---

64 Mae Atodiad III, Adran II, Pennod VI yn ymdrin â difa ar y fferm. Gweler hefyd Atodiad III, Adran I, Pennod VI sy'n ymdrin â lladd mewn argyfwng.

65 OS 2014/2303 (Cy 227).

66 Gweler, er enghraifft, Reoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015, OS 2015/1519 (Cy 177).

67 Gweler, er enghraifft, Reoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008, OS 2008/1341 (Cy 141).

(4) ffrwythau a llysiau penodol;[68] a

(5) planhigion ffrwythau i'w plannu.[69]

10.84 Mae'r cyfreithiau marchnata sy'n berthnasol i'r cynhyrchion amaethyddol a amlinellir uchod yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol.

(1) Gofynion marchnata a labelu sy'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i ddefnyddwyr.

(2) Systemau graddio i ragnodi ansawdd cynnyrch.

(3) Safonau cyfansoddiadol a chynhyrchu a all, yn eu tro, osod gofynion sy'n ymwneud â chyfansoddiad cynhyrchion neu'r dulliau cynhyrchu ar gyfer cynhyrchion.

10.85 Bydd y rhan fwyaf o'r gofynion deddfwriaethol a osodir o dan gyfreithiau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol yn berthnasol yng nghamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol: sef camau prosesu, pecynnu ac adwerthu'r gadwyn. Fodd bynnag, mae rhai gofynion penodol sy'n berthnasol ar y fferm.

10.86 Mae cyfreithiau marchnata sy'n berthnasol i gynhyrchion amaethyddol penodol, cynhyrchion a addaswyd yn enetig a chynhyrchion organig yn bennaf yn gosod gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw yn ystod camau prosesu, pecynnu ac adwerthu'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cydymffurfio â rhai gofynion deddfwriaethol ar y fferm. Er enghraifft, mae erthygl 20 Rheoliad y DU (CE) Rhif 589/2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gadw cofnod o ddulliau ffermio a ddefnyddir ar gyfer ieir dodwy.

10.87 Mae cwmpas ein hadroddiad yn canolbwyntio ar y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol yn bennaf i weithgarwch ar y fferm. Yn unol â hynny, nid ydym yn cynnig barn ynghylch a yw cyfreithiau marchnata sy'n berthnasol i gynnyrch amaethyddol yn perthyn i'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Fodd bynnag, pan fydd y cyfreithiau'n gosod gofynion sy'n berthnasol ar y fferm, rydym o'r farn y bydd angen i dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God gyfeirio at gyfreithiau o'r fath o leiaf.

### Rheolaethau swyddogol

10.88 Mae "rheolaethau swyddogol" yn cynnwys gwiriadau a gweithgarwch monitro a gorfodi sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol drwy'r gadwyn fwyd amaethyddol gyfan. Disgrifir nod y gyfraith ar reolaethau swyddogol isod.

> Sefydlwyd Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ("OCR") yr UE i ddarparu dull integredig ac unffurf o ymdrin â rheolaethau swyddogol ar draws pob agwedd ar y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae hyn yn cynnwys diogelwch bwyd a phorthiant,

[68] Gweler, er enghraifft, Reoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009, OS 2009/1551 (Cy 151).

[69] Rhestr enghreifftiol yw hon yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o'r mathau o gynnyrch y mae cyfreithiau marchnata penodol yn bodoli ar eu cyfer.

iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd planhigion. Mae hefyd yn cynnwys anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU.[70]

10.89 Er mai Rheoliad y DU (UE) Rhif 2017/625 yw'r prif reoliad rheoli swyddogol, mae cyfreithiau eraill sy'n mynd i'r afael â meysydd cysylltiedig, ond mwy penodol. Dyma rai enghreifftiau:

(1) Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant, Ffioedd Iechyd Planhigion etc) (Cymru) 2020;

(2) Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020; a

(3) Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Gwarchod Planhigion) 2020.[71]

## MATERION CYFFREDINOL

### Cynulleidfaoedd y darpar God

10.90 Un o'r heriau a wynebwn yn y bennod hon yw'r diffyg cysylltiad rhwng defnyddio cynhyrchion ar ffermydd a chynnwys y gyfraith sy'n rheoleiddio'r cynhyrchion hynny. Er enghraifft, mae gwrtaith yn cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn ffermio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ein hadolygiad lefel uchel o gyfreithiau gwrtaith yn datgelu eu bod yn ymwneud mwy â rheoleiddio cyfansoddiad, labelu a marchnata gwrteithiau. Mae'r datgysylltiad hwn yn cyfrannu at fater cyffredinol a nodwyd gennym yn gynharach ym Mhennod 4: cynulleidfaoedd y darpar God.

10.91 Ar y naill law, deuwn i'r casgliad y dylid eithrio cyfreithiau o'r fath o'r darpar God oherwydd nad oes ganddynt gymhwysiad ymarferol sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod y cynhyrchion hyn yn creu sectorau sy'n greiddiol i weithrediad y sector amaethyddol a bod gwrteithiau'n cael eu cydnabod yn gyffredin fel cynnyrch allweddol a ddefnyddir gan ffermwyr. O'r safbwynt hwn, gellir dadlau y dylid cynnwys y gyfraith ar wrteithiau yn y darpar God ar y sail bod gwrtaith yn cael ei gysylltu'n gyffredin â'r sector.

10.92 Mae'n densiwn anodd ei ddatrys ond gobeithiwn y bydd ein gwaith yn tynnu sylw at faterion i'w hystyried ymhellach.

### Cymhwyso deddfau drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol

10.93 Archwilir nifer o gyfreithiau yn y bennod hon sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. Er enghraifft, mae rhai cyfreithiau penodol sy'n ymwneud â phorthiant yn berthnasol pan fydd cynhyrchion o'r fath yn cael eu cynhyrchu a'u prosesu ond hefyd ar y fferm pan fydd porthiant yn cael ei ddarparu i dda byw.

---

[70] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, “The Official Controls (Plant Protection Products) Regulations 2020: policy statement” (diweddarwyd ddiwethaf yn 2024) https://www.gov.uk/government/publications/the-official-controls-plant-protection-products-regulations-2020-policy-statement/the-official-controls-plant-protection-products-regulations-2020-policy-statement.

[71] OS 2020/44 (Cy 5); OS 2020/206 (Cy 48); OS 2020/552.

10.94 Mewn rhai achosion, rydym wedi cynnig bod cyfreithiau sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi yn cael eu heithrio o gwmpas y darpar God er gwaethaf y ffaith bod y cyfreithiau'n gosod gofynion sy'n berthnasol ar ffermydd. Mewn achosion o'r fath, rydym o'r farn y gallai tudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God gyfeirio at y cyfreithiau dan sylw i sicrhau bod ffermwyr yn ymwybodol o'u perthnasedd i'r sector amaethyddol.

### Fframweithiau cyffredin

10.95 Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg o berthnasedd fframweithiau cyffredin i'n gwaith mewn perthynas â chodeiddio yng Nghymru. Maent yn fecanwaith i sicrhau cysondeb ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae pwerau a oedd yn cael eu dal ar lefel yr UE wedi dychwelyd i lefel ddomestig, ac mae pwerau o'r fath yn croestorri â chymhwysedd datganoledig.

10.96 Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cytuno ar ddau fframwaith cyffredin dros dro sy'n ymwneud â'r meysydd polisi sydd wedi'u cynnwys yn y bennod hon. Sef:

(1) y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer cemegion a phlaladdwyr; a'r

(2) fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer gwrteithiau.

10.97 Mae cwmpas y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer cemegion a phlaladdwyr yn eang, ac mae'r derminoleg yn cynnwys plaladdwyr o fewn “cemegion”. Cyn i'r DU adael yr UE, roedd cemegion yn cael eu rheoleiddio o dan gyfraith yr UE, ond mae cyfrifoldeb polisi dros gemegau yng Nghymru bellach yn nwylo Llywodraeth Cymru. Pwrpas y fframwaith cyffredin hwn yw “cefnogi'r gwaith o reoleiddio a gweinyddu cemegion a phlaladdwyr yn effeithiol ledled y DU, ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd”.[72]

10.98 Mae'r sefyllfa o ran gwrteithiau yn dra gwahanol. Tra bu'r DU yn aelod o'r UE, roedd rheolau a gofynion domestig wedi cael eu cysoni'n rhannol â rheoliadau'r UE. Tra oedd yr UE yn llunio ei fframwaith rheoleiddio ei hun ar gyfer gwrteithiau, roedd Aelod-wladwriaethau'n gallu parhau i ddatblygu cyfundrefnau. Yr hyn yr oedd hyn yn ei olygu oedd bod “trefniadau deddfwriaethol yr UE a threfniadau domestig yn gweithredu'n gyfochrog”.[73] Felly, un o nodau'r fframwaith dros dro hwn yw cynhyrchu dull gweithredu cyson ymysg y pedair gwlad.

## MATERION Y GALLAI FOD ANGEN EU DADANSODDI YMHELLACH

10.99 Mae ein cylch gorchwyl yn gofyn i ni dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n ymwneud â chodeiddio deddfwriaeth amaethyddol a allai fod angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach. Pan fydd galw am ddiwygio maes o gyfraith amaethyddol, rydym o'r farn y gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sut a phryd y caiff y maes hwnnw o'r gyfraith ei godeiddio. Mae yna alwadau i ddiwygio'r cyfreithiau penodol rydym yn eu hystyried yn y bennod hon.

---

[72] Y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Cemegion a Phlaladdwyr (2022) CP 614, t 27.

[73] Y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Cemegion a Phlaladdwyr (2022) CP 614, tt 1 i 2.

(1) Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer gwrteithiau, fel y trafodwyd ym mharagraff 10.97 uchod, yn tynnu sylw at y ffaith y derbynnir yn gyffredinol bod angen moderneiddio'r gyfraith sy'n rheoli gwrteithiau.[74]

(2) Ar wahân, nodwn fod galw yn y sector amaethyddol am adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer lladd-dai.[75] Dywedir bod yr alwad am adolygiad o'r fath yn deillio o bryderon ynghylch y gostyngiad yn nifer y lladd-dai yng Nghymru.

## CASGLIAD

10.100 Yn y bennod hon, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i archwilio'r cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i gamau cynharach y gadwyn gyflenwi amaethyddol ar gyfer cynnyrch cig. Sef y cyfreithiau hynny sy'n berthnasol i nwyddau a gwasanaethau a ddarperir fel arfer i ffermydd da byw. O fewn y categori hwnnw o ddeddfwriaeth, rydym yn cynnig bod nifer fach o gyfreithiau yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, sef:

(1) cyfreithiau sy'n llywodraethu ffrwythloni da byw yn artiffisial fel y rhestrir ym mharagraff 10.69; a'r

(2) cyfreithiau sootechnegol fel y'u rhestrir ym mharagraff 10.73 uchod.

10.101 Rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn anymarferol, o fewn cyfyngiadau'r adroddiad hwn, gwerthuso a yw'r cyfreithiau sy'n berthnasol drwy gydol camau diweddarach y gadwyn gyflenwi amaethyddol yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod sail dros ehangu cwmpas y darpar God i gwmpasu deddfwriaeth sy'n berthnasol i gamau diweddarach y gadwyn gyflenwi amaethyddol. Er mwyn cynorthwyo ystyriaeth o'r fath, rydym yn darparu amlinelliad o'r cyfreithiau sylfaenol hynny sy'n berthnasol i gamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch cig.

---

74 Y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Cemegion a Phlaladdwyr (2022) CP 614, t 8.

75 Undeb Amaethwyr Cymru, "Concerns over Wales' diminishing abbatoir infrastructure highlighted" (Mehefin 2025).

# Pennod 11: Ffurf, cynnwys a dilyniannu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

## CYFLWYNIAD

11.1 Ein prif dasg ar gyfer yr adroddiad hwn fu nodi'r cyfreithiau hynny sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru (“y darpar God”). Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, rydym o'r farn y dylai'r darpar God gynnwys y cyfreithiau hynny sy'n:

(1) ymwneud ag amaethyddiaeth; ac

(2) sydd â chymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

11.2 Ar ôl cymhwyso ein meini prawf cynnwys drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r bennod hon yn cyflwyno rhestr o'r ddeddfwriaeth rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn addas ei chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, yn ogystal â chyflwyno opsiynau ar gyfer dilyniannu'r broses godeiddio.

11.3 Rydym yn nodi bod swmp y ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God yn sylweddol. Er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r dasg dan sylw, rydym yn awgrymu y gellid gwneud y gwaith dan sylw ar draws camau dilyniannol. Efallai y bydd yr union nifer o Ddeddfau'r Senedd a fyddai'n rhan o'r darpar God yn cael eu dylanwadu gan faterion sydd y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, fel penderfyniadau ynghylch a yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir yn y bennod hon yn addas i'w chydgrynhoi neu a oes angen ei diwygio'n sylweddol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn rhagweld y bydd y darpar God yn cynnwys nifer o Ddeddfau'r Senedd.

(1) Deddf cydgrynhoi gychwynnol sy'n dod â'r darpariaethau deddfwriaethol sylfaenol a restrir yn nhabl 1 ynghyd.

(2) Deddf Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol y ddeddfwriaeth sylfaenol ar denantiaethau amaethyddol fel y nodir yn nhabl 3.

(3) Deddf Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol y gyfraith sylfaenol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid fel y nodir yn nhabl 4.

(4) Deddf Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol y gyfraith sylfaenol sy'n ymwneud ag iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion fel y nodir yn nhabl 5.

11.4 Fel y trafodwyd ym Mhennod 1, bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yr is-ddeddfwriaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, y canllawiau ar bwnc. Yn unol â hynny, rydym hefyd yn cyflwyno yn y bennod hon yr is-ddeddfwriaeth rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God (tablau 2 i 5).

11.5 Ar ôl cyflwyno ein rhestr o ddeddfwriaeth rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, rydym yn darparu asesiad o'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'n model arfaethedig o'r darpar God.

## CYNNWYS A DILYNIANNU'R DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL I GYMRU: DEDDFAU LLUOSOG Y SENEDD

### Cam un: darpariaethau deddfwriaethol sylfaenol sy'n addas i'w cynnwys mewn Deddf cydgrynhoi gychwynnol sy'n rhan o'r darpar God

11.6 Gan ddefnyddio ein meini prawf cynnwys, rydym yn nodi yn nhabl 1 y ddeddfwriaeth sylfaenol rydym yn dod i'r casgliad sy'n addas i'w chynnwys mewn Deddf cydgrynhoi gychwynnol sy'n rhan o'r darpar God.[1] Deddfau yw'r rhain sy'n rhoi pwerau'n bennaf i Weinidogion Cymru gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru.

Tabl 1: deddfwriaeth sylfaenol sy'n addas i'w chynnwys mewn Deddf cydgrynhoi gychwynnol sy'n rhan o'r darpar God ac is-ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God

| DEDDF | DARPARIAETH/DARPARIAETHAU | CRYNODEB O'R DDARPARIAETH, RHAN NEU DDEDDF | PENNOD GYFATEBOL YR ADRODDIAD |
|---|---|---|---|
| **Deddf Ffermio'r Bryniau 1946** | Adrannau 20 ac 21 | Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi rheoliadau sy'n cyfyngu ar losgi grug a mathau penodedig eraill o lystyfiant. | Pennod 5 (paragraffau 5.21 i 5.24) |
| **Deddf Amaethyddiaeth 1947**[2] | Adran 98 | Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi hysbysiadau sy'n ymwneud â rheoli, symud neu ddinistrio plâu penodol, ac ar wahân i roi hysbysiadau sy'n | Pennod 5 (paragraffau 5.63 i 5.75) |

[1] Er enghraifft, mae adran 1 Bil Cynllunio (Cymru) yn datgan y bydd y Bil cydgrynhoi (os caiff ei ddeddfu) yn rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio.

[2] Er ein bod o'r farn bod adrannau 98 a 99 yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru, rydym yn cydnabod bod dadleuon sy'n anghyson â'i gilydd dros gynnwys y cyfreithiau hyn mewn ymarfer i gydgrynhoi neu godeiddio deddfwriaeth bywyd gwyllt. Cyflwynir dadansoddiad manwl ym Mhennod 5.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ymwneud â rheoli cwningod. | |
| | Adran 99 | Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi hysbysiadau sy'n ymwneud â rheoli anifeiliaid caeth. | Fel yr uchod |
| **Deddf Amaethyddiaeth 1970** | Rhan 3 | Mae'n darparu ar gyfer cyfundrefn mân-ddaliadau statudol. | Pennod 5 (paragraff 5.31) a Phennod 9 (paragraffau 9.28 i 9.33) |
| **Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979** | Deddf Gyfan | Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gasglu gwybodaeth amaethyddol at ddibenion ystadegol. | Pennod 5 (paragraffau 5.37 i 5.38) |
| **Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014** | Deddf Gyfan | Mae Deddf 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu'r isafswm cyflog amaethyddol a thelerau cyflogaeth eraill sydd ar gael i weithwyr amaethyddol. | Pennod 5 (paragraffau 5.39 i 5.42) |
| **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** | (Rhan 1, Penodau 1 i 3 o Ran 2, Penodau 1 a 3 o Ran 3 a Rhan 6) | Ymysg materion eraill, mae Deddf 2023 yn darparu'r fframwaith ar gyfer polisi amaethyddol a gwneud | Pennod 5 (paragraffau 5.43 i 5.55) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | penderfyniadau yng Nghymru. | |
| **Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** | Adran 152 | Mae adran 152 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio llosgi gweddillion cnydau ar dir amaethyddol. | Pennod 6 (paragraffau 6.119 i 6.121) |
| **Deddf Adnoddau Dŵr 1991** | Adran 97 | Mae adran 97 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer amaethyddol da. | Pennod 6 (paragraffau 6.27 i 6.30) |
| **Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976**[3] | Deddf Gyfan | Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer hawliau gweithwyr amaethyddol mewn perthynas â llety rhent. | Pennod 9 (paragraffau 9.46 i 9.47) |

11.7 Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth a restrir yn nhabl 1 uchod, rydym wedi nodi darpariaethau deddfwriaethol ar draws pum Deddf ychwanegol gan Senedd y DU sydd, yn ein barn ni, yn addas, mewn egwyddor, i'w cynnwys yn y darpar God ar yr amod bod y darpariaethau hynny'n dal â gwerth, effaith neu ddefnydd ymarferol.[4] Ar y cyfan, y darpariaethau deddfwriaethol dan sylw yw'r rhai sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r darpariaethau perthnasol o'r Deddfau hyn yn cael eu hystyried ymhellach ym Mhennod 5.

11.8 Ym Mhennod 5, rydym hefyd yn dod i'r casgliad gofalus bod Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 yn addas i'w gynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw ein hymgysylltu â rhanddeiliaid at ddibenion yr adroddiad hwn wedi ymestyn i ymgysylltu â sefydliadau sy'n ymwneud â chamau ôl-fferm y gadwyn gyflenwi amaethyddol neu sy'n cynrychioli'r camau hynny.[5] Felly, efallai mai'r ffordd

[3] Er ein bod wedi dod i'r casgliad bod Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 yn bodloni ein meini prawf i'w cynnwys yn y darpar God, rydym yn tynnu sylw ym Mhennod 9 at y ffaith y bydd Deddf 1976 yn cael ei dileu'n raddol.

[4] Y pum Deddf dan sylw yw Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889, Deddf Amaethyddiaeth 1967, Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Deddf Amaethyddiaeth 1986, a Deddf Tir Fferm a Datblygu Gwledig 1988.

[5] Mae cadwyn gyflenwi amaethyddol yn golygu rhwydwaith sy'n cynnwys yr holl ddeunyddiau crai sy'n cael eu prosesu i wneud cynhyrchion i'w dosbarthu a'u gwerthu gan weithgynhyrchwyr.

orau o wneud unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cynnwys Mesur 2010 yn y darpar God yw drwy ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid perthnasol.

### Is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau Amaethyddiaeth a chyfreithiau cysylltiedig

11.9 Yn ein hasesiad, mae'r is-ddeddfwriaeth a restrir yn nhabl 2 isod yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Y tri offeryn statudol cyntaf a gyflwynir yn y tabl yw'r rhai a wneir o dan y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan y Deddfau a'r darpariaethau deddfwriaethol a restrir yn nhabl 1. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn cael eu deddfu o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys mewn darpariaethau deddfwriaethol yr ydym wedi nodi eu bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God.[6] Rydym yn trafod mater darnio is-ddeddfwriaeth oddi wrth y pwerau galluogi sylfaenol cyfatebol ymhellach ym Mhenodau 4 a 6.[7]

11.10 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydym yn cynnig bod yn rhaid i'r is-ddeddfwriaeth rydym yn ei hystyried yn addas i'w chynnwys yn y darpar God yn y bennod hon gael ei hail-lunio na'i hailddatgan mewn Deddf Senedd Cymru.[8] Yn hytrach, rhagwelwn y byddai'r is-ddeddfau dan sylw yn cael eu diwygio neu eu hail-lunio i gynnwys datganiad eu bod yn rhan o'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Er enghraifft, mae pob un o’r pum set o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, yn cynnwys darpariaethau sy'n datgan eu bod yn rhan o god cyfreithiol sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Tabl 2: is-ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

| CYFRAITH | PWERAU GALLUOGI SYLFAENOL | CRYNODEB |
|---|---|---|
| **Cyfreithiau sy'n berthnasol i weithwyr amaethyddol** | | |
| Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025[9] | Adrannau 3, 4(1), ac 17 Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 | Mae'r gorchymyn yn darparu ar gyfer yr isafswm cyflog amaethyddol.[10] |

[6] Rheoliadau Rheoli Llygredd Adnoddau Dŵr (Storio Olew) (Cymru) 2016, OS 2016/359 (Cy 112).

[7] Gweler paragraffau 4.33 a 4.56 ym Mhennod 4 a pharagraffau 6.130 a 6.132 ym Mhennod 6.

[8] Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gall drafftwyr deddfwriaethol, drwy'r broses godeiddio, nodi darpariaethau sydd wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth y maent yn credu sy'n fwy addas i'w hailddatgan mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac i'r gwrthwyneb. Yn gyffredinol, nid yw asesiad o'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y fframwaith deddfwriaethol amaethyddol presennol wedi bod yn rhan o'n hadolygiad at ddibenion yr adroddiad hwn.

[9] Rydym yn nodi bod Gorchymyn Cyflogau newydd yn cael ei gyhoeddi o dan y Ddeddf bob blwyddyn. Rydym yn cynnig mai'r Gorchymyn cyfredol yn ystod pob blwyddyn ddylai fod yn y darpar God.

[10] Mae'n gwneud darpariaeth bellach ar gyfer telerau ac amodau cyflogaeth penodol y mae'n rhaid eu cynnig i weithwyr amaethyddol o fewn ystyr Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (dccc 6). Mae gorchymyn newydd yn dod i rym o dan Ddeddf 2014 bob blwyddyn ac, felly, rydym yn cynnig y byddai unrhyw orchymyn presennol sy'n pennu'r isafswm cyflog amaethyddol yn rhan o'r darpar God.

| Cyfreithiau sy'n berthnasol i gyd-destun amaethyddol ac sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd a bywyd gwyllt | | |
|---|---|---|
| Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 | Adran 152 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | Mae'r rheoliadau'n gosod rheolau ar gyfer llosgi gweddillion cnydau penodol ar dir amaethyddol. |
| Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt (ac ati) (Cymru) 2008 | Adrannau 20 ac 21 Ddeddf Ffermio'r Bryniau 1946 | Mae'r rheoliadau'n gosod rheolau ar gyfer llosgi grug, glaswellt, rhedyn, eithin a vaccinium. |
| Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 | Adran 92 Deddf Adnoddau Dŵr 1991[11] | Nod y Rheoliadau yw atal neu leihau'r risg o lygredd amaethyddol. |
| **Cyfreithiau sy'n berthnasol i adnabod carcasau** | | |
| Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025 | Adran 35 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 | Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer dosbarthu ac adrodd prisiau gorfodol ar garcasau defaid gan ladd-dai cymeradwy mwy. |

### Cam dau: cyfraith tenantiaethau amaethyddol

11.11 Rydym o'r farn y gallai'r cam nesaf o sefydlu'r darpar God gwmpasu gwaith i gydgrynhoi neu ddiwygio, mewn Deddf arall gan y Senedd sy'n rhan o'r darpar God, bwnc y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol.[12] Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol dan sylw wedi'i rhestru yn y tabl isod (tabl 3). Rydym wedi rhestru ymhellach yn nhabl 3 yr is-ddeddfau hynny:

(1) rydym yn credu eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru; ac

(2) a wneir o dan bwerau galluogi sylfaenol y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ("Deddf 1986") neu Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 ("Deddf 1995").

11.12 Fel yr eglurwyd ym Mhennod 9, rydym o'r farn, fodd bynnag, y gallai unrhyw waith i godeiddio deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol elwa'n gyntaf o ystyried unrhyw

[11] Nid yw adran 92 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn un o'r darpariaethau cyfreithiol hynny yr ydym yn eu hystyried yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Ym Mhenodau 6 ac 8, rydym yn ystyried ymhellach oblygiadau cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God gan eithrio'r ddarpariaeth deddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys y pŵer galluogi y mae'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei deddfu oddi tano.

[12] Gall cod cyfraith Cymru gynnwys Deddfau cydgrynhoi'r Senedd, Deddfau'r Senedd sy'n diwygio'n gyfan gwbl, neu gyfuniad o'r ddau.

argymhellion ynghylch diwygio'r gyfraith a allai ddeillio o'n hadolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r maes cyfreithiol hwn.[13]

Tabl 3: deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol sydd, yn ein barn ni, mewn egwyddor, yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

| DEDDFWRIAETH SYLFAENOL | IS-DDEDDFWRIAETH | CRYNODEB O'R IS-DDEDDFWRIAETH A CHYFEIRNOD PENNOD |
|---|---|---|
| **Pwnc Deddf Daliadau Amaethyddol 1986[14]** | Rheoliadau Amaethyddiaeth (Cymalau Enghreifftiol ar gyfer Cyfarpar Sefydlog) (Cymru) 2019[15] | Mae'r rheoliadau'n rheoli'r cyfrifoldebau dros atgyweirio, cynnal a chadw ac yswiriant offer sefydlog ar gyfer tenantiaethau daliadau amaethyddol.<br><br>(Pennod 9, paragraff 9.11) |
| | Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau a'r Prawf Addasrwydd) (Cymru) 2024 | Mae'r Rheoliadau'n pennu'r meini prawf addasrwydd y mae'n rhaid i unigolyn eu bodloni wrth wneud cais i olynu tenantiaeth a lywodraethir gan AHA 1986. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi llwybr i denantiaid ddatrys anghydfod (dan amgylchiadau penodedig) pan fo landlord yn gwrthod cais i amrywio telerau'r denantiaeth.<br><br>(Pennod 9, paragraff 9.11) |
| **Pwnc Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995[16]** | Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad Landlord neu Amrywio Telerau (Cymru) 2024 | Mae'r Rheoliadau'n rhoi llwybr i denantiaid tenantiaethau busnes fferm ddatrys anghydfod (dan amgylchiadau penodedig) pan fo landlord yn gwrthod cais i amrywio telerau'r denantiaeth.<br><br>(Pennod 9, paragraff 9.11) |
| **Pwnc adrannau 10, 11 a 109 Deddf** | AMH. | Mae adrannau 10 ac 11 yn eu tro yn gosod rheolau hwsmonaeth dda a rheoli ystadau'n dda sy'n |

13 Y Pedwerydd ar Ddeg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith (2025) Comisiwn y Gyfraith Rhif 421, t 13.

14 Gweler Pennod 9, paragraffau 9.5 i 9.7.

15 Fel y'i deddfwyd o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, adrannau 7(1) a (2).

16 Gweler Pennod 9, paragraffau 9.8 i 9.10.

| | | |
|---|---|---|
| **Amaethyddiaeth 1947**[17] | | berthnasol i gyfraith tenantiaethau amaethyddol. Mae adran 109 yn darparu ar gyfer diffiniad statudol o “amaethyddiaeth” a gymhwysir yng nghyd-destun deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol.[18] |

### Cam tri: iechyd anifeiliaid a lles da byw

11.13 Gallai cam nesaf y codeiddio gwmpasu gwaith i gydgrynhoi neu ddiwygio'n sylweddol bwnc y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God.

11.14 Ein hasesiad yw bod gan y ddeddfwriaeth sylfaenol a restrir yn nhabl 4 bwnc sy'n addas i'w gynnwys mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God, sef iechyd anifeiliaid a lles da byw. Rydym wedi rhestru ymhellach yn nhabl 4 yr is-ddeddfau hynny sy’n:

(1) yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid (ac sy’n berthnasol i dda byw); ac

(2) yn ymwneud â lles anifeiliaid ac sy’n berthnasol i dda byw yn bennaf neu'n unig.

Ein hasesiad ni yw bod yr is-ddeddfau hyn hefyd yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

11.15 Mae'r is-ddeddfau a restrir yn nhabl 4 yn ddeddfau a wneir o dan bwerau galluogi sylfaenol y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae'r rhestr o is-ddeddfwriaeth a gyflwynir hefyd yn cynnwys deddfau a gymathwyd sy'n ymwneud ag iechyd a lles da byw. Oherwydd swmp y gyfraith dan sylw, rydym yn cyflwyno enghreifftiau dethol o gyfreithiau o'r fath ac yn darparu rhestr fwy cynhwysfawr yn Atodiad 5.

11.16 Nid yw'r rhestr o ddeddfwriaeth a gyflwynir yn nhabl 4 yn cynnwys deddfau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo neu adeg eu lladd. Y rheswm am hyn yw, fel egwyddor gyffredinol, nid yw ein hadroddiad yn cynnwys archwilio cyfreithiau sy'n berthnasol i gamau'r gadwyn gyflenwi amaethyddol sy'n digwydd ar ôl y fferm.[19]

---

17 Gweler Pennod 9, paragraffau 9.20 i 9.26.

18 Mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 yn cynnwys darpariaethau sy'n datgan bod i “amaethyddiaeth” yr ystyr y darperir ar ei gyfer o dan adran 109(3) Deddf Amaethyddiaeth 1947 (yn ddarostyngedig i amrywiadau cyfyngedig).

19 Gweler Pennod 10.

Tabl 4: cyfreithiau sylfaenol ac is-ddeddfau iechyd anifeiliaid a lles da byw sydd, yn ein barn ni, yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru

| DEDDFWRIAETH SYLFAENOL | IS-DDEDDFWRIAETH | ENGHREIFFTIAU O IS-DDEDDFWRIAETH |
|---|---|---|
| Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981[20] | Gorchmynion a wneir o dan Ddeddf 1981 sydd â'r nod o atal neu reoli lledaeniad clefydau penodol y gwyddys eu bod yn effeithio'n bennaf neu'n gyffredin ar dda byw. | Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006<br><br>Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Cymru) 2009 |
| | Gorchmynion a wnaed o dan Ddeddf 1981 sy'n darparu ar gyfer mesurau bioddiogelwch sydd â'r nod o atal clefydau anifeiliaid rhag lledaenu sy'n effeithio ar dda byw. | Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 |
| | Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 | AMH. |
| | Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 | AMH. |
| | Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015 | AMH. |
| **Enghreifftiau o is-ddeddfau eraill sy'n ymwneud neu'n gysylltiedig ag iechyd anifeiliaid (ac sy'n berthnasol i dda byw)** | | |
| Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004 | | |
| Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007[21] | | |
| Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 | | |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud â chlefydau penodol sy'n effeithio ar dda byw gan gynnwys, er enghraifft, Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003, Rheoliadau Mesurau Atal Ffliw Adar (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008. | | |
| Cyfreithiau sy'n llywodraethu ffrwythloni da byw yn artiffisial gan gynnwys Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (CEE) 1992, Rheoliadau Embryo Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995 a Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008. | | |

20 Gweler Pennod 7, paragraffau 7.75 i 7.82.

21 Fel y'i deddfwyd drwy arfer pwerau a ddarparwyd yn flaenorol o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, adran 2(2). Mae'r Rheoliadau hyn yn parhau mewn grym, ar ôl i'r DU adael yr UE, oherwydd eu bod wedi cael eu hymgorffori yn ein cyfraith ddomestig o ganlyniad i Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018 a Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (“REULA 2023”).

| |
|---|
| Cyfreithiau sootechnegol gan gynnwys Rheoliad y DU (UE) Rhif 2016/1012 a Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Cymru) 2018 |
| **Cyfreithiau sy'n ymwneud yn unig neu'n bennaf â lles da byw** |
| Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 |

### Cam pedwar: cyfraith iechyd planhigion, amrywogaethau a hadau

11.17 Gallai pedwerydd cam posibl codeiddio gwmpasu gwaith i ailddatgan neu ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â phwnc cyfraith iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion mewn Deddf Senedd Cymru (neu Ddeddfau Senedd Cymru) sy'n rhan o'r darpar God.

11.18 Ein hasesiad yw bod gan y ddeddfwriaeth sylfaenol a restrir yn nhabl 5 bwnc sy'n addas i'w gynnwys mewn Deddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God. Mae Tabl 5 hefyd yn cyflwyno rhestr o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion sydd, yn ein barn ni, yn addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae'r is-ddeddfwriaeth honno'n cynnwys deddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 a chyfreithiau a gymathwyd hefyd.

Tabl 5: cyfreithiau sylfaenol ac is-ddeddfau ar iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion sydd, yn ein barn ni, yn addas i'w cynnwys yn y darpar God

| DEDDFWRIAETH SYLFAENOL | IS-DDEDDFWRIAETH A DDEDDFWYD O DAN BWERAU GALLUOGI SYLFAENOL |
|---|---|
| Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 (adrannau 16 i 19, 24 i 31 a 33 i 41) | Rheoliadau Hadau Llysiau 1993<br><br>Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012<br><br>Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 |
| Deddf Iechyd Planhigion 1967 | AMH. |
| Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997 | Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hysbysiadau Gwybodaeth) 1998<br><br>Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Hadau Wedi'u Harbed ar y Fferm) (Pennu Rhywogaethau a Grwpiau) 1998<br><br>Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Hadau Wedi'u Harbed ar y Fferm) (Gwybodaeth Benodedig) 1998<br><br>Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion 1998 |

| | |
|---|---|
| | Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Enwi a Ffioedd) 2006<br><br>Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad Defnydd Blaenorol) (Cymru) 2006 |
| **Is-ddeddfau a chyfreithiau eraill a gymathwyd** | |
| Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 | |
| Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999 | |
| Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 | |
| Rheoliadau Patentau a Hawliau Amrywogaethau Planhigion (Trwyddedu Gorfodol) 2002 | |
| Rheoliad y DU 2016/2031 ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion | |
| Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 | |
| Rheoliad Gweithredu'r DU 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) Rhif 2016/2031 o ran mesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion | |
| Rheoliadau Iechyd Planhigion etc (Ffioedd) (Cymru) 2018 | |

## FFACTORAU PERTHNASOL SY'N HYSBYSU FFURF, CYNNWYS A DILYNIANNU

11.19 Fel yr amlinellwyd uchod, rydym wedi defnyddio meini prawf penodol i hysbysu ein hystyriaeth o'r ddeddfwriaeth rydym yn ei hystyried yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

11.20 Y tu hwnt i'n meini prawf cynnwys, mae ffactorau ychwanegol a allai lywio unrhyw benderfyniadau ynghylch ffurf, cynnwys a dilyniannu'r darpar God. Mae'r rhain yn cynnwys y materion a amlinellir isod.

(1) Y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ac wedyn cynnal y darpar God.

(2) Blaenoriaethau gwleidyddol a allai lywio pa feysydd cyfreithiol sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer codeiddio.

(3) Galwadau am ddiwygio sylweddol a allai, yn yr un modd, ddylanwadu ar ba feysydd o gyfraith amaethyddol sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer codeiddio ac a yw'r cyfreithiau dan sylw wedi'u codeiddio mewn Deddf cydgrynhoi Senedd Cymru neu Ddeddf Senedd Cymru sy'n diwygio'n gyfan gwbl.

(4) Ymrwymiadau gwleidyddol ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, fel y nodir mewn fframweithiau cyffredin perthnasol.

(5) Terfynau cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.[22]

11.21 Nid yw ystyried rhai o'r ffactorau a restrir uchod yn rhan o gwmpas yr adroddiad hwn. Er enghraifft, nid ein rôl ni yw rhoi sylwadau ar flaenoriaethau gwleidyddol Llywodraeth Cymru, nac ar ddyrannu adnoddau'r llywodraeth. Ar ben hynny, nid yw ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys gwneud argymhellion sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith yn sylweddol. Fodd bynnag, drwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn tynnu sylw at enghreifftiau lle mae meysydd o gyfraith amaethyddol yn destun galwadau am ddiwygio deddfwriaethol.[23]

11.22 Ar ben hynny, gall yr ymrwymiadau a wneir o dan fframweithiau cyffredin ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau ynghylch ffurf a chynnwys y darpar God. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau sydd â'r nod o hwyluso dulliau cyffredin rhwng pedair gwlad y DU ar bynciau a oedd gynt yn rhan o gymhwysedd yr UE. Cytunir arnynt ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.

11.23 Mae nifer o fframweithiau cyffredin sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol.

(1) Cymorth amaethyddol: fframwaith cyffredin dros dro.

(2) Iechyd a lles anifeiliaid: fframwaith cyffredin dros dro.

(3) Iechyd planhigion: fframwaith cyffredin dros dro.

(4) Amrywogaethau planhigion a hadau: fframwaith cyffredin dros dro.

11.24 Efallai y bydd angen i benderfyniadau i ailddatgan neu ail-lunio deddfwriaeth mewn Deddf Senedd Cymru roi cyfrif am unrhyw ymrwymiadau a nodir yn y fframweithiau cyffredin dros dro a restrir uchod.

## Y DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL I GYMRU: Y MANTEISION A'R CYFYNGIADAU

11.25 Yn yr adran hon, rydym yn asesu'r manteision a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'n model arfaethedig o'r darpar God.

### Y manteision

#### Mynd i'r afael â darnio cyfraith amaethyddol

11.26 Un o fanteision craidd sefydlu cod cyfraith Gymru yw ei fod yn gwella hygyrchedd y gyfraith. Mae corff o gyfraith sy'n dameidiog ac yn swmpus yn ei hanfod yn anodd ei lywio a'i ddeall. Mae ein model arfaethedig ar gyfer y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn cynnig y gellid ailddatgan darpariaethau deddfwriaethol o naw Deddf wahanol, o leiaf, mewn Deddf cydgrynhoi gychwynnol gan y Senedd sy'n rhan o'r

---

22 Mae gwneud sylwadau ar ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

23 Gweler y crynodeb o'r galwadau am ddiwygio sylweddol ym Mhennod 12.

darpar God.[24] Rydym wedi nodi darpariaethau deddfwriaethol pellach ar draws pum Deddf arall ac un Mesur a allai, mewn egwyddor, fod yn addas i'w cynnwys mewn Deddf cydgrynhoi o'r fath yn ein barn ni.[25]

11.27 Byddai cydgrynhoi a chodeiddio darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi'u taenu rhwng naw a 16 o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ar hyn o bryd yn amlwg yn helpu o ran lleihau darnio'r corff presennol o gyfraith amaethyddol fel sy'n berthnasol yng Nghymru.

11.28 Bydd sefydlu cod cyfraith Gymru ar bwnc hefyd fel arfer yn cynnwys proses o resymoli is-ddeddfwriaeth. Mae'n bosibl y gall y broses resymoli gynnwys dirymu offerynnau statudol ar wahân sy'n ymwneud â'r un pynciau neu bynciau cysylltiedig a dod â'r cyfreithiau hynny at ei gilydd mewn un offeryn statudol Cymru (neu mewn nifer llai o offerynnau statudol Cymru). Er enghraifft, ym Mhennod 7, rydym yn awgrymu y gellid dod â'r is-ddeddfau presennol ar adnabod gwahanol rywogaethau da byw at ei gilydd o dan un offeryn statudol Cymru.

11.29 Felly, mae sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gyfle pwysig i leihau darnio a swmp yr is-ddeddfwriaeth. Rydym o'r farn y byddai'r rheini sy'n gweithio yn y sector amaethyddol yn elwa'n benodol o waith sy'n ymwneud â rhesymoli'r is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i amaethyddiaeth. Y rheswm am hyn yw bod llawer o'r gofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol i weithgarwch ffermio yng Nghymru, y mae'n rhaid i ffermwyr gydymffurfio â nhw o ddydd i ddydd, wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag mewn cyfraith sylfaenol.

### Moderneiddio a symleiddio

11.30 At ddibenion yr adroddiad hwn, gofynnwyd i ni ystyried a oes meysydd o gyfraith amaethyddol a allai fynnu neu elwa o newidiadau neu addasiadau sydd â'r nod o symleiddio.

11.31 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) gerbron y Senedd a fydd (os caiff ei ddeddfu) yn rhan o god cyfraith sy'n ymwneud â chynllunio. Yn unol â'r nod o godeiddio, mae'r Bil yn cynnig cyfuno ystod eang o ddeddfwriaeth gynllunio bresennol sy'n berthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nodiadau esboniadol drafft Bil Cynllunio (Cymru) yn egluro bod adrannau'r Bil yn edrych yn wahanol iawn i destun gwreiddiol y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi:

> mae'n bwysig cofio y gall Bil cydgrynhoi arwain at ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n edrych yn wahanol iawn i'r testun gwreiddiol - mae hynny'n wir am y Bil hwn yn benodol. Er mwyn cyflwyno'r gyfraith bresennol sy'n berthnasol yng Nghymru ar ffurf

---

24 Ar ben hynny, nid yw'r nifer hwn yn cynnwys yn benodol y ddeddfwriaeth sylfaenol ar denantiaethau amaethyddol sydd, yn ein barn ni, yn addas mewn egwyddor i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

25 Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889, Deddf Amaethyddiaeth 1967, Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Deddf Amaethyddiaeth 1986, Deddf Tir Fferm a Datblygu Gwledig 1988 a Mesur y Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.

fodern a hygyrch, mae'r Senedd yn caniatáu newidiadau cyflwyniadol sylweddol nad ydynt yn newid effaith y gyfraith honno.[26]

11.32 Mae Pennod 12 yr adroddiad hwn yn cyflwyno rhestr o faterion technegol dros dro a allai elwa o newidiadau i ddeddfwriaeth amaethyddol bresennol neu fynnu eu bod yn cael eu newid. Mae sefydlu'r darpar God yn gyfle i wneud newidiadau o'r fath i'r gyfraith, ac felly i foderneiddio, symleiddio a lliflinio’r corff presennol o ddeddfwriaeth amaethyddol fel sy'n berthnasol yng Nghymru.

## Arferion drafftio deddfwriaethol modern

11.33 Mae *Writing Law for Wales* yn nodi'r prif egwyddorion a thechnegau y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth ddrafftio Biliau’r Llywodraeth ac offerynnau statudol Cymru yn ddeddfwriaethol. Mae rhai o'r darpariaethau deddfwriaethol rydym wedi'u nodi fel rhai sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Neddfau Senedd y DU. Mae dod â'r darpariaethau deddfwriaethol hynny at ei gilydd o dan Ddeddf cydgrynhoi'r Senedd yn gyfle i ailddatgan y cyfreithiau perthnasol mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag arferion drafftio deddfwriaethol modern yng Nghymru.[27]

11.34 Er enghraifft, mae *Drafftio Deddfau i Gymru* yn mynegi ei bod yn well mynegi pwerau llunio is-ddeddfau fel pwerau i wneud rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru nifer o bwerau i lunio is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol ac a fynegir fel pwerau i wneud gorchmynion. Mae enghreifftiau'n cynnwys y pwerau i wneud gorchmynion o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 sy'n darparu ar gyfer adnabod da byw a phwerau o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 i gymeradwyo a gwneud gorchmynion sy'n pennu'r isafswm cyflog amaethyddol. Mae cydgrynhoi yn gyfle i ailddatgan y pwerau hynny mewn Deddf Senedd Cymru fel pwerau i wneud rheoliadau.

## Atebolrwydd

11.35 Mae amaethyddiaeth wedi'i datganoli i Gymru, ond mae rhai meysydd polisi croestoriadol yn dal wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU: er enghraifft, trethiant, polisi mewnfudo a masnach ryngwladol.[28] Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym nad yw bob amser yn glir, nac yn cael ei ddeall yn dda yn gyson, ai Llywodraeth Cymru ynteu Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am rai penderfyniadau polisi sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Nid yw'r mater hwn o reidrwydd yn unigryw i amaethyddiaeth. Yn ôl adolygiad annibynnol diweddar o gyfansoddiad Cymru:

> yn gyffredinol, mae gan bobl yng Nghymru (ac yn y DU yn ehangach) lefel isel o ddealltwriaeth o sut maen nhw'n cael eu llywodraethu. Mae'r lefelau isel cyffredinol o wybodaeth a dealltwriaeth, hyd yn oed ymysg y rheini sy'n ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, yn drawiadol. Nid yw'n unigryw i Gymru, ond mae'n broblem sy'n

---

[26] Bil Cynllunio (Cymru) drafft a Nodiadau Esboniadol i Fil Cynllunio (Cymru) (Mehefin 2025).

[27] Yn yr un modd â diddymu darpariaethau mewn Deddf Senedd y DU i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru a'u disodli â darpariaethau mewn Deddf Senedd Cymru sy'n diwygio'n gyfan gwbl.

[28] Yn gysylltiedig â hynny, ym mis Mawrth 2025 lansiodd Pwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU ymchwiliad i ffermio yng Nghymru a oedd yn edrych, ymysg materion eraill, ar ba gymorth y mae Llywodraeth y DU yn ei ddarparu i sector ffermio Cymru a pha gymorth sydd ei angen ar sector ffermio Cymru gan Lywodraeth y DU: https://committees.parliament.uk/work/8990/farming-in-wales-in-2025-challenges-and-opportunities/.

tanseilio hyder mewn sefydliadau democrataidd ar bob lefel o lywodraeth. ... Mae dinasyddion yn ansicr ynghylch pwy sy'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan hyd yn oed ar bynciau sydd o bwys mawr iddynt, fel gwasanaethau iechyd.[29]

11.36 Gallai sefydlu'r darpar God ei gwneud yn gliriach yn y gyfraith lle mae'r cyfrifoldeb a'r pŵer gweithredol yn y cyd-destun amaethyddol. Mae o leiaf saith o'r Deddfau rydym wedi nodi eu bod yn addas i'w cynnwys mewn Deddf gydgrynhoi gychwynnol gan Senedd Cymru (a fyddai'n rhan o'r darpar God) yn Ddeddfau Senedd y DU. Mae'r holl Ddeddfau hynny'n rhagflaenu'r model cadw pwerau presennol o ddatganoli yng Nghymru. Mae llawer o'r Deddfau hynny'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion y DU reoleiddio neu gefnogi'r sector amaethyddol. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan sylw yn gyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd is-ddeddfwriaeth - a elwir yn orchmynion trosglwyddo swyddogaethau - a pharagraff 30 Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

11.37 Fodd bynnag, nid yw testun y darpariaethau deddfwriaethol sy'n rhoi'r swyddogaethau statudol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod y swyddogaethau wedi cael eu trosglwyddo. Yn hytrach, rhaid darllen y darpariaethau deddfwriaethol dan sylw ochr yn ochr â deddfwriaeth arall i ddeall bod y swyddogaethau bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

11.38 Byddai ailddatgan y darpariaethau dan sylw mewn Deddf Senedd Cymru felly yn gwneud rhaniad y cyfrifoldeb gweithredol rhwng Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn glir ar wyneb y gyfraith.

### Egluro cwmpas y ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy

11.39 Mae adran 2 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol iddynt arfer swyddogaethau amaethyddol penodedig mewn ffordd sy'n cyfrannu orau at yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Cyfeirir at y ddyletswydd hon yn Neddf 2023 fel y ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy. Trafodir yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy ymhellach ym Mhennod 5. Yn fyr, mae'r amcanion yn darparu'r fframwaith ar gyfer cymorth amaethyddol a rheoleiddio yng Nghymru.[30]

11.40 Dyma'r swyddogaethau y mae'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy yn berthnasol iddynt:

(1) swyddogaethau o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023; a

(2) swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru gefnogi neu reoleiddio -

---

[29] Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, *Adroddiad Terfynol* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-terfynol.pdf.

[30] Llywodraeth Cymru, "Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: Cyflwyno'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy" (Tachwedd 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/deddf-amaethyddiaeth-cymru-2023-cyflwynor-fframwaith-rheoli-tir-gynaliadwy.pdf.

(a) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gyflawnir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu

(b) weithgareddau ategol megis prosesu, marchnata neu werthu cynnyrch amaethyddol.[31]

11.41 Mae llawer o'r darpariaethau deddfwriaethol rydym yn eu hystyried yn addas i'w cynnwys yn y darpar God yn ddarpariaethau sy'n grymuso Gweinidogion Cymru i reoleiddio neu gefnogi amaethyddiaeth. O ganlyniad, wrth arfer y swyddogaethau hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy a osodir o dan adran 2 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Byddai cydgrynhoi a chodeiddio, felly, yn ei gwneud yn haws nodi cwmpas y ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy.

### Deddfwriaeth ddwyieithog

11.42 Fel yr amlinellwyd uchod, mae llawer o'r Deddfau yr argymhellwyd eu cynnwys yn ein model arfaethedig o'r darpar God yn Ddeddfau Senedd y DU. Dim ond yn Saesneg y mae'r Deddfau hynny ar gael ar hyn o bryd. I'r gwrthwyneb, mae gweithdrefnau'r Senedd, fel y nodir yn ei rheolau sefydlog, yn ei gwneud yn ofynnol i Fil gerbron y Senedd gael ei gyflwyno a'i ddeddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai fod eithriadau cyfyngedig yn berthnasol.[32]

11.43 Mae cynnwys deddfwriaeth amaethyddol yng nghwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn golygu y bydd y gyfraith dan sylw yn cael ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd sicrhau bod deddfwriaeth amaethyddol ar gael yn ddwyieithog yn amlwg yn cyfrannu at hygyrchedd y cyfreithiau hynny i siaradwyr Cymraeg. Bydd hefyd yn hyrwyddo uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith y gyfraith ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus.[33] Rydym yn ystyried ymhellach y bydd deddfu deddfwriaeth amaethyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg o fudd i'r sector amaethyddol yng Nghymru, gyda 43.1% o'r rhai sy'n gweithio yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn siaradwyr Cymraeg.[34]

### Cefnogi llunio polisïau hyblyg a chyfreithlon

11.44 Mae llawer o'r Deddfau rydym wedi nodi eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau Gweinidogion Cymru i reoleiddio neu gefnogi'r sector amaethyddol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r pwerau hyn wedi'u

---

31 Diffinnir gweithgareddau ategol yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) (dsc 4), adran 52.

32 Busnes y Senedd, *Rheolau Sefydlog Senedd Cymru* (Ionawr 2026) https://senedd.wales/media/ocmbp05c/welsh_digital.pdf, SO 26.5 a 26C.8.

33 Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4); Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr* (2017); Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-ddiwygiedig-2021-i-2026-html.

34 Llywodraeth Cymru, *Amaethyddiaeth yng Nghymru* (2019) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/amaethyddiaeth-yng-nghymru-tystiolaeth.pdf; a Llywodraeth Cymru, “Data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2024” (Ebrill 2025) https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2025/4/3/1744792229/welsh-language-data-annual-population-survey-2024.pdf.

gwasgaru ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth, a ddeddfwyd gan wahanol ddeddfwrfeydd ac sy'n dyddio'n ôl, mewn rhai achosion, i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hyn yn golygu y gall fod yn heriol nodi'r gyfres lawn o swyddogaethau statudol sydd ar gael i Weinidogion Cymru i gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn unol â hynny, rydym o'r farn y gall cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith amaethyddol gefnogi llunio polisïau hyblyg a chyfreithlon yn y cyd-destun amaethyddol.

### Cyfyngiadau ein model arfaethedig

11.45 Ochr yn ochr â thynnu sylw at y manteision sy'n gysylltiedig â'n model arfaethedig o'r darpar God, rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig nodi cyfyngiadau posibl.

11.46 Yn gyntaf, nid yw'r ddeddfwriaeth rydym wedi nodi ei bod yn addas i'w chynnwys yn y darpar God yn cynnwys yr holl gyfreithiau sy'n rheoleiddio, neu sy'n berthnasol fel arall, i amaethyddiaeth yng Nghymru. Fel yr amlinellir ym Mhennod 1, "dim ond i faterion sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y gall y broses godeiddio fod yn berthnasol".[35] Mae hyn yn golygu na all y darpar God gynnwys y cyfreithiau amaethyddol hynny sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Mae enghreifftiau perthnasol yn cynnwys y cyfreithiau hynny sy'n rheoleiddio'r proffesiwn milfeddygol a hefyd cyfreithiau sy'n llywodraethu rheolau'r dreth etifeddiant sy'n berthnasol i ryddhad eiddo amaethyddol. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru:

> mae unrhyw system sydd â chymhwysedd deddfwriaethol datganoledig cyfyngedig, beth bynnag fo cyfyngiadau'r cymhwysedd hwnnw, yn debygol o osod terfynau ar helaethder codeiddio posibl.[36]

11.47 Mae hyn yn golygu y bydd achosion lle bydd angen i ddefnyddwyr y darpar God gyfeirio at ddeddfwriaeth amaethyddol sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl sydd y tu allan i'r Cod. Er y bydd hyn yn arwain at rywfaint o ddarnio, gallai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar God gyfeirio at y cyfreithiau hynny sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

11.48 Rydym hefyd yn egluro ym Mhennod 3 pam, yn ein hasesiad, y byddai cwmpasu'r holl gyfreithiau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn debygol o fod yn dasg rhy feichus. Ar ben hynny, rydym hefyd yn credu y byddai darpar God mor eang yn dod yn rhy anghyson ac anhylaw ei gwmpas: gan dynnu oddi wrth y nod o wella hygyrchedd y gyfraith.

11.49 Mae rhai anfanteision i anelu at gwmpas mwy tynn. Bwriedir i god cyfraith Cymru fod yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol. Serch hynny, mae lle i liniaru'r mater hwn drwy gyfeirio. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw dudalen we a allai gyhoeddi'r darpar God sy'n cyfeirio at y cyfreithiau hynny sydd y tu allan i'r darpar God, ond sydd serch hynny'n berthnasol i amaethyddiaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod angen i god gyfeirio at feysydd neu gyrff cyfraith sy'n dameidiog

---

[35] Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026* (Ionawr 2024) https://www.llyw.cymru/dyfodol-cyfraith-cymru-rhaglen-hygyrchedd-ddiwygiedig-2021-i-2026-html.

[36] Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (2016) Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, paragraff 2.74.

neu'n swmpus mewn rhai achosion. Yn hyn o beth, credwn ei bod yn bwysig cydnabod bod ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i osod yn erbyn rhaglen waith ehangach, hirdymor dan arweiniad Llywodraeth Cymru i godeiddio'r gyfraith ar bynciau datganoledig.[37]

11.50 Yn ail, gallai rhai o'r meysydd deddfwriaeth amaethyddol y byddwn yn dod i'r casgliad y dylid eu cynnwys yn y darpar God hefyd fod yn feysydd y mae rhanddeiliaid yn credu sy'n barod i'w diwygio. Nid yw'n rhan o'n cylch gorchwyl ar gyfer yr adroddiad hwn i wneud argymhellion i ddiwygio'r gyfraith a fyddai'n golygu newidiadau i bolisi amaethyddol sylfaenol neu i hawliau neu rwymedigaethau cyfreithiol sylweddol. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio nodi yn yr adroddiad cwmpasu hwn unrhyw alwadau amlwg am ddiwygio maes o gyfraith amaethyddol sydd wedi'i gynnwys yn ein model arfaethedig ar gyfer y darpar God.[38] Mater i Lywodraeth Cymru a'r Senedd yw penderfynu ar bolisi amaethyddol a gwneud diwygiadau.

11.51 Yn drydydd, mae ein hymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos bod ffermwyr yn cyfeirio'n bennaf at ganllawiau, cynghorwyr proffesiynol, sefydliadau cynrychioladol (fel yr undebau ffermio), pobl eraill sy'n gweithio yn y sector, neu wasanaethau cynghori (fel y Gwasanaeth Cyswllt Ffermio) er mwyn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae ein hymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos y gallai ffermwyr fod yn llai tebygol o gyfeirio'n uniongyrchol at y ddeddfwriaeth ei hun. Gall hyn fod yr un mor wir yn achos unrhyw ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn y pen draw; hyd yn oed os yw cod o'r fath yn golygu bod y gyfraith yn fwy hygyrch ac yn cael ei chyhoeddi gyda'i gilydd. Fodd bynnag, ochr yn ochr â deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, gall cod cyfraith Cymru gynnwys canllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.[39] Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gallai unrhyw dudalen we a allai ddod â'r ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas y darpar God at ei gilydd a'i chyhoeddi hefyd goladu neu ddarparu dolenni i unrhyw ganllawiau sy'n cefnogi'r ddeddfwriaeth honno.

## CASGLIADAU

11.52 Er ein bod wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid mor llawn â phosibl, nid ydym wedi ymgynghori'n ffurfiol ar ein casgliadau uchod. Drwy grybwyll rhai o'r asesiadau polisi sy'n effeithio ar gwmpas a chamau codeiddio cyfreithiau amaethyddol, nid ydym yn bwriadu eithrio'r nifer o ystyriaethau pellach sy'n briodol i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth benderfynu ar ei pholisi. Nid ydym ychwaith yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth a restrir yn y bennod hon fel yr unig ffordd o sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol. Mae cydgrynhoi a chodeiddio yn ymarferion technegol iawn sy'n cael eu harwain gan ddrafftwyr, a gallai'r broses, ar ôl dechrau, arwain at amrywio neu newid y model rydym wedi'i gynnig yn yr adroddiad hwn.

11.53 Wedi dweud hynny, oherwydd swmp y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yng Nghymru, rydym yn dod i'r casgliad y dylid trefnu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn nifer o Ddeddfau Senedd Cymru y nodir bod pob un

[37] Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), adran 2.

[38] Rydym yn cydnabod y gallai fod cynigion neu alwadau am ddiwygio deddfwriaethol nad ydym wedi cyfeirio atynt nac wedi'u nodi.

[39] Gweler Pennod 1, paragraff 1.18.

ohonynt yn rhan o'r darpar God. Byddai hyn yn sicrhau nad yw cwmpas a swmp unrhyw Ddeddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God mor fawr fel ei bod yn anhylaw. Byddai hefyd yn sicrhau bod modd rheoli'r dasg o sefydlu'r darpar God.

11.54 I grynhoi, mae ein casgliadau yn y bennod hon ar gwmpas y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru fel a ganlyn.

(1) Rydym yn dod i'r casgliad bod y rhestr o ddeddfwriaeth yn nhabl 1 yn nodi'r cyfreithiau amaethyddol hynny sy'n addas i'w cynnwys mewn Deddf gydgrynhoi gychwynnol fel rhan o'r darpar God.

(2) Mae tabl 2 yn nodi'r is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei nodi fel rhan o'r darpar God ochr yn ochr â'r Ddeddf gydgrynhoi gychwynnol.

(3) Mae cyfreithiau tenantiaeth amaethyddol (a restrir yn nhabl 3) mewn egwyddor yn addas i'w cynnwys yn y darpar God. Gellid, wrth gwrs, eu hychwanegu at gwmpas y Ddeddf gydgrynhoi gychwynnol neu eu cydgrynhoi ar wahân. Ond rydym yn ymwybodol y bu galwadau i ddiwygio cyfraith tenantiaethau amaethyddol. Os bydd diwygio ystyrlon ar y cyfreithiau hyn ar y gweill, rydym yn awgrymu y gallai fod yn synhwyrol ychwanegu cyfraith tenantiaeth amaethyddol at y darpar God, ar ôl ei diwygio, yn ddiweddarach.

(4) Yn olaf, credwn y gellir dod â rhannau eraill o'r llyfr statud o dan y darpar God fesul cam, ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried i ba raddau y mae angen diwygio neu gydgrynhoi'r meysydd hyn.

   (a) Byddai un cam yn golygu cynnwys yn y darpar God y ddeddfwriaeth a restrir yn nhabl 4 sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid a lles da byw.

   (b) Byddai un arall yn golygu cynnwys yn y darpar God y ddeddfwriaeth a restrir yn nhabl 5 sy'n ymwneud ag iechyd planhigion ac amrywogaethau planhigion.

# Pennod 12: Crynodeb o faterion technegol a materion i'w dadansoddi ymhellach

## CYFLWYNIAD

12.1 Ein prif dasg ar gyfer yr adroddiad hwn fu nodi'r ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ("y darpar God"). Ochr yn ochr â'r brif dasg honno, rydym hefyd yn ystyried a allai'r ddeddfwriaeth honno fynnu neu elwa o newidiadau neu addasiadau sydd â'r nod o symleiddio. Mae'r bennod hon yn rhoi amlinelliad o'r mathau o faterion technegol rydym wedi'u nodi.

12.2 Nid yw cwmpas ein hadroddiad yn ymestyn i wneud cynigion ar gyfer diwygio cyfraith amaethyddol yn sylweddol. Mae hyn yn golygu nad ydym yn cynnig diwygiadau i'r gyfraith a fyddai'n golygu newidiadau i'r polisi neu'r egwyddorion sy'n sail i ddeddfwriaeth amaethyddol. Fodd bynnag, gofynnwyd i ni nodi meysydd y gallai fod angen eu dadansoddi ymhellach er mwyn i ddeddfwriaeth amaethyddol gael ei chynnwys yn y darpar God. Ym mharagraffau 12.10 i 12.13 isod, rydym yn crynhoi'r meysydd rydym yn credu sy'n haeddu dadansoddiad neu ystyriaeth bellach.

### Ystyr materion technegol

12.3 Er mwyn egluro beth yw ystyr "materion technegol" yng nghyd-destun codeiddio, mae'n ddefnyddiol edrych ar weithdrefn y Senedd ar gyfer Biliau cydgrynhoi: Rheol Sefydlog 26C. Dyma'r weithdrefn a ddefnyddir i ddeddfu Deddf gyntaf y Senedd sy'n sefydlu cod cyfraith Cymru, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.[1] Mae Bil Cynllunio (Cymru) hefyd yn mynd drwy'r un weithdrefn ar hyn o bryd.[2]

12.4 Mae Rheol Sefydlog 26C yn caniatáu i Fil cydgrynhoi wneud unrhyw un o'r canlynol:

(1) ailddatgan y ddeddfwriaeth bresennol gydag unrhyw newidiadau mewn strwythur, iaith neu fformat sy'n briodol at ddiben gwella cyflwyniad y gyfraith a sicrhau cysondeb â'r arferion drafftio cyfredol;

(2) egluro cymhwysiad neu effaith y gyfraith bresennol;

(3) dileu neu hepgor darpariaethau sydd wedi darfod, wedi dod i ben neu nad ydynt bellach o ddefnydd neu effaith ymarferol;

(4) gwneud mân newidiadau i'r gyfraith bresennol er mwyn sicrhau cydgrynhoi boddhaol; a

(5) chynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed priodol, a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau mewn deddfwriaeth bresennol (gan gynnwys diwygiadau i

[1] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, dsc 3.

[2] Os caiff Bil Cynllunio (Cymru) ei ddeddfu, bydd yn rhan o god cyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio: gweler adran 1 Bil Cynllunio (Cymru).

sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i weithredu'n gywir mewn perthynas â Lloegr).[3]

12.5 Yn ogystal, mae Rheol Sefydlog 26C.2(v) yn caniatáu i Filiau cydgrynhoi wneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell eu bod yn briodol i'w cynnwys mewn Bil cydgrynhoi. Fodd bynnag, gan mai adroddiad cwmpasu yw hwn, nad yw wedi cynnwys cam ymgynghori ffurfiol, nid ydym yn gwneud argymhellion ffurfiol at ddibenion Rheol Sefydlog 26C.2(v).

12.6 Yn y bennod hon, a thrwy gydol ein hadroddiad, rydym yn defnyddio'r term “materion technegol” i gyfeirio at feysydd o'r corff presennol o gyfraith amaethyddol a allai elwa o welliannau sydd â'r nod o foderneiddio, symleiddio neu liflinio deddfwriaeth amaethyddol. Wrth adolygu deddfwriaeth amaethyddol i nodi enghreifftiau o faterion technegol o'r fath, rydym wedi cael ein harwain gan y mathau o ddiwygio technegol a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.

12.7 Nid ydym yn disgwyl y byddwn wedi nodi yn yr adroddiad hwn yr holl faterion neu ddiffygion ynghylch y gyfraith bresennol a allai elwa o foderneiddio, symleiddio neu liflinio, neu a allai fod angen hynny. Yn hytrach, mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at y mathau o faterion technegol a allai olygu bod angen newid neu addasu cyfraith amaethyddol, ac mae'n rhoi enghreifftiau o faterion o'r fath.

## CATEGORÏAU O FATERION TECHNEGOL I'W HYSTYRIED WRTH GODEIDDIO CYFRAITH AMAETHYDDOL

12.8 Gellir grwpio'r materion technegol rydym wedi'u nodi ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn yn bedwar categori.

(1) Diweddariadau i adlewyrchu arferion drafftio cyfredol ar gyfer deddfwriaeth Cymru.

(2) Moderneiddio, er enghraifft, lle nad yw'r gyfraith yn adlewyrchu arferion sydd wedi ennill eu plwyf.

(3) Eglurhad lle nad yw'r termau a ddefnyddir yn y gyfraith yn glir neu lle mae'r darpariaethau'n anghyson o ran eu geiriad.

(4) Dileu darpariaethau diangen neu sydd wedi darfod.

12.9 Yn y tabl canlynol, rydym yn cyflwyno rhestr o'r materion technegol rydym wedi'u nodi ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn. Rydym yn cynnwys enghreifftiau o faterion technegol rydym wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Er mwyn bod yn gyflawn, rydym hefyd yn cynnwys enghreifftiau o is-ddeddfwriaeth y gellid eu rhesymoli yn ein barn ni drwy ddod â chyfreithiau presennol at ei gilydd mewn un offeryn statudol Cymru.

---

[3] Mae Rheol Sefydlog 26C hefyd yn datgan y caiff Bil cydgrynhoi wneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn argymell eu bod yn briodol i'w cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi.

Tabl 1: rhestr o faterion technegol a nodwyd ym Mhenodau 5 i 11

| **DIWEDDARIADAU I ADLEWYRCHU ARFERION DRAFFTIO CYFREDOL AR GYFER DEDDFWRIAETH CYMRU** | |
|---|---|
| **PENNOD** | **CRYNODEB O'R MATER TECHNEGOL** |
| **Pennod 11: paragraffau 11.33 i 11.34** | Rydym yn nodi y byddai cydgrynhoi yn gyfle i ailddatgan pwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag arferion drafftio deddfwriaethol modern Cymru. Er enghraifft, gellid ailddatgan pwerau i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchmynion fel pwerau i wneud rheoliadau. Rydym yn nodi enghreifftiau o bwerau gwneud gorchmynion y gellid, yn ein barn ni, eu hailddatgan mewn Deddf Senedd Cymru fel pwerau i gyflwyno rheoliadau. |
| **Moderneiddio, er enghraifft, lle nad yw'r gyfraith yn adlewyrchu arferion sydd wedi ennill eu plwyf** | |
| **Pennod 5: paragraffau 5.151 i 5.156** | Awgrymwn y gellid moderneiddio'r gofynion ar gyfer cyflwyno hysbysiad ystadegau amaethyddol yn ddilys o dan Ddeddf Ystadegau Amaethyddol 1979 er mwyn caniatáu'n benodol ar gyfer cyflwyno electronig, gan adlewyrchu'r arferion presennol. |
| **Pennod 7: paragraffau 7.145 i 7.146** | Rydym yn nodi bod Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981") yn datgan bod rhaid rhoi gwybod i'r heddlu am rai clefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid, ond yn yr oes fodern mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ("yr APHA"). Yn yr un modd, rydym yn nodi y gallai is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan Ddeddf 1981 nodi'n gliriach bod yn rhaid rhoi gwybod i'r APHA. |
| **Eglurhad lle nad yw'r termau a ddefnyddir yn y gyfraith yn glir neu lle mae'r darpariaethau'n anghyson o ran eu geiriad** | |
| **Pennod 7: paragraffau 7.147 i 7.153** | Rydym yn nodi bod diffyg diffiniad statudol o'r term "clefydau hysbysadwy" o dan Ddeddf 1981, a natur dameidiog gyfraith yn y maes hwn, yn golygu ei bod yn anodd nodi'r rhestr lawn o glefydau anifeiliaid y mae'n rhaid hysbysu APHA amdanynt. |
| **Pennod 7: paragraffau 7.159 i 7.160** | Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod Deddf 1981 a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno yn gwneud darpariaethau anghyson o ran y dosbarthiadau o unigolion y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt hysbysu'r APHA am achosion, neu achosion a amheuir, o glefydau hysbysadwy. Awgrymwn y byddai'r darpariaethau perthnasol yn elwa o safoni, oni bai fod rhesymau polisi dros amrywio, yn ôl afiechyd, y dosbarthiadau o unigolion y mae'n ofynnol iddynt hysbysu APHA. |

| | |
|---|---|
| **Pennod 7: paragraffau 7.156 i 7.158** | Rydym yn nodi bod Deddf 1981 a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf honno yn gwneud darpariaethau anghyson o ran y pwynt lle mae'r ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod perthnasol / APHA am glefyd hysbysadwy yn codi. |
| **Pennod 7: paragraffau 7.154 i 7.155** | Rydym hefyd yn ystyried a allai fod yn haws cynnal a diweddaru'r rhestr o glefydau hysbysadwy - fel y darperir ar ei gyfer yn adran 88(1) Deddf 1981. Er enghraifft, pe bai pwerau presennol Gweinidogion Cymru i ychwanegu clefydau at gwmpas adran 88(1) Deddf 1981 yn cael eu hymestyn i ganiatáu iddynt dynnu clefydau o'i chwmpas hefyd. |
| **Pennod 9: paragraffau 9.100 i 9.104** | Rydym yn tynnu sylw at y ffaith y gellid gwneud y rheolau sy'n berthnasol i ailosod mân-ddaliadau statudol i wŷr/gwragedd neu bartneriaid sifil tenantiaid sydd wedi marw yn gliriach; yn enwedig o ran sut maent yn berthnasol i weddwon tenantiaid sydd wedi marw. |
| **Pennod 9: paragraffau 9.105 i 9.110** | Rydym yn nodi nad yw'n glir beth mae'r term “rheoli ystadau'n dda” yn ei olygu, yng nghyd-destun y gyfundrefn mân-ddaliadau statudol fel y darperir ar ei chyfer o dan Ran 3 Deddf Amaethyddiaeth 1970. |
| **Dileu darpariaethau sy'n ymddangos yn ddiangen neu wedi darfod** | |
| **Pennod 5: paragraffau 5.25 i 5.29** | Rydym yn ystyried a yw adran 18 o Ddeddf Ffermio'r Bryniau 1946 - sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio prosesau rheoli hyrddod - yn addas i'w diddymu. Nodwn nad yw'r pŵer wedi cael ei arfer ers dros 50 mlynedd. |
| **Pennod 5: paragraffau 5.101 i 5.109** | Rydym yn ystyried a yw adran 2 ac adrannau 6 i 8 Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu pwyllgorau cyflogau amaethyddol a'u swyddogaethau, yn addas i'w diddymu. |
| **Pennod 5: paragraffau 5.84 i 5.90** | Rydym yn ystyried a yw adran 18 Deddf Amaethyddiaeth 1986, a'r 10 gorchymyn a wnaed o dan y Ddeddf honno sy'n dynodi ardaloedd penodol yng Nghymru yn ardaloedd amgylcheddol sensitif, yn addas i'w diddymu. |
| **Pennod 5: paragraffau 5.111 i 5.112** | Rydym yn ystyried a yw adran 9 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau awdurdodau lleol i gasglu gwastraff cegin neu wastraff arall i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid ar gyfer da byw, yn addas i'w diddymu. |
| **Rhesymoli offerynnau statudol** | |

| | |
|---|---|
| **Pennod 7: paragraffau 7.161 i 7.164** | Rydym yn ystyried a ellid ailddatgan pedwar offeryn statudol ar wahân sy'n ymwneud â'r gofynion adnabod sy'n berthnasol i wahanol rywogaethau o dda byw mewn un offeryn statudol Cymru. |
| **Pennod 6: paragraffau 6.138 i 6.139** | Rydym yn ystyried a ellid cyfuno pwnc Rheoliadau Gweddillion Cnydau (Llosgi) 1993 a Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc (Cymru) 2008 mewn un offeryn statudol Cymru oherwydd y cysylltiad pwnc. |

## MEYSYDD SY'N HAEDDU YSTYRIAETH BELLACH

12.10 Drwy gydol penodau blaenorol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi meysydd cyfraith amaethyddol a materion cyffredinol y gallai fod angen eu dadansoddi ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym yn rhoi crynodeb isod o'r prif faterion a nodwyd. Mae'r materion dan sylw yn wahanol i'r materion technegol penodol hynny rydym yn eu crynhoi yn nhabl 1 (ym mharagraff 12.9 uchod). Yn benodol, y materion rydym yn eu crynhoi yn yr adran ganlynol yw'r rheini a allai fynnu neu elwa o newidiadau sylweddol i'r gyfraith. Fel arall, gall y materion a godir gynnwys materion o arwyddocâd cyffredinol a allai, er enghraifft, fod yn berthnasol ar draws pob maes cyfraith amaethyddol neu godi yng nghyd-destun codeiddio'r gyfraith ar bynciau datganoledig eraill.

### Galwadau i ddiwygio cyfraith sylwedd

12.11 Ym Mhennod 4, rydym yn cydnabod y gallai fod yn annerbyniol cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol lle mae galwadau eang am ddiwygio sylweddol ar y gyfraith dan sylw, neu lle mae cynlluniau i ddiwygio deddfwriaeth o'r fath.

12.12 O ganlyniad, drwy gydol yr adroddiad hwn rydym wedi tynnu sylw at enghreifftiau o alwadau i ddiwygio'n sylweddol y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i amaethyddiaeth. Yng ngoleuni'r galwadau hyn am ddiwygio, rydym o'r farn y gallai fod angen dadansoddi'r meysydd cyfraith amaethyddol dan sylw ymhellach cyn eu cynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Rydym yn crynhoi yn nhabl 2 isod enghreifftiau o'r galwadau hynny i ddiwygio, fel y nodwyd ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn.

Tabl 2: galwadau am ddiwygio sylweddol ar feysydd deddfwriaeth allweddol a adolygir yn yr adroddiad hwn

| PENNOD | GALWADAU NEU GYNIGION AM DDIWYGIO SYLWEDDOL |
|---|---|
| **Pennod 5** | Rydym yn ystyried adrannau 98 a 99 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 sy'n ymwneud â rheoli plâu amaethyddol, cwningod ac anifeiliaid caeth. Rydym yn tynnu sylw at argymhellion perthnasol ar gyfer diwygio'r adrannau hyn fel y'u cyflwynwyd yn ein hadroddiad diwygio cyfraith bywyd gwyllt yn 2015.[4] |

4 Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362.

| | |
|---|---|
| **Pennod 6** | Rydym yn cyfeirio at alwadau sydd wedi hen ennill eu plwyf i gydgrynhoi deddfwriaeth bywyd gwyllt.[5] Rydym yn ystyried i ba raddau y gallai unrhyw waith o'r fath i gydgrynhoi cyfraith bywyd gwyllt fod o fudd i ddefnyddwyr y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. |
| **Pennod 8** | Rydym yn edrych ar adroddiad annibynnol diweddar sy'n argymell diwygio'r gyfraith ar wrychoedd;[6] gan drafod sut gallai'r cyfeiriad polisi a gynigir yn yr adroddiad hwnnw ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a yw'r gyfraith ar wrychoedd yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. |
| **Pennod 9** | Rydym yn crynhoi'r galwadau am ddiwygio'n sylweddol y gyfraith sy'n rheoli tenantiaethau amaethyddol fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Cyfeiriwn at ein hadolygiad o ddeddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac ystyriwn a allai canlyniad yr adolygiad hwnnw ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch, ac os felly, sut, ac a yw deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol yn cael ei chynnwys yn y darpar God, ac os ydyw, sut. |
| **Pennod 9** | Rydym yn crynhoi galwadau a chynigion i ddiwygio agweddau ar y drefn mân-ddaliadau statudol fel y darperir ar eu cyfer o dan Ran 3 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1970. |
| **Pennod 10** | Rydym yn cyfeirio at alwadau am ddiwygio'r gyfraith ar blaleiddiaid yn sylweddol a’r gyfraith sy'n ymwneud â lladd-dai ar wahân. |

### Materion cyffredinol a sylweddol a allai fod yn deilwng o ystyriaeth neu ddadansoddiad pellach

12.13 Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn codi materion cyffredinol a allai fod yn deilwng o ystyriaeth a dadansoddiad pellach yng nghyd-destun codeiddio cyfraith amaethyddol yng Nghymru. Yn nhabl 3 isod, rydym yn cyflwyno rhestr o'r materion a nodwyd ac a archwiliwyd ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn.

5 Wildlife Law Volume 1: Report (2015) Comisiwn y Gyfraith Rhif 362; Ysgol y Gyfraith ARU, “Wildlife Law Reform” (Chwefror 2025).

6 Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, *Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru* (Gorffennaf 2025) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-07/diogelu-gwrychoedd-yng-nghymru-adroddiad.pdf.

Tabl 3: materion cyffredinol a sylweddol a allai deilyngu ystyriaeth neu ddadansoddiad pellach

| PENNOD | MATER |
|---|---|
| **Pennod 4: paragraffau 4.57 i 4.71** | Rydym yn nodi'r materion sy'n gysylltiedig â chodeiddio cyfraith a gymathwyd. Mae cyfraith yr UE a ddargedwir, dangosfwrdd cyfraith a gymathwyd a DefraLex yn dangos bod meysydd eang o gyfraith amaethyddol yn cael eu rheoleiddio gan gyfraith a gymathwyd. Rydym yn egluro y bydd penderfyniadau ynghylch a ddylid dirymu, neu ddirymu a disodli cyfreithiau a gymathwyd yn cynnwys asesiadau sy'n seiliedig ar bolisi. Rydym yn cyfeirio at bwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 i ddirymu neu ddisodli is-ddeddfwriaeth a gymathwyd. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod y pwerau hyn yn ddarostyngedig i gymal machlud (sy'n golygu y bydd y pwerau'n dod i ben erbyn dyddiad penodol). Yn unol â hynny, rydym yn trafod opsiynau eraill ar gyfer ailddatgan, dirymu neu addasu cyfraith a gymathwyd yn y tymor hir. Rydym yn trafod, gan gyfeirio at enghreifftiau, sut y gallai gwaith o'r fath wella hygyrchedd cyfraith amaethyddol. |
| **Pennod 4: paragraffau 4.33 i 4.56** | Rydym yn archwilio a ddylai cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru fod yn amodol ar gynnwys y pwerau galluogi cyfatebol mewn deddfwriaeth sylfaenol. Rydym yn dod i'r casgliad y dylid mabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â'r mater hwn sy'n caniatáu cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God, hyd yn oed os yw'r pwerau galluogi cyfatebol wedi'u heithrio. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater i'w ystyried sy'n debygol o godi yng nghyd-destun datblygu codau cyfreithiol eraill ar wahanol bynciau. |
| **Pennod 4: paragraffau 4.72 i 4.74**<br><br>**Pennod 5: paragraffau 5.114 i 5.146** | Rydym yn edrych ar y gwahanol ddiffiniadau statudol o'r term “amaethyddiaeth”: nodi 13 diffiniad penodol o'r term. Rydym yn ystyried cyfleoedd i symleiddio neu foderneiddio'r diffiniadau statudol hynny o “amaethyddiaeth” sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God. Rydym yn edrych ymhellach ar oblygiadau symleiddio a moderneiddio'r diffiniadau hynny, gan gynnwys yr effaith bosibl ar unrhyw hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol cysylltiedig. |
| **Pennod 7: paragraffau 7.167 i 7.168** | Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pwerau statudol i orfodi cyfraith iechyd anifeiliaid yn dameidiog. Oherwydd datblygiad tameidiog y gyfraith yn y maes hwn, gall y darpariaethau deddfwriaethol hynny sy'n rhoi pwerau gorfodi yng nghyd-destun iechyd anifeiliaid fod yn anghyson eu geiriad. Mae cynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru yn gyfle i archwilio a fyddai geiriad pwerau gorfodi, fel sy'n berthnasol yng Nghymru, yn elwa o gael ei safoni. |

| | |
|---|---|
| **Pennod 7: paragraffau 7.169 i 7.173** | Rydym yn nodi bod cydgrynhoi yn gyfle i archwilio a yw'r sancsiynau uchaf sydd ar gael ar gyfer troseddau yn y cyd-destun amaethyddol yn gyson. Nid ydym yn gwneud cynigion ynghylch y dirwyon uchaf briodol ar gyfer troseddau unigol. Yn hytrach, rydym yn cyfeirio at enghraifft lle mae'r dirwyon uchaf sydd ar gael yng nghyd-destun troseddau adnabod da byw yn ymddangos yn anghyson o bosibl. |

## CASGLIAD

12.14 Yn y bennod hon rydym yn dwyn ynghyd y materion rydym yn nodi ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn sydd angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. Yn unol â hynny, rydym yn crynhoi'r mathau o faterion technegol a fyddai'n gofyn am newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith er mwyn symleiddio deddfwriaeth amaethyddol yn y darpar God. Rydym hefyd yn nodi cynigion ar gyfer rhesymoli is-ddeddfwriaeth, neu ar gyfer diwygio is-ddeddfwriaeth fel arall er mwyn symleiddio, moderneiddio neu wella hygyrchedd cyfraith amaethyddol.

12.15 Ar ben hynny, rydym yn crynhoi materion, fel y nodwyd ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn, a allai fod angen dadansoddiad pellach er mwyn sefydlu'r darpar God. Dyma'r mathau o faterion a allai effeithio ar gynnwys y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru a threfn unrhyw waith i sefydlu'r darpar God. Rydym hefyd yn crynhoi'r materion ehangach hynny sy'n gysylltiedig â'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio a allai fynnu neu elwa o addasiadau i'r gyfraith a fyddai'n golygu newidiadau i bolisi sylfaenol. Yn olaf, rydym yn dwyn ynghyd y materion hynny sydd, yn ein barn ni, yn drosfwaol neu'n strategol eu natur. Yn ein barn ni, mae'r rhain yn faterion sy'n berthnasol ar draws pob maes cyfraith amaethyddol neu nifer o feysydd, neu yng nghyd-destun sefydlu codau cyfraith Cymru eraill ar wahanol bynciau.

12.16 Gyda'i gilydd, y materion sy'n cael eu crynhoi yn y bennod hon yw'r rheini y byddem yn dod i'r casgliad y byddai angen eu hystyried neu eu dadansoddi ymhellach neu y byddent yn elwa o hynny er mwyn llunio darpar god cyfraith amaethyddol symlach, modern a hygyrch i Gymru.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl

Cyfraith amaethyddol yng Nghymru:

Adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru gyda'r nod o amlinellu ffurf a chynnwys ar gyfer Cod cyfraith amaethyddol i Gymru, ac argymell sut y gellir symleiddio a moderneiddio'r gyfraith er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch.

Bydd cam cwmpasu'r adolygiad yn ystyried ac yn nodi:

(1) Pa ddeddfwriaeth ddylai fod yn rhan o God cyfraith amaethyddol i Gymru,

(2) Pa newidiadau technegol neu addasiadau i'r gyfraith sy'n ddymunol neu'n angenrheidiol i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith yn y cod cyfraith amaethyddol, a

(3) Meysydd posibl y gallai fod angen eu dadansoddi ymhellach.

Bydd y cam cyntaf yn dod i ben drwy gyhoeddi adroddiad cwmpasu a fydd yn cael ei gyfyngu i godeiddio a diwygio technegol er mwyn symleiddio'r gyfraith. Ni fydd yn ymestyn i ddiwygio polisi nac yn adolygu sylwedd polisi amaethyddol yng Nghymru.

Yn dilyn cam adolygu, efallai y bydd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar brosiect ail gam a fydd yn canolbwyntio ar feysydd gwaith dynodedig y mae angen ymgynghori arnynt, ac un neu ragor o adroddiadau pellach.

# Atodiad 2: Rhanddeiliaid

Rydym wedi ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid sy'n cynnwys Undebau, ffermwyr unigol, cyrff rheoleiddio, academyddion a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol.

Anthony O'Regan

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ("IEPAW")

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ("APHA")

Canolfan Iechyd a Lles Anifeiliaid y DU ("A-LAW")

Confor

Cyfoeth Naturiol Cymru ("NRW")

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ("CLA")

Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Cymru ("TFA Cymru")

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Powys

Cyswllt Amgylchedd Cymru[1]

Dr Christopher McNall

Dr Huw Pritchard

Dr Nerys Llewelyn Jones

Dr Richard Caddell

Dr Victoria Jenkins

Gwennan Evans

Hybu Cig Cymru

Keith Bush KC (hon)

Morgan Williams

Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

[1] Rhwydwaith o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth sy'n gweithio ledled Cymru yw Cyswllt Amgylchedd Cymru. Pan gyfarfuom â Chyswllt Amgylchedd Cymru, felly, cyfarfuom â rhai o'u haelodau, sy'n sefydliadau anllywodraethol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Afonydd Cymru ac Ail-wylltio Prydain.

Rhwydwaith Ffermio sy'n Gyfeillgar i Natur Cymru (“NFFN Cymru”)

Rhys Gowen

Safonau Masnach Cymru - Panel Iechyd a Lles Anifeiliaid

Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (“NFU Cymru”)

Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru (“NSA Cymru”)

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (“RSPCA”)

Yr Athrawes Ludivine Petetin

# Atodiad 3: Diffiniadau o “amaethyddiaeth”

### TABLE 1: DIFFINIADAU O AMAETHYDDIAETH MEWN DEDDFWRIAETH SYLFAENOL

| STATUD | DIFFINIAD | ENGHREIFFTIAU HEB FOD YN GYNHWYSFAWR O HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYFREITHIOL Y MAE'R DIFFINIAD YN EFFEITHIO ARNYNT |
|---|---|---|
| **Diffiniad 1** | | |
| Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, adran 51 | Mae amaethyddiaeth yn golygu:<br><br>(a) garddwriaeth;<br><br>(b) ffermio cnydau âr;<br><br>(c) ffermio gwartheg godro;<br><br>(d) cadw a bridio da byw;<br><br>(e) defnyddio tir fel tir pori;<br><br>(f) defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth;<br><br>(g) amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir;<br><br>(h) tyfu fel arall blanhigion i'w gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn;<br><br>(i) cynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer gweithgaredd a restrir ym mharagraffau (a) i (h). | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn y Ddeddf hon yn llywodraethu'r gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth ar eu cyfer o dan adran 8 Deddf 2023. Felly, mae'n effeithio ar bwy allai fod yn gymwys i gael cymorth gan Weinidogion Cymru. |
| **Diffiniad 2** | | |
| Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, adran 18 | Mae amaethyddiaeth yn cynnwys:<br><br>(a) ffermio gwartheg godro;<br><br>(b) cynhyrchu unrhyw gynnyrch traul at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth o dan adran 18 Deddf 2014 yn pennu pa weithwyr sy'n cael eu hystyried yn weithwyr amaethyddol ac, o ganlyniad, pa weithwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | ymgymeriad arall (pa un a wneir hynny er elw ai peidio);<br><br>(c) defnyddio tir fel porfa, dôl neu dir pori;<br><br>(d) defnyddio tir ar gyfer perllannau, tir helyg neu goetir; neu<br><br>(e) defnyddio tir ar gyfer gerddi marchnad neu feithrinfeydd planhigion. | sydd â hawl i'r isafswm cyflog amaethyddol. |
| **Diffiniad 3** | | |
| Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 109(3) | Mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio gwartheg godro a bridio a chadw da byw, defnyddio tir fel tir pori, dolydd, tir helyg, gerddi marchnad a meithrinfeydd planhigion, a defnyddio tir ar gyfer coetiroedd lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol i ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill, a bydd "amaethyddol" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny. | Mae sawl diben i'r diffiniad yn y Ddeddf hon. Er enghraifft, mae'n effeithio ar bwy sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau rheoli ystadau'n dda a hwsmonaeth dda (adrannau 10 ac 11). |
| Deddf Amaethyddiaeth 1957, adran 35(1) | Mae gan "Amaethyddiaeth" yr un ystyr ag yn Neddf Amaeth 1947. | Mae'r diffiniad yn effeithio ar y rheini a allai fod yn ddarostyngedig i brisiau gwarantedig a diogelwch cysylltiedig o dan y Ddeddf. |
| Deddf Amaethyddiaeth 1967, adran 75(2) | Caiff "Amaethyddiaeth", "tir amaethyddol", "uned amaethyddol" ac ymadroddion tebyg a chyfeiriadau at ffermio eu dehongli, ac eithrio mewn perthynas â'r Alban, yn unol ag adran 109 Deddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'n pennu'r rhai a allai fod yn gymwys i gael grantiau penodol. |
| Deddf Amaethyddiaeth 1970, adran 28 | Caiff "Amaethyddiaeth" ac ymadroddion tebyg eu dehongli, ac eithrio mewn perthynas â'r Alban, yn unol ag adran 109 Deddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn cyfrannu at gymhwysedd ar gyfer grantiau cyfalaf ffermydd o dan y Ddeddf. |
| Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, adran 7(5) | Ym mharagraff (e) yr is-adran hon mae gan "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol" yr un ystyron ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'r diffiniad yn diffinio'r rhai na fydd gorchmynion rheoli yn gymwys iddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979, adran 6(2) | Bydd adran 109 Deddf Amaethyddiaeth 1947 (dehongli) yn effeithiol at ddibenion y Ddeddf hon fel y mae'n effeithiol at ddibenion y Ddeddf honno ac eithrio y bydd y diffiniad o “dda byw” yn cael ei hepgor o is-adran (3). | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn pennu'r gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer i roi hysbysiad i gael gwybodaeth ar eu cyfer. |
| Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 96(1) | Mae “amaethyddiaeth” yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio gwartheg godro a bridio a chadw da byw, defnyddio tir fel tir pori, dolydd, tir helyg, gerddi marchnad a meithrinfeydd planhigion, a defnyddio tir ar gyfer coetiroedd lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol i ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill, a bydd “amaethyddol” yn cael ei ddehongli yn unol â hynny. | Mae'n penderfynu a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio at ddiben sy'n gymwys i'w ddiogelu fel daliad amaethyddol. |
| Deddf Amaethyddiaeth 1986, adrannau 1(6) a 17(2) | Yn yr adran hon, mae i -<br><br>Mae gan “amaethyddiaeth” yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'n pennu'r math o weithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth ar eu cyfer. Mae hefyd yn pennu'r gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar eu cyfer. |
| Deddf Tir Fferm a Datblygu Gwledig 1988, adran 1(5) | “amaethyddiaeth”-<br><br>mewn perthynas â Chymru a Lloegr, yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'r diffiniad yn pennu beth yw busnes amaethyddol at ddibenion bod yn gymwys i gael grantiau. |
| Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990, adran 79(7D) | At ddibenion is-adran (7C)<br><br>Mae gan “amaethyddol” yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 109 Deddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae’n eithrio tir amaethyddol rhag dod yn rhan o safleoedd diwydiannol, masnachol neu fusnes, a allai achosi niwsans statudol. |
| Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990, adran 152(5) | Yn yr adran hon-<br><br>(a) mae gan “amaethyddiaeth” a “tir amaethyddol”, mewn perthynas â Lloegr neu mewn perthynas â Chymru, yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i allu'r Gweinidog i reoleiddio er mwyn gwahardd neu gyfyngu ar losgi gweddillion cnydau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er ein bod yn deall bod y diffiniad o amaethyddiaeth yma yn cael yr un effaith â'r diffiniad yn adran 79(7D) eddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae geiriad y darpariaethau ychydig yn wahanol. Am y rheswm hwnnw, nid ydym wedi atgynhyrchu'r adran o'r un Ddeddf gyda'i gilydd mewn un rhes. |
| Deddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 221 | Mae gan "amaethyddiaeth" yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947 a dehonglir "amaethyddol" yn unol â hynny. | Mae'r diffiniad yn cyflawni sawl diben yn y Ddeddf hon. Mae'n cyfrannu at ystyriaethau mewn perthynas â llif lleiaf derbyniol (a 21), tynnu dŵr (a 39), cyhoeddi codau ymarfer amaethyddol da (a 97) a thaliadau draenio arbennig er budd amaethyddiaeth (a 137). |
| Deddf Amaethyddiaeth 1993, adrannau 50(9), 58(9) a 60(6) | Yn yr adran hon, mae gan -<br><br>"amaethyddiaeth"-<br><br>(a) mewn perthynas â Chymru a Lloegr, yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'r diffiniad yn effeithio ar y gweithgareddau sydd o fewn cwmpas i'r Gweinidog wneud darpariaeth ar gyfer grantiau i hwyluso marchnata. |
| Deddf Amaethyddiaeth 1993, adran 58(3) | Mae gan "amaethyddiaeth"-<br><br>(a) mewn perthynas â Chymru a Lloegr, yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947. | Mae'r diffiniad hwn yn effeithio ar gwmpas yr adroddiad y mae'n ofynnol i'r Gweinidog ei lunio. |
| Deddf Amaethyddiaeth 1993, adran 60(6) | Yn yr adran hon-<br><br>mae gan "amaethyddiaeth" yr un ystyr ag yn Neddf Amaethyddiaeth 1947 a dehonglir "amaethyddol" yn unol â hynny. | Mae hyn yn addasu adran 4 Deddf Trefniadaeth a Datblygiad Diwydiannol 1947.<br><br>Er ein bod yn deall bod y diffiniad o amaethyddiaeth yma yn cael yr un effaith ag yn adran 58(3) Deddf Amaethyddiaeth 1993, |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae geiriad y darpariaethau ychydig yn wahanol. Am y rheswm hwnnw, nid ydym wedi atgynhyrchu'r adrannau o'r un Ddeddf gyda'i gilydd mewn un rhes. |
| Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, adran 38 | Mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio gwartheg godro a bridio a chadw da byw, defnyddio tir fel tir pori, dolydd, tir helyg, gerddi marchnad a meithrinfeydd planhigion, a defnyddio tir ar gyfer coetiroedd lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol i ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill, a bydd "amaethyddol" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny. | Mae'n penderfynu a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio at ddiben sy'n gymwys i'w ddiogelu fel tenantiaeth busnes fferm. |
| Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1963, adran 22(a)(i) | At ddibenion amaethyddiaeth (o fewn ystyr Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995). | Mae'n effeithio ar p'un a allai rhywun fod yn gymwys i gael lwfansau ar ôl cael ei ddadleoli o dir amaethyddol. |
| **Diffiniad 4** | | |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 336 | Mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio gwartheg godro, bridio a chadw da byw (gan gynnwys unrhyw greadur a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwlân, crwyn neu ffwr, neu at ddibenion ei ddefnyddio i ffermio tir), defnyddio tir fel tir pori, dôl dir, tir helyg, gerddi marchnad a meithrinfeydd planhigion, a defnyddio tir ar gyfer coetiroedd lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol i ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill, a dehonglir "amaethyddol" yn unol â hynny. | Mae'r diffiniad yn cyflawni sawl diben yn y Ddeddf hon. Er enghraifft, yn adran 55, mae'r diffiniad yn eithrio'r gweithgareddau hynny yr ystyrir eu bod yn rhai amaethyddol rhag cynnwys datblygu tir. |
| Deddf Tir Amaethyddol (Symud Ymaith Bridd Arwyneb) 1952, adran 5(2) | Yn y Ddeddf hon, mae i'r ymadroddion "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol" yr un ystyron ag yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Mae'n pennu'r math o dir y mae'n drosedd symud pridd arwyneb ohono. |
| **Diffiniad 5** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976, adran 1(1) | Yn y Ddeddf hon—<br><br>(a) mae “amaethyddiaeth” yn cynnwys-<br><br>(i) ffermio gwartheg godro a chadw a bridio da byw (pa un a yw'r gweithgareddau hynny'n cynnwys defnyddio tir ai peidio);<br><br>(ii) cynhyrchu unrhyw gynnyrch traul sy'n cael ei dyfu i'w werthu neu i'w fwyta neu ei ddefnyddio at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw ymgymeriad arall (pa un a yw'n cael ei wneud er elw ai peidio);<br><br>(iii) defnyddio tir fel tir pori, dôl neu borfa, perllan neu diroedd helyg;<br><br>(iv) defnyddio tir ar gyfer gerddi marchnad neu feithrinfeydd planhigion; a<br><br>(v) choedwigaeth;<br><br>(b) mae "coedwigaeth" yn cynnwys-<br><br>(i) defnyddio tir fel meithrinfeydd ar gyfer coed, a<br><br>(ii) defnyddio tir ar gyfer coetiroedd lle mae'r defnydd hwnnw'n atodol i ddefnyddio tir at ddibenion amaethyddol eraill. | Mae'r diffiniad yn cyflawni sawl diben yn y Ddeddf hon. Er enghraifft, mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn bwysig ar gyfer penderfynu a oes gan unigolyn hawl i feddiannaeth warchodedig (a 2). |
| Deddf Tai 1988, Atodlen 3, paragraff 1(1) | Yn yr Atodlen hon-<br><br>ystyr "Deddf 1976" yw Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976;<br><br>Mae gan “amaethyddiaeth” yr un ystyr ag yn Neddf 1976. | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn chwarae rhan wrth benderfynu a yw unigolyn yn weithiwr amaethyddol. |
| **Diffiniad 6** | | |
| Deddf Tai 1985, adran 525 | Mae “amaethyddiaeth” yn cynnwys ffermio gwartheg godro a ffermio dofednod a defnyddio tir fel tir pori, dôl neu borfa, perllan neu goetir helyg, neu ar gyfer gerddi marchnad neu feithrinfeydd planhigion. | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn cyfrannu at ddiffinio ystyr poblogaeth amaethyddol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gweddill |

| | | |
|---|---|---|
| | | y Rhan (Rhan 15 Deddf Tai 1985) wedi cael ei diddymu felly nid ydym wedi gallu nodi enghraifft o'r hawliau neu'r rhwymedigaethau y mae'r diffiniad hwn yn effeithio arnynt. |
| **Diffiniad 7** | | |
| Deddf Cyflogau Amaethyddol 1948, adran 17 | Mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys ffermio gwartheg godro, cynhyrchu unrhyw gynnyrch traul sy'n cael ei dyfu i'w werthu neu i'w fwyta neu at ddefnydd arall at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw ymgymeriad arall (pa un a yw'n cael ei wneud er elw ai peidio), a defnyddio tir fel tir pori, dôl dir neu borfa, tir perllan neu goetir neu ar gyfer gerddi marchnad neu feithrinfeydd planhigion;<br><br>mae "cynhyrchion traul" yn golygu cynnyrch a dyfir i'w fwyta neu i'w ddefnyddio at ddibenion eraill ar ôl gwahanu'r cynnyrch oddi wrth y tir lle cafodd ei dyfu. | Mae'n cyflawni swyddogaeth debyg i'r un yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Hynny yw, mae'n pennu pa weithwyr sy'n cael eu hystyried yn weithwyr amaethyddol ac, o ganlyniad, pa weithwyr sydd â hawl i'r isafswm cyflog amaethyddol. |
| Deddf Rhenti 1977, Atodlen 15, paragraffau 17 a 18 | At ddibenion yr Achos hwn mae i "cyflogedig" ac "amaethyddiaeth" yr un ystyron ag yn Neddf Cyflogau Amaethyddol 1948 ac mae i gyfuno yr un ystyr ag yn Rhan II Deddf Amaethyddiaeth 1967. | Mae'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer dau baragraff o Atodlen 15 i Ddeddf Rhenti 1977 yn darparu enghreifftiau lle mae'n rhaid i lys orchymyn meddiannu pan fo tŷ annedd yn ddarostyngedig i denantiaeth reoledig mewn cyd-destun amaethyddol. |
| **Diffiniad 8** | | |
| Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1976, adran 4(5) | Yn yr adran hon, mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth a choedwigaeth. | Mae'r diffiniad hwn yn effeithio ar y cyrff neu'r personau hynny a allai fod yn gymwys i gael grantiau mewn cysylltiad â phrofion hyfedredd sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| **Diffiniad 9** | | |
| Deddf Amaethyddiaeth (Diogelwch, Iechyd, Darpariaethau Lles) 1956, adran 24(1) | Mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys ffermio gwartheg godro, cynhyrchu unrhyw gynnyrch traul sy'n cael ei dyfu i'w werthu neu i'w fwyta neu at ddefnydd arall at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw ymgymeriad arall (pa un a yw'n cael ei wneud er elw ai peidio), a defnyddio tir fel tir pori, dôl dir neu borfa, tir perllan neu goetir neu ar gyfer gerddi marchnad neu feithrinfeydd planhigion, a dehonglir "amaethyddol" yn unol â hynny. | Mae'n pennu a yw gweithiwr yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth ac felly a yw'r darpariaethau ynghylch cyfleusterau iechyd a diogelwch, glanweithdra ac ymolchi ar gael. |
| **Diffiniad 10** | | |
| Deddf Rhandiroedd 1922, adran 22. | Ni fydd yr ymadrodd "diben diwydiannol" yn cynnwys defnydd ar gyfer amaethyddiaeth neu chwaraeon, ac mae'r ymadrodd "amaethyddiaeth" yn cynnwys coedwigaeth, garddwriaeth, neu gadw a bridio da byw. | Mae'r diffiniad yn eithrio gweithgareddau amaethyddol rhag golygu diben diwydiannol sy'n effeithio ar denantiaethau gerddi rhandir. |
| **Diffiniad 11** | | |
| Deddf Mân-ddaliadau 1892, adran 20 | Bydd yr ymadrodd "amaethyddiaeth" a "trin tir" yn cynnwys garddwriaeth a defnyddio tir at unrhyw ddiben hwsmonaeth, gan gynnwys cadw neu fridio da byw, dofednod neu wenyn, a thyfu ffrwythau, llysiau ac ati. | Mae'r diffiniad yn effeithio ar amod sydd ynghlwm wrth fân-ddaliadau a werthir gan gyngor sir o dan y Ddeddf. |
| Deddf Mân-ddaliadau a Rhandiroedd 1908, adran 61(1) | Bydd yr ymadrodd "amaethyddiaeth" a "trin tir" yn cynnwys garddwriaeth a defnyddio tir at unrhyw ddiben hwsmonaeth, gan gynnwys cadw neu fridio da byw, dofednod neu wenyn, a thyfu ffrwythau, llysiau ac ati. | Gall y diffiniad effeithio ar gaffael tir yn orfodol ar gyfer rhandiroedd. |
| **Diffiniad 12** | | |
| Deddf Bwrdd Amaethyddiaeth 1889, adran 12 | Yn y Ddeddf hon—<br><br>Mae'r ymadrodd "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth. | Mae'r diffiniad yn effeithio ar gwmpas dyletswyddau'r Bwrdd Amaethyddiaeth. Er enghraifft, mae'n effeithio ar ba ystadegau y mae'n rhaid iddo eu casglu a'u paratoi. |
| **Diffiniad 13** | | |
| Deddf yr Amgylchedd | Mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, | Mae'r diffiniad o amaethyddiaeth yn |

| | | |
|---|---|---|
| Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, adran 88(4) | ffermio gwartheg godro a bridio a chadw da byw, a defnyddio tir fel tir pori, dolydd, tir helyg gwiail, gerddi marchnad a meithrinfeydd planhigion. | cyfrannu at benderfynu a ellir sefydlu corff o dan y Ddeddf hon. |

# Atodiad 4: Deddfau Amaethyddiaeth sydd wedi'u heithrio o'r darpar God

| DEDDF | Y RHESYMEG DROS EITHRIO O GWMPAS Y COD |
|---|---|
| **Deddf Credydau Amaethyddol 1928 ("Deddf 1928")** | Mae Deddf 1928 yn galluogi ffermwr i roi arwystl o blaid banc ar ei stoc ffermio ac unrhyw asedau amaethyddol (ac eithrio tir amaethyddol) fel math o sicrwydd. Mae adran 9 yn datgan bod rhaid cofrestru arwystl amaethyddol gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae cofrestru arwystlau amaethyddol o dan Ddeddf 1928 yn fater a gadwyd yn ôl.[2] O ganlyniad, credwn na fyddai'n ddymunol darnio darpariaethau Deddf 1928, drwy ailddatgan dim ond rhan o'r darpariaethau hynny yn y darpar God. |
| **Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1949 ("Deddf 1949")** | Mae adran 8 Deddf 1949 yn rhoi pŵer i Weinidogion y DU wneud darpariaeth ar gyfer cyrsiau neu raglenni hyfforddiant amaethyddol. Mae'r rhan fwyaf o Ddeddf 1949 wedi ei diddymu. Nid yw'n ymddangos bod y swyddogaethau hyn yn adran 8 wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Felly, rydym o'r farn bod Deddf 1949 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God. |
| **Deddf Amaethyddiaeth 1957 ("Deddf 1957")** | Roedd Deddf 1957 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau taliadau gwarantedig, gan warantu taliadau i ffermwyr ar gyfer cynnyrch amaethyddol penodol. Mae'r rhan fwyaf o Ddeddf 1957 wedi ei diddymu. Mae'r adrannau sy'n parhau mewn grym yn ymwneud â gweithredu cynlluniau taliadau gwarantedig (a elwir hefyd yn gynlluniau premiwm). Nid yw'n glir a oes unrhyw gynlluniau perthnasol yn dal ar waith. |
| **Deddf Amaethyddiaeth 1958 ("Deddf 1958")** | Mae Deddf 1958 yn darparu ar gyfer swyddogaethau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Am y rhesymau a nodir ym mharagraff 5.59 Pennod 5, rydym o'r farn bod Deddf 1958 yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God. |
| **Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1963 ("Deddf 1963")** | Mae Deddf 1963 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU dalu grantiau a lwfansau o dan amgylchiadau penodol. Nid yw'r swyddogaethau wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Felly, credwn nad oes angen cynnwys Deddf 1963 yn y darpar God. |
| **Deddf Amaethyddiaeth 1993 ("Deddf 1993")** | Mae Deddf 1993 yn darparu ar gyfer diddymu cynlluniau marchnata llaeth a chynlluniau marchnata tatws ac yn gwneud darpariaeth drosiannol gysylltiedig. Mae Deddf 1993 yn cyflawni diben am gyfnod penodol. O ganlyniad, rydym o'r farn bod y Ddeddf yn anaddas i'w chynnwys yn y darpar God. |

[2] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A.

# Atodiad 5: Deddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God

5.1 Mae Tablau 1 i 5 Pennod 11 yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth rydym yn credu sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru (“y darpar God”). Yn nhabl 4 Pennod 11, rydym yn darparu disgrifiadau bras ac enghreifftiau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid sydd, yn ein barn ni, yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Mae'r is-ddeddfwriaeth a gyflwynir yn yr atodiad hwn yn ategu'r enghreifftiau a ddarparwn yn nhabl 4 Pennod 11.

5.2 Gyda'i gilydd, mae'r ddeddfwriaeth a restrir yn nhablau 1 i 5 Pennod 11 a'r ddeddfwriaeth a nodir yn yr atodiad hwn, yn rhestr gynhwysfawr o ddeddfwriaeth rydym yn nodi ei bod yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru.

### IS-DDEDDFWRIAETH SY’N YMWNEUD AG IECHYD ANIFEILIAID SY'N ADDAS I'W CHYNNWYS YN Y DARPAR GOD CYFRAITH AMAETHYDDOL I GYMRU

| IS-DDEDDFAU SY'N YMWNEUD AG IECHYD ANIFEILIAID FEL Y'U DEDDFWYD DAN DDEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981 | |
|---|---|
| **Is-ddeddf** | **Crynodeb** |
| Gorchymyn Clefyd Aujeszky 1983 | Mae clefyd Aujeszky yn effeithio ar anifeiliaid fel moch, gwartheg a defaid. Ymhlith materion eraill, mae'r gorchymyn hwn yn gwneud darpariaethau ar gyfer lladd anifeiliaid heintiedig ac ar gyfer datgan bod man yn ardal heintiedig. |
| Gorchymyn Milheintiau 1988 | Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod enseffalopathi sbyngffurf buchol yn glefyd sy'n peri risg i iechyd pobl (gweler adran 29 Deddf 1981). Mae hyn yn caniatáu i ddarpariaethau penodol yn Neddf 1981 fod yn gymwys i'r clefyd hwn. |
| Gorchymyn Milheintiau 1989 | Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu mai clefydau penodol sy'n effeithio ar anifeiliaid yw'r rhai sy'n peri risg i iechyd pobl (gweler adran 29 Deddf 1981). Mae hyn yn caniatáu i ddarpariaethau penodol yn Neddf 1981 fod yn gymwys i'r clefydau hynny. |
| Gorchymyn Dofednod (Atafaelu Wyau Deor) 1990 | Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwaredu wyau deor er mwyn atal salmonela rhag lledaenu. |
| Gorchymyn Anthracs 1991 | Mae'r Gorchymyn hwn yn ymestyn y diffiniad o "glefyd" yn Neddf 1981 i gynnwys anthracs. Mae hefyd yn darparu ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer gweithdrefnau mewn perthynas ag achosion tybiedig o'r clefyd. |
| Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu a Lladd) 1992 | Mae'r gorchymyn hwn yn ymestyn y rhestr o glefydau y mae'n rhaid eu hysbysu dan Ddeddf 1981. |
| Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Atafaelu) 1993 | Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y pwerau i'w gwneud yn ofynnol i ladd o dan adran 31 Deddf 1981 yn gymwys i glefydau a restrir yn erthygl 2 y Gorchymyn. |
| Gorchymyn Clefydau Penodedig (Hysbysu) 1996 | Mae'r gorchymyn hwn yn ymestyn y diffiniad o glefyd yn Neddf 1981 i gynnwys clefydau a restrir yn atodlen 1 i'r gorchymyn. |
| Gorchymyn y Clafr 1997 | Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch symud defaid y mae'r clafr yn effeithio arnynt. |
| Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cymru a Lloegr) 2003 | Mae'r gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer profi am ffliw adar a chlefyd Newcastle (clefydau sy'n effeithio ar adar megis dofednod). Mae hefyd yn darparu ar gyfer lladd anifeiliaid sydd wedi'u brechu y mae clefydau o'r fath yn effeithio arnynt. |
| Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 | Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli symud da byw fel modd o atal a rheoli ymlediad clefydau anifeiliaid. |
| Gorchymyn Ffliw Adar a Chlefyd Newcastle (Cynllunio Wrth Gefn) (Cymru) 2005 | Mae'r gorchymyn hwn yn darparu bod y gofynion yn adran 14A Deddf 1981 (paratoi cynlluniau wrth gefn cenedlaethol at ddibenion ymdrin ag achosion o glefyd) yn gymwys i ffliw adar a chlefyd Newcastle. |
| Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Pennu Gwerth) (Cymru) (Rhif 5) 2001 | Mae'r gorchymyn hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer prisio anifeiliaid a laddwyd neu sy'n debygol o gael eu difa o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau. |
| Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006 | Mae'r gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer profi llaeth am dystiolaeth o frwselosis. Mae brwselosis yn fath o haint bacterol sy'n effeithio ar anifeiliaid fel gwartheg, ond y gall pobl ei ddal drwy yfed llaeth a chaws heb ei basteureiddio. |
| Gorchymyn Lewcosis Ensootig Buchol (Cymru) 2006 | Mae'r gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer profi llaeth am dystiolaeth o lewcosis ensootig buchol (clefyd sy'n effeithio ar wartheg). |

| | |
|---|---|
| Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 | Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer mesurau sy'n gymwys o dan amgylchiadau pan fo achos o ffliw adar. |
| Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007 | Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu iawndal mewn perthynas ag anifail yr effeithiwyd arno gan y tafod glas a laddwyd drwy arfer y pwerau y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf 1981. |
| Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Dofednod (Cymru) 2008 | Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestru deorfeydd, heidiau bridio a heidiau dodwy o adar o rywogaethau penodol gan gynnwys dofednod, tyrcwn, hwyaid a gwyddau, ac yn gosod gofynion cadw cofnodion. |
| Gorchymyn Twbercwlosis (Profi a Phwerau Mynediad) (Cymru) 2008 | Mae'r gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trefn o brofi am dystiolaeth o dwbercwlosis (clefyd milheintiol a all effeithio ar anifeiliaid megis gwartheg). |
| Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010 | Mae'r gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer profi heidiau o dyrcwn am salmonela. |
| Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010 | Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaethau ar gyfer atal neu gyfyngu ar ymlediad clefydau anifeiliaid yng nghyd-destun crynoadau anifeiliaid. Ystyr crynoadau anifeiliaid yw pan fydd anifeiliaid (da byw yn bennaf) yn dod at ei gilydd i gael eu gwerthu. |
| Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 | Ymhlith materion eraill mae'r gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer profi am dwbercwlosis ac ar gyfer symud a lladd anifeiliaid heintiedig. |
| Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010 | Mae'r gorchymyn hwn yn gweithredu darpariaethau ar gyfer adnabod compartmentau dofednod sy'n bodloni safonau uchel o ran bioddiogelwch. |
| Gorchymyn Dolur Rhydd Feirysol Buchol (Cymru) 2024 | Mae'r gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer rheoli Dolur Rhydd Feirysol Buchol yng Nghymru a'i ddileu. |
| **IS-DDEDDFAU ERAILL SY'N YMWNEUD AG IECHYD ANIFEILIAID (CYFREITHIAU A GYMATHWYD)** | |
| **Is-ddeddf** | **Crynodeb** |
| Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006 | Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer rhaglen frechu rhag clwy'r traed a'r genau. |

| | |
|---|---|
| Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) (Rhif 2) 2006 | Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer sefydlu parthau brechu sydd â'r nod o leihau ymlediad ffliw adar. |
| Rheoliadau Clefydau Anifeiliaid o Deulu'r Mochyn 2014 | Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer hysbysu am glefydau penodol sy'n effeithio ar foch (er enghraifft, clwy clasurol y moch) ac ar gyfer mesurau sydd wedi'u hanelu at atal a rheoli ymlediad clefydau o'r fath. |
| Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 | Mae'r rheoliadau'n darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (grŵp o glefydau angheuol sy'n effeithio ar bobl ac anifeiliaid fel gwartheg). Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y DU (CE) Rhif 999/2001 sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol. |